3 1761 03929 1752



Bookcase H
Shelf 4

SELECTIONS

FROM

THE HENGWRT MSS.

PRESERVED IN THE PENIARTH LIBRARY.

VOL. II.

CONTAINING CAMPEU CHARLYMAEN, PURDAN PADRIC, BUCHEDD MEIR WYRY, EVENGYL NICODEMUS, Y GROGLITH, BREUDDWYT PAWL, SEITH DOETHION RUVEIN, IPOTIS YSPRYTAWL, LUCIDARIUS, YMBORTH YR ENEIT, ETC., ETC.

Edited, with a Translation,

BY THE LATE REV. ROBERT WILLIAMS,

RECTOR OF CULMINGTON, CANON OF ST ASAPH,

AND THE TRANSLATION CONTINUED BY THE

REV. G. HARTWELL JONES, M.A.,

PROFESSOR OF LATIN, UNIVERSITY COLLEGE, CARDIFF.

LONDON:

BERNARD QUARITCH,

15 PICCADILLY, W.

1892.

QL
795
W5
V.2

PRINTED BY CHAS. J. CLARK,
4, LINCOLN'S INN FIELDS, W.C.

PREFACE.

The publication of the translation from the middle of the eighth chapter of Purdan Padric onwards, for which alone I am responsible, has been delayed owing to the serious difficulties encountered in its execution.

The text being in many places incomplete or inaccurate, especially in the earlier part, it was found necessary to collate Canon Williams' transcript with the manuscripts, which I was enabled to do hurriedly by the courtesy of W. R. M. Wynne, Esq., of Peniarth, or with other versions at the Bodleian and elsewhere, some of which I saw after the sheets had been printed off. By consulting the originals, from which these were translated in the first instance, most of them in Latin, I have succeeded in conjecturing the first readings or tracing the growth of the mischief. These documents, written in various languages, I have discovered in English libraries or abroad, while engaged in other kinds of research. Still, many passages remain doubtful. Pages 453-6 inclusive, which were left unfinished by the late Canon Williams, have been collated with and corrected against the original MSS. by Mr. Egerton Phillimore.

A few notes have been added, but they deal with

a few points only, since I have in my work chiefly followed Canon Williams in consulting rather the interests of the general reader than those versed in Old-Welsh, who will easily see why I have adopted a particular version, or how I have supplied *lacunæ*.

The short accounts that precede them, indicating sources of information simply, with no pretence to being bibliographies, may prove useful to anyone who cares to investigate the history and variation of the tracts or legends.

It remains for me to thank Canon Silvan Evans, Egerton Phillimore, Esq., and Prof. Powel, in particular, for the assistance they have kindly rendered.

G. H. J.

University College, Cardiff.
June 10, 1892.

CAMPEU CHARLYMAEN.

1.—Pan yttoed charlys yggwylua y sulgwyn yn seint dynys. yn gwiscaw coron y vrenhinyaeth am y benn : ac yn gwiscaw cledyf y teyrnas am y ystlys ar warthaf y gwiscoed mawrweirthawc. ar berson brenhinawl ar ansawd vrenhineid. a deckeynt. ac a hoffynt yr adurn odieithyr. Ac ar hynny y brenhin arderchawc a dywat wrth y wreic. yr honn y credei ef rybuchaw ohonei. a damunaw idaw y vot ymlaen neb ynyr ansawd honno. vygkarrediccaf. heb ef. aweleist. neu a glyweisti neb un derchauedic ar lywodraeth teyrnas mor wedus cledyf ar y ystlys ar meu i. kynn vonedigeidet y damgylchyno coron ygkylch y benn ar meu i. A hitheu gan edrych yny chylch a attebawd ynryvuan gan deuawt gwreigawl. na weleis arglwyd. heb hi. Minheu agigleu bot un. pei as gwelut ti euo yn adurnn brenhinawl. y gorffywyssei dy holl vocsach di herwyd hofftter y berson. Y voned ynteu a gyfadeuynt ragori rac dy teu di. Ar atteb annosparthus hwnnw a gyffroes y brenhin ar lit ac irlloned. ac yn bennaf oll. o vot y sawl gwyrda aoed yny gylch yn gwarandaw yr ymadrawd. Reit yw ytti. heb ef. menegi y mi y brenhin. kymeint y arderchogrwyd ae voned ar hwnn adywedeisti. A nynheu agyrchwn parth ac attaw ef. val y bernych di am gwyrda inheu. gwedy an gwelwch gyuarystlys yn adurn brenhinawl. pwy wedussaf ohonam. Ac ny byd diboen iti o dywedeisti ev. namyn or vuanhaf agheu y gyt ath gelwyd ytheruynnir. Ofynhau aoruc y vrenhines. pan welas y brenhin yn kyffroi ar lit. a cheissaw teckau y hatteb ynvyt yn rywyr. Nyt gwedus. heb hi. y beth ysgawn ysgaelus. ac anheilwg o volest. kyffroi gwr prud bonhedic. Ac yn bennaf oll pryt na rygerdo

nac o dryc ewyllys. nac o brudder hynny. namyn o gellweir caryat. ac o chware. yr hwnn a gyrbwylleis heuyt. heb hi. nas canmoleis i evo. oe vot yndewrach no thydi. namyn oe vot gyfoethogach. ac yn vwy y niueroed nor teu di a dyelleis i. A gwedy yr ymadrodyon hynny y vrenhines a dygwydwys ar tal y deulin rac bronn y brenhin y erchi trugared. A chynnic y llw ygan y veint a vynnei o reith. pan yw or ware. a chellweir y dywedassei kymeint ac adywat. ac nat yr kywilyd na gwaradwyd. Ar nyt arbetto idaw ehun. heb y brenhin. namyn trwy gelwyd llad y eneit. nyt teilwg y hwnnw caffel trugared. Reit yw yti. heb ef. menegi ymi y brenhin adywedeist. Pa ffuryf heb hi. y gellir manac ar vrenhin ny aller caffel y gyfryw. Ac yna y tygwys y brenhin y goron y teyrnas. wedy y irllonhaw ohonaw dieithyr mod. onyt enwei y brenhin a rygyrbwyllassei. y lledit y phen a chledyf yn diannot. A phan gigleu y vrenhines llw y brenhin. y gwybu vot yn dir idi enwi y brenhin rygyrbwyllassei. yr hwnn aoed dewisach genti pei rydawssei ymdanaw. O vrenhin enrydedus. heb hi. dyro di ymi nawd a channyat y dywedut. Hu gadarn yr hwnn yssyd yn llywyaw amherodraeth corstinobyl a dyelleis i. yr hwnn a giglefi bot yngymeint y gyuoeth ac olut. ac nat oes neb a allo nae wybot nae gyfrif. eithyr duw ehun. yr hwnn awyr kyfrif y syr. a thywawt y weilgi. yr hwnn a giglef bot yn gynn amlet y wyrda. ac yn wychet. ac nat oes gwyr brenhin eithyr rei teu di. a allo yngyffelybu udunt. Yr. hwnn a giglefi y vot yn gymryt a bot yn didan ac yn digrif gan aedrycho arnaw atal eu golwc arnaw. Os gwir rydywedeisti. heb y brenhin. ti a geffy vadeueint am dy ymadrawd. Os geu ynteu. megys y gweda y euawc. yndiannot yth lebydiir. A hyt nat annotter gobyr dy gewilyd it. nyt anuodaf inheu mynet y wybot yr hu hwnnw.

II.—Gwedy llewenyd y wled a gwiscaw coron y deyrnas yn seint dynys. ac ymchoelut y brenhin y paris. eisted aoruc yn y neuad vrenhinawl. ac wyrda yn y gylch. y rei bonhediccaf yn nessaf idaw. ac a vei lei eu

boned yn bellach y wrthaw. Yno yd oedynt yn gyndrychawl. y deudec gogyuurd. nyt amgen turpin archescob. rolond nei y brenhin. oliuer y getymdeith. gwallter o orreins. naimys gadarn a gwychyr. oger o denmarc. gereint. gerrard. brengar. bertram llaw gadarn. bernard iarll evrard dygirwyd. a llawer o wyrda. a marchogyon ereill. y rei a hanoed eu boned. ac eu rieni o dayar ffreinc. yny veint vydin mor vonhedic a honno. Yd oed y brenhin wedy rygyflehau yny kymherued. a phawb yn barawt y warandaw. a gostec da. y dywat y brenhin wrthunt. Om ffydlonyon i. y rei rybroueis i. eu gwychter. ac eu molyant y gyniuer gweith. y mae hynt gryno yn ych gwahawd chwi ygyt a mi yr awr honn. nyt amgen. y pererindawt dayar caerusalem. yny lle yn prynnwyt ni o waet yn harglwyd. a gwedy y bererindawt y reig bot ym ymwybot a hu vrenhin. yr hwnn a goffa y vrenhines y ragor ragofi. A gwedy yr ymadrawd brenhinawl. a theruynnu y cwnsli. y gwyrda a ymparotoyssant y eu hynt gyt ar brenhin. a rei aoed digawn meint eu gallnoed or eidunt ehunein. brenhinawl chalaethder ac eu gwnaeth yn vwy eu gallu. Ef a rodes udunt llurygeu. a chledyfeu a helymeu. a phob kyfryw arueu. or a vei reit y wasanaeth marchogyon. Ac nyt reit yni na gohir na llauur y ganmawl y rodyon. pan allo y rodyon ymdangos yn amlwc o helaethder y rodawdyr. Eur. ac aryant a chwanegwys y racdywededigyon rodyon hynny. A phwy bynnac a vynno gwybot meint hynny. ef a digawn ehun adnabot eu bot yn ehalaeth yny medylyho. ac yd edrycho mawredigrwyd eu rodawdyr. A gwedy kymryt arwyd y groc ar eu hysgwydeu. y brenhin ac wyrda a gymmerassant hynt. parth a dayar caerusalem. ar vrenhines ynteu o gyffredin gyghor y gwyrda a edewit ymparis. yn boenedic o vryt a dolur. a thristit.

III.—A gwedy eu kerdet odieithyr y dinas. wynt a gyrchassant gwastatrwyd ehalaeth. ac amhyl. ar maestir hwnnw a gyuodes yn dwst ac yn blwr. gan amylder y meirch. ac yn eu kynhwryf yny oed y dwst yn kyuodi uch y penneu yn wybyr. ac yn tywyllwch y gudyaw y

rygtunt ar awyr. ac a pheleidyr yr heul. ac yn awr hanner dyd ymgyffylybu gan ogyuadau y nos yn eu hol yn diannot. Amylder a riuedi y niuer hwnnw a adawn ni val peth anneiryf. pan vei petwarugein mil o tywyssogyon. pwy eithyr duw holl gyuoethawc. a allei riuedi y niuer. ac eu canlynei hwynteu. Ac yna y kilywys y brenhin ychydic ywrth y wyrda. a galw attaw bertram iarll. a dywedut wrthaw val hyn. Digrif yw gennyfi. heb ef. gwelet amylder y niuer bonhedic hwnn. nyt mwy o genedyl nac o weithredoed. a pha deyrnas a allei y gallu ymgyffylybu a theyrnnas ffreinc. Neu pwy or brenhined a ellit y varnu yn gyfoethach. nor hwnn a vei arglwyd ar y sawl gyuoethogyon hynn. edrych y veint ar sawl vilyoed a raculaena yny vydin gyntaf. a thewet y bydinoed yn eu hol hwynteu. A gwedy hynny o ymadrodyon. ef a ymhoeles y brenhin bonhedic ar y niuer. ac eu hannoc y gerdet. mal y gellynt gwplau eu llauur. a chymessuraw diwarnodeu. ac eu hymdeitheu. val y gellynt perffeithaw eu hynt. Adaw ffreinc aorugant. a bwrgwin. ar almaen. a groec. a hwngri. Ny bu yn hynny. nac a veidyei nac a allei eu llesteiraw. Ac ual na bo hwy na blinach yr ymadrawd. noc y bu yr hynt udunt hwynteu. hwynt a doethant yr dinas kyssegredic. a gwedy gwneuthur offrymeu dylyedus. a gwassanaeth duw yn gyntaf. herwyd gorchymun yr euengyl. yn herwyd dylyedus wassanaeth. ac urdas. odyna wynt a gymerassant eu llettyeu. ac eu gwledeu. ac eu hanregyon. ac eu gwirodeu. y bawp onadunt herwyd eu hanryded.

IV.—Pan dyuu y bore trannoeth. y brenhin ac wyrda a gyrchassant mynyd oliuet. ac yna y doethant yr eglwys. yn yr honn y credir rydywedut or arglwyd. ae deudec ebestyl. y pader yn gyntaf. ac yno y dywedir bot y deudec cadeir yn eisteduaeu yr deudec ebestyl. pan dywat yr arglwyd y pader. ar tryded eistedua ardec ygkymherued y rei hynny. yr honn a gredir y bot yn eistedua yr arglwyd. At y creireu kyssegredic y nessawys y brenhin bonhedic yn llawen. ac y gorffwyssswys ychydic. gan y eisted yn y gadeir

gymheruedaf. ar deudec gogyuurd o ffreinc a eistedassant yny cadeireu ereill. yghylch eu brenhin. Ac ar hynny nachaf idew. rydoethoed o bell yn eu hol. a doeth yr eglwys. a phan welas ef y brenhin ar tywyssogyon yn y gylch. ymgynnull aoruc yn diruawr ofyn a sythu. a chilyaw or eglwys. a chyrchu kyndrycholder y padriarch. ac adolwyn idaw y vedydyaw yn diannot. a dywedut aoruc. rywelet ohonaw yr arglwyd. ae deudec ebestyl yn eisted yny gylch yn yr eglwys a dywetpwyt uchot. Ac wedy bedydyaw yr idew. a galw kynnullcitua y dinas. y vynet y brocessiwn parth ar eglwys a dywetpwyt. wynt agerdassant parth ac yno. dan ganu ympneu. a chywydolyaetheu. A phan welas charlys y vydin honno yn dyuot yr eglwys. ar padriarch herwyd y urdas yn ol y dwybleit. yr hwnn a vanagei y padriarchawl abit y vot yn padriarch. kyuodi ef ae wyrda aorugant yny erbyn ef. a dinoethi eu penneu. ac yn uvud darestygedic erchi y vendith. a chymryt y ganthaw euegyl tagneued. A ryuedu aoruc y padriarch mawredigrwyd y gwr. a gouyn idaw pwy oed. ac o ba le pan dathoed. a pha du yd aei ar niuer hwnnw. Charlys heb ef wyfi. yn ffreinc ym ganet. llywyawdyr y wlat honno wyf inheu. agwedy yd adolwyf ved yr arglwyd. darpar yw gennyf vynet y gyndrycholder Hu vrenhin corstinobyl. a gigleu gorhoffter a ragor clot idaw rac ereill. yr hwnn onyt cristyawn a darestyghafi ef y gristonogawl ffyd. val y deelleis. ac yd ystygheis hyt hynn deudec brenhin anffydlawn. Ac adnabot aoruc y padriarch yny gyndrycholder anryded y brenhin. yr hwnn a racatwaenat o glybot y glod. a dywedut wrthaw val hynn. Gwynvededic vrenhin wyt. a mawrhydic dy weithredoed. a mawrhydic dy aruaeth. val hynny y gwledychir. val hynny y deuir ar y deyrnas ny diffyc vyth. A diamheu bot yn teilwg y kyfryw vrenhin athydi. eisted ymywn y gadeir arglwydiawl honno. ac nyt eistedwys yndi hi dyn eiroet eithyr tidi. namyn o bell y hadoli. Ac wrth hynny yd achwanneckeir dy enw di weithon. canys gobrynneist o vawredigrwyd dy weithredoed. ac yth elwir charlymaen weithon o hynn

allan. A chymryt yr ychwannec enw hwnnw a oruc yn llawen. a diolwch yr padriarch hynny. ac estwg y ben ac erchi idaw ychydic kyfran o greireu caerusalem. Nyt ychydic. heb y padriarch. a geffy di. namyn kyfran chalaeth val y gellych enrydedu ffreinc. y wlat awdam ni y bot yn teilwg oe anrydedu. Ac yna y rodes ef idaw ef breich seint symeon. aphen seint lazar. a ran o waet ystyphan verthyr. a baryf peder ebostol. ac amdo iessu grist. ae gyllell. ae garegyl. ac un or kethri a bwywyt yndaw ar y groc. ar goron drein. a pheth o laeth bronneu meir. ac chrys. ac esgit idi. a diolwch yn vawr aoruc charlymaen yr padriarch. val y mae blin eu datkanu. rac mawrweirthocket y rod. Ac yny lle yd ymdangosses gwyrth y creireu. nyt amgen. dyuot crupyl dan parllafonec ny rygerdassei seith mlyned kynno hynny attunt. ac yn diannot caffel y bedestric. Ac y ducpwyt yna y crefftwyr kywreinhaf. or a gaffat. y wneuthur llestri odidawc urdasseid o eur ac aryant. y arwein y creireu hynny yn anrydedus yndunt. A gwedy y caeu yn dichleis y gorchymynnwys y brenhin y catwadaeth y turpin archescop. Ac yna y bu y brenhin petwar mis. ac y dechreuis gwneuthur eglwys ar y gost chun. ac yd edewis dogyn o gost oe chwplau. A phan gychwynnwys ymeith odyno. bendith y padriarch ae gannyat a gymerth drwy rat duw. ac adaw idaw o delei oc wlat. pan vei gyffwrw idaw. yd aey yr yspaen y ymlad ar pagannyeit. Ar gouunet hwnnw a gwplaawd charlymaen yn arderchawc. pan gymerth rolond ar deudec gogyuurd ynglyn mieri fuched dragywyd dros nuched amserawl.

V.—Ac yna y menegys charlymaen oe lu. bot eu hynt parth ac at hu y corstinobyl. A llawenhau a oruc pawb onadunt yr hynt honno. a chychwyn aorugant. Ar padriarch agerdawd ygyt ac wy y dyd hwnnw. ac a drigyawd ygyt ac ef y nos honno. a thrannoeth y bore y gwahannwys y padriarch ac ef. trwy adaw idaw y vendith. ac euegyl tagneued. Y brenhin ae lu aebrwydassant eu hynt. ac a doethant yn agos y gorstinobyl. val y gwelynt y keyryd ar kestyll. ar muroed. ar neuadeu. ar

llyssoed. ar eglwysseu uchel arbennic. ar clodyeu urdasseid yrygtunt ar dinas. Wy a welynt. ac a dywanassant ar weirglawd diruawr y meint. a digrifwch edrych arnei o amryual vlodeuoed. a llysseuoed a gwascawdwyd. wedy ryblannu yndi yn urdasseid. a gwyd yn meithrin llonydwch. a yechyt drwy arogleu. ac eu harogleuei. gwedy eu hardhau ac eu teckau yny chylch o gylch. y plannwyd hydwf odidawc trwy dechymyc kywreinrwyd. Yno yd oedynt o vonedigyon kyfrwg rif teir mil. yn gynhardet o wisgoed mawrweirthawc. val kyt bei brenhin pob un onadunt. neu deyrn dylyedawc. Rei onadunt yn gware seceyr. eraill yn gware gwydbwyll. Ereill yn arwein gweilch. a hebogeu ar eu dwylaw. Ereill yn ymdidan a morynyon ieueinc bonedigeid o verchet teyrned. a diruawr riuedi yno onadunt. Ar veint vonedigeidrwyd honno a ryuedawd charlymaen yn vawr. a galw attaw un or gwyrda aoruc. a gouyn idaw pa le y gallei ef ymgaffel y ymdidan ar brenhin aoed arglwyd ar niuer bonedigeid hwnnw. Kerdwch heb ef ragoch. yny weloch lenn o bali. wedy rydynnu ar pedwar piler o eur. ac y dan y llenn honno y mae y brenhin a ovynny di yn eredyc. ar llenn yny diffryt rac gwres yr heul.

VI.—A bryssyaw a oruc y brenhin yr lle y managassei y marchawc idaw. ac yno y cauas hu vrenhin yn llauuryaw eredyc yn vonedigeid. Amryued oed yr aradyr. eur oed y swch ar cwlltwr. mein rinwedawl mawrweirthawc oed yr ieuawr. Ac nyt ar y draet yd ymlynei y brenhin yr ychen. namyn oe eisted ymywn kadeir o eur. a deu vul gadarn yn y harwein o bop tu idi yn difleis didramgwyd. Ac wrth y gadeir adanei yd oed meinc o aryant ygkynhael traet y brenhin. menic hardwedus am y dwylaw. a ractal eur am y ben oe diffryt rac tragwres yr heul. Llenn o bali uch y benn wedy rydynnu ar petwar piler o eur. aoedynt ar pedeir bann y gadeir. yny law. yn lle iren y gymell yr ychen y eredic. ydoed wialen eur. kynn vuanet y tynhei y kwysseu. a chynn tecket. a llinyeu a tynnit wrth lywyawdyr gyfyawn. Ac nyt yr bot yn reit yr brenhin

y credyc. namyn cof oed gantaw y hanuod o etiued y gwr y dywetpwyt wrthaw. pany gyrrwyt o baradwys. Yn chwys a llauur dy gorff. a gnif dy gallon. bit dy ymborth. Adaf oed hwnnw. Ac val y doeth charlymaen yn deissyuyt at y brenhin. kyfarch gwell aoruc pob un onadunt y gilyd. ac y gouynnwys hu idaw pwy oed. ac o ba le pan dathoed. a pha achaws oed y dyuodyat. a phy du y tynnei y llu mawr hwnnw. Charlymaen heb ef wyfi. ac o ffreinc pan wyf. a brenhin y lle hwnnw wyf. a rolond vy nei. i. yw hwnn. y gwas jeuanc clotuorussaf. Mi a diolchaf y duw. heb yr hu. gwelet o honafi yn gyndrychawl y brenhin a giglef lawer o weithredoed y glot. ae volyant. gan adelei o ffreinc. Ami adolygaf y chwi trigyaw ygyt a mi vlwydyn. val y gallom yn hynny o ysbeit ymgytymeithassu ac ymadnabot. ac ymrwymaw ymywn getymdeithas. A phan eloch y wrthyfi. mi aagoraf vy eur dei ywch. y dwyn genwch ych gwlat a alloch y gychwyn o eur. Ac yr awr honn och achaws chwi mi a ollygaf yr ychen. ac a teruynnaf y gweith kynn y amser.

VII.—Ac yna gollwg yr ychen aoruc hu. ac ysgynnu ar vul hard uchel esmwyth tec gwastatvalch hydwf. a chyweirdeb brenhinawl arnaw. ac y ymdaat a wedei y bop brenhin. Ac ar gam chalaeth ef a gerdawd gyt ae westei hyt y llys. a brenhin hu a anuones or blaen y rybudyaw yvrenhines ac y gyweiraw y neuad vrenhinawl or adurn teckaf a balchaf or a ellit. Ac yna y doethant y mywn wynt. ac eu niuer. a disgynnu o vywn yr kwrt. ar pauiment oed oll o marmor. ar gradeu heuyt aoedynt or un ryw defnyd. Ac yna y disgynassant yr neuad vrenhinawl yn yr honn yd oed anneiryf lluossogrwyd o wyrda yn gware seccyr. a gwydbwyll. ac amryuaelon chwaryeu ereill. A niuer mawr a doeth yn erbyn charlymaen. ac dylwyth. y gyfarch gwell idaw yn anrydedus. ac y peri kymryt eu meirch. ac eu ystablu. Odidawc ac anryued vu gan vrenhin ffreinc ae wyrda ansawd y neuad. Yn y llawr yn ysgythredic yd oed delweu yr holl aniueileit gwyllt. a dof. yny kynted. Yn y penn issaf is y kynted yd oed delw y mor yn

yscriuennedic a phob ryw creadur pysc. or a vacker yny mor. Yny ystlyseu y neuad ydoed delw yr wybyr. a phob ryw ederyn a ehedei yndaw. val kyt bei awyr. Penn y neuad a oed yn ffuryf a drych y ffuruauen. ar heul. ar lloer. ar syr. ar syggneu. yn ossodedic yny furuauen. yny oed yn dywynygu ympenn y neuad. herwyd amryuaelon amseroed. Kwmpas oed yny neuad. a diruawr golofyn y meint ar weith piler yny perued. a gortho o eur didlawt cadarn yny gylch. a chywreint ysgwthyr yny teckau o diruawr ethrylith cann piler o varmor gwedus. cwmpas oed yny gylch yn gynn bellet o vessur y wrth y piler perued. val y dygei y cwmpas mawr yr ystlysseu y wrthunt hwynteu. Ac wrth pob piler or cant delw gwr o euyd gwedy rydineu o gywreinrwyd ethrilythus. a chorn yn llaw pob un onadunt yny dala yn gyuagos oe eneu. val y tebygei pawb or ae gwelei eu bot yn barawt y ganu eu kyrn.

VIII.—Ac yna gyntaf y duc y brenhin ar gof ymadrawd y vrenhines. ac yn y vedwl yd oed bot yn vadeuedic idi a dywedassei. am y geffylybu ef a hu gadarn. A thra yttoed charlymaen ae niuer yn ryuedu gweith y neuad. nachaf y wrth y mor a oed ysgwthyr yny penn issaf yr neuad gwynt deissyuyt yn dyuot ar von rot melin. ac yn troi y neuad yn gyflym ar yr un piler. val y troes rot y velin ar y werthyt. Ac yna y dechreuawd y delweu aoed ar y pilereu canu eu kyrn. yn un ffunyt a chyt bei ysbryt buchedawl yndunt. yn eu kymell y ganu. a chymrawu aoruc charlymaen am y damwein deissyuyt hwnnw. a heb allu sefyll yn y kynhwryf hwnnw. namyn eisted ar y pauiment oe anuod aoruc yny kyffro troedic hwnnw. ac aoed oe wyrda yn keissaw ymgynnal yn eu sefyll. a gwympynt ar lawr y neuad. yny vu da gantunt kudyaw eu penneu. ac eu llygeit. rac aryneic edrych ar vuander y droua honno. A hu yn eu ehofni. ac yn erchi udunt na bei hir gantunt yny orffwyssei y kynnhwryf hwnnw. A phan nessawys awr osper. y peidwys y gwynt. ac y tewis y kyrn. ac y gorffwysswys kyffro y neuad. Yna y kyuodes charlymaen ac y niuer y vynyd. a phan oed barawt pob

peth y kudywyt y byrdeu. oc eu llieineu. a daruot ymolchi. brenhin ffreinc aeth or neilltu yr neuad. ae niuer o bop tu idaw. val y dewissei eu hanryded. Or tu arall yr neuad yd oed hu ac niuer ynteu. ar vrenhines yn nessaf idaw. ac ynessaf y hitheu y merch. yr honn ny ellit y cheffylybu y neb o bryt a thegwch yny hoetran. Oliuer a dodes y olwc arnei. ac yn diannot ymfflymychu oe charyat. a damunaw yny vryt ae vedwl y bot ygyt ac ef yn ffreinc. val y gallei gwneuthur y damunet ae ewyllys wrthi. Nyt oed hawd y neb traethu nac adrawd y gyniuer anrec aoed yno. neu y gyniuer amryw drythyllwch aoed yno o vwyt. a llynn herwyd esmwythter. na chlust y warandaw. na thauot y draethu. na llygat y welet y kyfryw. ac nys credei neb onyt ae gwelei. Chwaryeu y chwaryydyonn. kywydolaetheu y kywydolyon o aghlywedigyon vessureu keinneadeth. ac amryw geluydodeu organ. val y gwelit udunt eu bot chun gwedy dychymygu grym y geluydyt.

IX.—Pan daruu vwyta a noethi y byrdeu oc eu llieineu. a chyuodi or accuryeit y vynyd. a gwrteithaw eu meirch ac eu hebrannu yn diwall ehalaeth. a chymryt or ysquiereit eu lletyeu. A phan gyuodes y brenhined. ar gwyrda. y ar y byrdeu. Hu gadarn a ganhebryngwys charlymaen ac deudec gogyuurd y ystauell ysgyualaf. Hir a blin oed datkanu gweith yr ystauell. ae chywreinrwyd. namyn ar vyrder. Ny oruc dynawl ethrylith y chyffelyp. Ny buassei yndi diffyc goleuat eiroet. Yndi ymywn ydoed colofyn eureit. ac o leuuer maen carbunculus oed yny phen. yn dydhau yn wastat. pan diangei y dyd. Yno ydoed y deudec wely. gwedi dineu o latwn dogyn eu hardet. o syndal a phali. a phorphor. ar trydyd gwely ar dec oed yn eu perued wynteu heb amryw vwyn yndaw amgen noc eur. a mein gwerthuawr. ac ar hwnnw y dillat oed adas y ryw defnyd oed y danaw. Brenhin ffreinc aaeth yr gwely perued. ar deudec gogyuurd aaethant yr gwelyeu ereill. a gwassannaethwyr aoedynt yn heilaw gwin arnunt ar eu gwelyeu. Yn drws yr ystauell yd oed odieithyr maen mawr. a cheued yndaw. ac yn hwnnw y gor-

chymynnwys hu gadarn y un oc wassannaethwyr ymdirgelu. a gwarandaw ymdidan y ffreinc y nos honno. Ac ymdidan aoruc y ffreinc yrygtunt ehunein o ymadrodyon drythyll kellweirus. val y mae gnawt trwy veddawd.

X.—Ac yna y dywat rolond. Nini a dywedwn hwaryeu odidawc heno awnelom avory rac bronn hu gadarn. ac wyr. Mi a hwaryaf yn gyntaf heb y charlymaen. Paret hu gadarn avory gwiscaw arueu deu wr am y cadarnnaf oc wyr. ar pennaduryaf o rei ieueinc. ac ysgynnet y marchawc cadarnaf a goreu a vo gwiscedic o deu arueu march. Mi adrawaf a chledyf y gwr ar uchaf y arueu y benn ar un dyrnawt trwy y gwr ar march hyt y llawr. yny vo y cledyf hyt gwayw yn y dayar o agherd y dyrnawt. Dyoer. heb y gwarandawr. ys drwc ymedrawd hu gadarn lettyu y ryw wr hwnn. A minheu abaraf. avory pan vo dyd. rodi canyat ywch y vynet ymdeith. a hynny a dywat y gwarandawr yny vedwl. val nas clywei neb. Gware ditheu garu nei heb y brenhin wrth rolond. Benffyccyet hu gadarn heb y rolond fagittot y gorn ef ymi. a minheu a dodaf lef arnaw odieithyr y dinas. val y bo kymeint. a chyn aruthret y dwrd. ac na bo dor ar borth. nac ar ty yny dinas. kyt boet dur pob un ohonunt. na bwynt seingyl oll. ac yny del y dwrd hwnnw am benn hu gadarn ehun. yny diwreido blew y varyf oll. ae noethi oe dillat. yny vo briwedic y gnawt oll. Dyoer. heb y gwarandawr. llyma gellweir dybryt. ac yn anaduwyn am vrenhin. a cham a wnaeth hu lettyu y ryw westei hwnn. Oliuer. heb y rolond. gwary ditheu weithon. Gan gannyat charlymaen mi a chwaryaf. Rodet hu gadarn y verch nosweith y gytorwed ami. y vorwyn awelsawch chwi gynne. hi a dwc tystolyaeth arnafi cwplhau ohonafi yn y nos honno digrifwch godineb gann weith wrthi. Dyoer. heb y gwandawr. ti vydy vedw gann weith kynn gwneuthur o honot kywylyd kymeint y hu gadarn a hwnnw. a chynny wnelych weithret. ti a dywedeist val y gobryny boen ymdanaw a vo gormod gennyt. A hwarcet yn archescop ni. heb y charlymaen. Gwaryaf arglwyd heb ynteu. Paret hu gadarn avory tri emys

ygyt y redec. a mi ac eu ragotaf ar eu hystlys. ac ysgynnaf ar y trydyd dros y deu. ac a hwaryaf a phetwar aual. ac ae taulaf bob eilwers om dwylaw yn yr awyr. ac ae herbynnaf. ac o dygwyd yr un onadunt yr llawr o un om dwylaw. nac yr kyffro y meirch. nac yr eu buander. nyt oes boen nys diodefwyf arnaf. Dyoer. heb y gwarandawr. nyt anaduwyn y gwary hwnn. ac nyt lle kwyn ymdanaw. Minheu a hwaryaf weithon. heb y gwilym o oreins. o gannyat charlymaen. Y bel hayarn a welsawch chwi gynneu ger bronn y neuad. nys tynnei ugein ychen oe lle. mi a daflaf a hi y gaer yny vo ugein kyfelin or gaer yr llawr gan y dyrnnawt. Dyoer heb y gwarandawr. nyt eidaw nerth dyn gallu hynny. ac ny henyw o gedernyt dynawl. ac ef a vyd reit ytti avory y broui. a thi a wybydy y mae gwac uocsach yw y teu di.

XI.—Ar oger o denmarc y daw gware weithon. Yn llawen arglwyd. heb y tywysawc. Y piler mawr a welsawch gynneu yn kynnal y neuad. mi a ymavaelaf ac ef. ac ae tynnaf oc le. yny vo y neuad yn dygwydedic. ac yny lletho avo y danei. Dyoer. heb y gwarandawr. dyn ynvyt yw hwnn. ac nyt oes le yma y bresswylyaw ygyt a hynn. Naim tywyssawc bieu hware weithon. heb y charlymaen. Yn llawen. arglwyd. heb hwnnw. Bennffyccyet hu avory ymi y lluryc dromhaf a vo idaw. ac a honno ymdanaf. mi a neidaf yny vwyf ar benn y neuad. ac odyno yr llawr. ac odyno yn llym. mi a neidaf. yny vwyf ar neill law hu. ac yno a ymysgyttwaf yny vo modrwyeu y lluryc yn dattodedic. val kyt bei crasgalaf vei eu defnyd. Dyoer. heb y gwarandawr. hen esgyrn yw dy teu di. ar gieu gwydna yssyd it. os gwir aaruaethy. Brengar bieu gware weithon. heb charlymaen. Parawt arglwyd wyfi y hynny. paret hu gadarn avory rodi cledyueu y varchogyon yn eu seuyll. ac eu blaenoed y vynyd. ydan y twr uchaf idaw. a mi aymellygaf o benn y twr yn un cwymp yny vwyf ar vlaen y cledyueu. yny dorro eu blaeneu yn diargywed ymi. Dyoer heb y gwarandawr. nyt dyn a dyweit yr awr honn. ac nyt corff dynyawl yw yr eidaw. namyn

hayarn neu atmant. os gwir a dyweit. Bernart bieu gware weithon. Yn llawen heb hwnnw. Yr auon awelsawch chwi gynneu odieithyr y dinas. mi ae trossaf oe chanawl. yny vo llawn yr ystradoed ar tei. hyt na bo yny dinas lle heb dwfyr yndaw. ac yna y gwyl hu y niuer ar vawd ac ereill ar nawf. ac a breid y dieinc hu chun y benn y twr uchaf rac meint y morgymlawd. Dyoer heb y gwarandawr. nyt synhwyrus y dyn a dyweit val hynn. a mi abaraf yn vore avory y vwrw or dinas am bwyth y gelwyd.

XII.—Y evrart digyrwyd y daw gware weithon. Mi awaryaf yn llawen heb ynteu. Paret hu gadarn avory llenwi perwyn o blwm brwt. a minheu a eistedaf yndi yny rewho ym kylch. ac yna ymysgytwaf yny el kwbyl or plwm y wrthyf. Dyoer. heb y gwarandawr. hayarn neu dur yw cnawt hwnnw. or cwplaa y aruaeth. Naymer. gware ditheu weithon. Mi awnaf arglwyd. heb ynteu. Heulrot yssyd ym o groen ryw bysc. ac a honno avory am vympenn mi a sauaf ger bronn hu pan vo yn kinnawu. a mi a vwyttaf ygyt ac ef. ac a yfuaf heb gygraf arnaf. a mi a gymeraf hu erbyn y deu droet ac ae dodaf. yn y seuyll ar y benn. ar warthaf y bwrd. ac yna y byd kynhwryf mawr. ac ymffust yny neuad. a phawb onadunt yn ymgnith ae gilyd. Diamheu. heb y gwarandawr. colli or hwnn y bwyll. ac ny bu gerth pwyll y gwr a lettyei y ryw bobyl honn. Gwaryet bertram bellach. Parawt wyfi heb ef. Mi agymeraf dwy taryan avory. un o bop tu ym megys dwy adein. ac aesgynnaf dan ehedec ar benn y mynyded uchaf awelsawchi doe. ac a ymdyrchauaf yr awyr trwy yr wybyr dan ysgytweit y taryanneu o bop tu ym. odeuawt edyn amysgawn. val ym gweler oduch yr holl adar. A mi a yrraf ffo. ar wyth milltyr odieithyr y dinas. ar yr holl vwystuileit odieithyr y coedyd. ar emeith a diwyll y tired rac ofyn yr edyn. Nit digrif. heb y gwarandawr. y gware hwnn. namyn dihirwch. a chollet a vac y vonhedigyon a digrifhey o hely. Gereint. heb y charlymaen. gware ditheu weithon. Mi awnaf arglwyd. y mae twr uchel yn emyl hu. a philer ympenn y twr.

Doter dwy geinnawc a chledyf noeth yn gynnunyawnet ac yn gyngywreint ac y bwrwyf yr uchaf yn digyffro yr issaf. a heb y hyscogi oe llc. ac a ordiwedaf y cledyf kyny syrthyaw yr llawr. Llyma. heb y gwarandawr. y gware dewissaf gennyf o honunt. canys kywreinach a llei yndaw o gywilyd y hu noc yn yr un or lleill.

XIII.—A gwedy daruot udunt y gwaryeu hynny. kyscu aorugant. Ar gwarandawr a doeth hyt at hu. ac a dywat idaw y geir yny gilyd val y dywedassei y ffreinc. gan achwanegu o ethrot arnunt. val y gwna anhydywr oe arglwyd. yny vu gyflawn hu o lit. Ac yna y dywat hu trwy y lit. bot yawnach y charlymaen. pan vei vedw. kysgu no gwatwaru am vrenhined. neu y kellweiraw. neu a obrynnassem nynheu yn kellweiraw o dillyc anryded. a gwassanaeth yny letty. neu a gaffei ynteu a vei well yny wlat chun. ar kellweir ar gwatwar a orugant. ac a dywedawssant. mi a vynnaf avory udunt eu cwplau. ac onys gallant. ni a dialwn arnynt eu gwac vocsach o nerth yn breicheu. an cledyueu. A phan doeth y dyd trannoeth. hu aberis y gant o varchogyon gwiscaw ymdanunt arueu a dillat ar eu gwarthaf y eu cudyaw. Ar marchogyon a orugant val y gorchymynnwys hu udunt. a dyuot yr neuad y eisted ygkylch y brenhin.

XIV.—Brenhin ffreinc ynteu. val yd oed deuawt gantaw. awarandawawd bylgein. ac offeren. ac oryeu yr dyd. a gwedy hynny dyuot yr neuad a oruc. a phan doeth y dechreuis hu ymliw ac ef yn chwerw. Paham charlymaen. heb ef. y kellweirut ti vivi am gwyrda neithwyr. pan oed iawnach it orphwys. a chyscu gwedy dy veddawt. Ae ryw anryded hwnnw a teleisti y hu gadarn am y letty ae enryded. Ae velly y mae deuawt genmychi talu y anryded yr neb ae anrydedho. ac ef a vyd reit y chwi cwplau hediw oc ych gweithredoed. ac onys cwplhewch. yn dal ych gwac uocsach. chwi awybydwch peth yw awch yn cledyueu ni. Kymryt kymraw aoruc charlymaen gan yr ymadrawd hwnnw. a racuedylyaw ychydic. ac yn atteb idaw y dywat. Oia vrenhin kyssegredic anrydedus. eb ef.

paham yr peth gorwac diffrwyth y bydy lidiawc di. ac y kyffry dy brudder. ath doethineb. yr dywedyt ynvyttrwyd a masswed. or neb avedweisti dy hun oth wirodeu da. ac ny wydem ni vot neb yth ystauell ti. namyn ny hunein. A deuawt yn gwlat ni oed gwedy diawt prydu geireu hwaryus y chwerdit amdanunt. am gwplhau hagen y geireu a dywedy di. mi a ymdidanaf am gwyrda. ac ogyt gyghor ti a geffy atteb. Dos titheu y gymryt gyghor. ac nyt oed le y ymgyghor am yr hynn ny allei vot. a gwybyd di pan diegych di ygennyfi. na chellweiry di vrenhin arall y vyth.

XV.—Ac yna yd aeth charlymaen y le dirgel. ef ae wyrda y gymryt y kyghor. Ha wyrda heb ef. neun twyllwys y gyuedach neithwyr yn dybryt. o ymadrodyon ny wedei y hudolyon eu traethu. neu y groesanneit. ac edrychwch ynn pa delw yd ymdiaghom y wrth vygwth hu gadarn. Bit yn gobeith. heb y turpin. yn duw or nef. ac archwn idaw dwywawl gyghor or dihewyt yn bryt. Ac yna dygwydaw yn eu gwedi rac bronn y kreireu kyssegredic aorugant. a gwarandaw eu gwedi aoruc duw. ac anuon angel oe hyfuryttaw. ac y gadarnnhau eu medwl. gan edrych eu halltuded. ac erchi y charlymaen kyuodi yvynyd. amenegi idaw gwarandaw o duw y wedi. yr hwnn yssyd gedernyt didramgwyd y bop gwann. ac ef ae cwplaei trwy nerth duw yr hynn a dewissei hu or holl waryeu. a gorchymynn y charlymaen na vanagei y neb y gennadwri dwywawl honno.

XVI.—Kyuodi yn llawen hyuryt aoruc charlymaen. oe wedi. a hyuryttaw y wyr a dyuot yn y lle yd oed hu. Arglwyd vrenhin. heb ef. gan dy gannyat. mi a ymadrodaf athi. Neithwyr yd oedem ni yn gorffowys yth ystauell di. yn diogel genhym rac na thwyll na brat nac ygennyt nac y wrthyt. sef yd ymdidanassom val yd oed deuawt genhym yn an gwlat o draethu gwaryeu. Sef yd oedut titheu yn mynnu cwplau y gwaryeu hynny trwy weithret. Dewis y gware a vynnych yn gyntaf. Mi adewissaf. heb yr hu. Oliver adywat peth anaduwyn. y gallei ef kytyaw ganweith yn un nos a merch i.

Ef a geiff y verch. heb ef. ac ny lywyo hu gadarn teyrnas o law hynn. o byd unweith yn eisseu or cant o byd didial. nac euo nac un or ffreinc. Gowenu aoruc charlymaen. ac yndiret ynduw a dywedut. Ac ny barnaf vnheu vot yn vadeuedic idaw ef yr un. Y dyd hwnnw a treulwys y ffreinc yn llewenyd. a digrifwch. a chwaryeu. ac ny omedit wy yny llys o dim aerchynt. ac or a debyckit y vynnu ohonunt. A phan doeth y nos ef a ducpwyt y vorwyn at oliuer yr ystauell. A phan weles y vorwyn Oliver. y gofynnwys idaw. A unben bonhedic. heb hi. Ae y lethu morynyon oth ormod waryeu y deuthosti yma. Vygkaredic. heb ef. na vit ofyn arnat. o chredy di ymi. ys mwy o lewenyd adigriuwch a vac vyggwaryeu i yti nac o dristit. A gorwed ygyt aorugant. ac ymgaru ar vorwyn yn serchawc aoruc. a hynny heb nemawr gohir. ef a gyttyawd a hi bymthegweith. Ar vorwyn a vlinawd yn vawr. ac awediawd oliuer arbet idi. rac mor ieuanc oed. a gwannet y hannyan. a thygu idaw or cwplaei y rif aedewis. y byd varw hi yn diamot. Ac yna y dywat Oliuer. O thygy di. heb ef. cwplau ohonafi y riuedi a edewis. mi a arbedaf it wrth dy ewyllys. Y chret a rodes y vorwyn idaw ar tygu ohonei trannoeth ger bronn hu. Ac ynteu aarbedawd idi. ac nyt aeth y nos honno dros ugeinweith.

XVII.—A phan dwyrwys y dyd drannoeth. y doeth hu y drws yr ystauell. a gofyn a gwplassei y riuedi a dywedassei. Do ysgwir. arglwyd. heb hi. gan achwanec. Y brenhin yna trwy y lit a dywat vot yn tebic gantaw. y mae trwy gyuarwydon y gwnaethoed ef hynny. a dywedut. cam a wneuthum inheu llettyu hudolyon. A mynet aoruc hyt at charlymaen y lle yd oed yn eisted yn y neuad. ae wyrda yny gylch. a dywedut wrthaw val hynn. Charlymaen. heb ef. y mae y gware kyntaf yn dangos dy vot ti yn hudawl. A mi a vynnaf etwa ethol arall. Yn llawen. heb y charlymaen. ethol yr un a vynnych. Byrryet Wiliam o orreins y bel hayarn val y hedewis. ac o diffyc dim oe edewit. ny dyffic vygkledyf i om deheu i yn ych llad chwi. Gwilym o orreins a vyrrywys y vantell y wrthaw yn diannot.

ac a derchauawd y bel hayarnn val y hedewis oe lawn nerth dyrnawt ar y gaer. yny vu cant kyuelyn ar y gaer trwydi yr llawr. Llityaw aoruc hu yn vawr am hynny. yn vwy no meint. a dywedut wrth y wyrda. Nyt tebic a welafi wyrda. heb ef. y hwary. namyn y gyuarwydon. ac y mae eu gweithredoed yn dangos herwyd y tebygafi eu bot y amwyn vyn teyrnas i oc eu swynneu. Etholet hu gadarn etwa y gware a vynno. heb y charlymaen. o digrifuaa y vedwl gan yn chwaryeu ni. O dichawn bernart. heb hu. dwyn yr auon odieithyr y dinas ymywn. dyget. Yna y dywat bernart. gwedia arglwyd vrenhin yn gadarn val y cwplao duw ar ny a allom ni y gwplau. Dos di yn dipryder. heb y charlymaen. a bit dy obeith yn duw. y gwr nyt oes dim anwybot idaw. ac ar ny ellych di y gwplau. euo ae cwpla. Ac yna yd aeth bernart gann ymdiret yn duw parth ar auon. a gwedi gwneuthur arwyd y groc ar y dwfyr. y dwfyr a ufydhaawd yr gorchymynnwr. ac a ymedewis ae channawl. ac y ymlit y tywyssawc aoed or blaen. yny doeth yr dinas ymywn. Yna y gwelas hu gadarn y niueroed ar vawd. ac ar nawf yn y tonneu. ac y ffoes ynteu yr twr uchaf idaw. ac nyt oed diogel gantaw yno. Ac y dan y twr hwnnw oed brynn uchel. ac yno yd oed charlymaen ae getymeithon yn edrych ar newyd diliw bernart. ac yn gwarandaw ar hu yn rodi gouunet y duw yar vann y twr yr peidyaw y morgymlawd hwnnw. a dywedut y rodei y wrogaeth y vrenhin ffreinc. ac yd ystygei. ac ef. ae gyuoeth oe benndeuigaeth ef.

XVIII.—A phan gigleu charlymaen y geireu hynny. kyffro aoruc ar trugared. a gwediaw duw y beidyaw or dwfyr hwnnw. ac y ymhoelut dracheuen. ac yn diannot yd aeth y dwfyr oe le val kynt. Ac yna disgynnawd hu or twr. ac y doeth yny oed charlymaen. a dodi y dwylaw ygyt y rwg dwy charlymaen. a gwrthot y arnherodraeth arnaw. ae chymryt y gantaw oe law oe daly y danaw ef. a chan y gyghor. Ac yna y gouynnwys charlymaen y hu a vynnei ef cwplau y gwaryeu. Na vynnaf. heb yr hu. ys moe a wna y gwaryeu hynny o

dristit ym noc o lewenyd. Kymerwn ninheu. heb y charlymaen. y dyd hwnn yn llawen anrhydedus. can duc duw nini yn tagnouedwyr. a charyat y ryghom. gan gwplau ohonaw ef yr hynn ny allem ni y gwplau. a gwnawn processiwn ygkylch yr escopty. ac yny vo mwy enryded y dyd. gwiscwn an coroneu. a cherdwn gyuarystlys y ymdangos ymplith yn gwyrda. Kyfunaw aorugant. a cherdet gyuarystlys. a phawb yn edrych arnadunt yn graff am eu gwelet yn eu gwisc vrenhinawl. A mwy oed charlymaen no hu ar nod troetued. ac a berthynei ar hynny o let yny dwy ysgwyd. Ac yna y bu amlwc gan bawb o wyrda ffreinc vot yn gam a barnassei y vrenhines am hu. ac ar charlymaen yd oed y ragoreu. A gwedy y processiwn hwnnw. Turpin a gant udunt offeren yn anrydedus. a gwedy yr offeren wynt a gymmerassant y gantaw bendith archesgobawl. ac yr llys y doethant. ac yr byrdeu yd aethant. ac nyt oed hawd y berchen tauawt menegi y gyniver amryw. ac amryuaelon anregyon a gostit yno. a drythyllwch. ac esmwythder. A phan teruynwyt y wled honno. hu a beris dangos y charlymaen y tryzor. ac eurdei y rodi idaw yr hynn a vynnei oe dwyn gantaw y ffreinc. Nyt ef a darffo. heb y charlymaen. nyt o gymryt rodyon y gwnaethpwyt brenhin ffreinc. namyn oe rodi yn ehaleth. ac nyt reit dwyn tryzor y ffreinc. rac llygru eu bryt. ac eu syberwyt. namyn llyna aoed yno llawer o wyr ymlad da. a docnet o arueu da y eu kynnal.

XIX.—Ac yna y doeth merch hu gadarn at oliuer y eruyn y dwyn ygyt ac ef y ffreinc. ac oliuer aedewis idi hynny. os gattei hu gadarn. Ac ny adei hu y verch y wrthaw mor bell a hynny. Ac yna y menegis charlymaen y bawp oe wyr. vot eu hynt parth a ffreinc. Ac yna ysgynnu ar eu meirch a orugant. wedy y ymwahanu yn garedic. a mynet dwylaw mwnwgyl yn llawen hyuryt. Ac yna yd aethant gwyr ffreinc oeu gwlat. a llawen oed ef charlymaen yna. am ryystwng o hu idaw heb ymlad. nac ymdaraw. na cholli un gelein. Ac wynt a doethant y ffreinc val y daruu gyntaf udunt. a llawen

vuwyt wrthunt yno. a diolwch y duw vot yn rwyd racdunt eu pererindawt ac eu hynt. A gorffwys aorugant. a bwrw eu lludet y wrthunt. Ac yna yd aeth charlymaen val yd oed deuawt gantaw kynno hynny. mynet y eglwys seint dynys y wediaw rac bronn yr allawr. ac y diolwch y duw bot yn rwyd y hynt racdaw. ae bererindawt. a gwedy offrymu yr allawr o offrwm teilwg. rannu aoruc y creireu a dathoed gantaw y eglwysseu ffreinc. a rodi kerennyd aoruc yr vrenhines. a madeu idi y godyant ae gewilyd.

XX.—Hyt yma y traetha ystorya a beris Reynallt. vrenhin yr ynyssoed y athro da. y throssi o weithredoed charlymaen o rwmawns yn lladin. ac amrysson y vrenhines val y traethwyt uchot oll. ac nyt ymyrrwys turpin yn hynny. cannys gwr eglwyssic oed. a rac gyrru arnaw beth gorwac ny pherthynney ar leindit. O hynn allan y traetha turpin o weithredoed charlymaen yn yr yspaen. ac o enw duw a iago ebostol. val yd estygwyt y wlat honno y gret crist. Ac val y bu y kyfrageu hynny. y peris turpin eu hyscriuennu yn lladin. ac val y dyallei bawp wy aei gwelei o genedyloed aghyfyeith. a hynny oll yn enw charlymaen ar volyant ac enryded idaw. ac amherawdyr ruuein. a chorstinobyl. y gwyr a vuassei ygyt. ac yghyt oessi. yny kyfrageu hynny. Ac yn kymryt gwelioed a gouut yndunt oc eu dechreu hyt eu diwed ol yn ol yn dosparthus val y buant. ac y dichawn pawb oc au darlleo. neu eu gwarandawho. na oruc ef dim yn orwac. namyn perued y wirioned wedy eu dyall o ysbrydawl gyghoreu. a berthynant ar volyant crist. a llewenyd egylyon nef. a lles y eneiteu gristonogyon ae gwaranndawho.

YMA WEITHYON Y DECHREU EBESTYL TURPIN ARCHESCOP REMYS AR LEOPRANT DEAN GRAWNDWUYR.

XXI.—Turpin o rat duw archescop remys. a gwastat getymdeith charlymaen amerawdyr. yn anvon annerch yghrist y dean y grawndwuyr. canys y diwed hwnn yd adolychassawch chwi y mi. pan yttoydwn yn vien yn egwan o greitheu a gwelioed. yscriuennu attawch chwi.

pa delw y rydhaws charlymaen an clotuoraf amerawdyr ni dayar yr ysbaen ar galis y gan sarassinyeit. Ny phedrussafi ysgrivennu awch brodoryaeth chwi yn diffleis diamheu blaynwedeu ac ystlysseu y amryvedodyon weithredoed ef. ay volyannus vudugolyaetheu ar sarassinyeit yr ysbaen a weleis i vyhun. ac a edrycheis arnadunt om priawt lygeit vyhun. yn kytgerdet ac ef yr ysbaen ar galis. Pedeir blyned ar dec y bu charlymaen ay luoed. ac yn yscrivennedic mi ay hanvonaf ywch. A chany allws awch awdurdawt chwi. megis y hysgrivennassawch chwi attaf i. caffel kwbylder na llwyrder nac ysbyssrwyd or mawredigyon weithredoed a budugolyaetheu. a oruc charlymaen yn yr ysbaen ar galis. yg cronic seint dynys. Wrth hynny dyallet dy ymni di. na bu achaws y awdur y llyvyr ar gweithret hwnnw. nat yscrivennei weithredoed charlymaen ae ymladeu yn yr ysbaen. yn llwyr ac yn graff. namyn oe vot yn vlin ac yn ysmala eu hyscrivennu. rac meint oed y gweithredoed. Ar nep ny bu yn gyndrychawl yn yr ysbaen nys gwydyat. Ac eissyoes nyt anduhuna y llyuyr hwnn yn dim ar cronic byth hirhoetlawc a grymus a ryngych bod duw. amen.

LLYMA DECHREU LLYTHYR TURPIN.

XXII.—Canys y gogonedussaf yago ebostol crist. pan aeth yr ebestyl ereill ay disgyblon y amryuaelyon bedryuannoed byt y bregethu. ac yd aeth yn gyntaf yr galis. ac eu hymchwelut ar ffyd grist. Ac odyna wedy llad o herot vrenhin pen yago ebostol. y duc y disgyblon y gorff o gaerussalem dros voroed hyt y galis. ac y pregethassant wynteu yno wedy evo. Ac odyna ym penn ysbeit o evyrllit eu pechodeu. ymadaw a ffyd gatholic. ac ymchwelut ar eu hangret. a thrigaw ar hynny yn oes charlymaen amerawdyr ruvein a ffreinc. a cheisser. ar kenedloed ereill. yd oed vrenhin arnadunt. Ac ual yd oed y charlymaen hwnnw wedy ry vlinaw o lawer o lauuryeu y bedryuannoed byt. yn goresgyn amryuaelon deyrnassoed. nyt amgen lloegyr. a ffreinc. ar almaen. a lotaringia. a byrrgwyn. ar eidal. a brytaen.

ac aneirif o deyrnassoed ereill. Ac amryual geyryd a dinassoed a chestyll or mor bwy gilid a geissyws o dwywawl ganorthwy. y eu dwyn o law sarassinyeit. ac y eu darystwng y gristonogawl bendeuigaeth. A gwedy yr vlinaw o orthrwm lavur ynteu yd aruaythwys kymryt gorffwys o hynny allan. ac nat elei y ymrwydreu.

XXIII.—Ac ar hynny ef a arganuu ar y nef mal fford o syr. a dechreu o vor ffrigia. ac yn tynnu yr almaen. ac y wlat ruuein. ac yrwg ffreinc ac angyw. ac yn unyawn y wasgwyn ac y nauarr. ac yr yspaen hyt y galys. yny lle ydoed corff y gwynuydedic iago yn gorwed heb y adnabot. A gwedy gwelet o charlymaen y fford honno yn llawer o nosseu. y medylyawd peth aarwydoccaei hynny. Ac val y bydei velly. ynychaf rysswr mawr delediw. anhawd menegi y veint ay decket. yn dyuot attaw drwy y hun. ac yn dywedut wrthaw val hynn. Pa beth a vedylyy di vy mab. Arglwyd. eb y charlymaen. pwy wyt ditheu. Mi yago ebostol. eb ynteu. mab maeth y grist. mab y zebedeus. brawt y yevan euangelystor. yr hwnn a deilyngws ef o dwywawl rat y ethol ar vor galilea y bregethu yr bobyl. yr hwnn a ladassei erot greulawn y benn a chledyf. yr hwnn y mae y gorff yny galis yny sathru o sarassinyeit yn dybryt gewilydyus. A ryvedu yd wyf i na rydheeisti vyn dayar i y gan sarassinyeit. athi wedy rydhau y gyniver wlat a rydheist. Ac wrth hynny y managaf i ytti vegis y goruc yr arglwyd didi yn gadarnaf or brenhined dros wyneb yr holl vyt. Ac yn bennaf dy ethol ditheu ohonaw ef y rydhau vyn dayar inheu y gan sarassinyeit. ac y rodi coron dragywyd ytt am dy lavur. Fford y syr a weleisti ar y nef a arwydoccaa dy vynet ti a diruawr luyd y wrthynebu yr paganyeit anffydlawn. ac y rydhau vy hynt ynheu am tir. ac y ofwy vy eglwys am bed hyt y galis or lle hwnn. A gwedy ytitheu mynet yr holl boploed or mor pwy gilyd y bererindawt ym. ac y gymryt madeueint oc eu pechodeu. ac y datkanu molyanneu duw ae nerthoed. ar gwyrtheu a wnel. ac oth dyd ditheu hyt yn diwed byt ydant. Ac yr awr honn kerda gyntaf y gellych.

a mi a vydaf ganorthwywr yt ym pob peth. ac am dy lafur mi adygaf it coron yn y nef. a hyt y dyd diwethaf y byd dy enw yny molyant. Ac velly yd ymdangoses y gwynuydedic ebostol teir gweith y charlymaen. a gwedy clywet o honaw hynny. aruer aoruc or ebostol awl edewit. a dywynnu attaw lluoed mawr. a chyrchu yr yspaen y wrthlad y genedyl anffydlawn.

XXIV.—A chyntaf caer adamgylchynnwys pamphilonia. ac wedy eisted dri mis wrthaw nys cauas. canys y muroed cadarnaf aoed yn y chylch. Ac yna y gwediwys charlymaen ar yr arglwyd val hynn. Arglwyd iessu grist. heb ef. dros dy gret ti y deuthom ni yr gwladoed hynn y wrthwynebu y genedyl anffydlawn. dyro ym y gaer honn yr enryded dy enw. Or gwynuydedic iago. os yn wir yd ymdangosseist ym par ym y gaer honn. Ac odyna o rod duw. a gwedy iago. y dygwydwys y muroed oc eu grwndwal. ac a uynnwys vedyd or sarassinyeit a adawd yn vyw. ac ar nys mynnawd a ladawd. A gwedy clybot y gwyrtheu hynny. yn honneit y darostygei y sarassinyeit y charlymaen y ffordd y kerdei. ac yd anuonynt teyrngedoed yny erbyn. a rodi y dinassoed ar keyryd ar kestyll idaw. a darystwg idaw eu deyeryd yn uvyd drethawl. A ryuedu yn vawr a oruc y sarassinyeit cadarnet y ffreinc. ac eu grymusset ac eu hardet. A chan uwrw eu harveu eu herbynnyeit yn anrydedus. Ac yuelly y doeth hyt y galis. yny dyvu hyt ar ved yago ebostol. Ac yna gossot y wayw yny mor gan diolwch y duw. ac y yago ebostol. am y dwyn yr lle ny allassei vrenhin o gret dyvot eiryoet. Ar gallisyeit a ymchwelassei ar y sarassinyeit wedy pregeth yago ebostol ay disgyblon. ac a gymerassant vedyd y gan durpin archesgob. a ymchwelws onadunt ar ffyd gatholic. ac ar nyt ymchwelws a las. neu a wnaethpwyt yn geith. Ac odyna y kerdws yr holl yspaen or mor hwygilid.

XXV.—Holl geiryd a dinessyd yr yspaen a gauas charlymaen yna. rei heb ymlad. rei gan diruawr ymlad. a chehuydyt. eithyr lucern ehun. y dinas cadarnnaf yn y glyn ir. ny allwys y gaffel. ac yn y diwed y gogylch-

ynwys. ac yd eistedwys yny chylch petwar mis. A gwediaw duw a iago. y dygwydwys y muroed. ac y mae yn diffeith yr hynny hyt hediw. achaws dwfyr aaeth drosti. ac yna y keffir pyscod mawr duon. Rei hagen or dinessyd ereill aoresgynnwys brenhined ffreinc. a brenhined yr almaen. kynn charlymaen wrth gristonogaeth. ac odyna yd ymhoelassant ar dedyf sarassinyeit yny doeth ynteu. A gwedy agheu ynteu. llawer o vrenhined a thywysogyon ffreinc aaethant yr yspaen y aflonydu ar sarassinyeit. Clodoneus y brenhin kyntaf cristawn o ffreinc. Clovis. Pipinus. Carolus Martellus. Carolus caluus. Ludovicus. a charlymaen. a oresgynnassant rann or yspaen. a rann arall aadawssant y charlymaen. Hwnn hagen yn y dydyeu ef a oresgynnwys yr yspaen o gwbyl. a phetwar dinas a emelldigwys ef. gwedy goruot arnadunt o orthrwm lauur. ac or emelldith honno y maent yn diffeith etwa. yr hynny hyt hediw. Sef rei oedynt Lucerna. Ventosa. Capara. Adama.

O ANSAWD MAHUMET GEUDUW Y SARASSINYEIT.

XXVI.—Pob geu duw. a geu delw. or a gauas charlymaen yn y dydyeu ef yn yr yspaen. a distrywys ef yn gwbyl. eithyr un geu duw aoed yn y lle aelwit alandalyf. Enw hwnnw oed yn eu hieith wy Salamcadis. sef oed hynny o sarassinec yn an yeith ni lle duw. herwyd cyuarwydyt y wrth y sarassinyeit. Mahumet. gwr a adolasant wy tra oed vyw yn lle duw udunt. a wnaeth delw yn eilun y briodolder ehun. ac o geluydyt y gamgret ae swynogleu y dodes yn y delw lleg o dieuyl. ac ae insseil y cayws arnadunt. A chyn gadarnet vu yr insseilyat ar y delw. ac na allwys neb y thorri byth o hynny allan. Canys val y dynessaei o cristiawn ar y delw honno. yn diannot y periglei. a phan delei sarassin y adoli. neu y wediaw mahumet. yechyt a gaffei yn diannot. Ac o damweinnyei y ederyn disgynnu arnaw. marw vydei yndiolud. Ac ar varyan ar lann mor y mae y delw o vaen keu hen. ac arnaw ysgwthyr kywreint o weith sarassinyeit ar warchaf y

dayar. praff a phedrogyl oed y adanei. ameinach veinach y vyny racdi. hyt yn gyvuch ac ehetva bran. achedei yn uchel. Ac ar warthaf y maen hwnnw yd oed delw. wedy ry dineu or elydyn teckaf. ar lun dyn yn seuyll ar y draet. ae wynep tuar deheu. ac agoryat dirvawr y veint yny llaw deheu idaw. Ar egoryat hwnnw. herwyd y dyweit y sarassinyeit. a dygwyd oe law ef yn diwed eu hamser wy. Nyt amgen pan aner brenhin o ffreinc a darystygo yr yspaen oll y gyfreith crist. Ac yn y lle pan welont wy yr egoryat yn dygwydaw oe law ef. yd cudyant wynteu eu swllt yn y daear. ac yd adawant y wlat.

VAL YD ADEILWS CHARLYMAEN YR EGLWYSSEU.

XXVII.—Or eur ar swllt a gynnullws charlymaen yn yr yspaen. ef ae dywyssogyon. yd anghwanegws ef eglwys iago ebostol. ac a trigyawd yno teir blyned. yn y chyweiryaw yn advwyn hard wedus. o glochdyeu a chlych a gwisgoed a llyureu a phob kyfryw dotrefyn creill a vo reit wrthunt. ac aosodes escop. a chanonwyr yndi herwyd reol a gosot yssider. pab oed hwnnw a chonffessor. Ac o wedill y tryzor hwnnw o eur ac aryant. pan aeth dracheuyn. ohonei y goruc llawer o eglwysseu. Nyt amgen eglwys y wynuydedic veir wyry yny grawndwvyr. ac eglwys iago ebostol yn yr un lle. ac eglwys iago ym biternn. ac eglwys iago yn twlys. ac eglwys iago yggwasgwyn. y rwg caer axa ac eglwys yevan. fford yd eir sein iac. ac eglwys iago ymparis. y rwg sein a mynyd y merthyri. ac anneirif o vanachlogoed y gyt a hynny. ar hyt y byt a oruc charlymaen.

O VRENHIN YR AFFRIC.

XXVIII.—Ac ympenn yspeit wedy ymchwelut o charlymaen y ffreinc. y doeth pagan brenhin yr affric. aygolant oed y henw. a llu dirvawr y veint ganthaw. y geissyaw goresgyn yr yspaen. gan lad a gwrthlad kiwdawd gristonogyon. a adawssei charlymaen yny dinassoed ar kestyll ar keyrod. A phan gigleu charlymaen hynny. kychwyn a oruc yr eil weith yr yspaen. a lluoed

mawr ganthaw. ac ygyt ac ef tywyssawc ymladeu Milo o engeler. a pha ryw aggreifft a dangosses duw yni oll yna. am yrrei a attalo gantunt gymun y rei meirw. ac eu haelussenneu yn gam. Pan yttoed charlymaen yn lluestu yghaer baion. ae lu. y cleuychwys marchawc. a romaric oed y henw. a gwedy gwanhau a chymryt kymun ohonaw. a dillygdawt y gan offeirat. gorchymyn a oruc y gyfnesaf idaw gwerthu y varch. a rannu y werth yn alusenneu rac y eneit y eissywedigyon. Ac wedy y varw y gar a werthwys y varch yr can swllt. sef oed hynny pum punt. ac ny rodes dim o werth y march rac eneit y marchawc. namyn prynnu idaw ehun bwyt a diawt a dillat o werth y march. Ac megis y gnottaa duw dial yn ebrwyd cam weithredoed. ympen y decvet dyd ar hugeint ynychaf y marchawc a vuassei varw yn dyuot attaw nosweith. ac ef yn cysgu na chysgu. ac ymdangos idaw. ac yn dywedut wrthaw val hyn. Can cymynneis i vyn da yn alusenneu dros vy eneit. gwybyd di vadeu o duw ymi vym pechawt. a chan ettelyeisti vy alusenneu dros vy eneit yn enwir anffydlawn dec nieu ar hugeint. etnebyd di vy attal i ohonot ti ym poeneu uffern dec nieu ar hugeint. Gwybyd ditheu y bydy erbyn auory ympoeneu uffern. or lle y deuthum inheu ohonaw. ac y bydaf ynheu ymparadwys. ac gwedy yr ymadrodyon hynny. yd aeth y marw ymeith. a deffroi aoruc y byw yn dechrennedic. Ar bore drannoeth y datkanws y vreudwyt yr niver a weles. ac val y bydynt y niveroed yn ymdidan am hynny. ynychaf yn dissyvyt y clywynt. uch eu penn yn yr awyr. llevein a godwrwf megis breverat llewot. neu utva bleidyeu. neu vugunat aniveilyeit aruthyr. Ac yn diannot o berued y llu. yny iechyt ae vywyt y ysglyfyeit or dieuvyl y gwr a welsei y breudwyt. ae dynnu yr awyr. Ac yn gyflym mynet a wnaethpwyt oe geissyaw. ar veirch ac ar draet. pedeir nos a phetwar diwarnawt y vynyded a glynnyeu hep gaffel dim. Ac ympenn y deudecvettyd. val ydoed y llu yn kerdet drwy diffeith navarr ac alauar. y caffat y corff yn varw. ac yn vriwedic yssic. ar yscithred carrec uch benn

y mor. teir milltir ffrenic yny huchet. ymdeith petwar niwarnawt or lle y hysgytwyt. Ac ny orffowysws y devyl ac duc nes noc yno ac ef. ac adaw y corff. a dwyn yr eneit uffern ganthunt. Ac am hynny gwybydet pawb a attalyo ganthunt yn gam alusenneu y rei meirw eu bot yn kyuyrcoll tragywydawl.

O YMLAD AYGOLANT AC O VLODEUAT PELEIDYR.

XXIX.—Odyna y kerdassant yn ol aygolant o le y le. ar hyt yr yspaen charlymaen ay holl luoed. Ac wedy y ymlit ef yn geluyd wynt a ymgawssant ac ef ar vaystir gwastat ar lann avon. a elwit gwy ymewn gweirglodyeu. Ac yny lle wedy hynny. o arch a gorchymyn charlymaen y gwnaethpwyt eglwys yr gwynnvydedigyon verthyri. ffawcwnd a phrimitif. Ac yno y mae eu corfforoed yn gorffowys. Yny lle yd adeilwyt dinas a manachloc gyvoythawc arbennic. Ac wedy nessau y lluoed y gyt yn gyvagos. yd anvones aygolant ar charlymaen dewis y ymlad idaw. Ay ugeint yn erbyn ugeint. ay deugeint yn erbyn deugeint. ay cant yn erbyn cant. ay mil yn erbyn mil. ay deu yn erbyn deu. ay un yn erbyn un. Ac yna yd anvones aygolant cann marchawc yn erbyn cant o wyr charlymaen. ac y llas oll y sarassinyeit. Ac eilweith yd anvones aygolant yr eil cann wr o ordethol y ymlad ar cant hynny. ac y llas y sarassinyeit oll. Ac yna yd anvones aygolant deu cann marchawc yn erbyn deucant y charlymaen. ac y llas y sarassinyeit oll. Odyna yd anvones aygolant dwy vil yn erbyn dwy vil. ac ar ny las or sarassinyeit a ffoassant. Odyna yd aeth aygolant y trydyd dyd y goylyaw pwy a orffei. ay evo ay charlymaen. Ac yna y cauas ar y goel gorvot o honaw ef ac oy wyr. Ac yna yd anvones ynteu ar charlymaen dyuot trannoeth or deu lu ygyt. y wybot pwy a orffei onadunt. a hynny aorugant.

XXX.—Ar nos honno paratoi eu harveu a oruc y cristonogyon. ac eu kyweiryaw erbyn y vrwydyr drannoeth. a gossot eu gleifyeu yn eu seuyll yny dayar rac bronn eu pebylleu yny gweirglodyeu ger glann

yr avon. A phan doethant drannoeth y edrych eu harveu. yd oedynt yn tyvu or dayar. a risc arnadunt. ac a bric deilyawc. nyt amgen y rei a gymerei onadunt palym merthyrolaeth dros ffyd duw yn y kyfrang kyntaf. Ac eithyr y mae kennat ryvedu a orugant y gwyrthyeu dwywawl hynny. ac ysgrivennu aorugant. a thorri eu peleidyr aorugant yn gyvuch ar dayar. Ac or hyn aedewit yno y tyvawd coet mawr. ac y mae etwa yr onn or peleidyr onn. Peth anryved a llewenyd mawr yr eneidyeu. a diruawr gollet y gorfforoed. beth odyna yn y kyfranc hwnnw y llas deugein mil o gristonogyon. Milo tat rolant a gymyrth palym merthyrolaeth. gyt ar niver a vlodeuassei eu peleidyr. Ac yna y llas march charlymaen. ac yna y seuis charlymaen ar y draet. ar y drydyd o gristonogyon. yn perued y sarissinyeit. ac ae gledyf llad llawer onadunt yn y gylch. A phan ucherws y dyd. pawb aaeth oy bebyll. A phan doeth y bore drannoeth yd oed pedeir llong o emyleu yr eidal. a phedeir mil yndunt o wyr arvawc yn dyvot yn borth y charlymaen. a phan adnabu aigolant y rei hynny. ac achaws eu dyuotyat. ffo odyno a oruc. a dyuot ffreinc a oruc charlymaen.

XXXI.—Ac am y kyfranc hwnnw y mae yawn dyall yechyt a ymlado dros grist. canys val y paratoes charlymaen arueu kyn mynet y vrwydyr oe wyr ymlad velly. ymbaratown ninheu yn erbyn an pechodeu. nyt amgen. ffyd yawn yn erbyn kamgret. Uvyddawt yn erbyn syberwyt. Diweirdeb yn erbyn godineb. gwedi wastat yn erbyn prouedigaeth kythreul. Anghanoctit yn erbyn tra golut. Gwastatrwyd yn erbyn anwastatrwyd ac anwadalwch. Tawedogrwyd yn erbyn tra chywira drwc. Uvyddawt yn erbyn nawrydigrwyd cnawt. Ac a wnel velly blodeuawc vyd y leif dyd brawt. Owia duw. mor detwyd a mor vlodeuawc vyd eneit budigawl yn teyrnas nef. yr honn a ymlado yn erbyn pechodeu yn didramgwyd tra vo yma. cany cheiff coron vrenhinyaeth ar ny orffo o ymlad. Ac vegis y trengis ymladwyr charlymaen yn ymlad dros ffyd grist. velly y dylywn ninheu menegi yn ymlad yn erbyn an pechodeu. val y go-

brynnom caffel palym vlodeuawc oc an budugolyaeth yn teyrnas nef.

XXXII.—Ac yna y duhunws aygolant a llawer o amryw genedloed o sarassinyeit. y rei ny wdam ni eu henweu. nac eu boned. nyt amgen un vrenhinyaeth ar bymthec. eu brenhined ac eu lluoed ganthunt. Ac yna yd anvones aygolant ar charlymaen. y erchi idaw dyuot y ymwelet ac ef yn dagneuedus. a niver bychan ganthaw o varchogyon. ac ef a rodei idaw y wryogaeth. ac ef a ystyngei oc bendeuigaeth. ac ef a rodei idaw a allei naw meirch vwyhaf y dwyn o eur ac aryant a thlysseu. A hynny o ystryw y geissyaw gwelet charlymaen ae atnabot. val y gallei eilweith ym brwydyr ymgaffel ac ef oe lad. Ac eissyoes charlymaen a atnabu panyw twyll oed hynny. ac ef a doeth. a dwy vil o varchogyon diffleis ganthaw. hyt ar bedeir milltir y wrth gaer ageni. yny lle yd oed aygolant. Ac ar y drugeinvet y kerdws charlymaen. hyt ar benn mynyd a oed ger y llaw. or lle y gwelit y dinas yn amlwc. Ac yna yd edewis y getymdeithyon. a symudaw gwisc a oruc. ac yn dielw ae daryan ar y gevyn ar y gwrthwynep. wedy adaw y wayw val yd oed deuawt y gennat ar ryvel. ac ar y eil marchawc dyuot yr dinas yr oed aygolant yndaw. Ac yny lle ynychaf niver or dinas yn dyuot yn eu herbyn. ac yn govyn udunt pwy oedynt. Kennadeu charlymaen ym ni. eb wynt. yn dyuot ar aygolant awch brenhin chwitheu. Ac y doethant yny vuant rac bronn aygolant. Charlymaen. eb wynt. an gyrrawd ni yma. ac y mae ynteu ar y mynyd uchot ar y drugeinvet marchawc. Ac ef a vynn vot yn varchawc ytt. a rodi gwryogaeth ytt. a rodi idaw hynn a dywedeist. ac a adeweist idaw. Ac am hynny dyret ditheu attaw ef ar dy drugeinvet. y ymdidan ac ef. Ac yna y gwiscws aygolant arueu amdanaw. ac eu gyrru wynteu or blaen y erchi y charlymaen aros. ac ny wydyat aygolant panyw charlymaen aoed yn ymdidan ac ef. Ac yna y cauas charlymaen atnabot aygolant. ac yd edrychawd ansawd y gaer. a pha le hawssaf ymlad a hi. Ac yna y gwelas ansawd y brenhined aoed yno oll. ac y doeth ar y drugein march-

awc a adawssei ar y mynyd. ac odyno y doethant hyt y lle. yd oed eu dwy vil o wyr wedy eu hadaw. Ac yna y doeth aygolant a seith mil ganthaw y ymlit charlymaen. ac y geissyaw y lad. Ac nyt arhoes y ffreinc wynt. namyn mynet y eu gwlat dracheuyn. Ac yna kynullaw llu a oruc charlymaen. ac a hwnnw dyvot hyt ygkylch caer agenny. ae gogylchynu a orugant. Ac wedy bot chwe mis wrthi. pan oed barawt gan charlymaen kwbyl oe beiryanneu hyt yn oet dyd. dechreu ymlad a hi aoruc. Ar nos honno yd aeth aygolant ae vrenhined ae benmaduryeit drwy ffenestri yr ystevyll bychein a gogoueu adan y dayar drwy avon aoed yno. Gwaron oed y henw. a dianc a oruc odyna y gan charlymaen. a thrannoeth y doeth charlymaen y vewn y dinas gan dirvawr lewenyd. Ac yna y llas or sarassinyeit deng mil hep a diengis drwy yr avon.

XXXIII.—Odyna y kerdws aygolant hyt ysconnas. dinas arall aoed idaw. ac yno y trigws aygolant. a dyuot a oruc charlymaen hyt yno ef ae lu. ac erchi y dinas. ac nys rodei namyn kynnic cat ar vaes idaw. ar hwnn a orffei kymerei y dinas. A nosweith kyn yr ymlad tynnu pebylleu a orugant. a pharatoi eu bydinoed ar weirglodyeu yssyd yrwng y castell talaburgus ar gaer. ger glan avon taranti. a rei or cristonogyon a sangassei eu peleidyr yny dayar yn emyl eu pebylleu. a thrannoeth y cawssant eu peleidyr yny dayar. wedy tyvu risc a deil arnadunt a blodeu. nyt amgen y rei a gymerynt palym verthyrolyaeth yr ffyd grist. A llawenhau a oruc y rei hynny am welet yr anryuedawt dwywawl hwnnw. ac yn gyflym tynnu eu peleidyr or dayar aorugant. a chyrchu y sarassinyeit. Ac yny diwed y dyd hwnnw y kymerassant coron verthyrolyaeth. ac nyt oed vwy eu llu no phedeir mil. Ac yna heuyt y llas march y charlymaen. ac ef a seuis ar y draet gan alw cannorthwy duw a meir. a galw y nerthoed attaw. ac o law gadarn llad llawer onadunt. Ac yny diwed y gyrrws charlymaen wynt ar ffo y vewn y gaer. a diengis yn vyw onadunt. ac eu hymlit ygkylch o gylch y gaer eithyr y tu ar yr avon. a phan

doeth y nos. y ffoes aygolant ay lu drwy yr avon. a hynny a wybu charlymaen. ac eu hymlit aoruc a llad brenhin agab a brenhin bugi. Ac yny las pedeir mil ny orffowyssws charlymaen ay lu.

XXXIV.—Ac ar y ffo hwnnw y kerdws aygolant pyrth ciser. ac yd aeth pamphilonia. ac anvon ar charlymaen. ac erchi idaw dyuot yno y gymryt brwydyr. A phan doeth hynny attaw. ynteu a ymchwelws ffreinc y gynnullaw lluoed mwyhaf a allws o bell ac agos. a ryd a chaeth. Ac yr a uei o geithiwet arnadunt eu rydhau y dyuot yr lluyd hwnnw. a rodi udunt breinnyeu ac arglwydiaetheu a erchynt udunt. ac y eu hettivedyon wedy wynt. ac a oed ygkarchar eu rydhau. Ar angkenogyon ef ay gossymdeithawd. Ar rei noeth ef ay gwisgawd. ac aoed ysbeilyedic oy dylyet ef ay hatuerawd idaw dracheuyn. ac a rodes y bob ryw dyn y vreint ay dylyet. A phawb or aoed dysgedic yn arueu. ac a oed ysgwieryeit a urdws yn anrydedus o abit marchawc urdawl. Ac a wahanassei y wrthaw oy garyat ef oc eu heuyrllit wy. ef ay ymchwelws attaw o wir gygweinnyeint. Ac ar vyrder kyueillyon o dynyon a gymmyrth ef yn dylwyth y vynet yr yspaen y ystwng paganyeit. Eb y turpin archesgop. minheu obleit duw ac oy awdurdawt awch ellyngaf oc awch holl bechodeu.

XXXV.—Ac yna y kynnullwyt y gyt pedeir mil ar dec ar rugeint a chann mil o varchogyon grymus kyfrwys yn ymlad a sarassinyeit hep assaueryeit a phedyt. y rei nyt oed hawd allu rif arnadunt. Ac yuelly yd aethant yr yspaen. Pennaf gwr y henw aoed yno yn ryvelwr wedy charlymaen turpin archesgob remys. a annogei y bobyl ffydlawn ac a bregethei udunt yr ymlad a sarassinyeit. ac ay rydhaei oc eu pechodeu. Ac ef ehun a ymladei ym blaen y cristonogyon. Rolant tywyssawc lluoed. yarll cenoman. ac arglwyd blam. nei charlymaen mab y tywyssawc milo o engeler o chwaer charlymaen y vam. gwr mawrhydic moliannus a phedeir mil o ymladwyr aruawc. ac ef a vu rolant arall. ac ny chymhwyllir ef yma yr awr honn. Oliuer dywyssawc lluoed marchawc da. mab reinnier yarll. a their mil o wyr

aruawc ganthaw. Ystultus yarll liwn. mab yarll oed. a their mil ganthaw. Ac yn yr amser hwnnw yd oed yn ynys brydein gwr un henw a hwnnw. ac nys crybwyllir yma. Engeler duc o wasgwynn a phedeir mil o ymladwyr kyfrwys ym pob arveu. ac yn enwedic o saethu. Ar amser hwnnw yd oed engeler arall yn yarll ym peittwf. ac ny dywedir yma dim amdanaw. y llall hagen a hanoed o genedyl gwasgwynn. ac a oed tywyssawc ar gaer acwittain. dinas yssyd y rwng y teir gwlat. benont. a biturr. a pheittwf. ar dinas hwnnw a adeilws yn gyntaf augustus cesar. ac arodes yn henw arnaw acwittan. ac arodes yn ystyngedic idaw hynn o wladoed. Biturinus. benonicas. Pictarmin. a sconias ac engolismus. ar kynydeu darystyngedic wrthunt. Ac am hynny y gelwir y wlat honno oll acwittan. Ac wedy llad o engeler a dyledogyon y wlat honno yn rwncyual. yr hynny hyt hediw y mae yn diffeith oy dyledogyon. ac ny bu un dyledawc ohonei ehun ay gwledychei. Gayffrei brenhin burdegala a their mil ganthaw o wyr da. Gelerus Gelinus. salomon ketymdeith ystultus. Bawtwyn brawt y rolant. Gandebolt brenhin ffrygia a seith mil o ryswyr ganthaw. Arnallt de bellanda a dwy vil o ryswyr ganthaw. Naaman tywyssawc banni a dec mil o rysswyr ganthaw. Oger brenhin denmarc a dengmil ganthaw. Lambert tywyssawc bituri a dwy vil o wyr ymlad ganthaw. Samson dywyssawc byrrgwyn a dengmil o ryswyr. Constans pennadur o ruvein ac ugein mil ganthaw o ryswyr. Reinaldus de alba spina. Gwallter de termis. gwillterinus garinus duc lotharingia a phedeir mil ganthaw. Hago. Albert de Burgundie. Berard de Mibles. Gwimart Estorintus. Tedric. Ivonius. Brengamus. Haco. Ganelon. sef oed hwnnw gwenwlyd. yr hwnn a vu vradwr gwedy hynny o wyr charlymaen. Sef oed riuedi llu daear freinc ehun. deugeint mil o varchogyon. nyt oed riuedi ynteu ar bedyt. Y gwyr heuyt uchot oed rysswyr clotuawr grymus yn ymlad or kyvoethogyon kywoethocaf. or kedyrn cadarnaf yn ymlad dros gristonogawl ffyd yny byt hwnn. Ac vegis y keissyws an arglwyd ni yessu grist ay deudec ebestyl

trossi y byt y gristonogaeth. yvelly y keissyws charlymaen vrenhin ffreinc ac amerawdyr ruvein. ygyt ar ymladwyr a rifwyt uchot. trossi yr yspaen y gristonogaeth.

XXXVI.—Odyna yd ymchwelassant. ac yd ymgynnullasant y emyleu byrgwyn y eu bydinaw. a gorthoi y lluydoed hynny a orugant. ar hyt y wlat ay llet. yny glywit eu kynhwrwf ar deudec milltir ffreinc. Ac odyna kyntaf lle a gyrchws pyrth ciser ernallt de belland. ac a gerdws hyt ym pamphilonia. Ac yn nessaf idaw ynteu ystultus ay lu. Ac odyna astarangus vrenhin a duc engeler ac eu lluoed. Odyna gandebold a chonstans ac eu lluoed. Ac yn olaf oll charlymaen ay luoed. a rolant yn achub yr holl dayar o avon rwime hyt ym mynyd ymdeith tri diwyrnot y wrth y gaer a ffordd sein iac. Ac wyth niwyrnawt y buant yn adaw pyrth ciser. ac yn hynny charlymaen a anvones ar aygolant y erchi y gaer ar dinas. neu a rodei vrwydyr ar vaes idaw. Ac wedy gwelet o aygolant na allei gynnal y dinas yn erbyn charlymaen. dewissach vu ganthaw rodi cat ar vaes idaw no ffo. neu y varw yn dybryt yny gaer. ac anvon aoruc aygolant ar charlymaen y erchi idaw ef ae luoed ymbaratoi yn vydinoed. a rodi kennat y aygolant y ymwelet ac ef. ac y ymdywedut val yd oed yny damunaw.

VAL Y DOETH AYGOLANT Y YMWELET A CHARLYMAEN.

XXXVII.—Ac yna y rodes charlymaen kennyat i dyuot y ymwelet ac ef. A symudaw aoruc charlymaen. ef ae luoed. or gaer yd oed yndi. ef ae luoed a gyweiryassei chun y dyffrynt gwastat aoed agos udunt. Ac o blith y lu ar y drugeinvet o bennaduryeit y doeth aygolant. yny vyd rac bronn charlymaen. y lle yd oed yny gadeir vrenhinawl ygkymerved y lu. milltir y wrth y gaer. ac ar y dyffrynt gwastat hwnnw yd oed y deu lu. y lle adassaf y ymgyuaruot y rwng deu lu. chwe milltir a geffynt o hyt. a chwech o let yn wastattir tec. Ac yna y dywat charlymaen wrth aygolant. ti a dugost o dwyll y arnaf i dayar yr yspaen a gwasgwynn.

y rei a geissyeis i o anorchuygedic dwywawl gedernyt. ac ae darystyngeis. ac ae hymchweleis ac wynt ac eu brenhined y dedueu crist. ac ym pendeuigaeth inheu. A phan ymchweleis inheu ffreinc. y lledeisti cristonogyon duw. a diuetha vygkayroed inheu am kestyll a wneuthost. o dan a hayarn yr holl dayar ae gwerin. A hynny oll ydwyf i yny gwynaw yngyndrychawl. A chany byt yd atnabu aygolant yeith arabic a dywedassei charlymaen. ryved vu ganthaw a llawen vu am wybot o honaw yr yeith. Pan vuassei charlymaen ar dalym yn twlws y dysgassei dywedut sarassinec. Mi ath wediaf di. eb yr aygolant wrth charlymaen. ar dywedut ymi paham y dygut ti. neu y keissyut tir a dayar. ny bu eidaw nathat na hendat na gorhendat ytt ygan an kenedyl ni. Llyma yr achaws eb y charlymaen. Am ethol oc an arglwyd ni yessu grist. creawdyr nef a dayar. an kenedyl ni yn gristonogyon ym blaen y genedyl deu di. ac y gossodes udunt arglwydyaeth ar holl genedloed y dayar. Ath genedyl ditheu sarassinyeit yny veint oreu y gelleis i. mi ae trosseis ar gret crist ae ffyd. Anteilwng. eb yr aygolant. yw ystwng oc an kenedyl ni yr einwch chwi. canys gwell o ragor yw an dedyf ni nor einwch chwi. Canys y nini y mae mahumet. yr hwnn a vu anvonedic y gan duw ynni. ay gymynnediw a gadwn. ac a gynhalywn. a dwyweu holl gyuoethawc yssyd ynni. y rei a dengys ynni. ac a venic o arch mahumet y peth adel ynni rac llaw. drwy y rei y mae an bywyt ni. ac y koelywn udunt. Aygolant. eb y charlymaen. yd wyt ti yn kyueilyorni. canys kymenediweu duw a gynhalywn ni. a chwitheu yssyd yn kynnal gorwac kymenediwyeu dyn. Nini a gredwn. eb y charlymaen. yr tat ar mab ar yspryt glan. ac ae hadolwn. A chwitheu a gredwch y diawl ac oe delweu. ac ae hadolwch. An eneidyeu ni a gynhalywn pan del angheu ynn. ac a ant baradwys y vuched dragywyd. a chwitheu uffern yd ewch. Ac am hynny y mae amlwc bot yn well an ffyd ni nor einwch chwi. a chanyt etweynwch chwi greawdyr nef. ac na mynnwch chwi y atnabot. ny dylywch chwitheu kyfrann nac o nef nac o dayar. namyn awch medyant.

ac awch ymdiryet yssyd yn dyawl gyt a mahumet awch duw. Ac am hynny aygolant gwna un o deu peth. ay kymer vedyd a byd vyw. ae dos y ymlad ym erbyn i a byd varw. Boet pell y wrthyf i. eb yr aygolant. kymryt bedyd. ac ymdiwat a mahumet vyn duw holl gyvocthawc. namyn ymlad a wnaf a thi gan yr amvot hwnn. os an dedyf ni a vyd dewissach gan duw nor einwch chwi. a goruot ohonam ni arnawch chwi. diamheu vyd yna vot yn oreu an dedyf ni. Os yr einwch chwitheu a vyd dewissach gan duw. a goruot o honawch chwi. bit y kewilid ar gwaradwyd yr nep y gorffer arnaw. llewenyd a molyant yr nep a orffo. Ac wrth hynny os vyngkenedyl i y goruydir arnei am dianc i. mi a gymeraf vedyd.

XXXVIII.—Ac ar y geiryeu hynny y duhunassant o bop parth. Ac yn diannot yd etholet ugein marchawc o bop tu. ac eu gellwng y ymlad. Ac ar hynt y llas yr ugein sarassin. Ac odyna yd anvonet deugeint yn erbyn deugeint. ac y llas y deugeint sarassin. Ac odyna yd anvonet cant yn erbyn cant. ac yn y lle y kiliws y cristonogyon dracheuyn. ac y llas rei onadunt. a rac ouyn eu hangeu y ffoassant. Ac or rei hynny y gellir dyall cristonogyon ffydlawn. canys pwybynnac a vynno ymlad dros ffyd duw ny dyly ef kiliaw dracheuyn. Ac vegis y llas wynteu y duw am ymchwelyt dracheuyn. val hynny ffydlonyon crist y rei a dylyant ymlad yn gadarn yn erbyn pechodeu. ot ymchwelant dracheuyn. marw vydant yn dybryt yn eu pechodeu. Ot ymladant yn diffleis didramgwyd ac eu gelynyon. wynt ae lladant nyt amgen y dievyl a wassanaytha. ac a ennyn gosgymon y bechodeu. Ny choronheir neb mal y dywot yr ebostol ar nyt ymlado yn sauedic. Odyna yd anvonet deucant yn erbyn deucant. ac y llas oll y sarassinyeit. Ac yna wedy kyngreiryaw o bob parth. y doeth aygolant y ymdidan a charlymaen. ac y gyuadef arnaw bot yn well dedyf y cristonogyon noc eu dedyf wynt. A dywedut a oruc wrth y genedyl ehun. y kymerei ef vedyd. ac erchi udunt wynteu oll y gymryt. A rei a vu duhun am hynny. ac ereill ny bu.

VAL Y TREMYGAWD AYGOLANT VEDYD.

XXXIX.—A thrannoeth ygkylch awr echwyd. a chyngreir y rygthynt y ymdreidyaw. y doeth aygolant ar charlymaen. ar vedwl y vedydyaw. a phan doeth y ymwelet a charlymaen. yd oed charlymaen ae niveroed yn kymryt eu kinyaw. a byrdeu hard brenhineid rac eu bronn. Ac ereill yn barawt hep neb yn bwytta arnadunt. Ac ar rei or byrdeu ydoed marchogyon urdawl yn eisted. Ar ereill rei ac abit myneich duon amdanadunt. Ereill a gwisc canonwyr amdanadunt. Ac yna y govynnws aygolant y charlymaen ansawd pob rei oll onadunt. herwyd eu hamryaual abit. Ac ynteu a attebawd idaw ef. Y rei a wely di a dillat durrud un lliw amdanadunt. esgyb yw y rei hynny ac offeiryeit yn an dedyf ni. a wynt a vanagant ynni gorchymynneu an dedyf. ac an gellyngant oc an pechodeu. ac a rodant ynn bendith an arglwyd grist. Y rei a wely ditheu ac abit meneich duon amdanunt. Abadeu kyssegredic yw y rei hynny. a vyd yn gwediaw duw drossom ni. Y rei a wely ditheu ar abit wenn amdanadunt. canonwyr y gelwir y rei hynny. ac syd yn daly wrth vuched seint etholedic. yn gwediaw drossom. ac yn canu offerenneu a phylgeinneu ac oryeu y dyd drossom. Ac ym plith hynny yd arganvu aygolant y mewn congyl deudec reidus yn bwytta. hep vwrd hep liein hep nemawr o vwyt nac o diawt. Ac yna y govynnws aygolant pa ryw dynyon oed y rei hynny. Kenedyl duw. eb y charlymaen. yw y rei hynny. a chennadeu y yessu grist. yssyd deuawt gennym ni eu porthi beunyd ygkyueir y deudec ebestyl. Y rei yssyd yth gylch di. eb yr aygolant. yssyd anrydedus ac amylder o vwyt a diawt a phob da. Ar rei a dywedy eu bot yn genedyl y duw. ac a gadarnhey yssy varw o newyn a noethi. ac yssyd ym pell y wrthyt. ac a dreithir yn waradwydus. Drwc y gwassanaetha oe arglwyd a erbynnyo y gennadeu mor dybryt a hynny. Mawr a gewilid a wna oe duw a wassanaetho velly oe weissyon. Dy dedyf di a dywedassut y bot yn da. a hitheu yn drwc. a thuhun yn dangos y bot yn ffals. A chan gennat sorredic mynet

ymdeith. A rac dielwet y gweles ansawd y reidussyon y gwrthodes y vedydyaw. Ac o hynny allan y geniver reidus a weles charlymaen o gret. ef ay gossymdeithws yn diwall o vwyt a dillat. Ac or kyfranc hwnnw y gellir atnabot bot yn vawr cabyl y cristyawn gall-uvawr ny wassanaetho reidus o gristyawn yn uvyd. canys o hynny o damwein ac achaws. na mynnws aygolant nay bobyl eu bedydyaw. Beth a vyd dyd brawt yny praw yr nep a draetho anghanogyon yn drwc. Pa delw y gwerendeu ef aruthyr lef yr arglwyd pan dywetto. Kerdwch y wrthyf i y rei emelltigedic yny tan tragywyd. canys pan vu newyn a sychet ac anwyt arnaf i. ny cheueisi y gennwch chwi na bwyt na diawt na dillat. Edrychet pawb ohonawch panyw bychan a dal y ffyd ae dedyf y gristyawn hep weithredoed da oe gwpplau. Mal y dywawt yr ysgrythur. Megis y mae marw corff hep yr eneit. yuelly y mae ffyd yndi chun hep weithredoed da. Megis y gwrthodes y brenhin pagan bedyd. euelly y mae ovyn i na bo ffrwythlawn y vedyd y gristyawn ny chwpplao o weithredoed gyt a chredu oe gallon.

MAL Y LLAS AYGOLANT.

XL.—Odyna drannoeth y doethant o bob parth ar vedwl ymlad ar yr amvot y dywedassynt uchot. sef riuedi a oed yn llu charlymaen. pedeir mil ar dec arrugeint a chant. a chann mil a oed y aygolant. a phedeir bydin a oruc y cristonogyon. a phymp bydin a oruc y sarassinyeit. Ar vydin gyntaf onadunt a gyuaruu ar cristonogyon a las oll. Ac odyna y dyvu yr eil vydin. a honno heuyt a las oll. A phan weles y sarassinyeit hynny. ymgynnullaw a orugant. a rodi aygolant yn eu perued. A phan weles y cristonogyon hynny. eu gogylchynu a orugant. Ac or neill tu udunt yd oed ernallt de belland ac lu. Ac or parth arall yd oed estult ae lu. Ac or tu arall yd oed arastagnus vrenhin ac lu. Ac or parth arall udunt yd oed charlymaen ae dywyssawc ymladeu. ac eu bydinoed yn dodi gawr ar eu kyrn cliffeint yn duhun wrawl. ac yn kythrudaw y

sarassinyeit oc eu trydar. A chan ymdiryet yn duw eu kyrchu a oruc y cristonogyon udunt. a dechreu eu llad ac eu distryw yn wychyr. A chyntaf y kyrchws ernallt de belland wynt ef ae lu. ac ef a bwryws a gyvarvu ac ef o bob tu idaw. yny doeth yr lle yd oed aygolant. A phan doeth ygkedernyt y niver y lladawd ernallt y benn. a chwynvan vawr a vu yna. a chythrudaw y sarassinyeit yn vwy no meint. Ac ny diengis odyna onadunt namyn brenhin sibli a goruchelvaer cordubi. ac ychydic o niver paganyeit. a ffo a oruc hynny onadunt. ac nyt oed anydyfnach y gwaet udunt yn eu hymlit. noc y deuei yr budugolyon hyt ym bras eu hesgeiryeu. ac a odiwedassant or sarassinyeit yny gaer a ladassant oll. A llyna val y gorvu charlymaen ar aygolant o amvot ragori y dedyf. Ac am hynny gwell yw dedyf cristonogaeth no nep dedyf or byt. O gristyawn. o chynhely di ffyd da oth gallon. ac chwpplau oth weithret yny veint y gellych. ef ath dyrcheuir yn diamheu yar yr engylyon gyt a christ dy benn. yr hwnn yd wyt aylawt idaw o mynny esgynnu kret gadarn. canys mal y dyweit yr arglwyd. pob peth yssyd herwyd yr a gretto. Ac yna wedy ymgynnullaw y lluoed y gyt. llawenhau a orugant or veint vudugolyaeth honno. Ac odyno yd aethant hyt ym pont argay ar fford seint yac. ac yno y lluestassant oll.

XLI.—Odyna y nos honno yd ymchwelassant y cristonogyon y wrth charlymaen. o chwant yspeil y rei a ladessit. a hynny hep gennyat charlymaen. hyt y lle y buassei y vrwydyr. Ac val yd oedynt ac eu beichyeu arnadunt o eur ac aryant yn dyuot drachevyn. y doeth udunt goruchelvaer cordubi. a niver a oed ygyt ac ef yn llech. ac eu llad oll ygkylch mil o rivedi. Y rei hynny a arwydokaa cristonogyon a ymlado a phechodeu. ac a ymchwelo udunt dracheuyn. canys val y gorvu y gwyr hynny ar eu gelynyon. ac yd ymchwelassant dracheuyn oc eu llad wynteu ar eu gelynyon. yuelly pob cristyawn a orvei ary bechawt val y meirw. nyt amgen y pechodeu. Ac ual y collassant eu buched yma. y neb a doeth y yspeilyaw o dybryt angheu. Val hynny pawb or a...el

yngkreuyd ac ymadaw ar byt. ac a ymyrro eilweith ar negesseu bydawl. wynt a gollant vuched nevawl. ac a ant y angheu tragywyd.

XLII.—A thrannoeth y menegit y charlymaen bot furre vrenhin navarr yn mynnu ymgyuragot ac ef. a phan doeth charlymaen y vynyd garzim. y llunyeithwys y tywyssawc hwnnw brwydyr trannoeth yny erbyn. Ar nos kynny vrwydyr yd erchis charlymaen y duw menegi idaw y neb a dygwydei yny vrwydyr honno oe wyr ef. a thrannoeth gwedy gwiscaw y lluoed. nachaf groes goch ar ysgwyd y neb a ledit or cristonogyon ar warthaf eu llurugeu. A phan arganuu charlymaen hynny. attal y niver hwnnw aoruc yny capel rac eu llad yny vrwydyr. Oia duw heb ef. mor anhawd ym ordiwes a brodyeu duw. ac ymganlyn ae ffyrd. Wedy daruot y vrwydyr. a llad furre. a their mil or sarassinyeit gyt ac ef. ac ef a gauas charlys y niuer a warchayassei yny capel yn veirw. sef oed eu riuedi ygkylch degwyr a deugeint a chant. O gyssegrediccaf vydin ymladwyr crist. kyny lado cledyf eu gelyn wy. eissoes ny chollasant palym y vudugolyaeth. ac yna y goresgynnwys charlymaen mynyd garzim. ar holl o navarr yny cidaw ehun wrth y gristonogaeth.

O YMLAD FFERRACUT.

XLIII.—Ac yna y kennattawyd y charlymaen bot yn nager cawr. ferracut y enw. o genedyl goliath. a doeth o eithauoed siria gwlat. ac anuonassei amilald brenhin babilon y ryuelu a charlymaen. ac ugein mil oe genedyl gantaw. Nyt oed ar hwnnw ofyn na gwayw na chledyf na saeth. kynny bei namyn ar y deugeinuet o wyr kadarn. Ac yna y kyrchwys charlymaen hyt yn nager. A phan adnabu ferracut y dyuodyat. y doeth allan or gaer. y gynnic ymlad ac un ac un. Ac yna yd anuones charlymaen oger o denmarc idaw. A phan yd arganuu y cawr ef yn y maes. kyrchu attaw aoruc yn ysgaelus. ae gymryt yn y holl arueu y dan y vreich deheu. ae dwyn yggwyd pawb hyt y gaer. yn un agwed a chyt bei dauat war. Y veint oed deudec cufyd yn

y hyt. a chufyd yn hyt y wyneb. a dyrnued idaw chun yn hyt y drwyn. pedeir cufyd yn hyt y vreicheu. ae ysgeired. a their dyrnued yn hyt y vyssed. Odyna yd anuonet attaw ar vedwl ymlad ac ef Reinallt or dreinwen. ac yn diannot y duc ynteu ygharchar yr castell. Odyna yd anuonet constans vrenhin ruuein. a hywel iarll. ac wynteu. un adan y vreich deheu. ar llall adan yr asseu a duc yr castell. Odyna yd anuonet pob deu wr yny vu ugeint. A rei hynny heuyt a orchymynnwys ygharchar. A gwedy gwelet o charlymaen hynny. a ryuedu ac ef ae niuer hynny. ny lauassawd anuon attaw o hynny allan. Ac eissoes wedy caffel o rolond tywyssawc ymladeu o vreid gannyat y gan charlymaen. y doeth y ymlad ar cawr. ac aryneigus oed charlymaen ymdanaw rac y ieuaget. ac ynteu yn amgeledus ymdanaw ef. Gwediaw ar yr arglwyd a oruc ar gadarnhau y nei oe nerth y hun.

XLIV.—A phan weles y cawr rolond yn dyuot attaw. y ysglyuyeit a wnaeth ac law deheu mal y lleill. ae dynnu y ar y varch y rygtaw ar goryf. A phan yttoed yn y arwein parth ae gastell. galw y nerthoed a oruc rolond. ac ymauel ar cawr erbyn y vreuant. gan ymdiret yn duw. ac ymhoelut y wdyf yn y wegil ar y varch. a chwympaw yll deu hyt y llawr y ar y meirch. Ac yn diannot cyuodi ell deu ygyt. a chaffel pob un y varch. Ac yn y lle gossot o rolond ar y cawr a dwrndard y gledyf. a thebygu y lad. Ar march a drewis yn deu hanner ar un dyrnawt. A gwedy bot ferracut ar y draet. ac yn bygythyaw rolond ae gledyf. y daraw ynteu o rolond ar y vreich yd oed y cledyf yn y law. a chanyt argywedei yr vreich y dyrnawt. y gledyf eissoes a aeth oe law. Ac yna wedy colli y gledyf o ferracut. keissaw rolond ae dwrn a oruc. ac nys cauas. namyn y march yn y dal yny dygwydwys yn varw. Odyna yd ymladassant ar eu traet ac eu dyrneu ac a meini. A phryt gosper erchi kyggreir hyt trannoeth a oruc ferracut y rolond. Ac ymadaw trannoeth a orugant ar dyuot y ymlad heb veirch heb leifeu ell deu. A gwedy amodi yr ymlad yd aethant at eu pebylleu.

XLV.--A thrannoeth y doethant ar eu traet gwawr dyd yr ymlad val y hamodyssynt. Ferracut eissoes a duc gantaw cledyf. ac ny rymhawys idaw. canys rolond a dugassei gantaw trossawl troydic hir. ac a hwnnw yd amdiffynwys y hun hyt ducher. ac a ffustwys y cawr. ac nyt argywedwys idaw dim. A mein mawr heuyt a oed yn y maes y taflawd yn hyt y dyd ef. ac nyt argywedawd idaw dim o hynny heuyt. A gwedy blinaw or cawr ae orthrymu o gyscu. erchi kygreir y rolond wrth gyscu. Ac val yd oed rolond yn was syberw mawrurydic. dodi carrec a oruc y dan y benn. val y bei lonydach y kysgei. Diogel oed idaw ynteu. canys ammot a oed y rygthunt na christyawn a rodei kygreir y sarasin. na sarasin a rodei y cristawn. y chadw yn gywir. A phwybynnac ae torrei yn dirybud. y lad awneit idaw. A gwedy kyscu dogyn or cawr. deffroi a oruc. A rolond yn eisted ger y law. ac amouyn ac ef o rolond. pa ryw gedernyt. a pha ryw galedi a oed yn y gnawt. pryt na allei na gwayw na chledyf na maen na phren argywedu idaw. Ny ellir vy mrathu. heb y cawr. namyn ym bogel. A phan gigleu rolond hynny trossi mal kynys deallei. canys yspaenec a dywedei. ac er ieith honno y gwydyat rolond ohonei digawn. Ac ar hynny edrych a oruc y cawr ar rolond. ac amouyn ac ef val hyn. A phwy dy enw ditheu. heb ef. Rolond heb ef yw vy enw. O ba genedyl. heb ynteu. pan wyt ti. mor gadarn yd ymerbyny di a miui. Nyt ymgyuaruu a mi eiroet dy gyngadarnet ti. O genedyl ffreinc pan wyfi. heb y rolond. nei y charlymaen. O ba dedyf yd henyw y ffreinc. heb y ferracut. O dedyf gristonogawl y pan ym ni o rat duw. heb y rolond. ac y bendeuigaeth crist y darestygwn. a thros y dedyf hyt y gallom yd amryssonwn.

XLVI.—A phan gigleu y pagan enwi crist y gouynwys ynteu. pwy y crist y credy di idaw. Mab duw. heb y rolond. yr hwn a anet or wyry. a diodeuawd yn y groc. ac a gladwyt ym med. ar trydydyd y kyuodes o veirw. ac a aeth dracheuyn ar deheu duw. Ninheu a gredwn. heb y cawr. pan yw un duw yw creawdyr nef

a dayar. ac na bu idaw na mab na that. namyn megis na enis neb evo. na enis ynteu neb. ac wrth hynny y vot ynteu yn un duw. ac nyt ynt yn dri. Gwir y dywedy. heb y rolond. y vot ef yn un duw. pan dywedy ditheu nat tri ef. yd wyt yn cloffi yth ffyd. O chredy di yn y tat. cret yn y vab. ac yn yr yspryt glan. Canys duw dat yw ef. a mab. ac yspryt glan. un duw yn deir person. Os tat y dywedy di. heb y fferracut. bot duw. ar mab yn duw. ac yspryt glan yn duw. tri duw ynt. yr hyn nyt gwir. ac nyt un duw. Nac ef. heb y rolond. namyn un duw. ac yn dri y pregethaf inheu efo. ac un yw a thri. Y teir person gogyuoet ynt a gogyffelyp. un ryw y tat. ac un ryw y mab. ac un ryw yr yspryt glan. Yn y personeu y mae priodolder. ac yn dwyolyaeth y mae unolder. ac yny medyant y mae kyffelybrwyd. Un duw trindawt a adolant yr egylyon yn y nef. A thri a welas abraham. ac ef a adoles un. Dangos ym hynny. heb y cawr. pa delw y mae y tri yn un. Dangossaf yt. heb y rolond. trwy y creaduryeit dayrawl. Megys y mae tri pheth yn y delyn pan vo yn canu. nyt amgen. keluydyt. a thanneu. a llaw. ac eissoes un delyn yw. val hynny y mae tri pheth yn duw. tat. a mab. ac yspryt glan. ac un duw yw. Ac val y mae yn yr amandlys tri pheth. nyt amgen. risclin. a phliscin. a chnewillyn. ac eissoes un amandlys yw. Val hynny y mae teir person y un duw.

XLVII.—Yn yr heul y mae tri pheth. gwynder a goleuat a gwres. ac eissoes un heul yw. Yn olwyn y venn y mae tri pheth. both. a breicheu. a chylch. ac eissoes un olwyn yw. Ynot dy hun y mae tri pheth. corff. ac aelodeu. ac eneit. ac eissoes un dyn wyt. val hynny y mae duw yn un ac yn tri. Ny wn i hagen. heb y cawr. pa ffuryf y genis y tat y mab. mal y dywedy di. A gredy di. heb y rolond. gwneuthur o duw adaf. Credaf. heb y cawr. Mal na anet adaf. heb y rolond. y gan neb. ac eissoes ef a anet meibyon idaw ef. y velly ny anet duw tat gan neb. Ac eissoes ef a anet meibyon idaw ef. y velly ny anet duw tat gan neb. Ac eissoes ef a anet meibyon idaw ef. y velly ny anet duw tat gan

neb. Ac eissoes ef a anet y vab ef yn dwywawl val y mynnwys. kyn noc amseroed. val na ellir y datcanu. Da y dywedy di. heb y cawr. pa delw y bu dyn yr hwn a vu duw.ny wnn i dim o honaw. Yr hwn a wnaeth nef a dayar. heb y rolond. ac a grewys pob peth o dim. evo a wnaeth y vab yn dyn yn y wyry heb defnyd gwrawl. namyn oe gyssegredic yspryt ef. Yn hynny y llavuryaf vi. heb y cawr. Pa delw heb gyt gwr y genit mab o wyry. mal y dywedy di. Duw. heb y rolond. yr hwn a ffuruawd adaf heb gyt gwr. ac vel y ganet adaf heb vam o duw tat. val hynny y ganet y vab ynteu o vam heb dyn yn tat. Canys y ryw anedigaeth honno a weda y duw. Diruawr gewilid yw gennyf vi. heb y cawr. pa delw y genit o wyry heb dyn. Yr hwn. heb y rolond. a wna y pryvyn y mywn y ffaen. ac a wna tyvu pryf creadur y mywn y pren. a llawer o byscawt ac adar a gwenyn a nadred heb gyt gwryw. ynteu a wnaeth yr vorwyn wyry heb gyd gwr geni duw a dyn. Canys y neb a wnaeth y dyn kyntaf. mal y dywedeis i. yn hawd heb neb ryw gyt dyn. hawd y gallwys ynteu wneuthur geni y vab ynteu or wyry heb gyt gwrawl. Ef a allei. heb y cawr. y eni o wyry.ac os mab duw eissoes yw ef. mal y dywedy di. ny allei varw o neb ryw vod. cany byd marw duw byth. Da y dywedy. heb y rolond. gallu o honaw geni or wyry. a chanys ganet megys dyn. wrth hynny marw vu val dyn. Canys pawb or a aner a vyd marw. a chanys credadwy yw y anedigaeth. a chredadwy yw y varwolyaeth. neu y diodeuedigaeth. ac odyna y gyuodedigaeth o veirw. Pa delw y gellit gredu y gyuodedigaeth. heb y cawr. Canys a aner. heb y rolond. a vyd marw. Ar hwn a vu varw a gyuodes y trydydyd.

XLVIII.—A ryuedu yn vawr a oruc y cawr. pan kigleu y geir. ac atteb idaw val hyn. Rolond. heb ef. gorwac yw a dreitheist wrthyf hyt hyn. ny allei byth gyuodi dyn o varw yn vyw. Nyt mab duw ehun. heb y rolond. a gyuodes yn vyw o varw. namyn or a vu o dynyon o dechreu byt. ac a vo hyt y diwed a gyuodant rac bron y gadeir ynteu. y gymryt tal eu gweithredoed. mal y gwnel pawb. nac yn drwc nac yn da. Duw or

planhigyn a wna tyvu y pren yn uchel. Ar gronyn gwenith wedy y drewho yny dacar ac varw. ac gwna y tyvu ac y ffrwythaw y vyw dracheuyn. Ynteu a wna kyuodi pawb yn y dyd diwethaf o veirw y vywyt. Edrych ar anyan y llew. canys y llew oe vreuerat a vywhaa y genawon y trydydyd wedy y ganer yn varw. pa ryued yw kyuodi o duw dat y vab ynteu y trydydyd o veirw. ac ny dyly bot yn ryued genyt gyuodi mab duw o varw. pan gyvottynt llawer o veirw. kyn noc ynteu. Canys elias ac eliseus a wnaethant byw o veirw. haws oed y duw dat y gyuodi ynteu. Ar hwn a gyuodes llawer o veirw. kyn y diodef. hawd vu idaw y hun gyuodi o veirw. ac ny allei agheu attal hwnnw. yr hwn y ffy agheu racdaw. ac oe ymadrawd y kyuyt twryf y meirw. Mi a welaf yn dogyn a dywedy. heb y cawr. Pa delw y dyscynnawd ynteu or nefoed. nyd wn dim y wrthaw. Yr hwn a discynwys yn hawd o nef. a yscynwys yn hawd ar nef. ar hwn a gyuodes trwydaw y hun. hawd yd yscynwys ar nef. Kymer aggreifft o lawer o betheu. Rot y velin. y van a vo issaf yr awr hon. a vyd uchaf yr oric honno. Ederyn yn yr awyr. kyhyt ac y discyno. yd yscyn. O discynny ditheu o le uchel y le issel. ti a elly ymhoylut dracheuyn hyt y lle y discyneist ohonaw. Doe y kyuodes yr heul yn y dwyrein. ac y dygwydwys yn y gorllewin. a hediw a gyuodes yn yr un lle y doeth doe o honaw. Wrth hynny or lle y doeth mab duw o nef yd ymhoylwys dracheuyn. Wrth hynny vinheu a ymladaf a thydi. heb y cawr. gan ammot os gwir dy ffyd di goruot arnaf vi. Os geuawc hitheu goruot arnat ti. A bit yn waratwyd tragywydawl y genedyl y neb y gorffer arnaw. ac yr budugawl yn volyant. ac enryded tragywyd.

XLIX.—A chyrchu y pagan a oruc rolond yn diannot. a cheissaw rolond a oruc ynteu ae gledyf. A neidaw a oruc rolond ar y tu asseu idaw. ac erbyn y cledyf ar y drossawl. a gwedy torri y trossawl. rolond y gyrchu a oruc y cawr. ac ymauel ac ef. ae taraw y rygtaw ar dayar yn diannot. Ac yna yd adnabu rolond nat oed idaw fford

y ymdiang. dechreu galw ar vab y gwynuydedic veir wyry a wnaeth. Ac ar hynny ymlithraw pob ychydic ydanaw. ynny yttoed ar y warthaf. a dodi y law ar y gledyf. ac vrathu yn y vogel. ac ymdiang y gantaw. a gan oruchel lef galw or cawr ar y duw val hyn. Mahumet. Mahumet. vyn duw i. canorthwya ym. canys yr awr hon yd wyf varw. Ac ar y discrech honno y doeth y sarassinyeit y ysglyfyeit of gantunt yr castell. ac yd ymchoylwys rolond yn yach ar y niuer. Ac yn diannot cyrchu y gaer a orugant y gyt ar sarassinyeit a oedynt yn dwyn corff y cawr. a gwedy llad y cawr val hynny. y gaer ar castell a oresgynassant. ar gwyr a rydhawyt oc eu carchar.

L.—Gwedy ychydic o amser y datcanwyd yr amherawdyr. bot Ebraham brenhin cordubi. a brenhin sibli. ac almansor. a ffoyssynt kyn no hynny o pampilon. yny aros. yny ragot. ar odeu brwydraw ac ef. a niuer seith dinas gantunt. A llunyeithu brwydyr a oruc charlymaen yn eu herbyn. A phan doeth y cordubi ae lu gantaw. y doeth y brenhined a dywetpwyt uchot. ac eu lluoed gantunt yn aruawc ar deir milltir allan or gaer. Ac ygkylch dengmil oed llu y sarassinyeit. ac ygkylch chwe mil o cristonogyon. Ac yna y gwnaeth charlymaen teir bydin. Ar vydin gyntaf or marchogyon clotuoraf. ar eil o pedyt. ar tryded o varchogyon. ac velly y goruc y sarassinyeit. A phan yttoed y vydin gyntaf o arch charlymaen yn kyrchu y sarassinyeit. dyuot pedestyr rac bron pob marchawc udunt a gwasgawt baruawc cornyawc amdanunt kyffelyb y dieuyl. a thelyneu yn llaw pob un onadunt yn eu canu. a thumpaneu yn ffustyaw. ac yn gwneuthur dwrd y ysgodigaw y meirch. A phan gigleu meirch y cristonogyon y lleisseu hynny. ac y gwelsant eu haruthyr wasgodyeu. dychrynu a orugant. hyt na allei eu marchogyon eu hattal. mwy no chyt bei yndunt orffwyll. A phan welas y dwy vydin ereill yn ffo. ymhoelut a orugant wynteu. A phan welas charlymaen hynny ryvedu a oruc eithyr mod. yny adnabu pa achaws oed hynny. a llawenhau a oruc y sarassinyeit. ac eu hymlit.

ac yn herwyr y doeth y cristonogyon y vynyd. a oed ar dwy villtir or gaer. ac yna o kytundeb yd ymglymawd y cristonogyon y eu haros ar vrwydyr. A phan welsant hwy hynny. kilyaw dracheuyn ychydic a orugant. ac yna y tynnwys y cristonogyon eu pebylleu hyt trannoeth. A phan dyuu y bore a chymryt kyghor. y gorchymynnwys charlymaen y pob gwr march dodi penwisc o liein a brethyn. y gudyaw eu llygeit rac gwelet y gwascodyeu diawlic. a bydaru eu clusteu rac clybot eu lleisseu uffernawl. keluydyt enryued yn diannot. Gwedy gwarchae clusteu y meirch ac eu llygeit. y kyrchassant yn hy gan ysgaelussaw eu lleisseu bredychus. Ac or bore hyt hanner dyd y gordiwedyssant y sarassinyeit. a llawer onadunt a ladyssant. ac ny ladyssant eissoes cwbyl. ac ymdyrru ygyt a oruc y sarassinyeit. ac yn eu perued benn ac wyth ychen y danei. ac ar y venn eu hystondard wynteu wedy y dyrchauel. Ac eu deuawt hwynteu oed na ffoei neb onadunt. tra welynt yr ystondard yn seuyll. A phan adnabu charlymaen hynny. ruthraw a oruc ymplith eu bydinoed yn dangylchynnedic o nerth dwywawl. gan eu bwrw deheu ac ar asseu idaw yny doeth ar y venn. Ac yna taraw oe gledyf yny vu yr llawr y peiryant a gynhalei yr ystondard. ae hestwg hitheu yr ystondard a oruc yr llawr. Ac yna y dechreuis y sarassinyeit ffo o le y le yn wasgarawc. Ac yna gawr y lluoed a dodet o bop parth. ac y llas wyth mil or sarassinyeit. ac ebraim brenhin sibli y gyt ac hwynt. ac almansor a dwy vil gyt ac ef a gyrchwys y gaer. A thrannoeth gwedy goruot arnaw eturyt y gaer yr amherawdyr gan amnot kymryt bedyd o honaw. a darestwg y dan charlymaen. a daly y dinas y danaw. Ac odyna rannu a oruc charlymaen cantreuoed yr yspaen. ae chymhydeu. ae cheiryd ae dinassoed. yr neb a vynnei oe wyr y hun presswylaw yno. a holl yspaen a rannwys yuelly y dywyssogyon y hun. eithyr tir y galis y hun nys mynnwys neb o ffreinc. rac y drysswch. Ny bu o hynny allan yn y dydyeu hynny a allei aflonydu ar charlymaen yn yr yspaen.

LI.—Ac yna gwedy dillwg y wrthaw y nieuroed

mwyaf oc luoed. ac eu hadaw yn yr yspaen. y kerdwys charlymaen parth a seint iac. ac a gauas yno yn presswylaw a wnaeth yn cristonogyon. A ymhoylei onadunt hwynteu yn sarassinyeit. ay y lad a wnay. ay y anuon y alldudyaw y ffreinc. Ac yna y gossodes escyp ac offeiryeit. ac anrydedu a oruc. a dyuynnu cwnsli ygkaer compostel o dywyssogyon ac escyp. Ac yna o gyghor y cwnsli y gossodes ef. o anryded seint iac. ufydhau o holl preladyeit a thywyssogyon a brenhined cristonogyon yr yspaen ar galis. a rei kyndrychawl. a rei a vo rac llaw yn escyp seint iac. Yn iria ny ossodes ef un escob. namyn y bot y dan compostella. Ac yna o arch charlymaen y kyssegreis inheu turpin archescop remys. a naw escyp gyt a mi. eglwys ac allawr y seint iac yn anrydedus. hanner meheuin y hun. A darestwg yr holl yspaen a oruc y brenhin yr eglwys honno ar galis. ac a rodes yn y argyfreu pedeir keinnawc pob blwydyn. yn treth o bop ty yn yr yspaen ar galis. a rydit udunt wynteu y gan y brenhin o bop keithiwet. Ar dyd hwnnw y gossodet galw yr eglwys honno yn ebostolawl eistedua. o vot enw iago ebostol yn gorffwys yno. ac yndi hitheu bot kynnulleitua esgyb y wlat. a bot breint y escop y lle hwnnw y urdaw escyb a brenhined y wlat. Ac or diffyc cristonogaeth yn un or dinassoed ereill. neu y degeir dedyf o bechodeu y bobyl. o gyghor yr escop hwnnw y deuant dracheuyn. ac o iawn dylyet y dylyir yno eu gwastattau. Canys megys y gossodet cristonogawl ffyd effesus trwy ieuan ebostol brawt iago yn y dwyrein. val hynny y gossodet eistedua cristonogawl ffyd yn y galis yn y gorllewin. ac eistedua ebostolawl. A llyna yn diamheu y dwy eistedua a erchis y deu ebostol y crist ar y deheu. ac ar yr asseu. yny deyrnas.

LII.—Teir eistedua ebostolawl penyadur a ossodet yn y byt oc obryn onadunt. nyt amgen. Ruuein. ar galis.ar india. megys y rodes duw pennaduryaeth y gytymdeithas ae gyfrinacheu. nyt amgen. y bedyr a iago. a jeuan yn ragor rac ebystyl ereill. val ymae yn yr ysgrythur ar euegylyeu. Y ragor hwnnw a dangosses

duw udunt hwynteu yn y byt hwn drwy y teir eistedua bennyadur uchot. Ac o iawn dylyet y gossodet ruuein yn benaduryaf eistedua yr ebystyl. canys pedyr tywysawc yr ebystyl ae kyssegrwys oe bregeth ae briawt waet ae aghlad. Compostella yw yr eil eistedua benaduryaf o dylyet. Canys iago ebostol oed bennaf ymplith yr ebystyl o bennaduryaf deilygdawt. a mwyaf o anryded a hynauyaeth ac adwynder wedy pedyr ebostol. Ac yn y nef y mae penmaduryaeth idaw arnunt. Ef gyntaf a verthyrwyt. ef a cadarnhawys weith arall oe bregeth. ac a kyssegrwys o gladu y gorff kyssegredic. ac y mae yny oleuhau o wyrtheu. ay chyuaethogi o aneirifedigyon donyeu. Y tryded eistedua yw yr india. Canys yno y pregethwys jeuan ebostol y euegyl ynteu. ac o gytsynnyedigaeth escyp a ossodassei ynteu yn y dinasoed. ac a geilw ynteu egylyon yny llyuyr. Yr eglwys honno a gyssegrwys ynteu oe dysc ae wyrtheu. ac oe briawt gladedigaeth. Ac o deruyd damweineu pedrus ny aller eu teruynu. ay oblegyt byt. ay oblegyt eglwys yn yr eisteduaeu ereill. ac eu hanawster ac eu pedruster yn yr holl vyt. yn y teir eistedua pennyadur hynny y trychir. ac y teruynir yn deduawl. Wrth hynny y galis yn nechreu amseroed wedy y rydhau y gan y sarassinyeit o nerth duw ar gwynuydedic Jago. a chanorthwy charlymaen yr hynny hyt hediw y mae yn adwyn wastat yn gristonogawl gatholic.

LIII.—Pryt Charlymaen oed gwr tec gwedus. wyneb grudcoch a gwallt gwineu arnaw. ac aruthyr y olwc. Wyth droetued yw droet y hun oed y hyt. a mwyhaf traet oed y rei eidaw. Llydan oed ygkylch y arenneu. aduein oed am y arch. praff oed y vreicheu ae esgeireu. cadarn oed y holl aelodeu. Doethaf a chyfrwyssaf. ymrwydyr y marchawc gwychaf. Dyrnued a hanner yn hyt y wyneb. ae varyf dyrnued a hanner. Dyrnued yn y drwyn. a throetued yn llet y tal. Llygeit llew yn disgleiraw yn gynloywet a maen carbunculus. Hanner dyrnued yn hyt pob ael idaw. Pan edrychei yn llidyawc. dychrynu a digalonni a wnay y neb yd

edrychit arnaw. Wyth dyrnued oed arraed y wregys ymdanaw heb a oed odieithyr. Bychydic o vara a yssei. ac aclawt maharen. neu dwy iar. neu wyd neu yscwydawc hwch. neu baun. neu greir. neu yscyuarnawc yn cwbyl. Kyn gadarnet oed ac y trawei varchawc aruawc. ae varch yn aruawc. o warthaf y ben hyt y dayar ac un dyrnawt a chledyf. Pedeir pedol ar unweith a ystynnei yn hawd rwg y dwylaw. Marchawc aruawc yn seuyll ar y law a dyrchauei yn yscaelus yn gyuuwch ac wyneb. Haclaf oed o rodyon. Kyfyawnhaf yn y kyfreitheu. Goerhwyr oed yny ymadrodyon. Yny pedeir gwyl yn y vlwydyn pennaduryaf y dalyei lys yn yr yspaen. ac y gwiscei coron am y ben. a theyrnwialen yny law. nyt amgen. duw nadolic. a duw pasc. a duw sulgwyn. a duw gwyl iago ebostol. Rac bron y gadeir yn wastat o deuawt amherawdyr y dygit cledyf noeth. Ygkylch y wely beunoeth y bydei chweugeinwyr gwastat yn aruawc yn y warchadw. ar deugeint onadunt a warchatwei y ran gyntaf or nos nyt amgen. dec oduwch y ben. a dec od is y traet. a dec ar y tu deheu. a dec or tu asseu. ac yn llaw pob un onadunt cledyf noeth. ac yny llaw asseu y pob un onadunt tapyr kwyr yn llosci. Ac val hynny deugeint marchawc ereill yn yr eil trayan or nos. ac val hynny deugeint marchawc ereill yn y trydyd trayan or nos. hyt y dyd yn y gadw. ar lleill yn kyscu.

LIV.—Ac ossit a digrifhao gwrandaw y vawr weithredoed ef. y am hynny beich mawr gwrthrwm yw yni eu datcanu hwy. mal y datcan galafrus yn odidawc. A pha delw odyna y lladwyt charlymaen o garyat y galafrus hwnnw y elyn ef. nyt amgen. bravant vawr syberw brenhin y sarassinyeit. a pha delw wedy y goresgynnwys amrauael deyrnassoed. a cheiryd. a chestyll. a dinassoed. ac a darestygwys yn enw y drindawt yn gristonogyon. A pha delw y gossodes llawer o vonachlogoed. ac eglwysseu ar hyt y byt. a pha delw y llunyeithawd corfforoed llawer ac escyrn y seint ar hyt y byt. ac y llehaawd yn eur ac aryant. a pha delw y cauas amherodraeth ruuein. a pha ffuryf y kerdwys y gaerusalem. A pha ffuryf y

duc gantaw odyno croc yr arglwyd. or honn y berthoges ef llawer o eglwysseu. ny allafi nac hysgriuennu nac datcanu. mwy hagen y diffyc y llaw ar pin noc weithredoed mawrhydic ef. Mal yd ymhoelwys ef hagen or vrwydyr yn rwncyval y ffreinc. ac val y bu y vrwydr yglyn mieri. ac val y gwnaeth diwed y varchogyon yn yr yspaen. ac val y seuis yr heul yn un dyd oet tri diwarnawt y dial y cristonogyon ar y sarassinyeit. ac val y gwnaeth arwylant y wyrda. ac y cladwys hwy. Ac val y bu y kwnsli yn seint Dynys pan doethant drachеuyn. ac val yd adeilwys y lys y hun. ac eglwys yr arglwydes veir yny grawndwuyr. a pha ffuryf y bu diwed charlymaen yn y lle hwnnw. ni a dywedwn yn niwed y llyuyr hwn ar vyrder. Ar llyuyr hwn a ymhoeles Madawc ab Selyf o ladin ygkymraec. o adolwyn a deissyf Gruffud vab Maredud vab ywein vab Gruffud vab Rys.

LV.—Brenhin yr ynyssed. anrydedus brenhin yr ynyssed. Reinallt arderchawc brenhin yr ynyssed kenedlawc yn dridyblyc o wyrth a gweithret a chenedyl. A myui yn gymelledic oth arch di y dechreueis y gweithret hwn. y dodwn i deruyn pei na bei rac keryd vy anallu. Ac wrth hynny y bu dewisach gennyfi adaw y llyuyr hwnn yn anorffen. noe ymhoelut oth arch di o rwmans yn lladin. yn yr hwn ny chyfadefaf vi vy mot yn awdur. namyn yn dyallwr ystoryeu. Ac wrth hynny. tydi leawdyr. o cheffy di yn y llyuyr hwn dim agkredadun. neu agkyfun y wirioned. na liwia yr golystawdyr. namyn yr awdur. y gweithret kynntaf. cany dylyir galw yn euawc datcanwr geu arall. namyn y neb a vo dychymygyawdyr y awdur kyntaf yr geu. Ac or llyuyr lladin hwnnw yd ymhoelwyt hwn yghymraec. A phwy bynnac a vynno gwybot. neu gwrandaw y chwedyl grymus o wastatrwyd y vryt. ymosteget. a ninneu a draethwn idaw o ulodeu y chwedleu. nyt amgen. noc y wrth y grysmusaf charlymaen vab pepin. ben vrenhin ffreinc. yr amherawdyr bonedicaf a chyuoethocaf. ac arderchoccaf gorysgynnwr gwladoed anffydlonyon a gelynyon crist a vu erioet yn ruuein. Ar deudec go-

gyuurd o ffreinc. y rei a ymgarwys yn gymeint ac nat ymwahanassant eiroet yny las. Pan wnaeth gwenwlyt eu brat y anffydlawn genedyl y paganyeit. yn yr un dyd ef a las onadunt seith cant ac ugein mil. am yr hyn a gymerth charlymaen yndaw diruawr dolur a thristwch. yny doeth y agheu ynteu. Y chwedyl hwnn gwell yw. ac odidogach. cany cheffir gann veird. na chroessanneit. rei a beidwys oll ac ef. am na wybuant dim y wrthaw. namyn canu y danger a landri y neb y gwybuant y wrthunt. ac or hyn a ellynt ehunein y dychymygu. Ny wybuant hwy hagen dim or collet dissyueit a deuth yr amherawdyr charlymaen.

LVI.—Pan yttoed charlymaen vrenhin ffreinc. duw gwyl vil veib. yn y dinas a elwir paris. wedy ry gynnal o honaw yn y llys gwyleu y nadolic yn arbennic anrydedus. ar deudec gogyuurd o ffreinc ygyt ac ef. ac aneirif o ieirll a barwneit. a marchogyon urdawl. a phob rei onadunt yn digrifhau y brenhin ac niuer. ac yny lawenhau hyt y gellynt oreu o gytundeb. hwy a ossodassant dadleu. Ac yn hwnnw hwynt a ymgadarnhyssant drwy kyflyed yd eynt y ryuelu yn erbyn varsli vrenhin yr yspaen. a hynny wedi darffei vis ebrill. a chael onadunt llyseuoed newyd. a gwellt ir y meirch. Kyn canu gospereu hagen yn y dref. hwynt a glywynt chwedleu ereill. nyt amgen. no ry lad ugein mil oc eu ffreinc. onyt ystrywys duw onadunt. y gwr a wnathoed yr holl vyt. Nachaf sarrassin or yspaen. Otuel oed y enw. gwr a wedei yn anrydedus o bedeir fford. o arderchogrwyd o bryt. a chadernyt yn arueu. a chenedyl. a doethineb. yn dyuot yn gennat y varsli vrenhin. Ac a varchoccawys drwy baris yny doeth hyt yn llys y brenhin. Ac a dysgynnwys yn y porth. ac odyno y dyrcheuis y uynyd ar hyt y gradeu tu ar neuad. Ac yna Oger o denmarc. a gwallter o orreins. a naim tywyssawc cadarn a gyuaruuant ac ef. ac ynteu a erchis udunt hwy dangos charlymaen idaw. Ac a venegis udunt y vot yn genat y vrenhin nis carei ef o werth un bwttwn. a chyntaf ei hattebawd Gwallter. weldy racco ef yn eisted. heb ef. y gwr kyfyslwyt. ar varyf vawr. ar wisc du ymdanaw.

ar gwr ys yn eisted ar y neillaw. ar vantell yscarlla coch ymdanaw. Rolond y nei ef yw hwnnw. Ac oliuer iarll yw y gwr ys yn eisted ar y llaw arall idaw. ketymdeith rolond. ar deudec gogyuurd ys yn eisted o bop parth udunt wynteu wedy hynny. Myn Mahumet. heb y sarasin. bellach mi a adwaen charlymaen. a phoet tan drwc a fflam wyllt a losco y varyf. ac a hollto y gorff drwy gledyr y dwyuron hyt y sodleu.

LVII.—Ac yna dyuot racdaw gyr bron y brenhin a oruc val kynt. a dywedut wrthaw val hyn. Charlymaen. heb ef. gwrandaw arnaf i. kennat wyfi yr brenhin cadarnhaf a vu erioet ygkyfreith yr yspaen. gwr nyth annerchwys di o dim. canys dylyei achaws y vlyghau o honot. a llidyaw mahumet. a minheu poet y gwr val y credaf vi yndaw. ef ath ladho di ar holl getymdeithas ar niuer yssyd yth gylch. ac yn enwedic rolond dy nei. Gwr pei as caffwn i euo ymrwydyr. neu yn lle y gallei vy march redec yn y erbyn. am cledyf mi ay gwanwn ef yny vei yn ver drwydaw. Sef a wnaeth rolond yna chwerthin. ac edrych ar y brenhin. ac odyna dywedut wrth y sarassin val hyn. ty a elly dywedut dy holl ewyllys. heb ef. yr awrhon. heb y ludyas o neb or ffreinc it. Dichawn heb y charlymaen. tra vo da gennyt ti wrth vot yn diogel idaw om plegyt i hyt ympen yr wythnos. Ac yna y dywat Otuel. yn y ffyd y dywedwch hynny. heb ef. wrth na anet yn dyn y bo arnafi y ovyn. tra gaffwyf y cledyf hwn ar vyglun. curceus yw y enw. wrthaw ym urdwyt yn varchawc urdawl. ac nat oes etwa namyn mis yr pan ledeis i benneu mil o ffreinc ac ef. Ba du oed hynny. heb y charlymaen. Deuit y gof it dywedut yn. Mi a dywedaf ywch yn llawen. heb yr otuel. Neut ydynt wyth mis. ar nawuet yw hwn. yr pan dystrywyt ruuein dy dinas di arbennic. ac or hwn yth elwit yn amherawdyr o honaw. Garsi vrenhin ae varwnneit ae kymerth idaw ehun. ac yna y llas o rwg gwys a gwraged ugein mil. ac ychwanec mawr ygyt a hynny. ac y ffusteis inheu y sawl o honunt hwy am cledyf. hyt nat aeth y rhwd om hardwrn hyt ympen yr wythnos. Ac yna y dywat y ffreinc. gwaethiroed duw. heb wy. velly dy

eni di eiroet. Ac estud o lengrys. marchawc prouedic y daeoni oed hwnnw. a gyuodes y vynyd a throssawl mawr pedrogyl yn y law. ac a geisswys y daraw a hwnnw. A rolond a aeth yrygtunt. ac a dywat wrth estud val hynn. estud. heb ef. yr vygharyat i. o chery di vi o dim. peit ar sarasin. ac arbet ef. canys yttiw yn ymdiret ynofi. hyt na allwyf wneuthur drwc idaw. a gat idaw dywedut y holl ewyllys.

LVIII.—Ac yna sef awnaeth marchawc ac annwyt krynwr gantaw. prouycel y enw o sein gille. mynet or tu draegeuyn yr gennat heb wybot idaw. ac ae deu dwrn ymauel ygwallt y benn. ae tynnu gantaw yr llawr. Ac otuel a gyuodes yn llym y vynyd. ac a tynnwys curceus y gledyf. ae dwrn yn eureit. ac a dorreis benn y marchawc yarnaw. yny vyd yn gware yn emyl traet y brenhin. Ac yna sef awnaeth y ffreinc erchi y dala. ac ynteu a enkilywys ar neilltu oc eu plith wy. ae lygeit wedy yr gochi. a rei hynny yn troi yn y ben yn vuan. kynnhebic oed y lew newynawc. a vei yn rwym. ac a darffei y lidyaw. Ac a chyffro mawr yny neuad am y chwaen honno. ac ef a dywat o nerth y benn. a varwnneit. heb ef. na chyffrowch. myn mahumet. y gwr yd ymrodeis idaw. mi a wnaf seith cant o honawch yn veirw y kynhenoch. Ar amherawdyr yna a gyuodes y vynyd. ac a erchis idaw rodi y gledyf attaw ef. Ar sarasin a dywat nas rodei. a bod yn salw ynteu y geissaw. Ac yna rolond a erchis idaw y rodi attaw ef. ac ynteu a gymerei arnaw y rodi dracheuyn idaw pann ymwehenynt. a hyt hynny y differei rac gwneuthur o neb cam idaw yn oreu ac y gallei. Ac otuel a dywat wrthaw. Arglwyd tec. heb ef. a hwdy ditheu ef. ac adolwyn yw gennyf it y gadw yn da. wrth nas rodwnn i ef yti er seith dinas goreu yth gyuoeth. ac wrth heuyt y lledir dy benn etwa ac ef. Myn vy ffyd. heb yr rolond. gormod yd ymuolecheist o ragor. ac na wna bellach hynny. namyn dywet dy gennadwri. ac odyna kymer dy gannyat y vynet dracheuyn. A minheu a wnaf hynny yn llawen. heb ef. a rodwch ym ostec.

LIX.—Charlymaen. heb yr otuel. nys kelaf ragot.

kennat wyf y garsi amherawdyr. gwr ys yn kynnal gwlat yr yspaen. ac alisandyr. a busi. a thire. a sydon. a phers. a barbari. ac y mae pob gwlat o hynny yn darestwg idaw hyt yn femynie. Ef a erchis yt ymadaw ath gristonogaeth. wrth na thal un arllegen. ar neb ny chreto y hynny ynvydrwyd mawr a wna. a dyuot yn wr y vahumet. a gwasanaethu idaw. y gwr ys yn llywaw yr holl vyt. ath niueroed ygyt athi. ac odyna dyuot attaw ynteu. ac a at it gwlat auueryn. a manancie. a holl borthuaeu lloygyr. ae haberoed. y tu yma y vor rud. ac ef a dyry y rolond dy nei gwlat russi. ac y oliuer y getymdeith y wlat a elwir ysclaumie. Ny at ef ytti hagen callon ffreinc wrth yr daruod idaw y rodi y florien o sulic. mab iwlf goch brenhin barbarie. y gwas goreu or yspaen. a mwyhaf y glot ŏ digoni. a marchogaeth yn da. a goreu a dereu a chledyf gloyw. hwnnw a gynheil ffreinc yn ryd tagneuedus idaw. ac oe etiued. Ac yna y dywat yr amherawdyr. myn y ffyd. heb ef. gan nerth yr hollgyfoethawc ny byd y damwein velly. A pheth a dywedwch chwi y niuer a vegeis i eiroet am hynny. Amherawdyr dyledawc. heb yr barwnneit. ac niueroed. ni diodefwn ni yn dragywydawl caffel o sarassinyeit ffreinc yn eu baeliuaeth. namyn par dyuynnu dy gyuoeth ygkyt. ae lluydaw. ac odyna os mynny. llywya ni hyt y lle y gallom ymweled ar genedylaeth vudyr honno. ac ochafyn nynheu y garsi vrenhin hwnnw ymywn brwydyr. ny dieinc ef ac benn gantaw odyno ragom ni.

LX.—Ac yna y dywat otuel. mi ach clywaf. heb ef. yn dywedut ymadrodyon ynvyt. a rei yssyd yn bygythyaw garsi ynn awr. ef ae llad hwy etwa. ac ae darestwg. Canys pan weloch chwi veint y allu ef ae varchogyon. y glewhaf o honawch ni dichawn chwerthin. ac ef a vynnei kyn hynny y vot tu draw y normandi. Heb y neimys tywyssawc. eissoes. heb ef. pei dyuynnei charlymaen y allu ygyt. pa du y caffei ef arsi vrenhin a ymladei a niueroed charlymaen. Ry anyallus. heb yr otuel. yw dy ymadrawd. a ry ynvyt. pan vont ygyt seith cant a seith mil o honunt yn llurygeu gloywon. ac

arwydon o syrie. a bot yn gynt y diodefynt agheu ygkyt noc y ffoynt neb onadunt wrth y gilyd. A chyt a hynny neur deru udunt wneuthur dinas. ae chadarnhau yny chylch ogylch o geuryd a chlodyeu y rwg deuwr. atalye yw y enw. na wnaeth duw yn dyn a allei ludyas udunt vynet y hely. ac y byscotta y maes o honaw. nac ymywn. A phei delei charlymaen varyflwyt yno. ny a wybydem py diw y bei orderch. a phwy oreu a trawhei a chledyf gloyw. O daw hagen conners bilein. na dabre di charlymaen mwy no chynt. o gwney vygkygor. namyn gwarchadw di baris. ae cheyryd. hyt na disgynno arnei na barcut. na bran na phiot. wrth na elly di bellach dim yn reit gwyr. a chywilydyaw awnaeth y brenhin. yn gymeint ac na wydat beth a dywedei. Ac yna y kyuodes rolond y uyny yn gyflawn o irlloned. breit nat oed ynvyt. ac y deuth tu ar sarasin. ac y dywat wrthaw val hynn. bradwr diueryawc. heb ef. gormod a dywedy. a gormod yr ymhoffeist hediw yggwyd y ffreinc. ac myn y gwr a diodefwys poen yn y groc. pei na rodwn gret it. ath vot yn ymdiret ym. ti a vydut varw yr awr honn gennyf. o chaf hagen ymgyuaruot a thi mywn brwydyr. mi a rodaf it ryw dyrnawt am cledyf. val na hanffo gwr gwaeth bonhedic yrot vyth wedy hynny. Heb yr otuel. a nynheu a wybydwn hynny yr awr honn. a llyma vivi yn barawt od ydwyt yn keissaw ymwan. heb ef. yth wyssyaw ydwyf y bore avory yr weirglawd trwy amot na bo namyn un ac un. Heb y rolond. a gwna ditheu yn diogel y deuy yno. Hwdy vy ffyd. heb yr otuel. am credadunyaeth om holl ewyllys y deuaf. Ar neb o honam ny del. y vot yn llwfyr kyuadef byth. ac yn boen arnaw torri yspardunneu wrth y sodleu yn gwtta. ac na bo urdedic byth yn llys o hynny allan.

LXI.—Ac ar hynny. ymffydyaw a orugant. val yd oed diogel gan bob un onadunt y deuei y gilyd. Ac yna y dywat charlymaen o seint dynys wrth y sarasin. yr y ffyd y credy di ydi. heb ef pa blwyfogaeth yth wlat yth anet di yndaw. a phwy dy enw. Otuel. arglwyd. yw vy enw. heb y sarasin. a mab wyf

y galien vrenhin. gwr a ladawd o dynyon moc noc a geffy di yth holl gyfoeth yr awr honn. Am ceuenderw yw garsi vrenhin. am hewythyr oed fferacut. o tref y barbari a elwir nazared. yr hwnn a ladawd rolond ef. Ac avory y bore y dialaf ynheu arnaw ef yn annrugarawc. Heb y brenhin bonedic yna. digawn byth a dywedy. Ac yna galw a wnaeth ar reiner gwas y gwely attaw. ac erchi idaw. Kymer. heb ef. y gennat honn ygyt a thi. a dwc ef y ty gerner vygkyfeillt. a dyro idaw cann swllt yn lle y vwyt. a chann swllt ereill dros y varch. Ac odyna y gelwis Richart hen. a gwallter o liwns. ac oger ly danays. ac y dywat udunt. Ychwitheu. heb ef. y gorchymynnaf gwassanaethu ar y marchawc bonhedic hwnn. ae diwallu o bop peth or a vo reit idaw wrthaw. ac velly y buant hwy y nos honno. A thrannoeth pan oleuhawys y dyd. y kyuodes Charlymaen y vynyd. ac y peris kyrchu rolond. ac ydaethant y wedyaw yr capel. ac abbat seint omer a gant offeren udunt. ar brenhin a beris dyuot a phiol aryant yn llawn o parissennot. ac y offrwm ydaeth ef ar deudec gogyuurd. A rolond a aeth y offrwm a dwrndard y gledyf. a thracheuyn ac dillygawd o seith morc o aryant. A gwedy yr offeren. peri canu oryeu or dyd awnaethant. ac odyna dyuot or eglwys y edrych a welynt y sarasin. ac ynteu a dathoeth y gyfrwch ar brenhin. Ac yna y deuth otuel yn ryuygus racdaw. ac y gelwis ar y brenhin. ac y dywat yn valch wrthaw. Charlymaen. heb ef. mae rolond dy nei di. ac a gery yn vawr. ar gwr y mae holl ymdiret ffreinc yndaw. mi ae gwna yn annudonus. ac ae haglotuorhaf megys pei darffei ym oruot arnaw. onny chynheil yr amot a wnaeth a mi doe yggwyd yr holl lys a gwr a gwreic.

LXII.—Ac ar y geireu hynny y deuth rolond ynn greulawn o lit. ac y tyghwys. mynn yr ebestyl. heb eb. a diodeuassant benyt yr eu harglwyd. ny pheidwn ni hediw yr dyn orry syd vyw. yny gymellwyf arnat tewi. ae oth oruot. ae oth lad. ae o beri it ymhoelut ar ffyd gatholic. a gwna ditheu. heb yr otuel. a chymer dy arueu dan yr amot hwnnw. Os mivi a gilya. mi a

ganhadaf vygkrogi. Heb yr oliuer. balch iawn yw dy eireu. a heb ostwg o dim. a ryfedwch mawr yw or deuant yn da it. Ac yna yr un gogyuurd ar dec a arwedassant rolond y ystauell. ac a wisgassant ymdanaw arueu tec diogel. lluryc a wnaethoed buttor dysgybyl y galiant. y gwr kywreinaf a uu or grefft honno yny oes ef. A neimys tywyssawc a glymwys y carreieu ygkylch y vynwgyl. ac a dodes helym echtywynnedic am y benn. a vuassei eidaw y golias gawr. ac a gawssei charlymaen pan ladawd braiant. Ac odyna wynt a dugant idaw dwrndal y gledyf. yr hwnn oed ouer y neb yno y hoffi. wrth nat oed yn ffreinc na bychan na mawr nys atnapei. ac ny wyppei nat oed y gystal hyt y dwyrein odyno. A gwedy hynny y dodassant am y vynwgyl taryan drom gadarn. wedy yr ysgythru yn odidawc ac eur lliw. ac ac azur. Yn gyntaf y daroed ysgythru ygkylch y bogel y petwar prif wynt. ar deudec sygyn. ar deudegmis y vlwydyn. yny bei pob un onadunt yn kerdet yn erbyn y gilyd. Ac yn y kwrr issa idi uffernn. ac uch law hynny y nef ar dayar. wedy yr gwmpassu yn gywreint. Yn y deu gwrr ereill y daroed ysgythru yr heul ar lloer. a hynny trwy lauur mawr. ac ystudyaw. Yn y harwest nyt oed dim eithyr pali odidawc. ar ystyllenn oed maen daimawnt calet. Ac odyna wynt a dugassant idaw paladyr cadarn. a phenn da arnaw. ac ystondard odidawc o goch. a gwyrd. o vlaen y gwayw hyt y dwrnn. A ierins iarll a wisgwys ysparduneu eur ac aryant am y draet. March a ducpwyt idaw oed gynt y redei noc y kerdei y quarel. pan ellygit o albrast cadarn. hyt na wnaeth duw yn llwdyn arall kyfret ac ef. nac ae cannhymdaei ar tal y ergyt saeth y wrthaw. Y gyfrwy oed gristal. ae hoelon oedynt aryant. ar panel oed bali mawrweirthawc. ar gwarthauleu oed eur coeth ysgythredic.

LXIII.—Ac yna y iarll a ysgynnwys yn gyamysgauynet. ac na dodes nae droet yn y warthal. ac heuyt nat ymauaelawd ar goryf. a gollwg neit y varch yggwyd y niuer a wnaeth. ac ymhoelut at charlymaen drae-

geuyn dan chwerthin. a dywedut wrthaw. Arglwyd. heb ef. dyro ym dy gannyat ath vendith. ac odyna or daw y sarasin y ymlad ym ny byd gwarantrwyd idaw am y eneit. Nei. heb y brenhin. yr neb a wnaeth y nef ar dayar yth orchymynnaf. a phoet ef athiffero rac drwc. A dyrchauel y law a wnaeth. ac groessi. Ac yna rolond a vrathwys y varch tu ar weirglawd. a hyt yn oet y meibon ar morynyon ar y ol yn mynet. a phawb onadunt yn dywedut. y iessu yth orchymynnwn. ac yr arglwydes veir. a phoet adiffero hediw rac agheu. Ar un gogyuurd ardec a ysgynnassant yn gyflym ygyt ac ef. ac ae dugassant yrwg y deu dwfyr yssyd yn kerdet trwy y tref ymparis. Y neill onadunt yw sein. ar llall a elwir marin uawr. Y sarasin etwa yn seuyll rac bronn y brenhin. ac ef a dywat wrthaw yn wychyr. Charlymaen. heb ef. par ym luryc. a helym. a tharyan. a chledyf. March da buan yssyd y mynheu vy hun. nat oes un well noc ef hyt ymbeliant. a minheu a adawhaf yt yn wir ar vy ffyd am cledyf. os kyflymet ef a phan aeth ygennyfi. y lladaf rolond it kynn awr anterth. Ac yna llidyaw a oruc y brenin yn diruawr y veint. breid na holltes. a dywedut wrth y pagan. duw. heb. ef. ath lado di ath genedyl yn gyntaf. rac meint ym kyffroeist ar lit. a thristwch. ac eissoes arganuot belisent y verch aoruc yn dyuot oe hystauell parth ar neuad. A phan deuth ymywn echtywynnu aoruc yr holl neuad oc thegwch. megys hi vei yr heul awr hanner dyd vis mei. neu leuuer maen carbunclus. pan vei tywyll y nos. Ac ef a ymneidwys arnei ae vanec. ac a dywat wrthi. Merch. heb ef. i ti y gorchymynnaf y pagan hwnn yma. a gwisc ymdanaw ar ffrwst val na chollo dim oblegyt y arueu. Ymlad a gymerth arnaw yn erbyn rolond vy nei. Arglwyd. heb hitheu. yn llawen. ac ef a wneir hynny wrth dy ewyllys. Ac yna belisent a elwis ar phlandrin or mynyd tec. a roes ormuel dwy vorynnyon vonnedic creill. a hwynt ell teir a arwedassant otuel hyt ar fwrd o vaen marmor pedrogyl. Ac yna a wisgassant ymdanaw lluryc a vuassei eidyaw samuel vrenhin. a llun ederyn odidawc

ar y choler or tu racdaei. A phlandrin a glymwys y carreieu ygkylch y vynwgyl. ac am y benn helym galathiel vrenhin. homo pedrogyl oed. a gwedy gwneuthur yny chylch modrwyeu a blodeu amryual o eur. ae thrwyn ar weith ederyn bonhedic.

LXIV.—Ac odyna belisent a wisgwys ar y glun y gledyf chun. yr hwnn a vuassei athael vrenhin. sef yr oed hwnnw curceus. Kystal oed y awch ac un kyllell lem. Ac wedy hynny wynt a dodasant am y vynwgyl taryan newyd gadarn. kynn wynnet ar eiry. Y bogel oed o eur. y hoelon oed aryant. ac a dugassant idaw paladyr llinon cadarn. a phen llydan llym gloyw arnaw. Ac ystondard newyd kynn wynnet a blodeu yr alaw. a llun eryr yndi. ac yn dwyn sarff rwg y deutroet. a roes ormwel a wisgwys am y draet dwy yspardun oedynt gwerthyd a ryw gastell. Ae gyfrwy a ossodet ar migrados vuan y varch chun. kynt y redei pan dosturyit ac ysparduneu noc yr ehedei y saeth or llinyn. Ar amws drythyll llamsachus. val y gwelas y arglwyd. ae hadnabu. ac ynteu a ysgynwys arnaw. a gwell o ragor y gwydat ef y wrth ymlad nor kywreinhaf y wrth taraw a myrthwl. Ac yna gollwg neit kywreint a oruc y varch. ac ymhoelut draegeuyn at belisent. a dywedut wrthi. Unbennes vonhedic. heb ef. duw a diolcho it. da yawn yr wisgwyt ymdanaf. a dyro ym dy gennat. a marw vyd rolond gennyf ynheu yn diannot wedy hynny. Ac yna y dywat belisent. Ymogel di ynda hagen. heb hi. rac dwrndal. ac onyt ymdiffynny di ynda a churceus racdaw ef. ny chymelir dinas ohonat ti vyth bellach. Ac ar y geireu hynny y kerdwys otuel racdaw. ac oger lydanais. a neimys tywyssawc cadarn. ae canhebrygassant hyt y weirglawd. lle yd oed rolond. A charlymaen a dercheuis y ffenestri uchel. ac a elwis ar yr un gogyuurd ardec attaw. ac erchis udunt dyuot ygyt ac ef. ac a beris y bawp or ffreinc vynet or weirglawd. ae hadaw yr deu varchawc. Ac odyno yd erchis udunt wynteu ymlad pan vynnynt o hynny allan. Ac otuel a dywat y vot ef yn barawt. ac yna y dywat rolond wrth y pagan anffydlawn. Mi a andiffydaf a thi o hynn allan

bellach. heb ef. a minheu a thitheu. heb yr otuel. y kyffelybrwyd. Ac ymogel yn da ragof. wrth nath garaf o dim. ac y gouynnaf yt agheu fferacut vy ewythyr a ledeist.

LXV.—Ac yna brathu eu meirch ac yspardunеu yn gadarn aorugant. ac ymgyrchu yny yttoed y weirglawd y rwg y ffrost a meint y gwynt. ac y twrwf wynteu yn bennaf yn gyffrydyeit oll. ar dayar ygkyueireu arnei yn hollti. A gostwg gwaywar. ac hystondardeu yn chwythu yn aruthyr gan y gwynt. a gwan o bop un y gilyd yny daryan dyrnawt mawr yny dorres eu deu wayw yn gyffredin. ac eu lledyr brwt. Da vu hagen y llurygeu wrth na thorres un vodrwy ohonunt. ac nat ymystynnwys o dim. Ac racdunt y kerdassant y marchogyon grymus heb golli dim o un onadunt. Ac yna y dywat charlymaen. a duw. mawr a enryuedwch yw hwnn gennyfi. yr gynnal or sarasin un dyrnnawt yn erbyn rolond. Heb y belisent y verch. a oed yn seuyll ger y llaw. da yawn yw vy arueu i. heb hi. ae handygyawdyr hwynteu nyt llwfyr o dim. Ac gwedy y geireu hynny. rolond a tynnwys dwrndard y gledyf. ac a trewis otuel ar warthaf y helym echtywynedic yny dygwydwys y thrwyn yr llawr. a riuedi mawr or modrwyeu. ar blodeu tec. ar mein gwerthuawr ygyt ac wy. ar eilweith yn gyflym a drewis penn y varch yny vyd y wrth y gorff ympell yr llawr. Ac yna y dygwydwys otuel pan ballwys y varch idaw. ac a dywat deu eir. Mynn mahumet. heb ef. gweithred ansyberw rolond a orugost. llad vy march heb achaws. nae haedu ohonaw. ac nyt aa dy teu ditheu dan chwerthin odyna. A thynnu curceus y gledyf a oruc. ac y ystynnu y daryan or tu racdaw. a neidaw oe vlaen parth ac at rolond. ae daraw ar warthaf y helym yny dygwydwys y thrwyn yr llawr. a llithraw y dyrnawt ar y goryf vlaen. a tharaw y kyfrwy drwydaw ar march am y balueisseu. yny vyd y cledyf hyt y dwrn yny dayar. a dywedut geir bocsachus yn uchel. Mynn mahumet. heb ef. nyt oed dyrnawt mal yr hwn yr awr hon. A duw. heb y brenhin. mor oed drwm y dyrnawt hwnnw. Ac yr

arglwydes veir yd archaf ynheu amdiffyn ym rolond vy nei. Ac o dygwydwys y iarll nyt reit y neb y ryuedu. canys dygwydassei y varch yn varw ydanaw. Dwrndal hagen a oed yn barawt yn y law. ac ef a ossodes ar y sarasin ac ef. ac ae trewis ar wastat y helym yny dorres y phedwared ran. ar penn lluryc. ar neill hanner y glust ynteu hyt y maes. ac a holltes y daryan hyt y chymherued. ac ynteu hayach wedy yr lad. neu yr oruot. val y tebygei bawp. Yr oed hagen gan otuel glewder. a gallu mawr ar ymlad val kynt. ac a churceus a dalawd y dyrnawt idaw dracheuen. a rolond idaw ynteu yn helaethach. heb vynnu dim y gantaw yn rat.

LXVI.—Ac velly y buant yn kefnewidyaw dyrnodeu. ac yn glutaw ar ymlad o bob parth. val na thalei y llurygeu udunt dim yn erbyn eu cledyfeu. yny yttoed y weirglawd yn disgleiraw o vodrwyeu y llurygeu. Ac yna y dywat belisent. Llyna ymlad yn drut vonedigeid y maent hwy yr awr hon. heb hi. ac val na dichawn parhau ynnepell rac glewder a syberwyt y marchogyon. a dy yawn y mae dwrndal cledyf rolond yn trychu. eithyr na dyly ef y curceus dim. A duw. heb y brenhin. mal y twyllwys vy medwl. ac y gadawd vygkallon ym dywedut kelwyd. A dygwydaw yn groes a oruc tu ar dwyrein. a dodi gwedi at yr arglwyd yny megys hwnn. Duw holl gyuoethawc. heb ef. mal ydwyt vrenhin a llywyawdyr holl re genedloed gwyllt a dof. amdiffyn ym rolond vy nei. ac ymhoel gallon otuel sarasin val yr aruollo vedyd. ac y creto yth vendigeit enw ditheu. A chussanu y dayar aoruc. a chyuod yny seuyll. ac odyna dodi y benn drwy y ffenestyr. a gwelet y marchogyon yn ymlad val kynt. heb gymeint gantunt oc eu taryanneu. ac y kudyynt eu dyrneu or tu racdunt ac ef. Ac yna y dywat rolond wrth y pagan. Ymwrth heb ef a mahumet. ac a thervagawnt. a chret ymywn duw hollgyuoethawc. y gwr a diodeuwys poeneu yn prynu ninheu o dragywydawl geithiwet uffern. A chymmer rod vonedigeid. sef yw hwnnw. belisent verch charlymaen amherawdyr. am kefnitherw ynheu. my a baraf y rodi yt. a mi. a thi. ac oliuer a vydwn getyndeithon.

ac velly ny byd na chastell. na dinas. nac artal. ny caffom. ac nys darestygom ynni ehun. ac yr hynny moy no chynt. ny cheissafi gennyt ti werth un yspardun. Heb yr otuel. ffol y dywedy hynny. a meuyl idaw ath wnaeth yn yscolheic. a chyt bych yscolheic. a disgybyl ti. athro wyf ynheu val y dangossaf it. kyn yn gwahanu. Dyrnawt arodaf yt kymeint ac na ellych dywedut geir mwy nor einyawn. pan trawher ar ord hayarn.

LXVII.—Ac odyna sef a oruc rolond llidyaw yn diuessur y veint. ac a dwrndal yny law. ae dwrn yn aur coeth. taraw otuel ryuelwr ar warthaf y helym. yny neidawd y tan or cledyf. ac or helym. ac goglyt ychydic or sarasin val yr oed gyfrwys ar y wassannaeth. digwydaw y dyrnawt heb law y balueis. a thorri y lluryc deudyblic. ae holl aruer o benn y ysgwyd hyt yggwregys y lawdyr. Nyt ymgyuaruu hagen y cledyf a dim or kic. ac eissoes mawr yawn oed y dyrnawt. ac val y peris yr marchawc plygu. a dygwydaw hayach ar benn y lin yr llawr. Sef a wnaeth llawer or ffreinc yna gwediaw a hoffi y dyrnawt. a dywedut ry oruot y sarasin. ac na allei y amdiffyn ehun. nac ymlad bellach no hynny. Oed odit hagen onadunt hwy aadnappei otuel. nac ae gwellhei y ygkyfrageu kynno hynny. Mab galien vrenhin a neidwys y vyny yn amysgawn y dial y dyrnawt. a phei na wyppei rolond ymoglyt rac y dyrnawt hwnnw. ny trawhei dyrnawt vyth ar varchawc wedy hynny. Ar sarasin a symudwys lliw. ac lygeit yn troi yn ei benn yn vuan. megys llwdyn dic newynnawc. ac a dercheuis curceus y vynyd. ac a ossodes ar rolond ac ef oe nerth. ac ae trewis trwy y lit dyrnawt mawr ar warthaf y helym. pei na throei y cledyf y mywn y dwrn. val y trawssei y benn y arnaw. Ar eil a rodes idaw ar y parth asseu. a chymeint ac a oed oe daryan yny law a dorres yn deu dryll. ac a gauas or aruou ereill oll yny aeth y cledyf ympell yny dayar. a dygwydaw rolond y ar y deu troet yr llawr. Ac yn tynnu y gledyf attaw y dywat otuel. Mynn mahumet. da yawn y trycha vygkledyfi. ac arganuot a oruc y ffreinc yna hynny. ac ofynhau yn vawr veint y dyrnodeu. a gwelet

yr daruot udunt rwygaw a thorri eu llurygeu or tu racdunt. ac or tu draekeuyn. ac nat oed gantunt oc eu taryanneu kymeint ac a gudyei eu dyrneu. A dygwydaw ae hwynebeu at y dwyrein. ac ofyn mawr arnadunt am rolond eu harglwyd. Ac yr arglwyd duw y gorugant erchi danvon kygor da yr marchogyon. ac gwneuthur tagnoued yrygtunt. oe kygreiraw. ae o diogelrwyd arall.

LXVIII.—Ac ar y geireu hynny yny vyd colomen yn ehedec val y gwelei charlymaen. ae holl niuer. ar yspryt glan yn disgynnu ar benn ysgwyd otuel. Ac yna y dywat ynteu. val yr yttoed rolond yn mynnu y taraw y dial y dyrnodeu arnaw. Kilya dracheuyn. heb ef. ac arho. ny wn pa beth a weleis yn ehedec ger vymronn a symudwys vy medwl am hewyllys ar yr ymlad hwnn. triget ar hynn. ac oth garyat titheu mi a gymeraf vedyd. ac a archaf i veir vadeueint. a hi a vyd amdiffyn o hynn allan. ac yndi yd ymdiriedaf. Ac yna pan gigleu rolond hynny y dywat wrthaw dan chwerthin. Unbenn bonhedic. heb ef. a oes yth vryt ti hynny. Oes mynn vy ffyd. heb yr otuel. a mi a ymwrthodaf yr awr honn a mahumet. ac a theruagawnt ac apolin. ac a johun leuedic. ac holl getymdeithas. ac yna bwrw eu cledyfeu ar y glaswellt ywrthunt a wnaethant. a dodi o bop un or marchogyon grymus y dwylaw am vynwgyl y gilyd. A duw. heb y brenhin. mor yw mawr y gwyrtheu hynn. llyna wy wedy yr gyuunaw. heb ef. ac yn gwneuthur ryw amot yrdunt my a gymeraf arnaf. Ac ewchwitheu y edrych vy marchogyon dewr i. a hwynteu a aethant val y gellynt gyntaf. ar brenhin ehun a vrathwys march ar eu hol. Ac val y deuth yno. gouyn a oruc y rolond. a garu nei. heb ef. pa wed yd ymglywy di. a pha ryw amot a ry wnaethawch yryoch. Arglwyd heb ynteu. gwed da yd ymglywaf. wrth vy mot yn hollyach. ac yn llawen. ac na cheueis dim drwc yr ymlad ohonaf ar ymladwr goreu. a dewraf a uu eiroet o wyr agkret. a diolwch y duw neur derw ym wneuthur kymot ar hynn. y kymer otuel vedyd. a christonogaeth. ac aruoll ditheu ef yn hyuryt. a dyro idaw enryded. a gallu. wrth y ewyllys ehun. ac

ygyt a hynny belisent dy verch yn briawt idaw. A duw . heb y brenhin. val y gwnaethost yr awr honn vy mynnu i. a llyna yr hynn yd ocdwn ynheu yn mynet y erchi it y wneuthur.

LXIX.—A diaruu y marchogyon yn gyflym a wnaethant yna. A rolond a yscynnwys ar amws buan drythyll. ac otuel ar vul uchel rygygawc. a pharth ar dinas y deuthant wrth vedydyaw otuel. Ac eglwys veir ymparis a gyrchassant. a thurpin archescop remys a wisgwys yr ystol. ac a gymerth sallwyr. ac a dywat y letanie. Ac odyno y deuth uch benn y ffynnawn. ac ae bendigwys. Mawr hagen oed y niueroed o ieirll a barwnneit. a marchogyon. ar ymsag gantunt yn edrych ar vedydyaw otuel. A charlymaen ae delis wrth vedyd. ac odis iarll. a girat iarll normandi. ac ny symudassant wy y enw ef. namyn y alw yn otuel val kynt. Ac yna gwedy ymwrthot ohonaw ac agkret. a daruot y vedydyaw. y deuth belisent yn tegach no blodeu y ros. a dawns varyftec ae harwedawd parth ac at charlymaen. ar brenhin ae kymerth gerwyd y llawes. ac a dywat wrthi. Merch heb ef. tec yawn wyt. a da yw dy liw. a phwy bynnac ath gaffei un nos yny vedyant. ac wrth y gynghor. ny dylyei vot yn llwfyr vyth o hynny allan. namyn yn volyannus o lewder a digoni yn da. Ac velly y byd y neb ath geiff ditheu. o ryd duw hoedyl idaw. y mae ar y neb kynvygedus llawer o ffreinc. Ac wrth otuel y dywat. Vy mab bedyd. heb ef. yr awr honn y kyflewneist y dedyf yawn. canys ymwrthodeist a mahumet. a chymryt bedyd ohonat. ac yn lle hynny mi a rodaf it belisent vy merch yn orderch it. a gwlat verel ygyta hi. ac yvori. ar haste. a phlancente. a melan. a phanie. a lumbardie. Sef a wnaeth otuel yna gostwg ar benn y lin. a chan uvylltawt mawr a diolwch rodi cussan y troet y brenhin. a dywedut wrthaw val hynn. Arglwyd. heb ef. llyna beth ny wrthodafi. os da gann y vorwyn. da yw gennyf ynheu. Ac yna y dywat belisent. da gennyf. heb hi. a bellach mi a geueis vy yechyt. ac ny dyly dyuot ediuarwch ym vyth am vygkyualle. ac ny byd twyll garyat gennyf vinheu

yth gyfeir di yn tragywydawl. Heb yr otuel. A chanys bydy orderch ditheu ymi. oth garyat ti minheu a haedaf glot. ac enw. a llawer pagan ger bronn dinas atalie a vyd marw gan vygkledyf gloyw. canys keueis vedyd. Ac y titheu amherawdyr dylyedawc y gorchymynnaf vy gorderch. yny delhom y veyssyd lumbardi. a ni ae pieuvydwn hwy. ar gweirglodyeu ygkylch atalie. pan darffo ymlad garsi amherawdyr. Ac yna kyrchu y llys a orugant. y brenhin ae varwnneit ygyt ac ef. ae bwyt oed barawt. a gwedy dyrchauel y byrdeu. a thannu llieineu. y bwyt ydaethant. Ac rac blinaw y datcannyat. pan uu amser gantunt yw swper. a gwedy gwassannaeth diwall ar bawp. ar gwin yn amyl. y brenhin aaeth y ystauell. a phawb oe letty y orffwys. ac y gyscu yn y ol yr aethant. ac a gayassant y drysseu hyt trannoeth wedy kyuot yr heul.

LXX.—Ac yna y kyuodes y brenhin. ac yd ymgynnullwys y varwnneit yn y gylch. ac ydaeth y eisted ar vwrd o vaen mynor yr neuad. a ffon odidawc yny law. a hoelon eur wedy yr ffustaw yndi yn amyl. ac y dywat wrthunt mal hynn. Arglwydi varwnneit. heb ef. gwerendewch vi. a chyghorwch. Canys dylywch vyghyghori. am arsi vrenhin. val y clywsawch trwy y gedernit yr dyuot o honaw ym kyuoeth. ae vot yn llosci vygkestyll. ac yn torri vy dinassoed. ac yn distryw y gristonogaeth hyt y gallo bellaf. Ae ni a el y ryuelu yny erbyn ar hynt wedy y gauaf. ae ninheu a arhoom hyt yr haf. Heb y ffreinc. Auryued yw gennyf oll a dywedy am oedi. ac ystynny yr amser. canyt oes dim gan y garsi hwnnw na lu yn barawt. a pheunyd yn distryw dy wlat. a chynn dyuot yr haf. y deruyd idaw darestwg canys mwyhaf dy gyuoeth. os val y mae yr awr honn y para rac llaw. Ac wrth hynny y mae drwc pallu yr amseroed. A chanys hynny a gyghorwch chwitheu oll. heb y brenhin. yr vygkaryat inheu ymbarotawch erbyn daruot mis mawrth y gychwyn ar hynt dechreu mis ebrill. ac ar hynny y trigassant. Ac yna y peris yr amherawdyr ysgriuennu llythyreu. ac anuon y negesweisson a hwy dros y holl amherodraeth. y erchi na trickei un marchawc

na phedestyr. na pherchen bwa albrast. ny delei attaw ef y baris. erbyn y dyd kyntaf o ebrill. ac ar ny allei dyuot. anuonei pedeir keinnawc y seint dionys. A chyt bo hwyrach y del yr amser noc yr ym ni yny draethu. eissoes ef a daruu y mis hwnnw. a ionawr. a hwefrawr. a mawrth. A deuth yr amser amysgawn gossodedic. ar amherawdyr ymparis. ac deudec gogyuurd ygyt ac ef. nyt amgen. Rolond ac oliuer y getyndeith. ac anseis. a girat. ac engelers. ac otuel. ac estud o lengers. a thurpin archescop. ac gerers. ac ercold. ac otuel. a neimys tywyssawc. ac oger lydanais. Hwynt a dyrchauyssant y ffenestri uchel. ac odyno hwy a welynt yn dyuot gwyr yr almaen. a bauiers. a loriergs. ac angeuins. a gwasgwynn. a beriuers. a pheittaw. a phrovencel. a byrgwyn. a phlandrys. a phuers. a normandi. a bryttaneit. yn dyuot ae taryanneu wedi lliwaw yn petwaryraeneu. ac yn arwein y hemys drythyll yn eu deheuoed. ac yn anawd y neb o hynny o wladoed ymerbynneit ac wy. Nyt oed un march ohonunt ny bei petwar Isamer idaw. val y gellynt or bei reit udunt rac llaw wneuthur marchogyon onadunt. Ac ydan vynyd y merthyri ydaethant ynn vilyoed y gyuaros.

LXXI.—Ar dyd kyntaf o ebrill pan oleuhawys y dyd y kychwynnwys y brenhin ae lu o baris. ac y deuthant y seint dynys. Ac odyno y dechreuassant y fford. ac ynn ymelltigaw garsi. ac y kanyssant hwynteu eu kyrn. Ar sawl y buassei wreic tec idaw eiroet. neu orderch vonhedic yn mynet yna ygyt ar brenhin y lumbardi. a rolond a ossodet yn tywyssawc ar y llu or blaen. A naimys tywyssawc cadarn y gadw yr ol. Nyt edewis otuel hagen y orderch. namyn kymryt belisent gyt ac ef. ar geuyn mul o hwngri. oed gynt y rygyg noc y kerdei y herwlong gyntaf ar y mor. Seithgant o varwnneit aoedynt yn wyr llys idi. ac ar y bwyt. ac ar y dillat yn wastat. a phob un ohonunt yn arderchawc o allu mawr idaw ehun. a digoni yn da. A chyt bei hwy yr amser udunt hwy nor hynn yd oedem ni yny traethu hynn. hwynt a adawssant ffreinc. a burgwin. a mwngwi. ac Juori. a mwnt ferrawnt yny welynt atali. y dinas

cadarn. y lle yd oed garsi. ar genedylaeth anffydlawn ygyt ac ef. Ac yn hynny ny bu neb a teruysgei arnunt eu hynt. nac ae gallei pei ys mynnei. ac ydan vynyd pown. ar hyt glyn auon aelwit ton. ymywn gweirglawd y tannassant eu pebylleu. ac y lluestassant. Ac yna y peris yr amherawdyr yr ffreinc orffwys wythnos or dyd ygilyd. y vwrw lludet y marchogyon ae llavur y arnunt. a gollwg gwaet eu meirch. a gwaret eu cleuytyeu. ae medyginaethu. ac ni adwys ef heb gof dim oe kyfreideu. Ef a beris derchauel pont rac dyuot y pagannyeit attunt hwy. a rwymaw y kwppleu ar ystyllawt a heyrnn yn gadarn. A phan oed barawt y bont ydaethant y vwytta y llettyeu. Rolond hagen heb wybot y neb eithyr oliuer. ac oger lydaneis. a hwy ell tri yd aethant y wisgaw ymdanunt y adan prenn lawrus. ac odyna yd ysgynnassant ar eu hemys. ac a gerdassant trwy yr bont tu ar dinas y geissaw ay ymwanhei ac hwynt. kynn y dyuot dracheuen hagen. ny mynnei y goreu onadunt a digonei y vot yno. yr mwdwl o eur coeth idaw ehun.

LXXII.—Ac yna yd oed petwar brenhin o anffydlawn genedyl y pagannyeit wedy dyuot y hware milltyr vawr y wrth y dinas. pob un yn aruawc val y dewissei ehun. Ac onyt kelwyd a dyweit yr ystorya. y rei hynn oed eu henweu. Un onadunt oed balsamin vrenhin gwlat niniuent. Yr eil oed turabel vrenhin. gwr ny chynhelis nae ffyd nae aruoll eiroet wrth dyn. Y trydyd oed ascanard. gwr a ladassei mwy no mil o dynyon ae gledyf. Y petweryd oed clarel. nyt oed o dynyon hyt y lle y kychwyn yr heul gwr kydecket ac ef. ac ny chawssei eiroet dyn a gynhalei idaw yn ymwan. nac a sauei idaw un dyrnawt. nas byrrei yn yssic yr llawr. neu nas lladei. ac yn kerdet ar hyt y maes. ac yn arwein eu hemys ger y hafwyneu. ac yn tygu or bydynt yn vyw yn gyhyt ac y gellynt dwyn eu llu hyt ymperued y ffreinc. na bydei warantrwyd y charlymaen am y eneit yn eu herbyn. ac or deudec gogyuurd heuyt. o gwneynt y hewyllys. Ac yna y dywawt Clarel wrthunt. arglwydi. heb ef. y ryw vygwth hwnn nyt enillwn ni o dim. A mi a gigleu glotuori

Rolond yn vawr. ac nat oes hyt y dwyrein was well noc ef. ac yn erbyn y gledyf na thycka dim. Mi a archaf hagen ym duw i mahumet. ac y teruygawnt caffel o honaf i ymbroui etwa ac ef. a rodi idaw un dyrnawt ar warthaf y helym am cledyf. mi a gymeraf arnaf y byd calet yawn onys holltaf hyt y danned. a iawn wedawc oed ym hynny. peis caffwn wrth lad ohonaw sampson o vynyd brawnd vy mrawt yghyfranc dan vynyd pampelon. ac y bydaf varw rac dolur ony chaffaf y dial. Y ffreinc ynteu yn marchogaeth yr yttoedyut yn dirgel dawedawc gan ystlys y fforest aelwit y fforestant.

LXXIII.—Ac val y clywsant son y paganmyeit. sef a wnaethant kyseuyll a gwarandaw. Ac yn hynny eu harganuot o rolond hwy yn gyntaf. a dywedut wrth y getymeithon. Arglwydi. heb ef. bydwch hyuryt. a welwch lle y mae y paganneit y dan y greic yn seuyll. ac nyt yttynt namyn petwar hyd y gwypwyfi. Diolwch yr holl gyuoethawc. ni a allwn ymwan bellach yn diogel. gwir oll. heb y getymeithon. ac wrth dy vynnu oll ni a vydwn. Ac yna gostwg gwaywar ar gledyr eu dwyuron a wnaethant. a brathu meirch tu ac at y paganneit. Sef a wnaeth clarel dyrchauel y benn. ac edrych yn erbyn yr heul. ac arganuot y ieirll yn dyuot tu ac attunt wrth yr afwyneu. a galw y getymeithon yn vuan. a dywedut. arglwydi. heb ef. bit da ych callon. ac ych pwyll. mi a welaf tri marchawc o du draw yn brathu meirch parth ac attam. ewch yny herbyn. a gwybydwch beth a geissant. tri yd ydychwi. a thri ereill y maent hwynteu. Ac yna yn diohir y gellygwys y pagannyeit eu hafwyneu y meirch. a heb dywedut. nac amouyn na phwy oedynt. na pha du pan deuynt. na pheth a geissynt. taraw y gyt a orugant. Ascanard a ymwanawd yn erbyn rolond. ac ac gwant y dan bogel y daryan. yny holltes drwydi. a thorri y wayw yny vwn. ac rac daet yr arueu mwy no hynny nyt argywedwys. Rolond hagen ae gwant ynteu oc lawnnerth drachefyn. hyt na thalwys idaw nae daryan nae luryc nae holl arueu un arllegen. a thorri cledyr y dwyvron a hollti y gallon yn deu hanner. ae vwrw ynteu yn varw yr llawr. a dywedut deu eir dan chwerthin a oruc wrthaw. Mab putein. a

geueisti ymbroui a rolond. y gwr yd oedut yny vygythyaw yr awr honn. Turabel a ymwanwys yn erbyn oger ly cwrteis. ac a rodes dyrnawt mawr idaw yny daryan. a dec modrwy ar hugeint or lluryc. ar gwayw hayach yn ymgymyscu ae ystlys. Ny thalwys idaw hagen un byssen. Oger ae gwant ynteu trwy y daryan ac luryc ac holl arueu lliein. ae gorff ymelltigedic. yny vyd yn varw yr llawr. ac a dywawt deu eir letneis. Mab putein. Oger lydaneis wyfi. heb ef. ac wrth rodi y ryw dyrnodeu hynny y mae charlymaen ym caru.

LXXIV.—Balsamin vrenhin niniuent yn erbyn oliuer a ymwanwys. ac ae gwant yny taryan. y lle yd oed llun llew. ac ny thygywys idaw. Oliver hagen ae gwant ef yn gymhwys drwy y holl arwydoneu tec. ae arueu. ac gorff lleuedic ynteu. ac yn varw ae byrrywys yr llawr. ac a dywawt wrthaw val hynn. Yr diawl yth orchymynnaf. y gwyr yd ymrodeist dy hun idaw. Ac ar hynny y brathwys clarel y tu ac attaw. y dial y sarasin os arhoci oliuer. ac y deuth rolond ar draws yny erbyn. Ac ef ae gwant yna y sarasin ef yny daryan dyrnawt mawr. a da uu y arueu. a diogel ae differassant rac y agheu. yny dercheuis y varch y traet blaen a dygwydaw yn ol y bedrein ef a rolond yr llawr. Ac yna yd ymorelwis clarel yn uchel ar eu harwyd hwy nannawt. ac y ffoes tu ar dinas yn gyntaf ac y gallei. dan erchi yr duw hwnnw y groessi. ae amdiffyn. Ac eissoes oger ly daneis a gauas y vlaen. ac ae gwant dyrnawt mawr ymperued cledyr y dwyvron. ac ny thorres dim oc arueu rac eu daet mwy no chynt. yr hynny ef hagen aaeth yr llawr yn anwar. ac oliuer a gymerth y varch. ac a deuth ac ef geruyd y afwyn y rolond. ac a dywawt wrthaw val hyn. Arglwyd heb ef. ysgyn yn gyflym. a llyma varch it yn anrec y gan oger. y syd well nor teu di. a mi a tebygaf y tal gant o honaw. Ac yna yd ysgynwys rolond yn gyflym. heb dodi y troet yny warthafyl. nac ymauel ar goryf y sarasin wedy yr gyuot yny sewyll. a thynnu melle y gledyf. ac ae daryan yn ymdiffyn yn rymus. A rolond a deuth parth ac attaw. ac atynwys dwrndal allan. ac a drewis kymeint

ac a gyuaruu ac ef oc daryan hyt y maes. Clarel a ymdifferth. ac a ymladawd yn drut. ac ef a welas eissoes na thygyei idaw. ac a dywawt wrthunt. arglwydi. heb ef. gedwch ym vy eneit. a chymerwch vi yn vyw. adolwyn yw gennyf. a chwaen vawr gadarn a wnaethawch. A phwy yssyd bennaf o honawch. val y gallwyf rodi vygkledyf attaw. A rolond a gymerth y gledyf ygantaw. a hwynt a dugant idaw du ymdeithic. yr hwnn y lledyssit brenhin niniuent y arnaw. Ac yna y cawssei y kytymeithon bonedigeid yn hynny digawn o ymwan. a chlarel ygkarchar gantunt. ac yn tebygu y gellynt y dwyn ae anregu y charlymaen.

LXXV.—A chynn kerdet onadunt hagen dwy villtyr. yd oed udunt peth arall a ystyryynt amdanaw a vei vwy. canys daroed y sarasinneit ymgynnull yghyt pum cant a mil. val y gellit y hamcanu. Ac hwynteu yn clybot kyrn y rei hynny. ac yn gwelet eu helmeu yn echtywynnu. ae hystondardeu yn chwythu gan y gwynt. Ac val y harganuu rolond hwy. y dechreuis chwibanat. ac ymgadarnhau yny gwarthafleu. a thygu wrth oger. mynn yr arglwyd goruchaf. heb ef. a vynnwys y alw yn duw. o chaffaf ymgymyscu dwrndal ac wy hediw. ti am gwely yn eu trychu. ac yn eu llad. val yr el y chwedleu y tu draw yr mor. Arglwydi barwneit. heb yr oliuer. mi a gigleu doethon yn dywedut na dichawn dyn ymoglyt y drwc yn wastat. nar neb a el yn ymwaneu. a chyfrageu. Nat mynych y dianc yn yach yn bresswyl. Canys ban debycco dyn vwyhaf gaffel llonydwch a damwein da ohonaw. nessaf vyd idaw yna y teruysgu. Gwir oll. heb yr oger. a llyna yd oed reit yn vot ynda. ac ny weda yn vot yn llesc. canys gwelwch yn hyspys y pagannyeit. ac na allwn eu goglyt. a bot yn reit yn vynet drwy berued eu gwaywar. Ac wrth hynny yr awr honn y dyly pob un ohonam dangos y allu. Gellygwch yn Clarel heuyt. heb ef. cany dylyir llad y kyfryw yn gewilydyus nau hamherchi. Chwi a welwch na allwn y dwyn genhym. ac ef a eill damwein talu o honaw ynteu y bwyth yni amser arall. Myn mahumet. heb y clarel. medwl mawr. a challon aberis it

dywedut y geireu hynny. Ac yna yr eilweith y traythwys oger wrth y getymdeithon. rolond heb ef. gwr cadarn wytti. glew a diofyn ac ymogelus. a thywyssawc ar ymladeu. Ac oliuer heuyt prouedic yw y vot yn varchawc da. a minheu vyhun heuyt adiegheis o lawer o gyfrangeu kyuyg. Welwch racco y pagannyeit. heb allu o honam eu gwrthneu. ac nat oes amgen adolwyn y nynheu o ganhorthwy y hynn wrth hynny. Pwy bynnac ny thrawho yr awr honn ynda a chledyf. y drwc ehun a wna. a phrouedic vyd vyth y vot yn llwfyr.

LXXVI.—Ac ar diwed yr ymadrawd hwnnw. galw ar eu llewenyd a orugant. ac o un vryt hwy yll tri kyrchu eu gelynnyon. Ac yny lle wedy hynny ef a welit yno anneiryf or pagannyeit. rei yn veirw. rei yn gorwed yn vrathedic yn anobeith. Ac yna rolond a waant un or pagannyeit. beimier y enw. duach oed nor mwyar ffreinc duaf yn y byt. yn varw yr llawr ygkymherued y fford. Oliuer a gyrchwys baisan o fwnpelers. ac oger a gyrchwys morter sarasin. ac wy ae gwanyssant yn veirw yr llawr. Y tri hynny uu y rei kyntaf. Odyna aruer oe cleuydeu awnaethant. Rolond a gerdwys yn eu plith dan eu trychu pob un ac un ar bop dyrnawt a dwrndal. Y sarasinnyeit a gawssant oliuer yn agarw heuyt wrthunt. a hautcler. ef a wnaeth fford glyfiflet yn eu plith. ac y gallei petwar keirt gerdet gyuarystlys ar y hyt. Oger rymus ynteu a rodes defnyd oe voli. ef a gymhellwys y varch yny plith. ac a churtain ar hynt a beris pemeu dec ar hugeint ohonunt y ehedec y wrth y kyrff. Ac yna y deuth carmel o tabari. sarasin oed yn llywaw ar rei ereill oll yn gyweir o arueu diogel. ac ar penoble y varch. ac yny ieith ef y dywawt yn uchel. peth a wney ti mahumet emelltigedic. heb ef. beth a dywedwn i wrth yr amherawdyr garsi. am vot tri dyn yn goruot ar lu kymeint a hwnn. Mi a tynaf eneit un or tri hagen yr awr honn. a brathu y varch ac ysparduneu dan ysgytweit y wayw a oruc. a gwan oger trwy y daryan ae holl arueu. ac ynteu yn vrathedic yr llawr. Ac yna yd arganuu rolond gwaet oger yn ffreuaw allan. ac yn colli oll. ac y trewis y sarasin ar y helym

wastat. ac ny bu olud ar y cledyf yny aeth drwydi. ac y dywat wrthaw. culuert twyllwr heb ef duw o nef ath ymellticco. da a was a dugosti y getymdeithas ragof. A brathu march awnaeth ar hyt y maes dan trychu yr anffydlonyon genedyl.

LXXVII.—Ac yna sarasin ae hemellticco duw ef. Car y alfani. ac a roessei y vorwyn da honno idaw dlysseu y bore y dyd hwnnw. ac adawssei ynteu wrthi hi rodi dyrnawt clotuorus y un or cristonogyon. A phei nat ystyryei yr arglwyd duw o honunt wy. ef a wnaethoed oual tramessur udunt. Ef a want oliuer o dihewyt y vryt. a chadarn oed y arueu a differassant yno y eneit kynys brathei. hagen ef a vyrrywyt yr llawr. Y iarll ynteu a gyuodes yn amysgawn. ac a yscynwys ar bennople. y march da a uuassei eidaw carmel o tabari. val y dywetpwyt uchot. ac a elwis ar y gedymdeith. Arglwyd rolond. heb ef. na phrydera mwy no chynt. mi a rodeis vy ffyd it na phallwn vyth it. tra vydwn vyw. a mi ae kywiraf. Bellach y dechreuir trablud ac ymladeu y ffreinc a gwyr agkret. Ac yna y kyuodes oger ar ffrwst y vynyd. ac rac meint yr ymsag y niuer yny gylch. ny allwys ysgynnu ar y varch. A sef a wnaeth yna edrych ar hyt y gledyf. a dechreu y voli. Oia curtein. heb ef. mawr a beth y dylywn i dy garu di. Yn llys charlymaen tidi abereist vygkaru i. am clotuori. a hediw yn goruot arnam ni yn deu ymwahanu. Kyn vy marw hagen mi a vynnaf dy broui. a tharaw pagan a wnaeth ar warthaf y helym. a hollti y holl arueu ae benn ynteu hyt y danhed. A rolond yna aelwis arnaw. ac nys kigleu. rac meint y pagannyeit a oedynt yny gylch. val na wydat pa parth gyntaf yd ymdroei y ymdiffryt racdunt. Ac ysquiereit rei or sarasinneit yna yn dieidyl. ac ageissassant y lad. ac ynteu a ymdifferth yn rymus. Ac yn hynny yd arganuu clarel vrenhin ef yn diodef llawer o agkyffret. ac ynteu heuyt yn rodi dyrnodeu agheuawl ae gledyf. Ac erchi a wnaeth clarel yr ysquiereit peidaw ac ef. a dywedut wrthaw ynteu. Oger heb ef. dyro law ymi. ac na uit arnat un ofyn. Ti a elly ymdiret ynofi yn diogel it. ac

ny cheffy yn drwc tra allwyfi dy amdiffyn. Heb y moafle un or ysquiereit. ny elly ditheu. heb ef. y amdiffyn ef. ti ae gwely ef yr awr honn hayach wedy yr dryllaw yggwyd dy lygeit pob dryll y wrth y gilyd. Ac yna y kigleu clarel y geireu hynny. ac yd ynvydwys haeach o lit. a thynnu cledyf aoruc. atharaw penn moafle y arnaw hyt yn eithaf y maes. a dywedut wrthaw wedy hynny. Ti a beidy bellach. heb ef. ac oger. a chaffel march da awnaeth. a pheri y oger ysgynnu arnaw. ac odyna galw ar wyth sarasin oe lys ehun. o rei mwyhaf yd ymdiredei yndunt attaw. a dywedut wrthunt. Arglwydi heb ef. ystyrywch am ych neges ynda. a hebrygwch hwnn at alffani vyggorderch. ac erchwch idi peri y gadw ynda. A gellwg chwech ygyt ac oger a wnaeth. a rei hynny a beris idaw edrych y archolleu yn vynych tra vuant ygyt ac ef.

LXXVIII.—A phan yttoed alphani. merch y brenhin yn troi. ac yn gware yn y berllan. a gware a belam y dwy vorynyon ereill vonhedic ygyt a hi y gwelynt y paganneit hynny yn dyuot. ac y dywat un ohonunt wrth y lleill. Awn y gyfrwch a hwy. heb hi. ac y amouyn am eu hansawd ae medwl. Ac yna y dywat alfani wrthunt. Ha varwnneit heb hi. kyuarhowch ni. a dywedwch yn hwedleu. pa du y kyfaruuwyt ar marchawc hwnn. ae yny vrwydyr y delit ef. ac yr vrathwyt val hynn. Unbennes vonhedic. heb yr almafechen yr mahumet paham y gwettwery di ni. kymeint yw heuyt an llit yn callonneu ac na allwn chwerthin. kyt ys mynhem. Pwy awnaeth ywch hynny. heb yr hitheu. edrych nas kelych ragof. Y bwynard hwnn a deu ereill. heb ynteu. ladassant penneu cant oc an pagannyeit hediw pan vo lleihaf. a chlarel dy orderch a erchis ititheu yr y garyat ef. cadw hwnn ynda. a synnyeit wrthaw. Ymhoelwch chwi bellach. heb hitheu. a delwch etwa rei ereill. a dygwch attafi wy. Ef a daw yr haf kynn gallu ohonam ni hynny. heb ynteu. A cherdet dracheuyn a orugant. Ac yna y dywat yr unbennes hygar wrth y iarll. Dabre di bellach. heb hi. a thi a geffy ansawd da arnat a lletty. a dywet ym dy

enw. a phwy dy voned. Oger yw vy enw. heb ynteu. lydanais. ac yn llys charlymaen amherawdyr y mae vygkenedyl. Heb y vorwyn. mi ath atwen bellach yn da digawn. heb hi. ac yna y teir morynyon a arwedassant oger hyt y dan oliweden. ac odyna yn gyntaf a wrteithassant y varch. ac ae dugant yr ystabl. A gwedy hynny a dynnassant y arueu y amdanaw ynteu. ac odyna y golychyssant y vratheu yn destlus. ac ae dodassant y gyscu. ac aroessant idaw lysewyn bendigeit rinwedawl y vwytta. a blanhassei duw ehun yny erber. holl y iechit y gelwit. Nit oed dyn a allei y gwerthydyaw o da bydawl. Ac ynteu a gysgwys. ac aghen oed idaw. A phann dyhunwys. amysgawnach yd ymglywei. ac yachach nor aual yachaf ar y berllan.

LXXIX.—Peidwn bellach a dywedut am oger curteis. ny diffygei da arnaw. pan vei reit idaw wrthaw. a thraethwn y wrth rolond tywyssawc. ac oliuer y getymdeith. y gwyr aadawssei oger yny vrwydyr yn ymlad yn rymus ae cledyfeu. Ac yd oed etwa or paganneit vil yn eu herbyn. ny ellynt wy hagen taraw dyrnodeu kymeint. ac yn diludet ar y dechreu. ac wrth hynny sef a wnaethant ffo. ac nys ryuedei neb arnunt ony bei ynvyt. ar paganneit yn eu hymlyt. y geissaw llad eu penneu. Ac yna y peris Otuel keissaw a gouyn y ieirll ymhop lle yny llu. a gwedy na chaffat hwy. ef a wybu yn hyspys y mynet parth ac atali y geissaw ymwan. Ac yn vuan kerdet y wisgaw ymdanaw a seith cant marchawc urdawl ygyt ac ef aoruc ynteu. ar gwaethaf oll a digonei o hynny o niuer. val y gallei oruot ar vrenhin cadarn. A gwedy gwisgaw ymdanaw ysgynnu ar y varch a oruc Otuel. a mynet y gyfrwch ar brenin. a dywedut wrthaw arglwyd.—[*The sequel is wanting.*]

LXXX.—A gwedy y bererindod yr bed. ac ymrydhau y wyr oc eu blinder. y duc yr amherawdyr ar gof y edewit yr padriarch y tynnawd parth ar yspaen. ac aneirif luossogrwyd ganthaw y gwplau yny lle hwnnw y edewit. Ac ny orffwyssawd ef seith mlyned o

aulonydu ar y pagannyeit anffydlawn. Y dinessyd ar keiryd ar kestyll kedyrn a diwreidiawd. ar hyt y mor yr yspaen nyt edewis ef gedernyt heb y diua eithyr sarragis. nac a allei ymgynnal ractaw ynteu. Y dinas hwnnw a oed ar benn mynyd uchel diffwys. val nat oed fford y oresgynwyr y dyuot attaw. Ac yn y dinas hwnnw yd oed marsli vrenhin yr yspaen yn gwladychu. yr hwnn pet vei ganthaw ffyd gatholic. . . . caffel gwr bon. . . ach. na gwell noc ef. A chymeint a oed ganthaw o ragoreu ac ethrylith yn. . . neu ereill. hynny oll a oed ganthaw yn erbyn ffyd gristonogawl. a rwymedic o gwbyl y diwyll mahumet yn lle duw idaw. Ac yno eissoes yd oed ef yn ouynhau. a chynwrw mawr arnaw o hyrwydder charlymaen. a rydistrywassei oe gedernyt y dinassoed ac geiryd ac gestyll. ac yn aryneic ganthaw yn y diwed gallu o honaw darostwg y dinas yd oed ynteu yndaw. Wrth hynny dyfynu y wyr da aoruc ygyt y ymgyghor o ba rat. neu o ba ystryw y gellynt wy wrthwynebu y ruthyr charlymaen. canyt oed ganthunt allu yw wrthlad o gedernyt. A wyr da dosparthus. eb y marsli. aghen oed yni yr awr honn weithret brud. a phwy bynnac y bo doethinep ganthaw ymaruaethet y rodi y gygor ymherued hynn y ymwrthlad ar ruthyr hwnn y gan y ffreinc. Nyt oes yni. heb ef. amylder o niuer. ual y gallom gwrthwynebu udunt wy o vrwydyr. a channyat yw y ninneu o vrat gwrthlad yn gelyn. pryt na bo yn amylder yw wrthlad o gedernyt. Ac wrth hynny heb ohir dosperthwch beth a wneler. canyt oes yn na lle na deunyd y un gohir.

LXXXI.—Ac y rwg hynny o vilioed o bagannyeit ny bu a attepei yw arglwyd namyn Balacawnt. yr hwnn a oed lywyawdyr ar arglwydaeth. a holl gedernyt y glyn issel. Y pagan hwnnw prudaf oed onadunt. ac agreifft y brudder a oed amlwc arnaw o lwytet y wallt. ae varyf. ae vriger lwyt y dan y wregis draegeuyn. ae varyf lwyt dros y dwyvron y dan y wregis or tu racdaw. Nyt eissieu nerth heuyt yny prudder hwnnw. namyn y vot yn gyflawn o vilwryaeth. Ef a gyuodes ehun ymplith y lleill. ac a gymerth arnaw vaich. a chygor yr

holl deyrnas val hynn. Marsli eb ef. kymer grym a gobeith ynot. y mae gennyf i fford barawt y wrthlad gogyuadaweu Charlymaen. ae nerth. Anuonwn. eb ef. y charlymaen syberw annerch. a ffydlonder gwassanaeth. Anuon idaw helygwn. y rei yssyd digrif ganthaw ef. a gweilch. ac ehebogeu. a meirch mawr syberw araf buan. Anuon idaw lewot. a iyrch dof. Or rodyon hynny y gwdam ni llonydu a digrifhau y syberwyt ef. Ygyt a hynny anuonwn idaw cann meirch. a chann pynn arnadunt o vyssaneu eur. y rei yssyd didlawt gennym ni wrth dalu kyuarwysseu yw wyrda. a thal eu llauur y eu lluoed. Ac adawn vynet yny ol baris. erbyn gwyl vihagel. y gymryt bedyd. a ffyd gatholic. ac y rodi gwryogaeth idaw. ac y daly kedernyt yr yspaen ae harglwydyaeth a danaw. Ac val y gallo yn credu ar hynny. anuon idaw gwystlon oc yn meibion. ac nyt ymwrthodaf vi anuon un om meibion y agheu dros y bobyl. canys llessach yw yni llad rei ohonam. noc an llad yn gwbyl. neu golli ohonam yr yspaen. neu yn gwasgaru y allduded y gardotta. Ac or dychymyc hwnnw y gwasgarwn ni lu ffreinc. ac yd ymchwelant yn chwannawc lawen y eu gwlat. yr hynn y mae pawb yn y gyueir onadunt yn y damunaw ar y ymadrawd. Pan del hagen gwyl vihagel. ny chaiff charlymaen chwedyl newyd yn y byt y wrthym ni. A phan goder ef. yna y lledir penneu an gwystlon ni. a llessach yw yni eu llad wynt. noc yn llad ni oll. neu yn alltudaw ninneu o breswyluaeu yn rieni.

LXXXII.—Pawb onadunt a gytsynnyawd yr kygor hwnnw yn gyvun. gan ganmawl dychymyc balacawnt. A phan yttoed pawb yn mynnu kyuodi. a gwahanu or kygor. yd erchis marsli vrenhin y valacawnt kwplau o weithret y dychymyc. a chyrchu kynyrcholder brenhin ffreinc. ac yno rac y vron ef kwplau y twyll a dychymygassei. Riuaw naw ketymdeith a wnaethpwyt idaw. nyt oed vawr llei eu twyll nor eidaw ynteu. ac eu hystryw. Ef a orchymynwyt udunt ymgyweiryaw o dillat yn gynvonedigeidiet. ac yn gynsyberwet o adurn ereill a meirch. a chyt bei medeawdyr ar yr holl yspaen. bop un onadunt.

Deg mil a roes marsli udunt. kyn ganwelwet ar eiry oc eu lliw. anryued eu buander yn eu hymdyat. a hynny val nat oed hawd kynyrchu arnunt. a hep gyffro kymeint a blewyn ar eu marchogyon. Yn dreul udunt y rodet amylder o eur. gwassanaethwyr a rodet udunt a oed deilwg y wassanaethu pob kyfryw vrenhin. Eu hynt a gymerassant parth ac ar vrenhin ffreinc. Keigyeu or oliwyd a arwedassant yn eu dwylaw. yn arwyd eu bot yn gennadeu y erchi tagneued. a chytuundep.

LXXXIII.—Yna yd oed vrenhin ffreinc ygkordybi. dinas a rygawssei heuyt y dreis y gan y pagannyeit. a goludoed lawer idaw ae wyr. Ac am y vudygolyaeth honno yd oed y brenhin ae wyr da yn eisted y mewn herber. yn llawen ygyt a dan brenn godywyll. ac yn gware ymrauaelyon wareeu. Yna y cauas kennadeu y paganyeit y brenhin yn eisted. a chyuarch gwell idaw a orugant yn uvyd. ac val hynn y racvlaenawd balacawnt wrthaw y ymadrawd yn hyawdyl. Hanbych gwell vrenhin bonhedic. a hoedyl a iechyt yt y gan y gwr yssyd iechyt y bop peth. Yr hwnn a gymerth cnawt or wyry yr prynu kenedyl dynyawl. a groget. ac a disgynnawd y uffern yr rydhau y caeth oc eu poeneu. ac yny bei orchyuygedic agheu a gyuodes y trydyd dyd. ac odyna. ae disgyblon yn y welet. a esgynnawd ar deheu y dat. ac odyna yd ym ninneu yn y aros ef yn y vrwydyr. Ar ffyd honn y mae marsli ae bobyl yn y damunaw. ac yn chwennychu y agheu yr kyuadef crist. ac yn mynnu ymwrthot ac a wrthwynepo crist. Y mae yn roi yti y iyrch. ae lewot dof bonhedic. a meirch bonedigeid. a gweilch. ac ehebogeu. ac eur ac aryant yn yr amylder y gellych rodi rodyon ehelaeth yth wyr da. Yr awr honn yd wyt ar untu seith mlyned hep dy deyrnas. a hir drigiant yssyd yth adolwyn dracheuyn. ac erbyn gwyl vihagel. marsli ae bobyl a ant yth ol y ffreinc y gymyt bedyd a christonogaeth. ac y lywyaw yr yspaen a dan dy arglwydyaeth di. ac y rodi gwassanaeth ffydlawn yt ac yth etiued. tra vo y vywyt. Minneu a diolchaf y duw hynny. eb y Charlymaen. nyt oes dros hynny nac allwyf i y geissyaw. nac a vynnwyf y ganthaw ef.

LXXXIV.—A gwedy yr ymadrodyon hynny y medylyawd y brenhin dosparthus gan drossi y benn am gennadwri marsli. A gwedy byr vedwl dyrchauel y wyneb y tu ar y kennadeu. a gwedy edrych ychydic arnunt mynegi udunt vyrder dirgelwch y vedwl val hynn. Amrud bieu credu y ymadrodyon y elyn. ony ryd amgen gedernyt a diheurwyd ar y ymadrodyon. Marsli awch brenhin chwi. eb ef. yssyd eirioet wrthwynep y gristonogawl ffyd. ac wrth hynny kyt boent dissyuyt weithredoed yr yspryt glan. mi a vynnaf eissioes amgen gedernyt y ganthaw nay eirieu. A pha gedernyt a ryd ynteu. ac a achwaneca yw ymadrodyon. Ef a ryd yt gwystlon. deucant or meibyon deledocaf yn y eu dwyn gennyt y ffreinc. Ac o godiwedy di nyni a thadeu y meibyon yn euawc. ti a geffy y meibyon wrth dy ewyllys yw dienydu. Digawn yw hynny. eb y Charlymaen. Duw a gwplao idaw ynteu y aruaeth. A gwedy yr ymadrodyon hynny. y kennadeu a duepwyt y eu llettyeu. Ac wynt a diwallwyt yn gyn anryd-edusset. a chyt brenhin vei bob un onadunt. a breid vu o chauas y brenhin hun brytuerth y nos honno. yn achubeit vynych vedylyeu am ymadrodyon y kennadeu. A thrannoeth y bore. a gwedy gwarandaw offeren. dyuot ef ae wyrda y blas y kwnsli y ymgyghor am gennadwri marsli. vegys y clywassoch chwi. Llawer y mae yn y adaw o rodyon. ac y mae yn annod yn vynet dracheuyn y ffreinc. ac adaw yni dyuot ae bobyl ar vy ol yno ohonaw yr crist. ac y mae yn adaw kymryt bedyd yna. a chymryt y vrenhinyaeth y gennyf. ae daly a dan vy arglwydyaeth. Ac a welwch chwi gallu ohonam ni credu yw adewid ef. Y mae yn rodi gwystlon yn ar hynny.

LXXXV.—Pan daruu yr brenhin teruynu y ymadrawd. y kyuodes rolond y attep idaw herwyd y dyall. Pwy bynnac. eb ef. a twyllo unweith. ef a twyll eilweith os dichawn. a hwnnw a obryn y dwyllaw a gretto eilweith y twyllwr. Y brenhin arderchawc dosparthus. na chret ti y varsli. yr hwnn yssyd prouedic ys llawer o amser y vot yn dwyllwr. ac nyt aeth etwa oth gof di y twyll a

oruc ef iti. pan doythost gyntaf yr yspaen. Llawer o gedernyt a distrywssut ti yna. a llawer or yspaen a dugassut ti attat. ar un gennadwri honno a anuonassei varsli attat ti yna. Ar un peth hwnnw a edewis yr anffydlawn y wneuthur yna ac y mae yr awr hon. ti a anuoneist yna attaw deu oth wyr da y gymryt diheurwyt gantaw am hynny. nyt amgen basin a basil. ac ef a beris y brenhin enwir eu dihenydu. Pa beth yssyd iawnach weithyon noc na chretter idaw. y mae etwa galanas y gwyr heb y dial. Kyrchwn cesar augustam tra vo an nerth gennym. ac na ochelwn treulaw an buched yn y hamwyn. Ac nyt digywilyd yn. o gadwn a oruc o gywilyd heb y dial. nyt hawd bot yn ffydlawn gatholic. yr hwn yssyd yn wir pagan. A phan daruu y rolond teruynu y ymadrawd. nys attebawd charlymaen namyn ymodi blew y varyf lwyd ocd ar lyt y dwyuron. ac ny dyunawd neb or ffreinc. ac nyt anuunawd namyn gwenwlyd. hwnnw a gyuodes y uynyd y wrthwynebu y gyghor. Nyt canmoledic. heb y gwenwlyd. kyghor a drossei y syberwyt. ac a lesteiryo lles ac adwynder. Ac nyt lles gwrthot y neb a vynno tagneued a dyundeb. Dielw yw gantaw an gwaet ni ac an agheu a ennyc gwrthot varsli y wrth ffyd grist. ac an kyuundeb ninneu. Y mae ynteu yn medylyaw pwyll heb dwyll. pan vo yn adaw gwystlon yn. canyt hawd credu bot tat a drymycco bywyt y vab. kyn bwynt pagannyeit. Paham y coffa rolond i ediueirawc y peth a wnel pan vo yn dyuot yr yawn. ac na wrthyt duw ediueirawc.

LXXXVI.—A gwedy ymadrodyon gwenwlyd Naim a gyuodes y vynyd rac bron charlymaen. yr hwn a dangossei y lwydi ay oet ay brudder y vot yn dosparthus. a creitheu a gwelioed rygawssei y vot yn dewr. Canmawl. heb ef. a chytsynedigaeth a obryn cannyadu kyghor a dynno ar les ac adwynder. Titheu vrenhin bonhedic a glyweist kyghor gwenwlyd. yr hwnn a welir im y vot yn annoc lles ac adwynder. Anuoner ar varsli wr dosparthus yn gennat oth wyr da di. a vo huawdyr a threbelit y ymgeissaw ac ef. ac oy rwymaw drwy dogyn o wystlon ar yr hyn a adawho. Os hynny a ganhatta.

yawn yw credu idaw. ac y bawb onadunt a vynno dyuot y gret yn dylun a ni. Ac ar y kyghor hwnnw y trigwyt. ac yna y gouynawd y brenhin pa wr prud dosparthus a vei yawnaf y ellwg yno yn gennat yr neges honno. Mi. heb y rolond. a af yr neges honno. a goreu yw gennyf nam naccaer o vynet idi. Yna y dywawt oliuer. Rolond eb ef. ry hawd yw gennyt ti kyffroi dy annyan yn y neges honno. ac ny allei dy syberwyt ti godef balch eireu marsli heb wneuthur aerva. A mi a eruynnaf vyggadu yr neges honno. heb yr oliuer. Canys arauach yw vympwyll noc un rolond. y diodef geiryeu Marsli. Na adolyget yr un ohonawch chwi y neges honno. heb y charlymaen. nyt a yr un or deudec gogyuurd yr neges honno. Turpin archescop a gyuodes y geissaw y neges honno. ac a dywawt. Arglwyd vrenhin. heb ef. mivi a af yr neges honno. ac ae gwassanaethaf yn graff drybelit. a gat yth wyr da orffowys. canys blin ynt. ys pedeir blyned ar dec yn kynhal ryuel yn yr yspaen. Nyt gwedus. heb y charlymaen. y archescop vynet y ryw neges honno. namyn gwassanaethet offerenneu a chyghoreu dwywawl. Ac nat ymyrret neb o honawch ar wassanaeth y gilyd. namyn etholwch ym wr prud dosparthus. a wedo ido godef pwys y neges honno.

LXXXVII.—Ac yno y deuth cof y rolond aghanmawl o wenwlyd y kyghor. ac y dywawt ynteu. na well y wedei neb yr neges honno noc y wenwlyd. Dychymyc rolond yna a ganmolet. a dywedut o bawp val y dywedassei rolond am wenwlyd. Ac yna y dywawt Charlymaen. Aet ynteu yr neges honno. a damwein yw methu neges a uo canmoledic gan pawb. Rolond. heb y gwenwlyd. a beris imi vynet yr neges hon. ac yssyd yn keissaw vy niua i. Ac o hyn allan mi a vydaf aghedymdeith idaw val y gwypo. a mi ay aghanmolaf gan y gywiraw. nat a y vlwydyn hon heibaw yn gwbyl. nes dial y enwired ar y neb a beris y dychymyc hwn. Gwenwlyd. heb y rolond. ry barawt wyt y lidyaw. ac nyt gwedus goruot o dryc annyan ar gwr. namyn bot yn drech y gwr nor dryc anyan. a gwna di y neges a

orchymynwyt yt o anryded y gorchymynnwr. Ac nac edrych ar neb. tra vych yn ymdidan a Charlymaen. namyn ar charlymaen y hun. Mi a vydaf ufyd arglwyd yr hyn a orchymynnych di. ac a erchych y mi. heb y gwenwlyd. ac a af ar varsli. ac ny obeithaf om heneit mwy no basin a basil. a peris y pagan hwnnw eu diuetha. A rolond a uu kyghorwr y hynny heuyt oy syberwyt ay valchder. ac y velly y mae rolond etwa yn mynnu byrhau vy oys inneu. ac yssyd ym cassau. Ac am hynny arglwyd paham y kytsynny di ay syberwyt ef. am vy anuon i y bedrus agheu o annoc rolond. val y dihenydwyt basin a basil oy annoc ac oy gyghor. A nei mab chwaer itti yssyd vab y mi. bawtwin yw y henw. ac ardebic yw arnaw oy vabolyaeth y byd gwr grymus. a hwnnw a orchymynafi itti rac rolond. Rywan yw dy vedwl di. eb y charlymaen. a ry wreigeid. a chywilyd yw bot gwr mor vygwl y ymadrawd a hynny am vab. Ac ar hynny yn llidyawc ofnawc am y vynedyat ar varsli. bwrw mantell oed ymdanaw. ac ymdangos o wisc bur goch. val y gwelei pawb. Ac edrych a oruc ar rolond heb arbet oy anryded. a dattot wrthaw chwerwed y vedwl val hyn. Rolond tra syberw. heb ef. pa gyndared a pha dryc yspryt yssyd yth kyffroi di val na ellych orffowys. ac nas gedy y ereill. Seith mlyned yr awr hon yd etteleisti holl wyrda ffreinc yn yr yspaen yn llauuryaw ryuelu yn wastat. heb na hun gymedrawl. na bwyt na diawt yny amser. na gwahanu. ac yn arueu na nos na dyd. Dielw yw gennyt eu heneit. ac eu gwaet. ac yny lanwer dy gyndared di. ny didory pa veint o wyrda ffreinc a diuaer. A chyt bydwn i llystat itti. caryat tat a rodasswn i arnat ti. a gwaeth no llysuab oedut ti ymi. val yd ymdangosseisti yr awrhon. Os duw hagen am canyatta i dracheuyn y dyuot attawch. yr hyn a vynnut ti na delwn. mi a dalaf it bwyth yr hynt hon. Os vy nienydu a wneir. ti a geffy gelynnyon it yth oes. Ny lad y cledyf yr gogyuadaw ac ef yny trawer ac ef. heb y rolond. ac ouer yw bygythyaw y neb ny throsso y vedwl byth yr bygwth. Dos. heb y rolond. yr neges y gorchymynwyt it vynet idi.

yr hon yssyd dost gennyfi y orchymyn y wr mor llwfyr a thidi. ac ny cheueis vy hun vynet idi.

LXXXVIII.—Ac neur daroed yna gwneuthur cwbyl or llythyreu. ac eu negesseu ar varsli. Ac ystynnu a oruc charlymaen y llythyreu yna ar wenwlyd. Ac val y ryd y brenhin yn y law. ys dygwydant hwynteu yr llawr. ay law ynteu yn cryny. Ac yn eu dyrchauael y vynyd y doyth y chwys idaw y bop aelawt oy gywilyd y vot mor vygwl a hynny. a phawb yn adnabot arnaw hynny. ac yn darogan o gwymp y llythyr y deuei gwymp a vei vwy rac llaw. Ac yna atteb a oruc gwenwlyd val hyn. Val y molo yr hynt vyd hynny. ac ny thebygafi vot achaws ywch y oualu. a pharawt wyfi arglwyd y vynet yr neges hon. cany welaf allel dy drossi oth aruaeth. a chan dy gannyat arglwyd. Llyma ytti gannyat. heb y charlymaen. A duw or nef a rodo yt hynt da lwydyannus. a dyrchauel y law a oruc charlymaen. ac groessi. Dywet val hyn wrth varsli. Gyt ac a draetho y llythyr y mae charlymaen yn damunaw dy iechyt rac llaw. yr hyn a geffy. os ti a vynny gwneuthur a edeweist. dyuot yn ol y ffreinc y gymryt bedyd a ffyd gatholic. a dangos gwrogaeth idaw. a dodi dy dwylaw rwg y dwylaw ynteu. a chymryt hanner dy gyuoeth y gantaw. oy daly y danaw. Rolond y nei ynteu bieiuyd yr hanner arall yr kyuoeth oy daly yn yr yspaen. Ac ony wney hynny oth vod. ti ay gwney oth anuod. ac ef a daw y damgylchynu cesar augustain. dy dinas di. ac nyt a y wrthaw yny caffo. ath dwyn ditheu oth anuod yn rwym gantaw y ffreinc. ac yno yth gymhellir oth anuod yr hyn a gymer gennyt oth vod yr awr hon. A phan daruu yr brenhin dywedut hynny wrth wenwlyd kychwyn ymdeith a oruc gwenwlyd. a chan marchawc hard syberw. a hanoedynt oy dylwyth y hun. ay canymdaasant or llys y ymdeith. Ef a doeth yw bebyll. ef a ymbarattoes o adurn hard syberw. ef a ysgynnwys ar varch hard gadarn. ac yn hynny gwyrda yn y gylch yn y wassanaethu. ac yn ymgynnic idaw yn gedymdeithon y hynt. Nyt ef a wnel duw. heb y gwenwlyd. mynnu ohonafi dwyn neb y agheu gyt a mi. Llei o drwc yw

vy llad i vy hun. no llad neb o honawchwi gyt a mi. ac ysgawnach yw y chwitheu clybot vy agheu noy welet. Pan deloch hagen y ffreinc. annerchwch om parthret i vygwreic. a bawtwin vy mab. ac val y dylywch cadw ketymdeithas a mi yn varw val yn vyw. mi a adolygaf y chwi cadw yr un gedymdeithas honno ac wyntwy. A minneu a adolygaf ac y chwi ac udunt hwy canorthwyaw vy eneit o sallwyreu ac offerenneu. a rodi dillat y noeth. a bwyt y newynnawc.

LXXXIX.—Ac yn ol yr ymadrodyon hynny gwenwlyd a gerdwys gan y getymdeithon. y gyt a chennadeu y pagannyeit. a drycyruerth a gymerth y getymdeithyon ay dylwyth ymdanaw. Kynt bwy kynt. dedwyd a donyawc dywyssawc. ymhoyl attam dracheuyn yn yach. bychan yth garei ath anuones yr hynt hon. Bychan heuyt yth carei rolond dy lysuab. pan yth detholes y neges mor berigyl a hon. Lles oed idaw ef hagen pei delut ti dracheuyn yn iach. Lles oed idaw heuyt na chyuarffei ac ef gan varsli sarhaet na cham na chollet. canys ygan genedyl gymeint rygerdeisti. ac na eill charlymaen y hun dyffryt rolond rac agheu y gennym ni. ony deuy di yn iach attam ni. ac yn dibryder wedy cwplheych dy negesseu. A chyuarystlys a gwenwlyd y marchoges blacand yn wahanedic ywrth y pagannyeit ereill. vel oc eu blaen. ac ymdidan ac ef val hyn yn ystrywus. Llawer a vlina kybydyaeth. heb ef. yr hwn ny wyr dodi teruyn yny geissaw tra y caffo. a pho mwyhaf vo yr medyant. mwyhaf y chwennych ynteu. ac y llauurya y vedu a vo mwy. Edrych di. heb ef. y sawl ar veint ry geisswys charlymaen ych brenhin chwi drwy y gledyf. ac etwa nyt ydyw yn gorffwys o geissaw. hyt na at y chwant damblygu teyrnassoed idaw ef rodi gorffwys yw heneint. Corstinobyl ry gauas. ar calabyr. a ruuein. ar pwyl. a pha beth a oed reit idaw ynteu weithon trossi y andielw yr yspaen ninneu. Nytkebydyaeth a beiry bawp.heby gwenwlyd. llauuryaw yn wastat y geissaw. namyn gweitheu y peir syberwyt a chlot anheilwg o wastatrwyd bryt. a gweitheu ereill y peir mawredigrwyd brytgrymus llauur-

yaw. Yspellach y llauurya charlymaen ac yspennach y estwg teyrnassoed. yr ymhoelut anffydlonyon ar ffyd gatholic. no gyt yr eu medu adan y arglwydyaeth ef. ac y enw. Ac ny bu eiroet. ac ny byd bellach vyth neb a allo gwrthwynebu idaw ynteu. ac val hynny y dichawn y deudec gogyfurd. A ganedic vawredigrwyd gwyrda ffreinc ay gwna ynteu yn gynrymusset a hynny. ac eu hangerd. ac eu molyant.

XC.—Nyt barnadwy yn volyant. heb y pagan. namyn yn agkyghorus drudanyaeth ymrodi heb orffwys y lauuryeu gormod a perigyl agheu. Paham y bydant mor drut y sawl tywyssogyon a gwyrda yssyd o ffreinc. y gyffroi eu brenhin mor aeduet. ac mor wahodus. y orffwys ar y sawl berigleu y dygant. Rolond ehun. heb y gwenwlyd. yr hwn a dycco duw y agheu trwy dial. yssyd yn kyffroi y brenhin y hynny. ac yn an gorthrymu ninneu heb orffwys o boen a llauur. Diwarnawt. heb ef. yd oed charlymaen yn eisted y dan gwascawt pren godowyll. a dyuot rolond attaw. wedi gwiscaw y arueu. ac ystynnu aual coch idaw gan dywedut val hyn. Drwy yr aual hwn. charlymaen. heb ef. yd anrydedafi dydi o deyrnassoed a choroneu yr holl vrenhined. ar holl vrenhinyaetheu a darestygaf y dan dy arglwydyaeth di. Llawer a darestygwys ynteu. heb ef. a llawer etwa a darestwg. Yr yspaen hayach rydarestygwys. ac odyna yd a y estwg babilon. Ryued yw a dywedi. heb y blacand. O ba le y mae rolond yggobeith ar nerth kymeint. ac yd adawho y charlymaen darestwg yr holl vrenhined. Y obeith yssyd ygglewder y ffreinc. heb y gwenwlyd. y rei nyt llei a veidyant noc a vedylyant. ac nyt llei a allant noc a chwennychant. Ac nyt oes dim yr y uchet y dan y nef ny chredynt hwy y vot yn darestygedic udunt. ac y eu kedernyt. Pawb or ffreinc a garant rolond yn gymeint ac nat oes dim oe vynnu ef ny bei eu mynnu hwynteu. a mynnu pawb onadunt wynteu yn yr eidaw ynteu. yny ydynt hwy yn un vryt gyfun. Ac nyt oes dim gwahanredawl y rolond y hun. val na bo kyffredin udunt hwy. Holl swllt charlymaen yssyd yny vedyant ef. ac o hwnnw

y pryn ynteu ereill yn gedymdeithyon. ac y duc val yn rwymedic wrth y vynnu. A pha hyt bynnac y parhaei ymdidan rwg gwenwlyd a blaccant. am rolond y bu eu hymdidan. yny ymrwymyssant drwy eu haruoll y wneuthur brat rolond. o ba dwyll. neu o ba ethrylith bynnac y gellynt y defnydyaw. A gwedy ymwneuthur velly. yn gerenydus hwynt a doethant y gyt y saragys hyt rac bron Marsli.

XCI.—Ac yna yd oed varsli vrenhin yn eisted y mywn cadeir eur. ac yny gylch can mil o sarassinyeit yn gystal eu gostec. ac na chlywit geir ar ben un onadunt.yn aros ac yn damunaw eu kennadeu. ac atteb udunt y gan charlymaen. Ac rac bron marsli y doeth blaccand a gwenwlyd gantaw herwyd y llaw deheu. a chyuarch gwell idaw yn anrydedus yn y mod hwn. Mahumet ac apollo ar dwyeu ereill a wassanaethy di udunt ath anrydedo di varsli. ac ath gatwo drwy ganhorthwy y rei a cwplaassam ni awch kenadwri chwi wrth vrenhin ffreinc. Ac nyt attebawd marsli ef ar hynny. namyn dyrchauel y wyneb ay dwylaw y vynyd. a diolwch y duw ef hynny. Ac yn nessaf y hynny y dywawt blaccand wrthaw val hyn. Y gwr ieuanc bonhedic hwn. heb ef. ry anuones charlymaen attat ti. y datcanu it y mod ar ffuryf yr tagneued. Dywedet ynteu y datcanyat. heb y marsli. can ym parawt ninneu oy gwarandaw ef. A gwedy byr vedylyaw o wenwlyd. ef a dechreuis y ymadrawd yn y mod hwn. Yechyt i varsli y gan iachawdyr pob peth. ac agoret ynteu dy vryt ti ath vedwl y gymryt geireu y gennyf inneu. a berthyno y titheu ar dysc a yechyt. Charlymaen. heb ef. yssyd yn gorchymyn it. mal y hanuoneist attaw. kymryt bedyd a ffyd grist. ac y gyt a hynny ymrwymaw ohonat yggwrogaeth idaw ynteu. ac yggwassaneth uvyd. a daly y danaw y neill hanner yr yspaen. ar hanner arall a ryd ynteu y rolond y nei. Ac ot ey yn erbyn y gytuot honno. ef ath gymer trwy y gedernyt yn garcharawr oth gastell. ac ath dygir yn rwym hyt yn ffreinc. Ac yna y deruyd it un o deupeth. ae dy varw yn dybryt yth garchar. ae titheu wedy ath gymheller a

genhyedych idaw ef yr hyn oed well it y genhyadu yma oth vod.

XCII.—A chennadwri charlymaen a gyffroes marsli ar irlloned yn gemeint. a phei nas ymdiffynnei y gwyr ef. y rygyrchassei y gennat agattoed trwy y gyndared ar wialen eur aoed yn y law. A dodi y law ar y gledyf ynteu a oruc gwenwlyd. ac edrych ar y cledyf. ac ymdidan ac ef yn y mod hwn. A gledyf da. prouadwy yw gennyfi dy vot ti yn ffydlawn hyt hyn yn llawer o berigleu. yr awr hon minheu a brouaf dy ffydlonder di. Ni liwya charlymaen imi byth vy llad yma ymplith sarasinnyeit heb ymdiala. Hedychwn yr anuundeb hwn. heb y pagannyeit. ac ethrywyn a orugant y gwyr candeirawc. Ar rei prudaf onadunt a agreifftyassant varsli. ac ae gwahardassant. ac a dywedassant idaw. bot yn dybryt. ac yn anurd codi kennat. ac na warandawer y ymadrawd ay gennadwri heb gaintach. Mynno na vynno. heb y gwenwlyd. dir vyd idaw gwarandaw cennadwri charlymaen. ony agheu a daw ymi yny blaen. ac a warendeu o newyd yr ymadrawd a dechreueisi. A gwedy tynnu llinin y ysgin dros y vynwgyl. ae gledyf yn y law dynessau ar varsli. a dechreu datcanu kennadwri charlymaen o newyd val y clywei pawb. y gyffroi y gwr yny mod hwn. Yny vo mwy y doluryych di varsli. a mwy dy gyffro ath lit. mi a hyspyssaf ytti etwa kennadwri charlymaen. Sef yw hynny. gorchymyn ytti ymhoelut ar ffyd gatholic. ac ymadaw a geu dwyeu. a chymryt bedyd. a rodi ffydlonder yth creawdyr. ac ymrwymaw ar dal dy linyeu yggwrogaeth. ac yn uvyd wassanaeth y charlymaen. ac ynteu a ryd ytti hanner yr yspaen. ac y rolond y nei y ryd medyant ar yr hanner arall. Ac ony chyt dyuny a hynny. ef ath dynnir yn garcharawr o saragys. ac ath dygir yn rwym hyt yn ffreinc. y wneuthur yna oth anuod y peth ny chytuuny yma oth vod. neu ynteu y diodef agheu. val y gweda y anwir. Ac weithon kymer y llythyr cayat hwn y mae charlymaen yn y anuon yt. wrth uenegi it a vo hyspyssach y gennadwri ry dreitheis inheu ytti.

XCIII.—Marsli a dorres yr ynsel. ac a leawd y

llythyr yn un agwed ry ystudyei yn hir yn llyureu lladin. A gwedy y darllein cnithyaw a oruc y varyf lwyt y hun. a gwallt y ben o drycyruerth. a menegi udunt val hyn achaws y drycyruerth. Vy ffydlonyon i. gwerendewch chwi meint traha gorchymyn charlymaen ymi trwy y llythyr. yn achwanec datcannyat y gennat. Dwyn ar gof y mae bot galanas basin a basil y wyr ef heb y rydiwc idaw etwa. dros y rei y mae ynteu yn erchi anuon idaw algalif vy ewythyr inheu. y dienydu yn dial y lleill. ac hwyntwy wedy rylad oy kyghor ynteu. Ac y mae yn tygu na chanyatta yni un tagneued. na gadu vy eneit y minheu onyt gan hynny. ac wrth hynny awn yghyghor wrth rodi atteb trwy gyghor yr kennadwryaetheu trahaus hynny. A cherdet a oruc ychydic y wrth y lluosogrwyd hwnnw. ac eisted y dan wascawt prenn oliwyd. ac yny gylch ychydic niuer o rei prudaf a doethaf or aoed idaw. Ac ymplith y rei hynny algalif ewythyr y brenhin. a blaccand henafgwr. yr hwn a dechreuassei kyghori y bradwryaeth. Ni a dylywn. heb y blaccand. galw kennat y ffreinc yn kyghor. yr hwn a ymrwymawd a mi doe trwy ffyd ac aruoll. ar raglydu o honaw ef o hyn allan an lles ni. Galwer ynteu. heb yr algalif. Ac yn gyflym yd aeth blaccand attaw. ae gymryt erbyn y law. ae dywyssaw hyt y kyghor. Ac val hyn yd ymanhwedawd marsli ac ef. Mi ath dieniwaf wryanc. ac na dala var wrthyf yth vryt am y codyant. yssyd gyuadef gennyfi rylidyaw ohonaf wrthyt ti. Ac myn y vantell hon yr hon a vernir yn well noe chymeint or eur coethaf. neu o vein mawrweirthawc. mi ath dieniwaf di. A thra yttoed yn dywedut hynny. dodi y vantell am vynwgyl y tywyssawc. ae gyflehau y dan yr oliwyden ar y neillaw y tu deheu idaw. Ac eilweith dywedut val hyn a oruc. Gwenwlyd. heb ef. na phetrussa di. a mivi yn vyw y ymrwymaw a mivi ynghywir getymdeithas. ac ny mynnaf o hediw allan dy vot ti yn wahanredawl om kyghor i. A mi a vynnwn weithyon gyfrwch o heneint charlymaen. yr hwn a dengys y lwydi yn amlwc y vot yn oedawc. yr hwn yssyd diheu gennym rygwplau

ohonaw oe anedigaeth hyt yr awr hon deucant mlyned. Blinaw ryoruc o lauuryaw llawer trwy lawer o deyrnassoed. a llawer o vrenhinyaetheu a darestygwys oe arglwydyaeth. a llawer o vrenhined a gymhellwys oc eu teyrnassoed y alltuded. Ac weithyon amserawl oed idaw orffwys yn ffreinc y hun. y dreulyaw byrder y vuched trwy lewenyd a digrifwch a llonydwch.

XCIV.—Nyt velly y mae y brenhin charlymaen. heb y gwenwlyd. nyt hepkyr y oedran ef o vawredigrwyd ac angerd. Nyt oes lafur a arswytto. nac a gretto y vot yn anawd. ac nyt oes neb ryw gedernyt yr y jeuenctyt nac a veido. nac a allo gwrthwynebu y heneint ef. Mwy heuyt yssyd o volyant a chenedueu da ar charlymaen. noc a ellei neb y dywedut. ac ny ellit datcanu y gyniuer dawn a gauas charlymaen y gan ehalaeth rodyawdyr yr holl donyeu. Ny dywedafi eissoes na aller ychydic wrthwynebu y angerd ef. pei cospit rolond yr hwn yssyd law deheu y charlymaen. yr hwn y llauurya ef oe gedernyt y sawl ar veint a lauurya. Canys pa le bynnac y kerdo charlymaen ay lu. rolond a dric yn ol. ac oliuer y getymdeith. ar deudec gogyuurd. y gyt a chan mil or ffreinc y gadw y brenhin. ar llu blaenaf. rac perigleu yn ol. Ac nyt oes a veidyo ymbroui a chedernyt rolond. yr hwn yssyd vawrhydic oe clot. ac yr gerdwys idaw yn honneit. na ellir goruot arnaw nac ar y ryuyc. Ac y mae y minheu. heb y marsli. petwar can mil o pagannyeit agattoed yssyd gyn dewret. a chyn gyfrwysset yn arueu. ac na ellit caffel marchawc lu a vei tegach noc wynt. Pony thebygut titheu gallu ohonam ninheu ymerbynnyeit ymrwydyr a charlymaen ae lu. Peth ambell. heb y gwenwlyd. nyt heb ormot collet y gellynt awch anffydlonyon chwi ymgyuaruot ar sawl ffydlonyon hynny. reit vyd y chwi goruot o ystryw y neb ny ellwch y orchyuygu o gedernyt. Rodwch oc awch da y charlymaen rodyon kymeint eu meint. val na bo yn y holl lys ef neb ny hoffo eu meint. Ac ot anvonwch y gyt a hynny dec wystyl o wystlon. ef a ymchoel y ffreinc. ac oe deuawt ef a edeu yny ol y ran oreu oe varchawclu. y

amdiffyn y rei blaen rac brat yn ol. A minheu a gredaf. heb ef. panyw rolond ac oliuer a vyd tywyssogyon ar y cadw yn ol. ac ny allant hwynteu ymdianc y gennyt ti. o mynnwch ymgyuaruot ac hwynt yn wrawl. Ac o damweina ywch dygwydaw rolond oc awch nerth. ef a orffwys bygwth charlymaen. ac nych aflonyda o hynny allan.

XCV.—Ac ar yr ymdidan hwnnw sef a oruc marsli rodi cusan idaw. ac erchi dangos y dryzor idaw. a rodi atteb idaw val hyn. Anosparthus yw y kyghor a gerdo yn amylder ymadrodyon. ony byd diwed tervynedic arnaw o weithret. Ac wrth hynny wryanc da. bit dy lauur di ath ynni y adaw rolond yn ol charlymaen. ac an llauur ninheu. ac yn hynni vyd ymlad ac euo yn wrawl. pylc bynnac y caffom ni euo yn dywyssawc yn ol charlymaen. A hyn a dywedafi ar vy ymadrawd. mi ae cadarnhaaf om llw y lladaf fi rolond. onym lledir i yny blaen. Bit val y dywedy. heb y gwenwlyd. a minheu a baraf adaw rolond. y wrth charlymaen. a gwedy yd adawer. cwplewch chwitheu ych edewit arnaw ef. Ac yna yd erchis marsli dwyn attadunt llyuyr mahumet. yr hwn yd oed dedyf y pagannyeit yndaw. y dan yr oliwyden ir. ar warthaf taryan eureit y dodet y llyuyr. ac ymaruoll y hwnnw o varsli ae wyr da am agheu rolond. val y hedewssynt. Ac ar hynny y gelwis maldabrwn gwryanc da or pagannyeit ar wenwlyd. a rodi cledyf idaw. a dwrn eur oll idaw. a dywedut wrthaw val hyn. Myn y cledyf hwn. heb ef. yr hwn nyt aeth ar ystlys cledyf well noc ef. mivi a ymrwymaf yghedymdeithas a thydi. wryanc bonhedic anrydedus. Ac ymlaen dim un peth a archaf vinheu yth raclydu oth brudder di ymi lle y ymgaffel wrth ymlad a rolond. A minheu a rodaf ytti aruoll y creireu mahumet. onym lledir i yn gyntaf. y lladaf vi euo. Ac odyna y doeth ar wenwlyd cliborin. a rodi helym idaw. gan dywedut val hyn. Kymer y rod hon wryanc. val y mae gwiw it rod mawrydic. Nyt aeth am benn helym well no honn. yr honn y mae eur coeth yn rwymaw. ac yn sawduryaw y phetwaraeneu. Maen carbunculus heuyt yssyd ar y gwarth-

af. ygkymherued y petwar llafyn. ac o rym hwnnw y goleuhaa hyt nos vegys hyt dyd. Ot ym atwen i am raclyd. heb y gwenwlyd. mi a baraf it dy vynnu am hynny. Ac yn ol y rei hynny y doeth ar wenwlyd baimwnd gwreic varsli. ac ymdidan ac ef yal hynn. Amlwc yw arnat ti. heb hi. arwydon boned mawr. a marsli ae wyrda gan y dylyu yssyd yth enrydedu di. A minheu a enrydedaf dy wreic di or cae hwn. yr honn a wn i bot yn wiw idi enryded oth achaws di. Kyt boet mawrweirthawc eur y cae hwnn. heb hi. bychydic yw hynny eissoes wrth y mein mawrweirthawc yssyd yndaw. gwell yw y cae hwnn y hun no holl dlysseu cristonogyon. Ny allei holl olud awch charlymaen chwitheu ymgyffelybu ar cae hwnn herwyd y werth. A chyt boet mor vawrweirthawc y cae hwnn a hynny. ny byd ef namyn dechreu rod yth wreic di. cany byd dirann hi byth bellach nac om caryat. nac om da. Ac ynteu a gymerth y cae. gan y diolwch yr vrenhines. ac achwanegu yr ymadrawd hwnn. Os duw a ryd hoedyl ymi. heb ef. mi a attebaf ych enreded. ac ych rodyon. gan y dalu ac achwanec y danaw o okyr.

XCVI.—Ac ar hynny y doeth y trysorwr ar y brenhin. ac ar rodyon ac ar gwystlon gantaw oe hanuon y charlymaen. ac nyt y ran leihaf a duc y wenwlyd yn obyr bratwr. pwn deg meirch o eur coeth. Kymer hynn. heb ef. yr awr honn. dywyssawc bronhedic. a thi a geffy ae kymeint. ae a vo mwy. y gyniver gweith y hanuonych amdanaw. o phery ditheu ymi lle ac amser y boeni syberwyt rolond. Nyt reit. heb y gwenwlyt. trablinaw neb o adolwyn idaw gwneuthur y peth y bo ef chwannogach oe wneuthur. nor neb ae harcho. Edrych ditheu. heb y gwenwlyd. yn bot ninheu yn un vryt o hyn allan. ac na aller gwahanu yn kyfnessafrwyd byth bellach. Llyman y rodyon a edeweis i y charlymaen trwy vygkenadeu. a llyman idaw ef ugein gwystyl y gyt ar rodyon. ac y gyt a hynny agoryadeu saragys. A phan rodych ti idaw ef pob peth o hynny. coffa ditheu kymwyssaw ymi vy rodyon o agheu rolond. gwna un peth y adaw ef yn geitwat yn ol. Ac os hynny a

danweina. ef a geiff y gennyf vinheu brwydyr agheuawl. Bit val y dywedy. heb y gwenwlyd. a blwydyn vyd gennyfi pob awr or anotter agheu rolond yndi. Ac odyna ef a ysgynnwys ar y varch. ac a gymerth y fford gyt ar rodyon ar gwystlon y vryssyaw parth ar charlymaen. Ar dyd hwnnw ry gyuodassei charlymaen oe deuawt. a gwedy gwassanaeth pylgeint ac offeren. y parassei tynnu y bebyll mywn gweirglawd vawr dec. yny lle yd oed y gyt ac ef anneiryf amylder or ffreinc y gyt a rolond. Ac yn dirybud y doeth gwenwlyd vradwr. ac val y bei gywreinyach y twyllei. val hyn y dechreuis y ymadrawd wrth charlymaen. Yachaet y brenhin holl gyuoethawc charlymaen brenhin kyuoethawc. yr hwn yssyd wir yechyt. ac a ryd yechyt y pawb or a yachaer. Llyman agoryadeu saragys y mae marsli yn eu hanuon yt. a llawer o swllt. Ac y gyt a hynny ugein o wystlon bonhedic yth geitwadaeth ar gedernyt y dagneued. Ac y mae marsli yn adolwyn yt nas kerydych ef am algalif y ewythyr. kynyt anuoner yt herwyd dy arch. Canys seith mil o wyr aruawc ac dugant ym gwyd i y gan varsli. ac a gerdassant mywn llogeu ar ffo y ymdeith. ac ar niuer a oed yn ymwrthot a bedyd y gyt ac ef. Ac ni cherdassant mwy no dwy villtyr. pan gyuodes tymestyl arnunt. ac y bu debyccaf gan bawp eu bodi a diheuaf. Pei ynteu ry odiwedassei varsli ef yny holl gyuoeth ef ae vedyant. neu pei ry diagei yr tir or mordwy hwnnw. pei drwc pei da gantaw. ef a anuonit yti. A megys y hanuones marsli attawch trwy y genadeu y hun. y vegys hynny y hadewis wrthyf inheu dyuot yn ych ol chwi y ffreinc y gymryt bedyd yno. a ffyd gatholic. ac y wneuthur gwrogaeth y titheu. ac y gymryt y gennyt y veint a vynnych di y gannyhadu idaw ef or yspaen. yw dala ydan dy vedyant. Da y cwpleeist dy neges. heb y charlymaen. a thitheu a geffy molyant ac anryded mawr. tra vych vyw am y llauur hwnn.

XCVII.—Ac ar hynny kyrn kychwyn a berit eu canu yn arwyd yr llu. a llawenhau a oruc pawb or arwyd hwnnw. a dattynnu eu pebylleu. ac ymbarattoi y eu hynt dracheuyn. a chynnullaw y gyt eu daoed

gwasgarawc. a dodi eu swmereu ar eu meirch. a chymryt eu hynt damunedic dracheuyn. Ac nyt oed vwy no dwy villtir y wrthunt pyrth yr yspaen. pan doeth awr gosper y gymell arnadunt teruynnu eu iwrnei. Ac yna tynnu eu pebylleu ar y maestir. Yn eu hol hwynteu yd oed petwar can mil o bagannyeit aruawc yn eu hymlit yn diarwybot. ac nyt oed bell y wrth y ffreinc yd oedynt hwynteu y nos honno yn ymdirgelu. Y nos hagen a lauur y hynt charlymaen ai rhodes ar hun. a thrwy yr hun honno y dangosset idaw yn amlwc dyuot collet idaw rac llaw am y wyr. Ef a welit idaw y vot ympyrth yr yspaen. val yd oed hagen. a gleif a welei yn y law. ac ar hynny y deuei wenwlyd ar y ystlys. ac ysglyfeit y leif oe law. ac phrydyaw yny vei oll yn drylleu oduwch y benn. Ac ar y weledigaeth honno ny lesteirwys y hun dim ar charlymaen. Ef a welit idaw wedy hynny y vot yn ffreinc. ae vot yn arwein arth yn rwym wrth dwy gadwyn. Ar arth a welei yn rwygaw y dillat. ac yny vrathu yny vreich deheu yn greulawn trwy y kic ar croen hyt yr ascwrn. ac yny gnoi. ac yny yssu. ac yny dryllyaw. Ac yn hynny y gwelei lewpart yn dyuot y wrth yr yspaen. ac yn y gyrchu yn gyndeirawc. a phan dybygei y vot yn ymgaffel ac ef y deuei helygi oe lys ehun. ac erbyn y vrwydyr dros y arglwyd. ac ymerbyn ar llewpart. ay ymdiffyn ynteu yn diffleis. Ac ar hynny etwa nyt ymedewis y hun y charlymaen. namyn kyscu hyt tra barhawys y nos. Ar bore trannoeth kyuodi a oruc. a gwedy galw y wyrda attaw. gouyn udunt pwy a drigyei yn ol yn geitwat ar y llu. Nyt oes o honam ni. heb y gwenwlyd. yn atteb idaw. a allo hynny yn well no rolond. ac nyt oes o honam. nac a veidyo y beich hwn. nac a allo y amdiffyn yn well noc ef. Ac ar hynny edrych yn llidyawc a oruc charlymaen arnaw. a dywedut y vot yn ynvyt dibwyll. a bot yn amlwc bot dryc yspryt yn arglwyd arnaw. Pwy. heb ef. a vyd amdiffynwr ar y blaeneit. os rolond a dric yn geitwat ar y rei ol. Oger o denmarc. heb y gwenwlyd. a obryn yn da yr enryded hwnnw oe nottaedic dewrder. a gwedy clybot o rolond ryvarnu idaw ef o wenwlyd y gwassan-

aeth hwnnw. o deuawt gwr mwyn diuygwl. medylyaw a oruc trwy y weithret y chadarnhau. gan atteb idaw val hynn. A lystat da. mawr a garyat ry obrynneisti arnafi. o varnu ym enryded kymeint a hwnn. ac o gymessuraw vygkedernyt i a llauur kymeint ac ef. A chyt boet llauuryus mi ae kymeraf ef y gan y diolwch. Ac ny cheffir. heb ef. heuyt nac a vynno. nac a veidyo dwyn y gennyf y teilygtawt ry varnwyt ym. A minheu a gymeraf arnaf. heb ef. heuyt adawer vivi y gadw y llu. na chyll charlymaen yn y ol werth keinnawc. yny gwypwyfi ny dialwyf inheu om cledyf. ac om deheu. Ni a wdam dy vot yn dywedut gwir. heb y gwenwlyd. ac nyt oes neb ath atnapo ath amheuo am hynny.

XCVIII.—Ac yna yd aeth rolond y ymdidan a charlymaen. ac y adolwyn idaw dan anhyed ystynnu idaw y breint. rydaroed y wenwlyd y varnu idaw. trwy y bwa aoed yny law. o gwelit idaw y vot yn wiw yr gwassanaeth hwnnw. A minheu a adawaf yti. heb ef. yn gadarn na dygwyd y bwa om llaw i yny gymryt yr llyfyrder. mal y digwydwys y llythyr o law gwenwlyd. Ac ny rodes charlymaen atteb idaw ar hynny. namyn gostwg y wyneb yn trist tu ar dayar. ac ny allwys ymdiffryt rac wylaw. Ac ar hynny y doeth naym tywyssawc ar charlymaen. y lauuryaw canmawl ymadrawd gwenwlyd ae dechymyc val hynn. Arglwyd vrenhin. heb ef. na chyffroa rolond ar lit. oe annoc am ystynnu idaw keitwadaeth yr ol. canyt oes o hyn allan o honam ni a veidyo y divarnu ef o hynny can gwyr y enwi idaw. Anrydeda y gwryanc or anryded llauuryus hwnnw. canys ydiw yny damunaw. ac ystyn idaw ef trwy y bwa yssyd yth law. ac adaw idaw ran da oth varchawclu. val y gallont gynnal y glot ynteu yn ganmoledic. Ac o annoc naym y brenhin a ystynnwys y bwa y rolond. ac ynteu ae kymerth ef yn llawen gan y diolwch. Rolond garu nei. heb y charlymaen. tidi a dric yn geitwat yn ol. ac yny vo dibryderach it eissoes attal gennyt hanner vy marchawclu. Poet pell y wrthyf. heb y rolond. kywilyd kymeint ac y dottwyf vy ymdiret yn amylder riuedi. Digawn yw hynny. y

gyt am nerth i mil o wyr grymus a digono. a nerth rolond ac gledyf ynteu a ryd kyffelybrwyd y anneiryf o lu. Ac odyna ef a wisgwys arueu marchawc ymdanaw. a chyrchu pen bryn a oed yn agos idaw. ac o hyt y ben dywedut val hynn. A vo kedymeith ymi. heb ef. ac a digrifhao hediw o weith gwrawl. ymlynet vivi. Oliuer y ffydlonaf getymeith ef a doeth attaw yn diannot. ac yny ol ynteu y deudec gogyuurd a thurpin archescop. a llawered y gyt ac wynt. or a oed honneit. ac amlwc bot grwndwal kedernyt gantunt. Ac yn un voment. sef yr oed hynny deugeinvet rann awr. yd ymgynnullassant y gyt at rolond ugein mil o wyr da. Pan oed digawn gantaw ynteu caffel mil o wyr grymus. ny a allwys eissoes gwrthlad oc getymdeithas y sawl wyr da hynny yn ymgynnic idaw. Ac yna y rybudyawd Rolond Gwallter y ffydlonaf getymdeith ef. herwyd meint y ymdiret y ffydlonder. ac wrogaeth idaw ymlaen pawb yny mod hwnn. Kerda yn gyflym vy ffydlawn i. a chymer vil o getymeith. a ragodwch y ffyrd. ar mynyded. rac caffel arnam wall. a chaffel collet yn dirybud ygan yn gelynyon. Mi a dylyaf bot yn ufud waredawc yt. heb y gwallter. ac na synnya yn llesc yny gwassanaeth hwnn. A chyn teruynu y atteb. brathu y varch y ragot y mynyded ar ffyrd. y gyta mil o getymdeithyon. Oger o denmarc a racvlaenwys yn geitwat o vlaen y niuer a athoed y ffreinc. ac ychydic o riuedi y gyt ac ef. canyt oed perigyl hayach yny geitwadaeth honno. Rolond ynteu a edewit yn yr yspaen. a llawer gyt ac ef o wyr dewr clotuawr.

XCIX.—A phan yttoedynt yn kyrchu glynneu y mieri. nachaf brwydyr diarwybot udunt trwy vrat gwenwlyd. Mynyded uchel a glynneu issel godywyll adan y mynyded. a fford dyrys gyuyg agarw. y peth a vlinei yn vawr y ffreinc. a oedynt yn adaw pyrth yr yspaen. Ac odyna y gwelynt dayar gwasgwyn. Ac yna y dugant ar gof eu gwraged tec. ac eu plant. ac eu presswyluaeu yn prytwerth yn y gwlat. Ac o achaws hynny kyffroi pawb onadunt ar wylaw. o hiraeth. eithyr y brenhin ehun. Nyt o hiraeth am ffreinc hageu

yd wylei ef. namyn o ryadaw rolond yn yr yspaen. ac ar venegi idaw y perigyl trwy y hun. onys twyllei y vreudwydyon. Naym a ovynnwys y charlymaen py achaws yd wylei ynteu. Ac atteb a oruc y brenhin idaw. rywelet o honaw trwy y hun diruawr gollet y ffreinc trwy wenwlyd. ac vot ynteu yn ofynhau am rolond ae getymdeithyon. a thygu a oruc ef o chollei y gwyr hynny. na deuey ef byth oe gyulawn lewenyd. Ac arganuot a oruc y ffreinc eu brenhin yn wylaw. ac o hynny kyffroi wynteu ar dagreuoed. ac ouynhau a orugant wynteu. a dryc yruerthu am rolond ae getymdeithyon. Ac yn hynny yd oed varsli yn kynnullaw y bopyl. ac ar ymdeith diwarnawt y wrthaw ymgynnull attaw can mil o bagannyeit. A gwedy dyrchauel mahumet y benn y twr uchaf y enrydedu. ae wediaw y adolwyn y ganmawl. ac ganhorthwy am agheu rolond. Eu kychwyn a honnassant trwy trympeu. a chyrn. a pheiryanneu ereill. Kerdet a orugant y saragys. a llenwi y mynyded ar glynneu. a cherdet racdunt. yny welynt arwydon. a marchawclu. ac ystondardeu rolond. Ac ar hynny nachaf nei y varsli yn dyuot attaw y adolwyn idaw. y adu ef yn gyntaf y ymerbyn a rolond. yn y mod hwnn. A vrenhin enrydedus caredic. llawer chwys a llauur a diodefeis i yth wassannaeth di. llawer kedernyt a oresgynneis it. llawer gelyn it a darestygeis it yn ymladeu. Dros y gyniuer llauur hwnnw yd adolygaf yt y ganhyadu ymi ymgyuaruot yn gyntaf a rolond. Ac os hynny a deruyd ny byd gwrhydri ar ymhyo idaw gan ganhorthwy mahumet. yny bo ef yn varw gan vy arueu i. Ar enryded yd oed yny erchi ry ganhyadwys marsli idaw. ac yn gedernyt ar y cannyat ystynu idaw y vanec. A gwedy kymryt oe nei y vanec yn llawen. y diolwch idaw val hynn. A garu vrenhin. heb ef. mawr a enryded rydoeisti ym trwy rybuchet. dyro ym gyt a hynny getymdeithyon etholedic yny vom deudec y gyuaruot y gyt ar deudec gogyuurd o ffreinc. Mivi heb y ffalsaron. brawt y varsli. a ymrodaf ygyt a thydi yny gwassannaeth hwnn. garu nei. ac a gymerwn vi a thi arnam hediw gostwg syberwyt rolond ar deudec gogyu-

urd o ffreinc hyt ar dim. Ac yn diannot y doethant dec ar y deu hynny. a gwiscaw eu harueu. a dodi eu cledyfeu ar eu hystlys. a chymryt eu gleiueu. ac adaw y palffreiot. a chymryt eu hemys aruawc cadarn. a chan kynhwryf mawr dynessau at y ffreinc yn awydus.

C.—Ac ar hynny Oliuer a gigleu twryf y pagannyeit. ac ae menegis y rolond val hynn. A garu getymdeith. heb ef. hyt yd atwenn i. y mae brwydyr barawt ynn. Yr holl gyuoethawc a dywano yn hynny. heb y rolond. Nyt oes na mal na threth a dylyom ni y talu y charlymaen. namyn ymlad drostaw yn rymus. Mwyhaf detwydyt a varnafi. heb ef. caffel achaws a defnyd y dalu y kyfryw treth a honno. Aruerwn ninheu weithon yn ehalaeth or defnyd hwnnw. megys y gweda yr ffreinc. a racdodi ohonam angreifft waratwyd yr rei a vo rac llaw. ymdifferwn gan ymlad yn wychyr syberw. Ac ar hynny trossi ar y tu deheu idaw a oruc oliuer. a thrwy lynn coedawc arganuot toruoed mawr or pagannyeit yn dineu parth ac attunt. A garu getymdeith. heb yr oliuer. wrth rolond yna. A wely di y toryf racw. honn a wna hediw kynhwryf a teruysc mawr yn ffreinc ni. a hynny a wydat gwenwlyt anffydlawn. pan annoges yr brenhin yn hadaw ni yn geitweit. Nyt ef a wnel duw. heb y rolond. tybyaw gwenwlyd oe vot yn anffydlawn ymi. ac ynteu yn lystat ym. Oliuer eilweith a synnwys ar y pagannyeit yn dyuot. ac a dywat wrth y getymdeithyon. A wyr da grymus. y mae y vrwydyr yn ymdangos ynn. Kynhelwch y maes yn wrawl. Nyt y geuyn a dyly neb y dangos y elynnyon. namyn gosged aruthyr. ac wyneb agarw a vynno goruot ar y elyn. Atteb y ffreinc o un vryt uu hwnn. Pwy bynnac. heb wynt. a dangosso y geuyn y elynyon. Bar duw idaw ynteu. Oliuer eilweith a drosses at rolond y ymdidan ac ef. val hynn. Rolond garu getymdeith. heb ef. bychydic yd ym ni herwyd y niuer yssyd yn yn herbyn. a reit oed yn pei rodut lef ar dy gorn yr elifant y alw yn brenhin ae lu yn ganhorthwy yn. Nyt ef a wnel duw. heb y rolond. dielwi y ffreinc trwydofi yn gymeint ac y

gwahodo rolond neb yn ganhorthwy idaw kyn synnyaw brwydyr. pan vu eidaw rolond yn wastat rodi canhorthwy heb negydyaeth. Os y vrwydyr a damweina val y hedewy di. dwrndal vygkledyfi a vyd vygkanhorthwywr. yr hwnn a gerda hediw gan ganhorthwy duw val lluchyaden y dan y pagannyeit. Rolond vygkedymdeith. heb yr oliuer. mi a annogaf yt yr eilweith dodi llef ar yr eliphant. y alw yn brenhin ae lu draygeuyn. val y bo diogel yn drwy y nerth ef dileu o lyuyr y vuched y riuedi hwn o bagannyeit. Poet pell y wrthyf. heb y rolond. tyfu drwydofi gwaradwyd kymeint a hwnnw. nyt amgen ouynhau ohonafi o glybot bygwth brwydyr. a minheu heb ouynhau eiroet kyndrycholder brwydyr. cany bu le dibryderach gennyfi eiroet. no phan vydwn damgylchynedic om gelynyon. a minheu o bop parth. a dwrndal ym deheu yn eu tannu wy mal llucheden vuanllem. Ti am gwely i hediw yn ymlit yr anffydlonyon yn gynluttet. ac y bei lei boen gantunt eu marw. no gwelet dyrnodeu eu hymlynwr. Rolond garu getymdeith. heb yr oliuer. y tryded weith mi a annogaf yt galw charlymaen ae niuer traygefyn o lef yr oliffant. rac colli hediw y sawl wyr da hyn a edewit yth geitwadaeth di. a rac ymhoelut or genedyl anffydlawn honn yr lleoed ry oresgynwyt arnunt kynn o hynn. ac yn gallu yn yscawn eu dileu wy o gwbyl. gwedy yd ymhoelo charlymaen. Ni wnel duw. heb y rolond. y gennyfi gwaratwyd kymeint ac y bo arnaf ouyn lluossogrwyd yr hwn ny allwys lluossogrwyd gwrthwynebu idaw. Ni ellir byth lliwyaw y rolond y gymell o ofyn pagannyeit oe vot yn gornawr. nyt ef a darffo ynteu ymgyffelybu rolond ymrwydyr y helywr. yr hwnn nyt oes na gweith na llauur. namyn gwylltaw bwystuilet or llwyneu o lef y gorn. Gweithret rolond ynteu vyd val y bu eiroet. llad a dwrndal yn gadarn. trychu y marchogyon ar meirch trwyduut. yn eu kymherued. torri y cadeu gwrthwyneb. ac eu tannu. ay sathru adan draet vy march yn deisseu calaned a wnel dwrndal. Ac o hynn allan arbet ym o annoc peth mor waradwydus a hynn. rac bot yn yscael-

ussach yn ketymdeithas o hynny. a thrwy hynny lleihau yn kyvcillach. Mi a arbedaf yt. heb yr oliuer. ac ny chwaneccaafi bellach vy ymadrawd. namyn pa gollet bynnac a damweino yn bellach ny dylyir liwyaw nac cherydu y oliuer.

CI.—Ac ar hynny yd oed gwyrda ffreinc nesnes y eu gelynnyon. ac eu merthyrolyaeth rac llaw yny kyffroi ar dagreuoed. nyt yr ofyn eu hageu. namyn o hiraeth pawb onadunt am y gilyd. Sef a oruc oliuer herwyd y syberwyt eissoes eu hangreifftyaw gan eu hannoc ar damunet brwydyr val hyn. Ha wyrda. heb ef. pei na bei brouedic gennyfi lawer gweith ych gwrhydri chwi. mi a gablwn ych methyant. ac ych dagreuoed. ac ny chredwn eu bot o gygweinyeint. ac ediuarwch. namyn o lyuyrder ac ofyn. Peidwch weithon ac ych methyant. pa gamwed bynnac ry wnel pawb o honawch yw gilyd madeuwch. a chymodwch yn gyfun dagnouedus. ac na vit ohonam o hyn allan a vo ouyn arnaw y lad. yn ymlad tros wlat nef. canys gan golli buched amserawl y kerdir ar uuched tragywydawl. Ufydhau a oruc pawb y dysc oliuer ac ymvadeu. ac ymgerenhydu oc eu hen wydyeu. yr madeu o duw udunt wynteu eu godyant. Ac velly ymdyrchauel eu bryt ar y vrwydyr. hyt nat oed neb onadunt. ny damunei y varw yr crist. yr caffel ohonaw ynteu kyn agheu llad un o elynyon crist. Ac yna y dywat rolond yr ymadrawd hwn. Yr awr honn. garu getymdeith. y dywedeist yr ymadrawd a berthynei ar oliuer. velly yd atwen i dy vot yn etiued mawrydic. ac yn vab maeth y ffreinc. Kyuarwyneb ar ffreinc yd oed varsli vrenhin ar benn mynyd uchel. ac yny getymdeithas petwar can mil o varchogyon. Nyt oed yr un o hynny ny bei idaw march aruawc dewr cadarn. a dogyn kyweirdeb o arueu marchogyon. Ac o hynny yd etholes y brenhin can mil o varchogyon gordethol. y ymerbyn ar ffreinc yn gyntaf. ac attal ar y mynyd y lleill oll gantaw. yny vei reit canorthwy yr lleill. Y gwyr etholedigyon a discynnassant gan ystlys y mynyd. ac yn eu blaen y deudec gogyuurd. Ac yn vlaenaf onadunt hwynteu nei marsli a ffalsaron y ewythyr gynar-

ystlys ac ef. a llunyaethu a orugant eu llu yn deudec ran. a dyuot yn barawt wedy llunyeithu eu bydinoed parth ac eu gelynyon y eu kymryt. Rolond ac oliuer a lunyeithassant eu niuer hwynteu yn vydinoed. ac ymgadarnhau o bawb onadunt hwynteu yn eu harueu. rei a oed eu nerth val yd oed eu dysc. canyt ydoed eu grym yn erbyn y wiryoned.

CII.—A phan welas y pagannyeit y ffreinc wedy ry ymlunyeithu yn vydinoed. ac yn barawt y ymlad. ymgynnullaw a orugant yn deissyuyt o ouyn. o dybygu eu bot yn deu kyn amlet ac yd oedynt. val y mae deuawt gan y rei ofynawc. Ac yna y damunynt eu bot yn olaf. y rei a chwennychynt kynno hynny. herwyd clot ac enryded eu bot yn vlaenaf. A phan vu diamheu gan rolond caffel brwydyr. ymgyuodi y vryt a oruc ynteu ygglewder. a gosged yn llewenyd kyrchu y elynyon. heb vot yn vwy y aryneic no llew dyual bonhedic. pan dyrchauei y wyneb yn erbyn morynyon. Ac yna y dywawt ef wrth oliuer val hyn. A garu getymdeith. y gwyr da hyn yn wahanredawl megys etholedigyon a edewis charlymaen gennym ni. ymladwn ninheu ar pagannyeit ygyt ac wynt a throstunt yn wrawl. val y caffwynt wynteu angreifft o honam ninheu y ymlad yn wrawl. heb giliaw yr neb ryw berigyl. Kyrch ti a gleif. a minheu a dwrndal yny ryuedo pawb. ac yny diffirwythont oc an gwelo yn ymlad. Ac ar hynny turpin archescop a gyrchwys penn bryn a oed ger eu llaw. a galw y ffreinc yny gylch y yrru grym yndunt. a dechreu y ymadrawd val hyn. A wyrda grymus. coffewch panyw y gan grist ych gelwir yn gristonogyon. a megys y kymerth ef diodeueint yroch chwi. velly y dylywch chwitheu diodef ageu drostaw ynteu. a cheissaw y getymdeithas ynteu velly och ageu chwitheu. Disgynnwch y ar ych meirch. ac estygwch ar ych glinyeu a chymerwch ellygdawd y gennyf inheu y viccar ef. Ac na vit anyndiret gennwch hediw. o bydwch veirw. caffel a wnewch coroneu y gyt ar merthyri. A gwedy eu hellwg. a rodi bendith udunt. erchi udunt gyuodi. a gossot yn benyt arnadunt. na ffoynt rac y pagannyeit.

namyn ymerbyn ac wy o dyrnodeu mawr mynych. Ac yna ysgynnu a orugant ar eu meirch. ac yn diogel ganthunt wlat nef. gan yscaelussaw y halltuded dayarawl. oe marw a damunynt. yr caffel buched a vei well. y marw heuyt a damunynt yr caffel rei y llad oc eu gelynyon. Ac yna y dywawt oliuer wrth y ffreinc val hyn. Llyman y pagannyeit yn an kyrchu ni. Paham yd ymarhown nynheu ac wy oc eu kyrchu. a rodi udunt y dyrnodeu kyntaf. Kyrchwn vynyd llewenyd ac ystondard Charlymaen. a dodwn awr arnunt.

CIII.—Ac yn diannot kyrchu mynyd llewenyd a orugant y dodi gawr. a brathu y meirch ac yspardunеu. a chyrchu yr yspaenwyr. Ac ny ffoes y sarasinnyeit. ac velly yd ymgymysgwys y llu ffydlawn ar anffydlawn. Alsarot nei varsli oed vlaenaf or pagannyeit. ac angreifftyaw llu y ffreinc a oruc yn valch val hyn. Y ffreinc anffydiawn. chwi a ymgyuaruydwch a nini. ac a brouwch an nerthoed. drwc ych ketwis y neb a dylyei ych cadw. ynvyt uu charlymaen ych rodi ych colli ygketymdeithas rolond. A phan gigleu rolond y valchder. anniodef vu gantaw. Ac yn diannot o nerth traet y varch kyrchu y syberw. a gossot arnaw a gleif trwy y lit yny daryan. yny vu trwy y daryan. a thrwy y lluryc. a thrwy escyrn y vron. a thrwy ascwrn y geuyn. ae dyrchauel oe gyfrwy. ae vwrw yr llawr. ae ganhebrwng or ymadrawd hwn. ac ef yn dygwydaw. Byd varw gythreul. heb ef. ygyt ath syberwyt. ac nyt ynvyt charlymaen. ac nyt drwc y cymmynnwys charlymaen keitwadaeth y ffreinc ym. cany chyll ffreinc hediw trwydom ni nae chlot. nae syberwyt. Ac odyna annoc y getymdeithyon val hyn. Dwyssewch ar yr anffydlonyon. y damwein kyntaf ry ganhyadawd duw yn. y venegi yn bot yn einym y vudugolyaeth rac llaw. canys ydiw y wiryoned yn ymlad drossom. A phan welas ffalsaron agheu y nei. doluryaw a oruc a llidyaw. A gwedy idaw yscaelussaw kyny bei vyw ony chaffei dial agheu y nei ar y elynyon. racvlaenu y vydin a oruc yn awydus. ac ymoralw ar paganyeit. ac angreifftvaw y ffreinc. a menegi udunt y collei y ffreinc y henryded o

hynny allan. A phan gigleu Oliuer hynny. llidyaw aoruc. a dwyn ruthyr idaw a gleif. pan yttoed yn dywedut geiryeu ac ymadrodyon syberw bocsachus. a thrwy y daryan. ac luryc. a thrwydaw ehun y vrathu. ae vwrw y ar y varch yn varw yr llawr. ae ganhebrwng gan y angreifftyaw o eiryeu chwerw val hyn. Kymer hynny yn obyr am dy vygwth. a thrwy y kyfryw dyrnodeu hynny y catwn ni enryded ffreinc. A gemeit cadarn. heb ef. nac aryneigwch yr anffydlonyon. canys hawd yw goruot arnunt. a pharodach ynt y gymryt agheu noc y rodi. Ac yna yd annoges corsabrin y pagan creulonaf y pagannyeit ereill val hyn. Ymledwch wyr. heb ef. yn erbyn y ffreinc yn wrawl. canys bychan eu niuer. ac na allant wrthwynebu y ninheu. bychydic a dal charlymaen udunt hediw o rym. Ot ymledwch yn da y maent oll yn veirw yn an llaw.

CIV.—Pan gigleu turpin archescop hynny. llidyaw aoruc. a llywyaw y varch y tu ac attaw. a chyrchu yr anffydlonyon. a brathu corsabrin trwy y daryan ae luryc. ac escyrn y vronn. a thrwydaw berued yny vu yr llawr gan diruawr pwys. A phan welas ef oe orwed yn merwy yn anffurueid. ymadrawd ac ef aoruc val hyn yn chwerw. Geuawc vuost anffydlawn. llawer a grymya charlymaen yni yngyndrychawl. ac a dalwys hyt hyn. ac a dal o hyn allan. Dwyssewch yna ac hwynt. heb ef. kyversengwch wy. lledwch y rei marwawl. A getymdeithyon da. y mae y kyflauaneu kyntaf yn adaw yny vudugolyaeth. nyt oes na nerth na grym na dayoni yny lluosogrwyd racw. Ac yna dodi gawr arnadunt hyt y pen o vynyd llewenyd. ac oe awr ynteu gyrru grym a glewder yn holl lu ffreinc. Ac yn hynny gereint a gerart deu getymdeith. gweissyon dewr o ffreinc. a gyrchassant y pagannyeit o gyuundep a dwy leif. a gereint a vrathwys malkabrin. a gerart a vrathwys lannaliff. Ni bu olud a allei eu diffryt yny vu y gleiueu trwy y holl arueu. a thrwydunt chunein. ac y ar eu meirch yr llawr. Ac ar vyrder nyt oed vwy y tygyei yr pagannyeit eu harueu heyrn no gwiscoed lliein. y ymdiffryt rac arueu y ffreinc. Ac ar hynny Oliuer a ymorelwis ae getym-

deithyon. ac ae cannoles val hyn. Da yw yn gwyr ni. heb ef. ac ar nyt ydiw onadunt yn yngyrhaedu a brwydraw. mi a attwen glewder ganedic eu gwlat yndunt. Ac ar hynny engeler o wasgwyn a duc ruthyr y ar varch cadarn y un or pagannyeit a gleif o lawn nerth. yny dorres y daryan ar lluryc. a thrwydaw ynteu berued. ae vwrw yn un cwymp oe gyfrwy yr llawr yn varw. ac yn ol hwnnw rodi cwymp y getymdeith arall idaw yn varw. ae ganhebrwng val hyn. Ymdiret yr awr hon y vahumet. val hyn y keidw ef. ac y ymdiffyn y rei eidaw ef. kymer dy gyfloc yr awr hon yn uffern am wassannaethu yr teu arglwyd hwnnw. Deu oed etwa yn seuyll or deudec gogyuurd y pagannyeit. Margarit. a cernub ac wynteu a llywyassant eu llu yn erbyn y ffreinc. Y Margarit hwnnw y marchawc goreu oed. tec oed ynteu a dewr. ac amyscauyn. a chyfrwys ar varch. a llywyaw y march cadarn aoruc a chyrchu oliuer. a gossot arnaw a gleif yny daryan. yny dyllwys y daryan hyt ar y lluryc diogel. Ac nyt argywedwys yr lluryc. namyn torri yna y wayw gan y mwn. a dodi y gorn wrth y eneu. ac o sein y gorn galw y pagannyeit yr vrwydyr. Ac yn hynny ny orffwyssei rolond o taraw. a llad pwy bynnac a gyfarffei ac ef. ac nyt oed reit eilchwyl y darw a drawei ef vnweith. Tra barhawys y wayw. ac ef yd ymladei. ac ny pharhawys idaw namyn ar un gossot ar bymthec. ar gyniuer kelein a ladawd ac ef o riuedi. A phan daruu y wayw. kyrchu aruer a chanhorthwy dwrndal. A gwedy y dinoethi. lledauwynaw y varch a chyrchu cernub. ac o warthaf y benn dechreu y dyrnawt trwy yr arueu heyrn. a thrwy y pen. ar emennyd. ar mynwgyl. ac y rwg y dwy vron. a thrwydaw berued. a thrwy y kyfrwy. ar march llurigawc hyt y llawr. ae ganhebrwng or ymadrawd hwn. Kymer hynny yggobyr dy enwired. val hynny y gnottaa mahumet canhorthwyaw y rei eidaw.

CV.—Ac odyna y kerdwys rolond ymplith y lleill. ac y lladawd y sawl a gyrhaedei ac wy. o riuedi nat oed hawd y adrawd. namyn val hyn tannu y pagannyeit. mal medelwr cyflym yn medi yt aeduet. Ac ny orffwys-

sei y ffreinc creill heuyt o diua yr anffydlonyon. namyn pob un herwyd y gallei yn ymgyffylybu y rolond. A llawenhau aoruc turpin archescop o edrych arnunt yn hynny. ac eu moli. gan eu hannoc y vot yn well val hyn. Teilwg yw y ffreinc ardelw or gwyr hyn. yssyd yn yscaelussaw eu heneiteu yn y byt hwn. val y gallont ymgadw ymuched tragywyd. Ac yn hynny yd oed oliuer yn ymlit y elynyon a dryll y wayw yny law. ac a hwnnw taraw mawstarot ar awch y helym. yny blygwys y helym trwy y benffestin. yny gymhellwyt y lygeit oe heisteduaeu ymaes. ar emenyd yn redec yn eu hol wynteu. ac ynteu yr llawr yn varw ymplith mil o varchogyon oe getymdeithyon ehun yny gylch. Ac yn ol hwnnw taraw torkin a dryll yr un paladyr. ac ny allwys yr aryf parau gan dyrnawt kymeint a hwnnw. namyn torri yn vil o drylleu. yn wascaredic o bop parth idaw. A phan arganuu rolond hynny. y angreifftyaw a oruc val hyn. A getymdeith da. heb ef. nyt a ffynn y mae reitta ymlad yn y vrwydyr honn. namyn ar cledyfeu. ac yr arueu heyrn. Mae hawtcler dy gledyf di yn da. Ny bu reit ym hyt hyn y dinoethi. heb yr oliuer. ni doeth cof ym ef kevei tra yttoedwn yn ymlit y cwn. vy awyd yn eu llad ar aryf a oed ym llaw. Ac odyna tynnu y gledyf oe wein. ae dangos y rolond y getymdeith. gan daraw yttyen ac ef ar y helym ar penffestin. a thrwy yr arueu oll. a thrwy y gwr ar march hyt y llawr. yny oed ran o bop parth yr cledyf yn wahanedic onadunt. Yn y dyrnawt hwn yd atwein i dy vot ti yn getymdeith y rolond. heb y rolond. ac or kyfryw dyrnodeu hynny heuyt yd heydy getymdeithas charlymaen. ac yd ymgedwy ac enryded. Ac yna dodi gawr a orugant wy ell deu. y ar vynyd llewenyd. ar holl llu yn eu hol wynteu yn gyuun a dodassant awr. Ac ar hynny gereint a gerart y getymdeith a gyrchyssant dimoeth megys yn gyfun. ae vrathu o un onadunt yny daryan. ar llall yny lluryc. a thorri eu deu wayw y gyt yndaw. ae vwrw y ar y varch yn varw. Ac ar hynny y lladawd turpin archescop eu dewin. yr hwn a dwyllwys y dewin dabaeth y agheu yna. Ymlad

a orugant y deu lu yn anhebic hagen. y neill yn llad. ar llall yn diodef eu llad. ac yn llauuryaw y amdiffyn rac eu llad. Rolond. ac Oliuer. ar archescop yn gluttaw ac wy yna. ar deudec gogyuurd. ar ffreinc ereill heb orphwys yn tannu y bydinoed gwrthwyneb.

CVI.—A phan welas y pagannyeit nat oed neb ryw amdiffyn na brwydyr. na chadernyt. nac arueu a dyckei udunt rac eu llad. y kymerassant ffo ehun yn diogelaf medeginyaeth udunt rac agheu. a dangos eu keuyn yr ffreinc. ac adaw y maes. Ac eu hymlit aoruc y budugolyon udunt heb damunaw carcharoryon o neb onadunt. angen no thrwy eu hagheu. A llawen orawenus vu y ffreinc o gaffel y vudugolyaeth gyntaf. ac eissoes y dyghetuen a gymysgwys petheu gwrthwyneb yr rwyder hwnnw. canys gorthrymder gelynyon o newyd a doeth attunt yn diarwybot. y rei a oed vlin o ymlad. ac eu harueu yn vriwedic. bychan eu hymdiret yndunt. Oia duw meint y collet a doeth yr ffreinc yna o vrat gwenwlyd. y sawl ar veint o ganhorthwywyr a golles charlymaen . Yn y lle hwnnw y mae etwa collet y gwyr hynny yn parhau. ac eu heisseu yn ymdangos herwyd eu llwybyr yn amlwc. Oia duw. mor da y cauas y bradwr yny diwed tal y anffydlonder ymparis. ymherued eu gwlat ehun y barnwyt yr groc ar y decuet ar hugeint oe oreugwyr. Ar brenhin. kyt bei drist. a gymerth y vrawt honno. ac y peris y chwplau o weithret. ac velly kyt bei gwrthwyneb gantaw. a dialwys y gollet arall ac a didanwys y dolur trwy dolur arall. Or can mil hagen or pagannyeit ry doeth yn gyntaf am ben y ffreinc ni diegys yr un namyn margarit ehun. a hwnnw a datcanawd y varsli aerva y wyr. Ac odyna marw vu ynteu. canys briwaw ry wnathoed. y daryan ae harwest etwa am y dwrn. a thorri y wayw. a briwaw y luryc. a thorri y helym. ae benffestin. a briwaw y ben. a phedeir gweli yn y gorff. ae gledyf noeth yny law yn waetlyd yd edewis y maes yn lladedic hayach heb vawr geryd. ac y ffoes nyt yn anadwyn. ac adaw y gan mil o gedymdeithyon yn veirw wedy ry lad. A gwedy dyuot margarit rac bron marsli vrenhin yn y wed honno

nyt val gwr llwfyr. a ffoawdur. y gyghori a oruc val hyn. Marsli vrenhin yr yspaen. heb ef. reit yw yt yr awrhon a thi ath niuer marchogaeth yn erbyn y ffreinc ath holl lu yn diannot. canys o gellir goruot arnadunt yr awr hon y mae hawssaf. Briwedic yw eu taryanneu. a briwedic eu cledyfeu. ac eu gwaywar. a llawer o varchogyon dewr onadunt ry dygwydassant yn yr ymlad. a blin ynt hwynteu o lauur yn an llad ninheu. a llawer gwedy eu gwanhau. ac eu diffrwythaw yn vawr oc eu gwelieu. a choll eu gwaet. Ac wrth hynny yn diannot y mae dechreu brwydyr ac wynt. tra vo hawssaf goruot arnadunt. yn diannot y mae dial ar rei syberw agheu a gwaet an gwyr ninheu.

CVII.—A gwedy ymadrodyon y gennat. yn diannot y paganmyeit a wisgassant eu harueu. ac a ymlunyeithassant yn vydinoed. A marsli ac eu tywysswys ar hyt glyn coedawc. val y gellynt yn dirybudyach dyuot amben y ffreinc. A phan yttoydynt yn gyuagos yr ffreinc y dywawt marsli wrth y niuer val hyn. Rolond. heb ef. yssyd cadarnaf gwr a goreu gwyr y gedymdeithyon. a chany thyccya brwydraw or neilltu udunt. reit yw lunyeithu brwydyr o bop partl. udunt y eu gorchyuygu. Myvi heb ef. a drigaf y dan y bryn hwn. a deg mydin gennyf. Ac aet grandon. gwr dewr yw hwnnw. a deg mydin ereill gantaw y ymerbyn ar ffreinc. Ac a chyghor y brenhin y kytsynnywys pawb. Ac yna y gelwit grandon at y brenhin y rodi idaw arglwydyaeth ar y deg bydin hynny. ac ystondard eureit hynot o gwbyl. Ac y dan y bryn hwnnw y trigwys marsli ae niuer. a grandon ynteu ae deg bydin o hyt traet y meirch a gyrchassant y ffreinc. a honni eu kychwyn o vil o gyrn. A phan doeth y godwrd hwnnw at y ffreinc kythrudaw a wnaethant o darogan eu hagheu. a chwynaw pob un wrth y gilyd onadunt. Ac yny gwynvan honno eu didanu aoruc yr archescop udunt. gan adaw llewenyd gwlat nef yr goreu a ymladei onadunt. ac adaw poeneu uffern yr neb a ffoei ohonunt. Ac ymgadarnhau ar hynny aoruc pawb onadunt. ac ymadaw yn gyuun hyt na ffoynt vyth. Ac ar hynny

cliborinus y pagan cadarnaf or byt a racvlaenwys y getymdeithyon. a dwyn ruthyr y engeler o wasgwyn. ac vrathu a gwayw trwy y daryan ac luryc a thrwydaw ehun. a digwydaw y ar y varch yr llawr. a buched tragywyd a gymerth engeler. Ac ar hynny y budugawl a dodes gawr. hawd yw goruot. heb ef. ar y ffreinc. Ymledwch getymdeithyon. a chan ymlad torrwch vydinoed y ffreinc. Ac ar hynny ymoralw aoruc rolond ac oliuer. A getymdeith da. heb ef. a wely di meint y collet ry damweinwys yn ni rylad engeler. Ni wn ni. heb yr oliuer. medeginyaeth wrth y collet hwnnw amgen noe dial yn vuan. gan ganhorthwy duw nyt annodir y dial ynteu. Ac ar hynny dyrchafel y gledyf yn waetlyd uch y ben. a chyrchu cliborin oe lawn aruaeth. ac ny chauas y gledyf neb gohir. nac yn yr arueu. nac yn y gwr. nac yn y march. yny vuant yn dwy ran. Ac yn ol hwnnw llad alfacet a hen vlaccaud. ac ar un tu llad seithwyr yn dial yr un. Ac yn ol hynny Maldabrwn y pagan enwiraf. ac a dywedir rygaffel o honaw gynt caerusalem trwy vrat ar dineu gwaet o honaw trwy greulonder yn temyl y padriarch. A brathu y varch a oruc ac ysparduneu. a chyrchu samson a gleif ay vrathu trwy y arueu. a thrwydaw y hun. yny vyd y ar y varch yr llawr yn varw. ar eneit detwyd hagen yn kerdet ar vuched didramgwyd.

CVIII.—A phan welas rolond samson yn varw. dolur a gymerth y gyt a llit. a brathu y varch y gyrchu yr anffydlawn y ar y ystlys. ac taraw oe wregys y vynyd trwy y arueu. a thrwydaw y hun hyt y llawr. ac oe wregys y waret yn marchogaeth y march. Ac yna heuyt y collet ansel gwr grymus o ffreinc. Ae eneit a gyrchwys gedymdeithas engylyon. Ac ar hynny turpin archescop a vrysswys y dial hwnnw ar valquidon ry ladyssei. a thrwy y taryan. ar lluryc. ar arueu ereill. ac ysglyuyeit y ben y ar y gorff. Ac yr hynny corff yr anffydlawn yn ymgynhal y varchogaeth heb y ben. yn hir herwyd y grym. ar angerd ry aruaethassei yn y vywyt. Ac ar hynny grandon tywyssawc ymladeu y pagannyeit a duc ruthyr y ar y varch awydus y ereint.

ac vrathu a gwayw trwy y arueu. a thrwydaw chun a rodi cwymp idaw yr llawr y ar y varch yn varw. ar eneit detwyd eissoes yn kymryt buched rac llaw hep ouynhau. Ac ar hynny llad engeler y getymdeith val y bydynt getymdeithyon yn varw. val y buont yn y byt yma. ac yna y lladawd y pagannyeit ar un tu brengar. a gwimwnt o saxonia. ac astorius gyt ac wy. Ac yna y rodes y pagannyeit gawr ar y cristonogyon. ac wynteu a wybuant o un vryt bot y pagannyeit yn mynet drostunt. Ac yna y kyffroes rolond ar lit. a phan arganuu grandon ef yn lletauwynaw tu ac attaw. ffo aoruc. ae ragot a oruc rolond idaw. ac ef ae trewis a dwrndal. vny vu y gwr. ar march. yn dwy ran o bop parth y dwrndal. Ar dyrnawt hwnnw a lawenhaawd y cristonogyon. ac a tristaawd y pagannyeit. A gwedy llad y tywyssawc y ffoassant. ac eu hymlit a oruc rolond udunt ae wyr. ac eu adaw yn danvaeu. Canys mwy lawer a las yno no riuedi y rei ae lladawd. Ac yna y digalonnet y pagannyeit. hyt na ellynt wy gynhal eu harueu. Ac yna y cannasant y kyrn. ac ar kyrn yd ymladassant. ac velly y cwplaassant y vrwydyr trwy y kyrn y gnotteit annoc y gwyr yny vrwydyr.

CIX.—Ac velly y llas y pagannyeit. ac ychydic onadunt a diengis a ffoassant ar varsli. Ac nyt oed lei eu houyn yno. nac rac bron rolond ae lu. A thra welei rolond wy. ef ae hymlittyawd. a gwedy na welei ef neb yny gylch. ef a dywanawd ar sarasin du diffygyawl yn llechu y mywn llwyn. ae daly a oruc. a nydu pedeir gwialen. a gwneuthur petwar reuawc. ae rwymaw wrth bren yn diffleis a gwedy y rwymaw. mynet y bryn a oed agos idaw. Ac odyna ef a welei lawer or sarasinnyeit y gyt. ac ymhoelut a oruc y lyn mieri. y lle y kyrchei pawb or a vynnei adaw pyrth yr yspaen. Ac yna canu y gorn. ac ef a ymgynnullawd attaw yno amcan y gannhwr o gristonogyon. ac a hynny ygyt ac ef y doeth yr lle yd oed y sarasin yn rwym. Ac yna y tygawd rolond y lw mawr y lladei ben y sarasin. ony delei y venegi idaw y lle yr oed varsli. ae dangos idaw. canyt attwaenat rolond varsli yna etwa. Ac yn dian-

not rac y lad yd aeth y sarasin y dangos idaw varsli. ac o bell dangos y arwyd. a march coch mawr adanaw. a tharyan gronn oed arnaw. A rodi y vryt aoruc rolond arnaw. a chyrchu y vydin yn hy. ar hynn a oed o wyr ganthaw yn diuygyl. Ac arganuot a oruc rolond yn eu plith gwr a ragorei racdunt. a chyrchu aoruc rolond hwnnw. ae lad ar un dyrnawt. a ffo aorugant wynteu yna hwnt ac yma. vry ac obry. Taraw a oruc rolond yn eu hol. ac eu llad ac eu bwrw. ac eu hyssigaw. ac arganuot a oruc varsli yn ffo. ae ymlit a oruc rolond idaw ae lad. ac ny diengys un gwr o wyr rolond o hynny o gyfranc. namyn rolond e hun. gwedy y vrathu a phedeir gleif. ae vriwaw a mein. ae yssigaw.

CX.—A phan gigleu beligant hynny. yr eil brenhin or pagannyeit. disgreth varsli yn dygwydaw. ffo aoruc ynteu. ac adaw y wlat. Teodoric a bawtwin a rei ereill or cristonogyon oedynt yn llechu rac ouyn ymywn llwyneu. ac ereill a adoed yn ol charlymaen y byrth yr yspaen. ac neur daroed y charlymaen adaw aoed dyrys. a pherigyl or ffyrd. a dyuot yr diogelwch heb wybot dim or a daroed yn ol. a blinaw a oruc rolond gan bwys yr ymlad. a chan rodi y dyrnodeu mawr a chymryt y bratheu agheuawl a gawssei. A dyuot velly a oruc drwy drysswch a llwyneu hyt y pen issaf y byrth ciser. Ac yno y disgynnawd ef y ar y varch o dan bren wmbyr ymywn gweirglawd dec. a maen marmor wedy y gyuodi yny seuyll yn emyl y pren. a thynnu y gledyf aoruc oe wein. dwrndal y enw. Sef oed hynny. dyro dyrnawt calet. a dywedut aoruc wrth y gledyf val hyn o ymadrodyon dagreuawl. Or cledyf teckaf a gloywhaf. a gwedussaf. y kyuartalaf y hyt ae let. y gwynhaf a theckaf y dwrn o ascwrn moruil. ar groes eureit yny deckau. ac aual or beril teckaf ar y dwrn. ar canawl eur gwerthuorussaf yndaw. a dirgeledic enw duw. alpha et omega. yn ysgythredic yndaw. Y blaen llwydyannusaf. a mwyhaf y glot o nerth dwywawl. Pwy bellach a aruer o honot. pwy a vyd perchennawc arnat ti bellach. Y neb a vo medyannus arnat ny orchyuygir vyth. ny byd bygwl. ny chryn yr ouyn neb. Nyt

aryneigya yr ellyllgerd na chythreulyaeth. namyn gwastat diafyrdwl yd aruer. a dwywawl nerth yn damgylchynedic o nerth. ac ysprydawl ganhorthwy. a thydi y lledir y sarasinnyeit ar ny las onadunt. Clot y duw a ardercheueist. or gyniuer gweith y dieleist gwaet yn harglwyd ni iessu grist. yn trychu y pagannyeit. ac ydewon. A thydi y teruynir gwironned. a chyfyawnder. a thydi y trychir yr aelodeu a letrattaho. Or cledyf hawssaf ymdiret idaw. or goreu y awch. or llymaf or cledyfeu. Or cledyf ny chaffat eiroet y gyffelyp. ac ny cheffir byth. Y neb ath oruc. ny oruc na chynt na gwedy dy gystal. Nyt aeth yn vyw yd anwaedit arnaw yr bychanet y dyrnawt. Os marchawc llesc ofynawc ath geiff. neu sarasin. neu dyn anffydlawn. ys mawr a dolur yw gennyfi hynny.

CXI.—A gwedy yr ymadrawd hwnnw. rac ouyn dygwydaw y gledyf yn llaw sarasinnyeit. taraw tri dyrnawt aoruc ar y maen marmor. yny vyd y maen yn drylleu hyt y daear. yn dyargywed yr cledyf. Ac yna y rodes lef ar y gorn. y edrych a delei neb attaw or cristonogyon aoedynt yn llechu yn y llwyneu. neu a glywei neb or a athoedynt y byrth yr yspaen. val y delynt wrth y agheu y gymryt y varch ae gledyf. ac ymlit y sarasinnyeit. Ac yna y cant yr eliphant y gorn yn gyngadarnet. ac yny holltes y gorn yn deu hanner. a thorri y dwy waetwythen. ac ef a dywedir torri gieu y mynwgyl idaw yna. A llef y corn a duc agel o nef odyna hyt y lle yd oed charlymaen yn glyn y mieri. wyth milltyr y wlat yno. y tu a gwasgwyn. y lle yr oed charlymaen yn pebyllaw. Ac yn diannot y mynassoed charlymaen ymhoelut oe nerthau. Nac ef. arglwyd. heb y gwenwlyd. Cann oed kyfrin ef am agheu rolond. Gwybyd di. heb ef. or achaws lleiaf y kenit y corn. ac nat reit idaw ef wrth dy ganhorthwy di. namyn hely anyfeileit gwyllt y mae. ac am hynny y cant y corn. Ac o gyghor y bradwr y tewit yna am rolond. ac yna y dywanawd bawtwyn y vrawt ar rolond yn y lle yd oed yn ymgreinaw. ac yn damunaw dwfyr. ac nys cauas y vrawt idaw yn un lle. Ac yna erchi y vendith a oruc

y vrawt. ac ysgynnu aoruc ar y march rac y gaffel or sarasinnyeit. a mynet yn yd oed charlymaen. A phan aeth bawtwyn ymeith. y doeth attaw ynteu teodoric. ae gyffessu. ac dysgu y ymeiryawl a duw.

CXII.—Ac neur daroed y rolond y dyd hwnnw kymryt corff y arglwyd. a chyffessu yn llwyr wrth offeirieit. canys hynny oed eu deuawt y dyd yd elynt y vrwydyr. kyffessu a chymryt kymun. Ac ymhoelut y wyneb ar y nef a oruc rolond. a dywedut val hyn. Arglwyd grist. yr kynnal dy dedyf di. ath cristonogaeth y deuthum i om gwlat y alltuded aghyfyeith. a thrwy dy nerth di ath ganhorthwy arglwyd. y gorchuygeis i lawer o sarasinnyeit. ac y diodefeis anneiryf o dyrnodeu. a bonclusteu. a chwympeu. a gwelioed. a chellweir. a gwaradwyd. a blinder. ac oeruel a gwres. a newyn. a sychet. a gouut. a phoen. Y titheu arglwyd y kymynnaf inheu vy eneit. val yd estygeisti erofi. ac yr cristonogyon y byt. yth eni or veir wyry. a diodef ar y groc. ath gladu. ath varw. ath gyuodi y trydydyd. ath ysgynnu ar y nef. y lle nys edeweist eiroet o gyndrycholder dy allu di. Velly arglwyd y teilygych ditheu vy rydhau inheu am eneit y nef rag agheu tragywyd. A chyfadef yw gennyf inheu vy mot yn bechadur camgylus. eithyr y mod y mae cannyat y dywedut. A thitheu arglwyd. val ydwyt trugaroccaf madeuwr pob pechawt. ac a drugarhaa wrth bawb. ac ny cheissy di arglwyd gan ediueiryawc. namyn y ellwg oe holl godyant. ae bechodeu. yn yr un awr yd ucheneittyo. ac ymhoelo o honaw. A thi a vadeueist yr wreic a dorres y phriodas. ac a agoreist borth paradwys yr lleidyr yn kyffesu yny groc. Na naccaa ditheu vinheu arglwyd o vadeu ym vympechodeu. a pha beth bynnac a becheis i yth erbyn di madeu ym. a llehaa vi y orffwys dragywyd. canys tydi arglwyd yssyd greawdyr yr holl greaduryeit. a thi a dywedeist arglwyd. bot yn well bywyt pechadur noe agheu. Mi a gredaf arglwyd yt om holl galon. ac a gyfadeuaf am tauawt. can wyt yn mynnu dwyn vy eneit or vuched hon y vuched dragywydawl. ar synwyr yssyd gennyf yr awr hon a amgena o gymeint o

ragor y corff rac y cysgawt. A chan dynnu y groen ar y gnawt am y dwyvron. a dywedut val hyn gan dagreuoed cwynuanus. mal y datcanawd teodoric wedy hynny. Arglwyd iessu grist vab duw. a mab y wenuydedic veir wyry. mi a gyfadeuaf om holl galon. ac a gredaf dy uot yn brynwr arnaf. ar dyd diwethaf y kyuodaf or dayar. Ac yny cnawt hwn yd edrychaf ar duw yachawdyr pob eneit. A their gweith y dywawt yr ymadrawd hwnnw. gan ymauael ae gnawt yghylch y dwyvron. Ac yna dodi y law ar y lygeit. a dywedut val hyn. Ar llygeit hyn mi a edrychaf arnaw. Ac agori y lygeit a oruc. ac edrych ar y nef. a chroessi y dwyvron ac holl aelodeu. a dywedut val hyn. Ysgaelus yw gennyf pob peth dynawl bellach. canys yr awr hon y gwelafi peth ny welas llygeit. nys gwerendewis clusteu. nys ysgynnawd yghalon dyn y peth a darparawd duw yr neb ae caro ef. A derchauel y dwylaw a oruc ef dros y rei a dygwydassei oe getymdeithyon yn y vrwydyr honno. a gwediaw gantunt val drostaw y hun. can doethant y alltuded y wrthlad sarasinnyeit. ac y gynnal dy enw. ath dedyf gristonogawl. ac y dial dy waet. Ac y maent yma yn gorwed gwedy eu llad o sarasinnyeit yn ymlad drossot ti. A dilea yn drugarawc arglwyd manneu eu pechodeu wynt. a rydhaa eu heneiteu y wrth boeneu uffern. ac anuon dy archegylyon kyssegredic yn eu kylch. oc eu diffryt rac tywyllwch. ac eu dwyn y deyrnas nef. y gytwledychu ath verthyri di. val y gwledychy ditheu y gyt ar mab ar tat ar yspryt glan. heb dranc. heb orffen. Amen.

CXIII.—Ac yn hynny a theodoric yn ymadaw ac ef yny gyffes. ar y wedi honno y kerdawd eneit rolond oe gorff. ac y duc yr egylyon ef y orffwys dragywydawl. y lle ny byd na thranc na gorffen. gyt ar merthyri val y haedawd. ae gwynaw val hyn. Diwyllwr y temleu. Kynydwr kiwdadoed. Medeginyaeth diogel y ovidyon gwlat. Gobeith ysgolheigyon. Amdiffyn morynyon. Ymborth eissywedigyon. Hael wrth bellenigyon. Doeth y bwyll. ac o anyan. Ffynnawn ygneidyaeth. Prud o gyghor. Gwar y vedwl. Gwrawl y weithret. Eglur y

ymadrawd. Caredic gantaw pob dyn. val pei brawt idaw vei pob cristyawn. Ac yn ol y volyant ynteu poet tegwch yn marchogaeth. A phan yttoed eneit rolond verthyr yn mynet oe gorff. hanner mei chun. yd oed turpin archescop yn canu offeren or meirw y rac bron charlymaen. sef y doeth idaw val llewyc. ac yna y clywei cor o egylyon yn canu. Ac ny wydyat ef beth oed hynny. A gwedy kerdet goruchelder nef onadunt. Ynachaf traegeuyn bydin. ual gwyr a delei o gyrch ac anreith gantunt. yn mynet heibyaw. ac ymatteb ac wy aoruc. a gouyn udunt beth a arwedynt. Marsli. heb wy. ydym ni yny dwyn y uffern. ach cornawr chwitheu y mae mihagel yny dwyn y paradwys. a niver mawr gydac ef. A gwedy daruot yr offeren y dywawt turpin hynny ar vrys y charlymaen. Bit hyspys. heb y charlymaen. y mae eneit rolond y mae mihagel yny dwyn y nef. a llawer o gristonogyon y gyt ac ef. Ar diefyl. heb ef. yssyd yn mynet ac eneit marsli i uffern. Ac ar hynny nachaf bawtwyn yn dyuot ar charlymaen. brawt rolond. ac yn dywedut idaw cwbyl o damwein rolond. a march rolond gantaw.

CXIV.—Ac yn diannot ymhoelawd charlymaen ae holl lu. Ac yn gyntaf dyn or llu charlymaen a dywanawd ar rolond. yny lle yd oed ae dorr y vynyd. ae dwyvreich yn groes ar y dwyvron. Ae gwynaw a oruc drwy igyon ac ucheneidyaw. ac wylaw. a diwreidyaw blew y varyf. ae wallt. a dywedut val hyn o hyt y ben. Or vreich deheu ym corff i. y varyf oreu a uu. a thegwch holl ffreinc. ae kedernyt. ae hyder. ae hamdiffyn. Cledyf kyuyawnder. gleif ny phylei. lluryc aghyffroedic. penffestin llewenyd. helym milwryaeth. kyffelyb o glot y iudas machabeus. un gedernyt a samson. un ryw y angeu ac un saul vrenhin a ionathas. Y marchawc gwychaf a grymussaf yn ryuel. a doethaf ymplith llu oed. Distryw sarasinnyeit. mawred yr ysgolheigyon. amdiffynnwr cristonogyon. Kynheilat ymdiueit. a gwraged gwedwon. Ymborth achenogyon. Kynydwr eglwysseu. Kyffredin ymrodyeu. ketymdeith y bawp. tywyssawc lluoed ffydlawn. ac ar un geir blodeu. a

hyder achwyn holl gret yn erbyn eu gelynyon. A phan y dugum i dydi yr gwladoed hyn. pa delw y gallafi edrych arnat ti yn varw. paham na bydaf varw inheu y gyt a thydi. Gwae vi rac trueni. py wnafi bellach. Buchedoccaa di bellach gyt ac egylyon. ar merthyri. ar seint. a minheu amdanat ti bieu y kwynaw ar hiraeth. ar galar. ar trueni. val y bu cwynvan y davyd am saul. a ionathas. ac absalom. A thydi yssyd yn mynet. a minheu yssyd yn trigyaw yn drist oualus.

CXV.—Ac or kyfryw gwyn hwnnw kwynaw rolond y tra vu dyd aoruc. A deunaw mlwyd ar hugeint oed y dyd y llas. ac yny lle yd oed rolond yn varw. y tynnassant eu pebylleu y nos honno. ac iraw corff rolond a wnaethpwyt ac ireideu gwerthuawr. nyt amgen myrr. ac olew. a balsami. a gwneuthur arwylant mawr idaw o ganueu a chwynvaneu a gwedieu. a thapreu kwyr. a thaneu. a goleuni. ar hyt y coedyd. ar llwyneu yr enryded y rolond yn hyt y nos honno. A thrannoeth y bore gwedy gwisgaw eu harueu amdanadunt. mynet a orugant yr lle y buassei y vrwydyr. parth a glyn y mieri. Ac wynt a gawsant yno eu gwyr yn gelaned. ac ereill yn annobeith o vratheu agheuawl. Ac yno yd oed oliuer yn varw ae dorr y vynyd. ar y ystyn. gwedy y rwymaw a phetwar reuawc. a phetwar pawl drwydunt yn y dayar. Ac oe vynwgyl hyt y ewined wedy y vlingaw. ae vreicheu. ae dwylaw. a gwedy y ffenestru drwydaw a phob ryw arueu. Ny ellit adrawd y kwynuan ar drycyruerth oed yno. canys ef a glywit eu griduan. ac eu godwrd yn llenwi y glyn o leuein. Ac yna y tygawd y brenhin yr brenhin holl gyuoethawc. na orffwyssei o ymlit y pagannyeit yny ymordiwedei ac wynt. Ac yn diannot mynet a orugant odyno yn eu hol. Ac yna y seuis yr heul megys yspeit tri diwarnawt yn digyffro. ac y gordiwedawd wynt yglan auon ebra. ger llaw cesar augustam. A mynet a oruc yn eu plith. megys llew dywal a uei hir heb vwyt. A gwedy llad onadunt pedeir mil. ymhoelut a oruc drachefuyn hyt y glyn y mieri. a pheri kynnullaw y kelaned oed yno. ae dwyn ganthaw yn yd oed corff rolond.

CXVI.—Ac yna yd amouynnawd charlymaen oed wir ar wenwlyd wneuthur o honaw vrat rolond ae wyr. Ac yn diannot dodi deuwr y ornest y dangos y wiryoned am hynny. nyt amgen theodoric dros charlymaen. a phinabel dros wenwlyd. Ac yn diannot y llas pinabel. ac yna y peris charlymaen rwymaw gwenwlyd wrth petwar meirch cadarnaf or llu. a dodi petwar gwyr arnadunt. ac eu kymell y bedeir ban y byt. pob un onadunt yggwrthwyneb oe gilyd. ac y velly y cauas gwenwlyd y angeu. Ac yna iraw a orugant galaned y gwyr enwawc oll a myrr ac a balsami. ereill onadunt a halltwyt a halen. ac a ducpwyt y ffreinc. Ac yd oed dwy vynwent bennadur kyssegredic. un yn yr alatlen. gwedy y chyssegru o seith escyb. ac yny rei hynny y cladwyt y ran vwyaf or calaned. A chorff rolond a ducpwyt yn enrydedus hyt ymblif. ac yn eglwys seint rwmin y cladwyt. a baryssei y hun y hadeilat. A chanonwyr a ossodet yndi. ae gledyf a ossodet uwch y ben. ar eliffant y gorn a rodet is y draet. yn lle uchel yr enryded idaw a molyant a chlot. A gwedy daruot hynny. y rodes charlymaen deudegmil o ugeineu o aryant. ar riuedi o vyssaneu eur. a gwiscoed anrydedus. a bwyt a diawt yn didlawt y achenogyon. Ar tir ar dayar ar seith milltir yghylch eglwys seint rwmin ar castell ar llys ac a perthynei wrthunt. ar mor heuyt. a hynny oll o garyat rolond. Ac ef a rodes y ganhonwyr y lle hwnnw na bei arnadunt neb ryw geithiwet vydawl. namyn rodi dillat unweith pob blwydyn rac eneit rolond. kyuenw y dyd y llas. y deg achenawc ar hugeint. ae porthi y nos honno. A chanu dec sallwyr ar hugeint a dec offeren ar hugeint yn anryded y rolond ae niuer a verthyrwyt y gyt ac ef yn yr yspaen. val y bydynt rannawc ar y coroneu. Ac wynt a adawssant ar eu llw wneuthur hynny.

CXVII.—Ac ar hynny yd aeth charlymaen o vlif hyt yn vien. ac yno y bu yn gorffwys ychydic. yn kymryt medeginyaeth oe glwyueu ae vratheu. Ac odyna yd aeth y baris. ac yna y goruc kwnsli yn seint dynys. oe dywyssogyon ac escyb. yn eglwys seint dynys y diolwch

y duw ar sant y nerth ar grym a rodassei y estwng y pagannyeit. Ac yna y rodes ef holl ffreinc yn darestyg-edic y seint dynys. val y rodassei bawl ebostol a chle-mens bap. a orchymynassant gynt yr brenhined ar tyw-yssogyon uvudhau yr eglwys honno. a rodi pedeir keinnawc pob blwydyn o pob ty y adeilat yr eglwys. ac a ellygawd pob caeth yn ryd yr talu y treth honno. ar llawenaf ae talei a elwit ffranc seint dynys. Ac odyna y gelwit y wlat honno ffreinc. a chynno hynny gallí oed y henw. sef yw deall yr enw ffranc ryd o geithiwet pob kenedyl. canys wynt a dylyynt vot yn bennaf. Ac odyna yd aeth charlymaen hyt y lle a elwir dwuyr y grawn. parth a leodin. ac ef a beris wneuth-ur enneint dogyn y wres heb gilyaw yn dragywyd o geluydyt ac ardymher. Ac eglwys a adeilassei y wyn-uydedic veir a adurnawd o newyd o eur ac aryant a dotrefyn eglwyssawl. a pheri ysgriuennu yndi ac ysgythru y mywn neuad ar y parwydyd. yn llythyr a delweu eureit ystoryeu hen dedyf oll. ac ysgythru mywn neuad idaw ynteu oed yno hynny oll. a dodi cwbyl oe ymladeu yn yr yspaen. ar seith geluydyt y gyt a hynny o enrydedus kywreinrwyd.

CXVIII.—Granadec gyntaf a ysgriuennwyt. canys hi yssyd vam y keluydydeu. a hi a dysc pa sawl yssyd o lythyr. a pha delw yd ysgriuennir pob ymadrawd. a rannu y sillafeu a vo yndaw. a thrwy y geluydyt honno y dyeill y lleodron yn yr eglwys pwyll yr ymadrawd a darlleont. ar nep ny wyppo honno darllein yr ymadrawd a wna ac nys dyeill. vegys y neb ny bo yr agoryat gantaw. ny wyr beth a uo yn y llestyr ar clo arnaw yny dirgelu. Mussyc a ysgythrwyt yno. a honno a dysc keluydyt y canu. a thrwydi y teckeir gwassanaeth yr eglwys. ac y dysc y cantoryeit yr organ. ac ar ny wyppo honno. breuu a wna val eidon. Y gradeu ar pynckeu nys gwybyd. namyn val dyn a dynno ar vem-rwn lluneu wrth linyawdyr gyrgam. kyn agkywreinet a hynny yd ellwg ynteu y lef. A thrwy honno y dychymygwyt a vu o gerd delyn a chrwth. a thympan. a phibeu. ac nyt oes yndi namyn pedeir llin ac wyth

don. a thrwy y rei hynny y dyellir y petwar nerth a berthyn ar corff. ac wyth obrwy yr eneit. ae boned oe dechreu a gaffat o gywydolyaetheu egylyon. Dilechtit a ysgythrwyt yn neuad y brenhin. honno a dysc dywedut yr ymadrawd. a dosparth gwir a geu. ac a dysc amrysson or ymadrawd ae dyall. o byd yndaw dywyllweh. Rethoric oed yno. honno a dysc dywedut yr ymadrawd yn gyuyawn. ac yn llwybreid. ac yn kyfreithawl. huawdyl a dosparthus vyd ae gwypo. Geometria a ysgythrassit yno. honno a dysc messuraw y dayar. y dyffryned ar mynyded. ar glyneu ar moroed ar yspasseu ar milltiroed. ar neb a wyppo honno yn gyfyawn. pan edrycho let y vrenhinyaeth. ef a wybyd pa sawl milltir. neu pa sawl gwrhyt. neu pa sawl troetued a vo yndi o hyt a llet. ac velly am vaes neu kymwt. neu dinas. Ef a ednebyd pa sawl troetued a vo yndaw. a thrwy honno y kyuansodes yr amherodron rufein y milltiroed. ar ffyrd or dinas pwy y gilyd. Ac o honno y llauurya yr emeith disynnwyr y vessuraw y tired ar gwinllanneu. ar gweirglodyeu. ar meussyd ar llwyneu. Arithmetica a ysgythryssit yno. yr hon a traetha pob peth o gyfrif. ar neb ny wypo honno pan welo dwr yr y uchet. ef a wybyd pa sawl maen a vo yndaw. neu y gyniuer dauyn dwuyr a vo yn y ffiol. neu o lyn arall. neu y geniuer keinnawc a vei yn y das aryant. neu y gyniuer gwr a vo yn y llu. O honno y llauurya y seiri mein. kynyt adnapont y geluydyt y gwplau y tyroed uchaf. Astronomia a ysgythryssit yno. sef yw honno keluydyt or syr. o honno yd ednybydir damweineu a thygetuenneu racllaw. a chyndrychawl da a drwc ym pob lle. A vo kyuarwyd yn honno. pan el y hynt. ne pan damuno wneuthur peth arall. ef a ednebyd val y darffo idaw. O gwyl deu wr. neu deu lu yn ymlad. ef a wybyd pwy a orffo onadunt. neu a oruydei arnadunt. Or geluydyt honno yt atwaenat amherodron ruuein ansawd eu gwyr yn eithauoed bydoed ar brenhinyaetheu eithaf.

CXIX.—Ac ar ychydic o amser wedy hynny y dangosset y turpin archescop agheu charlymaen. Pan yttoed diwarnawt ger bron yr allawr yn vicn yn gwed-

iaw. ac yn canu dechreu awr. nachaf val llewyc idaw. a thra y geuyn bydin anneiryf y meint o varchogyon yn kerdet heibyaw. ac adnabot eu bot yn kerdet parth a loteringia. A gwedy eu mynet heibyaw. arganuot a oruc un tebic y vlewmon yn eu canlyn yn llibin. a gouyn a oruc turpin o hwnnw pa du yd eynt. Ni a awn. heb ynteu. hyt yn dwuyr y grawn erbyn agheu charlymaen. a dwyn y eneit y uffern. Minheu a archaf y titheu heb y turpin. yn enw yr arglwyd grist. pan teruyno ar awch hynt dyuot yma attaf vi. y venegi beth a vo oc awch hynt. Ac ny bu odric arnadunt. namyn o vreid teruynu y salym. nachaf wynt yn dyuot dracheuyn yn yr ansawd yd athoedynt yno. Ac wrth yr un y dywedassei wrthaw gynneu am y neges y gofynnawd. Yr gwr or galis. heb ef. heb pen arnaw a duc y sawl vein a gwyd oed yny eglwysseu ef. ac eu dodi yn y vantawl. a mwy y tynnawd hynny ar da noe bechodeu ef. ac am hynny y duc ef yr eneit y gennym ni. Ac ar hynny diulannu a oruc y kythreul ymeith. Ac am hynny y dyallawd turpin archescop mynet charlymaen y orffwys trwy ganhorthwy iago ebostol. y gwnaethoed charlymaen eglwysseu idaw. Canys daroed idaw y dyd y gwahannyssynt o vien anuon o bop un onadunt ar y gilyd y damwein a darffei udunt. A phan oed wann ef. a dyuot cof idaw y amot a thurpin. sef yd erchis y vab maeth idaw o varchawc. am adnapei bot ef yn agos y agheu. anuon ar turpin. Ac yny vu pythevnos wedy hynny nyt anuonet. a menegi idaw heuyt na buassei yach na nos na dyd. yr pan dathoed or yspaen. a rywneuthur onadunt arwylant y merthyri a verthyrwyt yno. pob blwydyn tra vu vyw yn enrydedus o eur ac aryant a bwyt. a diawt. a dillat. mal y dywetpwyt vry or blaen. ac offerenneu. a sallwyreu. a gwassannaeth marw.

CXX.—Ac yn yr un dyd ar un awr y gwelsei turpin y weledigaeth. y buassei varw charlymaen. nyt amgen nor petweryd dyd kyn calan chwefrawr. y petwared vlwydyn ardec ac wyth gant oed oet iessu grist yna. Ac yn eglwys gron yr arglwydes veir a wnaethoed

ehun yn dwfyr y grawn yn ymleu lodu y cladwyt yn enrydedus. Ac ef a dywedir dyuot arwydon y agheu ef teir blyned kyn y varw. nyt amgen. duaw or heul ar lloer seith niwarnawt ar un tu. ae enw ynteu adaroed y yscriuennu ar baret yr eglwys uchot a dywetpwyt. Nyt amgen. charlymaen brenhin ffreinc aberis ehun y dileu y porth mawr. a oed rwg yr eglwys ar neuad. a dywetpwyt uchot. dywieu gyfachauel a dygwydawd or grwndwal. Pont brenn a vuassei yno seith mlyned ar afon reinn. a gawssit cost a llauur yny hadeilat a doeth tan yndi ehun yny losces hyt y dayar. A diwarnawt ydoed charlymaen yn kerdet o le y gilyd. ar diwarnawt anhegar niwlawc. nachaf y gwelei fflam las o dan yn kerdet yn vuan. val y bei fflam o gyneu. yn kerdet or tu deheu idaw parth ar asseu gan y wyneb. a dychrynu rac y tan a oruc. a dygwydaw y ar varch y tu asseu. a dygwydaw y hebawc y ar y law y tu arall yr march. ac yn gyflym y achub oe wyr ef ae gyuodi y vynyd. Ac am hynny y mae diogel gennym ni y vot ef yn rannawc ar goronneu y merthyri a verthyrwyt uchot. herwyd y diodefawd llauur gyt ac wy. Ac am hynny y rodir yn agreifft yr neb a adeilo eglwysseu. paratoi vuched tragywyd a wna. Ac val hynny y rhydhawd charlymaen o gaethiwet y dieuyl trwy ganhorthwy y seint. y gwnaethoed ynteu eglwysseu udunt. y llehawyt ynteu yn nheyrnas nef.

CXXI.—Ac ny pharawd turpin wedy agheu charlymaen. namyn ychydic o amser y bu yn nychu o vriw a doluryeu a gwelieu yn vien. Ac gwedy y varw y cladwyt yno yn yr eglwys ger llaw y gaer. y tu draw y ron. ac yno y bu talym. Ac yny dydyeu hynny. y kymerth rei or ysgolheigon corff turpin yn ysgrin yn enrydedus. ac escobwisc amdanaw. ac y dugant yr gaer y tu arall y ron. ac y cladyssant yn yr eglwys. y mae yr awr hon yn y enrydedu. Ac yn kymryt coron yn y nef. mal yd haedawd o vynych laweryon lauuryeu. tra vu ar y dayar yn dial gwaet yr arglwyd grist. ac y mae y varwnat uch y benn o wydyr tec enrydedus. Ac velly y teruyna ystorya charlymaen. oe weithredoed

yn yr yspaen. ac yn llawer o teyrnassoed ereill yn treulaw y uuched amserawl dros uuched dragywydawl. yn ymlad yn erbyn pagannyeit. a gelynyon an gwir arglwyd ni iessu grist. yr hwn a barotoes idaw ynteu le yn y nef dros y lauur yn y byt hwn.

Llymma deruyn o ystoryaeu y charlymaen brenhin ffreinc oe weithredoed ef yn yr yspaen. yn erbyn y pagannyeit a gelynyon iessu grist.

Y llyuyr hwn amchweles Madawc ab Selyf. yr hwn a yscriuennawd Jeuan yscolheic. Oet yr arglwyd iessu grist. ac ef yn duw a anet o veir wyry. oet yn y kyuamser. nyt amgenach. MCCCXXXVI. 1336.

BOWN O HAMTWN.

I.—Yn hamtwn yd oed iarll a elwit Giwn. ac aruer a wnaeth na uynnei wreic yn y ieueingtid. a gwedy hynny pan ymdreiglawd parth a heneint y gwreickaawd. Sef wreic a uynnawd gwreic ieuanc tu draw y vor. a honno aoed yn caru gwr ieuanc arderchawc aoed amherawdyr yn yr almayn. Ac eissoes yn y kyfamser hwnnw y kauas hi ueichogi o racdywededic giwn y gwr priawt. A ffan rydyuu amser. mab a anet a elwit bown. ar mab hwnnw a rodet ar vaeth ar varchawc kyuoethawc a elwit sabaoth. A gwelet or iarlles y iarll yn llithraw parth ac amdrymder heneint. y dremygu ae yskaelussaw o garyat ar y racdywededic amherawdyr ieuanc. Ac ystrywyaw a wnaeth pa vod y gallei gwplau y serchawl damunedic ewyllys ymdanaw. Sef y mod y ystyryawd dyuynnu kennat at yr amherawdyr. ac erchi idaw yr y charyat hi dyuot duw calanmei y fforest ynyal a oed yn y iarllaeth giwn. yn gyuagos yr castell yd oedynt yn presswylyaw yndaw. a niuer mawr o varchogyon aruawc gyt ac ef. ac ymdirgelu yno. A dywedut y parei hitheu yr iarll vynet yn oed y dyd hwnnw a niuer yskyuala gyt ac ef heb arueu. ac yna y gallei ynteu llad penn y iarll. ae anuon idi hitheu yn anrec. ac o hynny allan y gellynt hwynteu bot y gyt yn dideruysc. Y gennat a gerdawd yr almaen. ac a ovynnawd yr amherawdyr. Y mae yn llys idaw a elwit calys. Tuac yno y kerdawd y gennat. ac yr calys y doeth. a dygwydaw ar benn y lin rac bron yr amherawdyr. a chyfarch gwell idaw. ac yn dirgeledic menegi y gennadwri idaw. A llawen fu yr amherawdyr wrth y gennat. a rodi amws idaw. a chymeint ac a uynnei o eur ac aryant yn yghwanec. Ac erchi idaw mynet drachefyn at y wreic

vwyaf a garei. a dywedut idi. y gwnaei ef pop peth or a archyssei hi idaw ef yn oet y dyd.

II.—Ar gennat a doeth dracheuyn hyt yn hamtwn at y iarlles. a menegi y gwnaei yr amherawdyr y hewyllys hi ymhob peth or a archyssit idaw. A llawen uu hitheu orawenus. a rywyr genthi y doei oed y dyd. A nos calanmei y kymerth y iarlles cleuyt arnei. ac y dywawt wrth y iarll y bot yn claf. Ac yna y doluryawd yn uawr am cleuyt y iarlles. ac y dywawt wrthi. A oes dim a allo gwaret it. ac o byd. na chel yr a gosto. Oes arglwyd heb hi. pei kawn beth o gic y baed coet yn ir. mi a gawn iechyt. A wdost ti pa le y keir kyuot ar vaed coet. Gwn arglwyd heb hi. yn yn fforest ni uch penn y mor y mae baed coet. medei y fforestwyr ymi. A minneu aaf auory yno yn vore. Sef a wnaeth hitheu yna kyuodi yny seuyll. a dodi y dwylaw am y vynwgyl. a rodi cussan idaw. A thrannoeth y gwiscawd y iarll ymdanaw. ac y kymerth y daryan ay wayw ae gledyf. heb arueu yn angchwanec. ac ar y petwyryd marchawc yd aethant tu ar fforest. A ffan yttoedynt yn y fforest yn keissaw y baed. y kyuodes yr amherawdyr o lechua. ac y dywawt wrth y iarll yn uchel. dyret hengleirych ragot. mi a ladaf dy benn. ac a baraf crogi bown dy vab. ath wreic a gymeraf y minneu. Ac yna y dywawt y iarll. yghorffi a rodaf yn erbyn dy gorff ti y amdiffyn vygwreic am mab. a ffe bei gyt a mi luossogrwyd o gedernyt. yscaelus a beth oed gennyf dy uygwth. ac os vy llad a derfyd ym. yn dibechawt ym lledir. ac yn y drindawt y dodaf vy ymdiret.

III.—Ac yna ymgyrchu a wnaethant. ar iarll a uyrywyt yr llawr. Yna y dywawt ef. hen wr wyf vi. a thitheu gwr ieuanc wyt. Ac yna kyuodi yny seuyll a wnaeth. a thynnu y gledyf megys gwr dewr. ac ymlad yn wychyr ar amherawdyr. Ac ar hynny y kyuodes petwar cant marchawc y vynyd. ae gyrchu ae vrathu degmrath. a llad y dri chedymdeith. a ffei bei aruawc wrth y ewyllys. ef a diaghei hyt yn hamtwn. A gwedy y oruot ef. dygwydaw a wnaeth ar benn y lin rac bron yr amherawdyr. ac erchi trugared idaw. ac

ystynnu y gledyf idaw. a chynnic y holl gyuoeth idaw. dieithyr y wreic ae vab. yr na ledit. Na uynnaf yrof a duw. heb ef. a chyuot y uynyd a wnaeth yr amherawdyr a thynnu cledyf. a llad penn giwn iarll. ac yn diannot y anuon yn anrec yr iarlles. A hitheu a uu lawen wrth yr anrec. ac a dywawt wrth y gennat. kymmer varch. a ffrysta yn erbyn yr amherawdyr. ac arch idaw dyuot racdaw yn llawen. ac auory ni a wnawn yn priodas an neithyawr. Ac ynteu a doeth racdaw yn llawen. ac val y dywawt y iarlles. hynny a wnaethpwyt.

IV.—A chyt ac y kicleu bown rylad y dat. sef a wnaeth ynteu kymryt drycyruerth yndaw. a lleuein yn uchel. ac wylyaw. a chyrchu y vam a wnaeth. a dywedut wrthi. Oia buttein druan prouadwy. paham y pereisti llad giwn vyn dad i. a gwae uinneu pan rodes yr arglwyd duw yt y pryt ar llauyn yn gyndecket ac y rodes. canys o achaws hynny y llas vynhat. Ac myn y gwr a anet or vorwyn wyry. os ef a ryd ymi hoedyl. hyt pan allwyf marchogaeth a gwiscaw arueu. mi a wnaf bot yn ediuar mywn dy gallon peri llad giwn vynhat i. Sef a wnaeth hitheu dyrchauel y llaw. a tharaw y mab hyny dygwyd yn llwrw y benn ar lawr y neuad. Sef a wnaeth dat maeth. sabaoth oed y enw. a marchawc dewr kyuoethawc oed. kyuodi y vyny ac achub y mab. ae dyrchauel y vyny rwg y dwylaw. athu ae lys mynnu mynet ar mab. Sabaoth heb hitheu. reit vyd it tyngu yr awr hon y pery hediw llad y mab hwnn. neu ditheu a grocker. neu a vlinger yn vyw. A minneu arglwydes a wnaf hynny yn llawen. Y mab a gymerth sabaoth. ac aaeth ac ef tu ae lys ehun. a chyt ac y deuth adref. peri llad hwch a wnaeth sabaoth. a chymryt dillat y mab. ae wlychu ygwaet yr hwch. a gwedy hynny y rwymaw y gyt. ae bwrw mywn dwfyr mawr. Ac yna y dywawt sabaoth wrth y mab. Mi ath caraf yn vawr o achos dy dat. ac wrth hynny. byd di wrth vyghyghor i. ac ef a daw lles yt o hynny. Mi a wnaf heb y mab yn llawen. Reit vyd yt. heb sabaoth. cadw vy wyn i yn y weirglawd obry. a chymryt gwisc

vugeileid drwc ymdanat. hyny el y pymthec niwarnawt hyn heibyaw. Ac gwedy hynny mi ath anuonaf y wlad arall at iarll kyuoethawc. yssyd gyueillt a chedymdeith gwahanredawl ymi. a phan ellych dwyn arueu a marchogaeth. dabre attaf ui. mi a thi a ryuelwn yn gadarn wychyr ar yr amherawdyr. Arglwyd dat duw a dalo yt. a minneu a wnaf hynny yn llawen.

V.—Trannoeth y bore y mab aaeth y gyt ar wyn yr weirglawd. sef a wnaeth ef edrych ychydic ar y llaw deheu. a phan edrych. ef a glywei. yn llys a ryfuassei llys y dat. y sawl gerdeu a glodest a sarllach ar neithawr y vam. ar nys clywssei kynno hynny y kyffelybrwyd. sef a wnaeth y mab anryuedu yn vawr beth oed hynny. a dywedut. Oia arglwyd nef. truan a beth yw hyn. vy mot i doe yn vab iarll kyuoethawc. a hediw yn uugeil wyn. ac eissoes mi a af y holi tref ynhat yr amherawdyr. a chymryt uugeil ffon gadarn yn y law. a cherdet tu ar llys a wnaeth ef. Ac yr porth y doeth. a chyfarch gwell yr porthawr a wnaeth ef. ac adolwyn idaw y ellwg y mywn. y ymwelet ar amherawdyr ae gedymdeithon. Ac anheilwg uu gan y porthawr ymadrodyon y mab. a dywedut a wnaeth drwy dicyouein. Ffo ymdeith herlot rubalt truant. bychan wyti. a mawr yw dy druansayth. a mab y buttein wyt. Gwir a dywedy ti. vy moti yn vab y buttein. kelwyd a dywedy ditheu am vy moti yn druawnt. neu yn rubalt. a dyrchaf llaw. ac ay ffon y daraw ar warthaf y ben. yny eheta y emennyd yghylch y glusteu ay ysgwydeu. A cherdet racdaw a wnaeth y mab. yny vyd yghynted y neuad rac bronn yr amherawdyr ae gedymdeithon. ac yn ehofyn wychyr gofyn yr amherawdyr. pwy a royssei gennat idaw ef. y dodi y dwylaw am vynwgyl y wreic a oed ar y neillaw. neu oe chussanu. canys royssei ef. canys y vam ef oed hi. A chan ys kymereisti vy mam i y dreis. a llad vynhat oe hachos hi. mi a wnaf uot yn ediuar yth gallon di hynny etwa. Taw herlot ffol. heb yr amherawdyr. Sef a wnaeth y mab yna llidiaw a sorri. ac rac llit tardu y gwaet drwy y eneu ae dwyffroen. ac eissoes dyrchauel y ffon a wnaeth y mab. a

dyrchaf llaw ar benn yr amherawdyr. ac daraw teirgweith ar y ben. yny dygwydawd ynteu a llewygu. Sef a wnaeth hithe y iarlles dodi llef uchel. ac erchi dala y traytur. Sef a wnaeth rei or marchogyon kyuodi y vynny. a thrwy un a thrwy arall diagk y mab. a ffo at y datmayth a wnaeth. Sef a wnaeth sabaot gouyn idaw pa ffo a oed arnaw. O lad vy llystat. heb y mab. vygalw yn herlot truawn a wnaeth. ac o achos hynny. mi a rodeis tri dyrnawt idaw ar y ben. ac om tebic i nys goruyd. Cam a wnaethost. heb y sebaot. a cherydus wyt. a bei buassut wrth vygyghor i. ny chyuaruydei a thi na thrallawt na gofit. Ac ar hynt ef a daw dy vam di. a hi a beir vy llad i neu vygrogi. Sef a wnaeth y mab yna ofnocau rac kyuaruot trallawt ac datmaeth. a gellwg dagreu ac wylaw.

VI.—Ac yna kyuodi sebaot y vyny. a chymryt y mab. a mynet oe gudyaw yr celerdy. Ar hynny nachaf yr iarlles yn dyuot. yn un or gwraged kyweiraf a gwisgocaf a theckaf ry welsei neb eiroet. a thrwy y llit gouyn bown y mab y sebaot a wnaeth. Beth a ovynny di imi or mab. mi ay lledeis megys y hercheisti doe. ac a rwymeis linin am y vynwgyl ef. ac am vayn mawr. ac ay byryeis y mywn dwfyr mawr anodyfyn. Kelwyd dwyllwr a geuy. Mi a baraf dy vlingaw ath losgi. ony rody ym y mab. Sef a wnaeth bown rac kyuaruot gofit ay datmaeth. kyuodi oe lechua. a dyuot rac bron y vam. Llyma viui o lit yt a holych hawl. nyt oes dim a dylyych y holi ym datmaeth. Kymryt idi hithe y mab. a galw deu varchawc attei. a rodi y mab yn eu llaw. ac erchi udunt mynet ac ef yr borthua. ac o cheynt neb ay prynei y werthu. onys keynt y lad. Wynt a gerdyssant racdunt tu ar borthua. ar mab gantunt. ac yn y borthua yd oed dromwnt. sef yw hynny log diruawr y meint. a honno a oed lawn o sarasinieit creulawn. Y sarasinieit a brynyssant y mab yn drut. nyt amgen yr y petwar pwys o eur coeth. A gwedy prynu y mab. hwyl a dyrchafyssant. a hwylaw a wnaethant. yny doethant hyt yn egipt. ac yno gestwg hwyl a wnaethant. a bwrw agoreu allan. Ar mab heb

orffowys yn wylyaw. na dyd na nos. o achos agheu y dat. a hiraeth yn ol y wlat.

VII.—Ac yn y wlat honno yd oed brenhin. ac Ermin oed y enw. a gwr gwynllwyt oedawc oed. a baryf hir oed arnaw hyt ar gledyr y dwyuron. ac un verch oed idaw. a iosian oed y henw. Ac yr dechreu byt hyt yn y hamser hi ny bu a ellit y chyffelybu idi o bryt a llun a haylder a diweirdeb. vegys y clywer rac llaw. Ac yr brenhin hwnnw yd anregwyt y mab. ar brenhin a fu lawen wrth yr anrec. A gofyn yr mab drwy ieithid o ba le pan hanoed. a thygu y vahom y duw ef na welsei eiroet. nac o bell nac o agos. mab kyndecet ac ef. a thygu o chrettei y vahom. na ellit y wahanu y wrthaw. nay estroni yr a dywettei neb. Arglwyd heb y mab. o loygyr pan hanwyfi. a iarll oed vynhat. a giwn oed y enw. ac a las yn wirion. a minneu. os duw a ryd hoydyl imi yny vwyf perchen march ac arueu. mi a dialaf ynhat yn deupennawc. Sef a wnaeth y brenhin yna truanhau wrth y mab. a gofyn idaw pwy oed y enw. Arglwyd heb ynte. bown yw vy enw. Bei crettuti y mahom vyn duw i. ys da wr vydut ti. ac nyt oes imi etiued namyn un verch. a honno am brenhinaeth i a rodaf it yr ymadaw ath gristonogaeth. Arglwyd heb y mab. na daly adlo am hynny. yr yssyd o dir a dayar a da gan y sarasinieit ar paganieit. nac yr dy verch ditheu yn ygwanec nyt ymadawn i am gristonogaeth. nac a iessu grist. ac nys gorffo a amdireto neu a gretto y vahom. A vab. heb y brenhin. gwastat iawn yw dy gallon. ac anawd yw dy drossi. a chyny wediych di vahom. mi a vynnaf itti wassanaethu om ffiol arnafi pob amser. a phan elych yn oetran gwr. mi ath urdaf yn varchawc urdawl. ac ath wnaf yn synsgal ar vy holl gyuoeth. ac yn ben ystondardwr im. Sef a wnaeth rei or marchogyon y llys daly kyghor wynt wrth y mab. rac y anwylet gan y brenhin. a meint y carei. a sorri wrth y porthmyn ay hanuonyssei yno. Gwedy mynet y mab yn pymthegmlwyd. neu yn un arbymthec. nyt oed reit or byt was ieuanc gryuach na thegach na ffurueidach noc ef. Ac nyt oed yny llys un

marchawc yr y gryuet a veidei ymdaraw. neu ymdrech ac ef. kany diaghei yr un yn disarhaet y wrthaw.

VIII.—Ac yn yr amser hwnnw y damweinawd dyuot baed coet yr kyuoeth ar wlat. a hwnnw nyt arbedei nac y uawr nac y vychan. a bei kyuarffei ac ef ugein marchawc kyweir o veirch ac arueu. ny dodei y baed sylw arnunt. mwy noc y pertris cwtta. Ac yn vynych y clywei bown dywedut am y baed hwnnw. sef a wnaeth ynte dydgweith kymryt y wayw ae gledyf heb arueu yghwanec. ac ysgynnu ar amws da. a cherdet racdaw tu ar lle y kicleu vot y baed. Sef a wnaeth iosian. merch y brenhin. kyuodi y ben y twr uchaf or castell. ac yn eiste ac edrych ar bown y fford y kerdei. kanys y ledratgaru ef yd oed hi. Ac yr coet yn lle yd oed y baed y doeth ef. ac ar hynt y baed ae harganfu. ac y gyt ac y gwyl. trwynffychein ac agori y safyn. ac yn diannot achub y gwr a wnaeth. Ynteu val gwas dewr a glew a vrathawd y march ac ysparduneu. ac idaw ac ae wayw gossot arnaw ae vedru. val y mynnawd duw yny sauyn. ac ar y hyt yny aeth y gwayw drwy y gallon. a chan hwrd y baed yn dygwydaw torri y paladyr y gwayw yn drylleu. Sef a wnaeth bown yna disgynnu y ar y varch. a. thynnu y gledyf. a llad pen y baed. ae dodi ar dryll y paladyr. a gwedy hynny ysgynnu ar y march. a chymryt dryll y paladyr yny law ar pen arnaw. ac ymhoylut dracheuyn tu ar llys a wnaeth ef yn llawen. Ac yd oed iosian yn edrych ar y gyfranc. ac yna y dywawt hi. Oia arglwyd. glew a beth a dewr a was yw bown. ac ony chafi y caryat ef. ny byd ym hoydyl. ac ny allaf vot yn vyw. Ar hyn nachaf dec fforestwr ar dec emys yn aruawc. wedy ry dygu kyflyoed y rygthunt. a duunaw ar lad bown yny achub. Sef a wnaeth ynte y haros a cheissaw y gledyf. ac neus atawssei heb gof yn lle y lladyssei pen y baet. Ac yna a dryll y paladyr ymlad a hwy. ac val y mynnawd duw. ar hynt llad petwar onadunt. ac ymhen talym eilchwyl llad deu. a ffo yr petwar ereill. ay dianc ynteu yn diurath. Ac yna y dywawt hithe. Oi vahom. glew a beth yw bown. a pha wed y bydaf uyw oy

garyat ef. ony chytsynya a mi. Ynte bown a doeth tu ar llys ar pen gantaw. ac a anregawd y brenhin ac ef. a llawen fu y brenhin wrthaw. ac a dywawt wrthaw. ys dewr a was wyti bown. a mahom athressawo ac athiffero rac pob drwc.

IX.—Ac yna mynet y droi y ben y castell. a gogwydaw ar un or bylcheu. ac edrych. Sef a wyl brenhin damascyl. a bradmwnd oed y enw. a chan mil o bagan-neit y gyt ac ef. ac yn bygythyaw Ermin vrenhin. ac yn tyghu y mynnyn hwy y verch ef. A phan gigleu ermin hynny. breid na thorres y gallon rac diciouein a blygder. Yna y dywawt bradmwnd yn uchel. ermyn heb ef. dyro di ymi dy verch di oth vod. ac om gomedy. mi ay mynnaf othanuod. ac ny adaf na thir na dayar na thref na chastell itti wedy hynny. A gwedy darffo ym gytsynnyaw a hi. mi ay rodaf hi yr dyn bawhaf om holl gyfoeth. os oth anuod y cahaf. Disgynnu a wnaeth Ermin o ben y castell. a galw y varchogyon y gyt. a datcanu udunt ymadrodyon bradmwnd ae getymdeithon. ac eu bygwth. a gofyn kyghor udunt a wnaeth. Sef a wnaeth iosian y verch dywedut yn gyntaf. mi a wn gyghor da. urdaw bown yn varchawc urdawl. ac ef a wna nerth mawr it a chanhorthwy. Canys y dyd arall yd oedwn o ben y twr yn edrych arnaw. pan y hachubawd dec fforestwr. a hwyntwy yn aruawc. ac ynteu heb dim arueu. gwedy ryadaw y gledyf heb gof yn lle y lladyssei pen y baed. ac eissoes a dryll y paladyr a oed yny law. ef a ladawd hwech onadunt. ar petwar a ffoyssant. A minneu ae hurdaf ef. Bown a elwit attunt. ac ermin a dywawt wrthaw. Mi ath urdaf yn varchawc urdawl. a gwedy hynny ti a arwedy vy stonderdi ymlaen vy gallu. Mi a wnaf dy ewyllys di arglwyd ymhobpeth. herwyd y gallwyfi oreu. Ac yna y hurdawd ermin ef yn varchawc urdawl. ac y gwiscawd arueu ymdanaw. nyt amgen. actwn da dilis ysgafyn. a lluryc dwy dyplic. yr hon ni ffwysei dec arugeint o fwnei y wlat. ac nyt oed aryf aallei argywedu un o hynny trwy y lluryc. Ac ar uchaf hynny quire diogel. a chynsallt hossaneu lluryc. a chrimogeu am y draet ay ysgeired.

ac ar warthaf hynny ysparduneu eureit. Am y ben y dodet penguch bwrkwm a ffaylet. ac ar warthaf hynny helym eureit echdywynedic. A gwedy hynny y rodes y brenhin cledyf idaw. ac y gwisgawd ymdanaw. ac ny bu eiroet y gystal. kan ny phylei. ac ny phlygei. yr a ffustit ac ef. ac nyt oed well y neb y vot yn aruawc. noc yn noeth. or y trewit ac ef. a morglei oed y enw. A iosian a rodes march idaw. ac arwndel oed y enw. ac ny bu na chynt na gwedy y gystal na y ganfuanet.

X.—Ysgynnu y bown ar y march a chymryt y daryan. a delw llew oed yny daryan. a honno a dodet ar yr ysgwyd asseu idaw. Ac yna y dywawt iosian wrthaw. ymhwyth. na vrath y march onyt yn wedeid. ac yn dyledus. A unbennes. dos di y ben y twr. ac edrych o brathafi y march yn anyledus. pan delwyf drachefyn. bonclusta fi. Dadigawn y dywedy. heb hi. Yna y kymerth bown corn mawr. ac y cant yn gadarn. Sef awnaeth pawb or dinas yna gwisgaw ymdanunt. a gwedy gwiscaw dyuot y gyt a wnaethant. Yna y dywawt Ermin wrth bown. kymer vystondardi. a cherda or blaen. a chwitheu ewch pawb gyt ac ef. vegys y dylech gyt a mi. pei elwn vy hun yr gyfranc. Edrych eu niver a wnaethant. sef yd oedynt deugeinmil o berchen meirch. Adaw y dref a wnaethant. ac yn y herbyn y doeth bradmwnd. a chan mil o berchen meirch gyt ac ef. a rodefon oed yn arwein y ystonderd ef or blaen. ac ny charawd hwnnw duw namyn mahom. a blewogach oed a garwach y vlew nor hwch arwaf y gwrych. neu yr draenawc. Sef a wnaeth bown yna ymgywreinyaw yn y gyfrwy. ac ystynnu y draet yny warthafleu a brathu arwndel ac ysparduneu. a chyrchu rodefon. a gossot arnaw ay wayw. ay vrathu ymherued y daryan yny dyr y daryan yn drylleu. ac yny aeth y gwayw trwydaw ynteu. a thrwy y holl arueu. yny dygwyd rodefon yn varw dan draet y varch. ac y dywawt bown wrthaw. Gwell fuassei itt trigyaw gartref no dyuot yma. ac ymchwelut at y gedymdeithon. a dywedut wrthunt. Arglwydi bydwn da. canys ni a gawsam dechreu da. ac nyt oes na ffrwyth na nerth yn y bopyl a welwch racco.

A hwynteu niuer bradmwnd a fu argysswr mawr arnunt o welet llad eu hystondardwr rac eu bron. ar glewhaf onadunt a fynnei y uot gartref. yna ymgyrchu a wnaethant. ac ar yr ymgyuaruot cynntaf. ef a las petwarcant o wyr bradmwnd. A gwedy hynny bown a dynnawd morglei y gledyf. ac ysgathru ac ef. vegys paladurwr yn llad y weirglawd. penneu y alon. ac eu dwylaw ae breicheu. a phob kyfryw aylawt or a gyuarfei ac ef. ae gedymdeithon ynteu yn wychyr lew yn llad pawb or a gyfarfei ac wynteu. Ac yna y dywawt bradmwnd yn uchel wrth y wyr. Lledwch im niuer ermin yn ebrwyd. ac onys lledwch ny chewch om da vyth werth un notwyd. Sef a wnaeth bown yna glaschwerthin. a dywedut. Bradmwnd. beth a vynneisti yr wlat hon. ae tybyeit cael iosian. byd kynt y key dy grogi wrth y iubet. pony wely dy daruot llad canmwyaf dy holl allu.

XI.—Beth a dreithir yghwanec. kyn hanner dyd neurydaroed llad holl allu bradmwnd. ac ynteu ehunan. ac ychydic o niuer y gyt ac ef. yn oledrat ar hyt y dyffryn a ffoyssant. a deu o wyr ermin yn garcharoryon ganthunt. a darpar oed gan bradmwnt peri eu blingaw yn vyw. a gwaethiroed duw na blingwyt. canys trallawt braff a baryssant y bown wedy hynny. A gwedy gwybot o bown ry ffo bradmwnd. brathu arwndel ar yspardueneu. a chynt y redawd y danaw noc yd ehettei y llemysten. neu yr walch. pan ehettynt gyntaf. Ac ar hynt ymordiwes a wnaeth a bradmwnd. a rodi dyrnawt idaw yny dygwydawd ynteu yr llawr. ac yna disgynnu y bown ae achub ar vessur llad y ben. Sef a wnaeth bradmwnd dygwydaw ar ben y lin. ac erchi nawd a thrugared. a chynnic y wrogaeth idaw. a daly y danaw petwar cant cited. a their mil y rwg kestyll a thyroed ae holl gyfoeth y am hynny. Na vynnaf. heb y bown. namyn gwra o honot y ermin. a chynnal dy gyuoeth y danaw ef o hyn allan. A minneu a wnaf hynny yn llawen. a rodi y wrogaeth ae gywirdeb yn llaw bown. y dalei o hynny allan y dan ermin. Ac yna y gellygawd bown ef oy wlat. a gwaethiroed nas lladawd. A bown

a rydhaawd y deu varchawc. a cham a wnaeth. A gwedy hynny ymhoylut dracheuyn a wnaeth bown ac gytymdeithon yn ryd gyt ac ef. a dyuot a wnaethant hyt rac bron ermin. Ac yna y dywawt ermin. mawr a beth y dylywn i dy garu di bown. a galw y verch a wnaeth. ac erchi idi mynet y dynnu arueu bown y ymdanaw. a gwedy hynny mynet yr ystauell y vwytta. a gwassanaythu arnaw yn didlawt. A hynny a awnaeth hitheu yn llawen. a gwedy bwytta. iosian a dywawt wrth bown. Arglwyd tec. heb hi. ny chelaf ragot. ac ny allaf y gelu bei ysmynnwn. llawer deigyr a wyleis i. a llawer nos y colleis vyghysgu oth garyat. ac ymhwyth na wrthot titheu vygharyati. ac os gwrthody. ny byd ym na hoydyl na bywyt. namyn o dicyouein mi a vydaf varw. A unbennes dec. na dala adlo am hynny can ny weda. Nyt oes nac amherawdyr na brenhin na iarll. or ath welei neu ath wypei. ny bei da ganthaw y wreica arnat. A bratmwnd vrenhin. gwr arbennic kyfoethawc. a ryfu yth geissaw. ac ny thygawd idaw. a minneu gwr gwlat arall wyf. heb na chastell na thref na thy ym helw. ac wrth hynny hwyrach y tyeyei. a gwaeth y gwedei ym ymgyffelybu ath thydi. A unben tec bonhedic. na wrthot vi. canys gwell yw genhyf tydi unben oth unbeis. no bei cawn brenhin a uei eidaw dec vrenhinaeth. Gwrthodaf yrof a duw. heb y bown. Sef a wnaeth hitheu yna diliwaw. a duaw vegys glo. a dygwydaw yr llawr a llewygu.

XII.—A gwedy y chyuodi y vyny. gellwg y dagreu a wnaeth. ac wylaw. a thrwy y llit y dywawt hi. Gwir a dywedeisti nat oed nac amherawdyr na brenhin. ny bei da ganthaw wreicca arnaf. a thitheu am gwrthodeisti vegys bilein profadwy. a gwell y gweduti yn glawdwr yn cladu clodyeu. ac yn kerdet ar dy draet yn anurdedic vegys pedystyr. noc yn varchawc urdawl anrydedus yn llys arbennic. a dos yth wlat vilein truawnt. A unbennes. heb y bown. kelwyd a geuy am ymot i yn vilein truawnt. ny henwyf or bileineit. ac amws a royssosti imi. kymer ef. ny mynnaf dy uacrayth yrdaw. a mi a debygasswn rydaruot im y brynu yn drut. pan

enilleis yth dat ti vrenhinaeth arall hediw y arnaw ef. Sef a wnaeth hitheu yna dygwydaw yr llawr a llewygu. a breid na holltes y challon rac llit a blwg. Kyuodi idaw ynteu yna y vyny. ac adaw yr ystauell. a mynet y dy porthmon or dref. a chyrchu un or gwelyau a wnaeth. a mynet y orwed yndaw. a llitiawc oed ef am ymadrodyon iosian. Sef a wnaeth hitheu. y gyt ac y kyuodes oe llewygva. kymryt ediuarwch am rydywedut o honei y mor serch ac y dywawt wrth bown. a galw ar vrawtvayth idi. ac erchi idaw mynet at bown. ac adolwyn idaw dyuot dracheuyn y ymdidan a hi. ac o rydywedyssei hitheu dim a uei wrthwyneb ganthaw ef. hi a wnaei iawn idaw wrth y varn. ae ewyllys ehun. Y gennat aaeth at bown. ac a dygwydawd ar ben y lin rac bron bown. a menegi y gennadwri idaw a wnaeth. ac adolwyn idaw mynet y ymwelet a iosian. Nac af y rof a duw. heb ynteu. ac o achos dy dyfot ti ar y gennadwri honno. kymer y wisc las racco. brethyn odidawc yw or parth draw yr mor. Y wisc a gymerth y gennat. a thrachefyn at iosian a doeth. a menegi idi na doi ef y ymwelet a hi. gofyn idi hitheu pwy a royssei y wisc odidawc honno idaw ef. Bown. heb ynteu. Myn mahom vyn duw i. kelwyd oed dywedut y vot ef yn vilein. a chan ny daw ef y ymwelet a mivi. mivi a af y ymwelet ac ef. A racdi y kerdawd hi yny doeth yr ty yd oed bown yndaw.

XIII.—Ac y gyt ac y gwyl ef hihi yn dyuot. kymryt idaw ynteu y vot yn kysgu. a chwrnu yn uchel a wnaeth ef. Dyuot idi hi racdi yny doeth hyt y gwely. ac eisted ar erchwyn y gwely a wnaeth hi. a dywedut wrthaw. Arglwyd tec duhun. Yd oed im ychydic ymdidan a vynnwn y dywedut wrthyt. pei da gan dy anryded di y warandaw. A unbennes. heb y bown. ludedic a briwedic wyf i. ac ymhwyth taw asson wrthyf. a gat ym orffowys. ac ys drwc a beth y diolcheisti imi vy llavur. Sef a wnaeth hitheu yna ellwg y dagreu yn hidleit. yny wlychawd y hwyneb hi oll gan y dagreu. A gyt ac y gwyl ef hi yn y drycyruerth hwnnw. truanhau yn y gallon a wnaeth wrthi. Ac yna

y dywawt hi drwy y hwylaw wrthaw ef. Arglwyd heb hi. trugarhaa di wrthyf. ac o dywedeis eireu cam wrthyt. mi a wnaf iawn it wrth dy vod. ac yn ygchwanec mi a ymadawaf a mahom. ac a gredaf y iessu grist. y gwr a diodefawd agheu ymhren crok. ac a gymeraf gristonogaeth er dy garyat ti. Sef a wnaeth ynteu yna kyuodi yn y eiste. a dodi y dwylaw am y mynwgyl hi. a rodi kussan idi. Sef yd oedynt yd edrych arnunt yn ymgussanu y deu wr a rydhayssei ynteu o garchar bratmwnd. ac ar hynt hwy a gyrchyssant ermin. ac a dywedyssant wrthaw. vot bown yn gwneuthur kewilyd a sarhaet mawr idaw. can yd oed ef yn kytgyscu ae verch ar oleu. ac yn gwneuthur y ewyllys ohonei. Sef a wnaeth ermin yna llitiaw ac o lit tynnu gwallt y benn. a gofyn udunt a oed wir hynny. Tygu llyein mawr udunt wynteu. y vot yn wir. ae rywelet onadunt wynteu. May ych kyghor chwitheu. heb ermin. canys o pharaf y lad. neu y grogi. kynt y bydaf varw i noc ef. o achos y vot yn vab mayth im. a meint y caraf ef. Mi a wn gyghor da. heb un onadunt. peri o honati ysgriuennu llythyr at bratmwnd. ac erch yn y llythyr kymryt y amdygyawdyr. ae dodi yn yr eol gatarnaf yn y helw ae lawnueich o heyrn arnaw. ac na ellygit odyno hyt tra vei vyw. Ac erchi y bown mynet ar llythyr at bratmwnd. a chymryt y lw ynteu ar y gristonogaeth. nas dangossei y llythyr hwnnw y neb. onyt y vratmwnd ehun. A minneu a wnaf hynny. heb yr ermin.

XIV.—Ar llythyr a wnaethpwyt. ac ar bown y gelwit. ac ynteu a doeth racdaw. ac ermin a dywawt wrthaw. Reit vyd it. heb ef. kymryt y llythyr hwn. a mynet ac ef hyt yn damascyl at vratmwnd. ac erchi idaw gwneuthur kymmeint ac yssyd yny llythyr. a thygu yth duw di. ac ar dy ffydlonder. na dangosych y llythyr y neb onyt y vratmwnd ehun. A minneu a wnaf hynny yn llawen. heb y bown. Moysswch y llythyr am march am cledyf im. nac ef. heb yr ermin. ry anesmwyth yw dy varch di. a rydrwm yw dy gledyf. Ac wrth hynny mi a baraf yt palffrei esmwyth. a

chledyf ysgafyn. megys y gellych yn dirwystyr kerdet ragot. Yn llawen vegys y mynnych ti arglwyd. heb y bown. Y llythyr a gymerth. ac ysgynnu ar y palffrei a wnaeth. a mynet racdaw. ar dyd hwnnw educher. a thrannoeth a thradwy y bu bown yn kerdet heb gael na bwyt na diawt. Y petweryd dyd yd yttoed ef yn kerdet. y gwelei palmer yn eisted dan vric pren. ac yn kymryt y giniaw. a ffedeir torth mawr o vara gwenith crwn rac y vron. a dwy gostreleit o win. Ac y gyt ac y doeth ar ogyfuwch ar palmer. kyfarch gwell a oruc y palmer idaw. ac adolwyn idaw disgynnu a chiniewi gyt ac ef. a hynny a wnaeth ynteu yn llawen. a bwytta yn rawth a wnaeth bown rac meint y newyn. ar palmer yny rodi idaw ynteu yn didlawt rybuchedic. Sef a wnaeth bown gwedy gwellhau y annyan drwy chwerthin gofyn yr palmer o pa le pan hanoed. Ni chelaf ragot. heb y palmer. o loygyr pan hanwyf. ac yn hamtwn ym ganet. a sebaot yw enw vynhat. gwr dewr kyuoethawc oed. pan deuthum y wrthaw. ac yr wlat hon y daethum inneu y geissaw mab a werthwyt yr sarassinieit o hamtwn. a bown oed y enw. Neur groget y mab a dywedy di ys llawer o amser. Sef a wnaeth y palmer yna dodi llef ac wylaw. a dywedut drwy drycyruerth. Oia arglwyd duw. beth a wnaf i bellach. canys diffeithawd vy mrawtuayth am ketymdeith. A varchawc heb y palmer. ay llythyr yssyd gennyt ac os ef. dangos im. canys gallei uot dy agheu yn y llythyr heb wybot it. Na dangossaf. yrof a duw. heb y bown. ny wnai vy arglwyd i hynny yr trychant cited or eidaw.

XV.—Yna ymwahanu a wnaethant a mynet dwylaw mynwgyl. a bown a ysgynnawd ar y varch. a than ganu kerdet racdaw yny doeth hyt yn damascyl. ar dinas hwnnw oed gyuoethocaf dinas ar y dayar. Sef achos oed hynny. nyt oed na thwr na thy na chaer yn yr holl dinas. ny darffei y eu toi oll o eur ac aryant. Ac ar ben y twr uchaf or castell yd oed delw eryr. wedy ry vyrw o eur coeth. ac y rwg y dwy grafangk yd oed maen carbwnculus. a hwnnw a oleuhaei y dref hyt nos.

yr y thywyllet. yn gyn oleuet ac y goleuhaei yr heul. pan vei eglurhaf. ar awyr yn diwybyr. Yr dinas y-mywn y doeth bown. a phan daw. ef a glywei y mywn temyl yn canu. amcan i vil o effeireit oe dedyf hwy. Ynteu a doeth y mywn. ac a gymerth mahom. ac ay torres yn drylleu. ac ac un or drylleu taraw un or effeireit yny dorres y vynwgyl. Sef a wnaeth y rei ereill oll ffo at vratmwnd. a menegi idaw dyuotyat y marchawc attunt a thorri mahom. a llad un oe ketym-deithon hwynteu. Tewch asson. heb y bradmwnd. bown vy arglwyd i yw ef. ac y mae arnaf y ofyn. Ar hynny nachaf ynteu bown yn dyuot. ac y gyt ac y gwyl bradmwnd ef. kyuodi yny erbyn a wnaeth. a chyfarch gwell idaw. a gofyn beth a wnaei oruot arnaw ef dyuot yno. Myn vy mhen. heb y bown. mi a wnaf yt y wy-bot. Darllein y llythyr hwn heb olud. neu minneu a lado dy benn ar cledyf hwn. Kymryt ofyn mawr y vradmwnd. ac nyt oed aylawt arnaw ny bei yn crynu. a chymryt y llythyr a wnaeth. ae darllein. A gwedy y darllein. llawen iawn fu. a chymryt bown erbyn y law deheu. ac erchi oy varchogyon kyuodi oll yn eu seuyll. ae gymryt ae rwymaw yn duruig gadarn. a menegi udunt erchi o ermin idaw ef pery crogi bown yn uchel. o achos kytgysgu o honaw ef a iosian y verch. Sef a wnaeth y marchogyon yn ebrwyd y achub. ac a chad-wyneu heyrn rwymaw y draet yn gadarn diogel. a dodi pwys am y vynwgyl. a bwyssei pymthec llat o wenith.

XVI.—Ac yna y dywawt bratmwnd wrthaw. bei na bei vy goruot o honot oth wayw ath cledeu. am bot yn wr it. mi a barwn dy grogi yn diannot. ac eissoes ny byd gwell a gey. Mi a baraf dy dodi ym geol. ac y mae degwryt arugein o dyfynder yndi. ac ny chey yno gwn-euthur dim or a uo da genhyt. dieithyr nadred yth vrathu. a ffryuet ereill gwenwynic. a ffetwaran torth o vara grut a gey beunyd. hyt tra vych vyw heb dim ygwanec. Reit yw imi arglwyd vot wrth dy vynnu di ath ewyllys. Mi ath borthaf di. neb y bradmwnd yr unweith hon yn da. a gwedy hynny ny chey dim onyt megys y dywedeis i gynne. Ac yna torri y vwyt idaw

a wnaeth bradmwnd. a gwedy bwyta o honaw. erchi a wnaeth bradmwnd yr gwyr y gymryt ay dwyn yr geol. A hwynteu a wnaethant hynny. ac yn llwrw y benn y bwrywyt y waelot yr eol. a ffei nas differei duw. ef a dorrei y vynwgyl kyn y vot hanner y fford. Yn yr eol honno yd oed amylder a cholubyr a ffryuet ereill gwenwynic. ar pryuet hynny oed yn y ofalu. ac yn y vrathu yn vynych. Sef y cauas ynteu dan y dwylaw trossawl petrogyl cadarn. ac a hwnnw ymdiffyn rac y pryfet. ac eu llad oll hayach. A hyt tra fu ef yn yr eol honno. ny chafas ef undyd trayan y wala o vara. a dwfyr o mynnei ynteu. dan y draet y kaei. a deu varchawc a ossodet oy warchadw ynteu. A dydgweith y dywawt bown. Oia arglwyd duw. llawer trallawt a gofut yd wyf i yn y gael yn yr eol hon. ac myn pedyr pei diagwn odyma mi a dygwn y goron rac ermin. a mi a rodwn idaw dyrnawt yn yghwanec. hyt na dywettei vyth wedy hynny ungeir wrth arall. Ny haydysswn arnaw peri vymphoini vel hyn. canys om cledeu i yd enilleis idaw brenhinaeth arall. a thrwy wylaw y dywawt bown yr ymadrodyon hynny. A nosweith yd oed ef yn kysgu y doeth pryf gwenwynic. a cholubyr oed y enw. ay vrathu ynghewillin y tal. sef a wnaeth ynteu duhunaw. a chael y pryf. ac ay drossawl y dyffust ay lad.

XVII.—Dyuot iosian at y that a gouyn bown. ny wydat hi dim or twyll ar brat a wnaethoydit idaw. Ny chelaf ragot. heb yr ermin. ef a aeth y loygyr y dial y dat. ac ny daw vyth yma dracheuyn. medei ef. Eissoes os marchawc bonhedic ewrteis ef. ny at heb gof. ac nys madeu y wreic vwyaf a gar. A hynny a dywedei y vorwyn yn vynych. a thrwm a gofudus oed genthi y hansawd am rygolli bown. a hi a ymgetwis yn diweir yn hir o achos y garyat ef. ac a getwis y march ar gledyf hefyt yn y medyant hi. Ar hynny dyuot brenhin dewr kyuoethawc. ac iuor o morbrant oed y enw. a phymthec brenhin a delynt y danaw. ac oedynt wyr idaw. a hwnnw a erchis i ermin y verch. ac ermin ae rodes idaw yn llawen. A hitheu iosian gyt ac y gwybu y rodi y iuor. drycyruerthu a wnaeth. ac ny bu eiroet

gyn dristet ac yna. Ac ar hynt gwneuthur gwregys sidan a oruc hi. a chanu coniuracion ar y gwregys a wnaeth hi. a dysgydoed kyn no hynny. sef yw grym y coniuracion. pwy bynnac wreic y bei y gwregys hwnnw ymdanei. ny dodei wr or byt y law erni. er y chwennychu. ac heb olud iosian a wisgawd y gwregys ymdanei rac y chwennychu o iuor. Ac ynteu iuor ae getymdeithon a gychwynyssant tu a mobrant. a iosian y gyt a hwynt. a hitheu heb dewi yn wylaw. ac y mobrant or diwed y doethant. Josian a beris arwein y march y gyt a hi. ac nyt oed neb a ueidei mynet yghyuyl y march. er pan gollasei bown. onyt hi ehunan. Ac ymywn ystabyl y rwymyt y march a dwy gadwyn hayarn. ac nyt oed neb a ueidei y wassanaethu. onyt or soler uch y ben bwrw y profandyr idaw. Sef a wnaeth iuor medylyaw y mynnei marchogaeth y march drwy y gedernyt ae gryfder ef. ac yr ystabyl y doeth ef. ac y gyt ac y daw ef ar ogyuywch ar march. y march a dyrcheif y draet ol. ac y trewis iuor ygcledyr y dwyuron. yny dygwydawd ynteu yr llawr. A chyt ac y dygwydawd yn enkil rac y march. y trewis y ben wrth y mur yny dorres yn anhygar. a ffei nas differei y wyr ef. y march ae lladyssei. ac y ystauell y ducpwyt ef. a medygon a ducpwyt attaw. oe vedeginaythu yny fu iach.

XVIII.—A gwedy bot bown chweblyned yn gwbyl ygharchar y dechreuis ef ymdifregu a iessu grist a dywedut. Oia arglwyd vrenhin nef a dayar. y gwr am gwnaeth ac am ffurfawd ar y delw. ac am prynawd yn drut ymbren crog yr creu y gallon. yd archaf it nam gettych yn y poeneu hyn a uo hwy namwyn vygrogi neu vy mligaw neu vy rydhau inheu odyma. Sef yd oedynt yn gwarandaw arnaw y deu ar a oedynt yn y warchadw. ac y dywetyssant hwy. Ef ath grogir di traytur auory. a disgynnu y un onadunt ar hyt raff yr gwayret ar uessur dwyn bown yr llawr uchaf. Ygyt ac y gwyl bown ef yn disgynnu. sef a wnaeth ynteu kyuodi yn y seuyll yn y erbyn. a chyt ac y daw y gwr yr llawr ar ogyfuch a bown. dyrchaf llaw. ay dwrn yn gayat. a tharaw bown ar uon y glust. yny dygwydawd ynteu yr

llawr. Oia arglwyd nef. heb y bown. praff a beth y gwanheeis i. canys pan ym byrywyt i yma gyntaf. a bot ygcledeu ym llaw. a chant pagan or parth arall. ny rodwn i geinawc erdunt hwy oll cant. ar yr un dyrnawt bychan y pagan hwn y dygwydeis inheu yr llawr. ac ony dialaf inneu y dyrnawt ny rodwn yrof wy piliedic. A dyrchauel y drossawl y vyny a wnaeth. a tharaw y pagan ac ef ar y ben. yny vyd y emennyd yghylch y trossawl. ac ynteu yn varw yr llawr. A chael cledeu y pagan o bown yna. ay dynnu allan. ar hynny galw or marchawc arall ar y gedymdeith. ac erchi ffrystaw a bown y vyny wrth y diuetha. Sef a wnaeth bown yna dachymygu kelwyd. a dywedut. Ry drwm wyfi. ac ny digawn chunan ym dwyn. a dabre ditheu oe gymorth ef. Mi a wnaf hynny yn llawen. a disgynnu a wnaeth ef ar hyt y raff yr gwaeret. Sef a wnaeth bown yna torri y raff ar cledeu yn uchaf y gallei oduch y benn. a dygwydaw y gwr ar vlaen y cledeu yny aeth y cledeu trwy y gallon. ac ynteu yn uarw yr llawr. a thri diwarnawt kyn no hynny ny chawssei ef dim bwyt.

XIX.—Ac yna gwediaw a wnaeth. ac ymdifregu a duw y rydhau odyno. a gwedy gwediaw ohonaw. trwy nerth yr arglwyd duw torri yr holl cadwyneu heyrn a oedynt arnaw. Ac ny bu lawenach ynteu eiroet noc yna. ac o lawenyd y neidawd uch y benn pymthec troedued at y not y neidawd. ac nyt oed un ofyn yno arnaw. a ffford chag oed honno. Ar hyt y ffford honno y kerdawd yny doeth y berued y dinas. ac edrych yn y gylch a wnaeth. a ffan edrych. yd oed yn nos. a ffawb yn kysgu. Ac yn ystauell ywrthaw y gwelei lugyrn a thapreu yn llosgi. ac idi yd aeth ef. ac nyt oed or byt wr gulach noc ef. canys culhau a wnathoed y gnawt yn y carchar. ac nyt oed ohonaw ynteu. onyt croen ac escyrn. ac wallt oed gyhyt ac y doei hyt y sodleu. Yn yr ystauell y gwelei varch yn bwyta y yt. ac amylder o arueu. ac amraualyon wisgoed. y rei yd oed arnaw y heisseu. ac ny welei dim bwyt. yr hyn achwennychei. Ac ar hynt y gwiscawd ef ymdanaw dillat ac arueu. heb neb ae kymhorthei onyt ehunan. A gwedy gwisgaw

ymdanaw wrth y ewyllys digawn o arueu. kymryt cledyf awnaeth. ac ysgynnu ar y march vegys marchawc ysgafyn. ac adaw y dinas. a dyuot tu ar porth awnaeth. Ar gwylwyr a ouynyssant idaw pwy oed ef. Gwr wyf i y bradmwnd. a bown a diegis or geol yr awr hon. a minheu a gymhellaf arnaw ef ymhoelut tracheuyn. Yna agori y porth o honunt hwynteu. ac erchi idaw ffrystaw. ar vahom y gorchymynyssant ef. ac ynteu a edewis y dinas. ac a gerdawd racdaw y nos honno. ac or diwed ef a doeth y gygroysfford. ac yna yd aeth ar didro. a chymryt yr unfford tracheuyn a wnaeth. ac am dalym or fford ef a wyl damascel. y dinas y diaghyssei o honaw. A medylyaw awnaeth ba le yd enkiliei. ac yna y dywawt ef. pei gwypwn i vy mwrw mywn tan ym llosgi. ny allaf i uynet uncan odyman yny gysgof. Ac yna disgynnu a wnaeth. a dodi y ben ar y dayar a chysgu. Pan duhunawd. ysgynnu ar y varch a wnaeth. a ffraff oed meint y ludet. y rwg na chawssei dim bwyt tri diwarnawt kyn no hynny. ac na chysgassei y nos honno dim. Ac yna y kerdawd racdaw yny doeth yr fford iawn. a than ganu kerdet racdaw yn llawen.

XX.—Ymhoelwch in at bratmwnd. Yn voredyd glas y dyd hwnnw y gelwis bratmwnd ar grandon y nei. ac erchi idaw mynet yr geol. a fferi yr gwyr a oedynt yn cadw bown dyuot y ymwelet ac ef. Ar macwy a aeth hyt yr eol. ac a elwis ar y gwyr. ac nys hattebawd neb. sef a wnaeth ynteu yna ennynnu lamp. ay ellwg wrth linin hyt ygwaelot yr eol. ac yno y gwelei y gwyr wedy rylad. ac heb dim o bown. Ymhoelut idaw ynteu drachefyn at y ewythyr. a menegi idaw rylad y wyr. a dianc bown. A ffan gigleu bratmwnd hynny. ef a lidiawd. ac a duawd yn gyn duet ar glo. a chymryt trossawl yny law. ac achub mahom y duw. ay vaedu yn gadarn ar trossawl. breid nas torres y drylleu. Ac yna y dywawt wrthaw. Ony chafi bown hediw. ny wnaf dim yrot. ac ny chey om da yn dragywyd werth un notwyd. A gwedy daruot idaw y vaydu y dywawt yn uchel. Gwisgwch ymdanawch varchogyon. yn ol bown yd awn yny gordiwedwn. ac edifar yw genhyf na chroget ys llawer

dyd. Hwynteu y marchogyon a wisgyssant ymdanunt. a their mil yd oedynt o riuedi. a ffawb onadunt yn begythyaw bown. A gwedy gwisgaw am bratmwnd y arueu. ef a ysgymmawd ar y amws. ac ymhell o vlaen y lu y kerdawd ef. ay nei yn y ol ynteu. ac nyt oed or byt march well noc varch. ar march hwnnw a brynassit y grandon yr y driffwys o eur coeth. Ac yny hol hwynteu yd yttoed y teir mil yn dyuot wrth yr afwyneu. A bratmwnd a ymordiwedawd a bown ar benn glan. ac y dywot wrthaw yn uchel. Ymoel dwyllwr drathgefyn vygwyr a ledeisti doc. a chyn vy swper inheu mi a baraf dy grogi. Ny beidaf i ymhoylut. heb y bown. canys lludedic wyfi rwg gwylat ac ymprytyaw. a thitheu llawn wyt o vwyt a llyn. ac wrth hynny bocsach vechan yw it vy goruot. ac eissoes mi a edrychaf a allwyf rodi dyrnawt it.

XXI.—Sef a wnaeth bradmwnd yna brathu y march. ac achub bown a thynnu y gledyf. ae daraw yny hyllt y darian. Ynteu bown trwy y lit a dynnawd gledyf. ac ae trewis ar y benn trwy y helym ay arueu. yny aeth ffiol y benn. a thalym or emennyd yndi. hyt yr eitha y maes. ac ynteu yn varw yr llawr. Ac yna y dywot bown wrthaw. Yrof a duw bratmwnd. da yd ymgyfarfuwyt a thi. canys kefeist dy urdaw yn effeirat gan esgob. kystal ac y kefeist. canys tebic wyt y effeirat yr awr hon. Ar hynny nachaf grandon y nei ar march da yn dyuot attaw. ac ef a dywawt wrth bown yn uchel. Kyn mynet na bwyt na diawt ym penn i. ti a vydy yggrec. A vackwy heb y bown. o gwney gyghor. ti a ymhoyly drathgefyn. ac a dygy dy ewythyr atref. canys effeirat yw newyd urdaw. ac ym kyffes o doy auo nes. mi ath wnaf am cledeu yn diagon idaw. Ac yna medylyaw y bown. bei caei y march oed y danaw. na bydei arnaw wedy hynny ofyn neb. Ac yna kymryt gwayw bratmwnd a wnaeth. a gossot ar grandon ac ef. ae vedru yn y daryan yny dorres y daryan. ac yny aeth y gwayw trwydaw ynteu. a thrwy y holl arueu yny dygwyd ynteu yn varw yr llawr. Ac yna y disgynnawd ef yar y varch. ac y kymerth y march da. ac yn

ymysgafyn yd ysgynnawd arnaw. ac heb un ofyn yna arnaw y kerdawd racdaw. a ffawb yn y ymlit ynteu. Ar hynny y doeth ef y lan dwfyr mawr. a hanner milltir oed yn llet y dwfyr. ac ny safei pont yn y dwfyr. ny allei na llong nac ysgraff arnaw ynteu. Sef a wnaeth bown dodi arllost y wayw yn y dwfyr y edrych a oed dwfyn. ac yn diannot y dwfyr a duc y gwaew gantaw o law bown. kyn gadarnet oed y dwfyr a hynny. Ac yna yd ofnocaawd bown yn vawr. ac y dechreuis wediaw a dywedut. Oia arglwyd duw vrenhin paradwys. a anet or vorwyn wyry ymbethlem. a diodefawd agheu ymphren croc yr yn prynu ni. ay gladu. ac odyno yd aeth y anreithaw uffern. ac y torres y drysseu. ac a uadeuawd y veir vadlen y houered ae ffechodeu. ac yn nawr y mae yn eiste ar deheu y tat. a dydbrawt adaw y varnu ar vyw a marw herwyd eu gweithret. ac y gorchymynnaf it iessu grist vy eneit am corff. canys gwell genhyf vy modi yn y dwfyr. nom cael or paganneit raco ym verthyru wrth y hewyllus.

XXII.—Ac y gyt ac y darfu idaw y wedi. brathu y march ac ysparduneu. ae lityaw ae gymhell yr dwfyr. ar march ar y neit kyntaf a vyryawd dec troetued arhugeint yn y dwfyr. A thrwy nerth y wedi a chedernyt y march. drwy drallawt a gofut drwod yd aythant. A gwedy eu dyuot drwod. nyt oed or byt wr lawenach noc ef. sef a wnaeth y march yna ymysgytweit. yny dygwydawd bown pedeir troetued y wrthaw. eilweith ysgynnu ohonaw ar y march. a thygu myn y gwr am prynod ym pren croc. yn llawen mi a rodwn y march am holl arueu yr hanner un dorth o vara gwenith peilleit. Ac yna gwedy diangk bown drwod. hwynteu y paganneit y trist aflawen a ymhoylyssant drachefyn. Ynteu bown a gerdawd racdaw yny doeth y emyl castell o vein marmor. ac ar ffenestyr or castell y gwelei wreic yangk dec yn gogwydaw. Oia arglwydes dec. yr y duw y credy di idaw. dyro ym un walyeit o fwyt. A varchawc heb hitheu. ouer yw it dy ymbil a mi am vwyt. canys cristawn wyt ti. am arglwyd inheu ysy gawr dewr dihafarch. a mi a af ar hynt y erchi idaw rodi

yt dy giniaw a drossawl heyernyn. Myn duw heb y bown. ony chaf vwyt. wreic da. mi a vydaf varw. Sef a wnaeth hitheu mynet at y cawr. a menegi idaw rydyuot marchawc attei. a begythyaw dwyn bwyt y dreis arnei. Mi aaf y ymwelet ac ef. ae drossawl heyernyn a gaflach a gymerth. ac at bown y daw. a gofyn idaw o ba le y ducsei y march yn lledrat. tebic yw yr march oed gan bratmwnd vy mrawt. Gwir a dywedy. heb y bown. mi ae hurdeis doe or tu yma y damascyl am cledeu yn effeirat. ac om tebic ny digawn ganu efferen vyth. Sef a wnaeth y cawr yna dyrchauel y drossawl y vyny. a cheissaw taraw bown ac ef. ac nys metrawd. namyn y march. yny dygwyd yn varw yr llawr. a bown yn ehwydyr a gyuodes y vyny. ac a dynnawd y gledyf. ac yn llitiawc a ossodes ar y cawr. a ffei metrassei. ef ay trawssei trwydaw. Sef a wnaeth y cawr yna y vwrw ar gaflach. ae vedru yny uordwyt. yny aeth y gaflach trwy y vordwyt. ac eilchwyl dyrchauel y drossawl. a cheissaw taraw bown ac ef. ac nys metrawd. namyn gan y ystlys yr llawr. Yna y gossodes bown arnaw ynteu. ae vedru ar ben y ysgwyd yny aeth y vreich deheu idaw ymdeith. ac yn gyflym y trewis y freich asseu ymdeith. ac yn ol hynny y benn ae deu droet. ae eneit a gymerth y kythreuleit yn didadleu.

XXIII.—Ac yna yd aeth bown y mwyn yr castell. ac yd erchis yr wreic dwyn bwyt idaw. a hitheu a dywot y cai digawn. ac nyt oed uawr y diolchei idi yr hynny. Yna y duc y wreic idaw bara peilleit gyhyt a oed reit idaw. a chic gwarthec. ac yn ol hynny kic garanot. a hwyeit. a gwedy hynny amylder o gic man adar. a gwin claret. digawn y gadarnet. ac ynteu a fwytaawd yn rawth megys dyn disynwyr. a ffeth diryued oed hynny. hir y buassei heb vwyt. A gwedy bwyta digawn o honaw. ac yuet kymedrolder. y gryfder oll ae lewder a gafas dracheuyn. Ac yna y dywawt wrth y wreic. moes im varch. a march a rodes hitheu idaw. ac ysgynnu a wnaeth ynteu ar y march. a cherdet racdaw hyt ygharusalem at y padriarch. a chyffesu wrthaw a wnaeth y holl bechodeu. a menegi idaw pa wed y llas y dat. a

ffa wed y gwerthyssit ynteu y sarassinieit. a ffa wed y buassei yn gwassanaethu y ermin vrenhin. a ffa wed y kyhudyssit ynteu wrth y brenhin. a ffa wed y hanuones ynteu. oe garcharu. at vratmwnd. a ffa wed y diegis ynteu or carchar. a ffa wed yd ymlitiwyt. a ffa wed y lladawd ynteu bratmwnd. a ffa wed y diegis drwy y dwfyr. a ffa wed y lladawd y cawr. Sef a wnaeth y padriarch yna truanhau wrthaw. a rodi idaw mil a deugeint bysant o eur dilifyn. a chymryt y gennat ae vendith. a medylyaw a wnaeth yd ai y ymwelet a iosian kyn y vynet y hamtwn. A cherdet racdaw tu ar eifft oe cheissaw hi yn llys y that. ac nyt yttoed hitheu yno. namyn ymamrwnt gyt ac inor. A ffan vyd ef dydgweith yn kerdet. y kyfarfu ac ef marchawc. a hyspys yr adnabu pawb onadunt y gilyd. ac y dwylaw mynwgyl yd aethant. ac ymdidan caredic a wnaethant. Ac ordiwed bown a ofynnawd Josian idaw. Y mae heb ynteu. wedy y rodi y vrenhin kyuoethawc. ac inor yw y enw o ymwbrawnt. dinas arbennic oed hwnnw. ac or mynny ymwelet a hi. tu ac yno y mae reit it vynet. Mynnaf yrof a duw. heb bown. Yna y menegis y fford. ac yd erchis idaw mynet trwy y dinas a elwir nuble. ac odyno y gartage. ac odyno ti a wely mwmwrawnt. Ac yna ymwahanu a wnaethant.

XXIV.—A gwedy dyuot bown y mamwrawnt. y clywei dywedut ry vynet inor. ae holl nifer y gyt ac ef. y hela. ac na thriciassei neb yn y llys ar castell onyt Josian ae brawtuaeth. A diruawr lewenyd a gymerth ynteu o glybot hynny. a thu ar llys yd aeth ef a chyseuyll yn emyl y llys a wnaeth. heb vynet y mywn. Sef y clywei Josian yn wylaw yn uchel. ac yn dywedut. Oia bown de hamtwn. mawr a beth yth gereis. ac yth caraf. a ffa wed y bydaf vyw inheu. canys colleis i didi. Sef a wnaeth ynteu yna truanhau wrthi. ac yna yn niwycyat palmer yd aeth y mywn yr llys. ac erchi y giniaw y iosian. Ti ae key yn llawen. heb hitheu. a chroyssaw wrthyt. a dyuot o honei e hunan. a rodi dwfyr idaw y ymolchi. a hitheu a wassanaethawd. ac a rodes idaw yn didlawt bwyt a llyn. A gwedy bwytta

hi a dechreuis ymdidan ac ef. a gouyn o ba le pan hanoed. a ffa dayar y ganydoed. O loygyr pan hanwyf. ac yno ym ganet. Sef a wnaeth hitheu yna kymryt diruawr lewenyd yndi. a gofyn yr palmer a atwaynat marchawc o loygyr a elwit bown de hamtwn. Atwen yn hyspys. heb ynteu. car imi oed y tat. vegys y dywetpwyt imi. ac nyt oes vlwydyn etto er pan y gweleis i ef yn llad cawr dewr. a brenhin kyfoethawc yn ygwanec. ac y mae ef yn y wlat yn iach lawen. ac yn dial y dat yn ffenedic. wedy rygymryt gwreic dec vonhedic kyfoethawc ac ffriodi. Gwreic heb Josian. Ie ysgwir heb ynteu. Sef a wnaeth hitheu yna dygwydaw yr llawr a llewygu. a ryued fu na bu uarw. A gwedy y chyfodi or llewycua. lleuein a wnaeth yn uchel a dywedut. Ystruan a amser ym ganet i. ac ys drwc a dyn y thygetuen wyf i. canys colleis i bown. ac nyt oed yn y byt dyn druanach y chyssyr no hi. na mwy y drycyruerth. Ac yna edrych yn graff a wnaeth hi yn wyneb y palmer a dywedut. Y palmer heb hi. bei nath welwn yn y diwygiat hwn. mi a gredwn ac a dywedwn y taw ti oed bown. Na vi heb ynteu. a mi ae kicleu ef yn dywedut yn vyneich am y march. ac a ydiw hwnnw genhyt ti. Och heb hi. y mae y march yna. ac nyt oes neb or llys yma a veido mynet yn y gyfyl. yr pan golles bown y arglwyd.

XXV.—Ar hynny y doeth y brawtuaeth hi attei. ac y gofynnawd hitheu idaw beth a dybyei ef am y palmer. ae bown oed ef. ae nyt ef. ac erchi idaw mynet oe y edrych. Ac ynteu a aeth. ac ar hynt a doeth etti drachefyn. ac a dywot wrthi. y mae bown oed y palmer. Y gyt ac y kicleu y march enwi bown. kymryt llewenyd a ryfic yndaw a wnaeth. a gweryru yn uchel orawenus a wnaeth. A hitheu a doeth at y palmer. ac a dywot wrthaw. Pony chlywy di y ryw ryfic ac ynni y mae y march yny gymryt yndaw. o achos clybot enwi bown unweith. Clywaf heb ynteu. a mi aaf oe edrych. ac a wybydaf a atto im y varchogaeth. Ac at y march yd aeth. ac ar hynt ysgynnu arnaw aoruc. ar march yna wedy cael y arglwyd a fu ryfugus llamsachus. a cherdet

gwalop ydanaw ar hyt y kwrt a wnaeth. yny doeth at Josian. A hitheu drwy y hwylaw a dywawt yna wrth y palmer. Yn awr y gwni yn wir y may tydi yw y gwr mwyaf a gereis. ac a garaf. ac yd oedwn ys llawer o amser yn damunaw y welet ar yr iessu grist. disgyn yr llawr. a llyma dy varch yt ath gledyf. ti ae key. Arglwydes heb ynteu. y cledyf dyro ym. ac ragof y kerdaf inheu tu a lloegyr. Nyt y uelly y byd. namyn pan elych di. minheu aaf gyt a thi. Arglwydes heb ynteu. gat ehunan. brenhines gyuoethawc wyt ti. a minheu gwr tlawt wyf. ac myn iessu grist iawnach oed ym dy gassau noth garu. canys dy dat a beris ygharcharu ygarchar drwc llawer o amser. a ffeth arall heuyt. y nos arall y kyffesseis i wrth y padriarch. ac ynteu a orchymynnawd im na chymerwn ym gwreic onyt morwyn. a thitheu ydwyt seith mlvned yn gwbyl gyt ac inor dy wr. ac o beut vorwyn yr hyt honno. ryuedawt mawr yw. A unben tec. heb hitheu. myn y gwr a dylyaf i y wediaw. yn wir mi a dywedaf na bei kyt cnawt hyt hyn eto erofi ac inor. ac awn y gyt y loygyr. a gwedy darffo vy medydyaw. onym key yn vorwyn. om un crys. gyr vi ymdeith. Yn llawen heb ynteu. Ac yna disgynnu awnaeth ef. a mynet dwylaw mynwgyl awnaethant. a mawr yd ymgerynt. a llewenyd praff a gymerth pawb onadunt. vegys y digawn pawb y wybot.

XXVI.—Ar hynny y gwelynt inor ar y bymthecuet o vrenhined yn dyuot o hela. a mil y rwg llewot a llewpardot a gawssynt y dyd hwnnw o hela. o ierch a beid coet. nyt oed neb a wypei eu riuedi. Y gyt ac y gwyl Josian inor yn dyuot. tristau yn braff a wnaeth hi. ac wylaw. a galw ar bonffei y brawtfaeth a dywedut wrthaw. Weldy racco inor yn dyuot. a mae dy gyghor ditheu. canys mawr yw vy ofyn na chawn gyfur y diagk. Nac wyl di. heb y bonffei. y kyghor goreu a vetrwyf. mi ay rodaf. unbrawt yssyd y inor y mywn y castell a elwir dabilent. a brenhin kyuoethawc yw. a baligrawnt yw y enw. A gwedy y del inor y mywn. aet bown attaw. a managet idaw bot y vrawt yn y castell. a bot

brenhin arall. a llu praff ganthaw yn ymlad ac ef. ac ony chai nerth yn ebrwyd. y goruydit ef. ac y keit y castell heb olud. a chyt ac y clywo ynteu hynny. ef a vyd trwm ganthaw y vryt. ac a luyda ar hynt. ac ef ae holl allu gyt ac ef a gerdant tu a dabilent. ac ny thric gyt a ninheu wedy hynny onyt ychydic o nifer. ac yna y gallwn diagk yn da. Llyna gyghor da. heb y bown. ar gwr a wnaeth y ffuruauen athiffero ditheu rac pob drwc. Ar hynny nachaf inor ar brenhined ereill oll yn dyuot ymywn yr llys. ae hela a dangosses idi hi ar hynt. A gwedy hynny edrych ar bown a wnaeth ef. a gofyn idaw o ba le pan hanoed. ac o pa le pan dathoed y palmer. Arglwyd heb ynteu. Mi a deuthum o nubie. varbari. or inde. o auffric. o asie. ac ny buumi yn dabilent. cany chawn fford y mywn. sef achos oed brenhin lwmbardi ae holl allu yssyd yghylch y castell. ac idrac yw y enw de ualri. Ar gwr bieu y castell yssyd y mywn. ac ony cheiff nerth a chanorthwy yn ebrwyd. ef a geir y ty arnaw. ac ynteu a difethit. Y gyt ac y kicleu inor hynny. tardu y gwaet trwy y eneu ae dwyffroen. Mahom heb ef. os gwr diuetha vyd vy mrawt i. ny bydaf vyw i wedy hynny. ac erchi y bawb gwisgaw eu harueu. ac eu fford a gymeryssant racdunt tu ac abilent.

XXVII.—A brenhin a edewis ef yny ol y warchadw Josian. a llwyt oed. a garsi oed y enw. a mil o varchogyon a edewit gyt ac ef. Gwedy gwelet o Josian adaw garsi oe gwarchadw hi. trwm oed genthi y bryt. a drwc oed y chyssyr. Sef a wnaeth bonffei yna dyuot attei ae didanu. a dywedut wrthi y parei ef idi diagk y nos honno. a llyma y ffuruf y digawn. Mi a atwen lyssewyn. ac ae caffaf yn y weirglod obry. ac nyt oes neb or a yfo dim oe sud ny bo medw. a minheu a af or lle. ac a vedaf pwn march or llysseu. ac ar y march y dygaf yman. a gwedy hynny mi ae briwaf mywn morter. ay sud yn ehelaeth a uyryaf yn y tunelleu gwin. a ffan vo garsi ychwinsa yn swperu dechreu nos. mi a wassanaethaf arnaw ae getymdeithon or gwin hwnnw yn ehelaeth didlawt. Ac yna y gwely di efo ae getymdeithon yn

dygwydaw yr llawr o veddawt. ac yn kyscu vegys moch. a gwedy hynny mi a bown a wisgwn yn arueu ymdanam. a titheu a wisgy ymdanat. A gwedy hynny ni a gerdwn ragom. a chyn dyhunaw garsi. ni a vydwn ymhell odyman. ac vegys y dywawt bonffei. hynny a wnaethpwyt. A gwedy medwi pawb ae dygwydaw yr llawr. ae kysgu. hwynteu a ymgyweiryssant. ac a wisgassant ymdanunt. A gwedy hynny bown a elwis ar Josian. a hitheu a doeth attaw. ac a dywawt wrthaw. Arglwyd heb hi. ni a dygwn dec swmer yn llawn o eur gyt a ni y fford y kerdom. Na dygwn heb y bown. pei ettwn i yn lloegyr wedy daruot im llad vy llystat. digawn o da a chyuoeth a gawn wrth vy ewyllus. gwir a dywedy arglwyd. heb y bonffei. ac eissoes reit vyd it rodi llawer dyrnawt kyn no hynny. a huryaw marchogyon y gyt a thi wrth ryuelu ath lystat. ac wrth hynny y mae da in dwyn yr eur. ar diareb a dyweit. Gwell un canyrthwy da no deu uys. Yn llawen heb y bown. a gwnewch chwitheu. Yna y dyrchafyssant y sumereu ar y meirch. ac a ysgynassant hwynteu. a chymryt eu fford. ac racdunt y kerdyssant. Trannoeth y bore y duhunawd garsi. y gwr a dylyei cadw Josian. a ffan duhunawd. ryuedu a wnaeth. paham y gwnaethyssit yn vedw. Ac edrych a wnaeth ynteu ar y vodrwy. ac yn y vodrwy yd oed maen carbwnculus gloyw. a ffwy bynnac a wypei gwneuthur coniuracion arnaw. y maen a vanagei idaw pob peth or a ouynnei idaw.

XXVIII.—Sef a wnaeth garsi yna gwneuthur coniuracion ar y maen. ac ef a welei yndaw yn amlwc rydaruot yr palmer dwyn iosian yn llathrut. Ar hynt y duhunawd ef y gedymdeithon. ac erchi udunt wisgaw eu harfeu ar ffrwst. a menegi udunt rydaruot yr palmer. y rodyssynt idaw y swper y nos gynt. mynet a iosian yn llathrut. a bei gwypei inor hynny. ys drwc a wyr eu dihenyd vydem ni. ac ar ffrwst y gwiscassant hwynteu ymdanunt. ac yn ol bown y kerdyssant mil o varchogyon. Bown a bonffei ae hargenuydant yn dyuot yn eu hol. ac yna y dywawt bown. Myn vyphenn mi a ymhoylaf dracheuyn. ac a rodaf dyrnawt y garsi. yny vo y ben

yn eithaf yr macs. hyt na del yn yn ol ni. ac na bo reit y neb ofyn y vygwth byth wedy hynny. ac a morglei vygcledyf vegys y gweloch. wedy hynny mi a ladaf penneu y bobyl racco. yny gaffo holl gwn y wlat digawn o vwyt onadunt. Arglwyd heb y bonffei. llyna vedwl ffol. y mae racco o nifer hyt na allei un dyn ymerbynneit ac eu hanner. ac na chymer di arglwyd yn lle drwc. mi a rodaf gyghor yssyd well. Mi a vedraf on blaen gogof braff. a meith yw dan y dayar. a gwedy yd elom y mywn yr ogof. nyn keiff neb. ac ni byd reit in ofyn neb. Ar kyghor hwnnw a wnaethant. ac yr ogof yd aethant. Ynteu garsi a fu yn eu keissaw hwy yn llawer lle. ac nys cafas. ac ny chyfarfu neb ac ef. or a wypei dim y wrthunt. Ynteu ae gedymdeithon yn llidiawc drist a ymhoylyssant dracheuyn. a hwynteu yn tri yn diogel aoydynt yn yr ogof. ac nyt oed dim bwyllwr ganthunt yssywaethiroed. Ac yna y dywawt iosian drwy y hwylaw wrth bown. Kymeint yw vy newyn ac na allaf vot yn vyw y nepell rac y veint. Ym kyffes heb y bown. llyna beth trwm a ffeth tost gennyf i bot yn gymeint dy newyn di a hynny. a minneu aaf y edrych a gyuarfo a mi un gwydlwdyn. ac a adawaf bonffei yth warchadw yny delof drachefyn. Duw a dalo it arglwyd. ac yr vygcharyat inheu na vit hir dy drigyan. Na vyd heb y bown. a brathu y varch. ac ymdeith yd aeth ef. Bonffei a Josian a drigyssant yno.

XXIX.—Ar hynny nachaf deu lew wenwynic litiawc yn y hachub. sef a wnaeth bonffei yna gwisgaw y arueu. ac ysgynnu ar y varch. a chymryt y wayw yn y law. a gossot ar un or llewot ae fedru. ac ny thorres y groen rac y galettet. Hwynteu y llewot a doethant o bob parth idaw. ar neill ae lladawd ef. ac ae llewas. ar llall y varch. Y gyt ac y gwyl hitheu hynny. dechreu lleuein yn uchel a wnaeth. ac nyt oed aelawt arnei ny bei yn crynu rac ofyn y llewot. Sef a wnaethant hwynteu y gyt ac y clywsant y hachub hi ar vessur y bwyta. ac ny at eu hannyan udunt llad neb neu y vwyta. or a uo etiued y vrenhin. Rwygaw y gwisc vliant a wnaethant. a chan eu hewined ar hyt y chnawt y gwyn

y redei y gwaet yn ffrytyeu. ae chymryt y rygthunt. a mynet a hi yny aethant y ben creig uchel. a thrwm oed genthi y challon ae medwl. a dechreu cwynuan a wnaeth hi a dywedut. Oia bown. hir a beth yd wyt yn triciaw. yr awr honn ym lladant y bwystuilet hyn. ac nym gwely yn gwbyl gwedy hynny. Ar hynny nachaf bown yn dyuot yr lle yd adawssei bonffei a Josian. wedy rylad danys o honaw. a ffan edrych. ef a wyl breich bonffei yno. ac or parth arall ef a wyl y droet. or tu arall ef a welei mordwyt y varch. ae droet. wedy rybiliaw hyt yr esgyrn. Sef a wnaeth ynteu yna galw ar Josian. ac erchi idi dyuot y ymdidan ac ef. a gwedy nas gwyl. ac nas kigleu. y dygwydawd ynteu y ar y march yr llawr. ac y llewygawd. Ac os drwc oed drycyruerth bown. gwaeth oed bei gallei drycyruerth y march herwyd y synwyr ef yn gweryru. ac yn cladu y dayar ae draet. a ffwy bynnac a vei yn edrych arnadunt. truan vydei yny gallon. yr cadarnet vei. gwelet eu drycyruerth. Yna kyuodi bown y vynyd. a dyuot yn y ansawd ehun ae lewder. ac ysgynnu ar arwndel y varch. a cherdet racdaw. ac edrych ar y greic a wnaeth. a ffan edrych. ef a wyl y llewot a Josian y rygthunt ygcharchar. Sef a wnaeth iosian llefein y gyt ac y gwyl bown. ac erchi idaw dial agheu bonffei y ysgwier. Mi a wnaf hynny. heb y bown. a thi a allut y wybot yn hyspys y dialaf. ef a vyd reit yr llewot vynet drwy vy nwylaw i.

XXX.—Y gyt ac y clyw y llewot ynteu yn dywedut. kyuodi udunt hwynteu y vynyd. Sef a wnaeth iosian dodi y dwylaw am vynwgyl y neill. ae attal herwyd y gallei oreu. sef a wnaeth bown erchi idi y ellwg. Na ellygaf heb hitheu. yny darffo yt llad y llall. Myn duw reit vyd it y ellwg. sef achos yw. pan uof i ym gwlat. ac ymplith y gwyrda. o dywettwn i. neu o bocsachwn ry daruot im llad deu lew. titheu a dywedut y mae ti a dalyssei y neill. hyt tra fum inheu yn llad y llall. a hynny nys mynnwn inheu yr yr holl gristonogaeth. Ac wrth hynny ellwg ef. ac onys gellygy. ym kyffes miui aaf ymdeith. a thitheu a drigyey yna.

Gellygaf arglwyd. a iessu grist athiffero rac eu drwc. Yna disgynnu bown y ar y varch. rac kyuaruot drwc ar march. a chywreinyaw y daryan ar y ysgwyd asseu. a thynnu y gledeu. Sef a wnaeth y neill or llewot or blaen y achub. a dyrchauel y deudroet vlaen. a gossot ar bown. ae vedru ar y daryan yny dorres y daryan yn drylleu. Sef a wnaeth ynteu bown gossot ar y llew ae gledeu. ac vedru ar y ben. ac ny wnaeth y dyrnawt hwnnw dim argywed yr llew rac calettet croen y ben. Yna agori y safyn yr llew ar vessur tagu bown. sef a wnaeth ynteu bown drwy y lit ae angerd gossot ar y llew. ae vedru yn y safyn yny aeth y cledeu ar y hyt. a thrwy y gallon. ac heb olud tynnu y gledyf a wnaeth ef. ar llew a dygwydawd yn varw. Y llew arall ae achubawd yn llitiawc wenwynic. ac a rwygawd lluric bown. hyt nat oed well hi no hen beis lom doll dreuledic. a dyrchafel y deudroet ulaen a wnaeth ef. a cheissaw gossot ar bown. Sef a wnaeth bown yn drebelit yna gossot arnaw ynteu. ae vedru ar y deudroet. yny aeth y draet a thalym or breicheu y wrth y corff. ac yny dygwyd ynteu yr llawr. a gwedy hynny y cwplaawd bown wassanaeth y llew yn da digawn.

XXXI.—A gwedy daruot idaw llad y deulew. ysgynnu ar arwndel a wnaeth. ac edrych ychydic oe vlaen a wnaeth. a ffan edrych. ef a wyl ar diwygyat dyn ryw aniueil gobraff y veint. ar nys gwelsei eiroet y gyffelyb. a ffon hayarn braff oed yn y law. ac ny allei degwyr cryf y dwyn uncam rac y thrymet. Ar yr ystlys yd oed yspodol drom unuiniawc. y rwg y deu lygat yd oed teir troetued chalaeth. a thal mawr amhyl. a duach oed nor muchyd. a thrwyn praff ffroenuoll oed idaw. a choesseu hir lymyon ysceyrnic. gwallt y ben oed vegys rawn meirch gre. y lygeit oedynt gymeint ar dwy sawsser vwyaf rywelsei neb eiroet. hwy oed y danned noc ysgithred y baed coel hwyaf y ysgithred. a geneu gobraff oed idaw. a phan dywettei dan agori y safyn vegys hen ellgi bwn aneglur agharueid y dywedei. a breicheu hirion cadarn. ac ewined caletlym. a chyn galetted oed y ewined yn wir. ac nyt oed mur maen yn y gristonogaeth nys

diwreidei ef yn gwbyl yn un dyd. Ar gwr hagyr aflunyeid hwnnw y gyt ac y gwyl bown. y dywet yn uchel. Reit vyd it twyllwr bradwr ymhoylut drathgefyn. a rodi iosian vy arglwydes im. a dugost yn llathrut. Sef a wnaeth bown anryuedu yn vawr praffder y gwr ae afluneidet. a chwerthin a dywedut. Tydi vilein heb y bown. yr y duw y credy di idaw. dywet ym ae kymeint pawb yth wlat ti a thidi. Kymeint myn vynduwi teruygawnt. a ffan fumi ym gwlat. hwynt a dywedynt na bydei o honaf inheu dim meint byth. ac rac kewilid yd edeweis ygwlat. ac y deuthum yr wlat hon. ac y gwrheeis i inor o mwmbrawnt. ac y gwassaneitheis yn gywir. a thitheu a dugost y wreic ef yn llathrut. ac myn mahom vy nuwi. mi a vriwaf dy ben di yn drylleu am ffon i y drom. Taw pagan ath son. heb y bown. a gormod yw dy vocsach oll. a phan ymladom. ony ladafi dy benn di yr mawr am cledeu. ny volaf fyhunan werth un uanec.

XXXII.—Ac heb olud brathu arwndel ac yspardduneu. a gossot ar y gwr du. a chopart oed y enw. ae vedru ygcledyr y dwyuron ae wayw. yny dyrr y paladyr yn drylleu. ac ny chyffroes un aelawt ar gopart yr y vedru. mwy noc yr na metrit. Ac yna dyrchafel y ffon idaw ynteu. a bwrw bown a hi. ac rac daet y diuachellawd bown. ny medrawd namyn derwen. a honno a diwreidawdaca dygwydawd yr llawr gan y dyrnawt. ac ar hynt dodi y law ar dwrn y yspodol a wnaeth ef ar uessur taraw bown. Sef a wnaeth y march yna dyrchauel y deudroet ol. a gossot ar y gwr du ygcledyr y dwyfron. ae daraw yghyueir y gallon. yny dygwydawd ynteu yr llawr. ar march yna ae dyludawd yn gadarngryf y rygdaw ar dayar. hyt na allei copart yn unwed kyuodi yn y seuyll. Yna disgynnu bown y ar y march. a thynnu y gledeu ar uessur llad penn copart. sef a wnaeth iosian yna dywedut. ac erchi y copart gwrhau y bown. a chymryt cristonogaeth. Ny wna ef hynny. heb y bown. a chan nys gwna. myn y gwr y credaf inheu idaw. heb y bown. mi a ladaf y benn am cledeu yn diannot. Sef a wnaeth copart yna dywedut yn uchel. yny datseinawd y coydyd

o bob parth. ac adolwyn y bown nas lladei. a dywedut y bydei wr idaw. ac y kymerei cristonogaeth yn llawen. Ny allaf credu it. heb y bown. Gelly ysgwir. heb y iosian. mi a vydaf warant y byd gwr ffydlawn it. Yn llawen. heb y bown. a minneu a gymeraf y wrogaeth ef. Yna kyuodi copart y vyny. ac heb olud rodi y wrogaeth y bown a wnaeth. a gwedy hynny bown a ysgynnawd ar y varch. a Josian a ysgynnawd ar y march hitheu. a chopart a gauas y ffon. ac ae kymerth.

XXXIII.—A gwedy hynny hwynt a gerdyssant racdunt yny doethant hyt yr mor. ac yn y borthua yd oed llog. a honno oed lawn o sarassinieit. a thrwy y mor yd oed yn eu bryt vynet tu ar cristonogyon. Ac y gyt ac y gwelsant hwy copart. llawen fuant. a dywedut a wnaethant. y mae detwyd y damweinawd udunt. canys goreu morwr or byt oed copart. a hwnnw ae dygei hwynteu yn diogel trwy yr mor. Y gyt ac y doeth copart ar o gyfuch a hwy. gofyn udunt pwy oydynt. ac o ba le pan hanoedynt. Ti a wdost ac an atwaenost ni yn hyspys. canys sarassinieit ym ni. Edewch y llog ar hynt. ac yna ae ffonn y kyffessu. yny aeth y hemennyd oc eu penneu. y sawl ny byryawd neit yn y mor oc eu bodi. A gwedy hynny y kymerth ef bown. ac y duc yr llog. a iosian yn y ol ynteu. a gwedy hynny y kymerth arwndel rwg y dwylaw. ac y dodes y mywn y llog. ac nyt edewis heb gof mul iosian heb y dwyn y mywn. A gwedy hynny dyrchauel hwyl a wnaethant. ac racdunt yd hwylyssant. a ffan oedynt tu a hanner y mor. eu gordiwedawd amonstius vrenhin y mywn herwlog hir. a llawer o niuer y gyt ac ef. ac yn begythyaw bown yn gadarn. ac yn tygu y vahom y lladei y ben. a gouyn ae copart a welei ef. Mi ysgwir. heb y copart. nyt ymgelaf. myn mahom vy nuw i. ef a vyd ediuar it y twyll hwn. Sef a wnaeth copart yna cael kyff mawr yn y llog. ay dyrchauel yn y law. a dywedut wrth amonstius. Ymhoel drathkeuyn lwtwn. ny rodwn i yroch chwi. nac yr ych ffyd egroessen. ac onyt ymhoyly. mi a rodaf it dyrnawt. Y gyt ac y clyw amostius copart yn y vegythyaw. diruawr ofyn a gymerth. ac yr

y vrenhinaeth oreu yn y wlat. nyt arhoei yr eil geir bygwth y gan copart. ac yna ymwahanu a wnaethant. a bown ae getymdeithon a hwylyssant racdunt. yny doeth yr borthua yssyd yn emyl kwlwyn.

XXXIV.—Ar dyd hwnnw yd aeth esgob y orymdeith yr borthua. ac ewythyr oed ef y bown. ac ny wydat bown y deirydeit idaw. Ar hynny nachaf bown yn dyuot yn erbyn yr esgob. a chyt ac y daw yn agos. kyuarch gwell idaw a wnaeth. ar esgob a ouynnawd y bown o ba le pan hanoed. O loegyr arglwyd pan hanwyf. ac yn lloegyr ym ganet. a mab wyf y giwn iarll. gwr a las yn gam. ac yn bechadurus. Grossaw duw wrthyt anwyl nei callon. ac ewythyr it wyfi. Pwy heb yr esgob y vorwynwreic ieuagk yssyd gyt a thi. Arglwyd heb y bown. ny chelaf ragot. hi am carawd i yn vawr. a minneu ac kereis. ac o achos hynny mi a fuum ygharchar seith mlyned. ac yn awr y kymer hi bedyd a christonogaeth. acyd emedeu a mahom y duw. Diolwch y duw hynny. heb yr esgob. a hediw mi ae bedydyaf hitheu. Ar hynny nachaf copart yn dyuot. ac yn gyrru y meirch a oed arnunt eu pynneu o eur ac aryant oe vlaen. Y gyt ac y gwyl yr esgob copart mor anffurfeid a hynny. dyrchauel y law y vyny. ac rac y ofyn. degweith yd ymswynawd. a gofyn y bown pa ryw gythreul oed hwnnw. Ny chelaf ragot arglwyd ewythyr. gwas ym yw. ac un or gwyr dewraf or byt oll yw. Gwas heb yr esgob. nyt ef a wnel duw y dyuot ef ym llys a miui yn dragywyd. Daw or byd da genhyti arglwyd. a ni a vynnwn y vedydyaw ef hediw. Pawed anwyl nei y bedydut ef. canys pei delynt holl wyr y dinas y gyt. ny ellynt hwy y dyrchauel ef or bedydlestyr. A ffan wyl copart yr esgob. ef a dybygassei may bugeil oed yr esgob. am y welet yn newyd eillaw. a gwedy torri y wallt. Ac yna ymdidan a wnaeth yr esgob ae nei. a dywedut y vot ef yn varchawc dewr. pan enillei ef y ryw was hwnnw. a menegi rydyuot y varwgywedyl ef. ae dienydu yn waradwydus or sarassineit. at sebaot y datmayth ae athro. y gan vab sebaot a ryfuassei ymplith sarassineit yn y geissaw

ynteu. ac o achos hynny y dechreuis sebaot ryuclu ar yr amherawdyr. ac eissoes ny allawd ymerbynneit ar amherawdyr. ac wrth hynny y gorfu arnaw adaw y wlat ae gyuoeth. a mynet y castell cadarn a wnathoed y mywn ynys yn y mor. ac ny cheit y castell hwnnw yn dragywydawl hyt tra barhaei fwyt yndaw. canny ellit ymlad ac ef o un fford. Ac or castell hwnnw y dygei sebaot ae allu kyrcheu y gyfoeth yr amherawdyr. gweitheu hyt dyd. gweitheu hyt nos. ac yuelly yd oedynt yn diffeith kyfoeth yr amherawdyr yn ffenedic wychyr. ac o gwney vyggyghor. ti a ey attaw oe gymorth. a minheu a rodaf yt yn nerth pumpcant marchawc yn gyweir. Duw a dalo it arglwyd. a minheu a wnaf hynny yn llawen.

XXXV.—A gwedy yr ymdidan hwnnw hwynt a gerdyssant racdunt tu ar llys. ac y eglwys y drindawt yd aethant. a iosian yn diannot a vedydywyt. ac ar copart y gelwit. ac ny ellit y dodi ef yn y bedydlestyr rac y veint. namyn kerwyn uawr a gyrchwyt. ae llenwi o dwfyr. Sef a wnaeth y dynyon ae delynt wrth vedyd keissaw y dyrchauel. ac yna y dywawt ynteu. Ofer yw ywch awch lafur. gedwch ym vy human mynet y mywn. a dowch chwitheu. a dodwch awch dwylaw arnafi. Ni a wnawn hynny yn llawen. heb y dynyon. ac nyt oes kyghor well no hwnnw. Yna y byryawd ef neit yn y gerwyn yn llwrwf y deudroet. ac oer yawn oed y dwfyr. Ac yna yd ymgeinawd ef ar esgob. ac y dywawt. beth a vynny di fugeil bilein. ae vy modi yny dwfyr hwnn. ryhir yd wyf gristawn. gellwg vi ymdeith. Ac ar hynt y kyfodes ef yn y seuyll. ac y byryawd neit y maes or gerwyn yn noeth lumun. a ffwy bynhac ae gwelei ef yna. ny welas eiroet delw ar dyn kyn hacret. na chyn dybrytet a honno. ac nyt oed debic y dim onyt y gythreul. yn keissaw eneideu wrth eu poeni. ac achub y dillat a wnaeth ef ar hynt. ac eu gwiscaw. A gwedy hynny yr neuad yd aethant oc eu bwyt. A gwedy bwyta. bown a ymgyweirawd. ac a wisgawd ymdanaw. a thu a lloegyr y kymerth y hynt. ar esgob a rodes idaw yn nerth vegys y dywedassei pumpcant marchawc kyweir. Ygyt ac y

gwyl iosian hynny. ellwg y dagreu awnaeth. a dyuot at bown. a dywedut wrthaw. may goganus oed idaw y hadaw hi yny ol ymplith tywyssogyon a marchogyon. canys gallei ry damhweinaw gwneuthur anuod arnei. a chytgyscu a hi. Na chymer yn drwc arnat heb y bown. a adawaf copart gyt a thi yth warchadw. ac ef athifer rac pob ryw ofut ac argywed. Yn llawen arglwyd. mal y mynnych di. a minheu a adolygaf yr arglwyd duw gallel o honaf inheu yny delych ditheu drachefyn. ac yna mynet dwylaw mynwgyl awnaethant.

XXXVI.—A gwedy hynny efo ae getymdeithon a ysgynyssant ar eu meirch. ac a gerdyssant tu a lloegyr. ac yna y dywawt ef wrth y getymdeithon. Kyn yn mynet at sebaot. ni a awn y ymwelet ar amherawdyr. a mi ae twyllaf vegys y gweloch. Yn llawen vegys y mynnych ti. ni ae gwnawn. Racdunt y kerdyssant yny doethant y hamtwn. y gyt ac y gwyl yr amherawdyr hwy. a don oed y enw. ef a doeth yn eu herbyn. ac edrych ar bown a wnaeth. a gofyn idaw o ba le pan hanoed. Pan hanwyf i arglwyd o ffreic o gastell digon. Pwy dy enw di. heb yr amherawdyr. Girat arglwyd. heb ynteu. yw vy enw. Ae ryuelwyr ywchi. ac a gymero da yr ryuelu. ac os ef mi ae rodaf ywch wrth awch ewyllys yr ryuelu o honawchi ar y bilein. a sebaot yw y enw. a hwnnw yssyd yn ynys yn y mor racco y mywn castell cadarn. ac odyno y mae yn goualu yn braff. Yr duw heb y girat. a digawn ef gwneuthur dim argywed it. Ym kyffes vacwy. heb y don. neur darfu idaw diffeithaw llawer om kyuoeth. weitheu hyt dyd. weitheu hyt nos. ac y velly y mae yn diffeithaw yn wastat. Ny dylyut ti arglwyd diodef hynny. ac o rody di imi oth eidaw. mi a dalaf sebaot yn vyw. ac ae rwymaf. ac ae dygaf hyt attat yth castell. Mi ae rodaf yt. heb y don. pob peth or a erchych. Nyt archaf yt yn awr onyt llenwi y llog hon o vwyt a llyn. a rodi digawn o arfeu ym ketymdeithon. A hynny a gewch chwitheu yn llawen. Ac heb olud y llog a lenwit. ac arfeu a gawssant. kymeint ac y vynnyssant. ac racdunt yd hwylyssant yny doethant hyt yn emyl castell sebaot. Ac y gyt ac y gwyl sebaot hwy.

ef a doeth yn eu herbyn. a gofyn y bown o ba le pan hanoed. a ffa le y ganydoed. Nyt ymgelaf ragot arglwyd athro. bown o hamtwn wyf i. ac y gyt ac y clyw sebaot hynny. y achub a wnaeth. a dodi y dwylaw am y vynwgyl. ae gussanu yn vynych. ac ny bu lawenet sebaot ciroet ac yna. ac nyt hawd traethu na menegi y llawenyd a gymerth pawb onadunt. ac oe bwyt yd aethant. a gwassanaeth fflwch didlawt rybuchedic a gawssant.

XXXVII.—Ymhoelwch in at iosian a edewsit ygcolon gyt a copart. A iarll or wlat yno dydgweith a edrychawd ar Josian. a hoffa yny byt fu ganthaw y thecet. ac enynnu awnaeth oe charyat. hyt na wydat or byt beth a wnai. rac meint y carei. a mynych y doi ynteu oc gorderchu hi. ac y gymic idi pob kyfryw da or a allei dyn y damunaw. A hitheu val morwyn gywir ae gwrthodes ef ae da yn untuawc. heb vynnu dim ganthaw. Gwedy gwelet o honaw ef na thycyei idaw kynnic da. nae gorderchu. y tygawd ynteu y mynnei ef hihi oe hanuod. canys cai oc eu bod. Milys. heb y iosian. gat vi yn llonyd. ac yn hedwch ny mynnaf i didi yn dragywyd. nac yr da nac yr dim arall. ac nyt oes arnaf dyofyn. tra vo iach copart. gwr am keidw ac am differ. yr dy vygythein di oll, yn diogel. Ygyt ac y clyw ef mae yghopart yd oed y holl ymdiret hi. yna y doeth ef at copart. a thrwy ueuyl ac ystryw y annerch malfei y gan bown. ac erchi idaw vynet y ymwelet ac ef hyt y castell a oed ymhell yn y mor. A chredu awnaeth copart idaw. a dywedut na medrei y fford. a gofyn idaw a doi yn gyfarwyd. Af yn llawen. heb y milis. ac ymywn ysgraff yd aethant. ac racdunt yd hwylyssant yny doethant hyt y castell. Ac ar hynt copart aaeth y mywn. ac ygyt ac yd aeth ef ymywn. Milys o dyuays a gayawd y porth a barreu heyrn. ac a chadwyneu heyrn yn gadarn diogel. hyt na allei neb dyfot allan fford yr porth yn dragywyd. onyt agorit odyallan.

XXXVIII.—Ynteu copart aaeth racdaw. ac ymhob lle yny castell y keissawd ef bown. a gwedy nas cafas. ef aaeth y ben y twr. ac odyno y gwelei Milys yn ymhoylut drachefyn. Sef a wnaeth copart yna gofyn y Milys pa

le yd ai. Mi aaf. heb ynteu. y briodi Josian. ac y gytgyssgu a hi. Y gyt ac y clyw copart hynny. y llidiaw a sorri awnaeth. ac heb olud ae ewined caletlym dechreu cladu y mur. ac ordiwed trwydaw yd aeth. A bwrw neit yn y mor heb olud awnaeth. a dechreu nofyaw. a ffan vyd y velly yn nofyaw. ef a wyl llog yn agos idaw. a honno oed lawn o borthmyn. yna y dywawt ef yn uchel. Arglwydi gedwch im vynet ymywn y llog attawch. Ygyt ac y harganfuant hwy y kythreul hwnnw yn dywedut. yn wir y tebygyssynt y mae kythreul oed ef. ac rac y ofyn. bwrw neit yny mor a wnaethant. Ynteu aaeth yr llog. a thu ar tir yd hwylawd. Yr un dyd hwnnw y doeth kennat at bown. a menegi idaw yr holl gyfranc. rydaruot y Milys iarll priodi Josian oe hanuod. Ynteu bown a wisgawd y arueu ar ffrwst. ac a ysgynnawd ar y varch. ar fford tu a chwlwyn ą gymerth heb neb y gyt ac ef. A gwedy daruot y milys priodi iosian oe hanuod. y nos honno y peris ef y dwyn hitheu y ystafell. a gwedy dyuot hi y mywn. yd erchis ef cau drws yr ystauell ody vaes. a hynny a wnaethpwyt. a gwely mawr ehalaeth uchel wedy eu dyrchauel ar pedeir fforch oed idaw. ac y hwnnw y kymhellawd ef arnei vynet. Ynteu ar eistedfa oed ar o gyfuwch hayach ar erchwyn. y gwr a eistedawd y ymdiarchenu. a mawr iawn oed y ffrwst y gwplau y ewyllys ar iosian. Y gyt ac y gwyl hi y ffrwst ef. ucheneidaw idi hitheu yn uchel. ac eissoes dyfot cof idi y gwregis. ae gymryt ae wneuthur yn redeguagyl. ac yn ehut hwimwth y dodes dros y ben am y vynwgyl. ac heb olud yr parth arall yr gwely y byryawd neit yr llawr. a ffen y gwregis yny llaw. ac y velly y delis y gwregis yn gryf ffenedic yn y dwylaw yny dagawd y gwr. ac yny dorres asgwrn y vynwgyl.

XXXIX.—Trannoeth y bore y doethant y varchogyon ae vacwyeit yghylch drws yr ystauell. ac erchi y milys kyfodi y vyny. canys talym or dyd oed. Hitheu a dywawt. Ofer yw awch son. mi ae tegeis yr neithwyr. Yna y torryssant drws yr ystauell. ac y kymeryssant iosian. ac y rwymyssant y dwylaw yn galet. ac yd

aethant a hi maes or dinas wrth y llosgi. a than mawr a gyneuwyt. A y gyt ac y gwyl hi hynny. ymdifregu ar arglwyd duw a wnaeth. ac adolwyn y vot yn drugarawc wrth y heneit. can daroed barnu y chorff. A wylaw a lleuein a wnaeth. a thrwy y drycyruerth y dywawt. Oia arglwyd iessu grist. truan a beth ymderw. a cham a beth y medreis. dodi vy holl garyat ar bown. ac ynteu ym ysgaylussaw. ac yn gadel vy nienydyaw heb wybot idaw. ac nyt ymwelwn bellach y gyt. Ac erchi effeirat a wnaeth. ac yffeirat a gauas. a ffawb or ae gwelei yna. yr cadarnet vei y gallon. a druanhei wrthi. Yr yffeirat ac kyffessawd yn gwbyl. ac ae hetelis yn hir rac truanet gantaw y dienydu. Ar hynny nachaf bown yn dyuot. a bugeil yn kyuaruot ac ef. Sef a wnaeth ef gouyn yr bugeil beth a wneit ar tan mawr a welei ef yn llosgi. Peth truan heb y bugeil. llosgi morwyn dec o achos tagu yr iarll o honei ae priodyssei hitheu oe hanuod. Nyt ym bywyt i. heb y bown. y llosgir hi. a brathu arwndel ac ysparduneu. a thu ar tan y kerdawd. Ar hymy nachaf copart or parth arall yy dyuot. ac ymherued y maes yn ymgyuaruot ar bugeil. a gouyn yn uchel idaw pa achos y llosgit tan kymeint ac yd oedit yn y losgi. Y gyt ac y gwyl y bugeil ef. dechreu dygarnffo. ac yn vynych uchel y dywedei. Benedicite. benedicite. Eissoes ny bu copart uncam o bedestric wrthaw a rodi tacua idaw. a gouyn ystyr ar achos yd oedit yn llosgi tan kymeint a hwnnw. Arglwyd. yr y gwr an prynnawd yd archaf dy drugared. morwyn a losgir yn y tan racco a briodet doe oe hanuod. Na losgir myn vyphen i hyt tra barhawyf yn vyw. ac yn ol bown ar hynt y kerdawd ef. ac at y tan y doethant. A bown a dynnawd morglei y gledeu. ac a hwnnw yd eillawd penneu y sawl a gyuarffei ac ef y ar y corfforoed. Ynteu copart pob dec y lladei ynteu ae ffon. Yna y dywawt bown wrth copart. Coffa y duffust yn dihauarch. Mi a wnaf hynny yn llawen.

XL.—A gwedy daruot udunt llad y bobyl heb diagk y nemawr onadunt. bown aaeth at Josian. ac a dorres y rwymeu a oed ar y dwylaw. ac a erchis y

copart mynet y erchi palffrei y iosian at yr esgob. ar march a gahat gan yr esgob heb olud. A gwedy dyuot copart dracheuyn ar march ganthaw. iosian a dodet ar y march. ac racdunt y kerdyssant yny doethant y gastell sebaot. Y gyt ac y gwyl sebaot Josian. mynet dwylaw mynwgyl idi. a llawen fu wrthi. ac yno y tricyssant hwy yn swiwrn. Ynteu sebaot a beris cadarnhau y kestyll. ac atwneuthur y muroed ar keyryd. a dyfynhau y clodyeu yghylch y castell. hyt na allei neb na dyuot y mywn. na mynet allan heb y gennat ef. A dydgweith y bore y gelwis bown ar un or marchogyon. a charfus oed y enw. ac un or gwyr glewaf a dewraf oed ef. ac erchi idaw mynet hyt yn hamtwn at yr amherawdyr. a dywedut idaw. y mae bown oed enw y marchawc a ryfuassei yn ymdidan ac ef y nos arall. ac ae twyllwys. Ac yn yghwanec dywet idaw y peiranna y grogi. neu y dienydyaw. dihenyd ny bo gwell idaw no hwnnw. canys oetran gwr yssyd arnaw. ac y digawn wisgaw arueu. a marchogaeth. ac amylder o varchogyon glew dewr anhygar gryf yssyd gyt ac ef. Y gennat a aeth hyt yn hamtwn at yr amherawdyr. ac yn ehofyn wychyr menegi idaw y gennatwri heb gelu dim. ac yn yghwanec y gennat a dywawt. Tydi a ledeist yn gamwedawc pechadurus giwn iarll tat bown. a hynny a vyd ediuar it yn ehegyr. Sef a wnaeth yr amherawdyr yna ar gyllell newydlif oed yn y law bwrw carfus a hi. ac nys medrawd. namyn macwy idaw ehunan a vedrawd. yny aeth y gyllell trwydaw. ac yny dygwydawd ynteu yn varw yr llawr rac y vron. Sef a wnaeth carfus yna ysgynnu ar y varch. a dywedut wrth yr amherawdyr. Ynuyt a beth y gwnaethost. llad dy vacwy erofi. a ffei ym byryut yr eilweith a uei well. velly ychydic y gellit dy voli. a mi a wn beth yssyd yn y rwystraw. ry issel neithwyr y kusseneist dy wreic. Gwarandaw arnaw yn graff. y gwr am hanuones i attat. bown o hamtwn yw y enw. ac ef yn vab ath trewis ar dy benn tri dyrnawt yny lewygeist. a marth idaw am nath ladawd. ac na vit hir genhyt. ef ath ledir yn ebrwyd digawn.

XLI.—Ac yna ymhoelut y carfus dracheuyn. ac at bown y doeth. a datcanu idaw y wed y gwnathoed y gennadwri. a ffa wed y lladyssei yr amherawdyr y vaccwy o achos hynny. yn keissaw y vedru ef. a ffa wed y dywawt ynteu. y mae ry isel y cussanyssei y wreic y nos kyn no hynny. Ac yna y chwardawd bown. ac y chwardyssant pawb oe gedymdeithon. a breid na dygwydyssant yr llawr rac chwerthin. Ynteu yr amherawdyr a gymerth goual mawr o achos y chwedleu ryglywssei. ac anuon gennadeu y brydein at y brenhin. ac yr almayn. ac adolwyn nerth a chanhorthwy. can ny buassei eiroet kyn reittet idaw. Ac yna y kennadeu a aethant racdunt. ac kennadwri a wnaethant. ac adolwyn y vrenhin prydein dyuot ehun gyt ae allu. Ynteu yn llawen a doeth a gallu praff gyt ac ef. y rwg marchogyon a ffedyt. ac amylder o wyr a meirch a deuth or almaen. ac y hamtwn y doethant. Ynteu down a elwis y allu y gyt. ac erchi udunt tewi a gwarandaw. ac yna y dywawt ef. Arglwydi. chwi a wdawch yn hyspys bot sebaot yn ryuelu arnaf ys llawer o amser. ac yn diffeithaw vyghyfoeth yn braff. ac ynawr y deuth bown de hamtwn. a llawer o varchogyon gyt ac ef yn borth idaw. a hwnnw yn vab ieuagk a bereis y werthu yr sarassinieit. Ac y gyt ac ef y mae ar delw dyn ryw aniueil gobraff. a thebygach yw ef y gythreul ymhell noc y dyn. a chopart. a gicleufi. yw y enw. ac ny digawn neb ymerbynneit ac ef rac y dewret. a mae awch kyghor awchchi wrth hynny. Ni a awn gyt a thi. ac a dalwn bown a sebaot a chopart. ac ae dygwn yn vyw hyt yman. vegys y gellych y dienydu wrth dy ewyllys. Ac yna y kymerth yr amherawdyr diruawr lawenyd am yr edewit hwnnw. Ac yna yd aethant y wisgaw ymdanunt eu harueu. a gwedy gwisgaw. racdunt y kerdyssant tu a chastell sebaot. ae llu a ranyssant yn dwy vydin. brenhin prydein a oed yn tywyssyaw y vydin vlaen. ar amherawdyr y vydin ol. Yn y herbyn hwynteu y deuth sebaot a bown ae niuer or castell. ac yn teir bydin y ranyssant y gallu. A sebaot a dodet y dywyssyaw y vydin vlaen. a bown yr eil. a chopart y

tryded. ac yghyueir pob canwr or eidunt. yd oed gyt ar amherawdyr mil o wyr.

XLII.—Ac yna y kerdawd sebaot a degmil gyt ac ef or blaen. ac yny erbyn ynteu y deuth brenhin prydein. ac y trewis sebaot ef ar y daryan. ac na bu amdiffyn idaw oe agheu mal kynt rac y dyrnawt hynnw. Ac yna y dywawt sebaot o nerth y ben. Haha ffelwn lwth. ath mellticco duw. kan ffeyleist yth gydymdeithon ar y dyrnawt kyntaf. A gwedy hynny y tynnawd sebaot y gledyf. ac erbyn y dyrnawt yny ffarhaei dim. ac y velly y peris ef yr vydin gyntaf dygwydaw. A phan welas yr amherawdyr hynny. nyt oed arnaw un chwerthin. a phan y gwelas bown ef yn y mod hwnnw. ef a dyuryssyawd attaw ar arwndel y varch. ac y gyt ac ef swrn o varchogyon aruawc. ac nyt oedynt . . . . . wynt no bown. A bown yna a vrathawd arwndel. ac a ystynnawd y daryan. ac ar y dyrnawt kyntaf a rodes. ef a ladawd Inor or gris. ac abat . . . . . wbrri. a phan daruu idaw llad yr abat. y brathawd y varch. a sebaot ae wyr gyt ac ef. ac yna y buant bawp. ac ny bygylawd neb onadunt yny lle y bei. Ac yna yd arganuu bown yr amherawdyr. ac y llawenhaawd trwy ewyllys drwc. a dywedut wrthaw. Myn duw. traitur os ti a dieinc ath vywyt odyna. ny atto duw y mi uynet odyma. ony chaffaf dy benn di yr maes. Ac yna y dywawt yr amherawdyr wrth bown. Ti lwttwn. pwy a uegythy di mor gadarn a hynny. os ymlad a vynny. dabre yr maes. Pan gigleu bown hynny. ny bu kyn lawenet eiroet. ac a kylyassant ergyt dwy saeth y wrth y llu. Ac yna bown a ystynnawd y daryan. ac a gymerth y wayw. ac a vrathawd yr amherawdyr ygkanawl y daryan yny glwyuawd yn vawr ar yr amherawdyr. ac y torres y gledyf. ac y tramkwydawd. Mal kynt kyuodi a oruc yn gyflym. a bwrw neit. a chaffel y dan y droet. a bwrw bown a hi yn dic. ae vedru yn y daryan yny dorres yn drwc. ac yna bown a dynnawd morglei y gledyf. ac a drewis yr amherawdyr ac ef yn gyflym. a phan welas yr almaenwyr hynny. dyuot a wnaethant yn ganhorth-

wy eu harglwyd. ac ae dodassant ar y varch. a medylyaw gallel eu maedu.

XLIII.—Ac ar hynny nachaf copart yn dyuot ae drossawl. ae vydin gantaw. ac eu bwrw pob dec pob deudec. Ac yna y dywawt bown wrth copart. Vygharedic i heb ef. pony wely di lle mae yr amherawdyr ar yr amws gwelw. ys da beth oed y ti uynet oe rwymaw. Arglwyd heb y copart. mi a wnaf dy vynnu di. ac yna y kerdawd copart racdaw. ac ae drossawl yd arllwyssawd fford idaw. ac nyt arbedawd neb yny doeth hyt at yr amherawdyr. ay gymryt a mynet ac ef yr castell. ae rwymaw yn galet. a diuryssyaw dracheuyn yn ganhorthwy oe arglwyd. A phan welas gwyr yr amherawdyr daruot dala eu harglwyd. trist uuant. cany ellynt parhau y nep pell. a gwrhau a orugant y bown. trwy ystynnu eu cledyfeu idaw. ac eu dala a orucpwyt. ac eu hanuon yr castell. A dyuot a oruc bown yr castell. a phan deuth ar ogyfuch a don. don a dywawt wrthaw. Arglwyd heb ef. ny thyckya y mi erchi trugared. namyn vygalanas a vadeuwn it. pei ar yr un dyrnawt y lladut vyphen. Mal ym gwares duw. heb y bown. mi a wnaf hynny. a heb odric y peris bown dwyn plwmen. a chladu pwll yn y dayar. a dodi y plwmen yn y pwll. ae lenwi o blwm brwt. a chymryt don ae vwrw mywn hwnnw. ac yna y dywawt bown. Ynawr y digawn syr don ymdrochi. ac or byd anwyt arnaw. ymdwymet. ac yna y redawd nebun at yr arglwydes y venegi idi chwedleu y wrth don y chymar. A phan gigleu hi y gennat yn dywedut y chwedleu hynny. hi ae byryawd a chyllell newydlif a oed yn y llaw. ac ae medrawd yny galon. ac ae lladawd. ac y drighawd hitheu y benn y twr uchaf. ac y byryawd neit odyna. yny dorres y mynwgyl. A phan gigleu bown hynny. nyt wylawd dim yr hynny. ac nyt aeth wrth y hanglad. ac yna goreskynnawd y dylyet. ac y kynhelis. mal y dylyei gwr dewr cadarn. a thalu eu gwassanaeth yr niuer a dothoed gyt ac ef. Odyna y deuth porthmyn y dref y erchi trugared y bown. ae anregu o lestri a thressor.

XLIV.—A gwedy daruot idaw gorchyuygu y elyn-

nyon. ef a gyrchod y wreic vwyaf a garei yr garret wrth y ffriodi. ac anuon yn ol escob colwyn y wneuthur eu priodas. Ac ynteu a deuth yn uuydlawen. a gwedy y dyuotyat. yr unbennes a arwedwyt yr eglwys. ac y gwneuthpwyt eu priodas. Ac adref y deuthant. ac eu bwyt a gymerassant. a gwedy bwyt ymolchi aorugant. ac odyna erchi y gwin. a gwedy yuet dogyn ohonunt. y gysgu yd aethant. ac mywn awr da y gweithredawd a hi. canys deu vab a enillawd yna. y rei a uuont glotuorus. pan deuthant mywn oetran. ar neill a elwit gi. ar llall miles. ac eissoes ny bu diboen udunt enill clot ac enryded. Ac am hynny diwarnawt medylyaw aoruc bown o vynet y ymwelet ar brenhin. ac erchi a oruc y varchogyon ay ysquiereit or rei dewraf ymgyweiraw y gyt ac ef. ac yna yn gyflym yd ymparatoassant wrth y arch. Y iarll a yskynnwys ar y varch. ac racdunt y kerdassant. ny orffwyssyssant yny doethant hyt yn llundein. a chyt ac ef petwarcant o varchogyon dewron clotuorus. A gwedy dyuot bown y lundein. ef a gymerth y lletty goreu yn y dref. a gwedy hynny y kerdawd ef a sebaot y ymgeis ar brenhin. ac y cawsant ef y mywn ystauell o uein marmor. ac y kyuarchassant well idaw yny mod hwnn. Duw yr hwnn a anet or vorwyn wyry yrom ni pechaduryeit. ac a uu teir blyned ar dec arugeint ar y dayar yn diodef penyt. ac a drywestawd deugein niwarnawt yr amdiffyn y bobyl. ac y gwerthawd iudas yr idewon yr dec arugeint aryan. y pocni ae ffrowyllaw. ac a diodefawd agheu ymphren croc. ac a uu varw. ac a gladwyt. ar trydyd dyd y kyuodes o veirw. ac y daw dyd brawt y varnu arnam ni oll. boet ef ath iachao di ath varwneit. Vygharedic i. heb y brenhin. py un wyt. a pha le yth anet. Myn vy ffyd. heb y bown. mi a dywedaf it. Bown ym gelwir. ac yn hamtwn ym ganet. a mab oedwni y giwn iarll hamtwn. yr hwn a garut ti yn vawr gynt. Cresso wrthyt. heb y brenhin. a dwc yma gussan. a mi a dlywn dy garu. ac yna yd ystynnawd y brenhin y gyfoeth. ay dylyet idaw. a bown a dalawd diolwch idaw.

XLV. — Ac yna y kyuodes sabaot. ac a elwis ar

bown. ac a erchis idaw talu teyrnget yr brenhin yn gyflym oy athro. Heb y bown. Duw a diolcho iti. ny thalafi teyrnget idaw ym bywyt. Ponyt oed y pechawt a thruan a 'ryfed. gwedy llad o don vynhat ac gledyf. rodi vy mam idaw. am dylyet. a godef vy nehol inheu. ac wrth hynny. hyt pan iawnhaer hynny oll. ny thalaf i teyrnget. Yna y dywawt y brenhin. Dy vam di a wnaeth hynny. poet duw ae dialo erni hynny. cany cheisseis. i. genthi gwerth un geinawc or eidi. a minheu a rodeis it dy dylyet. Gwir a dywedy. duw a dalo yt. heb y bown. Yna y dywawt y brenhin. Bown. heb ef. mi a deleis yt dy gyfoeth ath gestyll ath dinassoed kyfoethawc. ath borthmyn ath gedernyt. a giwn dy dat am carawd yn wedus. a drwc y teleis y bwyth oc vab. Arglwyd. heb y bown. canys ediuar yw genhyt. mi ae madeuaf it. a madeint duw it. Heb y brenhin. da y dywedeist. ac yna galw ar was ystauell attaw. Kymer y ffon. heb ef. a ryuu y giwn dy hamtwn gwr clotuorus. a doro y bown y vab. ar ffonn honno eur coyth yw. ac yna y gelwis y brenhin ar bown. a rodi y ffon y bown. trwy dywedut wrthaw. Mi ath wnaf yn benhaf yn lloygyr. Arglwyd. ti a rodeist ystyn a medyant im. Duw a dalo it. A thrannoeth oed duw sulgwyn y kyuodes y brenhin. ac yd anuones yn ol bown. ac yr eglwys yd aethant. A chyn mynet yr eglwys y gwiscawd y brenhin y goron am y benn. a bown ae kymhwyssawd am y benn. ac escob gris a gant yr efferen. ac yr allawr yd aethant. ac ar benn eu glinyeu yd offrymassant trwy ewyllys da. ac y gyt ac ef tywyssogyon clotuorus.

XLVI. — A gwedy yr efferen y marchogyon a ymdanassant y rygthunt. ac y dywedassant. Arglwyd. heb wynt. y sulgwyn yw hwnn. ni a dlywn marchogaeth yn meirch a vuont yn swiwrn. Gwir a dywedut. heb y rei. trwy dyghu y duw. yr hwnn a rodo distryw arnunt. Ac yna deu o honunt a varchoccaassant deu varch drythyll tu ar porth. y neill o honunt oed a cherdedyat uchel ganthaw. ar llall yn rygygawc. ac uchel oed y dyd. ac ef a vyrywyt o benn y twr dec

gaflach arugeint. Ac yna y marchogyon a ympentyrrassant y gyt. ac ar y plas beri arwein eu meirch. ac yna yd oed arwndel yn drythyll yn llaw bown. ac ystynnu a oruc bown y mywn kyfrwy ac gorfeu eureit. ac ymdidan a oruc ar brenhin. A thra yttoed ef yn yr ymdidan hwnnw. y marchogyon ereill a dugassant hynt o vlaen bown yn lledrat. Ac yna nyt ymarbedwys neb o honunt ae gilyd. ac yna y gwahardwys y brenhin wynt. hyt na thorrei neb o honunt aelodeu y gilid. Arglwyd heb y bown. am ffolineb . . . vedy ny ellir hynny. Eissoes tra yttoed bown yn ymdidan ar brenhin. y marchogyon a racvlaenassant tri gyrua march ymblaen bown. ac yna bown trwy digoueint brathu arwndel ac yspardunеu dan y voli. Y fford a gymerth hyt pann gyuodes dwst y fford. ac vwrw y gan y gwynt yn wybyr rygthaw ar gwyr. Welwch. heb y brenhin. meint y cam y mae yn y wneuthur yr march. ac ny bu hir hyt pan edewis ef y deu varchawc o wascwyn agos y deir milltir. ac yn y diwed ef ae hedewis oll. Ac ymdidan aoruc ef ae varch. a dywedut wrthaw. March heb ef. beth a daruu it. drwc myn duw y kerdeis hyt hyn. canys pann erlityassant y rwnssicit clotuorus. a phan ledeisi tenebres. yna ti ae hedeweist. ac yna kyntaf ti am urdeist. A phan giglеu y march y arglwyd yn y voli yn well noc y cauas oe broui. y fford a gymerth. a racdaw y kerdawd. hyt na bu ciroet ederyn a allei y ganlyn. o achaws y canmawl a oruc y arglwyd arnaw. ny orffwyssawd yny deuth ar gyffined tref y tat. ac yna seuyll a oruc y march. ac edrych aoruc bown ar y tir yny gylch. ac adnabot y vot yn dyuot y dref y tat. Oia duw tat kyuoethawc. heb y bown. llyma y tir y dylyei vynhat bot yn geitwat trwy nerth duw. ac yma y paraf i wneuthur tref a chastell. ac arwndel vyd y henw. yr anryded y arwndel vy march.

XLVII.—Ac yna yd ymhoylawd. ac ny orffwyssawd yny deuth y lundein. a disgynnu aoruc ar grad o vein marmor. Ac yna y deuth sebaot. Arglwyd heb ef. llawer a gysgeist. Athro heb y bown. mi a enilleis o redec vy march mwy noc yd enillwys vy holl kenedyl ar

vor. Ac yna bwrw golwc o vab y brenhin ar varch bown. ae chwennychu ae erchi y bown. Ffol iawn y dywedy. heb y bown. pei medut ti ar holl loygyr. ath vot yn vrenhin coronawc. a rodi ohonot ti y mi yr enryded hynny oll. yr hynny oll ny rodwn vy march yt. Ac yna y digyawd y mab yn vawr. a galw attaw kyghorwr a oruc. yr hwnn y rodo duw mawr drwc idaw. a hwnnw a dywawt wrthaw. Doro deugein marchawc newyd urdaw ym. a phan el bown wrth y vwyt y lys dy tat. canys dy tat ae gwahodes. ni a awn y dwyn y varch. Ac yna yd aeth bown y letty. a rwymaw a oruc y varch a dwy gadwyn. a chymryt y ffonn aoruc. a mynet yr castell. ac mal y harganuu y brenhin ef yn dyuot. galw arnaw a oruc. a gouyn idaw py wed y daruu idaw. Ac ynteu a dywawt mal y bu. Diolwch y duw hynny. heb y brenhin. Mi a orchyuygeis y marchogyon. a hyt ar vynhir uy hunan y marchockeeis. ac ae henilleis. Ac yna mi a wnaf gastell. a hwnnw a alwaf arwndel. o enw arwndel vy march. A minheu. heb y brenhin. a gadarnhaaf hynny yn llawen.

XLVIII.—A gwedy gwybot o vab y brenhin mynet o bown y lys y tat. ef ar deugein marchawc y gyt ac ef a aethant yr ystauell. lle yd oed march bown. A gwedy eu dyuot yr ystauell. dynessau aoruc mab y brenhin at y march. a dyrchauel aoruc y march y deudroet. ae daraw ar y benn. yny vyd y emenyd yghylch y glusteu. ac yny neidawd y lygeit oe benn. Ac yna yd ymyuaelawd y gwyr ac ef. ac y cawssant yn varw. ac yna y gwnaethant elor. ac ae dodassant arnei. ac y dan leuein dyuot a orugant yr llys vrenhinawl. ac y dywedassant. Arglwyd vrenhin. drwc yth gyweirwyt. march bown a ladawd dy vab. A phan gigleu y brenhin hynny. ynuydu a oruc. Arglwydi. heb ef. kymerwch bown. mi a uynnaf y grogi. canys mawr ym digyawd. Arglwyd heb y bown. nyt velly y gwney di. os da gennyt. mi a wnaf iawn it wrth dy vod. Vy arglwyd athro. heb y bown wrth sebaot. dos y edrych peth a wnaethpwyt. Ac nys gohiryawd sabaot. yny deuth hyt y letty. a phan deuth. y mab a welas yn varw. Ac yna y deuth

sabaot at bown. ac y dywawt y chwedyl hwnnw idaw. Syr heb y bown. ys drwc a chwedyl yssyd genhyt. A phan gigleu bown son y brenhin ac modwrd hwynteu. ef a dywawt bot yn well ganthaw colly y dylyet. a thref y dat. no godef y smachteu hwynt arnaw ef. Ac yna y dywawt y brenhin wrth bown. Lwttwn heb ef. gat ym hedwch. ac erchi y varchogyon heb ohir y dala. Ac yd ymauaelassant ac ef. a dywedut a oruc y brenhin. y crogit ac na werthit. ac na rodit ar vachniaeth. A phan daruu udunt y dala. brice o vristeu. glois o gaerloyw. a clarice o leicetre oed truan ganthunt. ac a vynnynt y dianc. ac y dywedassant wrth y brenhin. y mae gogan mawr a gwatwar idaw am y gwr a welsant yn gwasanaethu gyr dy vron. ac oth fuol dyuot a mynet. ac wrth hynny nyt iawn it peri y lad. a pha ny bei daet y march. ae glotuorusset. ni a vynnem y diuetha. A phan gigleu bown hynny. gwrtheb aoruc udunt. a dywedut y gyniuer tiryoed ym gwasanaethawd i y march yndunt. ny adwn i diuetha y march. ac yna y dywedassant y ieirll. myn y gwiryoned gwir a dywedy. Ac yna yd adolygassant y ieirll yr brenhin tyghu y wlat idaw. a rodi y tir y sabaot. a hynny a gannaehawd y brenhin yn uuyd.

XLIX.—Ac yna yr arwedawd bown arwndel allan. ac yd yscynnawd arnaw. ac y dywawt wrthaw. Mawr a beth yth garaf. pann yttwyf yn colli vyn dinassoed am kestyll oth achaws. a cherydus vo a didarpo. c.nys digawn a enilleis. a digawn a enillaf. or caffaf iechyt ac einoes. Ac yna y kymerth y gledyf ae daryan. a chymryt y gennat gan y brenhin ygwyd y varwneit. a phawb yn edrych arnaw hen ac ieueinc. Ac ymhoylut at y brenhin. a dywedut. reit vyd y mi mynet ragof. cany allaf trigyaw yn y wlat honn. namyn gorchymyn yd wyf it na ettych heb gof synyeit wrth sabaot. yr hwnn a garaf yn vawr. Ac myn duw holl gyuoethawc. os ef ageis dy yrru y ar y tir a ryuu ym tat i. a phei bewn i gwedy mynet hyt ar bedwyrann y mor. mi a deuaf y nerthu ef. ae gynyscaydu. eithyr hynn nac ymdiret ti ymi byth hyt pan y heydych dy hunan. Ac yna yd

ymhoyles penn y varch y wrth y brenhin. dan y vrathu ac yspardunеu. Ac yna y dywawt sabaot. Duw ath nertho. eithyr na bydaf lawen byth ym bywyt. am golli vy mab maeth. Yna y kerdawd bown racdaw yny deuth y hamtwn at iosian. a galw a oruc attaw y holl varchogyon. ac erchi udunt gwneuthur gwrogaeth y sabaot y athro. Ac y dywedassant y mae ofer yd oed yn dywedut. Yn wir heb ef. y goruyd arnawch hynny. canys y brenhin ae ystynnawd idaw. a gwahardadwy wyf inneu or wlat. Arglwyd heb iosian. beth a daruu it. ac ynteu a dywawt. vy marchogyon yn wylaw. Ac yna y dywedei pob un wrth y gilid. Mat yn ganet. can yttym yn colli y marchawc goreu o gret. Yna y gelwis iosian ar bown. a gouyn idaw pwy a arwedynt gyt ac wynt. a pha beth. Arglwyd heb y sabaot. terri vy mab. ac scopart a ant gyt athi. a chywynnu a orugant. ac yr mor yd aethant. ac yghwlwyn y doethant yr tir.

L.—A gwedy bot yno wers yn swiwrn. medylyaw a oruc mynet racdaw. Ac yna y gouynnwys copart y bown. beth a wnaei ymdanaw ef. Ynteu a dywawt y mae y adaw gyt a sabaot. ac y rodei tir deu varchawc idaw y ymborth arnaw. Ac ynteu ae diolches idaw ar y eir. ac a ymhoyles yn drist ac yn irllawn. Eissoes y dyd a ediw. ar nos a deuth. y kymerth y twyllwr y fford. a racdaw y kerdawd yny deuth trwy y mor y mambrawnt. ac mal y harganuu y brenhin ef. galw arnaw a oruc. a gouyn idaw pa le y buassei yn trigyaw yn yr hyt y bu. Arglwyd heb ynteu. ny chelaf ragot. mi a fuum ys blwydyn yn keissaw y palmer a lettyeist ti. ac ae gweleis. Yr mahwn. pa le y kefeist ef. heb y brenhin. Yn lloegyr arglwyd. yny lle y mae tir mawr idaw. ac o achaws gweithret dybryt a oruc y varch. nyt amgen no llad mab y brenhin. y deholet ef or wlat. ac wrth hynny moes ym gant o sarasineit dewraf gyt a mi oc geissaw. canys kyuarwyd wyf. i. a heb ohir y parannwyt y canwr idaw. a racdunt y kerdassant yny doethant hyt yghwlwyn. a boet dryc diwed udunt. Ac yna boreugweith yn uore y kyuodes bown ac y deuth sabaot attaw y gymryt kenyat y vynet y wlat. ac ynteu ae

kenhadawd. ac yna bown a therri a ymdryssassant o eur ac aryant. ac ar y tir y bu ganthunt kwynuan mawr a thristwch. wrth ymwahanu wynt ar marchogyon a sabaot. ar marchogyon a gerdassant racdunt.

LI.—Hynt bown uu mynet trwyr mor trwy drallawt. a gwedy eu dyuot yr tir. yskynnu aorugant ar eu meirch clotuorus. a marchogaeth yny doethant y fforest. a iosian yn marchogaeth y rwg bown a therri. ac yna dyuot amser y thymp idi. ac mor yg uu erni. dodi llef a oruc. Arglwydes heb y bown. a uynny di y mi drigyaw gyt a thi. yth cadw ac y wylat dy vab. ac y wneuthur yr hyn a uo da genhyt ti. a mi a rodaf vy llw ym bywyt na byd llei yth caraf no chynt. Arglwyd heb hi. ny vynnaf. cannys herwyd a giglef i. nat iawn bot gwr yny kyfryw le hwnnw. Dos di ychware. a gat rofi a iessu grist. ar arglwydes veir wrth escor. Hwynt a ymhoelassant y wrthi trwy dolur a thristwch. a hitheu a drigyawd chunan. ar amser da a deuth y ganet deu vab idi. A chan y gwannet hi. ny allwys leuein. pan doeth copart ar sarasinieit etti. ae chymryt. ac adaw y deu uab yn y lle y buassei y mywn deil yn ymgreinaw. a mynet a orugant a hi ganthunt tua mwmbrawnt. a boet iessu ae distrywo. Ac ymphen talym nachaf bown a therri yn dyuot y geissaw iosian. a chlybot y meibyon yn germein. a ffrystyaw a wnaethant. a dywedut rywyr ydym yn kerdet. A phan deuthant lle yd adawsont iosian. nachaf y gwelynt y meibyon mywn y deil. a heb dim o iosian. Oia iosian. py du yd aethost ti. mwy yth caraf na dim or awnaeth duw. Ac yna y torrassant eu crwyn gra. ac a dodassant y meibyon ymplyc y rei hynny. ac y kymerth bown y neill. a therri y llall. ac yscynnu ar y meirch. ac y geissaw iosian o vrenhinyaeth y gilid yd aethont. ac am nas cawssont. dic uuant a thrist.

LII.—Tewi weithon a wnawn am bown. a dywedut am sabaot. Mal yd yttoed yny ystauell yn kyscu. ef a welei breudwyt mal nat oed hoff ganthaw. sef ryw vreudwyt a welei. cant o lewot yn achub bown. ac yn dwyn y varch rac bown. ac odyna ef a welei y vynet y seint

gilys y geissaw trugared. A duhunaw aoruc. a menegi y wreic yr hynn a welsei. a hitheu a erchis idaw nas kymerei yn drwc arnaw. a dywedut daruot y bown colli iosian. a geni deu vab idi. Ac yna sabaot a gymerth gwisc pererin ymdanaw. ac a gauas llog vawr a elwit dromwnd. ac yn honno yd aeth trwyr mor. ac ny orffwysawd yny deuth y seint gilys. A phan deuth yr dywededic le. yr eglwys a gyrchawd. ac y offrwm yd aeth. ac ugein o gydymdeithon gyt ac ef oe wlat. Ac yn dyuot udunt or eglwys y kyhyrdawd ac wynt iosian. A phan y gwelas sabaot llawen uu. Arglwydes heb ef. mae bown a therri. Syr heb hitheu. ymwarandaw a mi. ef a damchweinawd geni deu vab ym mywn fforest. a thra yttoedwn yny damwein hwnnw. mynet a orugant bown a therri yr coet y droi. ac yn hynny dyuot or sarassinyeit racco am dwyn ganthunt. Ae sarassynyeit ynt. arglwydes. Ie heb hitheu. wely di y twyllwr a beris bown y vedydyaw. Sef aoruc sabaot dyrchauel y ffon. a tharaw y traytwr ar y benn. yny dygwydawd yn varw. ac o lef uchel erchi aoruc sabaot yr pererinyon taraw y sarassinyeit. Ac yna pererinyon ac eu ffynn a drawssant y sarassinyeit. a phorthmyn y dref a deuthont. ac y llas y sarasinnyeit oll. Ac heb ohir y kymerth sabaot iosian. Heb yr hitheu. yn digelwyd dywet ym pa wed yd arwedy ui trwy y gwledi hynn. Heb y sabaot. na vit arnat un ofyn. ti a wisky wisc gwr ymdanat. ac yn aruer gwr ti a gerdy. Heb hitheu. nyt afreit ym ymoglyt. Ac yna sabaot a gymerth gwisc pererin ymdanaw. ac ymdanei hitheu gwisc adfwyn gwrawl. Ac yna yd aeth iosian y rodyaw y varchnat. a phroui a oruc hi llysewyn. ac ny welas eiroet llysewyn well. canys a hwnnw y gallei wneuthur y mynnei ar y hwyneb ae chorff.

LIII.—Ac racdunt y kerdassant heb orffowys y geissaw bown a therri. a hyt ymratffort y deuthant. Ac yna y clyuychawd sabaot. ac y bu seith mlyned a thrimis kyflawn yn glaf. ac yn hynny dydgweith dechreu medylyaw am bown aoruc iosian. a chanu idaw. ac edrych ar hynny aoruc sabaot yn graff. Hynt bown ryuelwr uu

a therri pann doethant y maes or coet. kyhwrd ac wynt fforestwr cwrteis. ac amouyn ac ef aoruc yny mod hwnn. Py un wyt varchawc adfwyn. Myn vygeret heb ef. fforestwr wyf. a pha un wyt titheu. Syr bachler tebic wyt y wr ar ormot kerdet. ac y velly yd ym heb ynteu yn wir. gwreic a uu y mi. ny anet y chyntecket. ae cholli a wneuthum. ac wrth hynny trist wyf. ar deu vab hynn aanet idi. Doro y neill attaf vi. a mi a baraf y vedydyaw ae vagu. ac ny cheissaf gennyt ti werth un geinawc yr hynny. yny delych dracheuyn. heb y fforestwr. a diolch idaw a oruc bown canweith. a gouyn a wnaeth y fforestwr. py enw a dodit arnaw. gi o hamtwn. y dinas ar y mor. heb y bown. ac yn gyflym dwc yr eglwys. ac ymiachau a orugant. ac racdunt y kerdassant. Ac yna y kyhyrdawd pyscodwr ac wynt. ac y rodassant y mab arall attaw ar vaeth a degmorc ganthaw. ac y peris ynteu y vedydyaw. Ac yskynnu ar eu meirch aorugant ac ymiachau. ac ny orffwyssassant yny deuthant y dref a oed gyfagos. a chymryt eu lletty a orugant ynhy garsi porthman or dref. ac yn esmwyth y cawsant. A phan daruu udunt bwyta ac yuet dogyn. ac eu meirch dogyn. eu gwelyeu a oedynt barawt. y gysgu yd aethant. Ar bore pan uu eglur y dyd. edrych a wnaeth bown allan. a gwelet aoruc ef penyadur. ac amcan y vil o wyr gyt ac ef yn arfawc. Ac yna yd achubawd bown udunt yn gyntaf ar arwndel y varch clotuorus. ac yn gyntaf y trewis ef yr hwn a oed yn dwyn y maner. a hyt tra barhaawd y wayw. ef ae troes wynt y agheu. a therri vegys marchawc da a ladawd arall. ac a gymerth y amws herwyd y afwyneu. ac ae rodes y lettywr. yn hur y letty. a phei na damchweinei dyuot bown. ef a yspeilyssit y dref. ac ae lloscyssit.

LIV.—Pan deuth bown. ac eu hymlit. o lef uchel dywedut wrth wyr y dref. ef ach anreithir ony bydwch ffenedic yn awch amdiffyn trwy dewrder. hyt na cheffwch byth werth un geinawc oc yssyd yn y dref. Ac yna ymwan aoruc bown. ac ymhoylut a orugant oll at y trywyr. ar trywyr hynny aorugant. ac ny wydynt o py le pan hanoydynt. na pha le y gennyssit. a digyaw

aoruc bown wrth y bobyl hynny. a tharaw penn iarll y ergyt y arnaw. ac anuon yn anrec yr unbennes bioed y dref. A gwelet aoruc hitheu y dyrnodeu a rodes bown. a hoff uu genthi. a bwrw y charyat arnaw ef a oruc hi. Ac ar hynny y teruynawd y gyfrageu. a chyrchu eu llettyeu a orugant bown a therri. a pharawt oed eu bwyt gan y llettywr. A gwedy daruot udunt vwyta ac yuet dogyn. ef a athoed y rei ereill yr llys. a diolwch mawr a oruc hi yr marchogyon ae hanregawd. A gwell uuassei genthi pei cawssoedei y trywyr racdywededic. yr arglwydes a anuones y synyscal y erchi vynet yn ebrwyd y gyrchu y marchogyon. ac ynteu aaeth. ac ny ffynnyawd racdaw. A phan gigleu hi na doent. hi a aeth ehunan hyt attunt. a phan y gwelas bown hi yn dyuot. ymgymhwyssaw aoruc. a hitheu a gyuarchawd well idaw val hynn. Duw. yr hwnn an creawd. ath iachao di vygharedic. mi a anuoneis attat y adolwc yr dyuot attaf. a thitheu a diogeist. Arglwydes nys medylyeis. namyn os gallaf yn vore mi a gychwynnaf odyma y geissaw iosian vygwreic a golleis kyn echdoe y bore. ac y duw y diolchaf. deu vab aedewis ymi. Heb yr unbennes. ryued yw hynny. a thitheu kymer vi yn wreic yt os mynny. Vychwaer dec. heb bown. peit a hynny. yr yssyd ytti. ny wnawn i hynny. a bot yn dwyllwr. A thrwy hynny. tyfu kynhen y rygdunt. hyt pan digiawd bob un o honunt. ac y begythyawd y vrenhines peri llad y ben. Arglwydes heb bown. gwarandaw arnaf vi. trwy yr amot hwnn yma mi ath gymeraf yn wreic ym. ony chaffaf gyuot ar Josian ody vywn seith mlyned hynn a phetwar mis. Ac yn llawen. heb hi. da y dywedy. ac ar hynny y teruynwys yr amrysson rygthunt. ac y gysgu y nos honno yd aethant.

LV.—A thrannoeth y bore y kyuodes y iarlles. a thros y bont yr eglwys yd aethant. ac archesgob gris a gant yr efferen. ac a wnaeth eu priodas. a phan daruu yr efferen y llys a gyrchassant. dwuyr y ymolchi a gymerassant at eu bwyt yd aethant. a marchogyon urdolyon aduwyn yn gwasanaethu arnunt. A gwedy bwyt yd

erchis bown yr ieirll vynet ar neilltu y rodi udunt rydideu. a dyuot o honunt hwynteu y rodi gwrogaeth idaw ynteu. a gwedy daruot udunt talu teyrnget a gwrogaeth idaw. y dyd a ediw ar nos a dyuu. Y gysgu yd aethant ody vywn paleis brenhinawl. a thrannoeth pan dwyrhaawd y dyd y daeth duc uascal ay wyr. ac a gyhyrdassant a duc dostris. ac y gyt y daethant y ryuelu ar arglwydes y dref. ac y gyt ac wynt yd oed pymtheg mil o wyr aruawc. a gyrru ei meirch aorugant megys gwyr kyndeirawc. Ac ny orffwyssassant yny doethant yr dref. trwy distryw y wlat heb trugarhau wrthunt o dim. Ac yn vore y kyuodes bown a chlybot aoruc y son. a phan wybu ef yr ystyr. ef a orchymynwys y wyr gwiscaw y harueu. A gwelet a oruc y llurigeu ar helmeu yn discleiraw. ac y gwiscawd ynteu y gledyf. Ac yscynnu a orugant ar eu meirch. ac yscynnu yn gyntaf aoruc bown ar arwndel. a chyt ac ef terri marchawc clotuorus. ac ymlaen achub y soze. ac daraw yny holltes y daryan. ac yny ballwys idaw y luric. ac yny aeth ynteu yr llawr yn varw. Ac yna terri a achubawd. . . . a thrwy vawred y daraw yny dygwydawd yn varw yr llawr. Ac yna y dodes bown eri. ac erchis y varchogyon clotuorus ac eu cledyfeu awchus taraw dyrnodeu da. a phob un yn mynet dros y gilid. a mawr uu yr ymlad gan y cadeu trymyon. Niuer y dref a enillawd y maes. a rei ereill a gilyassant y ystlys brynn. ac o vlaen y niuer y marchoccaawd bown. a therri ny bu hwyra. ef a ladawd agos y deugein. Ac yna bown a ymlidyawd duc uascal. a phan ymhoelawd penn y varch at bown. ef a dorres bown y wayw yndaw heb odric. ac yny aeth ynteu yr llawr. ac yna tynnu morglei y gledyf a oruc ar vessur llad y benn. ac yna erchi trugared aoruc. ac ystynnu y gledyf at bown. ac ynteu ae kymerth. Ac odyna yd ymlidyawd ef duc dostris. ac ae trewis ar y luric dyrnawt mawrbraff. ac ar y helym yr eil dyrnawt. yny dorres yn deu. ac yny dygwydawd ynteu yn varw. Tec oedynt y bydinoed a orchyuygawd bown. ac ar hynny y teruynnawd y vrwydyr. ac yna yd aethant yr llys. ac eu bwyt a gymerassant. A mawr y carei bown

yr unbennes uonhedic. a seith mlyned y buant y gyt. ac ny bu kyt cnawt rygthunt mwy no chynt. A dydgweith mal yd oedynt velly. galw a oruc yr unbennes ar bown. a dybygy di caffel vy holl ewyllys i ual hynn. Ef ar allei y mi y gaffel. heb y bown.

LVI.—Weithon tewi a wnawn am bown. a menegi am sabaot. nyt amgen no dyuot gwaret idaw oe gleuyt. diolwch y duw. a galw ar iosian a oruc. Ni a awn y geissaw vy arglwyd. Iawn a dywedy. heb hitheu. Ac yna yskynnu a orugant ar eu meirch. ar fford a gerdassant. a dyuot a orugant diwarnawt am awr osper y dinas urdedic. a elwit amulis. gwedy keissaw eu harglwyd ar draws yr holl vrenhinyaeth. ac ynhy wrda or dinas kymryt lletty a orugant. Ac yna yd aeth sabaot yr llys. a phan deuth y mywn. kyntaf dyn a welas bown yn eisted ar veinc. a chyr y law y wreic vwyaf a garei yn yr amser hwnnw. cany wydat dim y wrth iosian. a chyrchu attaw ef a oruc. a chyfarch gwell idaw yn y mod hwnn. Arglwyd duw ath iachao di. ac a gerych. Ac yna y gouynnawd bown wrth sabaot. Py le yth anet. Arglwyd heb ef. pererin o vrenhinyaeth arall wyf i. ac yny dinas yd wyf ys dydyeu. a dyuot attat ti y erchi nerth yr duw. A thitheu vygharedic. heb y bown. a geffy digawn. A galw ar terri. a dywedut wrthaw. a wely di y tybycket ef y sabaot. a dyro vwyt idaw. Mi a rodaf digawn it. gann debyccet wyt ym tat. Duw a diolcho yt. heb y sabaot. Ef a dywedit ym gwlat dy uot ti yn vab ymi. Ac yna y diolches terri y duw welet y dat. a redec at bown. a dywedut wrthaw. y mae sabaot oed y pererin. Ac yn gyflym yd achubassant attaw. ac yd amouynnassant ac ef am iosian. Ac ynteu a dywawt y gwydat chwedleu y wrthi. a menegi y bot ynhy wrda yn lletty. Ac yna mynet aoruc bown a therri a sabaot tu ae lletty hi. a hitheu a ymolches or lliw a oed erni. yny ydeed yn y lliw chunan. a phan doeth bown a therri etti. y chymryt a orugant. ae harwein gyt ac wynt hyt at y duces. A phan y gwelas y dukes hi mor dec ac y gwelas. a mor adfwyn. gouyn a oruc y bown ae y wreic

briawt ef oed honno. Ie arglwydes. heb y bown. Kymer di dy wreic. heb hi. a dyro y minheu terri. Mi awnaf hynny yn llawen. Ac yna y llawenhaawd pob un or gwraged wrth y gilid. ac yna y deuth tatmaetheu y meibon ar meibon gyt ac wynt yr llys. ac yna y buwyt llawen wrthunt. canys menegi a oruepwyt udunt vot bown yn y dinas. Y fforestwr yn gyntaf a deuth a gi y vab maeth gantaw. ac ny bu hwyrach y pyscodwr nemawr noc ynteu. Ar fforestwr yn arwein gi gyr y law. ar pyscodwr yn arwein miles. a phan y gwelas bown wynt. galw aoruc arnunt. a llawen uu wrthunt pann y gwelas. a mynet dwylaw mynwgyl udunt ychwanec y ganweith. a diolwch y eu tatmaetheu yn vawr. A phriodi y dukes a oruc terri. a llawen uu iosian o achos ynryded terri. ac yny dyd hwnnw iach a llawen oed y meibon. a gwedy eu bwyt y chware yd aethont. a mawr uu y llywenyd ar glodest a ryuu ganthunt. A gwedy daruot y bown eu gwahanu. y chware tawlbort yd aethant. yr hwnn a dyscassit yn da udunt. Ac yna galw aoruc bown ar un oe wasanaethwyr. ac erchi idaw dwyn dogyn o arueu gloywon. ac urdaw tatmaetheu y meibon yn varchogyon urdolyon. a rodi y pob un o honunt petwar emys. a digawn o eur ac aryant. a gwedy hynny kennat a gymerassant. Ac yna y deuth pawb or barwneit ar dukes ar ieirll y rodi gwrogaeth y terri. yny megys y dywedir y ni yn yscriuenedic.

LVII.—Bellach y dywedwn am ermin. bot inor vrenhin yn ryuelu arnaw. a hynny a gigleu bown. a galw ar terri aoruc. ac erchi idaw anuon kenhadeu ar hyt y wlat y gynnull pymthegmil o varchogyon dewron clotuorus y vynet y gyt ac ef. Syr heb y terri. mi a af gyt athi. Nac ey ysguir. heb y bown. ot anuonaf vi ar dy ol. dyret titheu. namyn sabaot a vynnaf gyt a mi. canys ny phallawd ym eiroet. lle y bei reit wrthaw. A pha gyhyt bynnac y trigwys bown yn ciuil. ef aennillawd terri vab oe wreic briawt. ac yd ennillwys bown verch oe wreic ynteu. a bown oed enw mab terri. a betris oed enw merch bown. Ac yna yd erchis bown yr marchogyon peri trwssaw eu swmereu. Kennat a

gymerassant. a pheri y veibon yscynnu ar eu meirch. a iosian ae merch. a chyt ac wynt pymthegmil o varchogyon aruawc. ac ny orffwyssassant yny deuthant hyt ymratffwrt. A chennat a anuonassant oc eu blaen at ermin vrenhin. y venegi eu dyuodyat. ac yna yd oed ermin gwedy driggaw y ben y twr yr amser yd oedynt yn dyuot. ac arganuot bown yn dyfot a phymthegmil y gyt ac ef o wyr aruawc. Ac yna galw aoruc ar y ieirll ae varwnyeit. a dywedut wrthunt y gwelei bydin-oed marwawl. ac ar hynny nachaf y genhat yn dyfot. ac yn menegi yr brenhin y mae bown oed hwnnw ae niuer. ac erchi idaw nat ofynoccaei. Ac yna y diolches y brenhin y duw y welet yn y mod hwnnw. a phan deuth ar ogyfuwch ac ef. dygwydaw a oruc ar ben y linyeu rac bron bown. a dywedut wrthaw. Syr or gwneuthum dim gwrthwyneb. mi a wnaf iawn. Syr heb y bown. mi a uadeuaf iti. eithyr ny byd kyfundeb byth y rom. hyt pan gaffaf dial ar y gwyr am cam cyhudassant yn bechadurus. Heb y brenhin. ti ae keffy wynteu. Ac yna y kymerth bown hwynt. ac ae dryllywys yn drylleu. ac y deuth iosian. ac a gyhyrdawd ae that. ac a aeth dwylaw mynwgyl idaw. ac y gofynnwys idaw a oed gyfundeb y rygdaw a bown. Bu vy merch y dec. heb ynteu. Arglwyd. da y daruu yt. heb yr hi. canys goreu marchawc o gret yw. Odyna yd aethant yr llys vrenhinawl. ac yd arwedwyt iosian yw ystauell yn hard o bryt. ac odyna y galwassant ar swper. y barwneit ar meibon a deuthant racdunt oc eu stauelloed. A phan y harganuu y brenhin y meibon. galw aoruc arnunt. ac wynt a doethant attaw yn llawen. ac ynteu aaeth dwylaw mynwgyl udunt. a gouyn a oruc pwy henaf onadunt. Yn wir heb y milys. henaf yw gi, a thi a elly y wybot. canys mwy yw y gorff ef. a phedroglach. Ac yna bwrw aorugant eu mentyll y wrthunt. a redec a wnaethant ar hyt y llys. a gi a ragorawd ar milys yn ygwanec y vryt. ac eu harganuot a wnaeth y brenhin hwynt. a galw arnunt. Gi heb y brenhin. mi ath wnaf yn vrenhin coronawc. am holl vrenhinyaeth a rodaf yt. Arglwyd os da genhyt. nyt

velly y gwney. dyro ym tat os da genhyt. canys da y keidw ef. ac nyt wyf varchawc urdawl inheu. A mawr uu y llewenyd a uu yn y llys y dyd hwnnw. ac yuet y gwin a orugant. a phan oed gysgu arnynt y gysgu yd aethant.

LVIII.—Weithon tewi awnawn am ermin. a dywedut am inor vrenhin cadarn. py wed yd anuones y wyr y warandaw y wrth terri a bown a sabaot a milys a gi. a Josian priawt bown. A gwedy cael chwedleu y wrthunt. ac yna anuon a oruc ar hyt y gwledi y gynnull llu. ac yna y deuthant deg mil arugeint o wyr aruawc hyt ar weirglawd y dan castell bratmwnd. a mawr oed y son a oed ganthunt. Ac yna yd yskynnawd bown yr ystauell vrenhinawl. a gwiscaw yndanaw lluric a helym discleiredic. ac a wiscawd morglei y gledyf ar y ystlys. ac yd yskynnawd ar arwndel y varch mywn corueu eureit. ac y gyt ac ef oed degmil ar hugeint yn aruawc. a bown a atwaenat arwndel y varch. ae vrathu ac ysparduneu. a chyrchu un admiral. ae vrathu ae wayw. yny byryawd yn varw yr llawr. a thra baraawd y wayw ef ae byryawd a gyhyrdawd ac ef. A sabaot a gyrchawd arall ac ae lladawd. Ac yna bown a dodes cri. ac a erchis y wyr eu ffustaw. ac wynt a wnaethant wrth y ewyllys. Yna y dechreuwyt y vrwydyr hyt pan dryllywyt y llurigeu. a hollti y taryaneu. hyt pan uu drwc i inor y kyhwrd y dyd hwnnw. canys pymthegmil o wyr aruawc a golles. Ac yna yd ymhoelassant tua mwmbrawnd. a bown a sabaot ae hymlidyawd. ac ny thygyawd. ac ymhoelut aorugant y bradmwnd drachcuyn. a thec oed y vydinoed a orchyuygawd bown. Ac yna y deuth ermin yn erbyn bown. ac a dywawt wrthaw. O bown heb ef. mawr yw dy glot. ac y mywn yr llys yd aethant. ac eu diaruu a orugant.

LIX.—Chwedyl inor uu galw ar y synyscal attaw. a gouyn kyghor idaw. Ti wreanc heb ef. dyro gyghor ym am vygwyr a golleis. Arglwyd heb ef. ti a geffy gyghor da. anuon o honot hyt yn babilon heb oet at yr admiral y venegi idaw. ac y erchi idaw dyuot a phymthec brenhin coronawc gyt ac ef. a chyt a phob un

ugeinmil o wyr aruawc. Llyna gyghor da. heb y inor. ac yn diohir gwneuthur llythyreu. ac anuon kenhadeu hyt yn babilon. ac mal y gwelas yr admiral y llythyreu. ny orffwyssawd yny doeth ef ar pymthec brenhin gyt ac ef. ac ugeinmil gyt a phob un hyt ymwmbrawnd. A phan welas inor wynt. llawen uu. a mynet yny erbyn. a chyfarch gwell udunt. ac eu cressawu. ac eu kymryt y gyt ac ef yr llys. a menegi udunt yr hynn a wnathoed ermin a bown idaw. llad y wyr. a dwyn y dressor yn lledrat. a iosian y wreic ynrydedus. Yna y dywawt yr admiral. A elli di broui hynny. Gallaf heb y inor. corff yn erbyn corff. Da y dywedy. heb yr admiral. Yd oed y bown yspiwr yn gwarandaw arnadunt. a phan welas hwnnw y darpar a oed gan y niuer hwnnw. ymhoelut y bratfort a oruc. a menegi y bown ac ermin y darpar a oed ganthunt. A phan gigleu bown hynny. chwerw a dolurus oed ganthaw. ac heb ohir anuon kennat hyt yn ciuil at terri. A phan gigleu terri hynny. ny orffwyssawd na dyd na nos pymthegmil o wyr aruawc gyt ac ef. a bown y vab y gyt ac ef. hyt pan deuthant y vradmwnd. A phan welas bown wynt. llawen uu. ac yskynnu ar arwndel. a mynet yn eu herbyn. a dyuot at terri y dan chwerthin. a gouyn idaw a oed iach y wreic. Iach heb ynteu. duw a dalho yt. a thri meib yssyd ym. Myn vympen. heb y bown. bodlon wyf am hynny. a mynet dwylaw mynwgyl idaw a oruc. a mynet racdunt yny deuthant yr llys. A phan y gwelas iosian. llawen a hyfryt uu. Milys a gi a deuthant y dan redec attunt. a llawen uu terri pan y gwelas wynt. ac yna y dywawt terri wrth bown. Syr heb ef. par yth varchogyon clotuorus yskynnu ar eu meirch. cany oedwn ni vynet tu a mwmbrawnd. canyt dyly neb or a elei y ryuelu bot yn diawc. A heb ohir gwiscaw aorugant eu harueu ymdanunt. ac yskynnu a orugant ar y meirch drythyll. a marchogaeth aorugant hyt dyd a hyt nos.

LX.—A phan deuthant y vwmbrawnd lluestu awnaethant. a phan gyuodassant y bore. ny welynt neb a ymgyffelybei udunt. Ac yna kyrchu preid aorugant y maes oe muroed. ac yna y kyuodes y cri ar lleuein arn-

unt. ac y deuth yn yghwanec y deugein mil o wyr aruawc or dinas or sarassinyeit. ac o vlaen y rei ereill ffawcwnyeit. ac o ragu toruoed o genedyl a elwir donnes. ac o lef uchel oedynt kyrchu y cristonogyon. A phan gigleu terri hynny. brathu y varch ac ysparduneu. a tharaw dyrnodeu mawr ar eu penneu. a bown yn dyuot attaw. ac yn llad y sarascinyeit a elwit roffons. Y vrwydyr a barhaawd yn vawr ar y ffelwnyeit. a llawer lluric a dryllywys ac a vriwys. a bown yn ymgelydus am arwndel rag y ragwns. A tharaw un ar y ben yny dygwydawd yn varw maes oe gyfrwy. ae gedymdeithon nyt ymarbedassant. megys barwnyeit dewron. Mawr uu y vrwydyr a balch. a mawr ydoed bown a therri yn darestwg onadunt. A sabaot nyt oed lwfyr. canys y neb a drawei. marw vydei. Ac ar hynny nachaf inor yn dyuot a phymthegmil o arabieit y gyt ac ef. ac yna y kyhyrdawd bown ac wynt ar arwndel y varch. ac y tynnawd morglei y gledyf. a rodi dyrnodeu mawr ac ef ar eu taryaneu. hyt pan syrthynt. neu wynteu a ledit yn gyflym. A gossot a oruc ar inor. ac ynteu a erchis y nawd. ac erchi y dala ac na ledit. Mi a wnaf hynny heb y bown. Ac yny vrwydyr yd oed sabaot a therri yn rodi dyrnodeu diarbet. ac yna y brathawd yr admiral condin. a thrwy lef uchel erchi aoruc yr cristonogyon clotuorus rodi dyrnodeu yn iawn. A ffo a orugant y pawmwnys. a their milltir oed yn hyt y llu. a hyt yn mambrawnd y ffoyssant.

LXI.—Ac yna yd ymhoeles bown y dinas bratmwnd. ac y eu llettyeu yd aethant y marchogyon dewron. ac ymdiaruu aorugant. Ar meibon a redassant at eu tatdeu y dynnu eu harueu. ac a archassant y tat gwiscoed ac arueu. ac erchi idaw eu hurdaw yn varchogyon. canys mawr ym a chryfyon. Vy meibon y tec. ry dyner yw awch cnawd y dwyn arueu trymyon. a phan voch gryfyon chwi a geffwch ar vrys arueu. heb y bown. Ac yna yd oed bown a therri a sabaot ac inor ar veinc yn eisted. Peth. heb y brenhin mwmbrawnt. a gymery di o werth drossof i. ac nym dihenydych. Myn vymphen i. heb y bown. nyth dihenydir. tyghu a wney ffydlondeb. ac enwi y gwerth. A thyghu aoruc ef y dwyeu ef. y vahwn ac

appolin a thermagawnt y bydei uuyd ef wrth y hewyllys wynt. Ac yna yd enwis y brenhin swmp o da. nyt amgen no chan meirch. a chan pwnn arnunt o eur ac aryant. a thrychant gwely o eur ac aryant. a chymeint arall o gylchedeu a chlustogeu. a phetwar cant o ffioleu ac eu cloryeu arnunt. a phum mil o licineu bordeu o eur gwedy restru. a phum cant o lewot. a phump cant o eirth. a mil o swmereu eureit. a mil o lurygeu da gloywon ac a berthyn o helmeu. a hynny a rodaf it yr caffel vy mywyt. ac a vydaf i ryd weithon. Myn vymphen heb y bown. ti a drigy yny welwyf i y da. Ac yna galw a oruc Inor y genhyat attaw. ac erchi idaw vynet hyt y mwmbrawnt at y dirgeledic was ystauell sabaot. ac erchi idaw anuon attaw y da racdywededic. a menegi y vot yn caffel y rydit ae vywyt er hynny o da. Ac yna y kerdawd y genhat racdaw yny deuth ar sabaot. a rodi y llythyryn y law. ac edrych a orucyn y llythyr ae darllein. a dywedut wrth yr admiral y gorchymyn a deuth attaw. a diolwch y mahwn a orugant. A dygynnull a orugant y tressor. y gyt a deg mil o pawmwneit a anuonet y hebrwg y dywededic amryuaelon daoed. ac yn da ganthunt y gaffel yr kyuychanet a hynny o werth. ac yn un dyd y doethant hyt ymratmwnd. a bown ae herbynyawd wynt. a gellwg inor a orugant. a chollet mawr uu hwnnw y bown gwedy hynny. mal y treithir rac llaw.

LXII.—Weithon y traythwn o Ermin vrenhin. a thewi am inor. Cleuychu a oruc ermin. ac y mywn llofft yd oed yn orweidawc. a medylyeit a wnaeth taw hir y buassei yn llywyaw y vrenhinyaeth. a diolwch aoruc y duw. ac erchi peri dwyn gi vab bown gyr y vron. a dywedut a wnaeth y gwnaei ef y bore yn vrenhin. a miles yn duc. ac y velly y dosparthaf i vygkyuoeth. A phan gigleu bown hynny wylaw a oruc. a pheri dwyn y brenhin yr eglwys. ac anuon yn ol yr escob y gyffessu. a rydit a gauas oc holl bechodeu. a dygymot a duw. Ac yna yd urdwyt gi a bown vab terri. ac ugeint o uachleryeit gyt ac wynt. odyna peri dwyn y goron. a choronhau gi ohonei. Ac wrth hynny

yd oedynt escyb ac abadeu. a mawr uu yr offrwm a doeth yr allawr. Ac yn hynny yd aethant yr egylyon ar eneit yr nef. Bellach y mae gi vab bown yn vrenhin coronawc. a miles yn duc clotuorus. ac yn y dyd hwnnw y cladwyt y brenhin. a gwedy yr aglad yd yskymassant ar eu meirch. ac y dywawt yr un wrth y gilid. ymhoel tu ar maes. a dabre y ymwan a mi. a phan welo yn tat ni hynny. canmoledic vyd ganthaw. Ac yna y gwelit dyrnodeu gan varchogyon ieuinc. a phan welas bown yr ymwan. hoff uu ganthaw. a thygu. myn vymphen heb ef. bachylereit da vyd y rei hynn. or bydant vyw. ac yd ymerbynnant ac eu kyffelybyon Torri a orugant eu gwewyr. kedyrn oedynt eu llurygeu. nyt argywedawd neb o honunt ar y gilid. Yr arglwydes veir. heb ef. y gorchymynaf ymdiffyn ym vy meibon. Ac yna y dywawt bown o lef uchel. gedwch ar hynny bellach. A phan gigleu y meibon eu gwahard. wynt a gyrchassant y llys yn gyflym. a phan welas eu tat wynt yn dyuot. mynet yn eu herbyn a oruc. a phan yttoedynt yn mynet. ef a deuth sabaot at bown y erchi kennat. Arglwyd heb ef. mi a uynnaf genhat y vynet ym gwlat. y ymwelet am gwreic. ac am tir am dayar. canys seith mlyned yssyd yr pan yttwyf gyt athi. Hwde heb y bown y vantell honn o eur. a dwc yth wreic. ac anrecca y gennyfi hi or ffiol hon. cany chaffat eiroet ffiol well no hi.

LXIII.—Ac yna yd ymiachawd a bown ac ar niueroed. an yn rith pererin y kerdawd. ac fford a gymerth yny deuth hyt yn ciuil at terri. Ac odyna y deuth fford at y pab y gymryt y benyt am y trigyaw aoruc y wrth y wreic briawt yn yr hyt y bu. Odyna yd aeth hyt yn seint gilis. ac yna yd aeth yr llong. a dyrchauel hwyl. a dyuot y hamtwn a oruc. pan yttoydit yn canu cloch hanner dyd. Ac yn ymyl porth y llys y deuth. ac yna y kyhyrdawd a roboawt y vab ac ef. ac erchi lletty yr duw a oruc udunt. ac yr mwyn sabaot wynllwyt. Nyth nekeir heb yr arglwydes. ac yna mynet y gyt ac ef yr neuad heb odric. ac yna y dywawt sabaot wrthi. Arglwydes heb ef. dy annerch y gan sabaot ac deu uab. ac

y gan terri dy vab. ac y gan iosian. A phan gigleu hi hynny. llawen uu. a gofyn idaw aoruc hi. a atwaynat sabaot. Atwen heb ef. ac yna craff synyeit a oruc hi ar y eneu. ae adnabot. a mynet dwylaw mynwgyl idaw a oruc hi. Weithon y dywedwn am sabaot y vot yn hamtwn ar lan y mor. Bellach ymhoelut a wnawn at bown yr enrydedus ryuelwr ac eawn. Y inor yd oed enrithewl. a vibinis oed y enw. a hwnnw a ganei amryuaelon canueu y digrifhau inor vrenhin. ac yn hynny galw aoruc inor arnaw. a dywedut wrthaw. Digawn a gigleu oth ganueu di. a gelly di dwyn march bown y mi yn lledrat. mi a rodaf it gestyll a dinassoed. Heb yr ynteu. myn mahwn ti ae keffy. canys yr llyfnet vo y mur. ac yr uchet mi aaf drosti. Ac yna y kerdawd racdaw ar hyt y ffford yny deuth y vratmwnd. ac yna yd yskynnawd yr muroed. a chanu megys ederyn. Odyna ef a doeth yr ystabyl heb odric. ac agori y drws heb geissaw un allwyd. a gwelet arwndel aoruc. a thrwy twyll y ganueu cael ohonaw dyuot at y march. a rydhau y draet or rwym a oed arnunt. ac heb odric yskynnu arnaw. ac y mwmbrawnt y kerdawd yn un iwrnei. A phan y gwelas y brenhin. llawen iawn uu. a dywedut mae drwc y kyuaruuwyt a bown. a thygu hynny y vahwn ac apolin y dwyeu ef. A thrannoeth y bore. pan doeth gweisson bown yr ystabyl. ac na welsant y march. mawr oed eu hofyn ac eu tuchan. a dyuot aorugant gyr bron bown. ac erchi nawd a thrugared idaw. A phan gigleu bown dwyn y varch breid nat ynuydawd o digofeint.

LXIV.—Tewi weithon a wnawn am bown. a dywedut am sabaot a oed gyt ac wreic yn y ystauell yn kyscu. a gwelet breudwyt aoruc yn y fyd. nyt amgen no gwelet bown yn alarus. a daruot torri melascwrn y vordwyt. a duhunaw aoruc y wreic. a menegi idi a rywelsei. ac y dywawt. Arglwyd heb hi. ryhir yd wyt yn trigyaw. y wreic neu y varch a golles. Och heb sabaot. drwc ym daruu. ac heb ohir kymryt y bererin ffonn ae balmwydden. ac ymiachau ae dylwyth aoruc. ac yr mor yd aeth. ac ny orffwyssawd yny doeth y vratmwnd. A phan y

gwelas bown ef. llawen uu or dyuotyat. ac yna y kwynawd bown wrth sabaot. Athro heb y bown. vy march a ducpwyt yn lledrat. ac yn wir yt y mae ef gan inor vrenhin. Yssywaeth heb sabaot. ryhir uu vyn trigyan. Ef a gymerth y ffonn. ac or llys y kerdawd. Y fford a gymerth. ny orffwyssawd yny deuth y dinas inor. ac yna dydgweith y gorffwyssawd hyt pryt gosper. Ac yna dyuot aoruc gweisson y meirch ac eu meirch yr dwfyr. a phan welas sabaot wynt yn dyuot. da uu ganthaw. A phan welas ef arwndel. y adnabot a oruc. a dyuot yn eu herbyn. a chyfarch gwell udunt yn y mod hwnn. Mahwn awch iachao. y kyfryw amws nys gweleis eiroet. ymhoel y bedrein. y racwan mi ae gweleis. Heb y gwas. ty a geffy y welet oll. Ac ymhoelut pedrein y march at sabaot. ac yna yscynnu aoruc sabaot isgil y gwas yn amyscauyn. a dyrchauel y ffonn a wnaeth. a tharaw y gwas a hi. yny dygwydawd yn varw yr llawr. a rei ereill a varchoccassant yr llys. a menegi y inor dwyn arwndel. a thristaw yn vawr a oruc. ac o lef uchel erchi ohonaw y ygchwanec y cant yscynnu ar eu meirch. ac eu hymlit. ac yna rif onadunt ae hymlityassant.

LXV.—Hynt sabaot uu marchogaeth arwndel racdaw. a hwynt yny ymlit pob cant pob mil. A iosian mywn ystauell uchel. a thrwy ffenestyr uchel yn edrych allan. ac arganuot a oruc sabaot ar arwndel yn dyfot. yna mynet aoruc iosian at bown. a gi y mab. a dywedut wrthynt. Arglwydi heb hi. perwch awch holl niueroed gwiscaw arueu y vynet y ganorthwyaw sabaot. canys arabyeit yssyd yn chwerwdic yny ymlit. ac y mae ynteu yn arwein arwndel. yr hwnn yr oedut yn drist oc achaws. ac wrth hynny. arglwydi diuryssywch. Ac yna y gwiscassant agos y ugein mil ar vrys. ac y kymerth y brenhin y amws. a milys y varch ynteu. ac yna y kyhyrdawd a ffabur. ac y dywawt wrthaw. Ae ti ffabur a erlidyeist sabaot. Ac yna ef ae trewis ar y helym hyt y eneu. a briwaw y luruc hyt na allassant dim o amdiffyn idaw. a thra barhaawd y wayw y byryawd pob un or a gyhyrdawd ac ef. ac yna yr yscynnawd sabaot ar amws ffabur. ac arbet arwndel a oruc. cany wydat wrth dy-

uotyat bown yr macs. a. milys a duc ruthyr y admiral. ac ae lladawd. Ac yna y kyrchawd bown vab terri a chawr. ac ae lladawd. ac y velly y gwnaethant pob un yny gyfeir. megys marchogyon dewron peri pawb. or a gyhyrdei ac wynt. vot yn darystygedic udunt. Ar brenhin yn eu hannog. ac wynt yn uuyd wrth y orchymyn. ac y velly y parhaawd y vrwydyr hyt pryt gosper. ac o niuer Inor ny diegis dyn eithyr cant. A llawen uu rieni y meibon gan y gwelet ae tat. a dianc aoruc pawb o niuer bown yn iach hyt y castell. Yna y kymerth bown kyghor. py wed y gallei kynhal ryuel yn erbyn inor. canys mawr yw y allu. a dywedut wrth y vab a oruc. Drwc vyd yn hynt yn ryuelu yn erbyn gallu kymeint ac yssyd yn erbyn. ony chawn nerth. ac wrth hynny anuonwn gennat at terri duc ciuil y erchi idaw dyfot yn ganhorthwy yn. Y genhat a aeth racdaw. hyt pan deuth hyt at terri. a menegi aoruc y uot yn gennat y gan bown. ae annerch y gantaw. ac adolwyn idaw dyuot y ganhorthwyaw. Myn vygret heb y terri. mi aaf yn ufyd. ac yna anuon kennadeu ar hyt y dyd y orchymyn udunt dyuot attaw. yn oet dyd byrr. Ac yn ystot dyd ef a deuth attaw petwar duces. a degmil o wyr aruawc gyt a phob un onadunt. a gwedy eu dyuot y gyt. ef a dywawt wrthunt. Arglwydi heb ef. reit vyd yni vynet y vrenhinyaeth ystronawl y nerthu bown clotuorus. cany beidaf i pallu idaw. Ac yna yd yskynnawd y duc ar varch da. a cherdet racdunt trwy amryuaylon vrenhinaetheu yny doeth hyt ymratmwnd. Brenhin bratmwnd a oed mywn twr. ac arganuot a oruc barwnyeit ciuil yn dyuot. a mynet a oruc at y tat y venegi idaw. ae tat a wrthebawd idaw. Diolwch y duw. A phan discynnassant. yd aeth bown a iosian yn eu herbyn. a menegi idaw y mod y goruc inor ac ef. A gwrtheb idaw a oruc a dywedut idaw. Drwc y daw udunt hynny. canys nifer mawr a deuth gyt a mi.

LXVI.—Bellach y dywedwn am inor ffalst prouadwy. Pan gyuodes y bore drannoeth. anuon kenhadeu yn ol ugein admirales. a phymthec brenhin. ac wynteu a doethant wrth y ewyllys ef. ac y gyt y marchoccaassant

tu a bratmwnd megys kyndeirawc. eu son a gigleu niuer y dinas. a gwiscaw a oruc y brenhin. a niuer y dinas ymdanunt. ac yscynnu yn gyflym ar eu meirch. ac yr parth allan yd aeth y marchogyon grymussaf or deyrnas. Ac yna y gelwis inor ar iudas o machahda y erchi idaw rodi kyghor. canys os mi a gymer arnaf vrwydyr yn erbyn bown. y gyffelyb varchawc ny bu eiroet. a goreu wyf inheu om holl kenedyl. ac wrth hynny ni a ymgyhyrdwn. Iawn y dywedy heb y brenhin damaskyl. Ac yna yscynnu ar eu meirch. ac y ymwan yd aethant. A bown a yscynnawd ar y varch yn gyflym. a galw a oruc inor yn uchel ar bown. ac erchi idaw aros ychydic. a dywedut wrthaw. Syr heb ef. y mae gyt a thi kynnulleitua vawr o varwneit y dinas. ac y mae gyt a minheu brenhined ac admiralys. a mawr vyd hynny gwedy ymgymyscant. ac wrth hynny ymgyhyrdwn. Myn duw os mynhwn. ac os mi a ledir. neu a oruydir. ef a vyd tyghedic it pymthec brenhin. am tir am dayar yn ryd y titheu. a minheu ym mwmbrawnt. A gwrtheb aoruc bown idaw. a dywedut mae da oed gantaw hynny. ac ar hynny dyrchauel eu dwylaw. ac ymgadarnhau hyt pan oed diogel gantunt. ac yn gyflym yd aeth y marchogyon y wiscaw arueu ymdanunt. hwynteu ac eu meirch.

LXVII.—Ac yna y kerdassant ar neilltu. a gwediaw a oruc bown ar duw. yr hwnn ny dywawt kelwyd. ac inor aoed yn gwediaw ar mahwn ac apolin. ac yscynnu a orugant ar eu meirch. a rodi dyrnodeu mawr mynych ar eu taryaneu. a chedeirn oedynt eu llurugeu na thorrassant. ac ny dygwydawd un onadunt. Ac yna tynnu aoruc bown morglei y gledyf. a tharaw inor ac ef ar y helym dyrnawt mawr yny dygwydwys y blodeu ar mein. ac yny aeth y dyrnawt ar y march. yny dygwydawd y march yn varw yr llawr. A gwedy dygwydaw y march. ynteu a gyfuodes. a bown a discynnawd rac kyhwrd drwc ae varch. a phan welas inor bown yn discyn. tynnu cledyf aoruc. a rodi dyrnawt mawr y bown. yny dygwydawd y blodeu ar mein gan y dyrnawt. A blyghau a oruc bown. a gwneuthur

chwaen ffrangheid ffrwythlawn. yssigaw y vynwgyl. a llad y benn. a dygwydaw a wnaeth y corff ar y dayar. a belsabub a aeth ar eneit. Ac yna yd ymhoeles gi vrenhin ar y varch at bown. a milys a deuth attunt. ac ar yr hynt honno yd ouynoccaawd y bydinoed. ac yna y brathawd gi y varch at abraham ae daraw. a da y traweint y ffreinc a ffrwythlawn. A milys a gyrchawd arall or sarassinyeit. ac ae lladawd. nyt amgen no brenhin damaskyl. mab y abraham. A bown vab terri a ladawd arall. a sabaot a uyryawd arall. a therri duc ciuil a ladawd admiral. a bown o hamtwn a ladawd arall. ac enkyt un awr y teruynwyt y vrwydyr. Ac yna ar lann auon yd ymgynullassant y sarassinyeit. ac yna y delit dec admiral ar hugeint a dec mrenhin. ac ae dugassant ganthunt y vratmwnd. ac yna y dywawt y barwn pennaf ohonunt. O mynnwch chwi caffel tir mwmbrawnt. reit vyd ywch caffel arueu y pamwneit. canys clotuorus yw marchogyon ffreinc mywn arueu. a mi a gytunaf a chwi. ac a gredaf os mynnwch y duw creawdyr. ac a wrthodaf mahwn vyn duw a theruagawnt. ac y velly y dywawt heuyt y pymthec mrenhin.

LXVIII.—Ac ar y geir hwnnw y brathassant eu meirch tu ar llys. ac yn gyntaf y barwn pennaf ymwmbrawnt. ac yny ol ynteu gi vrenhin. a chyt ac ef pymthec mil yny ganlyn. ac ody vaes yd oed bown yn gwneuthur marthyrolyaeth mawr. A phan welas y pauwneit hynny trist uuant. ar porthcwlis a ystygassant a gi ody vywn. a chyt ac ef mil o varchogyon clotuorus. A phan welas y pauoneit wynt yn dyuot y lys inor. ffo a orugant. ac nit arbedassant na mawr na bychan. eithyr a alwei ar vedic onadunt. yny welei na mam na mab. a heb ohir nachaf hen bown yn dyuot attaw. ae niuer gyt ac ef. Ac yna yd aeth gi vrenhin yn erbyn bown. a dywedut wrthaw. Syr heb y bown. Duw a dalo it. ac yna anuon a orugant yn ol iosian y vratmwnd. ac yn ol escyb ac yscolheigon gwybydus. hyt na thrigyei neb heb dyuot. ac yn ol brenhin damaskyl heuyt. ac a vynn ei gret ar gyhoed. ac a vynnei heb ohir y vedydyaw. Heb

y brenhin damaskyl. mi a vydaf gristawn. ac a wrthodaf teruygawnt. ac y velly y dywawt pawb y gyt ac ef. Yna y dywawt bown. dygwch yma teruagawnt. ac y gossodassant yny seuyll rac bron bown. Mahwn heb y bown. ti a uuost mawrhydic eiroet. gwna hediw ffrwytheu mawr. ac yna y kymerth bown ffon bres. ac a trewis teruagawnt ac ef. ar escob a vyrywys dwfyr swyn arnunt. ac yna y neidawd costawcki coch ohonaw. ac a ffoawd. Edrychwch heb y bown. y py diw yd oedech yn credu. Heb y brenhin damaskyl. drwc yd oedem yn credu. ac y velly y gwnaeth yn tadeu kyn no ni. Y neb a gredawd mywn kelwydeu. madeuit duw udunt. a ninheu. heb y brenhined. a heb y petwar admirales. ny chredwn ni yn bywyt udunt. Ac anuon a orugant yn ol y gwraged. ac eu meibon. ac ereill yn ol eu tadeu. ac eu kyfnesseiueit. Ac wynteu a deuthant yn llawen. ny bu eiroet yscolheic. yr daet darlleawdyr uei. a allei enwi eu riuedi. gan veint y gynulleitua. a mawr uu y ryuedawt meint a vedydywyt. canys petwarmis y parhaawd y bedyd. ac escob yn pregethu udunt. Ac wylaw aorugant o ediuarwch. a ffustaw cledyr eu dwyuron. yr gogonyant y duw. ac yr tristwch yr diawl.

LXIX.—Yn awr gwerendewch am bown. Anuon aoruc yn ol y pab. ac ynteu a doeth attaw yn uvyd. a chyt ac ef deu escob. ac yscolheigon ereill llawer hyt ymwmbrawnt. A phan doeth y pab. yna dyuot a orugant yn y erbyn mawr a bychan. ac uchel oed y dyd. nyt amgen no duw sulgwyn. peri dwyn coron rac wyneb. ar pab ae bendigawd. ac ae dodes ar benn bown ymladwr. ac ar ol ynteu coronhau iosian. a mawr y drythyllwch ar llewenyd a uu yna. A phan yttoedynt y velly yn eu llewenyd. nachaf pedeir kennat yn dyfot rac bronn y brenhin. ac yn amouyn sabaot. Pan gigleu sabaot y amouyn. Mi. heb ef. yw yr neb yd yttywch yny amouyn. Heb y kennadeu. Brenhin lloegyr a dietiuedawd roboant dy vab. Ac yna doluryaw aoruc yn vawr. a dywedut y mae drwc oed hynny. Syr heb y bown. ti a bwylly mal kynt. Arglwyd heb y sabaot. mal y mynnych. Ac yna yd erchis sabaot yr kennadeu

mynet ar vrys at y wreic. ac at y vab roboant. y erchi udunt vot yn y castell hyt pan delei. Ar kennadeu a ymhoelyssant heb un gohir. A mawr uu y llewenyd ymplith y barwneit. ac y velly y parhaawd mis kyflawn. a chywynnu a oruc y pab. a thrigyaw aoruc bown ymwmbrawnt. Ac yna y daeth terri y erchi kennat y vynet y wlat. Nyt etwa heb y brenhin. reit vyd yt dyuot gyt a mi y loegyr y ganorthwyaw roboant. Ac yn llawen wrth dy orchymyn. Ac ymbaratoi a wnaethant. ac yna yd arwedawd gyt ac ef can mil o varchogyon aruawc clotuorus. Ac yna y kychwynnwys bown a therri duc. a milys y vab. a hyt ygkwlwyn y doethant at yr escob. ac odyna yd aethant y eu llongeu. a hwylaw yny deuthant hyt yn hamtwn. A phan welas gwreic sabaot a roboant wynt yn dyuot. mynet yny herbyn a orugant. a phan y gwelas bown wynt. amouyn ac wynt a oruc. pa beth a daruu yti. heb ef. wrth roboant. Myn duw. arglwyd vrenhin. mi ae dywedaf it bot brenhin lloegyr gwedy dwyn y meint kyuoeth oed ym. Myn vymphen heb y bown. ny ae goruydwn. Sef a oruc rei or dref. o nerth traet eu meirch. ac eu sparduneu. mynet hyt yn llundein. a menegi am bown ae lu. hyt na welas dyn eiroet y kyffelyb o veint. A phan gigleu y brenhin hynny. ruglaw y dal aoruc. ac anuon ar hyt lloegyr yn ol y varwneit. A phan glywsant y chwedleu. dyuot aorugant yn ufud. ac na orffwyssasant yny doethant hyt yn llundein.

LXX.—A gwedy eu dyuot at y brenhin. ef a dywawt udunt dyuot bown. ac yn vrenhin coronawc. a thybygu yd wyf y mae y ryuelu a mi a deuth. ac y mae arnaf i ouyn agheu. ac wrth hynny un verch yssyd y mi yn etiued. mi ae rodaf y vab ef. os kyghorwch. Y dywedassant oll mae da oed y kyghor hwnnw. ac anuon awnaeth escob llundein a phetwar ieirll ar kennadwri y annerch bown. ac y gynnyc hynny idaw. Ac y hamtwn y doethant. ac annerch bown y gan y brenhin a orugant. a menegi idaw am y gyfathrach racdywededic. Ac ual y doeth ewythred ar ogyfuwch ac ef. ef a aeth dwylaw mynwgyl udunt. Arglwydi heb y bown. diolchwch

idaw yn vawr. y cwyllys ni wydwn i. na bei dic ef wrthyf i. Nac yttyw ys gwir. heb wynteu. na vedylya. Ac yna y doeth bown a riuedi ugein mil o varchogyon dewron gyt ac ef. hyt rac bronn y brenhin. Ac yna yd erchis y brenhin idaw dyuot dwylaw mynwgyl idaw. a mynet a oruc. a dywedut aoruc y brenhin wrth bown. Mi a rodaf vygharedic verch yth anrydedus vab. a diolch a oruc bown idaw. Ac yna yd erchis etwert vrenhin ar ffrwst y bown peri dyfynnu milys y vab hyt rac y vron. canys vygharedic verch a rodaf idaw yn wreic priawt. Ac yna yr eglwys yd aethant y wneuthur eu priodas. ac escob llundein a gant yr efferen. Ac odyna yd aethant yr llys tywyssogawl. ac yna y gelwis etwert vrenhin ar miles. Dyret yma heb ef. mi a rodaf it vy merch. am brenhinaeth gyt a hi. Ac yny dyd hwnnw yd aeth eneit y brenhin oe gorff. ac yd aeth yr eneit y drugared duw. a gwylaw a orugant y corff hyt trannoeth. ac y cladassant. ac y trigwys milys yn vrenhin. Ac yna yd ymgynnullassant y gyt ieirll a barwneit. a gwedy bwyt y rodassant gwrogaeth idaw. Weithon y mae bown o hamtwn yn vrenhin coronawc. ae deu vab yn vrenhined. diolwch y duw. a goruot ar eu gelynyon. ac y trigassant pymthec niwarnawt. Ac yna y gorchymynwys bown y vab y sabaot. ac ynteu herwyd y barabyl a dyghawd yny vywyt na bydei balledic idaw. Ac yna y kerdawd bown vrenhin racdaw hyt yn hamtwn. ac yr borthua y doeth. ac y eu llogheu. Ac yna y kymerth terri gennat y vynet y wlat. ar nos honno yd aeth bown y dinas cwlwyn.

LXXI.—A thrannoeth y bore kymryt y genhat aoruc bown. a cherdet dros amryuaylon gwledi yny deuthant hyt yn ruuein. y dinas da. Ac yna yd oed archescob oe vrenhinaeth ef ae vab. ac yn drebelit y doeth y vab attaw. ac yr mor yd aethant. ac ny orffwyssassant yny deuthant hyt yn mwmbrawnt. A phan doethant yr llys. yd oed y vrenhines yn glaf gorweidawc. a phan welas hi y harglwyd. galw arnaw aoruc. Arglwyd heb hi. claf iawn wyf. ac ny pharhaaf nepell. A phan gigleu y brenhin hynny. ynuydu hayach aoruc. a dywedut.

Arglwydes. or bydi varw di. minheu a vydaf varw gyt athi. Arglwyd heb hi. pwy a gynheil dy gyfoetheu durdedic. Arglwydes heb ef. nym tawr ohonunt. eisswys diolchaf y duw. y mae i miui meib a allant kynhal vyghyfoetheu. ac yna y peris galw ar yr archescob. ac a dywawt wrthaw. Gwna orchymyn vy arglwydes. Mi a wnaf arglwyd yn ufud. Ac yna y kyffessawd. ac y dywawt y ewyllys. a thra yttoedynt yn hynny. ef a athoed bown y edrych y varch. a phan doeth yr ystabyl. ef a welei y varch yn varw. Ac yna yd ymchoelawd dan wylaw. ac yna y doeth y vab attaw y hyfrydu. ac val kynt abreid na cholles y synwyr. ac y deuth y mab at y vam. a dywedut wrthi. Vy mam heb ef. yd wyt yn llad vynhat. canys kymeint yw y duchan. ac na bu eiroet y gymeint. Vy mab y tec. heb yr hi. galw ar bown yma. ac yna y redawd y mab yn ol y tat. Vynhat y tec. heb ef. bryssya at vy mam. A phan welas bown hi. y kymerth ef hi rwg y vreicheu. a gorchymyn aorugant gi eu mab y duw. ac ar hynny y teruynassant wy ell deu. ac y doeth ynghwanec y gant o egylyon y dwyn eu heneideu yr nef at duw. Eu gwylaw a orugant y nos honno hyt trannoeth. ac nyt oed da gan gi urenhin eu cladu wynt ymplith dynyon ereill. ef a beris wneuthur ysgrin o vein marmor. a pheri urenhined urdedic ac escyb dwyn y kyrff yr eglwys a barassei ef e hun y gwneuthur. yn enw seint lawrens. ac yna y coronawyt gi o goron mwmbrawnt. Ac y velly y teruyna ystorya bown.

PURDAN PADRIC.

I.—Purdan padric y gelwir hwnn. Y brawt henri yr hwnn lleiaf or myneich. Mab ufyd er duw. ac enw yn rod uvydawt ygyt a chysylldedic annerch ygkrist. Y racdamunedic arglwyd y henri abbat osertyse. y anrydedus tat. chwi aorchymynnysawch ymi amon ynyscrivennedic ywch yr hynn adywedeis y glybot ynn an kyttrycholder or purdan. Hyspys yw y gwnafi hynny yn vodlonach o allu y gymell o arch ych tatolyaeth chwi y gyflewni y gweithret hwnnw. kanys kytamunwn. i. gulet crynodeb y lawer trwy vy gweithredoed. i. eissoes yn bennaf y gwnaf y ryw betheu hynny oth arch ti. namyn dirgeled ych tatolyaeth yn leihaf. Odyna nyt adefwn. i. byth y veint hwnn yma yn ofyn a charyat duw. lleu o honafi dim. neu y warandaw. kanys llyfaswn. i. dywedut o wynuydedic rigor bap. llawer amryw betheu awneir yn erbyn yr eneiteu gwedy ymadawont ar petheu dayrawl. a rac gossot ohonaw ef y petheu lluossoccaf o gorfforawl datkanedigaetheu. hyt pan dangossei ef aruthret y rei trist am eu gwall. a hyt ban ennynhei ef y rei llawen ar ouunet. Minheu a gwplaaf ych gorchymyn chwi. yn anrededussach ar grynodeb y rei mul. canys gossodedic yw yn llawer o agreitheu. y dyweit y pab hwnnw. dyuot egylyon da. neu rei drwc yn gytrychawl ar diwed yr eneiteu or poeneu. nyt amgen. pan elont or corff y rei atynnont yr eneiteu or poeneu os haedant. neu y rei da a dyccont yn berffeith y orffwys. Ef a dywedit heuyt y pab hwnnw. wybot weitheu or eneiteu kyn eu mynet or corfforoed llawer o betheu a delont rac llaw. ae o atteb y kytwybot y mywn. ae val y dangosso y gweithredoed o vaes. Yr eneiteu heuyt a elont ar ysglyff or corffor-

oed. ac a delont eilweith yr corfforoed dracheuen. y datkanant hwy ryw weledigaetheu. ac amlycter eu gweithredeu. a ffoeneu y rei enwir. ae o lewenyd y rei kyfyawn. eissoes yny damweinheu hynny ny wybydant hwy dim namyn o beth corfforawl. nyt amgen. avonyd. cafyneu. pynt. llogeu. tei. coetyd. gweirglodyeu. blodeu. dynyon hagyr. neu rei tec. ac y gwybydant o damweineu pob peth a nottaont y garu. herwyd llewenyd bydawl neu y ofynoccau herwyd poen. pan ellygher yr eneiteu or corfforoed trwy boeni y corff oe dwyn gyr y dwylaw. neu y lusgaw ger y traet. neu y grogi ger y vynwgyl. neu yny boeni. neu torri y vynwgyl. neu amgen dihenydaut aruthyr y diodef.

II.—Y rei hynny nyt mynych damweinant yni. diheuryd hagen amouyn odynyon llawergweith pa ryw wed yr eynt yr eneiteu or corfforoed a phy le y kerdant. a pheth a geffynt. a pheth a gymerynt. canys y rei hynny a gudyant racom ni. Mwy hagen y mae ofyn ac anhyfurydruyd y damweineu hynny yni noc y gofynwn ymdanunt. canycherdwys hynn y neb anhyspys yn digawn y diogelet. namyn hynn o hyspysrwyd a geffir. Y rei da ny daw agheu drwc yn ol buched da. nac agheu da yn ol buched drwc. kyt triccyo yr haededigaetheu hyt yr agheu. a gwedy agheu talu gobrwy udunt. eissoes hwy a boenir o amser or purdan yn y poen a dywedir y vot wedy agheu yr honn a elwir y purdan. yn yr hwnn y poenir y rei a uuchoccaont yma y neb y rei yn gradeu. Y rei gwiryon hagen a anuonir y muched tragywyd. Odyna megys y gossodir poen corfforawl y gan duw. velly yny poeneu hynny y maent lleoed corfforawl yn yr rei y dywedir bot gwahan boeneu. Y poeneu mwyhaf hagen a gredir y bot ar y rei y gweisc y cabyl y waeret. Diheu yw bot y llawenedigaetheu mwyhaf ar y rei y nesseir y arnunt trwy gyfyawnder yr lle pennaf. Yny chymherued hagen y mae petheu da. a phetheu drwc. yr hynn y welir y wedu yr datkannedigaeth hwnn yma. Ar peth a gredir y vot uffernn y dan y daear neu odis kyuet y daear megys carchar. neu gastell tywyll mal y dyweit

rei. nyt urdessir neb yn y lle hwnnw. A pharadwys yr hwnn yssyd yn y dwyrein ar y dayar yn y lle y dywedir bot eneiteu ffydlonnyon gwedy rydhaer o boeneu y purdan yn kymryt eu digriuwch gwynuydedic. Seint awstin a dyweit am eneiteu y rei meirw y bot o agheu hyt dyd brawt gan achwaneccau udunt yr hynn a gymeront megys y bo teilwg udunt. ae i orffwys. ae y boeneu. Y gwynvydedic awstin. a seint gregori a dywedant. yr eneiteu hep gorfforoed gallu y poeni o gorfforawl boen yn y tan. A llyma val y kedyrnheir hynny yn hysbys. Ympoen y purdan yn yr honn y purheir yr etholedigyon gwedy agheu. Diheu yw y poenir rei yn vwy noc ereill. rei yn llei megys y haedunt. Y boenn honno diheu yw na digawn dynyon y synhwyraw. canys bychan y synhwyrir y poenneu hynny y gan dynyon. eissoes yr eneiteu aelont or corfforoed. Ac elchwyl o arch duw a ymhoelant yr corfforoed y gan y rei hynny y datkenir neb ryw arwydoneu. Kyffelyb y betheu corfforawl y dangosir petheu ysprydawl. canys ony welit y ryw betheu hynny y gan y ryw eneiteu hynny. diheu oed nat adolygit y gan yr eneiteu a uuchocceynt yn y corfforoed yn disymut a wypynt o betheu corfforawl e hunan. Odyna ef a dywedir yn y chwedyl hwnn gwelet petheu ysprydawl o dyn marwawl. ac yny corfforaeth megys yn y corfforawl ffuryf a ryw. Y neb a dywat y chwedyl yni. ac yny ved y gwybu ynteu. mi ae dywedaf kynn diwed y chwedyl.

III.—Padric sant mawr a dywedir pan bregethei ef geireu duw yn gyntaf yn Iwerdon gan oleuhau anryfedodeu gogonyant. canys ef a lauuryus gallu o vwystuilawl eneiteu dynyon y wlat honno y gan drwc o aruthter poeneu uffernn. ae chadarnhau yn daeoni trwy adaw llewenyd paradwys udunt. Gwir a dywat y datkanwr a gyffylybwys dynyon y wlat honno y vwystuileit. Kanys pan oedwn. i. yny wlat honno ef a deuth attafi kynn y pasc gwr oedawc moel gwedy dygwydaw y wallt o heneint a llescu yn vawr. ac a dywat na chymerassei ef ciroet rinwedeu corff crist ae waet. Ac yn

y dyd hwnnw nyt amgen nor dyd nessaf yr pasc y mynnei ef y gymryt. a chyn gwelei ef vy mot. i. yn vynach ac yn offeirat y mynawd ef amlyccau ymi y uuched ef trwy gyffes hyt pan allei nessau a rinwed corff crist yn diogel. a chanyt atwannyat ef ieith y wlat honno. mi a gymereis y gyffes ef trwy gyfyeithyd. A phan yttoed ef yn gwneuthur teruyn ar y gyffes. mi a ovynheis idaw trwy y kyfyeithyd a ladasei dyn eiroet. Ynteu a dywat na wydat yn hyspys a ladasei mwy no phum nyn. a hynny yr anustruaw a ladasei. A megys nat oed argywedus ef y hynny mor vychan a ladasei. Ynteu a vrathassei lawer. ny wydaut ynteu a uuyssynt veirw hwy o hynny. ae na buyssynt. Ef a debygei nat aei ef ygkyfyrgoll yr y pechawt hwnnw. pan dywedeis. i. idaw ef y mae gorthrymaf pechawt oed hwnnw a mwyhaf y godyant gan y creawdyr y wneuthur. Beth bynnac hagen a orchymynnwn. i. idaw y gymryt er rydit oc bechodeu ef ae kymerei yn hegar. ac a vynhei y gynnal heb leiheu dim. Y mae hynn hagen heb y leiheu megys yn anyanawl y dynyon y wlat honno. megys y dynyon o genedyl arall. bo mwyhaf y dygwydont yn drycyoni trwy annwybot. Y mae parodach a gwastadach vydant wy yn gwneuthur eu penyt gwedy adnapont y bot y mywn cam a chyfueilorn. o achaws y ryw betheu hynny y dangosswn. i. y bot wy megys gwystuileit. Pan vynhei y gwynvydedic badric yr kenedloed yny iwerdon megys y dywedassei y ymchwelut o aruthter. a chyfueilorn poeneu. y garyat llewenyd. y dywedynt hwynteu nat ymhwelynt. nac yr gwyrtheu ryfed a welynt idaw ef y wneuthur. nac yr y bregeth ynteu. hyny welei un o honynt wy poeneu y rei drwc. a llewenyd y rei da. hyt pan vei hyspysach udunt y petheu a welynt. nor petheu aadawei ef udunt wy. Gwynvydedic badric hagen megis yr oed ef ommedauc y duw yr iechyt yr bopyl. gouunedussach uu yna y wyluaeu a dyrwesteu. a gwedieu. a gweithredoed da. a phan oed ef velly. yr arglwyd iessu grist gwaredawc a ymdangosses idaw. ac a rodes tyst yr evengyl a bagyl. y rei a enrydedir etwa yn werthuawr greireu megys y

mae teilwg. ar vagyl honno a elwir bagyl iessu. ar archescob pennaf yn y wlat honno a geiff y creireu hynny. megys arwyd pennaduryaeth yw. Yr arglwyd duw a duc padric odyno y le diffeith. ac y dangos idaw gogof gronn a thywyll oe mywn. ac a dywat wrth badric. Pwy bynnac a el dan benyt yn aruawc o ffyd yawn yr ogof honno. a thrigyaw yndi dydgweith a nosweith ef a purheir oe holl bechodeu. a gwedy kerdo trwydi ef a wyl yno poeneu y rei drwc. Ac o byd gwastat yn y ffyd ef awyl llewenyd y rei gwynvydedic. Ac yna y difflannwys yr arglwyd y wrth badric. ac adaw yn gyfulawn o ysprydawl digrifwch.

IV.—Y gwynvydedic batric a obeithei yma ymhoelut y bopyl o gyfeilorn. ae yr ymdangos or arglwyd idaw. ae dangos yr ogof idaw. Ac ar hynt kyweiraw eglwys a wnaeth yno. Ar gwynvydedic awstin yn tat ni a ossodes kynhonwyr o reol yr ebestyl yn yr eglwys honno. Ar ogof hagen aoed yny vynwent yny tal at y dwyrein yr eglwys. ac y gwnaeth ef mur yn y chylch. a phorth ar y mur. a chlo cadarn ar y porth hyt na chai neb mynet idi heb ganyat. A gorchymyn a oruc y porthor yr eglwys cadw anwyd yr agoryat. Ac yn oes y gwynvydedic awstin. ef aaeth llawer yr ogof y gymryt y penyt. A rei hynny pan delynt odyno atyggynt tystolaetheu ar welet o honunt y poeneu mwyhaf. ar llewenyd mwyhaf megys y gwelyt yn pwyssaw. Ar hynn a dywedei y rei hynny. a erchis y gwynvydedic badric y nodi yn yr eglwys. Ac o achaws tystolyaeth y rei hynny y kymerth rei or dechreu pregeth y gwynvydedic badric. A chanys yny lle hwnnw y purheir dyn oe bechodeu. Y lle hwnnw wrth hynny a elwir purdan Padric.

V.—Gwedy marw padric sant yr oed greuydwr da yn brior yn yr eglwys honno. a gwedy llescu o heneint o honaw. ac nat oed un dant yny benn namyn un. A megys y dyweit y gwynvydedic rigor. kyt boet iach hen eissoes gwan vyd yn wastat oe heneint ehun. Y gwr hwnnw a vynnawd kyweiraw lle idaw gyr llaw hundy y kanhonwyr hyt na wnelei ef volest y ereill o

wander y heneint ef. Y brodyr jeueinc a delynt y ofuwy yr henn hwnn dan veint oe garyat. a notteynt dywedut wrthaw trwy ware val hynn. Pa gyhyt tat y mynny ti trigyaw yn y uuched honn. neu pa bryt y mynny ditheu vynet odyma. ynteu a dywat val hynn. Gwell oed gennyfi vy meibon. i. vy mynet odyma kynno hynn nom byw ynheu yma val hynn. canyt oes yma ymi namyn trueni. Yn lle arall hagen mi a gaffaf ogonyant mawr. eissoes ewyllys duw a wneir ymdanafi om buched. Odyna y kynhonwyr a glywynt oe hundy yn y gell yd oed y brawt henn yndi egylyonn yn canu yn wastat yny gylch ef yn y mod hwnn yma. Gwynvydedic wyt ti. a gwynvydedic yw duw yr hwnn yssyd ytheneu di. y geneu ny chymerth yroet y digrivwch o vwyt. Y vwyt ef bara a halen oed. a dwfyr oed y diawt. Ynteu ordiwed megys y damunwys. a aeth yn detwyd ar yr arglwyd duw. Diheu yw hynn hagen yn amser padric sant ac yn amseroed ereill wedy hynny. mynet llawer o dynyon yr purdan. Rei ohonunt a doynt dracheuyn. ereill a bellynt yno ac ny doynt. Y gwyr kyfarwyd a berynt yscriuennu chwedleu rei a delynt odyno. ae damweineu yno.

VI.—Defawt oed ossodedic yno y gan badric. ac ae ketwis y gwr a uu yny le wedy ef. nat elei neb yr purdan onyt trwy gannyat yr escob. a heuyt dewis ohonaw oe briawt ewyllys mynet yr purdan dros y bechodeu. Y neb a ymlyccao yr escob y darpar trwy vynet yr purdan. yr escob a dyly annoc idaw peittyaw ar darpar hwnnw. a dywedut idaw. mynet llawer yno. ac na doethant byth dracheuen. O thric ynteu yn y darpar kymeret lythyr yr escob a doet at y prior yr lle hwnnw ar ffrwst. ar prior gwedy lleu y llythyr a dyly annoc idaw yn graff dewis penyt arall. ac nat el yr purdan. a dangos idaw y perigyl a gauas llawer yno. O thric ynteu yn y darpar: dyget y prior ef yr eglwys. a bit yno pymthec niwarnawt yn dirwestu. a gwedieu. a gwedy darffo hynny galwet y prior y cwuent ygyt. A gwedy offeren vore kymuner y pennydywr hwnnw. a cherdent ac ef parth a drws y purdan dan ganu pro-

cessio a letania a bwrw dwfyr swyn. Y prior hagen eilweith a dyly datkanu idaw ef ygwyd pawb yr ymdaraw a wna y kythreuleit yn y lle hwnnw ac ef. a meint a gollet o dynyon yn yr ogof honno. O byd gwastat ynteu yn y darpar. kymeret vendith pawb or offeireit. a gorchymynet y bawp wediaw drostaw. Ac ae briawt law dodet arwyd y groc yny tal. ac aet y drws yr ogof ymywn. Ac ar hynt caet y prior y drws ac ymhoelet dracheuen yr eglwys ae brocessio. Ar bore trannoeth doet yr eglwys. ac y drws yr ogof yn y processio. ac agoret y prior y drws. ac o chyferuyd y dyn a adoed yr purdan yn dyuot dracheuen. trwy lewenyd mawr dycker ef yr eglwys. ac yno y byd pymthec niwarnawt yggwyluaeu. a gwedieu. Ac ony delei ef yn yr un awr trannoeth. diheu oed y golli. ar prior a gaei y drws. ac yr eglwys y deuyn dracheuen.

VII.—Yn yr amsseroed hynn yma yn hoes ni hagen y damweinyws o rat kyffes: dyuot marchawc y ystyphan vrenhin. nyt amgen. noc ywein varchawc. At yr escob y deuth yd oed y purdan yn y escobawt. y gyffessu. a phann oed yr escob yn angreithaw y marchawc hwnnw am y bechodeu. ac yn dywedut codi duw ohonaw yn orthrwm. Ynteu a dodes ucheneit o amlwc ediuarwch y gallon y gwaei benyt dros y bechodeu herwyd ewyllys yr escob. A phann oed yr escob yn gossot penyt herwyd messur y bechawt. Ywein varchawc a dywat. kann gwneuthum. i. o godyant y duw kymeint a hynny. Mi a gymeraf benyt a vo trymach. nor holl benytyeu ereill. Gan dy gygor ti arglwyd ath vendith mi aaf yr purdan padric. megys y haedwyf caffel madeueint om pechodeu.

VIII.—Yr escob yna a gyghores idaw ef na chymerei y penyt hwnnw arnaw. ny chytsynnwys y marchawc gwrawl ac annoc yr escob am beidaw. Yr escob a dywat wrthaw colli llawer yno. y geissaw y ymhoelut ef y wrth y penyt hwnnw. ac ny allwys ef blyc ar y marchawc yn y benyt er ofyn hynny. Yr escob a gyghores idaw ef kymryt abit myneich neu gynhonwyr ymdanaw. y marchawc a dywat nas

kymerei yny elei yr purdan yn gyntaf. Yr escob a welas gwastatrwyd y edivarwch ef. ac ae hanvones ef at y prior yr lle yr oed y purdan. A llythyr gantaw y erchi y ellwg yr purdan herwyd deuawt y rei a benyttyit yno. A phan deuth ef ac adnabot or prior y neges. ynteu a datkanawd y perigyl ar collet adaroed y lawer yno. Y marchawc a dywat codi duw ohonaw yn vawr. a minheu aaf trwy ediuarwch penyttyaw hynny yn erbyn ych kyghor chwi yr purdan. Odyna y prior ae duc ef yr eglwys. ac yno herwyd deuawt y bu bymthec niwarnawt. yn dirwestu. ac yn gwediaw. A gwedy hynny y prior ar cwuent gwedy offeren ae kymunawd. ac a aethant ac ef parth a drws y purdan dan ganu a gwascaru dwfyr swyn. ac elchwyl y prior a annoges idaw nat elei yr penyt hwnnw. cany ellit na rifaw na gwelet y sawl wahanryw poen yssyd yno. Y marchawc a uu wastat yn y darpar. ar prior a dywat wrthaw val hynn. llyma yr awr honn dos y mywn yn enw yr arglwyd. a phy gyhyt bynnac y bych yn kerdet yr ogof dan y dayar ti a doy y oleuat. ac a wely vaes gwastat. a thi a wely neuad yny maes a gweith ryued arnei. A gwedy delych yr neuad ymywn ar hynt ef a daw attat gennadeu o bleit duw. ac a hyspyssan it beth a wnelych. a pheth a odefych a hynny yn graff. a gwedy el y rei hynny ywrthyt. ar hynt ef adaw ereill attat yth broui. Val hyn y damweinwys y rei a aethant yma yth vlaen di. a thitheu byd wastat yn ffyd grist. Y marchawc gwrawl hagen ny bu arnaw ef perigyl a glywssei ef y damweinaw y ereill yno. ac val y bu ef gadarnn gynt yn arueu yn ymlad a dynyon. yna kadarnach uu yn arueu o ffyd. a gobeith. a chyrchu a wnaeth y ymlad a dieuyl yn gyweir o gyfyawnder gan ymdiret yn trugared duw. Canys yn gyntaf ymorchymyn a wnaeth y wedieu pawb. a dyrchauel y law deheu a dodi arwyd y groc yny tal. ac yn llawen trwy y ymdiret mynet aoruc yr porth ymywn. ac ar hynt y prior a gaywys y porth o vaes. ac amhaelawd ar processiwn yr eglwys.

IX.--Ar marchawc yna a gymerth awen milwryaeth

o newyd yndaw. ac a gerdawd racdaw yn lew kyt bei ehun. a mwyvwy y ymdiret yn yr arglwyd a mwyvwy oed y tywyllwch idaw gan bop cam a gerdei ymywn. ac yny lle ef a golles y goleuat. a hyt nat oed dim namyn tywyllwch. ac or diwed ef a welei vychydic o oleuat oe vlaen yn yr ogof. ac yny lle ef a welei y neuad yn y maes mal y dywedyssit idaw. ac nyt oed yno oleuat onyt mal y byd yma y gauaf gwedy y del yr heul yn y hadeu. Nyt oed gant hagen yr neuad namyn pyst a breicheu yny chynnal. ar weith clawstyr myneich. Gwedy ymdeith ohonaw yghylch y neuad y etrych ryuedawt y gweith. ef aaeth ymywn. ac ot oed ryued gweith y neuad o vaes ryuedach oed ovywn. Ac ynteu a eistedwys enkyt bychan yn y neuad gan ymryuedu y chyweirdabeu ae gweith. a phan oed ef velly. llyma bymthegwyr o wyr creuyd newyd eillaw y barueu. a gwiscoed gwynyon ymdanunt yn dyuot yr ty ymywn. ac yny ressaw ef yn enw yr arglwyd. ac yn eisted y gyt ac ef yn distaw. ac un ohonunt megys tywyssawc arnunt tybygei ef oe degwch. ac y dywat wrthaw val hynn. Bendigedic vo enw duw yr hwnn a gadarnhawys darpar da yth gallon di. a phoet ef a gwpplao y daeoni hwnnw. annoc yti megys y dechreuis. a chan deuthosti yr purdan yth purhau oth bechodeu. Reit yw yti yn eill ae gwneuthur agheu yn anghen yn wrawl didarpar. ae titheu trwy lesged mynet dy eneit ath gorff ygkyfyrgoll. yr hynn nys damweinho duw yt. Hynn hagen gwedy y delom ni y wrthyt. ef a daw attat lloneit y ty o dieuyl. ac a dygant yr boen gorthrwm. ac a vygythyant dy dwyn y boeneu a vo trymach. a hwy a gnigyant yti dy dwyn dracheuen yr porth y deuthost trwydaw heb poen. ac yn didrwc gan vedylyaw kellweir it. ac o gallant wy dy dwyllaw ti velly. neu dy oruot. o godyant poeneu. neu aruthter eu bygytheu. neu o gytsynnyeit ohonat ae hadaweu gan adu ohonat udunt dy dwyllaw. dy eneit ath gorff a ant ygkyfyrgoll. a dot titheu dy ffyd ath obeith yn gadarnn yn yr arglwyd duw val hynn yma nat y ystygych ti y hadaweu hwy. nac y bygytheu. nac y poeneu. namyn megys y tremygu

wy yn wastat. ac ef ath purheir ditheu oth holl bechodeu. ac ygyt a hynny. ti a wely y poeneu a darparwyt yr pechaduryeit. a gorffwys y rei gwiryon yn eu llewenyd. Bit duw yth gof yn wastat. pan boenon hwy di. galw ditheu yr arglwyd iessu grist. ac ar hynt val y dywetych yr enw hwnnw. ti a vydy ryd or holl boeneu. Ac ni allwn ni ohir yma bellach ygyt a thi. namyn yr holl gyuoethawc duw yth orchymynwn. A gwedy rodi eu bendith idaw. yd aethant ymdeith y wrthaw.

X.—Y marchawc yna a ymgyweirawd y mywn milwryaeth o newyd. val yd oed wrawl yn ymlad a dynyon gynt. a arhoes yn barawt. ac yn gadarnn o arueu crist y amrysson yna yn erbyn kythreuleit. canys y neb a vynho amrysson yn erbyn dieuyl. ynn gyntaf y dyly gwiscaw lluryc kyfyawnder ymdanaw. a dodi helym iechyt tragywyd am y benn. y gadarnhau y vryt yggobeith goruot. ac amdifferet a tharyan y ffyd. a bit gledyf yr yspryt glan gantaw. nyt amgen. noc geir duw. ac yn ouunedawl galwet ar yr arglwyd iessu grist. hyt pan ynteu a ymdiffyno y vrenhinyaeth ef yn gadarnn. ac val na orffer ef o nerth y rei a ymdrawant yny erbyn ef. ac nas twyllo gwarder ynteu yr honn ny thwyll neb a ymdireto yndi. Pan oed y marchawc yna yn eisted e hun yn arhos ymlad a dieuyl. ac yn ofynawc. yn disymwth llyma y clywei twryf ygkylch y ty megys kyffro ar yr holl dayar. ac nyt oed lei y twryf hwnnw no chyt bei holl dynyon y dayar. a holl greaduryeit y mor. ar awyr oe holl allu yn gweidi. ac yn ymffust. Ac yny kynhwryf hwnnw pei nat ymdiffynit o nerth duw. ac o dysc y gwyr ae kyghorassei ef diwethaf. ef a gollassei y synnwyr. ac ot oed aruthyr clybot y twryf. aruthrach oed yn ol hynny idaw gwelet y dieuyl o bop parth idaw heb allu rif ar y sawl dieuyl oed yn ymffrwst yr ty. Rei yn ffuryf dieuyl. ereill yn dieuyl anffurueyd. ac yn y watwaru. ac yny gellweiraw. ac vegys yr gwaradwyd idaw yny gresseu. ac yn dywedut wrthaw val hynn. Dynyon a wassanaethassant yni. ac ny deuthant attam hyt wedy agheu. Pony dylywn ni rodi gwerth a vo mwy yti o anrydedu ohonat ti yn

kytymdeithas ni. yr honn y gwyssyneitheisti yn llauuryus yn gymeint ac na myneisti arhos dyd dy agheu. namyn yth uuched rodi dy eneit ath gorff y gyt yni. Hynn a wnaethosti mal y caffut tal a vei voe gennym ni. Titheu a geffy gennym ni yn amyl yr hyn a hedeisti. can deuthosti yma y diodef poeneu dros dy bechodeu. titheu a geffy genym ni yr hynn a geissy. nyt amgen poeneu. a doluryeu. O mynny di hagen ymhoelut gan hynn dy vot wrth yn kyghor ni a gwassanaethu ni rac llaw mal hyt hynn a wnawn yn lle dy gyfarws yti dy dwyn yr porth y deuthost ymywn idaw yn didrwc. mal y keffych lewenyd yny byt etwa. ac na chollych esmwythder dy gorff oll yma yn awr. Hynn a adawsant hwy idaw ef y geissaw y twyllaw. ae o aruthter ae o ofyn ae o hegarwch. Y marchawc. gwr y grist. ny chyffroes ef nac oe haruthter. nac oe hygarwch y adu y dwyllaw. namyn o ynryw vryt trymygu eu haruthter. ae hegarwch hep attep udunt o dim.

XI.—Odyna pan welas y dieuyl y marchawc yny tremygu. sef a wnaethant wy y achup ef yn aruthyr. a rwymaw y dwylaw. ae traet. a chywenaw tandawt mawr yn yty. ac yny gynneu honno y byrryassant y marchawc yn rwym. ac a bacheu heyrn y tynnu hynt ac yma drwy y tan dan leuein. Pan vyrrwyt ef gyntaf yn y tan. trwm oed gantaw ef y boen. a phan gyfawys ef dechreu ymgytyrnnhau y mywn duw y vrenhin ef. ac ymgyweiraw yn arueu ysprydawl milwryaeth o newyd a wnaeth. ac ny bu dim gantaw y boen. A phann uu aruthyr gantaw y vot yn y tan. y gelwis enw iessu grist. ac ar hynt y redawd ef or tan hwnnw megys or kyrrch kyntaf a duc y dieuyl idaw. ac val y gelwis ef enw y gwaraf iachwyadyr. ar hynt y diffodes yr holl gynneu hyt na chaffit un wrychonen o hynny. Pan welas y marchawc hynny glewach uu yny vryt ef. hyt na bei yn wastat arnaw ofyn y dieuyl. Odyna kynn gwelas ef gallu y goruot hwy mor hawd a hynny. ac o alw glan enw iessu grist.

XII.—Odyna y dieuyl a adawssant y ty ac o dan gwynnaw. ac erthwch yn aruthyr y kerdassant. ac y

dugant y marchawc y gyt ac wy. ac ef a welei rei yn ymadaw ac ef. ac ag ereill. rei hagen ohonunt a dugant y marchawc y gyt ac wy. ympell drwy vrenhinaeth uffernn. daear a oed yno a brenhinaeth tywyll. Ac ny welei ef dim yn honno eithyr dieuyl a oed y gyt ac ef. yn y dwyn. Gwynt poeth oed yn hwythu yno. breid y gallei ef y warandaw. ac rac kadarnnet y gwynt hwnnw. ef a debygei y vot yn tyllu y gorff ef trwydaw. wynteu ae tynnassant ef yn erbyn y gwynt hwnnw. parth ar lle y kychwynei yr heul hanner haf. a phan deuthont yno megys yn erbyn y byt. y dechreussant ymhoelut dracheuen parth ar lle y kyuyt yr heul. hanner y gayaf. ar asgellywynt oe hwyneb. a phann yttoed ef velly. ef a welei megys yn gyffredin. yr holl dayar yn lleuein yn truan. ac yn udaw. ac yn kwynaw. a phei mwyhaf y nessaei yno. eglurach y clywei ynteu hwy yn lleuein. ac yn cwynvan. Or diwed y dieuyl a deuthont ar marchawc gantunt y vaes mawr. a llydan. a hir. ac yn gyflawn o trueni. a dolur. ac ny weley y marchawc teruyn ar hynny. nac ar y maes. rac y hyt. Ar maes hwnnw oed gyflawn ρ dynyon. Gwyr a gwraged. hen a ieuenc. yn gorwed ae croth wrth y dayar. gwedy eu tynnu a hoelon heyrnn gwynyas trwy eu traet. ae dwylaw wrth y dayar. a weitheu wy a welit ynn knoi y dayar rac dolur. a gweitheu ereill yn lleuein dan gwynaw. ac udaw yn truan. ac yn erchi val hynn. arbet. arbet. neu trugarhaa wrthym ni. ac nyt oed yn y lle hwnnw y neb aadnappei beth oed trugarhau neu arbet. Dieuyl hagen a oed yny plith. ac arnunt heb orffwys yn y codi. ac yny maedu a ffrowylleu calet. Ac yna y dieuyl a dywedassant wrth y marchawc. Reit vyd yti odef y poeneu a wely ti oll. onyt ufydhei ti wrth yn kynghor ni. sef yw hynny. peidaw atharpar. ac ymhoelut trachefyn o honat. ac o mynny hynny. ny ath adwn y vynet dracheuen yn didrwc. ac ath dygwn yn tagneuedus yr porth y deuthost idaw. Ac ynteu a wrthodes hynny. ar dieuyl ae byrryassant ef yr llawr ar vessur y dynnu a hoelon heyrnn. megys yd oed e rei ereill. Ac val y gelwis ef enw iessu grist. ny allyssant hwy gwplau dim oe darpar.

XIII.—Odyna y kymerassant wy y marchawc ac y dugant ef y vaes a oed vwy y drueni oragor. Ar maes hwnnw eilweith oed gyflawn o dynyon. gwyr a gwraged. hen a jeueinc. gwedy eu tynnu. a hoelon heyrnn gwynyas wrth y dayar. a llyma y gwahan aoed yrwg y maes hwnn ar maes arall. Y rei a oed yn y maes arall oed ae croth yglyn wrth y dayar. a seirff tan oed yn eisted arnunt. ac yny llesgennu. a megys yn y knoi hwy o ansawd druan ae danned. a seirff tan ygkylch y mynygleu. rei ae breicheu ereill ygkylch y corfforoed. a fflam tan oe genau yn truanu y rei hynny. llyffeint duon heuyt anryued y gweith. a megys tan a welit yn eisted ar dwyvronn rei ohonunt. ac yn y brathu yn anffurueid megys darparu tynnu y callonnoed. ny orffywyssei y rei hynny trueni a agorit arnunt velly yn kwynaw ac yn udaw byth. Dieuyl hagen oed ymplith arnunt yn redec ar y traws. ac yny poeni yn llittyawc. gan y maedu a ffrywylleu tan. Ac ny welei ef teruynn ar y lle hwnnw gan y veint. onyt ar y llet or lle y dothoed idaw. ac ar y lle y daw drostaw. a phann oed ef yn mynet ar traws y meyssyd hynny. y dywat y dieuyl wrthaw val hynn. ti a odefy y poeneu a wely ti oll onyt y ymhoely drachgeuyn val y kyghorassam yt. a phan tremygawd ef y kyghoreu hwy. y mynnyssant wy y tynnu ef ar yr hoelon megys y rei ereill. ac val y gelwis ef enw iessu grist ny allassant wy dim oe darpar. nac oe medwl.

XIV.—Odyna y dugassant wy y marchawc ygyt ac wy yr trydyd maes. a hwnnw heuyt llawn oed o dynyon. gwyr a gwraged. meibon. a merchet megys yn gorwed a hoelon gwynias trwydynt yn y dayar. yn gyn amlet ac nat oed un votued o warthaf eu penn hyt y vlaen byssed y traet heb hoelon. a rei hynny breid y gellynt leuein. namyn dynyon ymron agheu y clywit eu rwgc. Ar dynyon hynny noeth oedynt. a gwynt oer yn eu trywanu. ac yny llosci. ar dieuyl yny poeni a ffrywolleu. Ac yna y dywat y dieuyl wrth y marchawc. ti a odefy y poenneu hynn oll. ony wney yn kyghor ni. ac ymhoelut dracheuen. a phann tremygawd ef y be-

gethyeu wy. y mynyssynt wy y boeni ef. ac val y gelwis ef enw iessu. ny allassant hwy dim drwc idaw ef yno.

XV.—Ac odyno y dugassant wy y marchawc y gyt ac wy yr petweryd maes. a hwnnw oed gyflawn o dan a phob ryw boen a geffit yno. Ac yna ydoed dynyon gwedy eu crogi a chadwyneu tan gyr y traet. ereill gyr y dwylaw. ereill gyr y breicheu. ereill gyr eu hysgwydeu. ereill gyr eu hesgeired. ae penneu yn issaf. ereill gyr eu gwallt. a than brwnstan yny kylch. ereill yn wbein ymywn tan ar vacheu heyrnn gwedy gossot yny llygeit. neu yny clusteu. neu yny trwyneu. neu yny gorchyuaned neu ympenn y bronneu. ereill ymywn ffyrneu tan brwnstan yny llosci. ereill yny poethi ar eilch. ereill yn pobi wrth tan a phynn tan trwydunt. megys bereu. ereill a phob ryw dawd yn dygwydaw yn dafyneu arnunt. ar holl dieuyl yny maedu a ffrywolleu tan gan amrysson. ef a welit yno pob ryw boen or a ellit y vedylyaw. Y marchawc a welei yno rei oe getymeithon a atwaenat yn hyspys. Nyt oed a allei dywedut yr utua. ar lleuein y truein y rei a welei ef yno. A llawn oed y meyssyd o dieuyl yn crogi dynyon gyt a rei ereill a grogyssynt yno. a phan vynessynt hwy poeni y marchawc yno. y gelwis ynteu enw iessu. ac y bu digodyant idaw.

XVI.—Gwedy y myned odyno y le arall. hwy a welynt rot o tan anryued y meint gyr y bronn. ac ar gylcheu y rot ydoed bacheu tan o bop parth. a dynyon ynibin ar y bacheu. ar neill emyl yr rot oed ygorucheldyr yr awyr. ar llall oed yn dyfynnder y dayar. a fflam o tan brwnstan oed yn kyuodi or dayar ygkylch y rot. ar fflam honno yn llosci y rei truein aoed ynibin wrth y bacheu. Ac yna y dywat y dieuyl. Y poeneu a odef y rei hynn oll ti ae godef ony mynny ymhoelut dracheuen. Ti a wely hagen yn gyntaf aodeuant hwy. dieuyl oed o bop parth udunt yn gwau trossolyon heyrnn yrwg breicheu y rot. ac yny throi yn gyfuanet nac oed hawd gwelet y dynyon oed ygkroc wrth y bacheu. namyn megys kylch tan y gwelit yn seuyll rac

ebrwydet y troci. A phan vyrryyssynt hwy y marchawc ar yr rot. ae dyrchauel or rot ef yn yr awyr. y gelwis ynteu enw iessu grist. ac y disgynnwys yr llawr heb argywedu dim idaw.

XVII.—Odyna y kerdassant y dieuyl ar marchawc ygyt ac wy parth a thy mawr. a mwc aruthyr ohonaw. a mawr oed let y ty. ny ellit hagen gwelet pa gyhyt oed. rac y hyt. A phann oed dalym y wrth y ty yn dyuot. ef a gymerth ofyn rac meint y gwres a weley yn dyuot or ty. a seuyll a wnaeth. ar dieuyl a dywat wrthaw. ennynva ysyd yma yny lle a wely ti. mynnych. na mynnych reit yw yti gerdet hyt yno ac ymneinnaw yndaw. Hwy a glywyn hagen y rei truein yn cwynaw. ac yn lleuein yn y ty. Pan deuth yr ty. ef a welas gweledigaeth aruthyr yno. kyflawn oed lawr y ty o bylleu crynnyon dwfyn. a rei hynny oed bop un wrth y gilyd mal yd oed anawd y neb vynet y ryctunt. a phob un or pylleu hynny oed lawn o amgen vwyn yn tawd brwt. ac yn sodi yndunt gwyr. a gwraged. meibon. a merchet. nyt riuedi bychan o dynyon. a rei ohonunt gwedy sodi oll. ereill hyt y haeleu. ereill hyt eu llygeit. ereill hyt eu geneueu. ereill hyt y mynnygleu. ereill hyt eu bronneu. ereill hyt eu bogel. ereill hyt y mordwydyd. ereill hyt y glinyeu. ereill hyt y ysgeired. ereill yn seuyll ae un troet yndaw. ereill ae dwylaw yndaw. ereill ar neill law yndaw. Pawp hagen ygyt yn lleuein. ac yndaw yn udaw. ac yn wylaw rac dolur. Ac yna y dywat y dieuyl wrthaw. Reit yw yti ymynneinaw ygyt a rei hynn yma. a dyrchauel y marchawc a wnaethant ar darparu y vwrw yny morbelleu hynny. ac val y gelwis ef enw iessu. y diffygyssant wy yny darpar.

XVIII.—Odyna y dieuyl a ducssant y marchawc ygyt a hwy y vynyd mawr. ac yny mynyd hwnnw yd oed lawer o dynyon noethon. gwyr. a gwraged. hen a jeueinc. ac yn grwm ar vlaen y byssed. a mwy oed niuer y mynyd hwnnw nor holl niueroed a welsei ef gynt. a rei hynny oll oed megys yn adolwyn agheu yn ergrynedic. ae hwyneb tu ar gogled. ac enryuedu a wnaeth y marchawc. beth a adolygei y niuer truan

hwnnw. Ac un or dieuyl a dywat wrthaw ef. Ac attoeth yn ryuedu yd wyt ti. beth a ery y bobyl mor ergrynedic a hynn yma. Ony chytsynnyy a ni. ac ymhoclut dracheuen. ti ae gwybydy yr ergryt a ery y bobyl honn. Breid y daroed yr dieuyl dywedut hynn. nachaf wynt garw or mynyd yn dyuot. ac yn ysglyffleit y dieuyl. ar marchawc. ar holl bopyl. ac yny bwrw ympell yr parth arall yr mynyd ymywn auon lynedic. ac oer. dan udaw. a chwynvan. Nyt oed oeruel kyffelyb yr oeruel yr auon honno. ac val y keissynt wy ymgyuot or dwfyr hwnnw. y dieuyl oed yno heb orffwys yn redec. ac yny sodi. Y marchawc yna a goffawys y amdiffynn. ac a elwis enw iessu grist. ac yr lann arall y dieghis.

XIX.—Odyna y dieuyl a tynnassant y marchawc gyt ac wy yn erbyn y gwynt twym. ar asseu. ac ef a welas rac y vronn fflam aruthur. a llyfedigrwyd brwnstan a tebygei y vot yn llosci. megys yn kychwynnu o bydeweu. a dynyon noethon. gwyr a gwraged. jeueinc. a hen. megys gwrychyon tan yn yr awyr y ar y phlam. ac elchwyl yn dygwydaw yn y pydeweu. ac yn y tan hwnnw heb orffwys. A phann nesseynt yno. y dieuyl a dywat. y marchawc. a wely ti y pydew hwnn ar fflam ohonaw. llyma y mae uffern. ac y mae yn cartref ni. a chan gytsynnyeisti a ni hyt hynn. ymma y trigyy titheu gyt a ni yn tragywyd. a phawb or an gwassanaethont ni. yma byth ygyt a ni y trigyant. Or doe titheu un weith or lle hwnn. dy eneit. ath gorff a ant ygkyfyrgoll. Or bydy titheu hagen wrth ygkyghor ni. ti aelly vynet yn didrwc dracheuen. Ynteu o nerth duw a tremygawd y hadaweu wy. ae bygytheu. ae kyghoreu. ac y dygwydassant y dieuyl tin drospenn yny pydeweu. ac y tynnassant y marchawc gantunt. a phei dyfnaf y dygwydei yny pydew. llet let y caffei. a mwy vwy y boen. a chymeint vu y boen yna. a hayach na deuth cof idaw enw yr arglwyd. ac eisswys val y gelwis dan ucheneittaw enw iessu grist. ar hynt grym y fflam ae taflawd yn yr awyr y gyt ar lleill. a disgynnu awnaeth yn y seuyll gyr llaw y pydew. a phan oed ef velly heb

wybet pa le yd aei. nachaf dieuyl ereill or pydew yn dyuot nyt amydwaynat ef ac wy. a rei hynny a dywat wrthaw beth a seuy ti yma. ac yma y dywat y ketymeithon yti vot uffernn. kelwydawc wynt. yn defuawt ni yw dywedut kelwyd yn wastat. hyt pan twyllom ni trwy gelwyd y neb ny allom ni y dwyllaw trwy wir. nyt yma hagen y mae uffern. namyn y lle y dugwn i diti yr awr honn.

XX.—Ac odyna y tynassant y marchawc a chadwyneu aruthyr mawr gantunt y avon lydan. lynedic. ac gwedy y hennynnu yn un fflam o dan brwnstan. ac yn gyflawn o dieuyl. ac yna y dywat y dieuyl wrth y marchawc. dan yr avon honn y mae uffernn. ac nyt ednebydy di vot uffernn yma. Pont hir a wely ti ar traws yr auon. a reit yw yti gerdet ar hyt y bont honno drwod. nynheu a gyffrown y gwynhoed mawr. ar tyrryaneu ar cyffleu wrth dy vwrw ti y ar y bont yn yr afon an ketymdeithon nynheu ath gymerant ti. ac athsont yn uffernn. a ni athebrygwn hagen yn gyntaf y etrych pa diogelet vo yti vynet trwyr bont. ac arwein gyr y vreich a wnaethant. a daly y law ae ffrydyaw. Tri pheth oed ofynawc yr neb a gerdei yr bont honno. Yn gyntaf rac culet y bont. o chaffei neb le y osot y troet arnei. breid y caffei yr eilweith. kyulet oed. ac ydoed amheu y neb allu seuyll arney rac y chulet. Y trydyd yw rac uchet y darchafei yn yr awyr aruthyr oed y gwelet. Ac yna y dieuyl a dywat wrth y marchawc. o mynny ufydhau yni. ac ymhoelut drachevyn. ty aelly vynet yn diogel yth wlat y wrth y perigyl hwnnw. Y marchawc ffydlawn ygkrist hagen a vedylywys y sawl berigyl y rydhaawd iessu ef ohonaw gan alw y enw ef. a gerdawd y bont dan vessuraw troeduedeu. a galw enw iessu grist. a dodi y ymdiret yn yr arglwyd awnaeth. a cherdet yn gadarn heb synnyaw beth oed llet y bont dan y traet. a bei uchaf y kerdei mwyvwy caffei. ac yn y lle ef a gynnydwys llet y bont val y caffei garr olwynnyawc mynet arnei. ar dieuyl a ducsynt y marchawc yno. a sauassant ar benn y bont heb allu mynet ymlaen hynny. namyn

y ymadolwyn ar lithraw y marchawc dros y bont. A phan welsant hwy ef ynn mynet yn ryd. kyffroi yr awyr a wnaethant o leuein. hyt pan oed anaws idaw odef yr udaw hwnnw. ar lleuein nor holl boeneu a diodefasei gynt oll y gantunt. A phan welas ef wy heb allu kerdet y bont. diogel uu gantaw yna y hynt gan goffau y war athro. Y dieuyl yna a vyrryassant bacheu heyrn ataw ef y geisaw y attal. ac ynteu aaeth yn didrwc y gantunt wy. A gwedy y vynet yn diogel etrych awnaeth yny gylch. a breid y gwelei y bont y wrthaw rac y llet.

XXI.—Gwedy y mynet y marchawc yn ryd y wrth y diefyl o bop peth. ef a welas mur mawr uchel rag y vronn or dayar hyt yr awyr. Ryued hagen oed uchet y mur hwnnw yn ychtywynnedic y gyweirdeb o vein gwerthuawr. ac eur. ac aryant. A phan nessaawd ef at y porth. y porth a agores yny erbyn. o hanner milltyr o let. a chweccet oed yr arogleu a doei y wrth y porth. a chyt bei yr holl vyt yn ireit gwerthuawr. a mawrder yr hynawster hwnnw a wnaeth idaw ef gymryt y nerthoed. mal y tebygei ef nat oed volest gantaw ef godef yr holl boeneu a diodefassei gynt. ac ef a edrychawd o vywn y porth. ac a welas gwlat oed eglurach nor heul pan vei egluraf. ac nyt oed ryued kyt hwennychei ef vynet ymywn yno. Gwynn y vyt oed y dyn yd agorit idaw y ryw borth hwnnw. ar neb a adawd y marchawc y dyuot yno nys twyllawd. canys pan deuth ef yno ymywn. y deuth y ryw processiwn yny erbyn yn gywir o grogeu. a llumanneu. a thapreu cwyr a cheigeu budugolyaetheu o eur megys na welat eiroet yny byt hwnn y ryw processiwn hwnnw y veint. Yno y gwelat ef dynyon ymhob ryw urdas. a phob creuyd. gwyr a gwraged. jeueinc. a hen. Rei megys escyp. ereill megys archescyp. ereill megys abbadeu. ereill megys kynhonwyr. myneich. ac offeireit. a gwassanaethwyr y lan eglwys. ymhob creuyd gwedy gwiscaw gwiscoed kyssegredic megys y gwedey y bawp herwyd y urdas. Un ryw ffuryf hagen oed ar wiscoed pawb ohonunt. ac yscolheigyon. a lleygyon ac a buyssynt vyw yn yr oes.

XXII.—Hwynteu a gymerassant y marchawc yna trwy lewenyd ac enryded mawr. ac a gerdassant ac ef ymywn dan ganu kywydolaetheu. a cherdeu ny chlywsit eiroet eu kyffelyb. Gwedy daruot y processiwn ar kywydolaetheu y deuth deu archescop. ac y kymerassant y marchawc yny ketymdeithas y dangos idaw y wlat. ae thegwch ae gogonnyant. ac yn gyntaf y dywedassant hwy. Bendigedic vo yr hwnn a gadarnnhawys dy vryt ti mywn gwastadrwyd y odef y poeneu a odefeist.

XXIII.—Ny a allei dauot y draethu. na llaw y yscriuennu y gyniuer didanwch a welas yn y wlat honno. a thrwydi y dugant ef y edrych y lleoed tec. Ky egluret oed lleuuer y wlat honno. ac na wdyn dim wrth lleuuer yr heul gan veint eglurder oed yno. Eglurder hanner dyd a welit yn tywyllu gan eglurder y wlat honno. Ny wydat ef teruyn ar wlat honno rac y meint. namyn y parth y deuth yr porth y mewn. Yr holl wlat hagen oed megys gweirglawd dec. ac yn hir. a thec oed o lawer o vlodeu. a phrwytheu. a llysseu. a gwyd. ac yno y mynnei ef triggyaw y tra vei vyw yn gwarandaw arogleu y rei hynny. Ny doy tywyllwch yno byth. canys lleuuer o eglurder y nef tragywyd a vydei yno. Ynteu a welei yno lawer o dynyon. gwyr. a gwraged. ar ny thebygei neb y welet yn yr holl vyt eiroet y gymeint a hynny yn un gynnulleitua. rei yn y lle hwnnw. ereill yn lle arall ar wahan. a hynny o bawp val y mynhei. a rei or vydin honn a gerdei yr vydin arall. ac velly o un y gilyd hyt pan lywenhaei y rei hynny o welet y rei ereill.

XXIV.—Coreu tec oed yn seuyll yny lleoed hynny. a molyant y duw a seinei yndunt o gywydolaetheu. a phynckeu melys. A chymeint oed y gwahan y rwg adwynder wynebeu rei ohonunt a rei ereill. o eglurder a chyweirder eu gwiscoed. ar gwahan a vyd rwg eglurder y seren ar llall. rei ohonunt a gwisc eur ymdanunt. ereill a phorffor gwyn a mein gwerthuawr glas yndaw ymdanunt. Ffuryf eu habyt ae gwisc a dangossei pob un ohonunt yr marchawc yn wahan-

redawl megys yd aruerynt y gwiscaw ynyr oes honn. ae herwyd anryded. ae herwyd urdas. Amgen liw hagen oed ar eu habit. ac o amgen eglurder y llewychynt. Rei ohonunt megis brenhined coronawc y gwelit. Ereill a dygynt gwisc eur yn y dwylaw. Nyt oed lei hagen tegwch a digrifwch a welei yr marchawc y rei kyfyawn yn y lle hwnnw. no hynawster a digrifwch y kerdeu teckaf. ac ny ellit dywedut melyset y clywit y kywydolaetheu seint o bop parth yn moli duw. Pawb hagen oed lawen oc briawt ewyllys. ae dedwydyt e hun. a phawb yn dyrchauel llewenyd y gilyd. Nyt oed reit y neb wrth dim digrifwch namyn gwarandaw hynnawster yr arogleu tec a glywit yno. Bendigaw duw a wnaei pawb pan edrychei ar y marchawc. a llawenhau oe dyuot yno. megys bei kychwynneu brawd udunt o veirw. Ef a welei atnewydhau pob peth oe dyuot ef yno. llawen oed pawb. Sein y seint a glywit yny coreu o bop parth. Nyt oed yno na gwres nac oeruel. na dim a allei argywedu. na chodyant y neb. tagnouedus a bodlawn oed pawb yno a hegar. Ef a welas yn y lle hwnnw ar ny a allei neb nae dywedut nae yscrivennu.

XXV.—Ac yna y dywedassant yr archescyb wrth y marchawc. llyma vrawt o nerth duw y gweleisti yr hynn a damuneist y welet yn dyuot. yma y gweleist poenneu y pechaduryeit. Ac yma y gweleist y gorphwys yssyd y rei kyfyawn. Bendigedic vo y creawdyr a brynwys pawb ac a rodes yti y ryw darpar o rat a wnaeth yti mynet trwy y poenneu gan wastatau yn ffyd. O garedic yr awr honn y mynnwn. i. yti atnabot pale oed y gweleisti y poenneu yndaw. a phywlat yw y wlat vendigeit honn.

XXVI.—O honn y byrrywyt adaf yn kyssefyn tat ni o achaws keryd neu gabyl y annufylltawt. Kynn hagen y vot yn annufyd y duw yd oed idaw lewenyd a gyffelybir yni. nyt yr hwnn a wely di. namyn geireu duw ehunan a glywei ef yn wastat yma. o leindit callon. ac o hynt goruchel weledigaeth. Diheu y gwelei ef yma y gwynvytedigyonn egylyon pan dygwy-

dwys ef trwy annufylltawt or gwynvytedigrwyd hwnn. ef a golles holl leuuer y vryt. a chany bu dyall gantaw pan oed yny anryded. ef a gyffybybwyt y annyueil ynvyt. ac ynteu a wnaethpwyt yn gyffelyp y ryw un hwnnw. Y holl blant ef a vyrrywyt y agheu val ynteu e hun o achaws y anffydlonder ef o gestedigawl gabyl.

XXVII.—A duunolyaeth yn gwar arglwyd ni duw. gwedy y gyffroi adaf. a ossodes yn harglwyd ni iessu grist y un mab ef. y gymryt knawt yr trueni dynawl genedyl. A gwedy y kymerom nynheu y ffyd ef trwy vedyd. ny haedwn ymhoelut yr wlat honn. gwedy an rydhaer or pechodeu a wnelom. a hen bechawt adaf. gwir yw yn pechu ni yn vynych trwy vreuolder y corff gwedy kymryt ffyd o honam. an aghenreit nynheu oed haedu madeueint on pechodeu trwy benyt. Y penyt hagen a gymerom ni y dodi arnam kynn agheu. neu yn y dyd diheu. kyn agheu diwethaf. ac nas cwplaom ni yn y byt hwnn. gwedyr el yr eneit or corff yny lleoed truein a weleisti yn gellygir ni gan gwynnaw y poeneu herwyd mesur y gweithret. Rei yspeit bychan. ereill a vei vwy. trwy y lleoed hynny hagen y down ni oll yr gorffwys hwnn. ac or diwed ef a iacheir pawb gwedy or aweleisti ympob lle yny boeni. ac a doant yr gorffwys hwnn. eithyr y rei a ettelir odis geneu pydew uffernn. a pheunyd ef adaw rei ohonunt gwedy eu purhau yma. a ninheu ae kymerwn hwy yn llawen. megys y kymerssom ni ditheu. trwy lewenyd oth aruthter. ath gerdet heb debygu dy dianc ohonaw. Ny wyr neb or a vo yny poeneu hynny pagyhyt y poenir ef yno. trwy hagen offerenneu. a seilym a gwedieu. ac alussenneu y rydheir y sawl y gwnelit drostunt oe poeneu. ac y dwyn y boeneu a vo llei. A haws y godef hyt pann rydhaer oe holl bechodeu trwy y ryw weithredoed da hynny. hyt pann delont yr lle hwnn yma. canyt oes neb ohonom ni a allo gwybot pagyhyt y dyly vot yma. namyn megys y dyallant y rei yssyd yny lleoed hynny. yspeit y gohir herwyd meint y cabyl. velly y mae yn gohir nynheu yma yn gorffwys herwyd y gweithredoed da a haedassam. ac yn vychan ae yn vawr. a chyn rydhaer

ni oll or poeneu hynny. nyt ym deilwg ni etwa y vynet y wlat y seint. Nyt oes neb ohonom ni a adnappo nar dyd nar teruyn yn symutter ni y le a vo gwell. yma hagen y mae ni orffwys mawr. a gwedy del y teruynn gossodedic. ef an dygir ni y lewenyd a vo mwy. ahwaneccau awna yn ketymdeithon ni beunyd o rei. a lleiheu o ereill. kanys beunyd yn wahanredawl y daw rei attam ni or poenneu. ac yd a ereill y wrthym nynheu y paradwys nefawl.

XXVIII.—Ac yna y dugant hwy y marchawc y gyt ac wy y benn mynyd mawr. ac yd archyssant idaw ef etrych pa liw a welei uch benn ar yr awyr. ar nef. Ac yna y dywat ef. mi a welaf heb ef yno megys eur yn llosci ymywn ffwrnn. Heb wynteu porth paradwys nefawl yw hwnnw. ac ar y porth hwnnw yd ant y rei a dyccer y genym ni y nef. Ac ny dyly dirgelu ragot ti dim or wed y pyrth yr arglwyd nini un weith beunyd o vwyt nefawl. ti a wybydy hagen yn awr y gyt a ni pan y bodho duw. pa gyffelyb vo y bwyt hwnnw. ar hynny nachaf megys fflam dan y disgynnwys ympenn pob un ohonunt. megys peledyr yr heul. ac or diwed y fflam aaeth yndunt. Odyna ef a disgynnwys yny gorff ac yny gallon kymeint o digrifwch. a melyster hyt na dyallei beth oed ae byw. ae marw. rac meint y melyster. Yn ebrwyd hagen yr aeth honno heibyaw. llyma heb wy y bwyt a daw yni un weith beunyd y gan duw yn porthi. Y neb ael y wrthym nynheu y nef or bwyt hwnn yd aruerha yn tragywyd. A chan gweleisti yn brouedic yr hynn a damuneisti y welet. nyt amgen. gorffwys y rei da. a phoenneu y rei drwc. reit yw yti vrawt mynet yr un fford y deuthost o honei dracheuen. ac o bydy gymhedrawl. a glan dy uuched o law hynn diogel yw ytt caffel y gorffwys hwnn. a nef yn y diwed. O llygry ditheu hagen dy uuched herwyd ewyllys dy gnawt. dy bresswylua a vyd yny poenneu a weleisti yn tragywyd. Dos tracheuen a diogel yw it. cany wely yr aruthter a weleisti gynt yn y mynyd yn awr yn dyuot.

XXIX.—Ac yna y dechreuis y marchawc yn ofynawc

ac yn trist gwediaw yr archescyb hyt na chymhellit ef y ymhoelut or llewenyd hwnnw y boeneu y byt hwnn yma. ny ellir yr hynn a dywedy ti heb wy. namyn duw a adnabu yr hwnn yssyd diheu y bawp megys y hardunywys ef. Ynteu a gerdwys yn truan ac yn trist. mynhei na mynhei. ac a gymerth eu bendith. ac yna trist o lesc. ef a ymhoelawd dracheuen yr un fford y dathoed. heb y volestu o neb ryw boen o rei gynt a welssei. a phorth yr ogof a gauas yn agoret. ac y blith y cwuent y doeth. ac y mynegis udunt y hynt. or pan a ethoed yr ogof y mywn hyt pann deu ymaes ohonei. Ac yna y peris y prior yscriuennu y damwein ef. ac yno y mae yn trigyaw hyt hediw.

(Obit' Elisse ap Gruffy' ap Eign Anno Dñi Mill'o cccclxxxix.)

The Welsh text is transcribed from *Llyvr Gwyn Rhydderch* in the Peniarth Library, and is a literal version from the Latin *Purgatorium Sancti Patricii*, printed in 'Florilegium Insulæ Sanctorum, seu Vitæ et Acta Sanctorum Hiberniæ. Quibus accesserunt non vulgaria monumenta. Hoc est Sancti Patricii Purgatorium, etc., quæ collegit et publicabat Thomas Messinghamus, Sacerdos Hibernus.' Fol. Parisiis, 1624.

Llyma mal y treithir o vuched meir wyry ac o vabolyaeth an harglwyd ny iessu grist. herwyd mal y yscriuenwys mathew euangelystor yn eurey. a sein jeronym o lyuyr mathew ae troes o yeith eurey yn lladin trwy adolwyn y gan chromatius ac elyodorus.

I.—Y mae chromatius ac elyodorus yn anvon annerch a charyat yn yr arglwyd oc eu karediccaf vrawt y geronym offeirat. Nyni a gawssam ganedigaeth meir wyry. a mabolyaeth an harglwyd ny iessu grist y mewn geu lyureu. yn yr rei y gwelsam lawer o betheu gwrthwyneb yn ffyd ni. ar petheu gwrthodedic oll a gudyassam rac rodi ohonam ni yr ancrist lewenyd drwy blyc ar grist. A gwedy edrych hynny ohonam y managassant deu wr. nyt amgen armenius a iunius yni. caffel o santeirwyd dy lyuyr yn eurey a yscriuennassei vathew euangelystor ae law ehun. yn yr hwnn ydoed vuched meir wyry. a mabolyaeth yn prynnyawdyr ni. Ac wrth hynny ny a wediwn dy garyat di yn yr arglwyd iessu grist. hyt pan wnelyd dy tynnu y llyuyr hwnnw yn lladin o eurey y gymryt o honaw arderchogrwyd crist. ac y vwrw ymeith ystryw geugreuydwyr. yr rei a ymgymysgant eu kelwyd gyt ar anedigaeth anrydedus y geissaw kymryt gantunt wy dysc drwc. val y kelynt chwerwder agheu drwy veluster buched. trugared garedic yw y titheu yn gwarandaw ni esgyb. a brodyr yth wediaw o dylyet caryat. ac a welych ditheu y vot yn yawn gwna. Iechit ytt y gan duw. a gwedia drossawm. Eronym bellach dracheuen yn anvon pob gleindit ac annerch y chromatius ac elyodorus esgyb. Canys ydych chwitheu yn chwennychu gwelet hynny. nyt

kudyaw dysc a dylyir. namyn y dangos yn amlwc. Mathew a vynnawd dangos y llyuyr hwnnw yn gyhoedawc. Y llyuyr hwnnw trwy nerth duw mynneu ae tynnaf yn lladin y chwi. Canys caryat crist yw ufudhau y wedieu seint val chwi. val y galloch dyuot ar vabolyaeth crist trwydofi.

II.—Yn y dydyeu hynny ydoed gwr yn yr israel. Joachym y enw. o lwyth iuda. a hwnnw bugeil deueit oed. ac ovynn duw arnaw yny vulder. yr hwnn nyt oed amgen bryder arnaw namyn cadw y deueit. or rei y porthei ef yr rei a ofuennyn duw. Ac yn rodi deuryw rodyon yn ovyn duw. y rei a lauuryeint yn y dysc. ac y rei a wasannaethei udunt oe wyn a mynneu. a gwlan. ae holl da bydawl. teir rann pob blwydyn. Un a rodei yr meibon ymdiueit ar gwraged gwedw. ar pererinyon ar aghennogyon. ar eil rann a rodey y rei a diwyllynt duw. ac or tryded rann ynteu ae dylwyth a ymborthey arney. Yn pymthegmlwyd y dechreuod y vuched velly. ac yn yr ugeinvet vlwydyn y kymerth wreic. anna y henw. verch ysachar o lin dauid. ac ugeinmlwyd y buant y gyt heb gaffel plant. Dyd gweith gwyl y doeth Joachim y gyt a niver a oed yn gwneuthur aberth y duw. a phan yttoed Joachim yn anluyaw y anregyon ynteu y duw. y doeth attaw un o hynauyeit y temyl. Ruben y enw. ac y dywot wrthaw. nyt cannyat y ti seuyll yn y temyl y aberth y duw. canyt vendigawd duw dydi y rodi plant yt yn yr ysrael. Kewilyd a fu arnaw yggwyd y bobyl. ef a gilyawd or temyl ac a wylawd. ac nyt ymchoelawd y ty. namyn ar y ysgrybyl. a dwyn y gyt ac ef bugelyd yr y mynet y eithauoed val na chlywei y wreic dim y wrthaw. Tra yttoed hitheu yn wylyaw yny gwedy y dywawt val hynn. Arglwyd cany rodeisti ymi veibon. paham y dugost vy gwr y gennyf. llyma pymhis na welas vy gwr. ac na wn pa du y bu varw. val y kaffwn peri y gladu. A hi yny wylaw yny herber. ac yny gwediaw. dyrchauel y llygeit ar yr arglwyd awnaeth. hi awelei ederyn yny llawrwyden. hitheu a vyryod ebwch ar yr arglwyd. ac a dywot. Arglwyd duw hollgyuoethawc. ti a rodeist y

pob creadur etyued. yr annyueileit. yr pryfet. yr pyscawt. ac yr adar. a llawenyd udunt yw eu plant. Mivi vy hun a dieithreist or rod hwnnw. titheu a adnabuost o dechreu vympriodas. i. pe rodut ym blant. ae mab ae merch. mi ae rodwn yth wassanaeth.

III.—A thra yttoed yn dywedut hynny. gar y bron hi y ymdangosses idi agel. yn dywedut. Anna nac ofnaha. canys yghygor duw y mae dy blant ti. ac a aner ohonat ti a vyd ryuedawt yr holl oesoed hyt y dywed. A gwedy dywedut or agel hynny mynet awnaeth ywrthi. Hi a ergrynnawd pan welsei yr agel yn dywedut yr ymadrawd. ac yna hi aeth ychudygyl. ac a yntredawd yr gwely. a megys marw. yn hyt y nos ar dyd y trigyawd yny gwely. Gwedy hynny hi aelwis y morwyn attei. ac a dywot wrthi. A wely di vygwedawt. i. am gouut. ac ny vynneisti dyuot attafi. Ac yna y hattebawd y morwyn hi dan trablud. a o chayod duw dy groth di. ac aduc dwy dy wr gennyt. beth awnafi yti wrth hynny. Anna pan gigleu y vorwyn yn dywedut hynny a wylod eilweith. Yn yr amsser hwnnw yd ymdangosses gwas jeuag yrwg y mynyded y lle yd yttoed Joachym wrth y ysgrybyl. ac a dywot wrthaw. Paham heb ef nat ymchwely di att dy wreic atref. Joachym a dywot. ys ugein mlyned ydym y gyt. ac am nat oed yn blant. my a gylieis or temyl yn waradwydus gewilydyus. beth a ymhoelaf attei pan ym bwrryer unweith ywrthi. yma y trigyaf i. gyt am deueit y tra vynno duw vy myw. drwy dwylaw vy meibon i. y rodaf y aghenogyon. a gwraged gwedw. a meibon ymdiueit. ar rei a diwyllynt duw. y rann om da. Ac idaw ynteu yd attebawd y gwas jeuang. Agel y duw wyf i a ymdangosseis hediw yth wreic ti yn wylaw. ac yn gwediaw. a mi ae dideneis hi. yr honn a wyppech di y keiff veichogi o honat. A honno temyl y duw vyd. ar yspryt glan a orffowys yndi. a hi a vyd gwynuydedic ar yr holl wraged. yn gymeint ac na dywetto bot y chyffelyp kynno hi na gwedy. Disgynn or mynyd ar dy wreic. a thitheu ae keffy hy eneit yny chroth. yr arglwyd duw a gyffroes hat yndi. ac ae gwnaeth yn

vam yr tragywydawl vendith. A ioachym ae gwediawd ac a dywot wrthaw. O cheueis i. rat gar dy vron di. eisted ychydyc yn temyl i. a bendicca dy was di. Yr agel a dywot idaw. na dywet di dy was. namyn dy gytwas. y un arglwyd ydym weisson. nyt amgen. y duw. Canys vy mywyt i. am diwawt anweledic yw yr dynyon. ac wrth hynny nyt myvi a dylyy ti y wediaw vynet yth temyl ti. namyn yr hwnn a rodut ymi. gwna aberth y duw ohonaw. Yna y kymerth Joachym oen. ac y dywot wrth yr agel. ny veidwn. i. wneuthur aberth y duw. pei na bei dydi ae harchei. a rodet gannyat ymi y aberthu. Yna y dywot yr agel. nyt annogwn. i. dydi y aberthu. pei nat adnabydassawn ewyllys duw ymdanat. Ac ef yn gwneuthur yr aberth. y gyt ar mwc or aberth yd aeth yr agel y nef.

IV.—Yna y dygwydawd ioachym yn dadolwch. or hwechet awr or dyd hyt bryt gosper. meibon a chynewitwyr a doethant attaw. cany wydynt paham y dygwydassei. a debegyssynt y vot ehun yn y lad. breid y drychauassant. A phan dywat ef udunt wy yr hynn a welsei o ryvedwch ac ovyn. wynteu a annogassant idaw gwneuthur yr hynn a archassei yr agel heb ohir. ac ymchwelyt at y wreic yn diannot. Gwedy treiglaw o ioachym yny vedwl beth a wnelei ae ymchwelut ae peidyaw. y dygwydawd kyscu arnaw. ar agel a ymdangossassei idaw y dyd hwnnw. ac ef heb gyscu. a ymdangosses trwy y hun. ac a dywot wrthaw. Myvi yw yr agel a rodes duw yn geitwat ytti. dysgyn yn diogel ac ymchwel ar dy wreic. y da a wnaethost ti ath wreic. y mae yn amlwc ger bron yr hollgyuoethawc. a ryw hat arodet yt. y kyuryw ny bu eiroet. ac nys cauas y prophwydi eiroet y kyffelyp. ac nys caffant vyth. A phan deffroes Joachym y gelwis attaw y veibon. ac y menegis udunt y vreudwyt. ac wynteu a wediassant duw. ac a dywedassant. Mogel bellach rac tremygu agel duw. kyuod a cherdwn. ac yn araf gadwn dan gerdet yr ysgrybyl y bori. Wynt a uuant dec niwarnawt ar hugeint yn dyuot. Yna yr ymdangosses yr agel y anna. a hi yn gwediaw. ac y dywawt

idi. dos yr porth aelwir y porth eur. a thi a gyuarvydy ath wr yno. canys hediw y daw attat. a hitheu a vryssyod. hi ae morynnyon. ac yny porth y seuis ac y gwediod. A gwedy hir aros pan dyrcheuis y llygeit. y gweles Joachym yn dyuot ae ysgrybyl gar y vronn. a hi a aeth dwylaw mynwgyl idaw. a hi a dalawd diolwch y duw. ac a dywot. Gwedw oedwn ac nyt wyf bellach. diffrwyth oedwn a beichawc wyf yr awr honn. A llewenyd mawr vu gan bawp oe chefnessafyeit ac eu ketemdeithon hynny.

V.—Nawmis gwedy hynny y ganet merch y anna. a meir vu y henw. Gwedy meithrin y verch teir blyned. yr aeth Joachym ac anna y temyl duw. y wneuthur aberth idaw. a rodi meir yn llawuorwyn idaw. ac ygketemdeithas y gwerydon. yr honn y dyd ac hyt nos a trigyawd ygwassanaeth duw. A gwedy gossot gar bron y temyl. hi aesgynnawd pymthec or gradeu y temyl. hyt nat edrychei veir ar y reeni mal y gnotaei maban jeuegtit. am hynny y ryuedawd pawb o hyneif yr eglwys. Yna anna yn gyulawn or yspryt glan. hi a dywot ygkyfedrychedigaeth pawb. Duw arglwyd y lluoed. cof yw gantaw y geir a dywot. ef a ovwyha duw y bobyl o law tramwy yny drossei ef y kenedloed a challonneu y rei ufyd. ac ef a agores y glusteu ef ar yn gwedieu ni. ac a bellaod y wrthym ni kyrcheu yn gelynyon. diffrwyth oed y vam. a hi a vagawd goruchelder yn yr israel. a llewenyd. Yr awr honn y gallafi rody offrwm y duw. ar ny allan vygelynyon. i. vygwahard. Duw a drosses y rei hynny ywrthyfi. ac a rodes ym lewenyd tragywydawl. Yttoed meir yn ryvedawt yr bobyl. yr honn pan oed teir blwyd a gerdei oganeu. ac yn berffeithaf y dywedei. Ac velly yd yttoed yn ystydyaw ymywn molyanneu duw. ac a oleuhaei hyt na thebygit y bot yn verch namyn yn vawr y hoet. canys kynn brudet y ymrodei y wedieu a chynn bei degmlwyd ar hugein. ac hwyneb ac oleuhaei yn gyn egluret a breid y gallei neb kyuedrych yn y hwyneb. Ymrodi a wnaei yn y du. ac y wneuthur gweitheu ny allei wraged yn yr oes yn eu gwneuthur. a hi a gynhalawd y reol honn yn oct tynner heb y thorri.

VI.—Or bore beunyd hyt traean dyd y gwediei. or nawuet eilweith yd aei y wediaw. yny ymdangossei yr agel idi. yr hwn a rodei vwyt idi. A gwellwell o hynny allan y dygrones yn ovyn a charyat duw. ac yny diwed gwedy kymryt dysc ohonei y gan werydon oed hyn a mwy no hi. yn diruawr garyat daconi y llauuryawd yny vei gyntaf hi yn y gwyluaeu. a dyscedigaeth yn doethineb kyureith. Ufuydach yn ufuydawt. adwyn yny cantygleu. karueidach ygharyat duw. glanach ymhob gleindit. perffeithach yn y nerthoed. Cadarn oed ac agkyffroedic yn y ffyd. a pheunyd gwellwell y kerdei yn y gleindit. Nys gwelsei dyn eiroet hi yn llittyaw. nac yn dywedut geir drwc eiroet. pob ymadrawd or dywettei oed gyulawn o rat. yny ettweinit bot duw yny thauot hi. ygwedi a chyssynededigaeth kyureith duw y trigei. a goualus yghylch y chetemeithesseu oed. rac pechu or un yny ymadrawd. neu dywedut drwc wrth neb. Duw a volei heb dewi. ymhob ymadrawd diolch a talei y duw. yny diwed genti kyntaf y dysgwyt pan ressaw dyn dyn arall. atteb duw a roda ytt. peunyd yd oed yn y phorthi hi yr hwnn a gymerei o law yr agel. ar hynn a delei ydi y gan wyr y temyl y aghennogyon y rannei. Yn vynych y gwelynt egylyon yn ymdidan a hi. ac yn ymadrawd yn garedicaf. Pwy bynnac hagen or rei cleiuyon y rodei hi y llaw arnaw. iach vydei.

VII.—Yna y knygyawd abysachar offeirat y rodyon amyl y esgyb y temyl yr y rodi yn wreic oe vab ef. Meir a dywot yna. ny dichon hynny na chymryt ohonafi wr. nac o wr vynneu. Yna y dywat y gwr pennaf. Duw a dihwyllir yny meibon. ac yn yr etiuedyon a anrydedir. vab y bu eiroet ympobyl yr israel. Ac yna y dywawt meir wrthunt. yn diweirdep gyntaf y molir duw. ac y anrydedir. kanys kyn abel ny bu wyryon neb. y offrwm ef aragawd bod y duw. yr hwnn ny ragawd bod y duw ae lladawd. Duw y goron hagen a gauas abel. coron weryndawt. a choron tros y aberth. cany adawd llygredigaeth yny gnawt. Ac velly y cauas hely. canys ketwis y gnawt yn wyry. hynny a

dyggeis. i. yny temyl o mabolyaeth. a hynny a vedylyeis ym callon na chymerwn vyth wr. Pan doeth y betwar vlwyd ar dec. y dywedyssant gwyr y temyl o deuawt gwreigawl na allei hi wediaw yny temyl. Ac yna y caffet ygkygor peri yr holl dinessyd a llwytheu yr israel y trydydyd bot pawb trwy dyvyn yny temyl. Gwedy dyuot yr holl boploed. y kyuodes ysachar hyt y gradeu uchaf. val y gallei pawb y welet ae glybot. a gostec a rodet idaw. Meibon yr israel. heb ef. gwerendewch vygeireu. i. yn da. yr pan adeilawd selyf y temyl honn. y buant merchet y brenhined ar prophwydi. ar offeireit yn gwediaw yndi. a phan doethant y oed deduawl wynt a gymerassant wyr. a herwyd y rei kynnog wynt bodlawn vu duw udunt. y mae meir ehun yn gwneuthur creuyd newyd yr honn yssyd yn ymrodi y duw yn wyry y tra vo byw. Ef a welit ymi bot yn iawn studyaw ohonam y gyt trwy nerth duw y geissaw atteb y ganthaw ar bwy rodit meir oe gwarchadw.

VIII.—Ar ymadrawd hwnnw a ragawd bod y bawp. a bwrw coelbrenn ar holl lwyth yr israel. ac erchi y bawp or a uei heb wreic idaw dyuot trannoeth yr temyl. a gwialen yn llaw pob un. Velly y gwnaethpwyt. a iosep oed hynnaf or temyl yrwg yr rei heb wraged udunt. a gwedy rodi y gwielyn yn llaw yr hynaf or temyl. ynteu a rodes y gwyeil yn aberth y duw. ac a erchis yr arglwyd gyghor. Yna y cauas atteb y gan duw. Dyro heb y duw y gwyeil oll yn y cor. a gat yno hyt avory. a doent avory y gyrchu eu gwyeil. ac o vlaen un or gwyeil yd ehetta colomen yr nef. ac ar berchen y wialen honno. roder meir oe chadw. Velly y gwnaethpwyt. ac yn voreawl trannoeth y doeth pawb yr temyl. a gwedy gwneuthur offrymeu. yr aeth yr esgob yr cor. ac ef a rodes y wialen yn llaw bawp. ac nyt aeth colomen or un. Ac yna y gwisgawd abysachar escopwisc ymdanaw. ac yd aethant y gyt ac ef hyneif y temyl. ac y dyvynnawd yr aberth. ac yr aeth y gwedy. Ac yna yd ymdangosses agel or nef idaw. ac y dywat. Y mae yma wialen verraf heb gyurif ohonat. ac nys dugost y gyt

ar lleill. honno pan y rodych yn llaw y neb pieu honno a dengys yr arwyd itt. Yna yd oed gwialen iosep kan oed hen gwedy yr vwrw y ymdeith. ac ynteu nys gouynawd. A phan yttoed iosep yn diwethaf oll. ysachar esgob aelwis arnaw yn uchel. Dabre. a chymer dy wialen. kanys tydi ydym yny aros. Josep a dynessawd yn ofnawc am alw or esgob yn uchel arnaw.

IX.—Yr awr y rodes y law ar y wialen. yd ehedawd colomen wynnach y lliw nor eiry. a gwedy ehedec rynnawd ohonei y nenn y temyl yd aeth yr nef. Yr holl bopyl a hoffes hynt yr hen. Gwynvydedic wyt ti. heb wynt. ytheneint. kanys duw athangosses yn aduyn y gymryt meir. Pan dywot yr offeireit wrthaw. kymer veir. kanys duw ath etholes or holl bopyl ac or holl lwyth. Josep yna ac eu gwediawd. ac a dywat yn gewilydyus. hen y wyfi. a meibon yssyd ym. paham y rodwch y verch vechan honn ymi. o oet a allei vot yn wyr ym. a llei yw noc un om hwyron. Abysachar escop uchaf a dywat yna. pony daw cof itt vegys y tremygod dathan ac abyron ewyllys duw. ar daear ac eu llygkawd. ac attoed ysderuyd y titheu y kyuryw. os tremygu a wney yr hynn a vynn duw ytt y wneuthur. Joseph ac hattebawd. ny thremygafi ewyllys duw. mi a vydaf geittwat idi y tra vynho duw hollgyuoethawc. roder rei or gwerydon y chetemdeitheseu oe chanlyn. Abysachar ac hattebawd. hi a geiff rei ohonunt yn didanwch idi yny del y dyd y kymerych di hi. Josep a gymerth meir a phymp or gwerydon y gyt a hi. ac a doethant y ty iosep. Y enweu y gwerydon hynny oedynt Rebecca. Serora. Jamia. Abygena. Zael. Yna y rodes yr escop udunt syndal a sidan a saffrwm a jacintus a llin a ffyrffor. yna y bwryassan brenneu y edrych beth a wnelei pob un. ac velly y gwnaethpwyt. ac y veir y doeth gweith or pyrffor yn temyl yr arglwyd. A phan y kymerth y dywedassant y gwerydon. kanys ieuhaf wyt ac ufydhaf. ti a hedeist gynnal y pyrffor. ac wynt val ar watwar y galw yn vrenhines y gwerydon. Atthra yttoedynt yn hynny yd ymdangosses agel y rygthunt. ac y dywat.

na phaedwch ae galw velly kyt as gwneloch herwyd gogan. chwi a dywedassawch gwir prophwydolyaeth. Y gwerydon a ergrynnyssan yggwyd yr agel, ac yn y eireu. ac wynt a dechreussant wediaw meir am vadeueint a gwediaw drostunt.

X.— Dydgweith arall ydoed meir yn llenwi llestyr yno o dwfyr. yd ymdangosses yr agel ydi. ac y dywat wrthi. Gwynvydedic wyt veir. canys ucheyryeist preswylua y duw yth uedwl. llyma y duw goleuat or nef y bresswylyaw ynot. a thrwydoti y goleuhaa yr holl vyt. Y trydydyd a hi yn gwneuthur gweith or pyrffor y doeth gwas jeuang attei. y degwch ny ellit y dattcann. Pan y gweles meir krynu o ofyn awnaeth. ynteu a dywat. meir nac ofynhaa. ti a geueist rat gan duw. ti a geueist veichogi. ac a vyd mab ytt. yr hwnn a vyd brenhin nef a daear. ac a wledycha yn oes oessoed. Y tra yttoed yn hynny ydoed iosep yn lle pell yn llauuryaw. ac yno ydoed gof prenn. a naw mis y trigyawd ef yno. a phan doeth tracheuen ydoed meir yn veichawc. ac o diruawr ovyn a gouit y gelwis ar yr arglwyd. Arglwyd heb ef kymer vy yspryt. i. canys gwell yw vy marw nom byw. Yna y dywat y gwerydon oed y gyt a meir. nyni wydam bot yn gyua y gweryndawd. ac yn anllygredic yd ymgetwis. canys gwastat yw yn gwediaw duw. peunyd yd ymdidan yr agel a hi. ac y duc ef y veir y hymborth. Pa delw y dichawn bot neb ryw bechawt yndi. ac o mynny di dywedut yn tyb ni. ny wnaeth neb hi yn veichawc hi onyt yr agel. Josep a dywat. beth a dwyllwch ohonafi val y crettwyfi y beichogi or agel. gallei y thwyllaw o arall yn rith agel. Ac wylaw a wnaeth. a dywedut. pa delw y beidyafi vynet yr temyl. neu y ymwelet ag offeireit duw. beth a wnafi. ac y medylyawd ymgudyaw ac adaw meir.

XI.—A gwedy llunyeithyaw o honaw ef kyuodi oe wely hyt y nos a ffo. nachaf yr agel drwy y hun yn ymdangos ef y nos honno. ac yn dywedut. iosep vab dd. nac aet ovyn arnat yr kymryt meir yn briawt ytt. kanys yr hynn yssyd yny chroth or yspryt glan y mae.

hi a esgyr ar vab aelwir iessu grist. hwnnw a wna yn iach oc eu pechodeu. Josep a gyuodes oc hun. ac a dalawd diolch y duw. ac a dywat wrth veir. ar gwerydon aoed y gyt a hi. ac a dattkannawd y weledigaeth. a didanwch a gymerth am veir. Mi a becheis. heb ef. canys bu typ gennyf wrth veir. Odyna y daeth y chwedylydaeth vot meir yn veichoc. a gwassanaethwyr y temyl ae delis hi a iosep. ac ae dugant ar yr hyneif y temyl. ar esgob a ymhwod ac ef yn serth. Neut wyt twylledic am wyry mal honn. yr honn a vagawd yr agel yny temyl vegys colomen. yr honn ny vynnod gwelet gwr eiroet. yr honn a gauas y dysc goreu ygkyureith duw. pei na wnaethoeduti treis arnei hy a wedyei wyry hediw. Josep a tygawd na chyhyrdassei a hi eiroet. Abysachar a dywat. duw yssyd vyw. ef a vyd reit ytt yuet dwfyr kyuryw ac a lewawd an harglwyd ni. ath bechawt a ymdengys yn diannot. Yna ydoed kynnulleidua yr honn ny ellit y rifaw. a dwyn a wnaethpwyt meir yr temyl yr arglwyd. ac yna wylaw a wnaeth yr offeireit. a reeni meir ac chyfnesseiueit. ac y dywedassant wrthi. kyffessa meir yr offeireit dy bechawt. vegys colomen y porthes yr agel dydi yn temyl duw. Ac yna y gelwit iosep wrth yr allawr. ar dwfyr a rodet idaw. yr awr y llewawd. y damgylchynnawd ef y dwfyr seith weith. ny rodes duw arwyd yn y byt arnaw. ef a vu diogel. canyt ymdangosses arwyd neb ryw bechawt yndaw.

XII.—Yna y gwnaeth yr offeireit ar gwassanaethwyr ar bopyl ef yn iach. canyt oes gwl ynot. A galw meir a wnaethpwyt. a gouyn ydi pa esgus oed genthi. neu pa arwyd a ymdengys yn vwy nogyt yr honn a dengys beichogy dy groth. Un peth a ouynnwn yt. canys glan iosep. adef yn pwy ath twyllawd. gwell yw ytti adef dy hun nogyt rodi o var duw arwyd yth wyneb y damllewychu ygkymperued y bopyl. Yna y dywat meir yn diergrynedic. ossit neb ryw lygredigaeth neu bechawt ynofi. duw ae hardangosso arnafi yggwyd yr holl boploed yny aller vy rodi. i. yn agkyffret y bawp. A hi a doeth y ymyl yr allawr. ac a gymerth y dwfyr.

ac ae llewas. ac a troes yn y chylch seith weith. ac ny chat na arwyd nac arllwybyr neb ryw bechawt yndi. A ryuedu a wnaeth yr holl bopyl y gwelet yn veichawc. ac ymodwrd y rygthunt yn amryual. un a dywedei o santeidrwyd. arall o dryc vedwl. Yna y gwelas meir typ rei or bobyl na buassei dogyn yd ymwnaethoed yn wiryon. A phawb yn gwarandaw hy a dywat yn uchel. Byw yw arglwyd pawb. ac yggwyd hwnnw y dywedafi na bu wr ym eiroet. namyn o dechreu vy oes yn teruynedic y rodeis y gouunet hwnnw y duw y mabolyaeth yny drychwyfi yn gyua yn enw y gwr am creawd. yndaw y mae vy ymdiret ym bywyt y wassanaeth ef chun. ac idaw ef ehun trigyaw heb lygredigaeth tra vwyf vyw. Yna yd aeth pawb ar tal eu glinyeu y gussanu y thraet. ac y erchi madeueint ydi am eu dryc typ. Ac yr holl bobyl. ar offeireit ar gwerydon drwy diruawr lewenyd ae hebrygassant hy adref. ac o lef uchel yn dywedut. Bendigedic vo enw yr arglwyd. kanys damllewychawd y santeidrwyd y holl bobyl yr israel.

XIII.—Wedy chydic o amser gwedy hynny y gwnaethpwyt kyureith ygkyuoeth cesar. ac yn gyntaf ygkyuoeth syria. na thriccyei neb ny hanffei or wlat yndi. namyn mynet pawb oe wlat. Yna y bu reit y veir a iosep vynet tu a beethlem. ac y dywot meir wrth Josep. my a welaf dwy bobyl o ymblaen. y neill yn wylaw. ar llall yn chwerthin. Taw heb y iosep. eiste ar yr aniveil. ac na dywat geireu gorwac. Yna yd ymdangosses mab tec udunt. gwiscedic o wisc echtywynedic. Josep heb ef. paham y dywedeisti vot yn orwac y geireu am y dwy bobyl. gwir a dywat meir. pobyl yr ydeon oed yn wylaw. ar bobyl arall yn chwerthin. yr hwnn yssyd agos y duw. mal yd edewis yn tateu ni. nyt amgen. abraham. ysaac. a iacob. yr amser a doeth yny del o lin euream rat a bendith yr holl bopyl. A phan dywot yr agel hynny. yd erchis yr assen seuyll. canys amsser y meir a doeth y escor. ac yd erchis y veir disgyn yr llawr y ar yr assen. a dos yr ogof a dan y daear. yn yr honn ny bu oleuat. namyn

tywyllwch eiroet. canys goleuat duw ny allei dyuot idi. Yr awr yd aeth y mywn. y dechreuod yr holl ogof oleuhau. mal pei hanner dyd. yna yd aeth y dywawl oleurwyd ymywn yn arderchawc. hyt na diffodei goleuat yndi nac yn nos. nac yn dyd.

XIV.—Ac yna yd esgores y wynvydedic wyry. pennadur yr eneiteu. Lleg o egylyon a doeth ygkylch y mab yr awr y ganet. yr hwnn adolyssant trwy dywedut yn uchel. gogonyant yn y goruchelder y duw a thagneued yr dynyon ar y daear. Yna y doeth ganedigaeth yr arglwyd. yd aeth iosep y geissaw gwraged at veir. a phan y cauas. yr ogof y doeth tracheuen. Yna y cauas y mab gwedy yr eni. ac y dywat ioseph. O wynvydedic veir. mi a dugum dwy wraged attat. a gerllaw drws yr ogof odieithyr y maent yn seuyll. ac rac diruawr oleurwyd dyuot yn hylithyr nys llauassant. Meir dan owenu a gwerendewis. Joseph a erchis idi tewy ae chwerthin. byd gall heb ef. yny delont ymywn rac bot yn reit itt wrth vedycynyaeth. Hitheu a erchis udunt yntredu attei. Zelomy a doeth. a salome nyt yntredod. Zelomy a dywat wrth veir wynvydedic. gat ti ymi gyhwrd athi. pan gyhyrdod. o lef uchel hi ae dywot. Arglwyd arglwyd mawr trugarha wrthyf. ny chlywyt. ac ny welet bronneu yn llawn o laeth. a geni mab ac mam yn wyry yn ymdangos. ac nat ocs lygredigaeth gwaet nae arllwybyr yr ganedic. na dolur ar y neb ae hesgores. gwyry kynn escor. a gwyry yn trigyaw gwedy escor val y mae yn amlwc. Yr hynn a glywaf. yny prouy. nys credaf heb salome odieithyr yny gwelwyd. ac ar y wynvydedic veir y doeth. ac yd erchis idi. gat ti ymi dy balualu y cretwyf ual y zelomi or hynn a glywaf. Yna y kanhadawd meir idi y phrouy. Hi a estynnawd y llaw. ac a diffrwythod y llaw yn diannot. ac o diruawr dolur wylaw aoruc yn ryulaenllym dan leuein a dywedut. Ti a adnabuost arglwyd ofynhau ohonafi dydi yn wastat. ar tlodyon a nertheis. a mi heb dal. a gwraged gwedw. a meibon ymdiueit mi ae canhorthwyeis. ac eissydedic iawn nyt aeth ywrthyf yn amnat or a archei. ac yr awr honn y dygwydeis o achaws vy agkredinyaeth yn trueny yn edrych dy veir wyry.

XV.—A phan dywat hi hynny yd ymdangosses gwas jeuang tec echtywynedic yn eglurder ger y llaw. ac a dywot wrthi. Dynessa ar y mab. ac adola ef. a dyro dy law arnaw. ef ath iacha yn diannot. ef yssyd iechyt yr rei gobeithawl. ac euo yssyd brynnawdyr yr holl oessoed. Yr awr y dynessawd ac y rodes y llaw ar odre y llenn a oed ygkylch y mab. y cauas ffrwyth y llaw. a chan dywedut yn uchel gwyrtheu mab duw. yd aeth allan dieithyr drws yr ogof. ac a uenegys a welsei. ac val y kawssodyat iechyt oe llaw. Ac ar y ffregeth hi llawer a gredassant. canys bugelyd aoed yny chylch hynny a geternheynt rywelet ohonunt egylyon berued y nos yn disgynn or nef. gan ganu ymneu a chywydolaeth yn moli duw. ac yny vendigaw. ac yn dywedut. Hediw y ganet y iachwawl pawb. yr hwnn yssyd grist arglwyd. yn yr hwnn y telir iechyt pobyl yr israel. A seren o osper hyt y bore a ymdangosses uch benn yr ogof. diruawr y meint ae goleuny. yr honn ny welsit yr dechreu byt y chyffelyp. ar prophwydi aoedynt ygkaerusalem a dywedasant panyw honno a dangossei ganedigaeth crist. yr hwnn a gadarnhei y adawedigaeth yn yr israel. ac yn yr holl genedyloed.

XVI.—Y trydydyd o anedigaeth an harglwyd ni iessu grist. meir a aeth or ogof ac a gyrchawd ystabyl. ac a ossodes y mab y mewn y presep. ar ych ar assen a gwediod. Yna yd eflewnit yr hynn a dywat ysayas prophwyt. Yr ych a adnabu y berchennawc. ar assen gorchymyn y harglwyd. yr anyueileit nyt amgen yr ychen ar assen yn seuyll yny perued yny wediaw. Yna yd eflewnit yr hynn a dywot abacuc prophwyt. Ymperued deu anyueil yth adnabydir. Yno ytrigawd meir a iosep. ar mab tridieu. Y hwechetyd y doeth y vethlem. ac yno y cwplaawd y seithued dyd. yna y duc iosep y mab y temyl yr arglwyd ac y ducpwyt kyulwyn. a deu bar o golomenot. Yny temyl ydoed gwr perffeith a gwirion. symeon y enw. ydoed deudec mlyned ar hugein a chant. gan duw y cawssoedat na bei varw yny welei grist vab duw yny gnawt yny vyw. A phan weles y mab. y dywot yn uchel iawn. neur ouwyawd duw y blwyf. ac neur eflenwis y edewit. Ac ar vrys

y doeth y adoli y mab. a gwedy hynny y kymerth y mab yny vantell dan wediaw. ac y cussannawd gwadneu y traet. ac y dywot. Yr awr honn y gedy ti dy was y tagneued.

XVII.—Yna ydoed yny temyl anna verch samuel o lwyth asser. a honno a vuchedoccassei gyt ae gwr oc gwyrdawt yr yn seithmlwyd. ac yna yd yttoed wedw drwy yspeit pedeir blyned a phetwar ugeint. ac yn y temyl yn wastat yn kynnal ympryt a gwedy. ac y wediaw y mab y doeth. ac y dywot. Yn hwnn y mae prouedigaeth y bopyl. Gwedy yspeit dwy vlyned y doethant y dewinyon or dwyrein y gaerusalem ac anreccyon mawr ganthun. ac ar hynt y gouynnyssant yr ydeon. mae y brenhin a anet yni. ny a welsem y seren ef yn y dwyrein. a nynheu a doetham y wediaw. Y chwedylyaeth aaeth ar erot vrenhin. ac yna y kynnullawd herot hyneif y ffarisewydon a dyscwyr y bobyl. a gouyn udunt. pony prophwydwys y prophwydi ganedigaeth grist. Wynteu a dywedassant vot yn wir hynny. ym bethlem. Yna y gelwis herot y dewinyon. ac y gouynnawd pa bryt yd ymdangosses y seren udunt. Odyna yd anuones y rei hynny y vethlem. Ewch heb ef tu a bethlem. gouynwch y mab. Gwelet a wnaeth ef vot y dewinyon. a aethoed y geissaw y mab heb diwat. ac yny dwyllaw. Yna y kyffroes ar irlloned drwy ennynedigaeth diruawr lit. ac yd anuones gennadeu oe keissaw yny eu herbyn y bop fford. ac erchi eu dala ac eu llad.

XVIII.—Gwedy na allwyt cael y dewinyon y anuones kennadeu y vethlem. ae holl teruyneu y erchi llad holl meibon bychein a geffit. Dydgweith kynn dyuot y kennadeu. ar dal y lle yd oedynt. nachaf agel or nef yn dyuot trwy y hun ar iosep. ac yn dywedut wrthaw. Dos ymdeith ti a meir ar mab genwch ar hyt dydryf a fford diffeith hyt yr eifft. Iosep a wnaeth herwyd gorchymyn yr agel. eu hynt a gymerssant. ar a gyrassant tu ar ogof y vynnu gorphwys yndi. Yna y disgynnawd meir y ar yr assen. ac eisted a wnaeth meir ar mab ar y harffet. Nachaf yn deisyuyt llawer o seirff yn dyuot or ogof. ac ofynhau awnaeth meir pan y gwelsant. Yna

y doeth y mab o arffet y vam yr llawr. ac y kerdod. ac y seuys ar y nadred. wynteu adolyssant iessu. ac a gilyassant y wrthunt. Yna yd eflenwit yr hynn a dywat ysayas prophwyt. Y seirff or daear. adeidolwch yr arglwyd. Y mab a gerdod oc eu blaen. ac a orchymynnawd udunt nat argywedyn y neb ryw dyn. Meir a iosep a ofynnawd rac gwneuthur o honunt godyant yr mab. a iessu a dywot wrthunt. Na delwch ofyn amdanafi. yr vy mot yn vab. perffeith wyfi. ac aghenreit yw y holl uwystuileit gwyllt or koedyd bot yn dof ger vy mronni. ac yn hynnaws. y llewot ar pardyeit. ar anyueileit creulawn aoed yn eu gwediaw. ac yn kytgerdet ac wynt. ac yn cetymdeithoccau yny diffeith. a pha du bynnac y kerdynt. yr anyueileit hynny a oed oc eu blaen yn mynegi ffordd udunt. ac yn gwediaw y mab.

XIX.—A phan welas meir hynny. ac amraualyon genedyloed bwystuileit yn eu herbyn. y delis ofyn. O lawen olwc y mab a edrychod arnei. ac a dywot. Vy mam i nac ofynhaa. nyt yr sarhaet ytt y deuant. namyn yr dy wassanaethu y dybryssyant. Ac yny bydynt dywededigyon y petheu ef a tynnawd y mab ofyn oe callonneu. Yna y kerdod y llewot gyt ar essyn ar ychen oed yn arwein y hagenreiteu. ac nyt argywedynt y neb. yr y presswyluaeu y gyt. namyn hynaws oedynt ymplith y deueit. ar meherin a dugassant gantunt o iudea. ac a oed y gyt ac wynt. y gyt ar bleideu y kerdynt. ac nyt ergrynynt dim. ac nyt argywedei yr un y gilyd. Yna yd eflenwit geireu y prophwyt. y bleid ar oen a besgit y gyt. y llew ar arth a borant beisswyn y gyt. Yna yd oed dau ychen yn dwyn kerbyt. ac eu haghenreiteu yndaw. Yna ydoed veir gwedy blinaw gan tra gwres yr heul yny ditryf. a phren palym a gyherdod ac wynt. a meir a dywat wrth iosep. Mi a orffywysaf ychydic dan wasgawt y prenn. Iosep a tynnawd meir y ar yr assen yr llawr. a phan eistedawd meir wynvydedic. edrych a wnaeth ar vric y prenn. a hi a welas y prenn yn llawn o aualeu. ac y dywot wrth Josep. Mi a hwenychwn peth o ffrwyth y prenn. pettei a allei eu caffel. Josep a dywot wrthi. Ryued yw gennyfi dywedut

ohonnoti hynny rac uchet bric y prenn. a medylyaw ohonat cael peth or ffrwyth o le kyuuch ac y mae. mwy yssiwet yw gennyf am dwfyr. kanyt oes dim yn y costreleu. ac nat oes le y ymgyghori y geissaw dwfyr. Yna y dywot y mab. ac yn eisted ar arffet y vam. ac edrych ar y prenn. Gostwg prenn dy vric val y gallom cael peth oth ffrwyth. Ac yna y prenn a ostygawd y vric hyt y llawr ger ymyl traet yr arglwydes veir. ac yna y kawssant dogyn or aualeu.

XX.—Gwedy daruot udunt gynnullaw yr holl aualeu. trigyaw a wnaeth y pren ae vric ar y llawr yny caffei gannyat y mab y gyuodi. Yna y dywot iessu. dyrchaf dy vric ac ymgadarnhaa a byd getymdeitheis yr gwyd ereill yssyd ymparadwys vyn tati. Yna yd ymdyrchauawd y vyny. ac o wreid y prenn yd ymdangosses ffynnawn loewaf ac oeraf a melyssaf. Pan lewyssant dwfyr y ffynnawn y kymerassan lewenyd diruawr. ac ymlenwassant or dwfyr. ac wynt ae hyscrybyl. yna y talassant diolch y duw. Dyd gweith arall ydoedynt yn kerdet odyno yd ymchwelod iessu y olwc ar y prenn palym. ac y dywot. Mi a orchymynaf yt prenn palym mynet un oth geigeu gan vy egylyon. i. ae blannu ymparadwys vyn tati. y vendith honn yma a rodaf ytti hyt pwy bynnac a orchyvygwyt yn amrysson da. amdanwynt y dywedir neur doethawch ar balym budugolyaeth. Ac euo yn dywedut hynny. nachaf agel o nef yn seuyll ar y prenn. ac yn dwyn un or keigeu. ac yn hedec yr nef. Pan welas pawb hynny syrthu a wnaethant megys meirw. Iessu a dywot. paham yd ergryna ych caloneu chwi. pony wdawch chwi y prenn hwnn a wnaethym ac a vynnaf y dwyn y baradwys. ac yno y byd yn tegwch y holl seinnyeu nef. megys y mae parawt yn y lle y goual hwnn gwedy yr hynt honn.

XXI.—Ac yna y dywot iosep. y mae gormot gwres yn yn lloscy. o reing bod ytt kerdwn gan ystlys y mor. val y caffom gorffwys yn y dinesyd ar yr arvordir yssyd. Iessu ae hattebawd. Josep nac ofynna. mi a vyrrhaf ytt y fford. val y teruynnych hediw ehun yr hynn aoed ar yn bryt y gerdet yn yspeit dec niwarnawt ar

hugein. Ac yr awr y dywot hynny. nachaf yn diannot y gwelynt mynyded yr eifft ae dinessyd. a dechreu llywenhau a wnaethant. ac y dinas a elwit sotraent y doethant heb ohir. yn y lle nyt oed gyfadnabot udunt wrth lettyaw. Gwyr yr eifft yny dinas hwnnw a doethant y le uchel y dyd hwnnw. ar offeireit y gyt ac wynt. ac yno beunyd y doent y wneuthur aberth y duw herwyd anryded dywolder. Pan aeth meir wynvydedic yr temyl. yr holl eu delweu a dygwydassant gar y bronn. val yn vriwedic megys kyn bythynt dim. Yna yd eflenwit yr hynn a dywat ysaias prophwyt. Llyma yr arglwyd yn dyuot ac yn erchewynu yr eifft. gar y vronn y dygwydant holl weithredoed geu dywyeu gwyr yr eifft. Yna y menegit hynny y affrondosius tywyssawc y dinas hwnnw. yna y doeth ef a llu mawr y gyt ac ef y tebygu gwneuthur dial ar yr rei y dygwydassei eu dywyeu oe hachaws. Yr temyl y mewn y doeth. ac yna y gweles yr holl eu dywyeu gwedy dygwydaw yn eu gorwed gar eu bronn. Yna y dynessawd ar y wynvydedic wyry. yr honn aoed ar mab yny arffet ac yn gwediaw. Ef a dywot wrth y llu oll ae getymdeithon ef. Panebei duw hwnn. ny dygwydassei yn dywyeu ny gar y vronn. ac ny ordewedynt yn vriwedic rac y ofyn. yr y rei yssyd yn arestwg oe vot yn duw udunt. peth a welwn ni yn dywyeu nyni yn wneuthur. ony wnawn ni yn gallach. perigyl yw yni oll haedu y anvod. an dyuot oll ar balledigaeth tragywydawl. megys y darvu y pharaon. ac y lu yr eifft. yr hwnn ny chredawd ef ae lu yn nerthoed hwnnw a vodes yn y mor. Yna holl bobyl y dinas hwnnw a gredawd idaw yn diannot.

XXII.—Gwedy kerdet or iessu yr eifft. pan yttoed ygalilea yn dechreu y bymet blwydyn oe oet. dyw sadwrn ydoed yn gware gyt a meibon ar lan eurdonen. ac y trosses y dwfyr or auon yn seithrann y seithlyn. ac ef a wnaeth gwndit gwahanredawl y bop un drwy y rei y kerdynt orhaeadyr val y harchei. ac eilweith dracheuen. Yna un or meibon mab y gythreul o gyghorvynus vryt a gaeod hyttynt y dwfyr aoed yn kerdet yr llynneu drwy y kwndit. ac a drosses y gweith

a lauryassei iessu. Yna y dywat iessu wrthaw. yn wir mab agheu wyt ti. a mab y gythreul. y llauur a wnathoedwn. i. paham y gwesgery ti. ar mab a wnaeth hynny a fu varw. Yna o lef aflonyd y lleuassant reeni y mab marw. yn erbyn a meir. a iessu. ac a dywedassant. ych mab chwi a emelldigawd yn mab ni. an mab ni syn varw.

XXIII.—Pan gigleu meir a iosep hynny. wynt a doethant ar iessu. rac gwneuthur eu brat or reeni y mab marw. a rac ovyn lleuein yr ydeon. Yna y dywat iosep yn gwydawc. ny beidafi dywedut wrthaw. Meir dysc ti euo. Hitheu a dywot. paham y pereisti yni kas y bobyl honn. a ni a gaffwn molest gan y niver hwnn. Vy arglwyd. i. beth a wnaeth y mab hwnn varw. Ynteu a dywot. teilwg oed o agheu. kanys ef a gwascarawd y gweith a lauuryasswn. i. Y vam a gwediod yna. vy arglwyd. i. na wna di velly. canys pawb a gyuodant yn yn herbyn. ynteu a adnabu bot y vam yn tristau. ac ae troet deheu ef ae trewis y mab marw ar y dwyffroen. ac a dywot wrthaw. kyuot vab enwired. nyt wyt teilwg ti y vynet y teyrnas vyn tat i. canys gwesgereist vy gweith i. Yna y kyuodes y mab yn vyw. a iessu a aeth ac a duc y dwfyr y hyttynt dracheuen yr awr y herchis.

XXIV.—Yna yggwyd pawb y kymerth iessu y dom or llynneu a wnaethoed. ac or rei hynny y gwnaeth deudec ederyn. dyw satwrnn oed hynny pan wnaeth iessu y petheu hynn. a meibon llawer y gyt ac ef. Pan welas un or ydeon euo ygyt ar meibon yn gwneuthur hynny. y dywot wrth Josep. Josep heb ef. pany wely di y mab iessu yn gwneuthur gweith dyw satwrnn. ef a wnaeth yr adar or llwch. Josep pan gigleu hynny ae hagreithawd. ac a dywat wrthaw. Paham dyw satwrnn y gwney di y ryw petheu hynn. yr hynn nyt ryd yni eu gwneuthur. Y iessu pan gigleu hynny a trewis y llaw yn y llall. ac a dywot wrth yr adar. Ehedwch. yr awr y herchis ef. wynteu a hedassant. a phawb yn y welet. ac yny gwarandaw. y dywat hedwch ar hyt yr holl vyt. a buchedoccewch. Pan welas pawb yr arwydon hynn. yd eflenwit pawb o ovyn. a moli duw a wnaethant gan ryuedu. ereill oed yn gwatwar

ymdanaw. Ac yna y daeth rei ar tywyssogyon yr offeireit. a menegi udunt wneuthur o iessu llawer o betheu ryued yggwyd popyl yr israel. ac yna y menegit hynny y deudec llwyth yr israel.

XXV.—Yna eilweith mab anna offeirat y temyl. yr hwnn a doeth ygyt a ioseph a gwialen yn y law. a phawb or bobyl yn edrych yn llittyawc a agores hyttynt a warchaeassei iessu. ac ef ae gollygawd y redec or raeadyr. Pan welas iessu hynny. ef a dywot wrth y mab a wasgarassei y llynneu. O waethaf hat enwired. O vab agheu. O weithret kythreul yn wir ffrwyth dy hat bit heb rym. ath wreid heb wlybwr. ath geigeu yn wyw heb dwyn ffrwyth. Ac yggwyd pawb gogwywaw a wnaeth y mab. a heb hir ohir marw. Odyna y kymerth iosep iessu. ac yd aeth ac ef atref. ae vam ygyt ac ef. a llyma yn deissyuyt yn wrthwyneb mab a llauurywr enwired dan redec. ac yn taraw y ysgwyd wrth ysgwyd iessu yr mwyn argywedu idaw. Y iessu a dywot. nyt ymchwely di or fford yd wyt yn y cherdet. Ac yn diannot y dygwydod yn varw. Yny y gwaedassant reeni y mab marw yn edrych ar hynny. ac yn dywedut. Padu y ganet y mab hwnn. amlwc yw pob peth a dywetto. ac a vynno yd eflenwir. Yna y dynessawd reeni ar iosep ac y dywedassant. Josep dos ymdeith a iessu. ny dichawn ef presswylaw yn yn plith ni. neu dysc titheu euo y vendigaw yn meibon ni heb ymelltigaw. Josep a dynessawd attaw. ac a dysgawd. paham y gwney di y ryw betheu hynn. y mae llawer yn doluryaw yth erbyn. oth achaws di y maent yn yn cassau nynneu. ac yd yttym yn diodef molest y bobyl oth achaws. Iessu a attebawd iosep. nyt oes un mab kymen. onyt megys y dengys eu tat herwyd keluydyt yr amser hwnn. am tat ynheu nyt emellticca neb onyt a wnel y drwc. Yna yd ymgynullawd pawb yn erbyn iessu yn y gyhudaw wrth Josep. Pan welas Josep hynny. diruawr ovyn rac pobyl yr israel a gymerth. yn yr awr honno y kymerth iessu y mab marw. ac erbyn y glust y dercheuis ywrth y llawr yggwyd pawb. A phan welsant wy iessu yn ymdidan ar mab megys

ae vab ehun. yspryt a ymchwelod yny mab. ac yn vyw y kyuodes. a ryuedu a wnaeth yr holl bobyl hynny.

XXVI.—Neb un athro Zachias y enw a gigleu iessu yn dywedut kyuryw eireu a bot yndaw anorchyvygedic doethineb a nerth. a doluryawd. ac a dechreuod yn anysygybleid dywedut yn erbyn iosep. Josep heb ef. paham na rody ti dy vab y dyscu dysc dynyawl. ac wrth hynny diogel bot yn well genwch ot gwn dyscu och mab. nogyt arhos bredycheu hyneif y bobyl. Reit yw y chwi anrydedu offeireit holl eglwysseu yr israel. a chymryt echwyn garyat y rygthun. ac velly y dysgit y rygtunt dysc caredic. Josep a attebawd idaw. pwy a allei attal y mab hwnn rac dyscu. pei tydi a allei dysgu idaw ef dynyawl geluydit. nys gwahardem ni. Pan gigleu Zachias yr atteb hwnn idaw gorchymynnawd Iessu y petheu a dywedeisti oll ac a enweisti. reit yw y dyn tebic yti eu cadw. estronnawl hagen wyfi ywrth ossodeu dynadon. a phell yw vy anssawd. i. ywrth ych emynogeu chwi. nyt knawdawl ren yw yr meu. i. y gyureith hagen a dysgeisti yndi y trigye. kynn honno yd oedwn. i. kyt tebyccych ti nat oes dysc kyffelyp yth teu di. dysc ti y gennyfi. mynneu nyt oes neb a allo vy nyscu onyt y gwr ydwyf yn y enw. hwnnw ae dichawn. kanys teilwg yw. a phan wyf ynheu dyrchauedic or daear. mi abaraf gorffwys medwl. ac aruer y kenedloed. panych ganet chwi nys gwthost. myvi ae gwn vy hun. a pha amkan y vuchedoccaa pawb ar y daear.

XXVII.—Yna yd ergrynnassan yn ovynnawc pan y clywyssant yn dywedut hynny. a than leuein y lleuassant. O. O. O. Illyma beth mawr a ryued iawn. anryued ny chlywyssam ni hynn eiroet. nys klywir gan arall. na chan yr offeireit nar prophwydi. nar gramadecwyr. nyni a wdam o padu y ganet iessu. ac etto nyt pymlwyd. a pha delw y dichawn dywedut y ryw eireu hynn. Paham na chredwch chwi ymi heb ef. yny petheu a dywedeis. a chan dywedeis. i. y chwi y gwn. i. pa bryt ych ganet. yd ywch oll yn ryuedu. Euream y gwr a dywedwchwy y vot yn tat y chwi oll. mi ae

gweleis. ac ynteu am gweles ynheu. a mi a ymdideneis ac ef. Pan glywyssant wy euo yn dywedut hynny. ny veidod neb dywedut dim. a iessu a dywot udunt. Mi a vum yn ych plith chwi gyt ach meibon. ac nyt adnabuochwy vyvi. mi a ymdideneis a chwi. megys a gwyr prud. ac nym deallyssawch. kanys llei no myvi ywchwi. a bychan yw ych ffyd.

XXVIII.—Eilweith Zachias dysgwr kyureith a dywot wrth iosep a meir. Rodwchwi ymi y mab. a minneu ae rodaf y athro hegar a dysco idaw lythyr. ac. a. a gano. Yna Josep a meir yn glaear a dywedassan wrth iessu. ny awn a thi yr yscol. Yr aethan ac ef yr yscol y dyscu llythyr ar wr hen. Pan doeth yr yscol y mywn. yr athro a dechreuod or llythyren gyntaf. alpha a ovynnawd idaw. Iessu a dewis. ac ny dywot dim. gorchymynwr ar athro am nat yttoed yn lleu a gymerth gwialen yn y law. ac ae trewis ar y law. Iessu a ovynnawd paham y trewi ti vyvi. ac yn lle gwir gwybyd di. y neb ydys yn y taraw mwy y gwyr dyscu y neb ae tereu noc y dysger y ganthaw. Myvi a dysgeis ytti y petheu a dywedy di. namyn yr rei hynn oll deillon ynt. y rei a dywedant. ac a warandawant. kanys yttynt megys euyd yn seinaw. neu gloch yn canu. yn y rei nyt oes synnwyr na deall mwy noc yn datsein yr euyd. Ac y gyt a hynny y dywot iessu wrth zachias. Pob llyureu o alpha hyt yn thaw a wehenir herwyd amgeu anssawd. ac wrth hynny dywet ti ymi yn gyntaf beth yw taw. a mynneu a dywedaf y titheu beth yw alpha. Ac eilweith y dywat iessu. ac ny wdant alpha. pa delw y gallant dywedut gwybot thaw. geugrefydwyr dysgwch yn gyntaf beth yw alpha. a minheu ywchi pan dywetoch. b. A iessu a dechreuod dywedut enweu yr holl llythyr. ac amovyn. Dywet ti ymi dysgwr y kyureith y llythyren gyntaf o alpha. paham y mae idi ffigwr teir coglawc. ereill mein. ereill blaenllym y waeret. ereill crwnn. ereill cam. ereill dyrchauedic. ereill troedawc.

XXIX.—Pan gigleu y dysgwr hynny. aryneigaw a wnaeth gwybot o iessu enwi yr holl lythyr. ac eu han-

ssawd. ac y dywot yn uchel val yklywei pawb. Ny dyly hwnn buchedoccau ar y daear. namyn teilwg yw y dyrchauel ar y groc uchel. ny dyly ef diffodi y tan a dylyw poeneu ereill. mi a tebygaf y eni ef or blaen. pa groth ae harwedawd hwnn. neu pa vam ae magawd. neu pa bronneu ae llaethawd. Mi a ffoaf y wrthaw. ny a allafi diodef y geireu a dyweit. namyn vygkallon yssyd yn ergrynaw gwarandaw y ryw eireu a dyweit. nyt yttwyfi yn tebygu gallel o neb dilit y barabyl ony bei duw ygyt ac ef. Minneu gan oedwn dirieit a ymrodeis ymgwatwar gar y vronn. pan dybyeis gael dysgybyl. sef y kefeis yn athro. nyt reit ymi dywedut. namyn ony a allaf yr y mab o ungeir or kyule hwnn. cany allaf y diodef. hen wyfi ar mab am gorchyuygawd. kany allaf gaffel na dechreu na diwed ar a dywet. Anawd yw caffel na gwybot y dedyf gyntaf. yn diheu y dywedafi y chwi heb gelwyd herwyd y gallaf. y dirnabot gweithret y mab hwnn. a synnwyr y ymadrawd. a sentens diwed y barabyl ny welir y gytwedu y dynyon ny hanffont o dim daerawl. Ni wn. i. beth yw ef. ae hudawl ae duw. ae agel y duw yn dywedut yndaw. o ba du yd henyw. neu pa du pan doeth. neu beth vyd rac llaw. Yna iessu dan owenu a dywat wrthaw yggwyd pawb. Pan archwyfi. meibon anffrwythlawn a dyborthant ffrwyth. y deillon a welant. crupleit a gerdant. aghynnogyon a vydant oludawc. yny cof ganthunt trigaw o bawp ohonunt yn anssawd gyua drwy yr hwnn yssyd wreid melysder tragywydawl. A phan dywat iessu hynny yn diannot y talpwyt y bawp iechyt oe holl heinneu. ac ny veidawd neb dywedut wrthaw. nae warandaw.

XXX.– Odyna yd aeth meir a iosep gyt a iessu hyt yn dinas nazareth. ac y bu yna gyt a reeni. ac yd oedynt yno dyw satyrngweith yd aeth iessu y ware gyt a meibon ereill ar lofft. damweinawd hagen gythyaw o un or meibon y llall y ar y llofft yr llawr yny vu varw. A phan welsant reeni y mab marw hynny y dywedassant yn erbyn meir a iosep yn llittyawc. ych mab chwi a ythyod yn mab ni or llofft yr llawr yny vu varw.

Iessu a dewis. ac ny dywat dim. yna y doethant Josep a Meir ar vrys ar iessu. ae vam a dywot wrthaw. vy arglwyd i dywet ymi os tydi a vyryod y mab yr llawr. Ac iessu yn diannot a disgynnawd or llofft. ac a elwis y mab erbyn y enw. zeno. ar mab a attebawd idaw yn da. Iessu a dywot wrthaw. ae myvi ath vyrryod di yr llawr. Ynteu a dywot. nac ef arglwyd. a ryuedu a wnaeth reeni y mab marw. a moli duw a wnaethant am y gwyrtheu hynny yn urdasseid.

XXXI.—Ac odyno yd aeth iosep a meir hyt yn iericho. ac yna wyth mlwyd oed iessu. ac ydanuones meir iessu a llestyr prid ganthaw gyt a meibon ereill y gyrchu dwfyr yr ffynnawn. Damweinawd gwedy llenwi o iessu y llestyr or dwfyr dyuot un or meibyon ae ythyaw y llestyr ae torri. Iessu yna a erbynnyawd y dwfyr ar llestyr yn y vantell oed ymdanaw. ac ae duc y dwfyr heb golli dim oe vam. Hitheu pan y gwelas a ryuedawd. ac a adeilawd hynny yny challon yn gatwedic. Dyd arall damweinawd vynet o iessu yr tir yd oedit yn medi yndaw. ac efe a duc ychydic or gwenith oe vam. ac efe a heod ychydic. ac ar hynt y tyuawd yn amyl. ac a aduedawd. heb olud efe ae medawd. ac o hynny y caffat cant llestreit o wenith. ac efe ae rodes y bawb yn ehalaeth.

XXXII.—Fford oed o iericho y vynet y eurdonen. yr lle yd aethant meibon yr israel yn y lle y dywedit bot arch ystauen. ac wythmlwyd oed iessu yna. ac ynteu aaeth or dynas tu at eurdonen. Ac ar emyl y fford ar lann eurdonen ydoed y ryw le yd oed llewes yn meithrin y channawon. ac ny veidei neb kerdet y fford honno. Iessu a doeth yno. ac ef a adnabu bot y llewes yno ym meithrin y chanawon. ac val y gwelei pawb. ef aaeth ymywn. Pan welas y lleot iessu. yn y erbyn y doethant y adoli idaw. a iessu a eistedod ynyr agof. kennawon y lleot a redassant ygkylch y traet. ac a hwareyssant ac ef. Y lleot o bell y wrthaw a savassant. ac ae gwediassant. a llawenychu wrthaw awnaethant. Yna ydoed y bobyl o bell yn seuyll heb welet iessu yn dyuot. a dywedassant. pan na wnaethoed

hwnn neu y reeni pechodeu gorthrwm. nyt ymrodei oc vod yr lleot. A phan vedylyassant hynny. nachaf iessu yn dyuot dracheuen. ar lleot yn y racvlaenu. ar cannawon ygkylch y traet yn chware. ac eu reeni yn gostwg eu penneu idaw trwy uvydawt. Ar bobyl oed o bell yn seuyll heb veidyaw dynessau atunt rac y lleot. Y iessu a dywat yna wrth y niver val hynn. Mawr y mae gwell y bwystuileit no chwi. y rei yssyd yn adnabot. ac yn moli eu creawdyr. ac eu harglwyd. hwchwitheu dynyon a wnaethpwyt ar ffuryf duw ehun. ac ar y werthuawr drych nys etwenwch. ar anyueileit am hattwen. i. ac arafant ger vym mron. dynyon am gwelant ampellaf yn y byt yw udunt vy adnabot.

XXXIII.—Pan yttoed iosep. gof prenn oed. ac ny wnay weith eithyr gwyd eithyr. a gwelyeu prenn. damweinawd dyuot gwas jeuang attaw y erchi idaw gwely prenn o hwech cufyd. Josep a erchis y vab torri y prenn a hesglif herwyd y messur. ac ny chetwis hagen mod iawn ar y prenn. Un a wnaeth yn vyrrach nor llall. Joseph a vedylyawd yndaw gan ovuttyaw beth a wnelei. pan welas iessu euo yn ymouudyaw am hynny. Iessu a dywot wrthaw yn ymdidangar. dabre heb ef. a chyssylltwn y prenneu a gogyhydwn. Josep a wnaeth val y herchis. canys gwydat y gallei iessu wneuthur yr hynn a vynnei. ac wynt a kyssylltassant y gwyd eu penneu y gyt. a iessu a tynnawd attaw y pren byrraf. ac ae gwnaeth yn gyhyt ar hwyaf. ac y dywat wrth iosep. Gwna dy weith. ac velly y gwnaeth ioseph mal y harchawd.

XXXIV.—Eilweith yd erchis y bobyl y veir. a iosep. anvon iessu yr yscol y dyscu llythyr. a herwyd gorchymyn hynafeit. Yna y dugant iessu ar yr athro y dyscu ganthaw dynyawl geluydyt. ar athro hwnnw a dechreuod yn anhegar y dyscu. a dywedut wrthaw. dywet a. Iessu a dywot wrthaw. dywet ti ymi yn gyntaf beth yw b. a minheu a dywedaf y titheu beth yw. a. Odyna yr athro yn llittyawc a trewis iessu. ac yn y lle yr hwnn ae trewis a fu varw. Y iessu a ymchwelawd atref ar y vam. Joseph drwy ofynn a elwis attaw meir vam iessu. ac a

dywot wrthi. Yn wir gwybyd ti. trist yw vy eneit. i. hyt agheu o achaws y mab. ef allei dyuot un trwy y lit a tharaw y mab yny vo marw. Meir ae hattebawd ac a dywot wrthaw. A wr na chretty a allei o hynn vot. namyn ti a elly credu yn diogel. pwybynnac ae hanvones ef y eni ymplith dynyon. ef ae keidw rac dynyon drycysbrydawl. ac yny enw ef. ef ae hamdiffyn rac pob drwc.

XXXV.—Eilweith yr ydeon a archassant y ioseph a meir dwyn y mab ar athro ae dysgei drwy hegarwch. Meir a iosep rac ovyn creulonder y bobyl a gogyuydaweu offeireit tywyssogyon ae dugant yr yscol. ac yn gwybot na allei neb dyn rodi idaw dim dysc. yr hwnn ydoed gantaw o perffeithrwyd keluydyt a chwbled or gwybot y gan duw ehun. Pan doeth iessu yr yscol. ef a gyffroes or ysbryt glan. ac a gymerth y llyuyr o law y gwr a dysgei y kyfreith. pawb yn edrych. ac yn gwarandaw. Ef a dechreuod darllein. nyt petheu ysgriuenedigyon yn eu llyureu wy. namyn yn yspryt duw byw. megys y kerda raeadyr or ffynnawn. ar ffynnawn yn trigyaw yn gyflawn. Ac velly ydoed yn dyscu yr bobyl rinwedeu duw byw. a nerthoed yr holl gyuoethawc. yny dygwydod yr athro yr llawr gar y vronn ac adoli. callonneu y niver aoed yn gwarandaw yn dywedut arnaw. a arneigyod pan gigleu iosep hynny dan redec ef a doeth ar iessu rac ovyn marw yr athro. Pan welas yr athro ef. y dywat wrthaw. nyt dysgybyl arodeisti ymi namyn athro. pwy a dichawn kynnal y eireu. Yna yd eflenwit a dywetpwyt yn y sallwyr. Avon duw a eflenwit or dyfroed.

XXXVI.—Gwedy hynny y doethant meir a iosep a iessu hyt yn dinas aelwit capharnawn drwy arvordiret rac drycvet y bobyl a wyrthwyneppynt udunt. Gwedy preswylaw o iessu yno yn y dinas. ydoed neb un wr aelwit iosep. a berthawc oed. a hwnnw aoed niver uch y ben. ac ef yn varw. yn udaw ac yn gweidi. Iessu a dywot yna wrth iosep y tatmaeth. paham na rody di allu dy rat yr gwr a fu varw. ac a oed un enw athi. Josep ae hattebawd. py allu yssyd ymi. neu pa vedyant

y rodi benffic rat y neb. Yna y dywot iessu. tynn y llein yssyd am dy ben di. a gossot ar wyneb y gwr marw. a dywot iessu ath ellwg. ac yn diannot y cyuyt yn iach oe wely. Josep yn y llc a wnaeth mal y gorchymynnawd iessu. y ty y gwr marw y doeth. ar sud oed am y ben a ossodes am ben y gwr marw. ac yn y lle y kyuodes y gwr marw oc glaf wely. ac a ovynnawd pwy oed iessu.

XXXVII.—O dinas capharnaum wynt a doethant hyt yn dinas bethleem. ac yna y doeth meir a josep a iessu hyt yn ty iosep aoed yn y dinas hwnnw. ae bresswylua. Ac yr y ty y doethant. a dydgweith y gelwis iosep attaw y mab hynaf. iago oed hwnnw. ac yd erchis idaw vynet yr ard y gynnullaw cawl y wneuthur bressych. a iessu a doeth y gyt ac ef heb wybot idaw. y veir ac y iosep. A thra yttoed iago yn kynnullaw y cawl. neidyr ae brathod yn y law deheu ac rac diruawr dolur ef a leuawd. ac ac ef yn diffygyaw drwy wherwder ymadrawd a dywot. gwae vi gwae vi. y neidyr am brathawd ym llaw. Iessu oed yn seuyll ar y llaw arall. pan gigleu ef iago yn lleuein. y redod tu ac attaw. ac y kymerth y law yn y law ynteu. ac ny wnaeth dim eithyr hwythu ar y law. ac yn diannot y iachaawd y law. ac y bu varw y sarff. a meir a iosep ny wydynt pa daroed. eithyr klybot llef iago. yna menegis iessu udunt.

(The manuscript in Llyvr Gwyn Rhydherch ends here, and is followed on the same page by Y SEITH PECHAWT MARWAWL, which is now first printed. The Sequel of the Buched will be given in a subsequent page.)

Y SEITH PECHAWT MARWAWL.

I.—Yn y mod hwnn y dysgir y dyn py delw y dyly credu y duw. a charu. a chadw y degeir dedyf. ac ymoglyt rac y seith bechawt marwawl. ac erbynnyeit seith rinwed

yr eglwys yn anrydedus. a gwneuthur seith weithret y trugared yr gobrwyaw nef. Pawl ebostyl a dyweit na ellir reggi bod y duw heb ffyd. ac o achaws hynny. llyma val y mae ac y dyly dyn credu. Credu bot y tat ar mab ar yspryt glan yn un duw teir person. Credu yr un duw hwnnw creu a ffurfeidyaw nef. a daear. ac yssyd yndunt yn hollawl o greaduryeit. y rei ny welir. ar rei a welir. ac ef yssyd yn cadw. ac yn amdiffynn. ac yn tywyssaw. Credu dyuot un mab duw hollgyuoethawc ymru yr arglwydes veir. ae eni yn dyn. a bot meir yn vorwyn kynn esgor. a gwedy esgor. Credu y iessu grist un mab duw a anet o veir wyry. dyuot y diodef y dodi ar brenn croc. yr rydhau plant adaf o geithiwed uffernn. ae varw. ae gladu. a disgynnu y eneit y anreithaw uffernn or etholedigyon a oedynt yndi. Y trydyd dyd y kyuodes o veirw. ar deugeinvet dyd gwedy hynny yd esgynnwys ar nevoed. Ar decuettyd gwedy hynny yd anuones yr yspryt glan ar yr ebestyl. ae dysgyblon a oedynt y gyt ygkaerussalem. Credu y iessu grist rodi medyant a gallu yr ebestyl. a thrwydynt wynteu y urdolyon prelatyeit yr eglwys. y gaethau. ac y rydhau eneiteu y pobloed o bop ryw bechawt a vei arnunt. a hynny trwy rinwedeu yr eglwys. Credu kyuod pawb yny gnawt. ae dyuot rac bronn grist dyd brawt. y varnnu ar bawp herwyd y weithret priawt. a rodi nef tragywydawl yr sawl ae gobrwyho. a phoenneu uffernn yr sawl ae haedo. Gwedy cretto dyn yn ffydlawn y duw drwy y pynckeu hynn. hawd gantaw garu duw.

II.—A llyma y mod y dyly y garu. dyn a dyly garu duw yn vwy noe eneit e hun. neu y gorff. ac yn vwy no dyn or byt. ac yn vwy no da pressennawl y byt oll. megys y bei well gan dyn golli da pressennawl y byt oll. a cholli ketemdeithas dynyon y byt oll. a diodef pob ryw argywed. a thremyc oc aellit y wneuthur ar y corff. a diodef pob ryw agheu gwaradwydus no gwneuthur pechawt marwawl neu godi duw. dan y wybot idaw. neu oe vod. Gwedy duw dyn a dyly caru y eneit e hun yn vwy no dim. a gwedy y eneit ehun.

eneit y gymodawc. a gwedy hynn y gorff ehun. a gwedy hynny corff y gymodawc. Sef yw hynny. dyn a dyly caru eneit a chorff y gymodawc. a phuchaw y eneit a chorff y gymodawc. caffel kyffelyp da ac a buchei y gaffel oe eneit ehun. ac oe gorff. Ac yr keissaw gan dyn garu duw yn vwy no dim. ae gymodawc megys ehun. y gwnaethpwyt yr holl esgrythyr lan. Gwedy cretto dyn yn ffydlawn yny megys y dylyho. hawd vyd gantaw gwneuthur gorchymynneu duw. sef yw hynny erbynnyeit y degeir dedyf ae cadw. Kyntaf or degeir yw. Na vit itt eu dywyeu. yny geir hwnnw yd eirch duw tat hollgyuoethawc na wneler rinyeu ar swynneu. na chyvarwydon. na swynneu gwahardedic gan yr eglwys. Eil geir dedyf yw. na chymer enw duw yn orwac. sef gwahard duw yny geir hwnnw pob ryw annudon ac over lw. Trydyd geir dedyf yw. del yth gof gyssegru duw sul. yny geir hwnnw yd eirch duw. na wnel dyn e hun nae was. nae vorwynn nae anyueil gweithret. na phechawt marwawl yn dyd sul. neu yn dyd gwyl a warho yr eglwys. kanys yny dydyeu hynny arbennic y dyly dyn wediaw. a golochwydaw. a gwneuthur gweithredoed y trugared.

III.—Petweryd yw. anrydeda dy vam. a that. yn y geir hwnnw yd eirch duw y dyn wneuthur diwall wassannaeth drwy uvyllawt. ac enryded oe tat ae vam. ar kyffelyp wassannaeth ac enryded a hynny a dyly dyn y wneuthur oe brelat. ae beriglawr. ac y tat knawdawl neu y vam. Pymhet yw. na lad gelein. yn y geir hwnnw yd eirch duw y dyn na latho ae law. nac oe arch. nac oe gyghor. nac oe annoc. nac oe ystryw. nac oe gyttsynnyaw. na rodi ehofyndra o amdiffynn lleidyat. Ac yny geir hwnnw duw a eirch y dyn na wnel argywed ar gorff dyn arall oe daraw. neu oe garcharu. neu oe doluryaw. Ac yny geir hwnnw yd eirch duw na dyccer ymborth na da dynyon tlodyon drwy gamwed. ac na atter y dynyon tlodyon y varw o eisseu. ac na chattwo dyn lit o digassed yn erbyn y gymodawc. Hwechet yw. na wna odineb. yny geir hwnnw yd eirch duw na bo kyt cnawt rwg gwr a gwreic odieithyr

priodas. Seithuet yw. na wna letrat. yny geir hwnnw yd eirch duw na dycco dyn da y gymodawg heb wybot idaw. nac y treis. nac oe anvod. nac oe gymell. nac o dwyll. nac o occkyr. Wythuet yw. na gam tystolyaeth. yn y geir hwnnw yd eirch duw na chattarnnhao dyn gwelet trwy dwg. trwy y colletto y gymodawc oe glot neu oe da presennawl. Nawvet yw. na hwennycha na thir na thy dy gymodawc. sef yw hynny drwy dwyll neu gamwed. Decuet geir dedyf yw. na hwennycha wreic dy gymodawc. nae was. nae vorwynn. nae anyucil. sef yw hynny na hwennycha da kynhwynnawl trwy dwyll neu trwy gamwed. Gwedy catwo dyn y degeir dedyf. reit yw idaw ymgadw rac gwneuthur neu gytsynnyaw yn un or seith bechawt marwawl.

IV.—A chyntaf ohonunt yw syberwyt. sef yw syberwyt ymryvygu o dyn yny geudawt. a cheissaw ymdyrchauel yn uch noc y dylyo. neu ymgyuartalu o dyn ac uch noc ef. A cheigeu yr pechawt hwnnw ynt anufyllawt. gwarthaw dyn neu y tremygu. neu codet. gwneuthur hoffder o greuyd neu o bechawt. bot yn ryuygus yr golut bydawl. neu vonhed. neu gampeu da. ar y kyffelybedigyon weithredeu. Eil pechawt marwawl yw kenvigen. sef yw hynny bot yn drwc gan dyn gwelet y gymodawc yn gynnedu ar da bydawl. neu gampeu da. neu greuyd. neu vot yn llawen gantaw gwelet gouut neu drwc yn damweinaw idaw. Trydyd pechaw marwawl yw digassed. sef yw hynny. cadw llit a gwennwyntra yn erbyn y gymodawc o dyn. o achaws collet neu gam a wnelit idaw. a cheissaw ymdial ac ef ar drwc trwy eir neu weithret. Petweryd pechawt marwawl. llesged a diogi. a cheigeu yr pechawt hwnnw ynt yscaelussaw gwassannaethu duw yn yr amsser y dylyho dyn y wneuthur. neu y gyrchu torri godunnet. peittyaw a phenyt a dottei y beriglawr arnaw. anobeithaw am trugared duw. tristau yr colli da bydawl. neu dynyon. ar kyffelybrwyd weithredeu. Pymhet pechawt marwawl. agawrder a chebydyaeth. sef yw hynny. hwennychu o dyn. neu geissaw da bydawl mwy no digawn. Sef yw digawn y dyn bwyt. a dillat. med

selyf doeth. neu wedy caffei dyn da bydawl y garu yn ormod. neu yn llawgaet o honaw. a cheigeu yr pechawt hwnnw ynt treis. a lletrat. ac okyr. a phob twyll kyfnewit oc a wnel dyn ac arall.

V.—Hwechet pechawt marwawl yw glythineb. sef yw hwnnw. kymryt o dyn o achaws digriuwch cnawtawl bwyt. neu lynn mwy no digawn. a cheigeu yr pechawt hwnnw ynt keissaw o dyn tra destlussrwyd. neu tra chyweirdeb ar vwyt. neu lyn. y gymryt tra gormod o honunt. trwy y bei wrthrwm ar gorff. neu ar eneit. neu y golli y synnhwyreu neu nerth y gorff. neu gymryt bwyt neu lyn kynn offeren duw sul. neu yn dydyeu gwyleu arbennic. neu yn vynychach noc unweith yn dydyeu catcoreu. am y wilaeu seint ar garawys. Seithuet pechawt marwawl yw godineb. sef yw hynny gweithret kyt cnawt. neu ewyllys ar weithredu. a cheigeu yr pechawt hwnnw ynt kyt cnawt rwg gwr a gwreic odieithyr priodas. neu a gwreic adyat. torri priodas. torri morwynndawt. treissaw gwreic. pechu yn erbyn anyan a dyn neu ac anyueil. Er medycynaethu eneit dyn or seith bechawt marwawl y rodes duw seith rinwed yr eglwys. sef yw enweu y rei hynny. Bedyd. bedyd escop. kymmyn. penyt. agguenn. urdeu kyssegredic. a phriodas. Sef yw rinwed y bedyd. bod yn vadeuedic diboen y dyn y holl bechodeu gwedy bedyd. a heb vedyd. nyt oes fford na gobeith y dyn y gaffael nef. ac o achaws hynny. duw oe vawr trugared a rodes medyant a gallu y pob ryw dyn y vettydyaw rac perigyl agheu.

VI.—Eil rinwed yw bedyd escob. a hwnnw a rodir y dyn yr cattarnnhau yny ffyd. ac yn e gristonogaeth. ac or rinwed y bedyd hwnnw haws vyd y dyn wrthlad y kythreul. ac ymgadw rac pechodeu. Trydyd rinwed yw. Kymun. sef yw hynny. corff crist dan liw bara. a gwin. nyt amgen. crist yn hollawl. o eneit a chorff. a dwywolaeth megys yn y nef y mae. a hynny oll dan liw bara a gwin. a hwnnw a rodir yr tagnouedu duw a phechaduryeit. ac yr glanhau eneit dyn o bechodeu madeuawl. ac yr chwaneccau rat y wrthlad pechodeu.

Petweryd yw penyt. sef yw hynny. poeni o dyn ehun o arch y beriglawr drwy gwbyl ediuarwch. a chyffes lan. ac yn teir rann y dosperthir y penyt. yn wedi. ac yn ympryt. a chardawt. megys dyn a godho duw o dorri y orchymyneu. trwy ediuarwch a chyffes lan gwediet ar duw y gaffel y trugared. yn lle y digriuwch a gymerth yny bechawt. poenet dyn y gorff trwy ympryt. a phererindodeu. a gweithredoed gobrwyus. ac o achaws na wyr dyn vot yn gymeredic gan duw y wedi neu y weithret. roded gardadeu oc da pressennawl er enryded duw ac er gwediaw drostaw. Pummet rinwed yw aggennu. sef yw hynny. dodi olew kyssegredic ar dyn ymywn cleuyt periglus. yd aggennit dyn trwy leindit buched. madeuedic vyd idaw y holl bechodeu madeuawl. ar neill beth a dywedir y damweinaw idaw. ae y dyuryssyaw y agheu. ae caffel iechyt ar vyrr o amsser. a dyn a dyly aggennu y gynifer gweith y dygwytho ymywn cleuyt periglus.

VII.—Hwechet rinwed yw urdeu kyssegredic. sef yw hwnnw. teilygdawt. a medyant y wassannaethu rinwedeu yr eglwys. Seithuet rinwed yw priodas. a honno a wnaethpwyt yr dibechu kyt cnawt rwg gwr a gwreic yr ennill plant. Gwedy gwyppo dyn nerthoed a gryvnyant rinwedeu yr eglwys. ac aruer onadunt drwy berffeithrwyd. dylyedus yw idaw wybot seith weithret y trugared. ac gwneuthur yr gobrwyaw idaw ogonyant yn y nef. Sef ynt y gweithredoed hynny. Rodi bwyt y newynawc. Diawt y sychedic. Lletty y bellynnic. Dillat y noeth. Gouwyaw claf. Rydhau carcharawr. Cladu y marw. Ar ny allo gwneuthur y seith weithret hynny yn gorfforawl. Kyghor yw idaw y gan y seint gwneuthur y pymp weithret hynn yn ysprydawl. Kyghori annoeth. ac lessau. a chospi enwir er y dysgu. a phob trist galarus y didanu. Kyt doluryaw a gwan drwy y garu. a thros pob aghyfyeithus gwediaw duw y trugarhau.

EUANGEL NICODEMUS.

I.—Yn yr awyr y pechwys adaf ymparadwys. y gwrthladwyt o honei wedy y bechawt. a llef a dodes oe welet ynoeth. Ac drugared yr arglwyd y kudywyt or deil. ac orubuchet y kauas edewit. Y rodet idaw olew trugared yn diwed yr oessoed. Ac odyna y daeth adaf hyt yglyn ebron ygyt ac eua y wreic. ac yno y diodeuawt lawer o lauuryeu trwy chwys a chygreineint y gallon. Ac yno y ganet idaw deu vab kayn ac auel. Ac val ydoedyn yn aberthu herwyd eu deuawt. yd edrychwys yr arglwyd ar offrymeu auel. ac nyt edrychwys ar offrymeu kayn. kanys o wrthwyneb y gallon yd aberthei. A phan adnabu kayn nat edrychei yr arglwyd ar y aberth. llittyaw aoruc o gyghreineint. a llad auel y vrawt. A phan welas adaf rylad y vrawt o gayn. y dywat mae llawer o drygoed a doeth o achaws gwreic. byw yw duw o byd achaws ym bellach a hi. Ac ymgynhal a oruc ohonei deucant mlyned. Ac eilweith o gymynedyw y gan duw y bu achaws ydaw a hi. ac y bu vab ydaw o honei aelwis ef seth.

II.—A hwnnw a fu ufyd y tat. A phan yttoed adaf yn dec mlyned ar hugein a chant ar yulinaw o honaw yn diwreidaw drysswch a miery. gogwydaw a oruc yny korff. a daly tristwch a medylyaw yn y vryt. y tyuei oi lin diruawr drwc yn y byt. blinaw aoruc oe vywyt. Ac yna galw seth y vab attaw. a dywedut wrthaw. vy mab heb ef. Mi ath anuonaf hyt ymparadwys at cherubyn archagel. yr hwn a geidw prenn y vuchet. a chledyf tan troedic yny law. Parawt wyf vy heb y mab. manac ymy y ffford. a phy beth a dywettwyf wrthaw. Dywet ydaw vy rydigyaw om bywyt. ac adolwyn ydaw y gennyt. gan y wediyaw anuon gennyt hysbysrwyd o

olew trugared a edewis yr arglwyd ym. pan ym gyrrwys o baradwys. Parawt vu seth. ac yn y mod hwn y disgwys y tat y fford idaw. Kerda heb ef y gwrthwyneb y glyn rot ar dwyrein. ac yn diben y glyn ti a geffy fford dissathyr iawn aghwt hyt ymparadwys. Ac val y bo hysbys gennyt dy fford. ti a geffy ar y fford ar llwybyr tec hwnnw oleuy dy vam a that yn wyw grin llosgedic. pan doetham o baradwys kyn wrthrymet vu yn pechodeu ac na thyuawd na blewyn na llessewyn y fford y sathryssam ac an tract y dayar.

III.—Odyna val hynny y kerdwys seth yn rybuchedic ygan y tat parth a ffaradwys. Ac vel y dynessawys y baradwys. nachaf mal tan yny gylch o oleuat paradwys. ac ofyn a vu arnaw o debygu vot tan yny gylchynu. Ae tat eissoes ae rybudassei rac y damwein hwnnw. Ac ymgroessi aoruc ynteu a dodi arnaw arwyd y teir.....ac odyna y daeth yn rwyd hyt ymparadwys. A phan weles yr agel ef. y gouynnwys ydaw pa achaws y doeth yno. Vynthat yssyd heb ynteu daruodedic o heneit. ac y llydedic bellach oe vywyt. ac am hanuones i attati yth wediaw am hyspysrwyd idaw o olew y trugared aedeweist idaw. val y danuonych di gennyfi idaw. Dot ti dy ben drwy wychet y porth. heb yr agel. ac edrych o vywn yn graff beth a welych yno. A phan dodes y benn ymywn. ef a welas kyuryw degwch val na allei dauawt y draethu. eu hamryuael dygenedloed ffrwytheu a blodeu a werendewis. nar kyuryw kywydolyaeth. ac organ nys clywssei dyn eiroet. Ef a welei yno heuyt ffynnawn eglur. ac ohonei pedeir ffrwt yn llithraw. Enweu y pedeir auon oedynt physon. gyon. tigris. euffrates. Ar pedeir auon hynny yssyd yn gwassanaethu dwfyr echwyd yr holl vyt. Ac uch benn y ffynnawn ydoed prenn diruawr y veint ac aml y geigeu yn kellucinneu noeth heb risc heb deil arney. ac yna y tynnwys ef y benn dracheuen at yr agel y datkanu idaw yr hynn rywelsei yn llwyr. Ac yna yd erchis yr agel ydaw edrych dracheuen ymywn y welet petheu ereill. A phan edrychwys y gwelas yno y prenn llwm gynneu yn damgylchynnedic o deil a

risc. ac yn gyfuuch ar nef. ac ymblaen y prenn ydoed mab newyd eney a debygei ef yr awr honno. A throssi y olwc tu ar daear. ac yno y gwelei gwreideu y prenn yn mynet trwy y daear hyt yn uffernn. ac yno yd adnabu ef eneit avel y vrawt. Ac odyna ydymchwelawd y trydeweith at yr agel. y datkanu rywelsei. Ac yna y dehogles yr agel ydaw y weledigaeth am y mab. Y mab ryweleist di heb ef. mab duw yw hwnnw. yr hwn yssyd yn kwynnaw pechodeu dy rieni dy. ac ae kwynn yny del kyffawnder yr amsser. A hwnnw yw yr olew aedewit yth rieni di. Hwnnw a wna y trugared dros dy rieni di. a thros eu hetiued. Ar trugared honno yw priodolder caryat.

IV.—Ac gwedy dyscu seth or agel val hynny. pan yttoed amynet ymdeith y rodes yr agel idaw tri gronyn o geudawt aval y prenn hwnnw. val yr archassei y tat idaw. a menegy idaw y diffodei y tat ar benn y tri dieu gwedy y delei seth at adaf. A dot titheu y tri gronyn hynn a dan wreidon y davawt ef. ac onadunt y kyuodant teir gwialen. Un onadunt a vyd o ryw cedrus. Yr eil a vyd o ryw cypressus. Ar trydyd a uyd o ryw y pinus. Trwy y cedrus y deellir y tat or nef. kanys uchaf prenn y dyfyant yw. Trwy cypressus y deellir y mab. kanys goreu prenn yw y arogleu. a melyssaf y ffrwyth. Trwy y pinus y deellir yr yspryt glan. herwyd amylder y ffrwyth. Ac odyna y daeth seth at y tat. ae neges yn rwyd dracheuen gantaw. A phan datkanawd y adaf y neges llawen vu. A llyna yr un weith y chwardawd adaf yr pan doeth yr daear. ac o hyt llef a dodes y dywat. Arglwyd heb ef digawn yw hyt vy mywyt. kymer vy eneit atat. A chyn penn y tri dieu val y dywat yr agel y diffodes adaf. Ac yglyn ebron y cladawd seth y vab ef. ar tri gronyn a dywetpwyt uchot dan wreidon y tauot. Ac o rei hynny y kyuodes teir gwialen ar oet byrr. A chymeint oed hyt pob un ae gilyd. Ar gwyal hynny a drigassant o eneu adaf hyt at noe. Ac o noe hyt at vream. ac o vream hyt at voessen. heb na thyfu na chrydu mwy no hynny. na symutaw dim or un anssawd.

V.—Ac odyna pan aeth moessen y dwyn pobyl yr israel o geithiwet yr eiffyt. y gan pharao vrenhin trwy vor rud. ac y bodes pharao ae bobyl. ac y doeth moessen hyt y glyn ebron. a phobyl duw y gyt ac ef. Ac val y dyccoed voessen gwedy lluestu. bendigaw y bobyl a wnaeth y vynet y darchauel y teir gwialen a oedynt o eneu adaf. a chan y dysgu o yspryt y proffwydolyaeth. Achup y teir gwialen aoruc. ac eu tynnu. A phan y tynnwys o eneu adaf y kawssant kyfryw arogleu. val y tebygynt yna eu bot yny daear adawedic. A phan y tynnwys moessen wynt y dywawt. panyw y trindawt a arwydocceint. A llawen vu voessen o gaffel yr arogleu ar arwyd da hwnnw. ac y cadw yn anrydedus a wnaeth. a gwisc yn eu kylch yn greireu annwyl. A deugein mlyned y buant yn y diffeith. ac o darffei kyuaruot a neb or llu yacheit ae dolur. ae brath pryf gwenwynic. neu gynnurch arall. y rodei y prophwyt y gwyal yn y eneu. ar awr honno y bydynt iach.

VI.—Ac yna y damweinawd erchi or bobyl y voessen dwfyr or garrec. a goganu voessen am dwfyr. Ryued yd edrychwch heb y moessen. a allafi bobyl atkas agkredadun dwyn dwfyr y chwi or garec honn. A tharaw deu dyrnawt ae wialen ar y garrec. yny rodet dwfyr ehalaeth ohonei val y gallei o dynyon ac anyueileit caffel digawn ohonei. Ac yna yn diannot ydymdangosses yr arglwyd y voessen. ac ymdidan ac ef val hynn. Kannyt ymdiredeisti ym henw. i. heb ef. rac bron pobyl yr israel. nyt arwedy titheu wynteu yr daear adawedic. Pwy arglwyd heb y moessen ac ae duc wynteu. Byw y wyfi heb y duw oda neb onadunt yno eithyr caleph a iosue. Yna y dyallwys moessen bot y dyd ef yn dyuot. Ac yna yd aeth yr penn issaf y lyn thabor. ac yno y plannawd ef y gwyal yny daear. a cheryllaw idaw ynteu. ac odyna mynet yny bed a wnaeth a diffodi. Ac yno y bu y gwyal hynny mil o vlynnyded hyt ar amsser dauid vrenin iudea.

VII.—Ac ympenn mil o vlynnyded gwedy moessen broffwyt. y dysgwyt dauid trwy yr yspryt glan y vynet o honaw y vynyd thabor. y gyrchu y gwielin a blannasoed voessen yno. A dauid a aeth yno. ac a duc y

gwielin hyt ygkaerussalem. canys duw a racwelei bot iechyt pobyl dynawl onadunt. trwy rinwed y groc. Ac yna y kerdawd dauit hyt yn arabya. Ac ympen y nawuettyd y doeth y vynyd. ac yno y kauas dauid y gwyal a vanagassei yr agel idaw. A phan y tynnawd wynt or daear. arogleu mawrweirthawc agauas dauid ae holl gynnulleitua or gwyeil. mal y tebygyn ac y credyn oll y bot ympeth nefawl. Ac val ydoed dauid yn ymchwelut y kyfaruu ac ef o lauuryaw llawer. llawer o heinnyeu amryw. a phawb onadunt a gauas iechyt. o nerth y groc. Ac wynteu o llef prophwydolyaeth yn lleuein. ac yn dywedut. hediw y mae duw yn rodi iechyt yr byt trwy nerth y lan groc. a thrwy yr ysbryt glan. A chan lewenyd mawr yr aeth pawb onadunt parth ac gadref yn iach. Ac ympen y nawnieu y doeth dauid dracheuen y gaerussalem. a medylyaw awnaeth. pa le y planney y gwial hynny yn anrydedus. Ar nos honno y dodes wynt y mewn gogof o garrec a oed ger llaw dwfyr. val y gallei tranoeth ar ehag eu plannu. Yno y nos honno y getwis geitweit. a goleuat ergaigl ygyt ac wynt. ac yd aeth ynteu y orffwys. Ac eissoes o nerth dwyuawl yr honn yssyd raclonder yn wastat. yr honn ny thwyll ac ny thwyllir. ydyrchauawd y gwyal yn eu seuyll. ac eu gwreideu yny garrec. a chymyscu y teir gwialen yn un. A phan welas y brenhin yr anryuedawt hwnnw. y dywat. Bit ofyn duw ar holl genedloed y daear. kanys mawredic a molianus yw yny weithredoed.

VIII.—Ny symudwys y brenhin wynt or lle hwnnw canys daroed y duw y gossot yn rywedawt. A dauid awnaeth mur ygkylch y prenn yn tec wedi plannu o dwynw wynt. hyt ympen y dec mlyned ar hugeint. Ac ar dwf pob blwydyn. y peris y brenhin pob blwydyn dodi kylch o aryant. val y gwyppei beth vei dwf y prenn kyssegredic pob blwydyn. ac y meint aga dyfuawd arnaw y vlwydyn gyntaf a dyfuawd pob blwydyn arnaw wedi hynny. Sef oed hynny cufyt pob blwydyn. Ac ympen y dec mlyned ar hugeint. gwedy gwneuthur diruawr bechawt o dauid. a hoed barn duw y doeth dauid dan y prenn kyssegredic y wylaw o

ediuarwch am y bechawt. ac y dywedut yr arglwyd y miserere. A gwedy gorffen y salym y dechreuis adeilat temyl yr arglwyd yn dadolwch am y bechodeu. A phedeir blyned ar dec y bu dauid yny gwneuthur gweith ygkylch y temyl. ac eissoes canys gwr llad kalaned rygwnaethoed dauid. ny mynnwys yr arglwyd gorffen y ty ohonaw. a dywedut wrthaw. nyt ateily di ymi ty. kanys gwr gwaet wyt. Pwy arglwyd heb y dauid ac hadeila ynteu. Selyf dy vab heb yr arglwyd. Ac yna y dyallwys dauid na bydei hwy y bara ef no hynny. ac yna y gelwis attaw hynnafyeit. a phennaduryeit y dinas. ac y dywat wrthunt. Gwerendewch selyf val mynnheu. canys yr arglwyd ry detholes ef.

IX.—A gwedy marw dauid ae cladu ygwydua y brenhined. y gwledychwys selyf yn iudea. ac y cwplaawd y temyl gan lewenyd yn yspeit deudec mlyned ar hugeint. Ac ymron y gorffen. gwedy na chaffei na seiry maen na seiry prenn yn holl coetyd lybany. trawst a wedei o hyt yny temyl. nac yn holl goettyd y teyrnassoed ercill yn eu kylch ogylch. megis od'ir ac agheu y torrassant y prenn hwnnw. ac y gwnaethant trawst o honaw. Ac un cufyd ar dec ar hugeint yny hyt. ac gwedy vessuraw velly. ach cufyd yn hwy noe dylyet wrth linyn pan dyrchauwyt. ac y prouet velly. Sef achaws y prouynt. pan vei y trawst ar y llawr. hwy vydei arnod cufyd nor messur. A phan dyrcheuit yn y le. arnod cufyd y bydei vyrach. achan aedrychawd arnaw. a galw y brenhin awnaethant y dangos ydaw eu hanryuedawt. Ac yna yd erchis y brenhin dodi y prenn yny temyl. megys yd anrydedit y gan a deley yr temyl y mewn.

X.—Odyna yd aeth y seiry y geissaw trawst a wedei. ac y cawssent yn rwyd. ac y cwplayssant temyl dauid yn llawen hyfuryt. Ac yna yd oed deuot gan y teyrnassoed ogylch caerussalem dyuot y bererindawt y temyl yr arglwyd y adoli duw. Ac yna y damweinawd anrydedu y trawst hwnnw y gan bawp or a deley yr temyl. Ac yna y dywetpwyt y wreic santeid a elwit maximilla bot yn agkeluyd yd eistedei ar y prenn kys-

segredic. ac yna y clywei y dillat yn lloscy yny chylch. Ac o ymadrawd prophwydolyaeth y dodes y llawn llef. ac y dywat. Vyn duw i am harglwyd. i. iessu grist. A phan gigleu yr ydeon enwi ohonei hi iessu grist. y llebydyassan hy a mein. A honno vu y merthyr kyntaf a diodefuawd merthyrolyaeth yn enw crist. Ac odyna y tynnassant yr ydeon y trawst or temyl. ac y burryassant ymywn llyn a oed ger llaw y dinas. a elwit probatica piscina. ynyr honn y golchit peruedeu anyucilcit a offrymyt yr temyl. Ac eissoes ny mynnawd yr arglwyd bot y prenn kyssegredic hwnnw heb wneuthur gwyrtheu pa le bynnac y bei. namyn beunyd yrwg echwyd a hanner dyd y disgynnei egylyon yny llynn. a chyffroi y llynn awneynt. Ar dyn kyntaf a delei yr llynn kyffro y dwfyr. o pa heint bynnac a vei arnaw ef. y caffei waret a iechyt.

XI.—A phan welas yr ydeon y gwyrtheu hynny y tynnassant y prenn or llynn. ac y dodassant yn bont ar auon y sathru. val y bei llei y wyrth. Ac yno y bu y prenn yn gorwed ar llanneu yr auon honno. yny doeth sibilla vrenhines hyt ygkaerussalem y warandaw doethineb y gan selyf vab dauid. A pharthret ac yd oed y trawst yn gorwed y doeth. a phan arganuu hi y prenn. estwg y phenn a wnaeth. ac adoli idaw. a diosc y harchennat. a dyrchauel y dillat. a mynet trwy y dwfyr is y law. a dywedut o ymadrawd prophwydolyaeth. Y daear a wlypa o chwys o arwyd y manac hwnn. ef a daw or nef trwy yr oessoed rac llaw brenin. nyt amgen a varno yny gnawt. a phawb ae gwelant yn gynrychawl a drwc a da onadunt yn y dyd diwethaf. a phawb a daw yn y gnawt y varnu arnadunt. or a vo yn gorwed a dan y prid ar meyn. ac a vurryant y arnunt eu bedeu. Ac y llysc tan y daear ar mor ar awyr. ac y tyrr pyrth uffern dywyll. A phawb yn y gnawt a welant hynny. ar ffynnhoneu a loscant o dan yn tragywyd. Yno y dattodir ar bawb eu gweithredoed kudedic. ac a egyr duw dirgeledigaeth eu callonneu. Yna y byd cwynvan adeinkryt. Yna y tynnir y gwres ae lleuuer y gan yr heul. ac y dygwyd y syr ac y dymchwel y nef.

ac y palla goleuni y lleuat. ac yd ystygir y brynneu. ac y dyrcheuir y glynneu. Ac ny byd dim ny wastataer. na mor na mynyd. na uchel na yssel. ac yna y gorffwys pob peth. ar daear a wriwir ac a loscir. ar ffynnoneu ar auonyd a loscant. ac y daw yna corn or uchelder awyr aruthyr y gan bechaduryeit. Ac yna y cwyn y byt eu cam weithret. ac yna y traisir y daear yar uffern y dangna. ac yna y darestygant yr holl vrenhined rac bronn yr un arglwyd. Ac yna y twysca auon o vrwmstan. gyt a than gwyllt or nef. y lloer y traissir o honey hy.

XII.—Llawer y gyt a hynny wrth selyf vab dauid dracheuen y dywed sibilla. ac yno y bu y prenn hwnnw yn gorwed hyt yr amsser y diodefawd Crist arnaw. a phan varnawd yr ydeon grist y agheu. y dywat un or ydeon o ymadrawd prophwydolyaeth. Kymerwch prenn y brenin yssyd yn gorwed dieithyr y dinas. a gwnewch ohonaw groc y vrenin yr ydeon. Ac yna y daeth yr ydeon odieithyr y dinas. a thorri y tryded ran or trawst. ac ac hwnnw y gwnaethant croc yr arglwyd. o seith cufyd yndy o hyt. a thri chufyd yny breich ar veint. ac y symmudhassant hy hyt y lle a elwir caluaria. Ac ar honno y crogassant yn harglwyd ny iessu grist. yr iechyt yr ae cretto y daw yr hwnn y mae enryded a gogonyant tragywyd ganthaw.

Y GROGLITH:

OR,

THE MASS OF GOOD FRIDAY.

I.—Gwdawch chwi heb yr iessu wrth y disgyblonn y byd pasc penn y deudyd. ac y rodir un mab duw y grogy. Yna yd ymgynnullassant tywyssogyon yr offeireit. a hynnafyeit y bobyl hyt yn llys tywyssawc yr offeireit. cayphas y enw. ac ymgygor ar daly iessu o vrat ae lad. Ac yna y dywedassant na wedei hynny yn dyd

gwyl. rac tyfu kynhwfryd yny bobyl. Ac eissoes val y doeth iessu yn bethania yn ty symon glauur. y doeth gwreic attaw a llestreit o ireit gwerthuawr genthy. Ac yna yd oed yr arglwyd yn gogwydaw. sef a wnaeth hy dineu yr ireit am y benn. A sorri aoruc y dysgyblon o welet hynny. a govyn paham y collit yr ireit. ef a ellit heb wynt y werthu yr llawer. ae rodi y aghennogyon. Ac ynteu iessu a wybu hynny. ac atteb udunt. paham yssoruchwchy wrth y wreic. canys llauur da rylauurwys wrthyfy. canys yn wastat y keffwch aghennogyon y gyt a chwy. ac ny cheffwch vyvy. yr ireit a anuones y wreic honn ar vyghorff y. arwyd vyghladu y goruc. Minneu a dywedaf ychwi. yn wir palebynnac or holl vyd y traethir yr evegyl hwnn. ef a dywedir ary dyf hy rywneuthur o honn y gweithret hwnn.

II.—Ac yno y daeth un or deudec ebestyl. iudas scarioth oed y enw at y tywyssogyon yr offeireit y dywedut wrthunt. pabeth arodwch chwi ymi. ami a rodaf ywch ef. Ac wynteu a ossodassant idaw ef dec ar hugeint aryant. Ac odyna y keisswys ynteu kyffuryf ar y rody ef. Y dyd kyntaf hagen y gouynnawd y disgyblon idaw pa le y mynny di ynny paratoy pasc ytty. Ac ynteu aerchis udunt wy mynet yr dinas at neb un. a dywedwch idaw y gan yr athro. mae vy amsser yn agos. ygyt a thi y gwnaf vy am disgyblon vym pasc. Ac vegys y gossodes yessu arnunt y goruc y disgyblon. a ffarattoi y pasc awnaethant. a gwedy gosper kyueistydyaw aoruc ygyt ae deudec ebestyl. Ac val yd oedynt yn bwytta y dywat ef. my a dywedaf ywch yn lle gwir. panyw un ohonawch amryd. i. Ac yna y tristassant wy. ac y gouynnwys pawb onadunt. Ae my. ae minheu. Y neb yssyd yn rody y law yn y dysgyl ygyt a my. hwnnw am ryd. Mab dyn val yd yscriuenwyt ohonaw. ac eissoes gwae hwnnw yr hwn yr rodir mab dyn trwydaw. da uassei idaw na enyt. Ac yna y gouynnwys iudas. ae myvy athro. hynny rydywedeisti. heb ynteu. Ac val yd oedynt yn bwytta. y kymerth yessu vara ae vendigaw ae torri. ae rody y dysgyblon. a dywedut wrthunt. Kymerwch a bwy-

tewch. hwnn yw vygkorffi. a chymryt caregyl ae rodi udunt. Yuet pawb o honawch o hwnn, canys hwnn yw vygwaet. i. ynewydefyf a ellygir dros lawer y madeueint pechodeu. Mi a dywedaf ywch hagen nac yfuaf vy bellach or kyfryw win hwnn. hyt y dyd y bwyf ygyt achwi yn yuet ynteyrnas vyn tat. i.

III.—Ac wedy daruot eu hymynn. yd aethant y vynyd oliuet. ac yno y dywawt iessu wrthunt. Pawb ohonawch chwi a dodef teruysc om hachaws. i. heno. canys yscriuenedic yw. mi a trawaf y bugeil. ac odyna y gwasgarant y deueit or cadw. Ac eissoes gwedy kyuot vyfy. my ach raculaenaf chwi yggalilea. Ac yna yd attebawd pedyr idaw. Kyt ymwahano pawb a thi nyt ymwahanaf. i. byth. Mi a dywedaf yt yn wir. heb yr iessu. Kynn canu heno or keilawc yd ymdiwat di deirgweith a mi. Ac yno y dywawt peder wrthaw ynteu. A chyt boet reit ym varw gyt athi nyth wadaf. ac val hynny y dywot pawb or dysgyblon. Ac yna y doeth iessu ac wynteu y gyt ac ef yr tref Jesemany. ac yna y dywat ef wrth y dysgyblon. Eistedwch yman hyt tra elwyf racco y wediaw. A chymryt peder a deu vab zebedeus ygyt ac ef. a dechreu kymryt tristwch yndaw. a dywedut wrthunt. Trist yw vy eneit. i. erbyn agheu. Kynyhelwch yma a gwediwch ygyt amy. a cherdet ychydigyn awnaeth. a dygwydaw ae wyneb wrth y llawr y wediaw. ac yna dywedut. Vyntat. i. os gallu avyd. kerdet yr agheu honn y wrthyf. i. Ac eissoes nyt herwyd vy mynnu. i. namyn val y mynnych dy. Ac odyna dyuot ar y disgyblon. ac y cauas wynt yn kysgu. ac y dywat wrth beder. ny elleist wylat un awr ygyt a my. Gwylwch a gwediwch rac ych mynet ym prouedigaeth. parawt yw yr yspryt. ac eissoes gwan yw y knawt.

IV.—Odyna yd aeth eilweith y wediaw. Vyn tat. i. heb ef. ony eill yr agheu honn vynet ywrth. i. yny kymerwyf. bit dy vynnu dy. Ac eilweith y daeth attunt. ae caffel yn kyscu. kanys gorthrwm oed y llygeit ganthunt. ac eu hadaw aoruc. Ar trydeweith yd aeth y wediaw yn un ymadrawd. ac odyna y doeth

at y disgyblon. ac erchi udunt gyscu a gorffwys. Llyma heb ef yr awr yn dyuot. yr honn y rodi mab dyn yn llaw pechaduryeit. Kyuodwch awn. llyma yn agos y neb yssyd ym rody. Ac ef etwa yn dywedut. llyma iudas un or deudec yn dyuot. ac y gyt ac ef torof vawr achleuydeu ac a ffusteu gwedy ry anuon o tywyssogyon yr effeireit. ar y anuon or hyneif y bobyl. yr hwnn ae rodes ef a venegis udunt yr arwydon. Pwy bynnac yd elwyfi idaw dwylaw mynogyl. hwnnw yw ef. delwch ef. Ac yn y lle dynessau attaw awnaeth iudas. a dywedut. Hanpych gwell athro. ae gussanu. Ac yna y dywot iessu. Arglwyd getymdeith heb ef. y pa beth y daethosti. Ac yna y doethant ac y rodasant law arnaw. ac y dalyassant ef.

V.—Ac yna y doeth un or rei aoed y gyt a iessu. a thynnu cledyf a tharaw clust un o weisson tywyssawc yr offeireit. ac yna y dywat iessu y hwnnw. Dot dy gledyf yny le. a lado a chledyf. a chledyf y lledir. pony thebyguty pei my a archey ym tat. i. mwy no deudec leng o egylyon ym hamdiffynn. or mod hagen y cwplaer yr ysgrythur y mae reit y wneuthur. Ac yna y dywot yr toruoyd. megys y daly lleidyr y doethawch chwy ym daly. i. a chledyfeu ac a ffusteu. a pheunyd yd oedwn yn eiste yny temyl ac ych dyscu. ac nym dalyassawch. O achaws hagen cwplau yr ysgrythur y gwnaethpwyt hynny a darogan y prophwydy. Ac yna y ymadawssant y disgyblon oll ac ef. ac y ffoassant.

VI.—Ac wynteu a dugant iessu gwedy daly hyt at cayphas tywyssawc yr offeireit. yr lle yd oedynt yr athrawon ar offeireit gwedy ry ymgynnullaw y gyt. Pedyr hagen ae ry canlynassey ef o bell hyt yn llys tywyssawc yr offeireit. ac ymywn yd eistedwys ygyt ar gwassanaethwyr y edrych y teruyn a vei ar iessu. ac yn hynny y doeth tywyssawc yr offeireit ac holl gygor yn keissaw ffalst tystolyaeth yn erbyn iessu val y rodit y agheu. A gwedy dyuot llawer o ffalst tystyon. ac na chawssan dim yny erbyn. yny diwed y doeth deu ffalst tystyon y dywedut. Hwn heb wy a dyweut. mi a

allaf distryw temyl duw yn un awr. ac ar ben y tridieu y hadeilat. Ac yna y kynodes tywyssawc yr offeireit y ovyn idaw a oed dim a attepey yr peth yd oedyt yn y tystu yny erbyn. ac yna y dywat iessu. ti ae dywedeist heb ef. ac eissoes tewi a oruc iessu. Ac yna y dywawt y tywyssawc yr offeireit wrthaw eilweith. mi ath tyghedaf ti trwy duw byw yny dywetych hynn ot wyt crist vab duw. Ac yna y dywat iessu. ti ae dywedeist heb ef. Ac eissoes heb ef mi a dywedaf ywchi o law hynn ygwelwch vab dyn yn eisted ar deheu nerth duw. ac yn dyuot yn wybyr y nef. Ac yna y rwygawd tywyssawc yr offeireit y dillat. ac y dywat. Guattar am duw heb ef. Pa eisseu tyston yssyd arnam ny weithon. ef a haedawd agheu. Ac yna y poerassant yny lygeit ae dagu. ae vonclustyaw. ac ereill a dodynt eu llaw ar y wyneb ac ae bonclustynt ef. ac erchi ydaw prophwydaw pwy ae trawssey.

VII.—Yna ydoed pedyr odyallan ac y doeth morwyn attaw. a gouyn ydaw ae y gyt a iessu o galilea ydoed ef. Ny wn pa dywedy. heb y pedyr. ac ymdiwat ac ef yggwyd pawb. ac val ydoed yn mynet or dinas. nachaf gwreic arall yn y welet. ac yn dywedut wrth y tylwyth aoed yno. ponyt ygyt a iessu o nazareth ydoed hwnn. ac eilweith yd ymdiwadawd ac ef nas adnabuassey eiroet. Ac ychydic yn ol hynny at bedyr y niuer a oed yn eu seuyll. a dywedut wrthaw. Diheu yw panyw ohonunt ydwyt val y mae amlwc ar dy ymadrawd. Ac yna y dechreuys ef ymtyghedu. a thygu hyt nas adnabuassey eyroet ef. Ac yna y cant y keilawc. ac y coffawys peder or geir a dywedassey iessu. y diwadey crist teirgweith kynn canu or keilawc. Ac odyna mynet allan y wylyaw yn chwerw awnaeth.

VIII.—Pan doeth hagen y bore yd aethant y gygor tywyssogyon a hynafyeit y bobyl yn erbyn iessu wrth y rody y agheu. ae dwyn gantunt yn rwym a orugant. ae rody y bilatus o ynys bont oed raglaw yna. A phan welas iudas y gwr ae rodassey ef udunt. panyw gwr dihenyd vydey iessu. o ediuarwch y duc ef y dec ar hugein y tywyssogyon yr offeireit ac yr hynafyeit y

bobyl dracheuen. a mynegi udunt rybechu ohonaw gan rodi gwaet y gwiryon. Pa beth heb wy a berthyn arnam ny o hynny. ti a welo. ae bwrw a oruc ef yr aryan yny temyl. ac ymgrogy ehun. A gwedy kymryt yr aryant o tywyssogyon yr offeireit y dywedassant. Nyt kannyat yny rody yr aryant hynn yny yn llestyr kyffredin. canys gwaet gwerth yw. A gwedy ymgygor onadunt y prynassant ohonaw tir crochenyd y gladu alltutyonn yndaw. ac yr hynny hyt hediw y gelwir y tir hwnnw yn eu hyeith wy acceldemac. sef oed hynny tir y gwaet. Ac yna y cwplawyt yr ymadrawd a dywat Jeremias prophwyt. sef ymadrawd oed. Wynt a gymcrassant dec ar hugein o aryant. rywerth y gwerthwyt ac y prynnwyt y gan veibon yr israel. ac a rodassant hwnnw yn tir crochenyd megys y menegys yr arglwyd yny.

IX.—Ac yna y seuis iessu racbron yr raglaw. ac y gouynnwys y raglaw ydaw ae ef oed vrenin yr ydeon. Ti a dywot heb yr iessu. Ac yr ryguhudaw o tywyssogyon yr offeireit ar hyneif. nyt attebawd dim. Ac yna y dywat pilatus. pony chlywy di y tystolaetheu y maent wy yny dywedut yth erbyn di. Ac nyt attebawd iessu ar un geir idaw val y bu ryued iawn y gan y raglaw. Ac yn y dyd honneit uchel yd oed deuawt gan y raglaw gadu yr bobyl yr un carcharawr a dewissynt. ac ydoed yna ganthaw garcharawr balch. barrabas oed y enw. a dugessit yr carchar am rylad kelein ohonaw. Ac gwedy ymgynnullaw ygyt ohonunt. y dywat pilatus. pa un a vynnwch chwi y adu. ae barrabas ae iessu. yr hwnn aelwyt crist. canys gwydyat panyw trwy gygheruynt y rodyssynt yno. Ac val ydoed yn eisted yn lle brawdyr yd anuones y wreic attaw y vynegy nat ymyrreily y gwaet gwiryon hwnnw. a llawer heb hy ry diodeueis. i. hediw trwy vy hun amdanaw ef. Tywyssogyon yr offeireit eissoes ar hyneif yn annoc yr bobyl erchi barraban a dienydyaw iessu. Ac atteb udunt aoruc y raglaw. pa un or deu a vynnwch chwi y vadeu. barraban heb wy. Pa beth awnaf ynheu heb y pilatus am iessu. yr hwnn a dywedir crist. Croccer heb wyn-

teu oll. Pa drwc a wnaeth heb ef. cadarnach cadarnach yd erchynt wynteu y grogy ef.

X.—Pan welas pilatus nath tygyei y ymadrawd namyn yn vwy o teruysc. kymryt dwfyr y ymolchy aoruc. a dywedut yggwyd y bobyl. Diargywed wyfi o waet y gwiryonn hwnn. a chwi a welwch. Bit arnam ni ac ar yn meibon wedy ni y waet. heb y bobyl. Ac yna y gollygwys ef barraban. ac y rodes iessu yn boenedic y grogy. Ac yna y kynullwys marchogyon y raglaw yr holl bobyl at iessu. ae dwyn yr dadleu. ae damgylchynu. a gwiscaw mantell goch ymdanaw. a phlethu coron o drein yspydat. ae dody am y ben. a rody prenn corssen yn y law yn lle teyrnnwialen idaw. Ac estwg ar eu glinyeu rac y vron. a dywedut wrthaw dan gellweir. Hanpych gwell vrenin yr ydeon. a phoeri arnaw. a chymryt y gorssen oe law. ae vaedy a hi ar y benn. Gwedy gwattwaru velly. dyosc y vantell goch y amdanaw. ae wiscaw oe dillat ehun. ac doyn oe grogy. A phan oedynt yn mynet y cawssant neb un dyn or syronieit. symon y enw. a hwnnw a gymellassant y dwyn y groc ef. ac y doethant yr lle a elwit golgotha. nyt amgen.....ac a rodassant idaw gwin a bystyl oe yuet. A phan y provadwys ny llewas.

XI.—Ac wedy y rody ar y groc y rannassant y dillat a phrenn ymdanadunt. y cwplau a dywetpwyt drwy y prophwyt. Wynt arannassant vyn dillat. ac a uuryassant brenneu ymdanunt. Ac yna yd eistedassant y warchadw. a dody yn yscriuenedic uch y ben y dadyl hwn. Hwnn yw iessu brenyn yr ydeon. Ac yna y croget deu lleidyr y gyt ac ef. un or tu deheu idaw. ac arall or tu asseu. ac a elei heibiaw yn gwatwaru y dan nugyaw y penneu arnaw. a dywedut wrthaw. Hwnn a distryw temyl duw. ac ympen y tridieu ae hadeila. iachaa dy hun. ot wyt vab y duw. dysgyn or groc. Ac yn gynhebic y hynny y dywedynt tywyssogyon yr offeireit ygyt ar athraon ar hyneif. Ereill a wna ef yn iach. ac ny eill iachau ehun. os brenyn yr isrel yw. disgynnet yn awr or groc. a ni a gredwn idaw. ymdiret y mae ef y duw. rydhaet ef os myn. Iessu a dywawt

mab wyf y duw. Ac velly y kellweirynt y lladron a grogyssit ygyt ac ef. ac o awr hanner dyd hyt yn awr naon y doeth tywyllwch ar y daear oll. ac ygkylch awr naon y lleuawd iessu o lef mawr. a dywedut hely. hely. lama sabatany. sef oed hynny ygkymraec. vyn duw. i. vyn duw. i. paham yd edeweisti vyvy. Ar rei a oed yno yn seuyll. ac yn gwarandaw. a dywedynt. helyas y mae ef yn y alw. Ac yn y lle redec o un ohonunt a chymryt yspwg ae wlychu y mywn gwin egyr. ac dody ar vlaen gwialen. ae rody idaw y yuet. Ereill a dywedynt. gat y edrych a del helyas y rydhau ef.

XII.—Ac eilweith y dodes iessu lef mawr. ac yna y danuones y yspryt. Ac yna y torres gwisc y temyl yn dwyran. or gwarthaf hyt y gwaelawt. a chyffroy y daear. ac ymffustaw or kerryc. ac agory y mynnwenoed. a llawer o gorfforoed seint a gyuodassant. ac aaethant or mynnwenoed. ac a doethant yr temyl. gwedy kyuody wynteu yd ymdangossyssant y lawer. Y gwr pennaduryaf hagen aoed y gyt ac ef yn cadw iessu a uu arnynt ovyn mawr. a dywedut. Diheu oed eissoes vot hwn yn vab y duw. Ac yno ydoedynt llawer o wraged ry doethoedynt o bell. ac ae canlynyssant o alilea. ac yn eu plith meir vagdalen. a meir vam iago. a ioseph. a mam veibon zebedeus. a phan oed prynhaon hwyr y doeth neb un wr berthawc o arymathia. y enw iosep oed. a hwnnw aoed dysgybyl y iessu. hwnnw a doeth y erchi corff iessu. Ac yna yd erchis pylatus rody y corff y iosep. ef a gymerth y corff ac a troes yny gylch llenlliein wen lan. ac ossot yn y vynwent newyd a torrassey ehun ydan or garrec. a throssy llech vawr ar wyneb y bed. a mynet ymdeith.

XIII.—Ac yna ydoedynt meir vagdalen a meir arall yn eisted gyfarwynneb ar bed. ac odyna trannoeth gwedy hynny y doethant tywyssogyon yr offeireit. ar pharisewydyon hyt ar pilatus. a dywedut wrthaw. Arglwyd heb wynt. cof yw gennym dywedut or brawdyr hwnn. ac ef yn vyw. y trydyd dyd mi a gyuodaf o veirw. ac wrth hynny arch gadw y bed hyt y trydyd dyd rac dyuot y disgyblon ae doyn yn lletrat. ac odyna y

gyuody o veirw. ac yna y byd y keueilorn diwethaf gwaeth nor kyntaf. Ac yna y dywat pilatus. yma genwch chwitheu geitweit. ewch a chetwych mal y gwdawch. ac wynteu aaethant yn gadarn ygkylch y bed. a cheitweit y gadw y maen.

XIV.—Ac odyna gwawr dyd dywssul y doethant meir vagdalen. a meir arall y edrych y bed. ac odyna nachaf diruawr kynhwryf yny daear. kanys agel yr arglwyd as disgynawd or nef. ac a dynessawd y troy ac ymchwelut y maen. ac y eisted arnaw. Kyffelyb oed y welet y lucheden. ae dillat val yr eiry. ac yna rac y ovyn ef y dechrynnwys y keitweit. ac y dygwydyssant mal meirw. Ac y dywawt yr agel wrth y gwraged. na vyt ovyn arnawch. my a wn panyw iessu yr hwn a groget a geisswch. nyt ydiw yma. ef a gyuodes megys y dywot. dowch edrychwch y lle y dodet yndaw. Ewch yn gyfulym a dywedwch y disgyblon ac y beder y rygyvody. ac ef ach raculaena chwi ngalilea. yno y gwelwch euo megys y dywot y chwi.

XV.—Ac yna y cudywys yr ydeon yn lle dirgel yny daear y groc y diodeuawd crist arney. Ac odyna ympen y trydyd vlwydyn ar dec ar hugeint a chant gwedy diodef on arglwyd ny iessu grist. yny gwledychey gwr mawr anrydedus. constans y enw. dywyllwr y duw. yny seithuet vlwydyn oe teyrnnas. yd ymgynnullasant kenedloed agyuyeith y ymlad yn erbyn rufein ar auon danubium. pan uenegid hynny y constantinus. y kynnullwys ynteu lluy mawr. ac y kerdwys yn eu herbyn. Wynteu rydoethynt y teruyneu gwyr rufein yn agos y danubium. Pan welas hagen eu hamylder. tristau aoruc val rac y agheu. ar nos honno y doeth attaw gwr gwympaf. ae gyuody a dywedut wrthaw. Custenyn na vit ovyn arnat. Edrych ar y nef uch dy benn. Ac edrych aoruc ynteu. ac yno y gweley arwyd croc grist gwedy ryossot yn eglur o diruawr leuuer. ac uch y benn yn ysgriuenedic y tityl hwnn. Yn yr arwyd hwn y goruydy di.

XVI.—A phan welas Custenyn yr arwyd hwnn. y gwnaeth ynteu y kyffelybrwyd yr arwyd hwnnw. val

yr hwn ry welsey yny nef. A chyuody a wnaeth. a chyrchu val hynny. a dody oe vlaen arwyd y groc. ar dyd hwnnw llad llawer onadunt. Ar dyd hwnnw y rodes duw vudygolyaeth y custenyn vrenin. drwy nerth y groc. Odyna y doeth custennyn y dinas. ac y gelwys attaw holl offeireit. a geuduyeu. ac abertheu aoed yna. a gouyn y bawp onadunt py oed yr arwyd hwnn. neu pa beth oed. ac nyt oed attepey idaw o dim. Yna eissoes y dywat rei panyw arwyd duw or nef. Pan doed y chwedyl ar vychydic o gristonogyon a oed ynyr amsser hwnnw. y doethant wynteu ar y brenin. ac y mynegassant idaw rinwedeu y trindawt a diodeuedigaeth mab duw ygknawt. ac val y ganet. ac y diodefuawd. ac y kyuodes y trydydyd gwedy diodef ar y groc. Ac yna ydanuones custennyn vrenin ar eusebius. y gwr aoed bap yna yn rufein y alw attaw. a hwnnw a deuth attaw. ac a bedydywys ef yn enw yn harglwyd ni iessu grist. Ac yna y kadarnawd ef yn ffyd grist. ac yd erchis adeilat eglwysseu. a distryw temleu y geuduyeu. a fferffeith oed custennyn yn y ffyd. gan lauuryaw yr yspryt glan herwyd euegylyeu crist. Ac gwedy kyuarwydaw or euegylyeu pa le y crogassit crist y arglwyd ef. yd anuones ynteu y vam ef. elen oed honno. y geissaw y kyssegredic prenn y groc yr arglwyd. ac y adeilat eglwys yno. Rat yr yspryt aoed ar y wynvydediccaf elen vam yr amherawdyr. val y managey yr yspryt idi. y llauurya hitheu o bop peth. a diruawr garyat a rodes hi ar yn harglwyd ni iessu grist. Ac odyna y kychwynnawd y geissaw y iachuyawl brenn y groc kyssegredic.

XVII.—A gwedy dyallu yn ystyryawl ohonei ae chyuotedigaeth o veirw. ny hanbwyllawd hi. ac ni orffwyssawd hi yny gauas arwyd budugolyaeth crist. yn y lle y gossodyssit y arglwydiawl gorff ef arnaw. Ac yn y mod hwnn y cauas hi. yn yr wythuetyd ar hugeint or eilmis y doeth elen a lluy mawr genthy y dinas caerussalem. ac yno y kynnullassant kynulleitua vawr or ydeon. ac nyt or dinas ehun. namyn or dinas ae gylch o gylch. ac o dinassoed creill or y bey eu pres-

swyluot. A diffeith oed caerussalem yna. yn gymeint ac na chaffat yna o niuer eithyr teir mil o wyr. Ac yna y dywat y vrenines wrth y niuer hwnnw. Mi a adnabum yn llyureu y prophwydi ry vot ych kenedyl chwi yn karedic duw ni. a gwrthlad ohonawch doethineb y wrthych. a gwneuthur drwc ohonawch yr neb ach gwaredey or drwc. ae rody y agheu. y neb a rodey lleuuer y ach llygeit oe haelony. ac ych goleuny a troassawch yn tywyllwch ywch. ach gwironed a troassawch yn gelwyd. Ac o hynny ydoethywch yr emelltith yssyd yscriuenedic yn ych dedyf. Etholwch yr awr honn ohonawch y niver goreu awyppo ych dedyf. ac attepont ym or a ouynnof udunt.

XVIII.—Ac wynteu a aethant yn ofnawc dracheuen dan gaentach y rygtunt hunein. ac a detholyssant riuedy mil o wyr. ac y dugant hynny at elen. y doyn tystolyaeth drostunt or lleill ar eu bot yn gyuarwyd yny dedyf. Ac yna y dywawt elen wrthunt. Gwerendewch chwi vygeireu. i. a chymerwch yn ach clusteu vy ymadrawd. i. Pony dyellwch chwi yn llyureu y prophwydi mal y prophwydwyt o diodeuyat crist. Canys yn gyntaf y dywetpwyt. mab a enir. ac nyt adnebyd y vam o gyt gwr. Ac eilweith y dywat dauid darogannwr y molyanneu. Mi a racwelwn yn wastat ym gwyd. i. canys ydiw ar vyndeheu. nyt arneigaf ef. Ysayas proffwyd a dywot heuyt ywch. meibon aanet ym. ac a dechreuys wy. ac wynt am tremygassant. i. yr ych a adnabu y berchennawc. ar assen aadnabu bresep yr arglwyd. nyt a adnabu yr ysrael hagen vyvy. ac nym hadnabu y bobyl. a phob yscrythyr a traethawd o honaw. ac wrth hynny chwi a ufydhewch yr dedyf a gyveilornassawch. Etholwch yr awr honn ohonawch y niver a attebont yn graff. gwybot y dedyf val y galloch atteb ymi ar vygouynneu. Ac yna gorchymyn yr marchogyon eu gwarchadw yn graff.

XIX.—Ac yna yd etholyssant o gygor y rei kyuarwydaf onadunt yn y dedyf. a goreu ae gwydat pymkanhwyr o riuedy. a dyuot ac wynt rac bron elen. Pwy y rei hynn. heb yr hitheu. Y rei hynn. heb wynt.

yw y rei goreu a wyr y dedyf. Ac eilweith y dyscwys hi wy val hynn. O chwi ynvydyon meibon yr israel. val ydywch yn ymlit deelly achryeeny. ac a dywedwch nat mab iessu y duw. ac a darllewch y dedyf. ar prophwydi. ac nys dyellwch. ni heb wy adarllewn ac ae dyallwn. Pa achaws arglwydes heb wynt y dywedy di wrthym ni kyuryw a hynny. dangos yn amlwc mal yd attepom ac y mannaccom yt or petheu a dywedy. Ewch etwa. heb hi. a detholwch yr athraon goreu a wyppo y dedyf o honawch.

XX.—Ac yna y gouynnassant y rygthunt e hunein. pa achaws ydoed y vrenines yn y llauur hwnnw ac wynt. ac yna y dywawt un o honunt. iudas y enw. Mi a wn heb ef y myn hi gouyn y ni or prenn y crogassant yn tadeu ni iessu yndaw. ac wrth hynny edrychwch rac y gyuadef o neb o honawch. canys yna y diueir deduefeu yn ryeni ni. hyt ar dim. Zacheus vyn teit. i. heb ef. ae menegis ym tat. i. am tat inheu ae menegis ymynheu. pan vu varw. ac a erchis pan ovynnher y pren y kyvyrgolles yn ryeni ni grist yndaw. yr an lloscy ni nas mynackeur. o hynny allan ny wledycha kenedyl yr ydcon namyn yn diliw. o hynny allan pob rei a adolant y grist. kanys hwnnw a wledycha yn tragywyd. hwnnw yw crist vab duw byw. A minneu heb ynteu a ovynneis ym tat paham y rodynt wy law arnaw ef. o gwypynt pan yw crist oed. Gwarandaw vi vy mab. ac o ednebit y enw ynteu. cany chyuneis ac wynteu. namyn annhunaw ac wynt. ac eissoes wrth agreithaw ohonaw ef ar hyneif ac ar eskyp. wrth y kyuyrgollassant wy yno oe grogy gan tebygu gallu marw o anuarwawl. ac y diodassant yar y groc. ac cladassant. ac ynteu a gyuodes y trydydyd o veirw. ac a ymdangosses yn amlwc y dysgyblon. ac yna y credwys dy vrawt. heb ef. ac y dechreuys dysgu yny enw. ac o gytgygor dwy genedyl or ydeon y llebydywyt a meyn. a phan yttoed yn mynet y eneit o honaw derchauel y dwylaw ar y nef. a gwediaw val hynn. Arglwyd na chyuedliw y pechawt hwnn at hwy. Gwarandaw vy mab. a mi a dysgaf o grist. ac oe waret-

ogrwyd. Kanys pawb aoed yn eisted ger bron y temyl. ac yn ymlyn y gwr ar a grettey y grist. A hwnnw a gyffroes y bopyl am benn ystyphan dy vrawt ti. ac wared iessu. Ef ae gwnaeth yn un oe dysgyblon. ac wrth hynny y credassam ni. mi an tadeu idaw. canys gwir vab duw yr ydiw. a thitheu vy mab. nac afulonyda arnaw. nac ar grettont idaw. a thitheu a geffy buchet dragywyd. A hynny a dysgwys symeon vy tat ymi mal y clywych chwi. pa beth a vynwch chwi o ovyn pren y groc. ny chlywyssam ni heb lleill eyroet dim o hynny y gan dyn or a dywedy hediw yni. ac os o hynny y byd y gouyn. ymogel rac y dywedut byth. Ac val yttoedynt ynyr ymdidan hwnnw. nachaf y marchogyon yn galw arnunt y gan y vrenhines.

XXI.—A thra yttoedynt yn dyuot. yd oed elen yn barnu na chaffey dim or wyroned gantunt am a geissei. herwyd eu trigyant. ac yna yd erchis y vrenines eu lloscy. Ac rac ofyn hynny y rodassant wy iudas yn llaw hi. a dywedut ydi panyw hwnnw oed y prophwyt gwirion a wydaut y dedyf yn da. a gweithredoed hwn arglwydes. heb wynt. a vennyc yti a damuno dy gallon. a phawb or aoed yn kadarnnhau hynny. Ac wynt oll aellygwys elen y ymdeith. ac atal iudas ehun y gyt a hi. a menegy idaw bot yny dewys ae vyw ae varw. ac erchi idaw dewys. Pwy heb y iudas a vey yn y diffeith a newyn arnaw y dodit bara rac y vron. a uwyttay gerryc. Os titheu heb yr elen a vyn bot nac yny daear nac yny nef. dywet ym pale y mae mawrweirthawc bren y groc. val y kaffer oe weithredoed budugolyaeth. Y mae heb y iudas ygkylch deucant mlyned yr hynny hyt hediw. a ffa delw y gallem nynheu ieueing gwybot dim o hynny. Kynno hynny heb y vrenhines y bu ymladeu gwyr groec. Athro pawb hediw heb hi yssyd gof ganthunt a las yno. a phale y cladpwyt y gwyr hynny. val y meneic y llyureu udunt. Nyt oes arglwydes heb y iudas genym ni dim or gweithredoed a dywedy yn yscriuenedic. Pony ychyna deueist dy hun. heb y vrenhines. bot y gweithredoed yn betruster y dyweist. heb y iudas. ac y mae gennyf ynheu

ymadrodyon yr euegylyeu. heb yr elen. a vanagant yny lle y croget yr arglwyd. Dangos ti ym y lle a elwir caluaria. heb hi. a minheu a baraf y glanhau y lle. ac accattoed yscaffaf. i. vy damunet. Ny wybum. i. eiroet y lle hwnnw. heb y iudas. can nym ganadoed yna. Myn y gwr a groget heb yr elen. nyt a bwyt yn dy ben yny dywedych ymi wironed ymdan y pren.

XXII.—Ac yna yd erchis hi y dodi ef ymywn gogof o le sych. ae warchae ef yno hyt ympen y seith niwarnawt. Ac ympen y seithuet niwarnawt llef mawr a dodes or ogof. a gwediaw am y dwyn odyno. a dywedut y dangossey groc crist. A phan dyuoyt or ogof. y kerdwys hyt y lle ydoed croc crist yn gorwed yndaw. ac y dyrchauant y lle yn eith eurey. a dywedut val hynn. Duw duw ti awnaethost nef a daear. ac a vessureist y nef o let dy law. ac o vychydic ti a vessureist y daear. ac a vyd yn eisted ar cherubyn. wynteu a heduanant ygkerbydeu awyrawl. ac yn diruawr leuer yn y lle ny eill dynyawl anyan gerdet. ti a wneuthost y petheu hynny oll. ac dinassoed oll dy hun. ar dy wasanaeth dy hun. Ac wyth aniueil a wheeh adeinawc. pedwar onadunt ar eu hedua a dywedant. sanctus. sanctus. sanctus. a cherubyn y gelwir archagel "hymny y rei". a deu onadunt a ossodeist ymparadwys y gadw prenn y vuched. ac ef a elwyr seraphyn. ty yssyd arglwyd ar pob peth. canys nyni yw dy weithredoed di. ti a rodeist yr euegylyeu. ny chredwys ac ygwaelawt uffern y maent yno wynt yn lloscy. ar drewant seirff. ac ny a allant wrthwynebu yth orchymynneu di.

XXIII.—Ac weithon arglwyd os ewyllys genyt gwledychu mab meir yr hwnn a anuonet y gennyt. a phey nat gennyt ti y dad oed ny wnathoed y gwyrtheu awnaeth. a phey na bei dy vab vei ny chywynnei o veirw. Ac wrth hynny dangos yn dy wyrth. val y gwerendeweist voessen dy was. ac y dangosseist idaw eskyrn iosep yn tat ni. Velly arglwyd os ewyllys gennyt ti y dangossych ditheu y minheu y swllt cudedic. a dyrchaf mwg ac arogleu gwerthuawr y ysgynnu or lle y mae. val y crettwyf y grist a groget. canys ef brenhin

yw yr israel. yr awrhonn ac yn yr oes oessoed. A phan daruu y iudas dywedut y wedi. y kyffroes y daear yno. a chyuody o honei mwg mawr ac arogleu gwerthuawr o honno. mal y tebygkynt y vot yn yreideu gwerthuawr. a tharaw y dwylaw y gyt o llewenyd aoruc iudas. a dywedut. ar vy gwironed ti yw crist yachwyawl y byt. Arglwyd mi a diolchaf y ti. heb ef. a mi yn anheilwg. na thwylleist vi oth rat ti. mi ath wediaf arglwyd iessu grist. coffa vi a dilea vym pechodeu. a dot vi ygkyuriuedy y gyt ac ystyphan vy mrawt. yr hwnn ayscriuenwyt ygkyuriuedy dy deudec ebestyl ti. Ac wedy dywedut hynny o honaw. Kymryt cledeu a chladu ymynws. a gwedy cladu ugein troetued y cauas teir croc ygkud. ar teir a duc yr dinas.

XXIV.—Ac yna y gouynnwys elen pa un onadunt oed croc crist. ninneu a wdam panyw un or rei ereill y croget y lladron arnunt. ac eu gossot yny temyl y aros gogonnyant crist. Ac awr y nawn y ducpwyt gwreag yn varw. Wely arglwydes garedicaf. heb ef. yr awr honn yd adnabydy ti prenn y wir groc ae nerth. a dody pob un or dwy groc ar y marw. ac ny chyuodes. A phan dodes iudas croc yr arglwyd ar y marw. y kyuodes yn vyw yndiannot. y gwr jeuanc a vuassei varw. ac a oed gwelet hynny yn moly duw heuyt. Ac yna yd oed y deual kyghoruynnus yn wastat a chyndared vawr arnaw yn lleuein yn yr awyr oduch eu penn. Heb ef. pwy yr hwn ny at ymi kymryt eneideu y rei meu. pawb rytynneisti attat o iessu nazareth. a llyma y prenn a-dangosseist di ym herbyn. i. Judas tydi a wnaeth hynn. ponyt iudas oed heuyt yr hwnn y cwpleis trwydaw y brat gynt. ac y kyffroeis y bobyl ar wneuthur enwired. ac yr awr yr ydys ymbwrw inheu trwy iudas. Minneu a gaffaf peth a wnelwyf yth erbyn ti. mi a gyuodaf vrenin arall a ymadao ar crogedic. ac a ymlyno ym oleu. i. ac ath anuono titheu yr poenneu enwir. a phan yth loscer ti a ymwedy ar crogedic. A chan lit trwy yr yspryt glan y dywat iudas. Crist a gyuodes o veirw. yno ath gyuyrgollo titheu y gwaelawt y tan tragywyd-awl. Ac anryued vu gan elen eu gwarandaw ar hynny. ac ar ffyd iudas.

XXV.—Ac odyna gan lafur ac ymgeled mawr y kyulehawys elen y vawrweirthawc croc yn eur ac yn aryant. ac y meyn mawrweirthawc. gwedy gwneuthur llestyr ydi o diruawr gywreinrwyd. ac adeilat eglwys ygkaluaria. Ac yna y kymerth iudas bedyd. ac a ymdangossey yn ffydlawn oe arwydon kynno hynny. ac yna elen ae gorchymynwys yr esgob aoed yna ygkaerussalem. A chynn mynet elen etwa odyna yr aeth eneit yr esgob ar grist. ac elen a geissawd esgob yno. sef yd urdwys eusebius esgob rufein iudas yn esgob ygkaerussalem. ac a symudwys y enw. ac ae gelwys genriacus. Ac odyna eilweith val ydoed ffydlawn elen o ffyd duw. ac yn dyall ynyr ysgrythur lan o hendedyf ac o newyd dedyf. ac yn ffydlawn o rat yr yspryt glan. gouyn y kethri a wnaeth a uuassey yn traet yr arglwyd ae dwylaw yn graff. Ac yna y dywat wrth iudas yr hwnn aelwit genriacus ry gaffel ohonei y damunet am y groc. ac eissoes. heb hi. nyt llawen gennyf nar geueis y kethri a uuant trwy gnawt yr arglwyd ym prenn y groc. ac ny bydaf lonyd yny gwplao yr arglwyd vyn damunet. a dynessa di. heb hi. y wediaw yr arglwyd yn awr.

XXVI.—Ac yna y doeth genriacus esgob sant. a llawer o vrodyr seint y gyt ac ef. rygredyssynt y iessu grist trwy gaffeledigaeth y groc. a chyvody y marw yn vyw. a dyrchauel awnaeth y dwylaw ae lygeit ar y nef. a tharaw y dwyvron. ac ae ocholl gallon galw ar yr arglwyd. a chyuadef y vot ar gyueilorn. a gwynvydu pawb or a gredyssynt y grist. ac a greto etwa idaw. A hir y bu yn gwediaw ar dangos idaw y ryw arwyd mal y dangossassei am pren y groc. y dangos am y kethri. Ac ar diwed y wedi. pan dywedit amen. y gwnaethpwyt y ryw arwyd hwnn. ac ae gwelas a doeth yno. goleuhau o diruawr eglurder or lle y kaffadoed y groc yn eglurach no lleuer yr heul. Ac yn y lle yd ymdangossant y kethri heyrn hynny a uuessynt yntraet yr arglwyd yn llathru or daear mal eur. Ac yna y dywed y bobyl. yr awr honn yd atwaenwn ni yr hwn y credwn idaw. Ac wynteu ae kymerawssant wy yn anrydedus.

ac ae dugant yn enrydedus y elen. a hitheu ar tal y deulin ae hadoles wy. a medylyaw aoruc hitheu yn gyflawn o doethineb. a diruawr wybot pa beth a wneley onadunt wy. Ac gwedy medylyaw o honei. ac ymgeissaw ac ereill a wyppey iawn. yr yspryt glan a anuones yndi y ryw synwyr hwnn y dywedut onadunt yr hyn a vanagessei y prophwydi kynno llawer o amseroed. a chenedloed. Ac yna galw attei gwr ffydlawn dysgedic. ac aoed arbennic gan lawer mal y tystyn. a hynn a dywat wrthi. Cadw orchymyneu y brenin. a llauurya enrhyded brenhinawl. kymer yr hoelyon hynn. a gwna onadunt trostreu yn ffrwynn march y brenin. a rei hynn a vydant arueu ny aller gwrthwynebu udunt. kanys ohonunt y byd budugolyaeth y brenin. a thagneued y ryuel. ger llaw geir prophwyt a dywat. Ar dyd hwnn peth auo ar ffrwyn y march aelwir sant yr arglwyd.

XXVII.—A gwedy cwplau or wynvydedic elen pob peth oe neges ygkaerusalem. gan ymdiret yn ffyd iessu grist. y peris ymlit yr ydeon o gylch caerusalem ar ny chrettynt. ac eu deol o wlat iudea. A chymeint vu santeirwyd genriacus esgob ac y ffoynt y dieuyl or lle y bynt trwy y wedi ef. ac heuyt yd iachaei pob ryw gleuyt or avei ar dynyon. Ar wynvydedic elen arodes llawer o rodyon yr esgob santeid hwnnw. ac ae hedewis yny tagneued. gan rody gorchymyn llawer o wyr a gwraged a gerint grist. y anrydedu cof y dyd yr hwn y caffat y kyssegredic groc trydydyd wedy calan mei. Pwy bynnac a anrydedo y groc a vydant gyurannawc ygyt a meir vam duw. yn yr oessoed tragywydawl.

HANES PONTIUS PILATUS.

I.—Yn yr amsser gynt yd oed vrenin. eres y enw. a fu achaws knawtawl a morwyn aoed y henw pila. ac oed verch y velinnyd aoed y enw atus. Ac o honno y bu vab yr brenin. ae vam a gyuanssodes enw y mab oe henw ehun. ac o enw y that. ac a dodes arnaw pilatus. Ac wedy vot yn teir blwyd ef. yd anuones pila ef ar y brenin y tat. Ac yna ydoed mab arall yr brenin or vrenhines. aoed o gyuoet hayach a ffilatus. Ac wedy eu dyuot oll y gyt. yd oed eu dosparth ell deu amrysson yn vynych o daflu a bwrw maen. a chaentach o bop un ohonunt ae gilyd. Ac eissoes val ydoed vonedigach y mab deduawl nor mab aneduawl. or ragor hwnnw ydoed wychach ynteu ympob gware. Ac o hynny ydwhrydwys pilatus o gyghoruynt wrth y vrawt. a than gel y lladawd y vrawt. A phan doeth hynny at y brenhin. dolur vu gantaw. a gwedy hynny galw y gygor awnaeth attaw y ofyn pa beth awneley am y llofrud yskymun hwnnw. Pawb onadunt a annogynt y dienydyaw. Ac eissoes ymedylywys y brenin nat oed da deudyblygu wenwired or un. namyn y anuon ygwystyl dros teyrnget a dylyei wyr rufein idaw bop blwyd. canys da oed cantaw dianc y vab heb y dienydyaw. ae rydhau heuyt or teyrnget.

II.—Ar un amsser hwnnw ydoed vab y brenhin ffreinc ygwystyl dros teyrnget gan wyr rufein. A gwedy ymgetemeissaw o honunt y gwelas pilatus ragoreu hwnnw yny dedyfeu yn vwy noc ef. o annoc kyghoruynt heuyt y lladawd hwnnw. A gwedy medylyaw o wyr rufein pa beth a wnelynt ymdanaw. y dywedassant. os hwn heb wynt a adawn yn vyw gwedy llad y vrawt ohonaw. a llad o mab brenhin ffreinc. ef a allei vot.....gwyr rufein anafau y dynyon ynuyt hynn. canys dihenyd ry haedwys. anuonwn ef

ynys bont yn vrawdyr. ar y bobyl ny diodefyssynt brawdyr arnunt eiroet. Ac un o deu peth a derbit y euo. ae ef a warhao y bobyl wyllt honno. ae ynteu a dienydyer yn haededic. Ac yna yd anuonet pilatus at y genedyl dyual a ledyssynt eiroed eu brawdyr. Ac ynteu a adnabu aoed yny erbyn. ac yn ystrywys dygymot ac wynt awnaeth. a chadw y vuched yn eu plith. ar genedyl enwir honno a darystygwys. weitheu o vygytheu. weitheu ereill o dadolwyn yn hygar. weitheu o boen. weitheu o rodyon. Ac wrth oruot ohonaw ar genedyl mor anhygar a honno. y gelwit o hynny allan pilatus o ynys bont. A phan gigleu erod greulawn ystryweu pilatus. llawen vu. canys ystrywys oed ynteu. ae wahawd attaw awnaeth. a rody medyant idaw ar wlat iudea a chaerusalem. kymeint ac a oed yn y law e hun.

III.—Ac gwedy kynullaw diruawr swllt yno. mynet aoruc ar swllt hwnnw heb ganyat herot. ae dwyn y tyberius amherawdyr. a chymryt ystyn y gan yr amherawdyr ar y medyant a uuassei idaw y gan herot. Ac or achaws hwnnw y tynawd gelynyaeth y rwg herot a pilatus. yny ymgymodassant yn amsser diodefeint yn harglwyd ni iessu grist. Ac herodes achaws arall hagyr y dywedir y rygthunt yn ystoryaeu yscolawl. sef oed hynny. nebun dyn am gwnaeth yn vab y duw. ac a twyllassei llawer or ydeon. A gwedy eu dyuot ohonaw yr lle a elwir gazarim. y lle y dywedassei hwnnw y diskynnei ohonaw ar nef. pilatus ae lladawd ac a oed y gyt ac ef. rac twyllaw ohonaw yr ydeon ereill val hynny. ac or achaws hwnnw y buant elynyon pilatus ac herot. canys herot bioed galilea. A phob un or deu achaws hynny a eill bot yn wir. ac eissoes pan rodes pilatus yr arglwyd yr ydeon y grogy. ovyn uu ganthaw gody tyberius amherawdyr am rygyuyrgolli gwaet gwiryon o honaw. yd anuones at yr amherawdyr nebun yd ymdiredei idaw y excussaw drostaw.

IV.—Ac yn hynny y dygwydwys heint a chlauri ar yr amherawdyr. ac y menegit idaw bot medyc

ygkaerussalem a iachaei oc ymadrawd bop dyn. Ac ny wydat ef daruot y pilatus ar ydeon y grogi ef. ac yr anuones yr amherawdyr ar pilatus anwylwas idaw yd ymdiredei yndaw yn vawr oc gyfrinach. valesianus oed y enw. y erchi idaw gyntaf ac y gallei anvon hyt nos attaw y medyc a oed yno. yr hwnn a allei y wneuthur ef yn iach val y dawedadoedit idaw. A phan hynny doeth ar pilatus. a menegi idaw kennadu hwnnw yr amherawdyr. dechrynu aoruc pilatus. ac erchi oet pythewnos oe geissaw. Ac val yd oed y gennat yn aros. yd ymgauas a gwreic brud. veronic oed y henw. ac yd ymouynnwys a honno pa le yd ymgeffit a iessu grist. Och. heb honno. vy arglwyd. i. am duw. i. oed ef. Gwedy rody or ideon ef. heb hi. at pilatus trwy gyghoruynt. ynteu ae rodes y agheu. ac a orchymynwys y grogy.

V.—Ac yna y dolurywys ynteu yn ormod. Dolur mawr yw gennyf. heb ef. y peth a erchis vy arglwyd ym na allaf y cwplau. Ac yna y dywat y veronic wrthaw. Mi. heb hi. a ercheis ym harglwyd ym gosgeth y wynep. a gwasgu y wynep ymywn llein a wnaeth. ae rody ym rac hyt vydei gennyf welet y wynep pan elei y bregetheu. val y gallei y delw vyndidanhau yny absen ef. ac ynteu arodes ymi o herwyd hwnn. heb hi. y anrydedus osgeth ef yn ysgythredic ar llein. Mi a gredaf. heb hi. pey edrychey dy arglwyd ar yr ysgrythur honno yn dihemeuus y caffey jechyt val y bu oreu ciroet. A werthir y delw. heb ef. nac yr aur nac yr aryant. Na werthir. heb hi. namyn er gwaryeu hyt bryt. My a af. heb hi. gyt athi y dangos y delw yr amherawdyr. ac edrychedarney. ac odyno y deuhaf dracheuen. Ac yna y doeth valesianus a veronic y gyt ac ef yn rufein. a mynegy y tyberius amherawdyr ry rody iessu o pilatus yr ydeon y gwr a damuney ynwyr y hageu. ae ossot ohonunt wynteu trwy gyghoruynt ar y groc. ac wrth hynny ydoeth y wreic prud honn a delw wyneb Jessu hwnnw genthy y dangos yti. ac od edrychy ar y delw ef. yn diannot y keffy jechyt.

VI.—Ac yna y peris yr amherawdyr tanu pali a syndal y fford y deuey y delw. ac erchy y dangos rac y vronn. Ac y gyt ac yd edrychwys arney y cauas holl iechyt. Ac yr hynny etwa y mae y delw yn rufein yn eglwys yr ebestyl yn rufein peder a phaul y dangos yr bobyl. ac yna y gelwir veronica o hynny hyt o enw y wreic ae harwedassey. Odyna o arch tyberius amherawdyr y delit pilatus ac y ducpwyt y rufein. Ac yna y duc pilatus gantaw beis. yr honn nytt oed yna wnyant arney. a phan gigleu cesar rydyuot pilatus y rufein. llenwy aoruc o gyndared. ac erchi y doyn rac y vronn. Ac y gyt ac y gwelas yr amherawdyr ef. dihaw aoruc a chyuodi yn diryon yny erbyn. ac ny allawd dywedut un geir garw wrthaw. ac yn y absen y bydey val gelyn ydaw. ac yn y wyd y bydey tagneuedus wrthaw. Ac val y gollygey y wrthaw y llanwey o llit. ac y parey y alw dracheuen. ac y tygey y bydey y dihenyd. ac nat oed iawn idaw yn vyw yuch y daear. Ac wrth hynny val y delei dracheuen y difflannei y holl var. ae lit y ganthaw. a hynny a vu ryued gan bawp. a chan yr amherawdyr heuyt. Yn absen pilatus kyndared a gymerey. ac yn y wyd na bedei un llit ganthaw.

VII.—Ac yn trydedweith y p. puet hynny. ac yna y doeth veronic ar yr amherawdyr ac y dywat wrthaw. vot ymdanaw y beis a wnaeth y ogonedus vam iessu grist. ac na allei neb un argywed idaw y tra vey y beis ymdanaw. Ac yna y peris pilatus tynnu y beis y amdanaw. ac ar hynny y llitywys yn greulawn. Ac val ydoed yr amherawdyr yn ryuedu y damwein. y menegit idaw panyw peis y iessu grist oed yny diffryt. Ac yna yd erchis yr amherawdyr y rody y garchar yny bey teruynn ymdanaw o gygor doethon. pa dihenyd a dylyei y gaffel. Ac o vrawt y rodet diliw y pilatus yr agheu dybryttaf. A phan gigleu pilatus hynny y gwnaeth ehun y dihenyd ae gyllell. ac or agheu hwnnw y teruynnwys. A phan wybu yr amherawdyr hynny. y dywat rygaffel ohonaw yr agheu dybryttaf mal y barnadoed idaw. ac yna y rwymwyt ef wrth lwyth

diruawr y veint. ac y byrrwyt yn avon tybris. ac yna llawenhau aoruc y dieuyl or corff halawc hwnnw. Yna y dechreuwys y corff budyr darwein a gwneuthur morgymlawd yn y mor. ac yn y dyfwyr. a gwneuthur tymhestleu a mellt a taranneu. a chenllysc yn yr awyr mal ydoed aruthyr gan bawp or ae gwarandawei.

VIII.—Ac wrth hynny y tynnwys gwyr rufein y corff or avon tybris. ac yr gwatwar ymdanaw y dugant hyt yn vygena. ae vwrw yno dros y benn yn auon rodro. sef yw vygena fford uffern. canys avon emelldigedic oed. ac yno ydoed y kythreuleit yn cartrefu yn wastat. Ar bobyl aoed yno heuyt ny allassant diodef avlonydwch y dieuyl am benn y corff. y gwrthlassant y wrthunt heuyt y llestyr emelldigedic. ac y dugant ef y teruyneu losan y gladu. a gwedy gorthrymu y rei hynny o ormod aulonydwch. y dugant wynteu o dyno ywrthunt. ae vwrw ymewn pydew aoed ymywn mynyd aoed yn lle y dywedir bot eira y pdoed dreinic yn kymerwi. Ac val hynny y daruu y pilatus.

Llyma mal y treithir historia Judas.

IX.—Ef a darllewyt yn nebun ystoria bot gwr ygkaerussalem. a ruben oed y enw. ac a elwyt heuyt o lin iren o luyd iudas. neu o lin ysachar herwyd ereill. A gwreic aoed idaw oed y henw cylorea. A nosweith gwedy bot kyt idaw ae wreic. kyscu aoruc hi. a breudwyt a welei. a deffroi yn dechrynedic aoruc. ac datkanu y gwr dan ucheneitaw a chwynuan. Ef a welit ym. heb hi. eskor ohonaf ar vab bonhedic. ac a vei achaws kyuyrgoll kenedyl ysgymyn. Ae datkanyat a prophydy di. heb y ruben. Ae o duw ae drwc yspryt. ae o seithuc y duwyt yr arwein hynny. Os beichogy a geueis. heb y wreic. diamheu nat seith yw namyn gweledigaeth.

X.—A phan doeth ydi amsser escor. mab a anet ydi. ac ofyn y bobyl a fu arnunt am hynny. a medylyaw beth a wneint amdanaw. a chyt bei aruthyr ganthunt y mab ny allassant arnunt y diua. Ac eissoes rac eu

distryw or genedyl y buryassant ef ymywn boly croen yn y mor. ar tonneu ae bwrryawd odyno ynys aelwit scarioth. Ac yno y caffat ac y gelwit iudas scarioth wedy hynny. Ac ydoed brenhines y lle hwnnw diwarnawt yn gorymdeith ger llaw glan y traeth. yd arganuu llestyr gan y tonneu yr tir. ac yd erchis y brenhines y agori. A phan agoret. nachaf vab gorthedod y vryt. a chan ucheneitaw y diwat hi. ia wir vab duw. heb hi. a allaf vi caffel didanwch ei plant hwnn yn etiued ym rac adaw vy teyrnnas yn dietiued. canyt oes ym etiued. A pheri aoruc meithrin y mab dan gel. a dechymygu y bot yn veichawc.

XI.—Ac yn yr amsser y dywat geny mab ydi. A honny hynny yn gyhoedawc ar hyt y teyrnas. Ar tywyssogyon a lawenhawd yn vawr y bobyl o vot etiued yr vrenhines. Ar mab a berit y veithrin herwyd y mawredigrwyd. ac ny bu hir wedy hynny y cauas y vrenhines veichogy or brenhin. ac escor aoruc ar vab. Ac gwedy eu meithrin ell deu ygyt. ac y tyfu yn oetran. kaentach awnaethant yn vynych. a iudas awnaei godyant y vab y brenin. a pheri idaw wylaw yn vynych. ac anniodef vu gan y vrenhines hynny. cany pherthynei iudas ydi. Ae vaedu yn vynych aoruc. ac yr hynny ny pheidey ar mab. Yny diwed y menegit y iudas nat oed fab ef yr brenhines. namyn y vot yn vab dywan. Ac yna y daeth kewilyd ar iudas. a llad mab y brenhin awnaeth. ac odyno y ffoes rac ofyn y dihenyd ygyt a chetemeithon y gaerusalem. ac yno ydymwascwys a llys pilatus a oed raglaw yno. Ac val y kyuuna pob peth a vo yn un deuawt ae gilyd. y kytwedawd yn y lle deuodeu iudas a rei pilatus. ac wrth hynny y bu iudas agarw ganthaw ef. Ac wrth hynny ef y iudas medyant a roes yr eidaw yn gwbyl. ac ar un anmeit y llunyeithynt ell deu pob peth.

XII.—A diwarnawt yd arganuu pilatus oe lys perllan. ac y damunawd yr aualeu yn gymeint ac na allei bot hebdunt. ar berllan honno aoed eidaw ruben tat iudas. Ac nyt atwaenat ruben iudas. na iudas ruben y tat. achaws darvot y vwrw ef yr mor ynewyd-

eny. hyt na wydat iudas o ba daear pan hanoed. Pilatus aelwys attaw iudas. ac a dywat wrthaw bot yn gymeint y damunet ar yr aualeu. ac onys caffey y tebygey y varw. Ac yny lle y neitawd iudas yr berllan. ac yn gyflym y kymyrth yr aualeu. Ac yn hynny nachaf ruben yn dyuot. ac yn caffel iudas yn kynnull yr aualeu. ac odyno ymrysson a wnaethant ac ymgeinaw ac ymlad. ac or diwed y lladawd iudas benn ruben. ac yna y duc ef yr aualeu y pilatus. ac y datkanawd idaw y damwein. A phan doeth y dyd ar nos yn daruot y caffat ruben yn varw. ac yna y tebygwyt panyw damwein arall a gyfaroed ac ef. Ac yna y rodes pilatus iudas holl allu ruben. a ciborea gwreic ruben yn wreic y iudas.

XIII.—A diwarnawt ydoed ciborea yn ucheneitaw. gouyn a wnaeth iudas pa daroed ydi. Vy mot. heb hi. y direitaf gwreic or gwraged oll. Mi. heb hi. a vodeis vy mab yny mor. ac a geueis vy gwr yn varw ymperllan vy hun. ac whaneccan vyn dolur vy rody y pilatus a mi yn truanhaf gwreic y neithoryeu y ti. A gwedy daruot idi datkanu y damwein. y datkanawd iudas ..... at ynteu. ac yna y caffat panyw y vam a dugassei yn wreic. a phanyw y tat a ladassei. Ac yna o ediuarwch y daeth ciborea at yn harglwyd ni iessu grist y adolwyn idaw madeueint oe phechodeu. Ar arglwyd aoruc y mab yn disgybyl idaw. ac yn un oe ebestyl. A chun vu gantaw iudas. ac y gwnaeth yn vaer idaw. ac odyno y cauas yn vradwr yno. ac arwedey y llestyr y bydey yndunt yr hynn a rodit y grist.

XIV.—Ac yn yr amsser y diodefawd yr arglwyd. y bu dolur gan iudas na werthwyt yr ireit a doeth y iraw yr arglwyd yr dec ar hugeint o aryant. mal y dygey yn llettrat yr aryant hwnnw. Ac odyna y doeth ynteu. ac y gwerthawd yr arglwyd yr dec ar hugeint aryant. a phob un ohonunt a talei dec keinnawc or aryant aruer. Ac val hynny y kywerthydyei ef y gollet o gwerth yr irat. neu val y dyweit ereill o bop da a rodet y crist y llattratei ef y decuet rann. ac wrth hynny dros y decuet rann a gollassei ef o werth yr ireit. y

gwerthwys y arglwyd yr dec ar hugeint. Ar rei hynny o ediuarwch a duc tracheuen. ac odyna yd ymgroges e hunan. ac ac ef yn dibynu y rwygawd y berued. a gellwg y amyscar yr llawr. ac yn hynny yd arbetwyt y geneu. canyt oed teilwg oc halogy. achaws y vot wrth eneu yr arglwyd. Teilwg hagen oed yr amyscar a vedylyassei y brat eu rwygaw ac eu dygwydaw. a theilwg oed heuyt y guduc y doeth y brat ohonaw y dagu or magyl ef yn yr awyr vry. A chanys codyassei ef yr egylyon yn y nef ar dynyon yn y daear. y dieithrwyt ynteu o teyrnas yr egylyon. ar dynyon ae ketemdeithassawd ygyt ar dieuyl yn awyr.

Arwydon cyn dyd brawt.

Llyma yr arwydon a vydant yn pymthec niwarnawt kyn dyd brawt. a gauas morud esgob o lyureu sein jeronym. a morud esgob a gant yr eglynyon. Gwyn gwarandaw dy synnwyr. a draetha y llyureu mor llwyr. gwrtheu goleu gwelhitor. dyrcheuir mor hyt awyr. Morud meidrawl y deuawt. oblegyt duw ae dywawt. meynt yr arwydon a vyd pymthecuettyd kynn dyd brawt. Y petwarydyd ar dec. y dyrcheif mor mawr athrec. O defynder daear derwynt hyt nas kerryeid gwynt gwanec. Trydyd ar dec trwy deithi mor wrthret gwelet gweilgy. pryt pan eler y syllu. nyt meu y bu yt wy. Deudecvettyd duc digawn. anyueileit mor mawrdawn. pan del pob pysc oe odep. hyt ar wynep yr eigawn. Unvetyd ar dec yn geugant. creadurieit ycgrynant. rac ovyn diliw diarchar. adar daear dirwestant. Decuettyd herwyd anyan. ny eill dynyadon dydan. mor diffeith nys rydyffawd. rac meint eu ffrawd ffrydyeu tan. Nawet gwedy decuet daw. duw e hun yny lunyaw. ufeliar tan trwy esgyr. ergyr or syr y syrthaw. Wythuettyd herwyd arwyd ryuel nys argel arglwyd panul breoed a brynneu. eglwysseu diheu digwyd. Seithuettyd dyd darogan mein mwyhaf oll a hollan. ac ygwd duw dywedan. rac aryneic bryw

briwan. Arwydon chwerw chwechuettyd. y daw gwaet or gwellt ar gwyd. an harglwyd an argledryd. can cawssam gret a bedyd. Pymhettyd defnyd dyar. dedueu diheu diarchar. Dygyn dangos aros etwyr. delw ytgrin dyn a daear. Petwarydyd prif ergyt arneit. anyueileit byt gan wyllyoed kyhoed y kerdant. gan gydont ydhant y gyt. Trydydyd dyd trueny. rac arneic brawd puy ny. or a gollo pawp o gar. ar wyneb daear dyvy. Eil dyd kynno dyd diliw. detueu trist crist agenhyw. can vilyoed kyhoed. can gwdant na bydant vyw. Undyd douyd dybyd oll. pobloed plant adaf obell. a mut a drut a drythyll. yn llwyr yn y llawn dyall.

(These Englynyon, so far, with considerable variations, are printed in the *Myvyrian Archæology*, j, 362, and attributed to Llewelyn Vardh, A.D. 1230-1280. The reading now given is more correct, and contains, in addition, the following:)

Sef yw rat yr awyrlladen. pan dyrcheuir duw gwir dyn. deu tr. trindawt undawt un. tat mab yspryt g. o'espryt glan. Yggleindit rydit rac gwerthevyr guyl y gwelwn grist vrenhin. duw nef dawn adef dewin yn rith y gwenith ar gwin. Or gwin ar awyrllat at ren. y gwelwn goleu gymyn. duw yn y lun ehunan donyawc vuched diwed dyn. Dyn yw effeirat yr ffurueidaw pobyl odon rac perigyl attaw. a mawrdoeth gyuoeth ganthaw. ac ni brawt rwg y dwylaw. Rwg dwylaw oed tec teilwg gwawr. gwelet rwyl vrenhin nef a llawr. mab llen wych darllen a llawn medyant . . . . . ym gogonyant mawr. Godaut gredwch dawn hedwch da. pan weloch verch awyrlladen hagen hi duw nef ys ef ys yno.

LLYMA PROPHWYDOLYAETH SIBLI DOETH.

I.—Sibli oed verch y briaf vrenhin o heccube y mam gwreic briaf. a honno aoed arnei amrauaelon enweu. yn ieith roec y gelwit tyburrina. yn lladin allumea. Sibli a dangylchynawd amravalyon brenhinaetheu y dwyrein. nyt amgen. yr asya a gwlat alexander mawr. a galilea a cicilia a phampilia. a galacia. a gwedy daruot idi culenwi y vann honno or byt oe dewindabaetheu. odyno hy a aeth hyt yn ethyopia gwlat y blomonyeit. Odyno y babilon y doeth. ar affric. a libia. a pentapolis. a mawritania. ac ynys y palm. Yn yr holl wledyd hynny y pregethawd. ac o daroganneu prophwydolyawl y kyulenwis petheu da y rei da. petheu drwc y rei drwc. Nyni a wdam yr venegi ohonei hi yny bardoniaetheu petheu a delynt rac llaw. y rei diwethaf yn amlwc y ardangos. Wrth hynny tywyssogyon rufein pan glywssant clot y racdywededic sibli. wynt ae kenadassant. a hynny ygkyfedrychedigaeth amherawdyr rufein.

II.—Yr amherawdyr a anuones attei gennadeu. ac a beris y doyn y rufein yn anrydedus. Canwyr o hynauyeit rufein rywelsynt pob un yr un nos un ryw vreudwyt. y gweledigaeth y dangossei udunt trwy eu hun yggoruchelder nef megys naw heul yn ymdangos. Yr heul kyntaf oed loew. ac yn golehau yr holl daear. Yr eil heul oed vwy a goleuach. ac yndaw eglurder . . . awyrawl. Y trydyd heul . . . . . losgi . . . . . oed ac aruthyr. ac yny droet e . . . dig. Y petweryd heul orch . . . . daeu ac yndaw petwar paladyr yn goleuheu. Y pymhet oed dywyll a gwaedawl. ac yndaw megys llugorn yn taranawl dywyllwch. Y hwechet aoed diruawr y thywyllwch. ac yndaw pwynt blaenllym

megys poynt scorpion. Pryf yw y scorpion bychan y gorffolyaeth. unveint ac wchileryr. ac oerach y wenwyn no dim. Y seithued oed tywyll heuyt ac aruthyr o liw gwaet. ac yndaw megys cledyf petwar minyawc. Yr wythuet oed ardmenedic. ac yny berued lliw cochwydawl. Y nawuet heul oed rydywyll yny chylch ogylch. ac yny perued un paladyr yn goleuhau.

III.—Pann ercheuynawd sibli y gaer rufein y mewn. bordeisseit y dinas. pany gwelssant. a ryuedassant yn vawr am y thegwch i o anrydedus osgeth tec. ac erdrym y phryt yggolwc pawb. hyawdyl y geireu doethmabus. ac o bop tegwch arderchawc y chorff. Ac yr gwarandawyr y hymadrawd aoed safwyrus. a melys ymdidan a gyfranney. Yna y doethant y gwyr rywelsynt yr un breudwyt attey. ac y dechreussant wrthi yn y mod hwnn eu hymadrawd. Athrawes ac arglwydes mor wedus gorff ath teu ti. y kyuryw arderchogrwyd bryt kynno thi ar wreic yr holl daear nys rywelsam. canys gwdost manac yn rac llaw yn damweineu tyghetuenawl. Hitheu val hynn a attebawd. nyt kyuyawn yn lle kyulawn o betheu budyr. a llygredic o amryuaelon brouedigaetheu dangos rinwed gweledigaeth a del rac llaw. namyn deuwch gyt a mi hyt ympenn y mynyd raccw. yr hwnn yssyd oruchel ac eglur. Ac yno mi a vanagaf ywch yr hynn a del rac llaw y dinas rufein.

IV.—Ac yno y doethant y gyt mal yd herchis. ac ydi hi yno y managassant y gweledigaeth. ar breudwyt a welsynt. A hitheu a dywot. Y naw heul rywelsawch a arwydocaant y kenedloed a delwynt rac llaw. ar amrauelder oed arnadunt a dengys amrauael vuched y a byd y veibon y kenedloed hynny. Yr heul kyntaf a venyc y genedyl gyntaf. yn yr honn y bydant dynyon mul. ac eglur y garu rydit. A gwirion vydant a hynawys a thrugarawc. ac a garant y tlodyon. a digawn eu doethet. Yr eil heul yr eil genedyl. a dynyon vydant a vuchedocant yn eglur. ac a amylhawynt yn uawr. ac a diwhuyllant duw heb drycdyuyaeth. ac y gyt vuchedokaont ar y daear. Y trydyd heul y trydyd genedyl.

ac y kyuyd kenedyl yn erbyn kenedyl. a llawer o ymladeu a vyd yn rufein.

V.—Y petweryd heul y betwared lin. ac yn yr amser hwnnw y daw dynyon a wattont gwironed. ac yny dydyeu hynny y kyuyt gwreic. a meir vyd y henw. ac ydi y byd gwr. ioseph y enw. ac y creir or veir honno mab heb gyt gwr a gwreic. drwy rat yr yspryt glan yn vab y wir duw. ae enw a vyd iessu. A meir a vyd gwyry kynn esgor a gwedy escor. yr hwnn a aner o honno a vyd gwir duw a gwir dyn. megys y managassant yr holl brophwydi. ac y eulenwa kyureith gwyr eurey. ac y kyssyllta y petheu priawt y gyt. ac a dric y teyrnas yn oes oessoed. A phan aner hwnnw y daw lleg o egylyon ar y deheu. ac ar y asseu y dywedut gogonyant y goruchelder y duw. ac yny daear tagneued yr dynyon. ac a daw llef y arnad y dywedut. hwnn yw vy mab. i. karedic yn yr hwnn yr ryggeis. i. vod ymi yndaw.

VI.—Yno y doedynt effeireit gwyr eurey rey yn gwarandaw. ac y dywedassant wrthi val hynn. Yr ynadrodyon y syd aruthyr. tawed y vrenhines honn. Sibli a attebawd udunt. Oi ideon agheu yw bot velly. ny chredwch hagen idaw ef. wynteu a dywedassant na chredwn. kanys tystolyaeth a geir a rodes yn tadeu ni. hitheu. ac ny duc ef y law y wrthym ni. Hitheu eilweith a attebawd udunt. Duw nef aenir megys y mae ysgrivenedic. kyffelyp vod oe tat. a gwedy hynny mab drwy oessoed a tyf. ac y kyuodant yny erbyn brenhined a thywyssogyon y daear. Yny dydyeu hynny y byd y cesar arderchawc enw. ac a wledych yn rufein. ac a darestwg yr holl daear idaw. Odyna y kyuodant tywyssogyon yr offeireit yn erbyn iessu. yr hwnn a wna llawer o wyrtheu. ac wynt ae dalyant ef. ac wynt a rodant idaw bonclusteu o ysgymynyon dwylaw. ac yny wyneb kyssegredic y poerant. poer gwenwynawl. ac a dyry ef y geuyn gwerthuawr udunt oe uaedu. ac yr kymryt amarch y gantunt. ef a dew. Yn vwyt idaw y rodant bystyl. ac yn diawt gwin egyr a ballofuyant. ac ar brenn diodefeint ae crogant. ac ae

lladant. Ac ny rymhaa hynny udunt dim. kanys y trydydyd y kyuyt o veirw ac yd ymdengys y disgyblon. ac wynt yn edrych yd ysgyn yr nef. ac ar y teyrnas ny byd diwed.

VII.—Wrth wyr rufein y dywot sibli. Y pymhet heul y bymhet lin arwydocca. ac yn yr oes honno yd ethyl iessu deu bysgodwr o galilea. ac oe briawt gyureith y dysc wy. ac y dyweit. Ewch ar dysc a gymerassawch y gennyf. dysgwch hwnnw yr holl bobloed. a thrwy dec icyth a thrugein y darestygir yr holl genedloed. Y hwechet heul y hwechet genedyl yw. ar dinas hwn yma a wledychant teir blyned. Y seithuet heul y seithuet genedyl vyd. ac y kyuodant ac y gwnant lawer o laduaeu yn daear gwyr eurey yr duw. Yr wythuet heul yr wythuet genedyl vyd. ac y vegys yn digenedylu y byd rufein. ar gwraged beichawl a udant yn eu trallodeu a doluryeu. ac a dywedant. a debygy di a esgorwn ni. Y nawuet heul y nawuet lin vyd. ac y kyuodant gwyr rufein yn ormes ar lawer.

VIII.—Odyna y kyuodant deu vrenhin o syria. ac eu llu ny ellir rif arnaw. moy nac ar dywot y mor. Ac wynt a gynhalyant dinessyd a brenhinaetheu gwyr rufein. hyt ygkacedonia. Yna y tywelltir amylder oe waet. Y petheu hynn oll pony coffawynt y dynassoed ar kenedloed a ofnahant yndunt. ac a wahanant yr dwyrein. A gwedy hynny y kyuodant deu vrenin or eifft. ac a ymladant a phetwar brenhin. ac ae lladant ac eu llu. ac wledychant teir blyned a hwemys. Ac wedy hynny y kyuyt arall. c. y enw rackyuoethawc yn ymlad. yr hwnn a wledycha dec mlyned ar hugeint. ac adeila temyl y duw. ac a eflawna y gyureith. ac a wna wironed yr duw ar y daear. A gwedy y rei hynny y kyuyt brenhin arall yr hwnn a wledycha ychydic o amsseroed. ac wynt a ymladant ac ef. ac ae lladant. Gwedy hwnnw y byd brenhin andon. ac o andon y daw. a. ac o. a. y daw. a. ac o honnaw ynteu. a. ar eil kyntaf. a. avyd gwr ymladgar. a diruawr ryuelwr. Ac or. a. hwnnw y daw. R. ac or. R. hwnnw y daw. l. ac y hwnnw y byd medyant ac un vrenhinyaeth eisseu o ugein.

IX.—Ac gwedy y rei hynny y kyuyt salicus o ffreinc. k. y henw. hwnnw a vyd gwr mawr. a gwar. a chyuoethawc. a thrugarawc. A hwnnw a wna kyuyawnder a gwironed ac aghenogyon. Kymeint vyd rat hwnnw yny wironed. a phan vo yn kerdet y fford ac y gostygyant y gwyd eu blaenwed yny erbyn. ar dwfyr yny erbyn ny wyrhaa. kyffelyb idaw yn amherodraeth rufein kynnoc ef ny bu. ac ny daw rac llaw. Ac gwedy ynteu y daw brenhin. l. y enw. gwedy l. y daw B. ac gwedy B. y daw xxx[a] in. B. enw bop un onadunt. Ac or B. y daw. a. a hwnnw gwr aflonyd vyd. katarnn yn ymlad. a llawer a gerda o vor a thir. ac ny cheiff y elynyon le llaw arnaw. ac efe aa vegys yn deholedic dieithyr y teyrnas. Ae eneit or diwed aa y teyrnas nef ar duw.

X.—Odyna y kyuoyt gwr. V. y enw. ffranc or neill parth. lwmbart or parth arall. a hwnnw a vyd medyant idaw yn erbyn y elynyon. ac a ymladant ac ef. ac yn y dydyeu hynny y daw brenhin. o. y enw. a hwnnw a vyd kyuoethoccaf a chadarnha. ac a wna trugared yr tlodyon. ac a varnn yn iawn. ac o hwnnw y daw. o. arall mwyhaf y allu. ac adantaw ynteu y bydant ymladeu yr cristonogyon ar paganyeit. a llawer o waet a dywelltir. A vij mlyned y wledycha. ac y nef yr aa y eneit. o hwnnw y daw brenhin o. y enw. a hwnnw a beir lladuaeu. a gwr mawr y drwc. a heb ffyd yn gwironed. a thrwy hwnnw y bydant llawer o drycoed. ac gwaet a dihwyllir yn amyl. ac a dan y allu ef y distrywir llawer o eglwysseu. yn y brenhinaetheu llawer o drallodeu a vydant. Ac yno y kyuyt kenedyl yny teyrnas. a elwir capadocia. a theyrnas pampilia a geithiwant. yn amsser hwnnw am nat yntredant drwy drws y dauatty. Hwnnw a wledycha teir blyned. ac gwedy ynteu y daw brenhin. h. y enw. ac yn y dydyeu hynny ymladeu llawer a vydant. ac ar samaria y ryuela. a brenhinaeth pentapolis a gyrcha. Y brenhin hwnnw a hanoed o genedyl y lwmbardyeit. Odyna y kyuyt brenhin. O. y enw. o ffreinc ac a ryuela ar wyr rufein. ac y bydant ryueloed ac ymladeu. a hwnnw a vyd gwr kadarn galluawl. ac ychydic o amsser y gwledycha.

XI.—Odyna y kyuodant gwyr o.....aria. a gwyr creulawn y gyt ac wynt. ac y keithiwant lleoed a elwir tarentus. a hairo. a llawer o dinessed a anrheithant. a gwyr rufein pann vonnon dyuot. ny byd a wrthwyneppo udunt. onyt duw y duwyeu. ac arglwyd yr arglwydi. Ac yna y daw yr eidon. ac y diwreidant persiden. megys nat achupper y dinessyd a wediont. a phan delhont y ymgyfaruot. y gwnant ffos ger llaw y dwyrein. ac y ymladant yn erbyn gwyr rufein. ac y lluneithant tagneued y rygthunt. Ac yno y daw gwr ryuel dyborthyawdyr brenhin groec y dinas. ierapolis. ac y distriw temloed y geuduwyeu. ac yna y doant kylyon mawr a chwilot. ac y bwytant yr holl wyd. a holl ffrwytheu brenhinaetheu capadocie. a atil a yssan. ac o newyn yd hirgystegi. Ac gwedy hynny ny byd. ac y cyuyt brenhin arall. gwr ymladgar. R. y enw. yn wir y gwledycha. ac gwybyd ditheu yn llegwir yd anteilygant yny erbyn llawer or gwyr nessaf. ar rei kyuoethawc.

XII.—Ac yn y dydyeu hynny y bredycha brawt y llall y agheu. ar tat y mab. ar brawt a gyttyaw ae whaer. a llawer o bechodeu yskymun a vyd yn y daear. Yr hen wyr a wnant gyvelogach ar morynyon. ar dryc offeireit gyt ar twylledygyon werydon. Yr escyp drwy y drycweithredoed ny chredan yn iawn. a gordmenedigaeth gwaet a vyd ar y daear. A themleu a lygrir drwy letradawl budyr gyt. a chytyaw y gwyr ar lleill. yny ymdangosso eu gweledigaeth udunt yn waradwyd. Ar dynyon yna gribdeilwyr vydant. a threisswyr yn cassau gwironed. ac yn caru kelwyd. a brawdwyr rufein a symudir os hediw yd anuonir y varnu heb rodi udunt. trannoeth wynt ae haduarnant yr un vrawt yr da. ac ny varnant y iawnder namyn geu a ffalst. ac yn y dydyeu hynny y bydant dynyon cribdeilaw.....ac yn kymryt rodyon dros bop kelwyd. Ac y distrywir kyureith a gwironed. ac y kryn y daear yn ymrauaelon leod. ac ynyssed. a dinessyd. a brenhinaetheu a ossodir o uoduaeu. ac y byd tymhestloed a ball ar y dynyon. ar daear a diffeith drwy y gelynyon. ac ny rymhaa gwacter y duyeu eu didanu.

XIII.—A gwedy hynny y kyuyt brenhin. k. y enw. a phan del. ef a wledycha ennyt. nyt amgen dwy vlyned. ac ymladeu a wnant yny amsser. Ac gwedy ynteu y daw brenhin. a. y enw. ac ef a gyneil y deyrnas drwy yspeit amsser. ac ef a daw y rufein. ac ae keithiwa. ac ny allant rodi y eneit yn llaw y elynyon. ac yn dydyeu y vuched ef a vyd gwr mawr. ac a wna gwironed yr tlodyon. ac a wledycha hir amsser. Ac gwedy ef y kyuyt vrenhin arall. B. y enw. ac ohonaw ynteu y kerdant. xij. B. enw pob un. Ar diwethaf a hennyd o lumbardi. ac a wledycha can mlyned. Gwedy hynny y daw brenhin o ffreinc. B. y enw. yna y byd dechreu doluryeu. y kyuryw ny bu yr dechreu byt. ac yn y dydyeu hynny y bydant ymladeu llawer a thrallodeu. ac gordinenedigaeth gwaet. ac ny byd a wrthwyneppo yr gelynyon. Ac yna heuyt y krynn y daear drwy dinessyd a brenhinaetheu. a llawer o deyrnassoed a gaethiwir. Rufein a diwreidir o tan a chledeu. Rufein a gymerir yn llaw y brenhin hwnnw. a dynyon treisswyr a vyd whannawc a chreulawn. ac yn cassau y tlodyon. ac ygkyuarssagu y rei diargywed. ac yn iachau y rei argywedus. Ac yna y bydant y rei argywedussaf. ac enwiraf. ac arglwydiaetheu yn eu teruyneu a gaethiwir. ac ny byd a wrthwyneppo udunt. neu at eu diwreido oc eu chwant. ac eu dryc dyuyaeth.

XIV.—Ac yna y kyuyt brenhin o groec. constans y enw. a hwnnw a vyd brenhin y groec. ac yn rufein. Hwnnw a vyd mawr y gorffolyaeth. a thec y edrychet. ac echdywynedic oe olwc. a gwedus lun ar y gorff yn adurnyant anrydedus. ae teyrnas deudec mlyned a chant. Yn yr amser hwnnw y bydant goludogyon ar y daear a dyr y ffrwytheu amlet. ac na werthir y messur gwenith mwy no cheinawc. ar messur olew yr keinnawc. Ar brenhin hwnnw a vyd a llythyr gar y vron yn wastat. ac yn yr llythyr yn yscriuenedic. brenhin groec a darestwg idaw pob teyrnas gristonogawl holl dinassoed. ac ynyssoed y paganeit a distrywa. ac eu temloed a diwreida. ar holl paganyeit a dric y gret. ac yn yr holl temloed y werthuawr groc a dyrcheuir. Yna y dechreu ef

rodi ethiopia ar eifft yn dywawl wassannaeth. ac ar ny wedio yr groc kyssegredic o leas cledeu y teruynir. A phan gwplaer cant ac ugein mlyned. yr ydeon a trossir y gret or arglwyd. ae ved ynteu gwynvydedic a vyd gogonedus y gan bawp. Yn y dydyeu hynny y kyuyt y dyethir iuda. a gwlat yr israel yn ffydlonder a bresswyla.

XV.—Yn yr hwnnw amser y kyuyt tywyssawc enwired o lwyth dan. yr hwnn a elwir anticrist. hwnn a vyd mab colledigaeth. a phenn syberwyt. ac athro kyueilorn. kyn lawn o dryc enwired. yr hwnn a drossa y byt. ac a wna arwydon. a bredycheu drwy ffalst dangossedigaetheu. ef a dwyll trwy hudolawl geluydit lawer yn gymeint ac y gweler ef yn anvon y tan or nef. ac y lleihaer y blynydoed megys y missoed. ar missoed megys yr wythnosseu. ar wythnosseu val y dydyeu. ar dydyeu val yr oryeu. Yna y kyuodant o deheu dwyrein kenedloed kyhynet or rei a werthwys alexander nyt amgen. goc a magoc. yna y mae dwy vrenhinaeth ar hugein. riuedy y rei ny wys mwy nor tywawt yn y weilgi. Pan welo brenhin y rufeineit y geilw y lu. ac y ryuela ac wy. ac y llad hyt y teruyn eithaf.

XVI.—A gwedy hynny y daw y gaerusalem. ac yno y gwrthyt goron y teyrnas. a phob brenhinawl abit y dedyf y deyrnas y duw dat. ac yn arglwyd ny iessu grist y vab. Yn y oes ef y deuant y deu egluraf. nyt amgen. hely ac enoc. y venegi bot yn dyuot rac llaw. ac y llad yr anticrist y rei hynny. Ar trydydyd y kyuodant trwy duw. ac yna y byd gouid mawr. y kyuryw na bu na chynt nac gwedy. yr arglwyd a vyrhaa y dydyeu hynny o achaws y detholedigyon. A mihagel a lad yr anticrist ymynyd oliuet. gwedy racvenegy o sibilla y petheu hynn. a llawer o betheu ereill a deloynt rac llaw. Ac ymha arwydon y duw daw y varnu. A sibilla a dywot o dewindabaeth. arwyd y varnn a wlych y daear o chwys. O nef y daw brenhin rac llaw drwy oessoed yny gnawt y varnu y byt. Odyna ffydlawn ac anffydlawn a welant duw goruchel y gyt a seint yr oes yny teruyn hwnnw.

XVII.—Ac yna y deuant yr eneiteu yn eu corfforoed

yr varnn. Yna y bydant drein amyl yny daear anywyll-edic. ac y bwrw y bedeu y vyny a vo yndunt. ac y llysc tan y daear ar awyr ar weilgi. ac y tyrr pyrth y twll uffernn. ac y rodir yr eneiteu da ryd oleuat. ac y rei drwc fflam tragywydawl ac eu llysc. Ac yna yd adef pawb y dirgeledigyon pechodeu. Duw a ardengys keternyt goleuat. yna y byd kwynvan. a chrynn danned. yna y twylla yr heul. ac y drycheuir geuri yn y syr. ac y try y nef. ac y palla goleurwyd y lleuat. Yna y gostygir y lleoed uchel. ac y drycheuir y glynnyeu. ny byd nac uchel nac issel ar y daear ny wneler yn gyn wastatet. Yna y gorffwyssant pob peth. ac y palla yr daear yn torredic. Ac yna y llysc tan yr auonyd ar ffynhonneu. ac yna y daw llef or nef. corn or goruchel-der praff y odwrd. ac y byd trist y rei truein yn kwy-naw eu pechawt ac eu hamryvaelyon lauuryeu. Ac yna y dengys y daear uffernawl defnyd. Ac yggwyd ydan-sodir pob peth ac y bwrir. ac yna y dygwyd tan brwm-stanawl or nef a dwfyr or un defnyd. Ac ar hyn y teruyna prophwydolyaeth sibilla gyt ac breudwyt.

BREUDDWYT PAWL EBOSTOL.

I.—Dyw Sul dydd detholedig yw. yn yr hwnn y caff-ant yn y dydd hwnnw yr eneidieu. a vont yn y poeneu. orffwys yn ddiboen drwy lewenydd. A gwybyddet pawb pann yw y Bawl ebostol. ag i vihagel yr Archan-gel y dangosses Duw udunt uffern. Ag yna Pawl a welas gyr bron pyrth uffern dderi tanllyt. ag wrth y keingkeu pechadurieit ygkroc. rei onadunt gyr blew y penneu. ereill gyr y dwylaw. ereill gyr y bruanteu. ereill gyr y tavodeu. ag ereill gyr y breicheu. Ac yna y gwelas Pawl yn lle arall ffwrn yn llosgi. a seith fflam amliw yn kyfodi o honei. a llawer yn y poeni ynddi. Ag ygkylch y ffwrnn yd oeddynt seith pla. cyntaf oedd eiry. ar eil oedd tan. ar trydydd oed Ia. pedwerydd oedd waet.

pymhet oedd seirff. chwechet oedd mellt. seithvet derewant. Ag yr ffwrn honno yd anvonir eneidieu pechaduryeit. ny wnelont eu penyt yn y byt hwnn. rei o honunt yn wylaw. ereill yn udaw. ereill yn cwynaw. ereill yn keissaw y hangheu ag nys keffynt. kanny bydd marw eneit yn dragywyddawl. Wrth hynny lle ofuynawg yw uffern. yn y lle y mae tristwch heb lewenydd. a dolur tragywyddawl. ag amylder o ddagrau. a chwynnyan callon. ag oervel mawr. drwy losgedigaeth eneideu. Yno y mae rot o dan. a mil o yrdd arnei a diefuyl ac try unweith beunydd. ag ar bob gweith y llosgit mil o eneidieu.

II.—Odyna y gwelas Pawl avon aruthyr. yn llawn o bryvet kythreulig. megys pyscawt yn y mor. yn llyngku eneideu pechaduryeit megys bleiddeu yn llygku deveit. Ag ar yr avon honno yd oedd bont. yd aei yr eneideu kyfuyawn iddi yn ddidramgwydd. ag eneideu y pechaduryeit a ddygwyddynt ynddi. Llawer yssydd o bresswylvaeu drwg yn uffern. megys y dywedir yn yr evengyl. Rwymwch wynt yn ffagleu oe llosgi. yno y poenir kyffelyb gyt a chyffelyb. godinebus. y godinebus treiswyr gyt a threiswragedd. enwir gyt a enwiryonn a phawb a gerddei y bont honno herwydd y gobrynei. Ac yno y gwelas Pawl llawer o eneideu ympoen. rei o honunt hyt y glinnyeu. ereill hyt y bogel. ereill hyt y gwefussau. ereill hyt y haeleu. ereill hyt ygwarthaf y penneu.

III.—Yna yd wylawdd Pawl. ac y gofynawd yr angel pwy oeddunt y rei hynny. Heb angel yna. y rei a wely di hyt y glinneu a oganant ereill. pan elont yr eglwysseu. a rhai a wely di hyt y bogel a wnaethant pechawt godinebus. ag nys penytyassant hyt angheu. E rei a wely di hyt y gwefusseu a oganassant yn eglwysseu heb warandaw geireu Duw. a rei a wely di hyt y hayleu a lawenassant o gwympeu y kymodogyon. Odyna ef a welei lle ofynawc yn gyfulawn o wyr a gwragedd yn knoi y tavodeu. Llyma heb angel wrth Bawl yr ockyrwyr a wnaethant usur ag ockyr. ag ae kessasant. ag ny buont trugarawg wrth y gweineint. ag wrth

hynny y byddant wy yn y poen hwnn hyt ddyddbrawt. Odyna Pawl a welas lle arall o bob ryw boen ynddaw. ag yno yd oeddynt morwynnyon duon pyglyd a gwiscoedd duon pyglyt amdanunt. a dreigeu tanllyt. a seirff a nadredd gwenwynig yn dorcheu am y mynygleu. a naw kythreul ysgithrawg a chyrnn tanllyd arnunt yn y harheilaw. ag yn y ag agkreiffyaw. ac yn dywedut wrthunt. Adnabyddwch chwi vab Duw byw. y gwr a brynawdd y byd. oe werthvawr waet. a gofyn a oruc Pawl yna yr Angel. pwy oeddynt. Llyma heb ef y neb ny chedwis y diweirdeb. ag a bechasant wrth y karant. ag a torrassant y priodassau. ag a laddassant y plant ag ae byrryassant yn vwyt yr pryfet. neu mywn dwfuyr oe boddi. neu ygkyfuyrgoll arall. ag ni wnaethant y penyt cynn angheu.

IV.—Odyna ef a welei gwyr a gwragedd y mywn tan a ja. ar tan yn llosgi y neill hanner uddunt. ar oervel yn y credu or tu arall. ag yn y kryfuachu. Llyma. heb yr Angel. y neb a argyweddawdd yr ymddifeit ar gwragedd gweddwon. Odyna ef a welei yn lle arall hen wr yn cryni rwg pedwar kythreul. ag yna ynteu yn wylaw. ag yn udaw. a Phawl a ovynnawd pwy oedd hwnnw. Escob gwallus. heb yr Angel. yw ny chedwis kyfreitheu Duw. ac ny bu divar o eir na gweithret na meddwl namyn kebydd twyllwr a chamryvygus. ag am hynny y bydd arnaw ynteu anneirif o boeneu hyt ddydd brawt.

V.—Ag yna y dywat Pawl. Och. Och. Och. gwae wynt y pechaduryeit y geni. Ag yna y dywat yr Angel wrth Bawl. paham yd ochi di Pawl. ny weleist etto nemawr o boeneu uffernn. ac yna dangos pydew a oruc iddaw. a seith inseil arnaw. Saf o bell. heb yr Angel. kanny elli ddioddef derewant y pydew hwnn. a phan agoret geneu y pydew. ef a gyfodes derewant o honaw. val y tybygei Bawl. y vot yn waeth na holl boeneu uffern. Pwy bynnag. heb yr Angel. a ddygywydd yn y pydew hwnn. ny bydd cof ef byth gyr bronn Duw. y rei hynny. heb yr Angel. ny chredassant y grist. y gwr a ddioddefawt angheu yr pobyl y byd. ag ny chredas-

sant kymryt o honaw gnawd dyn. nae eni o veir wyry. ag ny chymerassant vedydd yn enw Duw. ag ny thalassant ddegemheu yr eglwysseu. ag a tremygassant y kyfnesseifieit. ag ny chymerassant gymmun o gorff Crist. nae waed.

VI.—Odyna y gwelas Pawl gwyr a gwragedd yn noethon. a phryvet a nadredd yn eu bwytta. a hynny pob un ar warthaf y gilydd. megys deveit y mywn phalt. a chyndewed oedd y lle yd oeddynt ynddaw ag or nef hyt llawr. ag ef a glywei cwynvan a griddvan ag wylovein. megys taran yn yr awyr. Ag edrych a oruc Pawl o bell y wrthaw. ag ef a welei eneit pechadur y rwym gann seith gythreul. wedyr ddwyn yr awr honno or corff. ag ynteu yn gweiddi. ag yn ydaw. ac engylyon nef yn llevein. ac yn dywedut. Och. och. eneit truan. pa beth a wnaethosti. Hyeu meddeu un or diefyl. llyma yr eneit a tremygawdd gorchymynneu Duw ac gyvreitheu. ag yna darllein chartyr. ae pechodeu ae weithredoedd drwg yn yscrivennedig ynddi. ag yn y varnu yghyfuyrgoll. ar dievyl yn y gymryt ag yn y anvon yr tywyllwch eithaf yn y lle ydoedd wylyaw. a chrynnu dannedd. a thristwch heb lewenydd. Ac yna y dywat yr Angel. cret ti Bawl. pannyt val y gwnel dyn yn y byd yma y keiff ef rac llaw.

VII.—Odyna y gwelei ef engylyon yn dwyn eneit mynach gwynn oe gorff. ag yn y anvon yr nef. ag yna klywei Pawl llef miloviloedd o engylyon yn llawenhau wrthaw. ag yn dywedut. O eneit dedwyddaf. bydd lawen heddiw. kann gwnaethost ewyllys Duw. ag yna dyrchavel yr eneit gyr bron Duw. y ddarllein y weithredoed da rywnaethoedd. Ag yna y dug Mihangel yr eneit y Baradwys. lle yd oeddynt yr engylyon yn derbynnyeit yr eneideu gwiryon. a gawr o lewenydd a roddassant. val pei vot yr heul ar lloer ar nef ar ddayar yn kyffroi. Ag yna llevein a oruc y pechaduryeit or poeneu. a dywedut. trugarhaa wrthym vihangel Archangel. a thitheu wynvydedig Pawl Ebostol. eiriolwch drossom ar Dduw. canys ni a wddam y mae trwy ych gweddieu chwi y kynnhelir y nef ar ddayar. wylwch chwitheu. a

nynheu a wylwn y gyt a chwi yn y drugarhao Duw wrthych. ag yny roddo Duw noddfa ywch. a llevein a oruc y nifer. a oeddant yn y poeneu. a llevein a oruc Mihangel a Phawl Ebostol. a miloedd o engylyon y gyt ag wynt. yny glywit y llef yn y pedwerydd nef. yn dywedut. Arglwydd grist. trugarhaa wrth veibon y dynyon.

VIII.—Ag yno y gwelas Pawl y nef yn cyffroi. a Duw ar goron ar y benn. ar nifer a oeddynt yn uffern yn gwaeddy. ag yn dywedut. Trugarhaa wrthym. vab Duw byw goruchel. ag yna y klywei Bawl lef yn dywedut wrthunt. Paham na wnaethawch ddim or da. val y gallewch erchi bendith a gorffwys. mi a roddet ar y grog. ag a pwywyt yr hoelon ym dwylaw. ag a roddet gwenwyn ym oe yvet. ag am gwanpwyt ar gwayw. ag a ymroddeis vy hun y angheu. yr ych bywyt chwi. a chwitheu geuawg vuawch. a lladron kebyddyon kynghorvynnus balch. a distryw yr Eglwysseu. ag attal degemeu. a phob amravael ddrwg. heb wneuthur dim da. nag un prut. nag alussen.

IX.—Ag yna y gostyngawdd Mihangel Archangel a Phawl Ebostol. a miloedd o engylyon gyr bron Duw y addolwyn iddaw roddi gorffwys Dyw Sul yr eneideu a oeddynt yn uffern. Mi a roddaf. heb yr Arglwydd Iessu. yr Mihangel ag yr Pawl ebostol. ag yr vyn daioni vy hun. orffwys uddunt o awr nawn Dyw Sadwrn hyt awr prim Dyw llun. ag yna drychavael y ar y penneu a oruc Etyrval dryssawr uffern. a cerebius y gi. a thristau yn vawr. a llawenhau a oruc y niver a oeddunt yn uffern. a dywedut y gyt oll. ni ni a ddywedwn dy vod ti yn vab y Duw byw. kan roddeist ti yni orffwys Ddyw Sul ehun. ag wrth hynny. pwy bynnag a henrydeddo Dduw Sul. ef a vydd gyfrannawg. ag a orffwys gyt ag engylyon nef.

X.—Ag yna y gofynnawd Pawl yr Angel. Py sawl poen y sydd yn uffern. ar angel a ddywat. pet ei pedeir mil. a deugein mil a chanmil yn rifau poeneu uffern. a phedwar tavawt hayarnn ymhen pob un o honunt. ny phereynt yn rifau poeneu uffern. wrth hynny. pwy

bynnag ohonam ni a glywho meint poeneu cristonogion agkredadwy. a meint llewenydd eneideu buchedd dawl kyfyawn. a meint a ddioddefawd Crist yrhom ni. colli y waet yn wiryon. yr cariad ar gristonogyonn. nynheu a ddylyhem haeddu y voddyant ef. val y caffem buchedd tragywyddawl. yn teyrnas gwlat nef. Llyma yr achos y daeth bar Duw yn ych plith. a methyant ar ych llavur. ag ar a veddwch o dda. ag y daw pobl y pagannyeit y ddodi ych cyrff yn achubawl geithiwet. o achos na chedwych Dduw Sul santeidd bendigedig. y amlhaant ych plith kribddeiledigyonn vleiddeu. a chwn kynnddeirawg. wynt ach soddant yn dyfynnder gofut. a minheu a ymhoelaf vy wyneb y wrthych. ac y wrth ych tei. a wnaeth ych dwylaw. Pob kyfuryw ddrwg a wnaethawch yn erbyn vy santeidd Eglwys i. mi ae dialaf. am ach roddaf yn oresgyn alldudyonn. ag ach soddaf. megys y soddes gynt Somr ag Ovir. a lynkwys y ddayar wynt yn vyw am y pechodeu. a phwy bynnag a drammwyho y le amgen yn dydd santeidd Sul. noc ym heglwys i. kannys ty y weddi yw. neu y pererindod seint. neu y ofuwy kleifon. neu y angladd meirw. neu y tangnoveddu rwg digassogyonn. a wnel amgen o weith yny. megys eillyaw gwallt. neu varveu. neu y kneifaw. neu olchi penneu. neu dillat. neu bobi bara. neu weith arall gwaharddedig gann yr Eglwys Catholic. yn dydd arbennig Sul. ny chaffant gann Dduw. yn dydd nag yn nos. ysprydawl vendith. namyn yr emelldith. a hayddasant ysywaeth. a mi a anvonaf yn y tei glevydyeu anorffenedig arnunt ag ar y plant. a mall ar y hannyveileit. a phwybynnag nag a ddadleuho. nag a vrattao. nag a wnel amryssoneu. neu pynkeu angkyfuleus. namyn gweddiaw o ewyllys bucheddawl ym henw i. ag ym heglwys. mi a anvonaf yn y plith amravaelon colledeu yn amlwg hyt pann vethont.

XI.—Gwarandewet yr koll bobyl agkrededin. a gwarandaw ti o genedylyaeth anghyfyawn. at yr hwnn ni mynhy gredu iddaw. bychan yw dy dyddyeu. a pheunyd y mae dy dyddyeu athiwedd yn nessau. a minheu wyf pwyllig wrth pechaduryeit dayarawl y edrych a

ymhoelant y wir benyt. ag edivarwch. a chyffes lan. Gwarandawet holl pobloed y pressent na roddant ehofyndra y tyghu cam lyein yr vygharyat i. nag y ammhercliu eglwysseu. na gwneuthur lledrad yn dydd santeidd Sul. Achaws y dydd hwnnw y kyvodes yr Arglwydd o veirw yn vyw. ag yd ysgynnawdd ar nefoedd. ag y mae yn eistedd ar ddeheulaw Duw dad hollgyvoethawg. ag oddyno y daw y varnu ar vyw ag ar veirw. ag yn chwech nyheu y gwnaeth Duw nef a dayar ag y sydd ynddunt yn hollawl o greaduryeit. y rei a welir. a rei ny welir. ag yn y seithvet dydd y gorffwyssawdd oe holl weithredoedd. Ag velle y mynhaf y chwitheu orffwys o weithredoedd bydawl. pawb rydd a chaeth. a chadw Dyw Sul o brytnawn Dyw Sadwrn hyt pann gyfuotto yr heul Dyw llun. neu vinheu ach ymelldigaf ger bronn vyn tat yssydd yn y nef. Ag ny wledychwch y gyt a mi. nag y gyt am angylyon yn teyrnas goruchelder nef. ag onny chedwch gywirdeb tu ag at ych alldrawon. a chadw Dyw Sul yn gyfnodedig ddilavur. mi anvonaf tymhestloedd arnawch. ag ar ych llauur hyt pann periclont. ag na chaffoch ymborth diofuut. dygwch ych degemeu yn gywir ym heglwys i trwy ewyllys bucheddawl.

XII.—A phwy bynnag nys dycco y ddegwm yn gywir or da a venthyccyawdd Duw iddaw. Ef a geiff bar Duw ar y gorff ae eneit. ag ny wyl buchedd tragywyddawl. yn y lle y mae yn gobeithaw y welet. namyn newyn a vydd arnunt. canys pobyl agkredadwy ynt. yn defnyddyaw barnneu uffernawl uddunt. a minheu nys maddeuaf uddunt yn yr oessoedd. ony chadwant vy gorchymynneu i. Pwybynnag a gattwo Ddydd Sul santeidd mi a agoraf uddunt ffenestri nefoedd. ag a amlhaa pob da uddunt o lavur y dwylaw. ag a hwyhaaf y blynyddoedd yn y byt hwn yma trwy yechyt a llewenydd dayarawl. ag ny bydd trabluddyeu gofualus yn y berin. a mi a vyddaf gannorthwywr uddunt. ag wynt a vyddant lawuaeth y mynheu. A gwybyddwch y mae vi y ssydd yawn Arglwydd. ac nat Arglwydd namyn mi.

canys mi a ddileaf pob drwg a goflieileint y wrthych. ony bydd offeirat ny thraetho yr Ebostol honn ym pobyl i. ae mywn tref ae mywn eglwys ae mywn dinas. vy mar a ddysgynn arnaw tragywyddawl. Traethont yr bobyl val y crettont yn Dyw Sul arbennig. ag y gallont haeddu trugaredd nefawl. canys Duw chun a anvones yr yscrivennedig rybudd hwnnw yr pechaduryeit. hyt ar allawr eglwys Peder a Phawl yn Rufein. oe rybuddyaw am weith sulyeu ag wyleu.

PWYLL Y PADER: VAL Y TRAETHAWDD HU SANT.

I.—Llyma Pwyll y Pader ae ddyall val y dyweit Hu Sant. Hu Sant o Seint Victor ymparis a ddyweit o weddi y pader val hyn. gan ymddiret y gallwn weddiaw val meibon y tad. yr rei y dysgwys ef weddiaw val hyn uddunt. Pater noster qui es in celis. Sef yw pwyll hynny. yn tad ni. yr hwnn y sydd yn y nefoedd. Seith arch yssydd yn y Pader. megys y dywetpwyt uchod. yn y obrynhom nynheu. cafiel trwy y rei hynny seith ddonyeu yr yspryd glan. a thrwy y seith ddonyeu hynny. seith nerthoed yr eneit. val y gallom nynheu. trwy y seith nerthoed hynny yn rydd mynet y wrth y seith pechawt marwawl. a dyvot ar y seith gwynnvydedigrwydd. Seith ryw pechawt marwawl yssydd. y rei y maent achos a defnyd yr holl pechodeu ereill oll. Sef ynt y seith hynny. gogoleit bawb racddunt. nyt amgen. Syberwyt. Kynghorveint. Irllonedd. Tristit bydawl. neu lesgedd gwneuthur da. neu warandaw da. neu ddyscu.

II.—Pymhet pechawt marwawl yw chwant. a chebyddyaeth. Whechet yw glythineb a meddawt. Seithvet yw godineb. y rhei a yspeilant ddyn o garyat Duw. a holl nerthoedd Duw. ag o ddonnyeu yr yspryd

glan. Y pedwaredd o honunt a boena yr yspeiledig. Y pymhet a vwrw yr yspeiledig yn grwydrat. Y chwechet a dwyll y crwydrat gwrtholedig. Seithvet a sathra. ac a ddielwha y twylledig. Syberwyt a ddwg Dduw y gann ddyn. Kynghorveint a ddwg y gyfnessaf y gantaw. Irllonedd a ddwg ddyn racddaw ehun. canys amlwg yw. na medd irllawn arnaw ehun. Yr yspeiledig o bob da a yspeilir. val y dywetpwyt uchot. Kanny cheiff ef lewenydd ynddaw ehun. nag yn Duw. nag yn y gyfnessaf. Trwy dristit y poenir ef heb ddim llewenydd. Y nessaf y hwnnw y daw chwant. yr hwnn a vwrw y poenedig y geissaw llewenydd yn y petheu bydawl. kann colles ysprydawl lewenydd. a oedd yn y gallon. canys annyanawl yw yr eneit na ddigawn vot heb ryw lewenydd. ae yn y byd hwnn. ae rac llaw.

III.—Yn nessaf y hynny a daw glythineb. yr hwnn a lusc. ag a lynn y bryt chwannog. achubedig. yn y petheu trangkedig oddieithyr. hyt ar ormod bwyt a diawt. Yn ol hwnnw yn ddiwaethaf oll y daw godineb. yr hwnn a gaethiwa. ag a estwng ymwylledig y gaethiwet pechawt. Wrth hynny trwy syberwyt y hwydda y gallon. trwy gynghorveint y gwylhwa. trwy irllonedd y tyrr. trwy tristit y briwir. trwy gebyddyaeth y gwesgerir. trwy lythineb y buttreir ag gwlychir. trwy odineb y sethrir. megys yn llwch hyt yr eigawn. Y weddi gyntaf or pader a ddodir yn erbynn syberwyt pann ddywetter. Sanctificetur nomen tuum. Sef yw pwyll hynny. kadarnnhaer dy enw ti Arglwydd. val y bych tad ti yni. a nynheu yn veibon y titheu. val y bo arnam dy ofuyn di. ath garyat. ath enrydedd. yny ymhoelom ni attat ti trwy ufuylldawt. megys yd ymadawssam ath ti trwy syberwyt. Yn y wedd honn y roddir dawn yspryd ofuyn y ddyn. trwy yr yspryt hwnnw y dywedir ar ufylldawt. yn y gaffo yr ufudd teyrnas gwlat nef trwy ufuyddawt. yr hwnn a golles y syberw trwy syberwyt. megys dyweit Crist yn yr evengyl. Gwynn y byt yr henghennogyon ufydd. canys wynteu bieu teyrnas gwlat nef.

IV.—Yr eil weddi vydd yn erbyn kynghorveint. nyt amgen. Adveniat regnum tuum. Sef yw hynny. Doet dy teyrnas ti arnam ni. megys y mae yn y nef. yn y ddayar. Pwy bynnag a archo velle. cas vydd gantaw kynghorveint. yr honn weddi y rhoddir yspryt gwaredogrwydd. yr hwnn a ardymhera callon parth ag ar buchedd dda. yny ddel ar veddyant dayar y rei byw. ag yna y damuna y gwar digynhennus ddyvot pawb y gyt ag ef. Y drydedd weddi or pader y fydd yn erillonedd pan ddyweiter. Fiat voluntas tua. sicut in cælo. et in terra. sef yw pwyll hynny. Bit arnam dywyllys di. megys y mae yn y nef. yn y ddayar. Y neb a eirch velle. ny mynn gynhennu na chyffroi ar ddrwg yn y gallon. namyn dangos bot iddaw ef pob peth. a ragho y vodd ag ewyllys Duw. Yr weddi honn y roddir yspryt gwybot. yn y ddel y ddyscu y gallon. ag y adnabod y doluryau. drwy y mae yn y addef. ag yna annoc y pechawt. A phybeth bynnag a garho o dda. y mae o drugaredd Dduw iddaw. wrth hynny trwy edivarwch. irllonedd a heddychir. ag a eddewir ar wir llewenyd a diddanwch. wrth hynny y dyweit Krist yn yr evengyl. Gwynn y byt y rhai a gwynant ag a ddoluryant yma. canys wyntwy o hynny a ddiddenir rhag llaw.

V.—Y pedwaredd weddi y sydd yn tristit. Sef yw y weddy honno. Panem nostrum cotidianum da nobis hodie. sef yw pwyll hynny. Dyro ti yn bara beunyddyawl. sef yw y tristit hwnnw blinder bryt gyt ag afulewenydd callon ag eneit. a hynny a vydd pan vo bryt ag eneit yn chwerw heb hwenychu da tragywyddawl. Yna y mae reit yr eneit claf waret ae gywiraw o vywn. wrth hynny y rydd Duw yr yspryd kadernid hwnnw a ddrychavo yr eneit yn y vo kyfuach y ddamunho porth tragywyddawl. yr yspryd kadernyt hwnnw a ennynn callon dyn y chwennychu y wironedd. wrth hynny y dyweit Krist yn yr evengyl. Gwynn y byd y rhai a vydd sychet a newyn arnunt o ddamunhaw y wironedd. canys y rei hynny a gaffant elehwyl y cyflawnder o bob melyster nefawl. a hynny yn tragywyddawl.

VI.—Pymhet weddy sydd ynerbyn chwant a chybyddyaeth. sef yw hynny. Dimitte nobis debita nostra. sicut et nos dimittimus debitoribus nostris. sef yw ystyr y geireu hynny. Maddeu di Arglwydd yn pechodeu yni a wnaetham yth erbyn. megys y maddeuwn nynheu y ereill oth drugaredd ditheu. yr hwnn a wnaethant yn herbyn nynheu. ag yr weddy honn y roddir rat ag yspryt. Kynghor yr hwnn a ddysc yni trugarhau wrth ereill yny obrwyhom. ag y gobrynnhom nynheu caffel trugaredd y gann Dduw. ag herwydd hynny y dyweit Iessu Grist yn yr evengyl. Gwynn eu byt y rei trugarawc. canys wyntwy elchwyl a gaffant trugaredd.

VII.—Y chwechet weddy y sydd yn erbyn glythineb. or honn y dywedir. Et ne nos inducas in temtationem. sef yw pwyll y geireu hynny. Na ddwg ti ni ymprovedigaeth. sef yw hynny. Nat ti yn gellyon trwy gytsynnedigaeth diddanwch pechawt marwawl. Yr weddy honno y roddir rat yspryt a dyall. yn y vo y bwyt a gadarnhaoyr eneit. sef yw hwnnw ymmadrawdd Duw. yn gwahawdd y chwant oddieithyr. ag velle ni ddigawn eissewedig gnawd gorvot ar ddyn. Wrth hynny Iessu Grist ehun a wrthebwys yr kythreul. pan welas bot newyn ar Grist. gwedy yr anprydyaw o honaw deugeinos. a deugein pryt. yr hwnn a annoges iddaw torri y newyn y gorff. gan wneuthur bara or mein. ag yna y dyweit Iessu. nyt ymara ehun. heb Duw. y mae buchedd dyn. yn y dangossei ef yn amlwg. pryt pann porthir eneit dyn or bara or mein. Sef yw hynny. rat a melyster a charyat. a phan gaho yr eneit chweith ar y bara hwnnw. bychan y prydera erbyn yr amser a vydd rac llaw. wrth hynny yn erbyn glythineb y mae dyall ag yspryd. yr hwn a wna llygat yr eneit yn gyngraffet ac yn gynnoleuhet. ag yn gynlannet. megys y ganer or yspryd ddeall. a gleindyt callon. yr hwnn a obryn gwelet Duw. megys y dywedir yn yr evengyl. Gwynn y byd y rhai glan y callonneu. canys y rhai hynny rac wyneb a welant Dduw.

VIII.—Seithvet weddy a ddodir yn erbyn godineb. sef Libera nos a malo. sef yw pwyll hynny. Ryddha di

ni Arglwydd y gann ddrwg. Doeth synnhwyrawl ywr neb a eirch ryddit. yr hwnn y roddir rat. ag yspryt bydawl. y doeth hwnn a roddir pann gynnull o bryt ehun yn hollawl o vlas ysprydawl velyster. trwy damunet pethau nefawl. ag velle ni wasgerir. ag ny wneir dyn rydd trwy ewyllys a damunet y gnawd vyth. wrth hynny yn erbyn diddanwch oddieithyr y roddir diddanwch ysprydawl o vywn yr eneit. ag yn y veint vwyhaf y dechreuho ysprydawl vryt caffel blas ar wybot iddi ehun. yn y veint honno y tremycca knawdawl velyster. ag velle pan vo bryt dyn yn tangnoveddus. ac na chwennycho ddim bydawl oddieithyr. Ag velle yspryt doethineb a gychwyn yn y gallon. y ardymheru y chwant oddieithyr. ag y gyweiraw tangnovedd ynddi ehun. yn y gynnullher y meddwl ar bryt ar lewenyd ysprydawl. mywn y gallon. A herwydd hynny y dywedir yn yr evengyl. Gwynn eu byt y rei tangnoveddus yn eu callonneu. canys y rei hynny rag wyneb a gerir yn teyrnas nef rac bron Grist Arglwydd. lle y mae llewenyd tragywyddawl. heb trangc a heb orffen. Amen.

RINWEDDEU GWRANDO OFFEREN.

Pump rinwedd offeren sul ynt y rei hynn. cyntaf o honunt yw bod yn hwy dy hoedyl. ar vod pob offeren vyth a warandewych. Eil yw maddeu dy vwyt amryt or sul y gilydd. Trydydd yw maddeu dy van pechodeu or sul y gilydd. Pedwerydd yw. a gerddych y gyrchu offeren Sul. bot yn gystal itt. a phei as roddut o dref dy tat yn dirdawn y Dduw. Pymhet yw. ot a dyn yr Purdan. gorffwys a geiff. yn gyhyt a phob offeren a warandawo.

RINWEDDEU GWELET CORFF CRIST.

Rinweddeu gwelet corff Crist yw rei hynn. Pann ganer offeren. maddeu it dy vwyt amryt y dydd y gwelych. dy ymadroddyon diffrwyth ny choffeir it. Annudoneu anwybot nyth geryddir o honunt. ny ddaw angheu deissyvyt yt y dydd hwnnw. or byddy varw y gwelych breint kymmunawl a vydd arnat y dydd hwnnw. a hynny o achos kymryt y bara offeren. Tra werendewych offeren Sul. ny hennhey kyhyt a hynny. Pob cam a gerddych y gyrchu dy offeren Sul. angel ae kyfurif ytt. ag am bop cam. gobrwy a geffy. Ny thrig drwg yspryt y gyt a thi. y tra vych yn kyrchu offeren Sul. Oth o gyfuarch dy ssul. ath ovynnhaf ar dy wul. py wnaf am offeren Sul. Offeren Sul os keed trwy ffydd a chret a chrevydd. gwynn y vyd dy gyweithudd. Oth o gyfuarch o ddifuri. ath ovynnhaf trwy deithi. pwy wnaf o byddaf hebddi. O byddi hebddi. heb lavur arnat. heb anghen. hyt yr wythnos. na chwardd wen.

RHYBUDD GABRIEL ANGEL.

AT VEIR YW HWNN PAN DDYSGYNNAWD IESSU GRIST YN Y BRU HI.

Ef a anvonet gabriel angel y gann Duw y ddinas o Alilea. yr hwnn a oedd y enw nazaredd at wyry. briawt y wr yr hwnn a oedd y enw Joseph o lwyth Dafydd. Sef yw hynny o tylwyth Davydd. ag enw y vorwyn oed Veir. a mynet y mywn a oruc yr Angel attei. a dywedut. Henpych gwell gyfulawn o rat. y mae yr Arglwydd y gyt a thi. Bendigedig wyt ti yn y gwragedd. Mal y kigleu hi. hitheu a gynhyrvawdd yn y

ymadrawdd ef. ag a veddylyawdd pa ryw annerch oedd honno. Ar angel a ddywat wrthi. Nag ovna di veir ti a gevaist rat y gann Dduw. a llyma yd aruolly ti yth vru vab. athi a elwy y enw Iessu.yr hwnn a vydd mawr. a mab y goruchaf y gelwir. ag ef a rydd iddaw Arglwydd Dduw eisteddva Davydd y dat. ag a wledycha yn ty Iago tragywyddawl. ac ny bydd diwedd ar y teyrnas ef. A dywedut a oruc Meir wrth yr Angel. Py vodd y bydd hynny. kanny chytssynnaf a chyt gwr. Ar Angel a ddywat yn atteb iddi. Yr yspryd glan oddyarnati a ddaw ynot. a grym y goruchaf a vydd gyscawt ag amddiffyn yti rac pob pechawt. ar sant a enir o honat ti a elwir Mab Duw. A llyma Elizabeth dy gares ti. hi a aruolles mab yn y heneint. a hwnn yw y chwechet mis yr honn a elwir anvab. canys pob ryw beth or a allo bot yn eir gwir a ddigawn Duw. A dywedut a oruc Meir wrth yr Angel. Llyma law vorwyn yr Arglwydd. byd y mi herwydd dy eir di. Amen.

LLYMA EVENGYL IEUAN EBOSTOL.

I.—Llyma synnwyr evengil Ieuan ebostol. herwydd y dyall ar synnwyr a roddes Duw yr neb ae troes o Ladin yghymraec. A gwybyddet pawb oc ae darlleo pann yw geireu yr evengyl ynt. y rei y mae y llunyeu y danunt. ar geireu ereill heb linnyeu. geiricu y neb ae troes yghymraec y synnhwyraw ag y amlyccau yr evengyl. *In principio erat verbum.* yn y dechreu yd oedd y geir. sef oedd hynny. yn y tad yd oedd y mab. canys geir Duw oedd y vab. ar geir a oedd gyt a Duw. ag wrth hynny y dylywn ni wybot nat un personn y tat ar mab.

II.—A Duw oedd y geir. canys y geir yssydd vab. ar mab yssydd Dduw. a hwnnw oedd yn y dechreu y gyt a Duw. canys gogyvoet yw y mab ar tat. A thrwy y geir hwnnw y gwnaethpwyt pob peth. a hebddaw ef ny wnaethpwyt dim. canny bu wneuthuryat amgen ar y byt. eithyr dywedut o Dduw. pann ddywat y eir. ag yn

y eir. sef yw hynny pann anet y mab. Bit pob peth yn yr amser hwnn ar amser. A val y dywat ag y gorchymynnawdd. velle y bu. Ag ny bydd dim onnyt a ddywat ef ar y eir y byddei. ag eissoes ny ddywat Duw. ag nys gorchymynnawdd vot pechawt. ag achos hynny arwydd yw nat dim pechawt. eithyr camwedd ag eisseu kyfuyawnder.

III.—Ar hynn a wnaethpwyt ynddaw ef bywyt oedd. sef yw hynny. kyffelybrwydd a dechreu pob peth. megys y mae yn Duw bywyt yw. canys pob peth ac yssydd yn Duw bywyt yw. a Duw yw. Ar bywyt hwnnw yssydd leufer yr dynyon. ag nyt lleuver yr annyveilyeit heb ddyall. heb synnhwyreu gantunt. namyn lleuver ysprydawl yw a oleuhaa eneideu dynyon. Ar lleuver a lewyrcha ymplith y pechaduryeit. canys pechawt yssydd tywyllwch. Nys amgyffredawdd ef. sef yw hynny pechaduryeit nys erbynassant ef. ag nys adnabuant ef. megys deillonn yn eistedd ygoleuat yr heul heb y gwelet. ag achos dyvot y goleuat hwnnw ygknawt dyn. a phreswylaw megys heul mywn wybren. neu oleuat mywn llugorn.

IV.—Wrth hynny yd anvonet dyn y gann Dduw. ae enw Ieuan. Ieuan oedd hwnnw vedyddwr a anet yn erbyn annyan o ddeu hen ddyn. ag a orucpwyt yn sant ymru y vam. Hwnnw anvonet yn righill o vlaen mab Duw y rybuddyaw pawb. ag y vaneg y doey. Nyt oleuat oedd ef. namyn ef a anvonet yn tyst y roddi tystyolaeth or goleuat. megys y crettei pawb y drwyddaw ef. sef yw trwy y tystyolaeth ef. Yd oedd ef hagen wir oleuat y oleuhau pob dyn or byd. canys oe bleit ef ydeith y oleuhau pob dyn or byt. ag eissoes llawer a gayant y llygeit yn erbyn y goleuat hwnnw. ag ny vynnant y welet.

V.—Yn y byt yd oedd lleuver. sef yw hynny mab Duw. a thrwyddaw ef y gwnaethpwyt y byt. trwy vab Duw. ag eissoes nyt adnabu y byd ef. sef yw hynny nyt adnabu dynyon bydawl a oeddynt pechaduryeit y byd. Oe briawd y deuth. sef yw hynny o wlat yr Israel oedd megys gwlat briawt iddaw. a thref tat wahan-

redawl yna. cany chredei neb yn Duw yna onnyt wynt.

VI.—Ae eiddaw nys aruollassant. ag nys kymerassant megys yn Dduw ae Harglwydd. Pwybynnag hagen ae kymerth ef. ef a roddes udunt allu a meddyant oe bot yn veibon y Dduw. Ag ny ddichawn neb dwyn y arnaw y vreint. onnys mynn ehun. nyt y rei anner o waedeu o gyt gwr a gwreic. sef yw hynny. y rei ny anner o bechodeu. nag o ewyllys y knawt. namyn y rei anner o Dduw. canys y neb a aner o Dduw. a aner o rat yr yspryt glan. a rei a aner o weithret gwr a gwreic a ennyn o weithret knawdawl. A chynn y vot yn vab y Dduw. reit yw iddaw y ddadeni trwy ddwfyr y bedydd. a rat yr yspryt glan.

VII.—Ar geir a wnaethpwyt yn gnawt. sef yw hynny. Duw a wnaethpwyt yn ddyn. ag a presswylawdd ynom ni. sef yw hynny yn plith ni. a ni a welsam y ogonyant ef. yr honn ny allei neb y gwelet. onny bei wiscaw o honaw ef gnawt dyn. ae ogonyant ef megys gogonyant un mab Duw. a anet o Dduw kyfulawn o rat a gwironedd. Canys y ddynyolyaeth ef ae eneit a roddet yr holl roddeu. ar holl wybodeu. yr hwnn ny roddet y neb eithyr iddaw ehun. a hynny yn hollawl.

VIII.—Dangos py wedd y dyellir y tat. ar mab. ar yspryt glan un Duw. Kynn bo perffeithach Duw no chreadur or byt. a hynny o ffyrdd heb rif arnunt. eissoes ny allwn ni na dyall y perffeithrwydd ef. nae dywedut ar yn tavawt. onnyt trwy kyffelybrwydd y petheu a welwn. ag a ddeallwn yn y creaduryeit. ag yn enwedig yn dyn a wnaethpwyt ar ddelw Duw. Yny eneit dyn y mae cof a deall neu veddwl ag ewyllys. a chynn bwynt wy yn un eneit. amgen beth yw bob un o honunt ae gilydd. a phob un o honunt wy sydd yn y gilydd. canys cof sydd gof gantaw pob un or tri. ar meddwl a ddyall pob un or tri. ar ewyllys a vyn ag a gar pob un or tri.

IX.—Or cof weithonn y genir meddwl. ar meddwl hwnnw geir yw. a ffurvir ag a lunir ygkallon dyn. a

chyt a hynny or cof ar meddwl y daw yr ewyllys. velle yn Duw hollgyvoethawg o achos y vot yn yspryt dyallus dylyedus y mae tri pheth val kyffelyb yr tri vry. eithyr y bot yn perffeithach. ag yn ddiveiach. sef ynt y tri pheth hynny. y tat. ar mab. ar yspryt glan. Y tad yssydd megys cof. canys val y mae y cof yn dechreu y meddwl ar ewyllys. ac cof y daw yna y meddwl neu eir. ag o honunt wynteu y daw ewyllys megys yspryt. ag velle y tad Duw yssydd dechreu yr mab. canys or y ganet mab Duw. megys y genir geir or cof. ag wrth hynny. mab Duw geir y tad yw. a geir y gelwir.

X.—Ag or tad ar mab y deuth caryat. ag unnolyaeth rwng y tat ar mab. A hwnnw yr yspryt glan. ar tri hynny sydd ogymeint a gogystal. ag un vonedd. ag un dyall ag un gallu. canys y tri hynny y sydd un Duw diwahan. ar tri y ssyd ogyvoet. a phob un ohonunt wy y ssydd yn y gilydd. kanny bu y tad eiroet heb vab iddaw. ag ny bu heb ddywedut geir. Ag eissoes ny ddywat namyn un geir. ag ny bu y tad ar mab eiroet heb garyat ag unnolyaeth y rygtunt. a hwnnw yw yr yspryt glan. Velle y daw or heul paladr yr heul. ag or heul ar paladr y daw gwres. ar tri hynny gogyvoet ynt. eithyr nat ynt un annyan diwahan. val y teir person.

XI.—Velle hevyd y daw nant or ffynnawn. ac or ffynnawn ar nant y daw llyn. ag yr hynny dwfuyr ywr tri diwahan. eithyr nat ynt o gyfuoet. canys kynt y bydd y dwfuyr yn y ffynnawn. ag yn y nant. noc yd a yn llyn. Wrth hynny nyt oes dim yn yr holl pechaduryeit. kyffelyb na thebig o gwbyl yr un Duw ar teir personn. ag eissoes pwybynnag a ddyallo yn amlwg yr hynn a ddywetpwyt. am eneit dyn ag am y creaduryeit ereill. haws yw iddaw welet a chredu py wedd y mae y tad. ar mab. ar yspryt glan yn teir personn dosparthedig. Ag yn un Duw.

Yn y modd hwn y treythir o chwedleu Seith Doethion Rufein. o waith Llewelyn Offeiriad.

I.—Diawchleisyawn a oedd Amherawdyr yn Rufein. a gwedy marw Eua y wreic. a gadu un mab o etiued yddunt. ynteu a ddyvynnawdd attaw seith o ddoethion Rufein. nyt amgen eu henweu. Bantillas. Augustus. Lentillus. Malquidas. Catonias varchawc da. Jesse. Martinus. Ar gwyr hynny gwedy eu dyuot a ovynnassant yr Amherawdyr beth a vynnit ag wynt. a phaham y dyvynnassei hwynt yno. Llymar achaws. heb yr Amherawdyr. un mab yssydd ym. a govyn i chwitheu. att bwy y rhoddaf ef i ddyscu moesseu. a deuodeu. a myvdrwydd. a magyat da iddaw. Y rofu i Dduw. heb y Bantillas. un o ddoethion Ruvein. pei roddut attafi dy mab ar vaeth. mi a ddysgwn iddaw kymeint ag wnn i mi am chwech kedymdeith ympen y seith mlyned.

II.—Ie heb yr Augustus. rodder attafi y mab. ag erbyn y chwech mlynedd. mi a baraf iddaw gwybot kymeint ag a wddam ni yn seith. heb y Cato. herwydd y messureu a gymero y mab oe ethrylithyr. ae dysc herwydd. herwydd hynny yd adawafi y ddyscu ef. Os attafi y roddir ar vaeth. heb y Jesse. mi ai dysgaf yn oreu ag y gallwyf. a gwedy daruot y pob un or chwegwyr addaw dysgu y mab yn oreu ag y gellynt. yna y kavas yr Amherawdyr yn y gyghor roddi y vab ar vaeth attunt ell seith. Ac adeilyat ty a wnaethpwyt uddunt ar lan avon Tyber oddieithyr Rufein yn lle karueid. erdrym. gwastatsych. Ac wynt a ysgrivennassant y seith gelvyddyt yghylch o gylch y ty. ag a dysgassant y mab yn y oedd aeduet y synhwyreu. a chymhenddoeth y barableu. ac arafgall y weithredoedd.

III.—Ac yn yr amser hwnnw yr Amherawdyr a briodes gwreic. a gwedy y dwyn y lys a chysgu genthi. amovyn a wnaeth hi ac un ac arall a oedd etivedd yr Amherawdyr. A diwarnawt y doeth hi y ty gwrach ysgymmun. unllegeidiawc. heb un dant yn y phen. a dywedut wrth y wrâch. yr Duw mae plant yr Amherawdyr. Nit oes iddaw yr un. heb y wrâch. Gwae vinneu. heb hi. y vod ef yn anvab. Yna y truanhaawdd y wrâch wrth yr yscymmun arall. gan ddywedut. nyt reit itti hynny. darogan yw iddaw gaffel plant. ag agatuyd ys o honat ti y keiff. kynys kaffo o arall. ag na vydd trist. un vab yssyd iddaw ar vaeth y gan doethon Rufein. Ag yna y doeth hi ir llys yn llawen orawenus. a dywedut wrth yr Amherawdyr. Pa ystyr y keli di dy blant ragofi. heb hi. Nys kelaf vinneu bellach. heb ef. ag avory mi a baraf vynet yn y ol oe ddangos ytti.

IV.—Ar nos honno val yd oedd y mab ar athrawon yn gorymdeith. wynt a welynt yn eglurder y syr. a chyffroedigaeth y sygneu ur dihenydd y mab ony bei amddiffyn kymmen arnaw. Ar mab hevyt a welas hynny. ag ef a ddywedodd wrth yr athrawon. Pei amddiffynnewch chwi vyui y seith niwarnawt oc awch doethineb. Minneu vy hunan a amddiffynnawn yr wythuet dydd. Ag addaw y amddiffyn a wnaethant. a thrannoeth nachaf genadeu y gan yr Amherawdyr y erchi uddynt ddwyn y mab oe ddangos yr Amherodres newydd. Ag wedy y ddyuot yr neuadd. ae rassawu oe dat ar nifer. ni ddywat ef un geir mwy no chyt bei mut. A drwg yr aeth ar yr Amherawdyr welet y vab yn vut. ac erchi y ddwyn y ddangos yw lysvam. A hitheu pan y gweles a fflemychawdd oe garyat. ag ae duc y ystauell dirgeledic. a thrwy gytgamgaryat a geirieu serchawl y dywat hi wrthaw ef. Ar gwas ae tremygawdd. ag a edewis y tu iddi.

V.—A hitheu pan welais i thremygu a ddodes ddiaspat uchelgroch oruchel. a than ysgythru y phen oe harddunyant ae gwisgoedd. a gwneuthur gwallt melyn yn vonwyn briwedic. a chyrchu hi ac ystauell yr Amherawdyr. a rhyvedd nat oedd yssic penneu y bissedd

rac ffestet y maeddei y dwylaw y gyt. y mynet i gwynaw treis a gordwy wrth yr Amherawdyr rac y mab. a dywedut y vot ef yn keissiaw dwyn treis arnei hi. Ac yna y tynghawdd yr Amherawdyr trwy y lit y llw mwyaf. un am vudannaeth i vab nat oedd waeth gantaw y varw noe vyw. yr eil o achaws sarhaet y vrenhines. na byddei y eneit ynddaw hwy noc hyt trannoeth.

VI.—Ar nos honno y dywat yr Amherodres wrth yr Amherawdyr. ef a ddervydd ytti am dy vab. val y darfu gynt ir pren Pinus mawr o achaws y binwydden vechan a oedd yn y ymyl. a changen or vawr yn llesteiryaw ir vechan dyfu. Ac yna yd erchis y Bwrdeis. bioedd y gwydd. y arddwr torri kangen or binwydden hen a oedd yn llesteiryaw ar y vechan gyvodi. a gwedy torri y geinc. y pren yn gwbyl a grinawdd. ag yna yd erchis y torri oll. Megys hynny y dervydd y titheu am dy vab a roddeist y veithrin att y seithwyr doeth yr collet itti. y mae ef tan gêl yn keissiaw duundeb y gwyrda yth ddistryw di. ac y wledychu ehun heb olud. A llidiaw a oruc yr Amherawdyr. ac adaw y ddiuetha trannoeth. a gwedy treuliaw y dydd hwnnw. ar nos honno. ar arddunіant a digrifwch yr vrenhines. yn ieuengtid y dydd trannoeth y kyvodes yr Amherawdyr a gwisgaw ymdanaw. a chyrchu y dadleudy. ag ar hynt govyn ir doethon pa adoet a wneit ar y vab ef.

VII.—Ac yna y kyvodes Bantillas y vyny. a dywedut val hyn. Arglwydd Amherawdyr. heb ef. os o achaws mutaniaeth y mab y dihenyddir. iawnach yw bot yn drugarawg wrthaw am hynny. na bot yn greulawn. canys gorthrymach yw iddaw ef yr anaf hwnnw noc i neb. Os am gyhuddet y vrenhines. unffunyt y dervydd ytt am dy vab. ag y darvu i varchawg ardderchawg bonheddig am vilgi a oedd iddaw. Beth oedd hynny. heb yr Amherawdyr. ym kyffes nis managaf ytt ony roddi dy gret. na ddihenyddyer yn oed y dydd heddiw. Na ddihenyddir. myn vygret. heb eb. a dywet ym dy chwedyl.

VIII.—Ydoedd gynt yn Rufein marchawc ae lys

wrth ystlys y gaer. a dydd gweith ydoedd twrneimant. ac ymwan rwng y marchogyon. sef a wnaeth yr Amherodres a thylwyth mynet hyt ar van y gaer y edrych ar yr ymwan. heb adaw un dyn yn y llys onyt un mab y marchawg yn cysgu y mywn crut. ae vilgi yn gorwedd yn y ymyl. a chan weryrat y meirch ag angerdd y gwyr. a thrwst y gweiwyr yn syflad wrth y taryaneu eurgrwydyr y kyffroes sarff o vur y castell. a chyrchu neuadd y marchawc. ac arganvot y mab yn y crut. a dwyn ruthyr iddaw. a chyn ymgael ac ef. bwrw or milgi buan llym neit iddi. a chan y hymladd ae hymdaraw. eill deu. ymchoelut y crut. ai wyneb i waeret. ar mab ynddaw. ar ki buan llym bonheddig a laddawdd y sarff. ae gadaw y ddryllieu man yn ymyl y crut.

IX.—A phan ddaeth yr Arglwyddes y mywn. ac arganvot y ki ar crut yn waetlyt. dyvot yn erbyn y marchawc y dan lefein a gweiddi. y gwynaw rac y ki a laddassei y un mab. ar marchawc. trwy y lit. a laddawd y ki. Ac yr diddan y wreic. ef a ddoeth y edrych y vab. a phan ddoeth. y oedd y mab y holl iach y dan y crut. ar sarff yn ddrylleu man yn y ymyl. Ac yna yd aeth yn drwg ar y marchawg ladd ki kystal a hwnnw. o eir ag annoc y wreic. velly y dervydd y titheu o ladd dy vab. o gyhuddet ac annoc dy wreic. Ac yna y tynghawdd yr Amherawdyr na leddit y mab y dydd hwnnw.

X.—A gwedy teruynu eu kynghoreu ae dadleu. yr neuadd y doethant. A phan wybu yr Amherodres vot yn well gan yr Amherawdyr ymddiddan no bwytta. kyntaf ymddiddan a oruc hi. gouyn a ddihenyddwyt y mab. Na ddo. heb ef. Mi a wn. heb hi. pan yw doethon Rufein a beris hynny. un ansawdd y dervydd ytti. o gredu uddunt hwy. ac y darvu gynt yr baedd coet am y bugeil. Pa ddelw vu hynny. heb yr Amherawdyr. Myn vy nghret nys dywedaf ony roddi dy gret ar ddihenyddyaw y mab y uory. Dihenyddir myn vy nghret. heb ef. Llyma y chwedyl. heb hi.

XI.—Pren ffrwythlawn brigawclas a oedd gynt y mywn fforest yn ffreingk. ar baedd ny mynnei ffrwyth

pren yn y coet. namyn ffrwyth y pren hwnnw. A dydd gweith yd arganvu y bugeil y pren. a gwelet y ffrwyth yn dec. ac y garueidd velus aedduet. a chynnullaw coeleit or ffrwyth. Ac ar hynny nachaf y baedd yn dyvot. ag ny chafas y bugeil o ennyt o nyt dringhiaw y vrig y prenn rac ofn y baedd ae goeleit ganthaw. Ar baedd gwedy na chafas y ffrwyth megys y gorddyfnassei. ffroeni a disgyrnu dannedd a oruc. ac arganvot y bugeil ymbric y prenn. a thrwy y eil dechreu diwreidaw y prenn. A phan welais y bugeil hynny. gollwng y ffrwyth ir baedd a oruc. ar baedd pan gafas dogyn. ef a gyscawdd y dan vric y prenn. ac ef yn kysgu. disgyn y bugeil yr llawr. ac a dyrr breuant y baedd a chyllell. velly y dervydd y vaedd Rufein. ac y dygir ffrwyth yr amherodraeth y ganthaw. Myn vy nghret. heb yr Amherawdyr. ni bydd byw hwy noc efory. Trannoeth trwy y lit. kyrch y dadleudy a oruc yr Amherawdyr. ac ar hynt erchi dihenyddyaw y mab.

XII.—Ac yna y kyvodes Augustus y vyny. a dywedut val hyn. Arglwydd. heb ef. ni wnel Duw ytti wneuthur am dy vab. megys y gwnaeth ypocras am y nei. Beth oedd hynny. Myn vynghret nys managaf ytt. ony roddi dy gret na ddihennyddyer y mab heddiw. Ni ddihenyddir. myn vynghret. heb ef. Nei vab chwaer a oed y Ipocras. a goreu ffysygwr a oedd or byt. a gwedy anvon kennat o vrenhin ungarie y erchi y ypocras ddyvot y iachau mab a oedd iddaw yn glaf. ac ny allawdd ef vynet. namyn gollwng y nei yno. Ar gwas pan ddoeth yr llys. ef a vwryawdd golwc ar y brenhin. ac ar y vrenhines. ac ar y mab. a gwedy na weles ef ddim o annian y brenhin yn y mab. govyn a wnaeth y vam y mab pwy oedd y dat. gan ny allei y veddigynaethu yn y wypei anyan. a natur y genedyl y hanoedd o honei.

XIII.—Ac yna y dywat hitheu i gael ef. o ordderchat o Iarll Navarr. ac yna y peris ef roddi kic ych ieuangk yr mab. yn y vu holl iach. ac wedy y ddyvot adref. y govynnawdd y ewythyr iddaw pa wedd yd iachawdd y mab. A chig ych ieuangk. heb ef. Os

gwir a ddywedy di was. heb ef. o odineb y kaffat ef. Gwir yw. heb y mab. A phan welas Ypocras y nei mor gelvydd a hynny. meddylyaw a oruc y ladd. ac erchi iddaw ddyvot y orymdeith y gyt ag ef. A gwedy y ddyvot y le disathyr dirgeledic. a dywedut wrth y nei. mi a glywaf. heb ef. arogleu llysseu da. Minneu ae clywaf. heb y mab. ae mynny di wyntwy. Mynnaf. heb ef. ac ar mab yn gostwng y vedi y llysseu. y vrathu a chyllell trwyddaw yn y dygwydd yn varw yr llawr. ac yna y cablawdd pawb Ipocras. ac yd ymelldigwyt. A velly. Arglwydd amherawdyr. y dervydd y titheu. ac yd ymelldigir o phery ddihenyddyaw dy vab. ac ynteu yn wirion. Na pharaf. heb ef.

XIV.—Ar nos honno. gwedy darvot bwyt. govyn a oruc yr Amherodres. a ddaroedd dihenyddyaw y mab. Na dderyw. heb yr Amherawdyr. Un ffunyt y dervydd ytti o gredu y ddoethon Rufein ac y darvu gynt y wr a ladawd y vab y benn. ae gladdu yn yr ysteuyll bychein. Pa ddelw vu hynny heb ef. Nys dywedaf ytt. ony roddi dy gret ar ddihenyddyaw y mab auory. Llyma vyghret y dihenyddiyr. Mi a giglef gynt vot Amherawdyr yn Rufein. a chwannoccaf dyn or byt y dda bydawl oedd ef. a gwedy darvot iddaw gasglu a chynnull llonet twr o eur ac arryant. a thlysseu mawrweirthawc. ef a ossodes kebydd ofnawc kyvoethawc yn geidwat ar y da. Sef yd oed gwr gotlawt kallonawc yn y ddinas. a gwas ieuangc dihavarchlym yn vab iddaw. ar gwr ae vab a ddoethant o hyt nos am ben y twr. ac ae torrassant ag a ddugant a vynnassant or da. a thrannoeth pan ddoeth y keitwat y edrych y twr.

XV.—Neur daroedd dwyn diuessuredd or da yn lledrat. ac yna yn ystrywgall meddylyeit a oruc y keitwat. a gossot kerwyneit o lut ardymeredic. geir bronn y twr yn y lle y torrassyt. pei kaffei y lladron oe dangos yr Amherawdyr rac y amheu ef. ar lladron gwedy treulaw yd hwnnw ar dir a dayar a phlasseu. ac wrth eu digrifwch. wynt a ddoethant drachefyn tu ar twr. ac wynt. ac eu hisgafel ganthunt. yn kyrchu allan. ny wybu y tat ungeir yny vydd hyt y wregis yn y

gerwyneit lut. ac yna gofyn kynghor a oruc y vab. Nys gwn. heb y mab. onnyt torri dy benn a chleddyf. ae guddyaw yn lle dirgel. canys oth orddiweddir ath eneit ynot dy gystuddyaw a wneir ytt. ath boeni ony addefych y da. ac yna y manegy ditheu. Och arglwydd vab. heb ef. nyt velly y gwnei a mi. trugarockaf gwr or byt yw yr Amherawdyr. ar da yssydd barawt. am eneit a gaffaf inneu y eturyt drachefyn. Myn y gwr y credaf iddaw. heb y mab. ny bwriafi y tripheth yn antur yr lladd dy ben dy y arnat. Pa dri pheth ynt y rei hynny. heb y tat. y da kyndrychawl yssydd gennifi. am eneit vy hun ar tir ar trefneu a bryneist ditheu. ac yn greulawn estrongar lladd pen y dat y arnaw. velly y peir dy vab dy ladd ditheu o chwant dy deyrnas yssydd well nor swllt. Myn vynghret. heb ef. ny bydd y eneit ynddaw hwy noc auory. a thrannoeth pan weles y dydd kyrchu y dadleudy. ac erchi dihenyddyaw y mab.

XVI.—Ac yna y kyvodes Lentillus y vyny. a dywedut val hyn. Arglwydd Amherawdyr. heb ef. un ansawdd y deruydd ytti. o pheri ddihenyddyaw dy vab. ac y darfu gynt y hen wr da kyvoethawc am wreic ieuangc dec a oedd iddaw a garei yn vawr. Beth a oedd hynny. heb yr Amherawdyr. myn Duw nys managaf. ony roddi dy gret. na ddihenyddier y mab heddiw. Na ddihenyddier. heb ef. a dywet ym dy chwedyl. Hen wr da bonheddig a oedd gynt. ac ef a briodes morwyn ieuangc uonheddic. ag ni bu hir gwedy y dyuot yngyt yny vwriawdd hi serch lledradeidd ar was ieuangc o lys yr arglwydd. a gossot eluyt ag ef a wnaeth. ag yn kylch y ran gyntaf or nos pan oedd drymmaf y gwr yn kyscu y kyvodes hi y vyny. ag y doeth att y gordderch. ac ny bu hir gwedy y mynet yny ddyffry y gwr. ac ymdroi yn y wely. ac val ryvedd vu ganthaw. clybot y wely yn wag oe gymmar. a thrwy lit ac eiddigedd y kyvodes y vyny. a cheissyaw y ty amdani. a phan nas cafas y doeth ef drachefen tu ar drws. a chau yr drws yn gadarn. a thyngu trwy y lit na sanghei y ty hwnnw tra vei vyw.

XVII.—A hitheu gwedi ymlenwi yn y digrifwch serchawl gyt ae gordderch. ychydic kyn y dydd y doeth tu ar drws. a gwedy na weles y drws yn agoret. erchi agori a oruc. Llyma vynghret. heb y gwr. nat agorir y ty ymma ragot ti yth oes. ac auory yggwydd dy genedyl mi a baraf dy lebyddyaw a mein. Llyma vynghret. heb hi. vot yn gynt y bwriwn neit. or lle ydwyf yn y bysgotlyn yma ym boddi. noc yd arhown yr adoet hwnnw arnafi. ac arganuot maen mawr yn y hymyl a oruc. a dyrchavel y maen ar ei hysgwydd a wnaeth. ae vwrw ir llyn yny glywyt y cwymp dros yr holl lys. A gwaethaf yn y byd yd aeth anraw ef hynny. a dyvot allan a oruc. y edrych a orddiweddei yr eneit ynddi. a hitheu yn gyflym riueryawc a aeth y mywn. a chau y drws yn gadarn arnei. ae vegythyaw ynteu am torri priodas. ac adaw y ty ae wely yr amser hwnnw yn y nos. A thrannoeth yngwydd brawtwyr y ddinas ar swyddogyon. y bu reit yr gwr ddioddef y poen ar dial a ddylyei hi y gael am y drygeu. Ac velly y somma dy wreic ditheu am dy vab. a hi yssydd ddrwg a chamgelus. ar mab yssydd ar y iawn. Ni ddihenyddiyr ef heddiw. heb ef.

XVIII.—A gwedy bwyt y dywat y vrenhines. mi a wn na adawdd doethon Rufein ddihenyddyaw y mab heddiw. Na ddo. heb ef. Unffynyt y dervydd ytt o gredu yddunt am dy vab. ac y darvu gynt y un o ddinaswyr Rufein am bren ffrwythlawn brigawglas a oedd annwyl ganthaw. Beth oedd hynny heb yr Amherawdyr. Nys dywedaf ytt ony roddi dy gret ar ddihenyddyaw y mab auory. Didenyddiyr. myn vy nghret. Llyma y chwedyl. heb hi. Y wr o Rufein yd oedd pren perffrwyth yn tyfu yn y erber. A cheing uniawndec yn kyvodi o von y prenn. ag yn kyrchu yr awyr. Ac ot oedd annwyl gann y gwr y pren ar ffrwyth. annwylach oedd y gaing o achaws y thecket. Y rof a duw. heb y garddwr. pei vy nghygor a wnelut. ti a berut torri y gaing y wrth y prenn. Paham heb ef. Am nat diogel itt gael ffrwyth y prenn. tra vo y geing racko yn ysgynbren. ac yn gynhalbren dryg-

ddynyon a lladron. ag nat oes ffordd y ddringyaw yr pren. nac y gaffael y ffrwyth onyt trwy y gaing racko. Myn vynghret heb ef. ny thorrir dim or gaing mwy no chynt yr hynny. A bit velly. heb y garddwr. Ar nos honno ef a ddoeth lladron yr prenn ae yspeilyaw oe ffrwyth. ac adaw ynteu yn annoeth vrigawcdwn erbyn y boreu drannoeth. kyn noethet a hynny y gedy doethon Rufein ditheu o ffrwyth dy deyrnas. ony ledy geing y gan dy vab. Lleddir. myn vynghret. y bore auory heb ef. ac wynteu kymeint yr un.

XIX.—A thrannoeth trwy lit ac annoc y vrenhines. kyrchu y dadleudy a wnaeth yr Amherawdyr. ac erchi dihenyddyaw y mab. a doethon Rufein y gyt ag ef. Ac yna y kyvodes Malquidas y vyny. gwr aduwyn brud oedd hwnnw. a dywedut val hyn. Arglwydd Amherawdyr. heb ef. os o annoc dy wreic y pery ddihenyddyaw dy vab. ef ath somir. val y somes y bleidd y bugeil. Pa wedd vu hynny. heb yr Amherawdyr. Nys managaf ony roddi dy gret na ddihenyddier y mab heddiw. Na ddihenyddiyr myn vynghret. a manac ym dy chwedyl. Llyma y chwedyl. heb ef. namyn dinas gyvoethawc gadarn a oedd yn y dwyrein. a seithwyr kymhenddoeth synhwyrus a oeddynt yn cadw ac yn llywyaw y ddinas. Ac nyt yn y kaerwyr ar dinaswyr yd oedd gedernit y ddinas. namyn yn doethineb y gwyr ae kymhendawt. ac yn hynny doeth brenhin creulawn cadarn y geissyaw goresgyn y ddinas. A gwedy eistedd yn y gyferbyn. gossot peiryanneu wrthaw. ny thygyawdd yr brenhin ddim. rac kymhennet y gwyr o vywn yn cadw eu dinas. A phan welais y brenhin ystrywgar na cheffit y ddinas o ymladd. ef a wnaeth yn ddiueryawc addaw kilyaw y wrthaw. ac nat ymladdei a niver y ddinas. yr anuon attaw y seithwyr uchot. Ar bobyl ddisynnwyr heb welet y brat. ar dolur a oedd yngkudd dan y deil. a gredassant gelwydd. a ffalsedd eddewityon y brenhin. a gymherassant y gwyr ac ae rwymassant. ar veddwl eu hanvon iddaw allan.

XX.—Ac yna y kyvodes un or doethon y vyny. ac a ddywat val hyn. Ha wyr da. heb ef. un ansawdd y

dervydd i chwi o gredu yr brenhin creulawn racko gwedy roddowch chwi nyni yn y vedyant ef. ac y sommes gynt y bleidd y bugeil. Pa wedd vu hynny. heb ynteu. Bleid creulawn enwir a oedd yn keissyaw kyfle a chyflwr ar y bugeil ar aniveileit y eu lladd. ac ny adef gauaelgwn buanllym a oedd yr bugeil seibynt iddaw nag ynghoet nac y maes. Ar bleidd pan weles hynn a eddeweis heddwch a thangnevedd tragwyddawl yr bugeil ae ysgrybyl. yr daly y kwn ae rwymaw ae roddi attaw ef. Ar bugeil ynvyt a gredawdd y eiryeu kelwyddawc y bleidd. ac a anuones y kwn ir bleidd. ac ynteu yn gyflym a laddawdd y kwn. a gwedy hynny yr ysgrybyl. ag or diwedd y bugeil. Velly y lladd y brenhin creulawn racko chwytheu oll. o credwch iddaw. gwedy y darffo yddaw yn ladd ninneu. Byw yw Duw o chredwn iddaw. nac och roddwn vyth yn y vedyant. ac yna oe kynghor wy y goruuant arnaw ef. ac y llas. Hyn Arglwydd a ddywedaf inneu ytti yn wir. megys y mynnassei ef y lladd wy. pei credassant iddaw. ac val y lladdawdd y bleidd y bugeil. o gredu iddaw. velly y lladd dy wreic ditheu. o chredu iddi. ac o phery an lladd ninneu oe hannoc hi. Na pharaf myn fy ffydd. heb ef.

XXI.—Ac yna gwedy darvot bwytta y dywat y vrenhines wrth yr Amherawdyr val hyn. Megys y tynn arogleu y deil ar y blodeu yr ymlynyat y ar y drywedd. yn y gollo y llwdwn ganthaw. velly y mae doethon Rufein yth tynny ditheu o eiryeu tec a pharableu eureit am dy vab. ony gollych dy vrenhinyaeth ath gyuoeth. kanys un ansawdd y dervydd ytti o gredu yddunt wy ac y darvu gynt y Rassian Amherawdyr. Beth vu hynny. heb ef. Llyma vy ffydd. heb hi. nas dywedaf. ony roddi dy gret ar ddihenyddyaw dy vab avory. E ddihenyddir heb ef. Llyma y chwedyl heb hi. Fferyl a ossodes colofyn ym perueid Rufein. ac ar ben y golofyn drych o geluyddyt nigromawns. ac yn y drych y gwelei senedwyr Rufein. pa deyrnas bynnac a geissynt. na wrthwyneppei neb yddunt. ac yna yn gyflym yr eynt am ben yr honn a vynnynt ac a ddaros-

tyngynt hi uddynt. Ar golofyn ar drych oeddynt yn pery y bob teyrnas ofynhau rac gwyr Rufein yn vwy no chynt. ac yna y kynnigawdd Brenhin y Pwyl aneiryf o dda yr neb a gymerei arnaw ddiwreiddaw y golofyn. a thorri y drych.

XXII.—Ac yna y kyvodes deu vroder un vam y vyny a dywedut val hyn. Arglwydd vrenhin heb wynt. pei kaffem ni ddeupeth. ni a ddiwreiddem y golofyn. Pa wedd yw hynn. heb ef. Yn drychafael ar urddas ac enrydedd a vei vwy ychlaw. a chyfreidieu kyndrychawl yn yr awr honn. Beth yw hynny. heb ef. Dwy varileit o eur heb wynt. canys chwannockaf dyn or byt yw Gracian. A hynny a geffych heb y Brenhin. ac eur a berit udunt. ac wynteu a gyrchassant ar eur tu a Rufein. ac hyt wynt y gladdassant y deu varil yn ymyl y ddinas ger llaw prif ffordd. A thrannoeth wynt a ddoethant yr llys. a chyvarch gwell yr Amherawdyr. ac ymgynnic yn wyr iddaw a wnaethant. Pa wassanaeth da. pa geluyddyd a wddawch chwi. pan gymerafi chwi yn wyr ym. Ni a wddam. heb wynteu. a vo eur ac arryant kuddiedic yth deyrnas di. a ni a barwn ytt y gael o gwbyl. Ewch chwi heno gwedy ych bwyt tu ach lletty. ac edrychwch erbyn avory a vo eur kuddiedic ym kyvoeth i. ac or bydd manegwch ym. ac o chaffaf hynny. yn wir mi ach kymeraf yn anwyleit ym.

XXIII.—Ac ymeith yd aethant yw lletty. a thrannoeth y deuth y mab ieuaf hyt rac bron yr Amherawdyr. a dywedut ry gael o honaw ef a y dewidabaeth. bot barileit yn ymyl y porth y ddinas ygkudd. Ac yna yn ddiannot y peris yr Amherawdyr vynet y geissyaw hwnnw. a gwedy y gael ae dwyn iddaw. y kymerth yn annwyl ydaw. A thrannoeth y daeth y mab arall. a dywedut rygael o honaw ynteu ar y breuddwyt bot barileit o eur ygkudd yn y Porth arall yr ddinas. A gwedy profi hynny. credadwy vu y gweissyon a hoff o hynny allan. ae kymreit yn annwyleit iddaw. Ac wynteu yna a ddywedassant bot eur y dan y golofyn a warchei y deyrnas yn dragywydd.

ac yna y dywawt seneddwyr Rufein. o dywreiddyt y golofyn. na byddei gyngadarnet Rufein o hynny allan a chynt. A ni adawdd chwant eur ac aryant yr Amherawdyr bot wrth gynghor y gwyr hynn. Diwreiddyaw y golofyn a beris ef. a hynny a dyrr y drych. a drwg yd aeth ar seneddwyr Rufein hynny. ac yn gyflym dyvot am eu ben. ae ddaly ae rwymaw. a chymell arnaw yfed eur brwt. gan ddywedut wrthaw val hyn. Eur a chwennychaest. eur a vynny. Velly ny att dy ddihiryaw ac eureit barableu y gredu vy nghyghoreu i. am ddihenyddyaw dy vab. yny wnelont dy agheu ath adoet yn ddybryt. Myn vyngliret. heb. ef. ny bydd byw dyeithyr hyt avory. A thrannoeth y bore yd erchis ddihenyddyaw y mab.

XXIV.—Ac yna y kyvodes Cato hen. gwr kymhenddoeth. a dywedut val hyn. Arglwydd amherawdyr. nyt yn ol ymadroddyon ffals kelwyddawc a glywo dy glusteu y dyly di varnu. namyn trwy amynedd. a cheissyaw gwrionedd y varnu gwir y rwng hen ac ieuangc. a chy aghywiret vydd dy wreic ytti. yr honn yd wyt yn y charu. ac yny chredu. ac y bu gwreic y Syryf o Lesodonia. Cato. heb yr Amherawdyr. pa wedd vu hynn. Llyma vy ffydd nas managaf. ony roddi dy gret na ddihenyddiyr y mab heddiw. Na ddihenyddyir. myn vyngret. heb ef. Yd oedd gynt gwas jeuangk o Rufein yn Syryf Lesodonia. a diwarnawt yd oedd yn naddu paladyr. ae wreic yn kyttgam ac ef. ac ynteu yn gware a hi. ac yn hynny ef a gyvarvu blaen y gyllell ef ae llaw hi. yn y ddoeth y gwaet. a chynddrwc yd aeth arnaw ef hynny. ae vrathu ehun dan ben y vron ae gyllell yn y ddygwydd yn varw yr llawr. a gwedy gwneuthur y gyweirdeb ae wassanaeth yn y lys. ef a dducpwyt tu ar llan y gladdu.

XXV.—A ryvedd nat yssic penneu y byssedd rac ffestet y maeddeu y dwylaw y gyt. yn kwynaw y gwr. ywch oedd pob llef a ddiaspadei nac a oedd o gorn a chloch dros wyneb yr holl ddinas. A gwedy claddu y gwr a chiliaw pawb or eglwys. y mam a erchis ir unbennes dyvot y gyt a hi adref. a hitheu a dyngawdd

ir gwr a oedd ywch y phen nat aei hi oddyno yny vei varw. Ni elly di. heb i mam. gywiraw y geir hwnnw. ac am hynny jawnach yw ytt dyvot yth lys dy hun y gwynaw dy wr. no thrigyaw yn lle ofnoc aruthyr mal hwn. mor unic a hynny. Mi a brofaf ae gallwyf. heb hi. ag yna y peris y mam kynneu tan goleu o brwsgyl geyr y bron. ac adaw bwyt a dyawt y dreulaw pan ddelei newyn arnei. wrth na chyfeirch newyn y borthi. ar nos honno yd oedd marchawc pedrydawc kadarn or gaer yn gwilyat herwr a grogassit y dydd hwnnw. ac y byd yn troi o bell. ac agos ef a welei oleuat amlwc lle nys gwelsei kyn no hynny eiryoet. a brathu y varch a wnaeth y edrych pa le yd oedd y tan. a pha achaws y gwnathoeddit. A phan ddoeth ef a welei mur a mynwent ac eglwys. a than uchel goleu yn yr eglwys. a ffrwynglymmy y varch a oruc ef wrth borth y vynwent. ac yn y aruot ae arveu dwyn hwyl yr eglwys. y edrych pwy a oedd ynddi. a phan ddoeth nyt oedd namyn morwynwreic ieuangc yn eistedd odduch bedd newydd gladdu. a than goleu divwc rac eu bronn. a dogyn o vwyt a diawt yn y hymyl. A govyn a wnaeth ef beth a wnaei dyn mor ieuank o oetran. mor ddinerth o gorff ag mor aduwyn o bryt. yn lle mor ofnawc a hwnnw ehunan. Ac yna y dywawt hitheu nat oedd arnei ofyn kymeint a hwyret yd oedd angheu yn dyvot iddi.

XXVI.—Ar marchawg a ddymunawdd iddi pa achaws oedd hynny. Claddu heb hi. y gwr mwyaf a gereis yrmoet. ac a garaf tra vwy vyw yn y lle hwn heddiw. diogel vu garu honaw ynteu vynneu yn vwy no neb pan ddyckei y adoet ehun om hachaws inneu. A unbennes. heb y marchawc. pei vynghynghor a wnelut. ti a drout or meddwl hwnnw. ac a gymerut wr a vei gystal ath wr ditheu dy hun. neu a vei well. Na vynnaf. myn y gwr yssydd ych ym penn. gwr vyth wedy ef. A gwedy ymddiddan rynnawdd onadunt. y marchawc a gyrchawdd tu ar crocwydd. a phan ddoeth. neur athoeddit ag un or lladron ymeith. a drwg yd aeth arnaw ef hynny. canys gwassanaeth y marchawg oedd.

dros y dir ae ddaear. cadw gwyr bonheddic a grogut rac eu dwyn oe kenedyl y eu claddu.

XXVII.—A thraegefyn y doeth ef att yr unbennes. a menegi y gyfranc ar damchwein iddi. Pei roddut dy gret ar fy mhriodi i. mi ath ryddhawn or pwnck hwnnw. heb hi. Llyma vy ffydd. heb ef. ith briodaf. Llyma val y gwnelych. heb hi. Dattcladd y gwr yssydd yma. a chrog ef yn lle yr herwr. a hynny nys gwybydd neb ond nyni yn dau. A dattgladdu y pwll a wnaeth ef yny ddoeth tu ar corff. Llyma hwn. heb ef. Bwrw y vyny. heb hitheu. Ym kyffes. heb ef. haws oedd gennifi ymladd a thrywyr byw no dody vy llaw ar un gwr marw. Miui ae dodaf. heb hi. a bwrw neit esgudlym yn y pwll. a thaflu y corff yny vydd ar lan y pwll. Dwc di efo tu ar crogwydd. heb hi. Nys gwyr Duw. heb ef. ymi nac ym march allel ymdeith. onyt yn anawdd. rac meint o arueu ymdanaui. Mi ae gallaf. heb hi. dyrchaf ef ar vy ysgwydd i. A gwedy y gael ar i hysgwydd. hi a gerddawdd brasgammeu gwrawldrut ag ef yny ddoeth hyt y crocwydd. Och. heb y marchawc. pa dda yw hynny. yd oedd dyrnawt cleddyf ar ben yr herwr. Taraw ditheu. heb hi. ddyrnawt ar ben hwn. Na thrawaf ym kyffes. heb ef. Ym kyffes. heb hi. mi ae trawaf.

XXVIII.—A tharaw dyrnawt mawr a chleddyf ar ben y gwr. Ie. heb y marchawg. pa dda yw hynny. yd oedd yr herwr yn vantach. Minneu a wnaf hwn yn vantach. heb hi. a chael maen mawr. a dyrchavael llaw arnaw yny vydd lleddir y wefuseu ae ddannedd yn ddrylleu o angerdd. a chadernyt y dyrnawt. Ie heb y marchawc yna. aruoel oedd yr herwr. Minneu a wnaf hwn yn aruoel. heb hi. a chymryt penn y gwr y rwng penn y ddeulin hi. ae deudroet wrth y ddwy ysgwydd. na gwreic yn kneifyaw. na gwr yn eillyaw. ny bu yr un gynt yn hynnio penn y gwr no hi. ag ar vyrder oe dal hyt yn uchafion y jat. ny edwis un blewyn heb i dynnu ymeith mwy noc y gedeu y memrennydd ar y memrwn. A gwedy darvot iddi hynny. hi a erchis yr marchawc y grogi. Llyma vynghret nas crogaf. ac nas crogi ditheu.

a phettut un wreic di or byt. ny mynnwn i ddim o honat ti. kanys pan oeddut ti mor aghywir a hynny wrth y gwr ath briodes yr un verch. ag a ddug y adoet oth garyat. ys aghywir a beth vyddut ti ini. heb welet golwg arnaf eiryoet hyt heno. ag am hynny dos di y ffordd y mynych. wrth na mynnafi di vyth. Ym kyffes y Dduw. Arglwydd Amherawdyr. kyn anghywiret a hynny rac llaw vyd y wreic yd wyt yn peri dihenyddyaw dy vab yr awr hon oe hachaws. Llyma vyngret ni ddihenyddiyr. heb ef.

XXIX.—A gwedy darfot bwytta. y vrenhines a ovynnawdd ir Amherawdyr a ddaroedd dihenyddyaw y mab. Na dderyw. heb ef. Ny ddervydd vyth. heb hi. tra vo byw doethon Rufein. canys megys y tynn y vammaeth y mab y ar y lit ae gyffro. trwy sonnyaw. a thrabluddyaw yn eu glustieu. neu ddangos rhiw betheu ffol masw iddaw. velly y mae doethon Rufein ith tynnu ditheu y ar dy gyffro. am vy ngwaradwydd i. am kewilydd. y gan dy vab di. trwy eu son ae hymddiddanev ar y ryw liw ar gelwydd a ddangossant ytt. Ag un ansawdd y dervydd ytt or diwedd. o gredu yddunt ag y darvu gynt ir brenin a welei drwy y hun y ddallu beunoeth. Pa ddelw oedd hynny. heb yr Amherawdyr. Nys managaf ytt ony roddi dy gret ar ddiua y mab auory. Llyma vyngret y diueir. heb ef.

XXX.—Yd oed brenhin gynt. heb hi. ar un o ddinassoedd Rufein. ag ef a osodes seithwyr y lywyaw y ddinas. ar gwyr a ymroddes y gynnullaw aur ag aryant a thlysseu. yny oed gyvoethoghach y tlotaf onadunt. o dda kyndrychawl nor brenhin. A hynny a wnaethant wy oe kytgynghor. val y keffynt ladd y brenhin. a rhannu y vrenhinyaeth y rygktunt. a hynny o nerth a chadernyt eu da. A pheunoeth y gwelei y brenhin trwy ei hun peir. a seith troet yn kyvodi o honaw yn un ffynut a chyt bei ffyrydan kadarn ydanaw. a gwrychyon a deuynt or rei hynny am y lygeit. ac ae dallei. dybygei ef. Ag yna yd anuones ef kennadeu yn ol dewinyon breuddwydyon. a gweledigaetheu. a ddelynt rac llaw yn oes oessoedd y pob lle. Ar kennadeu a

ddamchweinawdd ar was jeuank a gawsei ei ragor y gan Dduw o yspryt dewinyaeth y ddehogyl breuddwydyon. ar gwas a dducpwyt hyt rac bronn y brenhin. Ar brenhin gwedy y ddyvot a venegis iddaw y vreuddwyt. Ie. heb y gwas. dehogyl dy vreuddwyt a wnaf. ath gynghory ditheu amdanaw. ag ony byddy wrth gynghor. ef a ddaw dy vreuddwyt ytt oddieithyr dy hun. val yd wyt yn y gwelet drwy dy hun. Llyma dy vreuddwyt. heb y gwas. y peir a welyt drwy dy hun a arwyddockaa y ddinas hwn. y seith draet a welyt ynt y seithwyr yn y llywyaw. y rei sydd yn berwi o ormod kyvoeth a golud. ac yn darparu brat ytt. ony leddir wynt yn ebrwydd.

XXXI.—Ac ny bu y brenhin wrth gynghor y gwas. ony laddasant wy efo. a dwyn y vrenhinyaeth y arnaw. velly ny byddy ditheu am dy vab. a doethon Rufein y rei yssydd yth vradychu. ac yth dwyllaw ar eirieu. yny gaffont gyfle yth ladd. ac y ddwyn dy deyrnas y arnat. onys lleddy di wynt yn ebrwydd. Llyma vy nghret. heb ef. y lleddir wynt auory. A thrannoeth drwy y lit kyrchu y dadleudy a oruc. ac erchi crogi y vab. a doethon Rufein y gyt ag ef. Ag yna y kyvodes Jesse y vyny. a dywedut val hyn yggwydd pawb or niver. Ny ddyly Arglwydd bot yn anwadal. na gadu y ffalsedd a chelwydd y drossi. ag val y sommes y vrenhines y brenhin gynt am y marchawc. velly y somma dy wreic ditheu. Tydi. pa ddelw vu hynny. heb ef. Myn Duw nys managaf ytt. ony roddi dy gret na ddibennyer y mab heddiw. Na ddihenyddiyr. heb yr Amherawdyr.

XXXII.—Llyma y chwedyl. heb ynteu. Yd oedd marchawc gynt a welei y vot beunoeth y mywn twr uchel yn ymgaru ag arglwyddes jeuangc delediw ny welsei eiryoet olwc arnei oddieithyr y hun. a churyaw yn vawr a wnaeth o garyat yr unbennes. sef a gafas yn y gynghor mynet y grwydraw bydoedd a dinassoedd amdanei. ac val y bydd yn kerddet. ef a welei gaer uawr vylchawg. a chastell ffyryf mawr amlwc yn y ymyl. a ffyryf dur aruchel yn y castell kynhebic y liw

ac lun. yr hwn a welei y vot ynddaw beunoeth. ef ar wreic vwyaf a garei. A thu ar twr. y kyrchawdd. ar briffordd y dan y castell a gerddawdd. yny ddoeth yn ogyfuwch ar twr. a bwrw golwc ar y twr a wnaeth. ag arganvot y wreic vwyaf a garei ynddaw. a llawen. a da gantaw y gwelet. ar ddinas a gyrchawdd. a daly lletty ynddaw y nos honno. A thrannoeth drwy vawredd dyvot tu ar porth y castell. a galw y porthawr attaw. ag erchi iddaw vynet y ouyn yr brenhin. a vynnei varchawc ieuange diffals diwyt yn wr iddaw. a dyvot a oruc att y brenhin a dywedut velly wrthaw. Gollynger y mywn. heb ef. y edrych a ellir defnydd o honaw. Ar marchawc a ddoeth yr llys. a chanmoledic a vu gan bawb y ddyvodyatt ef. ac ar vyrder cynganmoledicket vu. ae wneuthur or brenhin yn oruchel dros y gyvoeth.

XXXIII.—Ag yna y dywat ef wrth y brenhin bot yn reit iddaw gael lle dirgeledic y vyddylyaw ygkylch swydd. a chyfrif kymeint ag a oedd arnaw. Edrych y kyfle a vynnych. a chymmer ef. heb y brenhin. Llyma a vynnwn i arglwydd. heb ef. gadu ym adeilat ystauell yn ymyl y twr. canys diamsathir yw yno. Da gennifi hynny. heb y brenhin. Ag ar hynt y marchawc a beris adeilyatt ystauell hardd iddaw yn ymyl y twr. a phery ir saer gwneuthur ffordd ddirgeledic iddaw vynet ir twr att wreic y brenhin. Ar saer a wnaeth y ffordd yny ymgauas ar vrenhines y wneuthur y vynnu o honei. Ag val ydoedd ddiwarnawt yn bwytta ar yr un bwrdd ar brenhin. yd arganvu y brenhin y vodrwy amwylaf yn y helw am vys y marchawc. ac yn llidiawc edigus govyn· iddaw. beth a wnai ei vodrwy ef ar law y marchawc.

XXXIV.—Ar marchawc yn ystrywgar a dygawdd na bu veddiannus ddyn arnei eiryoet namyn efo. ag am hynny arglwydd galw dy gof attat. ag edrych pa du y cedweist dy vodrwy. wrth na bu hon eiryoeth yth deu di. ag ymgynhewi a oruc y brenhin. a bwytta a ryveddy gwerth y vodrwy. a gwedy bwytta y brenhin a gychwynnawdd tu ar twr y ovyn ir vrenhines y vodrwy.

Ar marchawg oe ffordd ynteu a dduc y vodrwy iddi oe dangos ir brenhin. pan y govynnei. Ar brenhin pan ddoeth a ovynnawd y vodrwy. a hitheu ae dangosses iddaw. Ac yna y goruc y brenhin y agkreiffio ehun yn y veddwl am gystuddiaw y marchawc. ac am dybyaw y wreic. ac wynteu yn wirion ar y vryt ef. Ac yna y dywawt y marchawg wrth y vrenhines. myui aaf i hely y gyt ar brenhin avory. ag mi ae gwahoddaf ef wrth y vwyt ym ystavell i pan ddel o hely. ag a ddywedaf iddaw ddyvot y wreic vwyaf a garaf om gwlat ym ol. a bydd ditheu yn erbyn ninheu ag amryw wisc amdanat. ag yr a gymero ef o adnabot arnat ti. na at arnat yd adnabot ef. nae welet eiryoet hyt yna. ag velly y gwnaeth. A thrannoeth yr aeth y hely. a gwedy canu corn lladd. a darvot hely. y marchawc adolygawdd ir brenhin. dyvot y vwytta oe ystauell ef y dydd hwnnw.

XXXV.—Ar brenhin a ddeuth. cyntaf dyn a wyl y wreic yn ystavell y marchawc. a govyn iddi a wnaeth. beth a wnaci hi yno. a pha ffordd y deuth yno. Anawdd iawn. heb hi. iw ym vynegi ytti y genifer ffordd amdyfrwys a ymdecis om gwlat hyt yman. ni wn inneu lle jawnach ymi vot noc yn ystavell y gwr mwyaf a garaf. ac os bwrw kyueddnabot yr wyt yn ol kyffelybrwydd. edrych di pa le y mae y neb yr wyt yn y geisiaw. wrth na weleisti olwc arnafi eiryoet hyt heddiw. Ag yna kynnewi a oruc y brenhin. a meddylyaw na welas eiryoet wreic na modrwy mor debic ae wreic ef ae vodrwy y wreic a modrwy y marchawc. A gwedy bwyt y brenhin a aeth tu ar twr y geissyaw deheurwydd am y wreic val y cafas am y vodrwy. A hitheu ae racflaenawdd ef y ffordd arall. ac a symmudawdd eu gwisc. a gwisgaw i chartrefwisc ehun amdanei. ac ynteu pann ddaeth. ae hanghreifftyawdd ehun yn y veddwl am y gamadnabot ar marchawc.

XXXVI.—Ag ympenn yspeit o amser y marchawg y weles nat oedd ddiberigyl iddaw kynnal karadas a gwreic y brenhin yn un wlat ag ef. ygkwaethach yn y lys ae gastell ehun. ac ef a gafas yn y gynghor paratoi llong. ae llenwi o bob da. Ac yna ef a erchis kannyat

ir brenhin y vynet tu ae wlat. wrth na buassei yr ys hir o amser yn y wlat. ar brenhin ae kanhadawdd. A thrannoeth ef a ddeuth kyn y kychynnu ae ordderch att y brenhin. ir lle yr oedd ef yn gwarandaw offeren. ag adolygawdd yr brenhin peri ir offeiryatt ehun gwneuthur rwym priodas y rygktunt ell deu. Ar brenhin a aeth tu ar twr. a phan ddoeth. yr oedd y twr yn wag. ae wreic gwedy mynet gyt ar marchawc. Velly arglwydd amherawdyr y somma dy wreic ditheu. o gredu iddi. a phery dihenyddyaw dy vab oe hachaws. Na pharaf yn wir. heb ef.

XXXVII.—Ar nos honno y dywawt yr amherodres. a dan ucheneidyaw. a thristyt. wrth yr Amherawdyr val hyn. Ef a ddervydd ytt val y darfu y stiwart brenhin Germania. Beth oedd hynny. heb yr Amherawdyr. Nys managaf ony roddi dy gret ar dihenyddiaw y mab yuory. Yn wir. heb ef. ef a leddir. Llyma y chwedyl. heb hi. Y brenhin hwnnw a dyuassei heint ynddaw. ag a hwyddawdd. a gwedy y veddyginaethu yn jach. yr erchis y meddyc yddaw keissyaw gwreic ar y wely. Ac yr erchis ynteu y ystiwart llogi gwreic iddaw yr naw morgk. Sef a oruc yr ystiwart. o chwant y da. roddi y wreic briawt ehun ar wely y brenhin. A gwedy bot achaws yr brenhin y nos honno a gwreic yr ystiwart. ef a ddoeth trannoeth y gwr i erchi iddi gyvodi y vynyd. ar brenhin nys gadawdd. ac y datkanawdd ynteu eu gam ae garedd yggwydd y brenhin. ag y deholet ef ar kyvoeth. ag y kavas y wreic ossymdeith digawn y gan y brenhin. Velly y dervydd y titheu o chwant gwrandaw geiryeu y seithwyr doethon yth eholir oth gyvoeth. a minneu a gaffaf digawn o dda y gan vy nghenedyl. Ar brenhin a lidiawdd or geir hwnnw. ag a dyngawdd y lleddit y mab drannoeth. A thrannoeth heb gyghor gwyr da yd erchis crogi y mab.

XXXVIII.—Ag yna y deuth Mathin. a dywedut wrth yr Amherawdyr val hyn. os o annog yr amherodres heb gyvreith. a heb varn gwyrda. y lleddy dy vab. ef a ddervydd ytt val y darvy y wr hen doeth am y wreic.

ac ny managawdd y chwedyl hony roddes nawdd yr mab hyt trannoeth. Ag yna y dywat. gwr da hen a briodes morwyn ieuangk. ag a gywir wrthaw vlwyddyn. a gwedy hynny ymddiddan a oruc hi ae mam yn yr eglwys. dywedut nat oedd vawr o ddigrifwch serchawl. yr oedd hi yn y gaffel gan y gwr yn y gwely. ag am hynny y bot hi yn karu gwas ieuangk. Ie. heb y mam. prawf yn gyntaf annwyt dy wr. a thorr y planbren bychan ffrwythlawn teg yssydd yn tyvu yn yr erber. ag yssydd annwylach ganthaw nor un or prenneu ereill. a hitheu a wnaeth hynny. A gwedy darvot iddi y dorri. ac ddodi ar y tan. yr arglwydd a ddoeth adref o vwrw gweilch. ag a adnabu y prenn. a gwedy govyn ohonaw pwy a dorrassei y prenn. y dywat y wreic pan yw o eisseu tan y gwnaethoed hi hynny. y beri tan iddaw erbyn y dyvot adref. A thrannoeth ymgael ae mam a wnaeth yn yr eglwys. a menegi iddi y ddamwein oll. ag y dywat y bot yn karu gwas ieuangk.

XXXIX.—Ag eissoes o annoc y mam. hi a broves y gwr yr eilweith. Val yr oedd y gwr yn dyvot o hely. bytheiades a oedd iddaw. a garei yn vwy nor holl gwn. a redawdd ar ffwrur y ffwrkot. Sef a wnaeth ysglyfyeit kyllell un or gwyr. a lladd yr ast. A gwedy i hanghreithyaw oe gwr am wneuthur hynny yn y wydd ef. hitheu a ddywat. pan yw o ddrwc annian am lygru y phan newydd y gwnaethoed hi hynny. ag na wnai vyth y cyfryw. ag yna y tewit wrthi. A thrannoeth gwedy dywedut y mam hynny. hi a ddywawt y bot yn karu gwas ieuangk. A gwedy govyn oe mam iddi pwy a garei. hitheu a ddywat. nat marchawg oedd. namyn yr offeiriat plwyf. ag na wnai vocsach. canys kyrirmachwr da oedd. Ie. heb y mam. meddylya yn gyntaf. rac bot yn greulonach dial y gwr hen. gwedy llittio no gwr ieuangk. a phrawf ef y drydedd weith.

XL.—O annoc y mam. hi ai proves val hyn. val yd oedd ddiwarnawt yn gwneuthur gwledd y voneddigyon a phenaduryeit y dinas. gwedy gossot pawb i eistedd. a gwassanaethu arnadunt or anrec gyntaf. hitheu a rwymawdd agoryat y phrenuol wrth y lliein a oedd ar

y bwrdd. a chyvodi a oruc. a redec tu ar pen arall yr ty. a thynnu y lliein. yny ddigwydd yr llawr a oedd arnaw o vwyt. a llyn a phetheu ereill. Ag yskussyaw a oruc a dywedut. mae i kyrchu kyllell a vae gwell oc arglwydd y daroedd iddi y ddamwein hwnnw. Ag yna o orchymyn yr arglwydd y dodet llicineu o newydd ar y byrddeu. a bwyt a llyn arnadunt. a thrannoeth y bore kyvodi a oruc y gwr y vynyd. a pheri kynneu tan mawr. ag ymliw ae wreic am y tri gweithret a wnaethoedd hi hynny. Ag oe hanvodd hi ef a beris iddi dwymyaw y braich wrth y tan. ag a beris ellwng gwaet arnei. hyny yttoedd yn llewygu. Ag yna rwymaw y dwy vreich. ae dodi yn y gwely. a hitheu anuones att i mam y ddywedut y lladd. ae mam a ddeuth attei. a dywedut wrthi. Ponny dywedeis i ytti. nat oedd dial drymach. noc vo hen wr gwedy llityo. ag eilweith dywedut wrthi. a gredy di bellach yr gwr ieuangk. Na chredaf dioer vyth. heb hi. a thra vyw y bu diweir a gwastat.

XLI.—Ymogy sydd reit y titheu arglwydd Amherawdyr. heb y Martin. rac dygwyddaw y mywn karedd kymeint ac y lleddych dy vab yr ethrot dy wreic. a bydd diogel ytt y dyweit y mab auory. Ni chredafi hynny. heb y brenhin. A phan venegis y brenhin yr vrenhines. y dywedei y mab dranoeth. kythruddyaw yn vawr a oruc hi. ag ni wybu hi dim dychymyg o hynny allan. A thrannoeth pan gyvodes yr heul ar byt yn oleu diwybyr. yr amherawdyr ar gwyr da ar doethon a aethont ir eglwys. a gwedy gwarandaw offeren yn dwywawl. yr aethant oddieithyr y vynwent y eistedd ar ben carreg i le amlwc.

XLII.—Ag yna y daeth y mab geyr bron yr amherawdyr rwg deu wr or doethon. a gwedy addoli y arglwydd dat. ac erchi iddaw y gerennydd. herwydd na hadyassei ef y var ae anvodd. Ar gwr uchaf. heb yr ef. y gwr a wyr pob peth or a vu. ac a vydd. y ddangosses ym. ac ym athrawon yn amlwc trwy yr arwydd ar y lleuat. ar seren oleu eglur yny hymyl o dywedwn i un geir yr un or seith niwarnawt na

ddianghwn rac angheu. ac yna arglwydd dat. heb y mab. am y weledigaeth honno y teweis i arglwydd. ar amherodres yn ethrot. ag ym kyhuddaw. megys pei byddwn gelyn ytt. a cheissyaw dwyn dy amherodraeth. ath thiwetha. a thebic yw hi wrthyt ti amdanafi. ac y bu rwng y marchawc bonheddic gynt ae un mab ar y mor. Beth oedd hynny. heb yr Amherawdyr. Marchawc ae vab a oeddynt y mwyn ysgraff ar y mor. a dywot dwy vran a greu uwch y penneu. a dysgynnu ar gwr yr ysgraff. a greu pob eilwers. a ryvedd vu gan y marchawg hynny. Ar mab a ddywat wrth y dat. bot y brein yn dywedut y byddei da gan y dat. gaffel daly blaeneu y lewys tra ymolchei. ae vam yn taly twel iddaw.

XLIII.—A llidyaw a oruc y marchawg or geir hwnnw. ac ysglyfyeit y mab. ae vwrw yn y mor dros y ben. a mynet ymeith ar ysgraff. Ac o dwywawl dynghet ymlusc or mab ar eu ddwylaw ae draet. hynny ymgavas a charreg yrwng allt a mor. ag yno y bu tridieu. a their nos heb vwyt. a heb ddiawt. Ac yno y kavas pyscodwr y mab. ag y gwerthawdd ef y ystiwart o wlat bell yr ugein morc. ag rac aduwynet y voesseu a daoet y devodeu ae wassanaeth. ef a gafas enrydedd mawr gan yr arglwydd. Ag yn hynny brenhin y wlat honno a oeddit yn y orthrymu yn vawr. o achaws bot teir bran yn greu uwch y ben nos a dydd. A galw y gyt y holl wyrda ae ddoethon ag addaw roddi y un verch. a hanner y vrenhinyaeth. yr neb a ddehoglei iddaw greuat y brein. ag ae gwylltyei vyth y wrthaf ef. a gwedy na chyffit neb a allei hynny. noc ae gwypei. O ganyat yr ystiwart y kyuodes gwas ieuangc. a dywedut wrth y brenhin. a chadarnhau y eddewit y gwnai ef gymeint ag yr oedd y brenhin yn y erchi. A gwedy kanadu hynny. y mab a ddywat val hyn. yr ys degmlynedd a mwy. heb ef. bu newyn ar yr adar. ac ar aniveileit ereill. Yr hynaf or brein a edewis y wreic ym perigl angheu o newyn. ag aeth y wlat arall y geissyaw bwyt. ar bran racko oedd ieu no hwnn. ag a drigawdd y gyt a hi yr hynny hyt heddiw.

Ag yr awr hon gwedy amlhau ym ymborth. y daeth y vran hen drachefyn. ag y mae yn holi y wreic yr llall. ar bran arall yn y hattal racddaw. A phellach oc eu kytsynnedigaeth y maent yn dodi ar dy varn di tervyn eu dadyl. canys pennaf wyt.

XLIV.—Ag yna o duundeb y gwyrda y barnawdd y brenhin y wreic yr hwn ae differth rac y marw o newyn. ac nys dylyei yr hwn ae gedewis dim o honei. A phan welas y brenhin hynny hehedec a wnaeth y deu vran y gyt yn llawen orawenus. ar hen vran a hedawdd ymeith dan ermein a gweiddi. Ag yna y kavas y mab enrydedd gan y brenhin. ag ae barnwyt yn wr doeth. Ag o gytgynghor y roddet merch y brenhin yr mab. a hanner y vrenhinyaeth. A dyddgweith val y bydd y mab yn mynet trwy y ddinas. ef a welei y vam ac dat yn lletty yn ty bwrdeis. wedy adaw y wlat o eisseu da. a dyvot yr geissyaw da hyt yno. Ag ygkylch gosper ef a anvones ysgwier y dy y bwrdeis y ddywedut iddaw y byddei y brenhin ieuangc yn kenewi y gyt ag ef drannoeth. Ar bwrdeis yn llawen. heb yr ef. graessyo a geiff. a goreu aller iddaw. A thrannoeth pan vu amser gan y brenhin. ef a ddeuth y letty y marchawg. A phan ddeuth. y marchawg a gymmerth lavwr a chawc y gynnic dwfr y ymolchi yr brenhin ieuangc. ac nys gadawdd ynteu. a dywedut dan awenu yn llawen. arglwydd dat. heb ef. llyma wedy yr dyvot yr hyn a ddywedeis ytti. ag yr oedd y brain gynt yn greu ar yr ysgraff. pan vwryast ti yvi yny mor. ac nad oddwn yn deisyf hynny. canys Duw ae troes yn dynghet y mi. ac o hyn allan y kytwledychy di. a mam. y gyt a myvi. tra vych vyw. Megys hynny arglwydd dat. val y bu hwnnw ufydd a gostygedic oe dat. velly y keffy ditheu vyui yn ufydd ytt. yr meint vo vy ngallu yn y byt hwn. Ag er Duw na chret di geissyaw ohonafi treissyaw dy wreic di. Ti a wddost peri o honat ti dyhun ym. oc harch hi. yggwydd gwyrda vynet y hystafell. ac ymgynnic im. mal nat oedd gyfyawn iddi. a gwedy gwrthod ohonafi. hitheu regys agheu vy eneit. a am greffinawdd

c hun. ac a dynnawdd gwaet oc wyneb. ac gwallt hi y ar y phen. Ac yr hynny oll. myui arglwydd dat a odefaf dy varn di ath wyrda arnafi. Ac yna y gelwit ar yr amherodres ei atteb rac bron. a hitheu a dywat wneuthur o honei hi hynny. rac dwyn or mab gyuoeth y dad a hitheu. Ac wrth varn yr amherawdyr ae wyrda llosget corff yr amherodres. ac o uarn y goruchaf vrawdyr. sef oedd hynny Duw Arglwdd kyfyawn trugaroc ac amddeffyn y gwirion rac drwc. ae duc y vlaenwedd goruchel ac y diwedd enrededdus gogoneddus. Ac velly y teruyna chwedyl seith doethon Ruvein. o weith Llewelyn.

Llyma ddechreu stori yr olew bendigeid. Gwedi droi o lyfr Lucas or Llading yn gymraeg.

I.—Nasciens kefnder i Bredyr ap Efrog. y penaf o varchogion y fort gronn. or pan y gossodes merddin yn uthur bendragon hyd talm o oes Arthur. ag yna yr aeth nasciens yn feudwy ir kapel peryglus yn ynys wydrin. a bodloni Duw a oryg yn gymaint ag y defai angel y wasnaythu y yfferenay val y gwelas arthur ehun. pan ddanfones Mayr y groes aur y arthur. yr hon yssydd y mynachlog lassynbri. yn y lle y roes arthur ehun. ag am hynny y dug ef daryan werdd a chroes wen a delw fayr ar braych ddehay yn eiste yn y ran uchaf or darian.

II.—Ar Nasciens hwnnw trwy orchymyn yr ysbryd glan a yscrifenodd ystoria saint greal y gyd yr hwn y mae blaes feudwy yn kyfuno ag ef. a hwnnw a llyfr o ddig merddin yn y kapel guedr milwryeth arthur ai farchogion. ar llyfr yssydd yn tystolaythu kyssegry o

grist ehun Jossebus vab Josseb o Aramathia yn esgob yninas farar. ai yrddaw ag olew bendigaid. yr hwn a ddug saith engylion nef i Joseph ai fab ai ddeuddec neieint. feibion y chwaer. a ffedwar kant o bobl eraill or rai nessaf iddo o ffydd a chred a chrefydd. a gorchymyn a ddayth or nef. y erchi y Joseph a hynny o nifer oll ddyfod i ynys brydain a dwyn yr olew gyda hwynt. ag velly y gwnaethant.

III.—Koel oedd frenin yn ynys brydain yna. ar olew hwnnw a gafas Defrig archescob y gyssegry arthur yn frenin. pan dynnodd y kleddyf or maen ynghaer fudei. ag or achos hwnnw y gorfu ef ar bob gormes. ai goron ef ai arfay yssydd uchel greiriay y frenhiniaeth. achos y gyssegry ef ar olew bendigeid or nef. ai roi y arthur i ddystrywio pob gormes anysbrydol oblith y saint ar kristynogion. ac yna y kollodd yr olew hwnnw heb wybod o neb ple r aethodd hyd yn yr amser y kiliodd Thomas o gaer gaing or du allan rag Henri frenin lloeger.

IV.—A thomas aeth at Alexander bab y ddinas sange. kans yno roedd escob Ruvein yr amser hwnnw. ag y dangossodd Thomas y kam gyfreithiaw oi ddaoedd Henri frenin ar freder y gwneuthur ai fol i ddaoedd Thomas nosswaith yn eglwys golwmbe yn gweddio. ar brenhines y morwynion. a ffoddi gras i frenin lloyger i garu Duw. ag i drugarhay wrth gyfiawn. ag ar hynny ef a welay yr arglwyddes fayr wyry ag eryr yn i llaw. a chrued o bann gwerthfawr yn y llall. ac yn roi y krued yn yr eryr. ag yn roi yr eryr yn llaw thomas. ac yn dywedyd wrtho. kymmer yr olew bendigedig i gyssegry rai o frenhinoedd ynys brydain ag ef. ag nid yr rai yssydd yr awr hon. nar rai y ddel nessaf. kans ysgymmyn ywr yr rai hynny. ag am i pechoday y kollant lawer oi kyfoythay. y brenin kyntaf a yrdder ar olew hwn. ef a gayff ag a enill drychefen a golles yr rai eraill. ag adeilad lawer demlay i dduw. ag a yr y paganied ar ffo o babilon. ag a gayff y fuddygoliaeth ar bawb. tra fo yr eryr gydag ef. Tithay thomas dos di adref. a thi a fyddy ferthur a sant.

V.—Yna y gofynodd Thomas i fayr pale y kadway ef yr eryr. ag yna y dywad mayr y may gwr yn y dref yma a elwir Wiliam vychan. a hwnnw a heniw o bicardi. o dref a elwir siprina. ai yru oi vynachlog ar gam a wneythbwyd. ag ef a fydd abad yno etto. a dyro di yr eryr yn i law ef. ag arch iddo i gyddyo yn y kornel nessaf ir gorllewin yn eglwys saint gregori dan faen marmor. a phennaf ar y pagannied fydd o achos kael yr eryr. a thomas a roes yr eryr yn llaw y mynach. ar hwedl yn yscrifennedig y gyd. ar mynach ai roes mewn kist blwm yn y ddayar. ag wedy hynny y ryfelodd sawden o babilon ar kristynogion yn ffest. ac ydd enillodd y tir bendigaid. ag yn gofyn yw dduwiau awnaeth ef parfaint a allay ef. i enill o dir kristynnogion.

VI.—Ar duwiau a ddywadassant y kerdday ef ragddo yny ddelay frenin y llewpartdiaid ar eryr eur ar gwyr arfogion gwedi sawdio o werth gwlan. a hwnnw a enill y tir ag a ddifa llawer or serssinied trwy wrthie yr eryr a nerth y gwyr a gafas y bara yn y ddiod. a ryfeddy a wnaeth sawden pwy oedd y brenin hwnnw. ag un or paganied a ddywot may brenin lloyger oedd hwnnw. kans tri llewpart o aur yssydd yni arms. a llawn o ddefaid yw. ag or yd y gwneyr y ddiod. ag yna y gofynodd sawden ir duwieu ple roedd yr eryr. a hwyntay a ddywedassant yn hysbys. ag yna y roed kri aoedd neb a fedrai y wlad honno i gyrchy yr eryr. Yna y dywaid marchog urddol o griston ag a oedd ynchar-char gydar sersinied. mae o bicardi hanoedd ef. ag yna y dywed sawden y kay ef i ellwng yn rydd. a chwbwl oi gydmeithion. er dwyn yr eryr iddo ef. ag addo a wellay arno gyda hynny a wnaeth. ag addo hynny a wnaeth y marchog. a chael yr eryr ar cruwed yn y gist blwm. a chael y hwedl dyrogan gydag ef. a ddywedassai fayr. Ag wedi darllen or marchog yr ystori honno. meddwl a wnaeth mae llai pechod oedd iddo dori i lw wrth y paganied pegan. na gwneythyr kolled ir kristynogion yn dragywyddol. a roi an ne . . . fendigedig or nef yn wylo anffyddlonion ag ankristynogion a dyfod a wnaeth i ynys brydain ar eryr. a roi i Henri frenin ag erchi i

gadw ymhlith yr uchel greirieu. ag nas rodday at neb. nes dyfod rybydd y gan Dduw fal y harchay fayr yn yr yscrifen. ac felly y gwneythbwyd. ar trydydd ai kymerth trwy ddwyfol rybudd yn y ddegfed vlwyddyn oi oed yn y deyrnas. ag wedy hynny ni wyddys pale i ddaeth etto hyd pan welo i arddangos. ac velly y terfyna ystoria yr olew bendigedig.

Llyma ddechreu Ystorya Gwlat Ieuan Vendigeit.

Llyma lyvyr a anvones Brenhin yr India y Amherawdyr Constantinobyl. yn yr hwnn y dyellir llawer o amravaelonn betheu odidawg. ag ynddaw y mae petheu newydd. a phetheu ny chlywyspwyt yn llyvreu ereill eiroet ag ny cheffir. A llyma grym y llyvyr hwnnw.

I.—Ieuan offeirat o gyvoeth a nerth Duw yn Arglwydd ni Iessu Grist. Brenhin y ddayrawl vrenhines. ag Arglwydd yr Arglwyddi. yr gwr y sydd yn lle Duw. nyt amgen y lywawdyr Rufein. y sydd yn anvon annerch a llewenydd o rat pryddest. a thrwy hynny gann ysgynnu ar betheu a vont uwch. ef a venegit wrth yn mawrwrdaeth ni y carut ti yn ardderchowgrwydd ni ar amled yn goruchelder ni. A ni a adnabuam drwy yn negeswas ni y mynit ti anvon yn ni petheu brywys a rei digrif. ag val yd wyf ddyn i. da yw gennif hynny. Ag or petheu einym nynheu gan yn negeswas ni nynheu a anvonwn petheu ereill y titheu. ag ni a anvonwn ag a ddamunwn wybot a oes gennit ti ffydd yawn y gyt a ni. ag a gredu yn hollawl yn Harglwydd ni Iessu Grist.

II.—Pann adnappo y rei einym ni yn bot ni yn ddynyon. y tebyg dy Roegwyr ditheu dy vot ti yn Dduw.

eissoes kann adwaenam ni dy vot ti yn varwawl. a darestwng o honat ti y dynawl lygredigaeth. o sit arnat ti eisseu dim o betheu a berthynant ar lewenydd. hysbyssa di trwy dy negeswas ti. ag o gynedig rybucheiddrwydd yn haelder ni. ti ae keffi. Kymer di yr anrec honn ym henw i. ag arvera di o honei. a nynheu yn llawen a arverwn oth anregion titheu. hyt pann vo velle yd ymgadarnnhaom yn nerthoedd ni wers dra gwers. ag yn arwyddon it ar hynny. meddylya di ag edrych or mynny dyvot at y genedyl yd henym ni o honei. ni ath ossodwn ar y petheu mwyhaf yn yn llys ni. ag velle di a elly arveru on amled ni. ac or petheu amhyl sydd yn yn plith ni. ag o mynny ymhoelyt drachefen. ti a ymhoelu yn gyvoethawg. Coffa hagen y petheu newyddaf. sef yw y rei hynny dy ddiwedd. ac ny phechy yn dragywydd.

III.—O mynny hagen adnabot yn mawrwrddyaeth ni. ag ardderchowgrwydd yn goruchelder ni. ac ym pa diredd yr arwyddocka yn gallu ni. dyall ti. a heb petruster cret ti vy mot i yn Ieuan offeirat. Arglwydd yr Arglwyddi. yn raculaennu holl vrenhinoedd y ddayar. o nerth a gallu yn holre oludoedd vry yssydd y dan y nef. Deuddec Brenhin a thrugeint y ssydd yn trethawl ymi. Minheu a roddeis ovunet vy mot yn Gristawn. gorchygnerth yn rybucheiddrwydd ni yw. y hamddiffyn ae cynnal on cardodeu ni. Goddunet hevyd yw gennym ni gofwy bedd yn Harglwydd ni y gyt allu mawr. megys y gwedda y ogonyant yn mawrwrddyaeth ni ddarestwng ag ufyddhau gelynyon croc Crist. a dyrchafel y enw bendigedig ef. ag y kerdda yn tir ni or India eithaf. yn yr honn y mae corff Thomas Ebostol yn gorffwys. a thrwy y diffeith yd ymystyn y gorllewin yr heul. ag yr ymhoel ar wyr y Vabilon diffeith gyr llaw twr Babilon.

IV.—Deuddeg Brenhindref a thrugeint a wassanaetha yn gaeth yni. ag odit o rei hynny y sydd yn Gristonogyonn. a phob un o honunt un y sydd ae brenhin trwyddi ehunan. a rei hynny oll y sydd trethwyr yni. yn yn tir ni y genir anifeileit. eliffeit. a dromedharu.

a chameleit. ag ypotamy. a chocodrilli. a metagalinarii. Cametenirii. Ownsirete. Panthere. Onagri. Llewot gwnnyon a chochyonn. eirth gwnnyon. a mwyeilch gwynnyon. keilogeu redyn mudyon. Griffones. Tygres. Lamie. Jene. Boves agrestes. Sagitarii. dynyon gwyllt. dynyon a chyrnn arnunt. chorniti. correre. Satiru. a gwragedd or un ryw genedyl a honno. Pigmei. cenofali. Kewri a deugein kufyt yn y huchet. dynyon unllygeidiawc. a cyclopes. ar ederin a elwir ffenix. a hayach hollre genedyl anifeileit or y sydd y dan y nef. Amyledd yssydd yn yn tir ni o laeth a mel. yghyfeir arall yn yn tir ni. nyt argywedda neb ryw wenwyn. ny chrogleissa llyffan. ni chwibana seirff ymywn llysseu. ni a allant anifeileit gwenwynig presswylaw yno. na gwneuthur argywedd y neb. Ymplith y ryw genedyl a elwir y Pagannyeit drwy neb un vrenhindref yni. y kerdda avon a elwir Idon. ar avon honno. wedy y del o paradwys. a gerdha yn afleu drwy y vrenhinyaeth honno oll o amravael gerddedeu. ag yno y keffir mein annyanawl. a llyma eu henweu hwy. Smaragdi. Saphir. Carbunculi. Topazion. crisoliti. Onichim. Berilli. Ametisti. Sardine. a llawer o vein gwerthvawr ereill.

V.—Yno y genir y llyssewyn a elwir Affidos. Pwy bynnag a arwedho gwreidd y llyssewyn hwnnw gantaw. ef a ffy yr yspryd drwg y wrthaw. ag a gymell arnaw ddywedut pwy vo. a phwy y enw. ag wrth hynny ny leveis yr ysprydoedd drwg yn y lle hwnnw lygru neb. Ym Brenhinyaeth arall yni y tyf yr hollre pybyr. ag y kynnullir. ag y kyfnewidir wynt yr gwenith. a chrwynn. a brethyn a ymborth dynyon. ar tiredd hynny tiredd coedawg ynt megys helygog dew. ag yn llawn oll o seirff. a phann aeddvet y pybyr. y doant y pobloedd oll or brenhinaethau nessaf. ag a ddygant gantunt us a mynws. a gwrysc sych. ac yr enynnant y coet gylch o gylch. a phann vo dirvawr wynt yn chwythu y dodant tan o vywn ag o vaes yr coet. hyt na allo un or seirff vynet y maes. ag velle y mywn y tan. wedyr ennynner yn gadarn y bydd marw y seirff oll. onyt y rei a gaffa

y gogofeu. A gwedy y darffo y tan oll y deuant pawb. a gwr a gwreic. a bychan a mawr. a phyrch yn y dwylaw. ag y doant yr coet. ag y byryant y seirff oll y maes or coet. ag y gwnant gruceu uchel o honunt hyt yr awyr. A gwedy y darffo uddunt ysgytwaw y mynws hwnnw. y sychir y grawn a gynnuller o blith y briwydd hynny. ag y berwir y pybyr. Pa ffuryf hagen y berwir ny edir y ddyn gwlat arall y wybot.

VI.—Ar coet hwnnw sydd ossodedig y dan vynydd Olimpy. ag oddyno y mae ffynnawn ardderchawg yn dyvot. a phob ryw vlas y ssydd ar y dwfyr hwnnw. a symut y vlas a wna ym pob awr or dydd ar nos. ag oddyno nyt pellach noc ymdeith tridieu y wrth Paradwys. or honn y gyrwyt Addaf o honei allan. Pwy bynnag a yfo o ddwfr y ffynnawn honno ar y gythlwng. ny ddaw klevyt iddaw allan or dydd hwnnw. ag yn dragywydd y bydd un oedran degmlwydd ar hugeint. Yno hevyt a mae mein a elwir midiosi. a rei hynny a ddwg eryrot parth ag attam ni. a thrwy y rei hynny yd atnywockaant hwy. ag y caffant y lleufer gwedy as collont. Pwy bynnac a arwedho y maen hwnnw ar y law. ny ddiffyccya lleufer vyth iddaw. ac or mynn ymgelu. ef a wna nas gwelho neb. Ffo cas a wna y wrth pawb. ag annog kyfundeb. a gwrthladd kyghorvynt. Llyna hevyt beth ryvedd y ssydd yn gwlat ni y gyt a phetheu ereill. Mor tywawt y sydd yno. ar gro yn kerddet heb ddwfyr. ag ef a leinw yn tonneu megys mor arall. ag ny orffwys vyth. ag ny ellir vynet arnaw ar veis. nag o un wedd arall. na phyryw tir y sydd or parth draw iddaw. ny ellir o un ffordd y wybot. Ef a geffir hagen y parth arall attam ni amryfael genedyl o byscawt kefelysset. a chystal ag na welas dyn eiroet y kystal.

VII.—Y mae hevyt ar ymdeith tri diwarnawt or mor hwnnw ryw vynyddedd. y daw avon o honunt o vein. a hynny yn redeg megys dwfyr. a thrwy yn tir ni y ret hyt y mor tywawt. Ag wedy el yr avon yn y mor y difulanna y mein hyt na welher vyth o hynny allan. Tri diwarnawt yn yr wythnos y kerddant ag y

llithrant y mein. rei mawr a rei bychein. ag y dygant gantunt rei wydd hyt y mor tywawt. a thra vo yn kerddet ny eill neb vynet drosti. y pedwar diwarnawt ereill y keffir ffordd. Llyma ryveddawt arall. y sydd yno gyr llaw y diffeith yn emyl y mynyddedd ny phreswyla neb yno. y mae avon y dan y ddayar. ac ny cheiff neb ffordd iddi onnyt damwein. ef a egyr y ddayar weitheu. a phwybynnag yna a vo yn kerddet heibyaw. ef a geiff ffordd ir avon. ag ar ffrwst y mae rhaid iddaw kerddet. rac attoeth cayu y ddayar arnaw. a pha beth bynnag or tywawt a ddycko gantaw. mein gwerthfawr vyddant. a gemmeu. Ar avon honno a gerdha hyt y mywn avon arall moe no hi. ag yn honno nyt oes dim or gro nar tywawt. namyn mein gwerthvawr. ar avon honno yd a dynyon y wlat honno iddi ag y tynnant. ag y gantunt y dygant odyno amyledd o vein gwerthvawr a gemmeu. ag ny lyvassant wy werthu y rei hynny pann y mynaccont yn gyntaf yn ardderchogrwydd ni. ag or mynnwn ninneu hwy ymplith yn heurgrawn ni. ni ae kymerwn. ag a roddwn uddunt hanner y gwerth. Os ny mynnwn ynheu. rydd yw uddunt wy y gwerthu yn y lle y mynnont. Ef a vegir meibon yn y wlat honno wrth geissaw y mein megys y gallont vot yn vyw dan y dwfyr tri mis neu pedwar.

VIII.—Y parth draw yr avon veinawg honno y mae deg llwyth or Iddeon. kyt tebycont wy eu bot yn vrenhinedd. eissoes keith yni ynt wy. a threthwyr yn ardderchogrwydd ni. Y mywn brenhinaeth arall yni. gyr llaw y lle y bydd yr ynys. y mae pryvet. a elwir yn yn ieith ni Salamandre. Ar pryvet hynny a allant vot yn vyw namyn y mywn tan. a chrwyn a vydd yn eu kylch megys crwyn y pryvet a wna y Sidan. a nyddu y rei hynny yw gweith arglwyddesseu yn llys ni. ag o hwnnw y gwneir pob ryw arver yn yn ardderchogrwydd ni. Ar dillat hynny ni ellir eu golchi namyn y mywn tan mawr kadarn. yn eur ag aryant. a mein gwerthfawr. a dromedaryeit a chameleit y mae amylder yn eglurder ni. Ni bydd ychennawg neb yn

yn plith ni. dyn got ny cheffir yno. pawb o ddynion gwlat arall. nyt amgen gwesteion a phererinyon a ervyll yn ynawster ni. Lleidyr na threisswyr nag aghawr ni cheffir yn yn plith ni. nyt oes neb ryw gynghorvynt yn yn plith ni.

IX.—Amyledd o bob ryw oludoedd y ssydd yn dynyon ni. nyt amyl meirch yn plith ni. a meirch dielw vyddant. Ni thebygwn ni neb ar y ddayar kyffelyb yni o oludoedd. Ban elom ni aryfel yn lly yd erbyn yn gelynyon teir croc ar ddeg mawr ardderchawg. gwedy eu gwneuthur o eur ag aryant. a mein gwerthvawr ynddunt. un ym pob kerbyt yn lle arwyddon rag yn bronn ni a barwn eu harwein ag yn ol pob un ohonunt. Deuddeg mil o wyr arvawg. a chan mil o bedyt o wyr ymladd heb a vo wrth y pynn vil. ag ynkylch dwyn bwyt a diawt. Pan gerddom nynheu hagen ar yn heddwch rac bronn yn mawrwrdaeth ni. y racvlaena crog brenn heb ysgrythyr yn y byd arnei noc o eur noc o aryant. hyt pann cof del yni yn preswyl dioddefaint yn Harglwydd ni Iessu Grist. a llestyr yn llawn o bridd. hyt pann adnappom ni mynet on cnawd ni yn y briawt vonedd. sef yw hynny yn bridd. a llestyr arall yn llawn o eur a ddygir rac yn bron hyt pan ddyallo pawb yn bod ni yn Arglwydd yr Arglwyddi.

X.—Or bob ryw oludoedd or y sydd yn y byd yd amlha ag y racvlaena yn mawrdaeath ni. Ni ddyweit neb gelwydd yn yn plith ni. ag ni eill neb y ddywedut. a phwybynnag a ddywetto gelwydd dan y wybot iddaw. ar hyt y byd marw. ag ny delhir adlo ymdanaw. Pawb o honam ni a erlynn y wironedd. a charu a wna pawb o honam ni y gilydd. wers tra gwers. ny wledycha neb ryw bechawt yno. Pob blwyddyn yd awn ni y pererindawt yr lle y mae corff Daniel Prophwyd. a lluoedd mawr y gyt a ni y Babilon diffeith. a hynny yn arvawg. o achaws aniveileit a elwir tygryddot. a ryw seirff ereill a elwir deviles. Yn yn gwlat ni y dellir ryw byscawt. ag o waet y rei hynny y lliwir y porffor gwerthussaf.

XI.—Llawer o leoedd y sydd yni. kenedylaeth

ddewraf yn y byt. a hagyr. Ni a arglwyddockawn y kenedloedd a elwir Amazoneit. a Bragmanyeit. Y llys y presswyla yn ardderchogrwydd ni ynddi. a wnaethpwyt ar ansawdd a chyffelybrwydd y llys a urddassawdd Thomas Ebostol y Wyndofforus brenhin yr India. ae yspoydeu ae hadeilediga etheu yn hollawl kyffelyb yw iddi. Pyst y neuadd ae hystyffyleu ae phethyneu a hennynt o ryw brenn a elwir cethim. Toat y neuadd a henyw o ryw lysseu a elwir hebenus. sef achaws yw hynny hyt na aller o neb modd yn y byd y llosci. Ar y kyrreu eithaf ar pen y neuadd honno y mae deu aval o eur. ac ym pob un ohonunt y mae maen gwerthvawr a elwir carbunck. hyt bann oleuhao yr eur y dydd. ar mein y nos. Y ranneu mwyhaf or neuadd a henynt or mein a elwir Sardonici yn gymysgedig a cerastes. sef achaws yw y hynny. hyt na allo neb yn lledrat ddyvot a gwenwyn gantaw y mywn. Petheu ereill or neuadd a henyw or llysseu a elwir hebenus. Y ffenestri a oeddynt o vein cristal. Y byrddeu y vwytta arnunt yn yn llys ni. rei o honunt eur ynt. ag ereill o vein gwerthvawr Amestic. Yr ystyffyleu a gynneil y byrddeu o ascwrnn morvil ynt. Rac bronn yn llys ni y mae heol. yn yr honn y gnottaa yn gwironedd ni y edrych ar ymladdwyr yn ornest. Penn y neuadd ae pharwydydd a henyw o onichino. sef achaws yw hynny. hyt pan gychwynno hynny yn ymladdwyr o nerth y mein. Yn y neuadd honno ni ennynnir goleuat y nos. namyn a vacco yr ireit gwerthvawr a elwir Balsamwm.

XII.—Yr ystafell y gorffwys yn goruchelder ni ynddi. a gyweirwyt o weith curyfedd. a hynny o eur. a phob ryw vein gwerthfawr or byt. ytmus. achos ragor maen onichinus yn lle goleuat. Ygkylch hwnnw y gwneir gweith pedryfual kymeint ag ehunant hyt pann vo o nerth y rei hynny yd ardymherer enwiredd y maen onix. Ireit gwerthvawr a lysc yn wastat yn yr ystavell honno. Yn gwely ni a henyw o saffir o achaws nerth diweirdeb. Gwragedd teckaf yn y byd y sydd yni. ag ny ddoant attam namyn pedeir gweith yn y

vlwyddyn. o achos etiveddu. a gwedy hynny yd ymhoel pob un yn y lle yn gynnyachet a bersabe y wrth Dafydd.

XIII. Un weith yn y dydd y bwytteir yn yn llys ni. ag ef a vwytta beunydd ar yn bort ni ddeg mil ar hugeint o ddynyon. heb a el ag a ddel o westeion. A rei hynny oll a gymerant y cost oc yn llys ni ag ar veirch. ag ar pethau ereill. Y vort honno a henyw or gwerthvawr vaen a elwir ysmar-l agdus. a honno y mae deu ystyphwl yn y chynna o Ametist. nerth y maen hwnnw yw ny at heb y veddwi. tra vo yn eistedd arnaw. Rac bronn amhmogeu yn neuadd ni gyr llaw y lle y mae yr onestwyr. y mae disewilua ddirvawr y huchet. ag y dringir iddi drwy pumb gradd ar hugeint a chant. ar graddeu hynny. rei o honunt a henyw o vein portfiret gwedy kyffinyeu o waet seirff ag ireit alabawstrwm. y trayan issaf y rei hynny a henyw o vaen cristal a jaspis. a sardim. a rann arall uchaf a henyw o ametist ag ambra a jaspis a sardonic a phanthera. Y ddisewylva honn a gynnhelir o un post. ag ar hwnnw y bydd bas. sef yw hynny ryw weith maen a elwir velle. ag ar y bas hwnnw dwy colofn. sef yw y rei hynny breicheu. ag ar y rei hynny bas. ag ar honno pedeir colofn. ag elchwyl bas ag ar honno un vreich ar bymtheg. ag velle y kerddir ar y gweith yn y ddelher y ryvedi pedeir colofn a thrugeint. ag oddyna y lleiheir rif y basseu. ar colofneu hyt pann ddelher ar un. a hynny gan ysgynnu y vynyd megys yd amlhawyd gynt yn ysgynnu hyt ar pedeir a thrugein.

XIV. Y colofneu hagen ar baseu o un ryw genedyl vaen gwerthvawr ynt. ar gradden yd ysgynnir drwyddynt yn gornelder. y golofn uchaf y mae disewylva yn ossodedig o ryw gelvyddyt radlawn. hyt na eill neb yn yr hollre tir y sydd darystyngedig yn ni. gwneuthur dim yn hollawl na thwyll na brad. na chyfarwyddon yn yn erbyn ni. neu y rei cinym ni. na wellher or disewylua honno yn amlwg. ag eu hadnabot pwy vont na pheth a welhont. Ef a vydd yn wastat yn cadw y ddisewylva honno teir mil o wyr arvawc ddydd a nos. rac o ddamwein gallu y thorri neu y bwrw yr llawr.

XV. Pob mis yn y vlwyddyn ef a vydd seith brenhin yn gwassanaethu ym pob un o honunt yn y urddas. ag o tywyssogyon ddeu a deugeint. O'ieirll un ar bymtheg a deugeint a thrychant. Y rysedi hwnnw a vydd yn wastat ar yn bort ni. heb y rei a vo gossodedig yn amravaelon wassanaetheu yn yn llys ni. Ar y bort ni y bwyttaont beunydd. ar y deheu ddeu-ddeg archescob. ag ar y llaw asseu ugein escob. a phedri arch or lle y mae bedd Thomas Ebostol. ar gwr y sydd yn lle pab.

Hystoria Idrian Amherawdyr ac Ipotis Ysprytawl.

I.—Llyma y llyver a elwir Ipotis. sef yw hynny Doethineb Ysprytawl. Pwy bynac a vynno dysceu doethineb ag ysprytolion orchestion. gwrandawed ar yr ymdhidhan ar amovyn a vu rhwng Epoptes ar Amherawdyr anghredadyn gynt oedh yn Rhuvein Vawr. a hwnnw a alwyd Adrian Amherawdyr. Sef y doeth mab adhvwyndeg ag yspryt nefawl ynddaw. a gostwng ar dal ei lin ger bronn yr Amherawdyr a chyfareh gwell iddaw a oruc y mab o garedigawl lewenydd. Ar Amherawdyr ai hattebodd drwy uvylltawl waredog-rwydd. ac a ofynnodd iddaw y pa le y pann doethoedd. Ar mab a ddywawt. neur deuthum y wrth vy mam am tad yssydd oruchaf Justus. y ddysceu dynyon anneallus ansynwyrol. Poet cyflawn vych ditheu o gyfreitheu Duw ai ddoethineb. Pwy sy ddoeth. eb yr Amherawdyr. Doeth yw. heb y mab. y neb a amochelo rac pechodeu marwawl. ag a ennillo nefawl drugaredd. Oth gyfarchaf vab. heb yr Amherawdyr. Pwy yw dy enw di. Epoptes ym gelwir eb y mab. o achaws gwybot o honaf gyfarwyddyt nefawl. Dywet ym vab.

eb yr Amherawdyr. beth yw nef. Rin a dirgelwch Duw. Py beth yw Duw. eb yr Amherawdyr. Duw sydd heb ddechreu iddaw. ag a vydd heb ddiwedd arnaw.

II.—Yr Amherawdyr a ofynnawdd yr mab. Canwyf mor anhyspys. dywat pa air gyntaf a ddoeth o eneu Duw. Y map a ddywot. y mae evengil Ieuan yn testu mae In principio erat verbum. sef yw hynny. yn y dechreu yd oedd y geir. sef yn y Tad Dduw yr oedd y mab. canys geir Duw oedd y mab. a chyt ar geir yd oedd y Tad ar Mab ar Yspryt Glan. ar teir person yn y Drindawt. ag yn un Duw. ag ni ddigawn yr un o honunt vod ywrth y gilydd. Yr Amherawdyr a ddywat yna. O vab teg. ti a vuost yn y nefoedd. Bum heb ef. By sawl nef yssydd yr hollgyvoethawg Dduw. Seith nef y maent. ag yn y nef goruchaf ysydd y mae y Drindawt o nef. y Tad ar Mab ar Yspryt Glan. ar teir person val y dywetpwyt uchot. Y maer Drindawt y Tad ar Mab ar Yspryt Glan yn un ac yn dri. ag ni ddigawn neb lleyc na yscolheic ddyall veint y llewenydd yssydd yno. hyt pan yspeiler oe lewenyd dydd brawt.

III.—Yr eil nef yssydd is o radd dann hynny. ac yno y mae llewenydd a digrifwch cymeint. mal na ddigawn neb ei draethu. Y drydedd nef yssydd yn llewyrchu mal grisial llewychedic. yn llawn o lawenydd damunedic. o achwysson perigloryon. a gwyryfon. achonffessorieit. yn canu moliant a gwasanaeth y Dduw hollgyvoethawc or nef. Y bedwaredd nef ywr nef eurawl. yno y mae llewenydd ysprytawl. ac amravaelion mein gwerthvawr rhinweddawl. a phlas gossotedic ynghyfeir y rhai tlodion. a rhai gwirion. ar gweniaid. ac yno digrifwch heb dristyt. ac iechyt heb ddolur. a goleuni tragwyddawl heb dywyllwch. Y bumed nef hirvaith a llydan yw. lle y mae dwyvoliaeth ysprytol. a christianogawl verthyri. a dioddefeint Crist. ac ony bei ei ddynolyaeth ef ai ddioddefeint. neur athoedd y byt ar gyfyrgoll y gyt.

IV.—Y chwechet nef ywr ecclwys lan gatholic. yn

lle mac bydhinoedd dwyvawl yn canu dedhvawl wasanaeth yn herwydd eu hurddas y Dduw. ag yn llawn o engylyon yn kanu molvant y Dduw hyt ddydd a nos heb orphwys. Y seithvet nef yw Paradwys. medd yr ystoria. yno y bydd yr eneitieu yn gorphowys. pann ddarffo eu purhau o boeneu purdan yn gwbyl ac yn ddidramgwydd tragwyddolter. Llyma. heb y mab wrth yr Amherawdyr. y seith nef. y maent yn eiddaw ein Iachawdur ni Iessu Grist. Yr Amherawdyr yna a ovynnawdd yr mab. pa sawl crefydd angelyon yssydd yn y nef. Dec heb y mab. Y maent yn y nef o engylyon naw crevydd. Cyntaf yw Cherubim. Sef yw hynny. angel y kanhorthwy. yr eil yw Seraphin. ar trydydd yw throni. Y pedwerydd yw dominationes. neu arglwyddiaetheu. ar punet yw tywyssogaetheu. ar hwechet yw meddianneu. ar seithved yw nerthoedd. sef yw hynny rinweddawl grevydd. Ar wythvet yw engylyaeth. ar nawvet yw archangylyaeth. ar ddegvet yw crevydd cnawdawl. ag o honunt cyflawn vydd y plas. A nef arall yssydd islaw hynny. a golles Lucifer am y gamsyberwyt. ag yno y bydd dynyolyaeth yspry-tol bendicedic. yn tywyssawc kyfyawn ni.

V.—Yna y govynnawdd yr Amherawdyr yr mab. Pa beth a wnaeth Duw y dydd cyntaf. Cyntaf y goruc ef engylyon nef. ag archengylyon. a hynny a oruc ef ar ddyw sul. Dyw llun y goruc ef yr wybren. ar lleuat. ar heul. ar syr. y roddi goleuni ohonunt. a dyw mawrth y gwnaeth Iessu y moroedd. ar tiredd ar ffynhoneu. ar dyfroedd hallt a chroew. y ardymheru y ddayar yn galet. ac yn nowsaidd er tyfu coedydd a llyseu ar glaswellt. a phob peth ffrwythlon daearol. Dyw mercher y goruc ef y pysgot yn y dyfroedd. ar ednot yn yr awyr y ehedec. ac erchi uddynt vynet o gylch y byt oll. y gynhorthwyaw y ymborth y gnawdolion ddynion. A dyw ieu y gorug Crist yr holl yscrubyl y tir gwyllt a dof. a rhoddi tiroedd a mynyddoedd a bywyd daearol uddunt. y nerthu ymborth yr dynion plant Adda. ac erchi uddunt troi dynyon y da presennawl. Dyw Gwener y goruc

ef Adda ar ei lun ai ddelw ehunan. a dodi enaid yddaw a rhat yr Yspryt Glan. ai wneuthur yn arglwydd ar paradwys. ag o asen y Addaf y gwnaeth Eva. ac ai rhoddes yn gymhar yddaw ymharadwys. A dyw Sadwrn. wedy meddylyaw o honaw bob peth. y bendicodd ef y weithredoedd. trwy ewyllys da. oedd yn uchel ag yn isel. ag erchi uddunt amlhau pob un yn y van ohonunt. Dyw Sul rac wyneb y gorffwyssawdd Duw. brenhin nef a daear. ac a erchis y bob dyn ar a vynnai rann oi weithredoedd ef. gymeryd yn ei gof orffwys y dydd hwnnw o hynny hyd dydd varn. ac ymogli rac pechodeu marwawl. a gwasanaethu Duw ar ecclwys lan gatholic.

VI.—Hyn a ddichawn bot yn wir oll a ddywedi di ymi. a dywedi di ymi pwy ywr gwr ny anet ac a vu varw. Y mab a ddywawt y mae Addaf a roddes Duw iddaw vywyt ym paradwys. ac ae gwnaeth oe law ehun. Yr Amherawdyr yna a ofynnawdd ir mab drwy lewenydd a wyddiat ef o ba sawl amryfal defnydd y gwnaethpwyt cnawt dyn ohonunt. Y mab a ddywawt. y mae seith defnydd. nyt amgen. pridd a dwfyr. awyr. tan. heul. gwynt. a mein gerllaw y mor. a hevyt or yspryt glan. Or pridd y gwnaethpwyt cnawt dyn. ag or dwfyr y waet. or tes y wres ai anian. or awyr y synwyr. or heul ei galon ai olwc ai gampeu da. or mein ei escyrn. or gwynt ei anadl. ai eneid o rat yr yspryt glan. Ar neb a vo ynddo y rhann vwyaf or ddaear. amdrwm ddiawg gystuddedic vydd ei veddwl ai weithret oherwydd annyan ddaerawl. ag amdrwm ei veddwl ae weithred.

VII.—Ar a vo mwyhaf y defnydd ynddaw or dwfyr morawl a vydd llafurus trablyddus. gyghorvynnus. chwenychus am tir a dayar a golud presennawl. a hynny vydd palledic iddaw wrth y reit or diwedd. o achos vot yn kynnebic golut dayarawl y lanw a threi. herwydd anwadalrwydd. Pwybynnag a vo ynddaw y defnydd mwyhaf or gwynt. ef herwydd annyan a vydd amyskawn a gorwyllt yn y gallonn. ag yn y veddwl. o ddywedut anosparthus eirieu. heb ddyall heb synwyr ynddunt. Ar neb a vo ragor yndhaw o ddefnyddyeu yr awyr.

herwydd annyan. doeth a synhwyrol a chanmoledic vydd ei eir ai weithret. Ar neb a vo ynddaw y rhan vwyaf or heul. aruthyrgryf ac amhwyllog vydd. a gwresawc ymyscawn ac efurivet. Ar hwn a vo ynddaw ragor or tan. glew a thanbaid ac ymladdgar vydd. a gwresawc ei gnawt. Ar hwn a vo ynddaw ragor o ddefnydd y maen. ef a vydd gwastadawl ei veddwl ai weithret. a da vydd ei synwyr ai gof. a chywir ei air ai weithret. a da vydd mewn llavurboen. a glas vydd lliw ei gnawt. Ar neb a hanffo ynddaw vwyhaf o ddefnydd y gann yr yspryt glan. ef a vydd kyflawn y gallonn o veddwl da a geir prudd. a gweithret dda kyfyawn wrth dlawt a noeth. a charu Duw. a gwneuthur gweithredoedd da a wna. ac amrafaelon benydyeu.

VIII.—Yr Amherawdyr a ovynnawdd yr mab. pa beth oedd mor. y mab a ddywawt mae ffordd wylltveith y cherddet. ti a elli vynet ynddaw kynngybellet ag na ddelych byth dracheven yr tir. Oth kyfuarchaf vab synnhwyrawl. heb yr Amherawdyr. py amser y gwnaeth Addaf y kam y gyrwyt ef oe achos o paradwys. Y mab a ddywawt mae rhwng awr anterth a hanner dydd y colles Addaf ei valchder. ag y gyrrawdd agel cannhorthwy ef a chleddeu awchlym gloew tanllyt y ddiffeithwch ynial. y wledychu byth ef ai eppil yn dragywydd y mewn gofeilueint. a gouut engiriawl.

IX.—Truan vu y Addaf. heb yr Amherawdyr. bot yn gyffolet a hynny. py sawl pechawt a oruc Addaf. pan gymerth ef cnawt yn ryceni ni. Seith pechawt marwawl gyt ae ragoreu. heb y mab. a gogelet pawb racdunt. sef ynt y rhai hynny. syberwyt. lleiddiat. kamgret. glythineb. kynghorvynt. llesgedd. a diogi. a lledrat. Pa ddelw y gwnaeth ef y seith bechawt ar unweith. Ynkamsyberwyt y pechawdd Addaf. balch ac angharedic vu pan wnaeth ef ewyllys y cythreul. a thorri gwaharddon Duw. Lleiddyat dogyn oedd ef pann laddawdd ei eneit ehun. ai eppil yn ei ol. Agkredadwy oedd ynteu. o achos iddaw wneuthur gorchymmynheu y kythreul. a chyfulenwi y holl ewyllys. Y glythineb y pechawt ynteu. yn honnedic. pann lewas

ef yr afal a waharddawdd Duw rac ddaw. ag rac y wreic. Kynhorvynnus chwennychawl oedd ynteu. pann chwennychawdd moe noc a oedd reit iddaw wrthaw. ag ef yn meddu yr holl baradwys.

X.—Lleider oedd ynteu pann gymerth yr afal gwaharddedic oddiar Dduw. a dylyedus oedd iddaw ddioddef angheu am y ledrat. Diawc vu ef panna allodd godi oddiyno. gwedy yr oer weithret hwnnw. ony dhaeth Duw ehun atto. a gofyn yddaw. beth a wney di weithon. Ynteu a ddywawt. arglwydd mi ath glywaf yn dywedut yn eglur. ac ydwyf yn annobeithyaw am dy welet. Yno y govynnawdd Duw y Addaf. paham y gorugeisti ti hyn o weithret gwaharddedic. Addaf a ddywawt wrth Dduw. Eva vyngwreic a roddeist yn gymar ym. a erchis ymi wneuthur hynn. Eva a ddywawt yna. y neidr heb yr hi. a wnaeth ym wneuthur y gweithret hwnnw. ag am hannoges. ag am twyllawdd. Yna y govynnawdd Duw yr neidr. paham bryf budyr uffernawl y pereisti uddyntwy bechu val hynn. Y neidr kythreulawl a ddywawt yna wrth Dduw. kenvigen oedd gennyf veddu o honuntwy ar lewenydd paradwys. yr hwnn a gollais i am vynkamsyberwyt. Yna y dywawt Duw wrth Addaf. o achos dy gamweithret. ti a lewi dy ymborth drwy chwys a llavur a gwres ag oervel or dydd hwnn allan. ag oddyna y dywawt wrth Eva. am dy gam annog ditheu ar y pechawt hwnn. titheu a vyddi dan oruchgwr a chystegeu govalus. dan amarch a gofal. ag a ddygy ffrwyth drwy ronan a chwynfan. a gloesion angeu gofalus. ti a chwbl oth eppil or dydd hwnn allan.

XI.—A gwedy hynny y dywat Duw hollgyvoethawc wrth y kythreul oedd yn rhith neidr. tydi bryf uffernol wyt yn gwneuthur provedigaetheu ar ddynyon. ag am hynny ti a ymlusgi ar dy voly o hynn allan. a phawb or ath welo a fydd ofnawc rhagddot. ac a vydd dygasoc yti. hyt pann ddelych y bervedd y ddayar. Ac yna y dywawt Duw. morwyn addvwyn a enir ar hynt. a honno a ddistryw dy holl allu di. ath holl veddyant y gyd. Yn y modd hwnn gwledychawdd Addaf ddeuddeg

mlynedd ar hugeint a nawcant pan vu varw, y uffern yd aeth, ae holl eppil gyt ag ef, ac ef a fy eneit Addaf yn uffern. ag eneidieu ereill. pedeir mil o vlynyddoedd a chwechant a phedeir blynedd a seith awr. ag yna hollgyvoethawg vrenhin nef a anvones radeu yr yspryd glan. ag a ddisgynnawdd yn bry yr arglwyddes veir vorwyn. heb achos nac gweithret kytknawt. Deuddeg mlynedd ar hugeint a hanner blwyddyn y bu Iessu yn kerddet yn y byt hwnn. a deugein niwrnawt yd ymprydyawdd ef tros bobyl y byd. a gwedy hynny y daliawdd yr Iuddewon Iessu Grist. ac y dodet ar y grog. ag y prynawdd ynteu ni yr creu y gallon. a gwedy hynny ef a ysgynnawdd y uffern. y ostwng meddiant yr holl gythreuleit. ag a ollyngodd Addaf ag Eva or rhwymedigion boeneu yr oeddynt ynddunt. a llawer o eneidieu hevyt. nyt amgen Dafydd Broffwyd. a Moesen. ag Abraham benn ffydd. ar sawl a oedd oll tan gaethiwet hevyt. ef a kynnwysawdd ym Paradwys. lle y mae llewenydd tragywyddawl heb orffen arnaw.

XII.—A gwedy kychwynnu o Iessu o veirw yn vyw. yd usgynnawdd ar nefoedd. ag y mae yn eistedd ar ddeheu Duw tat hollgyvoethawg. yn Dduw gwir. ag yn wir ddyn. ag oddyno y mae yn barnu. ag y daw ddyddbrawt. y varnu ar bawb herwydd y weithret priawt. ag yna ffol vydd y neb nyt ofuynnhao. ac ny bo brewychus erbyn y dydd hwnnw. Y Cristonogion bucheddawl a ant yr llewenydd. ar rei ereill drwg eu ffydd a ant ir poeneu. Heb yr Amherawdyr. llyna ddillyngdawt teg. Oia vab synnhwyrawl. heb ef. py bwnc y twyll y kythreul ddyn bydawl. ag yr haredd yr eneidieu y uffern. Y mab y ddywat. y mae seith pechawt. a lluossawg ynt ymplith y knawdawl ddynyon. Cyntaf yw o honunt meddwl drwg ygkallon dyn. Ar eil yw. lladd kelanedd yn wirion. a hynny a ddwg dyn y mywn honnedigaeth ddrwg kewilyddus. ac onny chyffesa hynny yn gwbyl. ef a a y eneit yr brydreddyonn boeneu. Kamsyberwyt yw arall. Glythineb. godineb yw un or rei gwaethaf. Kygkorvynt yw pechawt chwenychawl. a drwg yw. ag a tynnant yr eneideu y uffernawl boeneu.

XIII.—Yn ystoria Pawl ebostol y mae yn dywedut. keluyddyt wrth boeneu uffern. Kynghorvynt yssydd blas iddaw chun gwahanedig. val ffynnyawn o bres. yn llawn o grochaneu yerin. ag y edi yn lloski yn amlwg. a phann gyffroo. y bydd godwrdd mawr val trysteu yn yr awyr. ag yn gyfulawnet o eneidieu ag y gallont vot. a than gwyllt yn llosci a gyfuarcho ag ef. Kynnhebig yw chwant bydawl i olwyn benn. gwr yn y ieuegtit yn ennill campeu. a chlot. ag yn ymroddi oll y gynghorvynt. a chwant. kenfigen. a hevyt am hanner y oes. na pheidei yna. namyn y threulaw velle hyt y diwedd. yn ddiheu ony pheid. ef aa y eneit yr poeneu. o achaws kyghorvynt hwenychawl nyt oes ben iddaw. mwy noc i olwyn. Kamsyberwyt yssydd aruthyr ddrwg. balchg yw ag a gollasant yr engylyon teckaf. a oedd yn y nef. ag egluraf. ag addwynnaf. o achaws y kamsyberwyt. llewenydd nef. ae diheiniaw yn gythreulig gofutdron yn uffern. ag ettwa y maent rei o honunt ymplith y dynion bydawl yn y troi y ar eu hysbrydolyon veddylyeu. y ymrwymaw y mywn pechodeu marwawl. ag o achaws hynny kyffesa di gamsyberwyt. Pan vo dy anustyr gorff yn y ddayar yn guddiedig. ar pryvuet yn bwytta dy ystlysseu ath cnawt a ryuuassei ryvygus. ath eneit yn rwymedig ovudyus. ag yna y gelly ti vot yn ofualus o vot eiroet kamryfyg yth gallonn. canys ffieiddaf pechawt ygkyvreith Dduw yw camsyberwyt.

XIV.—Godineb ywr gwaethaf uwch y ddayar or pechodeu ag amrypheiddaf. Ef a debig hocrellwr godinebus na anet ar eilun dyn neb cyn ddigrifet. a chygampusset ag ef. ar kyffredin wragedd godinebus a ddygant liaws o ddynyon y uffernawl boeneu. yn yr ysgrythyr lan. y mae yn dywedut. y mae rwyt gythrculig yw godineb. Glythineb sydd ry gyffredin ymplith y bobloedd ysywaeth. pan vwynt veddw. y keiff y cythreul veddyant ar lawer o honunt. pann tyngont y waet Duw. ae archolleu yn over. ag y ddioddeiueint. ag am hynny y kaffant wy emelldith Duw. ag ony chyffesant y glythineb a orugant ygkatkoreu. a chynn offerenneu yggwyleu arbennig. wynt a gaffant swyddeu yn uffern.

XV.—Am ddywedut. heb yr Amherawdyr. Py beth a rwystra y ddyn wneuthur penyt. a bot unolyaeth yr yddaw an yechawdur ni. Y mab a ddywat yna. y mae petwar pwnc. nyt amgen llesgedd. annobeith. kewilydd. petwerydd yw. na chrettei bot Duw hollgyvoethawg mor drugarawg ag y mae. canys or cyffesa dyn yn llwyr gwbyl y bechodeu. ny ddial Duw y weithredoedd kyssuledig arnaw. Yr Amherawdyr a ovynnodd yr mab. Pa beth vwyhaf a ddwg dyn y lewenydd nef. Y mab a dywat. mae geir da kywir prud. a meddwl kyfuyawn. a gweithret dda adnabyddus. Ny orucpwyt eiroet weithret dda ny bei veddwl da ar y dechreu. ag ny orucpwyt eiroet weithret ddrwg ny bei veddwl drwg ar y dechreu. Pwy bynnag a vo gantaw jeith eglurdda. ac alon yn mynnu dial arnaw. ef a ddigawn o synnwyr jeithdeg oc elyn gwneuthur yn getymeith. velle o un weithret gobrwyawl y dichon dyn ennill trugaredd nef.

XVI.—Am ddywedut vab. heb yr Amherawdyr. Py sawl angheu a ddaw y ddyn? Y mab a ddywat mae tri angheu. cyntaf o honynt yw angheu bydawl knawdawl. a wahanaa y corff ar eneit yn gadarn. ac yn ffyrf. Yr eil yw angheu kywilyddus. sef yw hynny. dyn y vo marw mywn dylyet gofeindus. neu honedigaeth ddrwg oganus. Y trydydd angheu yw angheu a ddel yr neb ny chaffo gyfurannu o weithredoedd Iessu Grist. cynn gwahanu y corff ar eneit or byt yma. hevyt y govynnawdd yr Amherawdyr. py sawl pechawt. heb y kyffesu tu ac ar Duw. a ddwg dyn heb gaffael maddeuant nefawl? y mab a ddywedoedd. y mae deu bechawt. un o honunt yw kamgret. na chretto dyn yn ffyddlawn ddiskyn Iessu Grist ymru yr Arglwyddes veir. hep gytcnawd ag un gwr. ae eni yn ddyn. a bot meir yn vorwyn kyn escor. a gwedy escor. a chredu iddaw ddioddef ymprenn croc. yr prynnu plant Addaf a boenеu uffern. ac gychwynnu o veirw yn vyw y trydydydd. a gwedy hynny ysgynnu ar nefoedd. ac vot yn eistedd ar ddeheulaw Duw dad hollgyvoethawg. ag ar ny chretto y hynny. colledig vydd oe eneit.

XVII.—Annobeith yw pechawt arall. y neb rydarffo iddaw pecheu yn erbyn Duw. o annoc cythreul. ny thebyg iddaw byth caffael maddeueint. ag nys keiff. onny phaid or annobeith hwnnw. ae eneit a a ygkyfuyrgoll. Oth gyfuarchaf. vab teg. heb yr Amherawdyr. py beth a wisg dyn y ymgadw rac kythreul. kytwybot dda. a meddylyaw am ddioddeiveint yr Arglwydd Iessu Grist. a meddylyaw pa wedd y gostyngawdd Iessu ar tal y lin. ar vynydd oliuet. ag ef a ddeith iddaw yna chwys gwaetlyt rac ofn angheu. a phann yttoedd yn rhwym wrth y piler. ef a vaeddwyt ag ysgyrsseu gan yr Iddewon. yny yttoedd y gwact yn phrydyeu o honaw. ag ef a ddug y groes ar eu gefuyn hyt yn mynydd Calvaria. yn yr honn y dioddefuawdd angheu arneu.

XVIII.—Yr Amherawdyr a ddywat yna. bynn oll a gredaf. eithyr dywat ym. py benyt a lawenhaa Dduw y gann ddyn. y mab y ddywat yna. pwy bynnag a wnel penyt kyvreithawl gossodedig. atto periglawr arnaw trwy ewyllys damunedig. ef a geiff trugaredd nef. Eil pwnc yw merthyrolyaeth. nyt amgen haelder yn tlodi. ymgynnal heb gyvoeth. a charu y gyt gristawn. a chwynnyaw y dlodi. ae ofueileint y gyt ag ef. onny ddigawn amgen nerth iddaw. a diolwch y Dduw hollgyvoethawg y dlodi ehun. a hynny yn ddistaw. a llyna ranc bodd y Dduw. Y trydydd pwnc yw dyn a hanffo o vreint a bonedd. ag a vo goludawg. ymmadaw o honaw a o ennill bydawl a digrifwch cnawdawl. hwnnw a geiff y ymosnieithaw yn y nef.

XIX.—Dywed ym vab. heb yr Amherawdyr. os gwybyddu. paham y mae yawnach un prydyaw dduw gwener no diwarnawt arall or wythnos. y mab a ddywat. y mae tri achos ar ddeg. cyntaf yw o honunt. Duw gwener y gwnaeth Duw Addaf. yn yr ynys a elwir Ebron. ag ae llunyawdd ar eu ddelw ehun. Yr eil yw. Duw gwener y byrwyt Adda ag Eva o Baradwys y waelawt uffern. Y trydydd yw. Duw gwener y lladdawdd Kayn Abel y vrawt. am hynny y kavas Kain emelldith Duw. Y petwerydd yw. Duw gwener y deith Gabriel angel yn gennat at Veir. pan ddisgyn-

nawdd brenhin nef y ny bru a chymryt cnawd heb gyt gwr. Y pymhet yw. Duw gwener y bedyddwyt Iesu Grist. Y chweched yw. Duw gwener y merthyrwyt Ystyphan verthyr o gynghor crodr creulawn. Y seithvet yw. Duw gwener y lladdwyt penn Ieuan vedyddwr. Yr wythvet yw. Duw gwener y dioddefodd Iessu ympren crog. y ryddhau pobyl y byt o boeneu uffern. Nawvet yw. Duw gwener y dioddefawd Meir anghen. ag ydaeth y hyspryt at y hun mab y lawenydd nef. Degvet yw. Dyw gwener y dioddefawdd Onndras ar y grog. ag y dywat. Arglwydd. heb ef. llyma a ddioddefi yr caryat arnat ti. Unvet ar ddeg yw. Dyw gwener y kavas Elen luyddyawg y grog. ryddaroedd yr Iddewon y chyddyaw yn y ddayar. o achos y dioddefei Crist arnei. ag ar honno y dioddefawdd ynteu. gwedy y dwynn y vynydd Calvaria. trwy anrydedd moliannus. Deuddeevet yw. Dyw gwener y merthyrwyt Peder a Phawl ebostol. Trydeddarddeg yw. Dyw gwener y rydd Duw varnedigaeth oe draet ae ddwylaw ae ystlysseu yn waedlyt. ag am hynny kymeret pawb ddyw gwener yn y gof. y wneuthur molyant y Dduw ynddaw trwy ymprydyeu a gweddyeu.

XX.—Dyw Sadwrn. da yw ymprydyaw. yr mwyn yr Arglwyddes Veir annerthawdd y dynnu yr eneidieu or poeneu. a hi a elwir yn ffynawn y drugaredd. y olchi ag y ryddhau pawb or a alwo arneu. Arweddwreic gwironedd y gelwir. o honei y deith Iessu Grist. Iachawdwr y byt. Bendigedig a vo y bobloedd a wassanaeth y vorwyn honno trwy ewyllys addwynnedig. Yna y dywat yr Amherawdyr Adrian wrth y mab. Mi ath tynghedaf di. vab Ipotis. cyn ymadaw a mi. yn enw y Tad. ar Mab. ar Yspryd Glan. Iessu Grist. yr hwnn a ddioddefodd yn angheu yr yn kyvodedigaeth ni. pa beth wyt ti. ae yspryt da. ae un drwg. Y mab a attebawdd yddaw yna val hynn. Mi ywr gwr ath orug di. ac at prynnawdd yn prit. ag yna yd ysgynnawdd y oruchelder y nef. or llc y pann dathoedd. Yr Amherawdyr yna a ostyngawdd ar tal y lin. a diolwch a orug y Dduw hollgyvoethawg yr hynt honno. A gwedi

hynny ymhoelut a oruc ar weithredoedd gobrwyawl ag alussenneu. gann wneuthur gogonyant ag arddunyant yr mawredd ag enrydedd y Dduw or nef. ag yn y modd hwnnw y tervynnha ymddiddan Idrian Amherawdyr ag Ipotis vab ysprydawl Duw. Amen.

The Editor has printed the earliest translation that he could find; but there is another copy in the Peniarth Library (*Hengwrt MS.* 306), all in the autograph of Dr. Thomas Williams, of Trevriw, which varies in orthography, and ends thus:—

A chwedy hynny ymchwelyd a wnaeth yr Imerotr yr ffydh gatholic. a gwneuthur gobrwyæ ac elusenæ a gweithredoedh da er gogoniant ac anrhydedh y Iesu Ghrist mab Duw byw holhgywaethoc brenhin nef a daear. Ac velhy tervyna'r ymadrodh a vu rhwng Adrian Imerawtr ac Epoptes vab yr ysprytol Dhuw vrenhin nef a daear.

Thos. Wiliem physycwr.
27 die o vis Rhacvyr. 1595.

Y lhyvran hwnn Epoptes a scrivenais alhan o hen lhyver a vuassai eidho Lewis ap Moris Gethin o Nanmor Deudraeth, o hen lhaw awduraidh. gywir orgraph. Am y defnydh barned y darlheydh. Lhawer o bethæ godidawc sydh yndhaw. Y Dhew bo'r diolch am ei holh dhoniæ ysprytawl a chorphorawl. Amen.

Historia y traethu val digawn y Tad. ar Mab. ar Yspryd glan vot un Duw.

Val hynn y digawn y Tad. ar Mab. ar Yspryt Glan vot yn un Duw. nyt amgen noc yn wir ddiphedrus.

Pwy bynnag a vynnho jachai y eneit. ae gorff. reit yw iddaw ef yn gyntaf peth kynnal ffydd gyffredin eglwys Iessu Grist. canys pwy bynnag nys kynnhalyo hi gyfyawn. ag yn ddiuei. diogel yw iddaw y kyll y

eneit ae gorff yn dragywyddawl. Ffydd gyffredin Eglwys Crist yw credu o honom ni yn un Duw yn Trindawt. ar trindawt yn un Duw. ae annrydeddu yn ufydd ac yn garedig. sef yw hynny. credu yn un Duw yn teir person. ar teir person yn un Duw. ag eissoes ny ddylem ni yr hynny credu bot y Tad. ar Mab. ar Yspryt Glan yn un person diwahan. val y maent yn un Duw. na chredu y bot yn tri Duw. val y maent yn teir person. ag wrth hynny amgen yw person y Tad. a pherson y Mab. ac. amgen yw person pobun ohonunt. a pherson yr Yspryt Glan. ac eissoes un yw dwywyolyaeth y Tad. y Mab. ar yspryt glan. a gogymeint eu gogonyant. a gogyfuoet yw. Canys un yw gogonyant tragwyddolyaeth y teir person. ag wrth hynny un yw y Tad. ar Mab. ar Yspryt Glan. Canys digreedig yw y Tad. a digreedig yw y Mab. a digreedig yw yr Ysyryt Glan. Sef yw hynny. ny chreuwyt yr un o honunt. A divessur yw y Tad. a divessur yw y Mab. a divessur yw yr Yspryt Glan. A thragywyddawl yw y Tad. a thragywyddawl yw y Mab a thragywyddawl yw yr Yspryt Glan. ag eissoes nyt ynt tri thragywyddawl. namyn un tragywyddawl. sef yw hynny un diwahan yw tragywyddolyaeth y tri. kynny bont un berson. ag velle nyt ynt tri digreedig. na thri divessur. y Tad. ar Mab. ar Yspryt Glan. namyn un digreedig. ag un divessur. A hollgyvoethawg ywr Tad. a hollgyvoethawg ywr Mab. a hollgyvoethawg ywr Yspryt Glan. ag nyt tri hollgyvoethawg. namyn un hollgyvoethawg. sef yw hynny. un yw holl allu y tri. ag velle Duw ywr Tad. a Duw ywr Mab. a Duw ywr Yspryt Glan. ag eissoes nyt ynt tri Duw. namyn un Duw. Ag Arglwydd ywr Tad. ag Arglwydd ywr Mab. ag Arglwydd ywr Yspryt Glan. ac eissoes nyt ynt tri Arglwydd. namyn un Arglwydd. sef yw hynny un yw eu harglwyddiaeth hwy. Ag wrth hynny megys yn kymellir ni o gristonogawl wironedd y gyffessu. ac y addef ar neilltu. vot y Tad yn Dduw ac yn Arglwydd. ar Mab yn un Duw. ag yn Arglwydd. ar Yspryt Glan yn un Duw. ag yn Arglwydd. velle y gweherddir yni trwy grevydd kyffredin gristonogaeth

ddywedut vot y tri Duw. neu tri Arglwydd. Y Tad bellach o ddefnydd neu o allu neb ny wnaethpwyt. ag ny chrewyt. ag ny a anet. y mab hagen a anet or Tad chunan. ag ny wnaethpwyt. ag ny chrewyt. Yr Yspryt Glan a ddeith. ag a ddeillawdd or Tad ar Mab. ag eissoes ny wnaethpwyt ef. ag ny chrewyt. ag ny a anet. ag wrth hynny yn y Drindawt honn nyt oes dim gynt noc gilydd. ag nyt ocs voe na llei noe gilydd. namyn yr holl teir person. gogyfuoet ynt. a gogymeint. Ag wrth hynny megys y dywedpwyt uchod ar y dechreu. yr un Duw yn y Drindawt. ar Drindawt yn yr un Duw a ddylyir y enrhydeddu. Ag wrth hynny pwy bynnag a vynno yachau y eneit ae gorff yn tragywyddawl. reit yw iddaw kredu val hynn yn y Drindawt. A chyt a hynny aghenreit yw y bop dyn o myn kaffel yechyt. a gwaret tragywyddawl oe eneit. credu kymryt o Iessu Grist an Harglwydd ni cnawt ag eneit dyn ymru yr Arglwyddes Veir. y wir vam ef. A hitheu val kynt yn vorwyn pob amser. Ag wrth hynny yn hyawngret ni yw kredu yn callonneu. ag addef ar yn tafodeu bot Iessu Grist yn Dduw ag yn Ddyn. ag yn vab Duw. ag a anet o rym ag annyan y Tad kyn yr holl oessoedd. heb ddechreu arnaw. ae eni yn ddyn o annyan y vam yn yr holl oessoedd yn Dduw perffeith. ag yn Ddyn perffeith. o eneit synnhwyrawl dylyedus. a chnawd dynawl iddaw. yn person genedlawg gogyfueint ae Dat obleit dwyolyaeth. a llei noc tat. obleit dyny-olyaeth. A chynn bo gwir Dduw ef. a gwir Ddyn. eissoes nyt deu ef. namyn un Duw. Iessu Grist nyt yr mynet deutroi y dwyolyaeth ygknawt. namyn o achos kymryt o vab Duw attaw ef y dynyolyaeth yn un person ag ef. megys pei plennyt keing o ryw brenn y mywn prenn arall. ag wrth hynny un Iessu Grist sydd wir Dduw a gwir Ddyn. nyt yn kymyscu y ddeu annyan yn un annyan. namyn o achos bot y ddwyolaeth ac ddynyolaeth yn un person. Canys megys y bydd un dyn o eneit dylyedus a chnawt. velle o Dduw a dyn y mae un Iessu Grist. yr hwnn a ddioddefawdd angheu yr yn gwaret ni. ac oddyno anreithaw uffern. ae gyvodi o

veirw yn vyw yn y trydydydd. Ac ysgynnu ar nefoedd. ag yn eistedd ar ddeheulaw Duw dat hollgyvoethawg. ag oddyno y daw y varnnu ar vyw. ag ar veirw. ag yna y kyvodant yr holl bobloedd meirw yn vyw yn y corffoedd yr varnn ag yna y bydd reit y bawp talu dylyet oe weithret priawt. A rei a oddiwedder ar dda a ant y vuchedd tragwyddawl. a rei ereill ar y drwg a oddiwedder. ag ar y cam a ant yr tan tragywyddawl. a hynny a gredir yn wir.

LUCIDAR.

I.—Llyma dhechreu llyuer yr hwnn a elwir Elucidarius. ynghymraec Egluryn. Canys ymhob dechreu ymae rhaid galw ar ganhorthwy y gan y gwr y sydh dhechreu pob peth. o mynnir cwplâu y weithret yn berpheith. Galwn inneu gannorthwy Christ Arglwydd yn y dechreu hwnn yw gwplau 'n berpheith. ac or canhorthwy hwnnw y gallwn ni vod yn hyf. Canys dywod Dauydd brophwyt yn y Salhwyr. Agos yw'r Arglwydh y bawb ai galwo. Y lhyver hwnn a eilw rhei amovyn Discipl ai Athro. sef yw ystyr hynny. y discipl yn ceissiaw y gann y Athro eglurhau ac yspyssu ydhaw petheu aneglur ac anhyspys gann bawb. Ar Athro a gytsynniawdh a damunet y discipl. rhac cyphelybu o rei or bobl y geluydhyt ef yr gwr a dhodes y swlht yn y dhaear ynghudh. Canys ny elher dim ag ef. Canny wna da y neb. Velhy Celuydhyt a doethineb a gwybot yn y galon y yscolhaic da. ony dhysc y erailh ny rymhaa haeach. Ac ef a elhir y gyphylybu yr swlht cudhiedic dann y dhacar. A chanys arvaeth yw gennyfi. hep yr Athro. rodhi yn y lhyver hwnn yspysrwydh am betheu dwywawl ysprytawl. val y herchys vy nghyt-dhisciplion yn lawer gwaith.

II.—Teruyn yw gennyfi y bawb or a dharlheuo yn y lhyver mau i. neu ai gwrandawo. gwedhiaw drosof vi. Vy henw ineu a vynnaf y gelu o bob ryw gyfrinach.

rac peri o gynghoruynt athraon a vo ynghyt oes a mi. neu athraon ereilh a vo gwedy mi. esceulusso a thremygu gwaith cynn grynoet a hwnn. Henw vy lhyver i. hep yr Athro. yn lhatin vydh Lucidarius. Sef yw ystyr hynny ynghymraec Egluryn. A deualhet bawb hagen nat er ei vot ef yn eglurach no lhyver aralh yw hynny. namyn o achaws eglurhau yndhaw ef petheu aneglur y bawb. Sail vyngwaith i. hep yr athro. a ossotof i ar garrec. sef y deuelhir drwy y garrec Christ Arglwydh. Odhyna. hep ef. ywrth y Syluaen hwnnw y cyuyt pedeir colofn yn y gwaith. Un or Colofneu uydh awdurtawt y prophwyti yn y dhyrchauel. Yr eil uydh teylyngtawt yr ebystyl yn y wastathau. Y drydedh uydh doethineb yr esponwyr yn y gadarnhau. sef yr esponwyr y neb ai hysbysso. Y bedwaredh golofn vydh cywreinrwydh yr athraon ac callder yn y rwymaw. ac yn eu hyassu. Ac or pedair colofn hynny. hep yr athro. drwy nerth y syluaen a dhywetpwyt drachefn. nyt amgen Christ Arglwydh a dhyelhir drwy y garrec. y prouaf vi ac y gwrantaf y petheu fydh yn vy medhwl y traethu onadhunt yn vy lhyver yn wir.

III.—Yman weithian y mae y discipl yn ymouyn ae athro am Dduw. Canys Duw yssydh ymlaen pob peth. Anrhydedhus athro clotuorus mi ath wedhiaf di. ac na phalla di ymi o wrthep or petheu a ouynnaf vy y ti. ar anrhydedh Duw a chrynodep yr ecclwys. Mi a wnaf hynny 'n llawen. hep yr athro. herwydh y galhwyf vi oreu om gwybodeu. drwy na orthrymmo y lhavur hwnn vyui. Gweithret y lhyver hwnn a berthyn at dhwy berson. nyt amgen ar y discipl yn gouyn. ac ar yr Athro yn atteb. Ar discipl a dhywat val hynn. O dydi glotuorussaf athro. mi a archaf yt atteb ymi yn dhilesc ar a ovynnafi yt. er anrhydedh y Dhuw ar ecclwys a lhes y minnau. Y meistyr a dhywat. mi ai gwnaf herwydh y galhwyf. ac ny orthrymmo y lhavur hwnn vyui.

IV.—Ef a dhywedir na wyr neb beth yw Duw. ac a welir bot yn dywylh adholi yr neb neu yr hynn nys gwydham ac wrth hynny o honaw ef y dechreuwn ni.

D. ac yngyntaf dim dywet ti ymi beth yw Duw. M. mi ai dywedaf yt. herwydh y mae canhiat yt y wybot. Y ryw alhu ysprytawl yw Duw. cymaint y hynawster ai degwch. ac y damunai y rhai yssydh yn degach saith waith no'r haul edrych vyth arnaw yn wastat hep orphowys. D. Pa ffurf y deuelhir y drindawt yn un Duw. M. Edrych di yn yr haul. yn yr hwnn y mae tri pheth. nyt amgen galhu tanlhyt. goleuni. a gwres. ac ny elhir eu gwahanu. Pai mynut ti dhwyn y gwres. ny bydhai haul. Drwy y tan y deuelhir y tat. drwy y goleuni y deuelhir y mab. drwy y gwres y dyelhir yr Yspryt Glan. D. Paham y gelwir ef yn Dat. M. Am ei vot ef yn ffynnawn ac yn vonedh y bob peth. Paham yn vab. Am y vot yn dhoethineb yr tat. megys y goleuni yn yr haul. D. Paham yn Yspryt Glan. Am ei vot yn gariat y bob un onadhunt wynt. nyt amgen yr tat. ac yr mab. ac yr Yspryt Glan. ac yn lhauuryaw ohonunt yn dragywydhawl or tat. a thrwy y map. ac yn yr Yspryt Glan y bydh pob peth. Y tat yw y Cof. y mab yw y dealh. ar Yspryt Glan yw yr ewylhys.

V.—D. Pa le y mae Duw yn cyfanedhu. M. Mi ae dywedaf yt. Cyt boet ef ymhob lhe herwydh galhu. eisoes yn y nef dhealhus y mae ei alhu ef ai gadernyt. D. Pa beth yw nef. M. Tri ryw nef a dhywedir ei bot. nyt amgen yn corphorawl a welwn ni yma. Eil yw yn ysprytawl. y credir bot yr Angylion yn ei cyfanhedhu. Trydydh yw nef dyalh. yn yr hwnn y mae y drindawt gwynuydedic wyneb yn wyneb. D. Pa ffurf y dywedir bot Duw ymhob lhe. Canys yn un voment y bydh or dwyrain. hyt y gorlhewin. yn lhuniaethaw pob lhe a phob peth. D. A dywedir y vot ef ymhob lhe yn wastat. Canys yn yr un amser ydh ardymhera ef bob peth. Ef a dhywedir nat ydyw ef yn un lhe. canys corphorawl yw y lhe. ac aghorphorawl yw Duw. ac wrth hynny nyt oes yn un lhe a gynhalio y neb y sydh yn cynnal pob peth. ac yndhaw y mae ein bywyt an cyfiawnder.

VI.—D. A wyr Duw pob peth. M. Gwyr pob peth or a vu. y sydh. ac a vydh. megys yr hwnn ysydh

gyrbronn. a chyn creu y byt. ef a wydhiat enwae 'r Angylion. au moeseu. ae hewylhys. au gweithredoedh. au geiriau. megys pai bydhynt gyr y vron. Canys Theos yngroec yw Duw. sef yw hynny ynghymraec. gwelet pob peth. D. Pa ffurf y dywat Duw wrth dhynion. neu wrth y angylion. M. Drwy synnyedigaeth y dyweit ef wrth ei engylion. a thrwy yr angylion wrth y dynion. D. A oedh neb namyn Duw ehun. M. Yscriuenedic yw. A wnaethpwyt yndhaw bywyt oedh. Canys ef a welai pob creatur or a wnaethpwyt wedy hynny gyr y vron. megys y gwyl saer da. yn y vedhwl a wyr pa wedh y lhunieytho y waith ai adail herwydh y ethrylith. ac am hynny y dywedir nat hyn Duw herwydh amser. onyt herwydh tailyngtawt.

VII.—Pa achaws a vu y greu 'r byt. M. Daioni Duw vu gneuthur erailh y gyfrannu y rat ac wynt. D. Pa wedh y gwnaethpwyt ef. M. ef a dhywat y air a phob peth a vu gneuthuredic yn yr awr honno. D. a dhywat ef o sain gairiau. M. y Gair yw y mab a greawdh pob peth ymewn o dhoethineb. D. a vuwyt ynhir creu y byt. M. yngynnebrwydhet ac y trewit yr amrant ar y lhalh. Ae yn rannau y creawdh ef y byt. pob peth y gyt ar unwaith. val y dywedir. yr hwnn a drig vyth a wnaeth pob peth y gyt. Ef a wnaeth ac a wahanawdh pob peth yn hwe diwarnawt yn rannau. nyt amgen yn y tri diwarnawt y gwnaeth ef defnydhiau. ac yn y rai erailh pob peth o vewn y defnydhiau. y dydh cyntaf y gwnaeth ef dydh tragwydholder. sef yw hynny lleuuer ysprydawl ywrth yr hynn corphorawl. yn y trydydh dydh y gwnaeth ef y mor ar dhaear. yn y tridiau erailh y gwnaeth ef pob peth ovewn y defnydhiau hynny. nyt amgen y dydh cyntaf ef a orug dhydh amserawl. Sef oedh hwnnw yr haul ar lhoer ar syr. yn y defnydh uchaf. sef yw hwnnw y Tan. yr ail dydh yn y defnydh peruedh. sef yw hwnnw y dwfr. y goruc ef y pysc ar adar. y pyscawt yn y rann dewaf or dwfr. ar adar yn y rann deneuaf. sef yw hwnnw yr awyr. yn y trydydh dydh y goruc ef yr aniueilieit a dyn or defnydh issaf nyt amgen noc or dhaear.

VIII.—D. a oes synhwyr gann y defnydhiau y adnabot Duw. M. Nit oes dim. medh Sain Jeronim. or a orug yr arglwydh crioet nys adnapo ef. Canys y petheu hynny a welir yni eu bot yn dhieneitiawl synhwyr a megys marw. wynt hagen a wydhant vyw yn duw. ac a synnyant y rhodhyawdur. y nef yndhiau ai hadwaen. Canys oi arch ef y rhet ac y try heb orphowys. megys y dywait Dauydh prophwyt. ef a orug y nef o dhealh. yr haul ar lloer ai synnyant ef. Canys hwynt a gatwant eu cwrs. ac a droant drachefn ydhaw ar y redeg. y dhaear ae synnya. Canys hi a dhwg y phrwythau ai gwreidhiau yn amserawl ac yn wastat. yr auonydh ae synnya. Canys wynt a'mchwelant drachefn yr lhe y llithront o honaw. y mor ar gwnnoedh ae synnyant. Canys wynt a uvudhaant ydhaw ac a orphwyssant pan y harcho udhunt yn dhiannot. Y meirw ae synnyant. Canys pann y harcho ef udhunt. wynt a gyuodant o veirw. uffern ae synnya. Canys y rai a lynco y hi ae haduer drachefn pan y harcho idhi. yr holh aniueileit mut ae synnyant. Canys wynt a gatwant y gyfraith a orchymynnodh duw udhunt. Pa ryw beth a dhywedir. ef a wnaethpwyt y gosper ar boreu. y gosper yw diwedh y dydh ar peth a orphenner. y boreu yw y dechreu.

IX.—D. dyweit athro a vo amlygach. M. ai dywedaf. yngyntaf y gosodes Duw megys brenhin cyuoethawc (a) lhys ardherchawc ydhaw a elwir teyrnas nef. ac odhyna nyt amgen y byt hwnn. Ac yndhaw ynteu lhe angheuawl nyt amgen uffern. Ac yr lhys honno y rhagwelas ef ry anuon o honaw rif hyspys o etholedigion. a hynny o angylion a dynion. nyt amgen y nawradh o angylion ar deeuet or dynion. D. paham y gwnaeth ef y naw or Angylion. M. ai dywedaf. o achaws y drindawt. Canys yn y naw y bydh tri tairgwaith. odhyno un radh o achos unolder. megys ydh adholer yn un. ac yn dri gann yr Angylion ar dynion. paham nat or Angylion ehunain y gwnaeth ef rif yr etholedigion. Dau ryw natur yn bennaf a wnaeth Duw. un ysprytawl ac aralh corphorawl. Sef y mynnawdh y bob un y voli. nyt amgen or ysprytawl megys or Angylion. pann dhywet-

pwyt. bid y goleuni. a gwnaethpwyt y goleuni. A dhywat Duw hynny o eiriau. na dhywat. namyn drwy y geiriau hynny y dangosir eu goruchel natur hwy yni am eu galw yn goleuni.

X.—D. Pa natur yw un yr angylion. M. Gallu ysprytawl. megis y dywedir. ef a wnaeth yr Angylion o fflamm dan. Ac henwae yw Gabriel Mihagel a Raphael. ysmwy y maent yn lhysennwau. Canys o dhamwain y gelwis dynion hwynt velhy. Ac nyt oes briawt yr enweu hynny arnunt wynt yn y nef. Ar angel cyntaf a dhamwain a elwit Satan. sef yw hynny gwrthwynebwr y dhuw. D. ym pa beth y bu ef wrthwynebwr y dhuw. pan welas ef y vot yn rhagori rac holh radhau 'r angylion o ogoniant a thegwch gann dremygu pawb. ef a aruaethawdh ymogyfuchaw a duw. neu vot yn vwy noc ef ac yn uwch. D. pa dhelw yn ogyfuwch neu yn vwy. M. ef a vynnassai gymryt ansawdh welh noc a rodhassai Dhuw ydhaw. oe gyfrannu ar erailh drwy greulonder o anvodh Duw a bot yn arglwydh arnunt. D. Beth vu hynny. M. o Balis lhys nef ef a gwympwyt ac a vwriwyt yr carchar issaf. A megys ydhoedh ef loewaf gynt y bu dywylhaf ef wedy hynny. A megys ydhoedh ef voliannussaf gynt o bob anrhydedh. y bu yscymunedicaf ef wedy hynny o bob cyfailorn. D. A wybu ef y digwydhai. M. pell iawn. D. pa hyt y trigiawdh ef yn y nef. ny bu yno hanner un awr. Canys ny safawdh yn y wirionedh. Canys pann wnaethpwyt ef y digwydhawdh. D. paham na bu ef hwy no hynny. M. rac archwaedhu ohonaw dhim or melyster ovewn. ac yntau y drais yn ceisiaw medhiant cymaint a hwnnw mor ebrwydh a hynny.

XI.—D. pa beth a bechawdh yr angylion erailh. M. Cytsymmyaw ac ef. D. pa ffurf. M. Da oedh ganthunt pai gorvuessit ar dhuw. mal y goruessynt wyntau ar yr angylion erailh. D. Beth a dharuu udhunt wy. M. ygyt ac ef y byrriwyt y rhai pennaf o honunt yr lhyn angheuawl yn uffern. D. Paham nat yn uffern y bwrriwyt wynt oll. M. er proui yr etholedigion drwydhynt. gann vot yn vwy eu gobrwyau ac y

dwylhaw erailh. gann eu rhodhi yr tan tragywydhawl yn y varnn dhiwedhaf. D. paham nas ymchwelassant wynt drachefn. M. nys gallassant. D. paham. M. Am dhigwydhaw o honunt hep y annog o nep udunt. Velhy ny dhyluant hwyntau caphael nerth gann neb y gyuodi. A pheth aralh heuyt oedh yn eu herbyn nyt amgen am dhewisaw y drwg o honunt. oc eu bodh. iawn oedh dhwyn y gantunt wyntau ewylhus pob daeoni. ar wrth hynny nys mynnassant. Ac wrth nas mynnassant nys gallhassant.

XII.—D. paham na phrynnawdh Duw hwynt megys ac y prynnawdh y dynion. M. yr angylion a grewyt oll y gyt. a nyt o un angel. megys y ganet yr olh dhynion o un dyn. wrth hynny os Christ a gymerai angylawl annian y gan un angel. a hwnnw ehun a brynnai. ar lhailh olh a vydhynt odhyeithr y prynnedigaeth. ac ny phrynnai yntau hwnnw ehun. ac ny alhai ef heuyt varw. Cany mynnawdh duw amgen iawn noc angau dros y bechawt. ac anuarwawl yw hynt yr angylion. ac am hynny nyt achubwyt. D. Paham na chreawdh Duw wyntau megys na phechynt ac na ellynt bechu. M. o achaws cyfiawnder megys ydh haedhynt obrwyau. ac or creynt wynt mal na ellhynt bechu. rwymedic vydhynt ac ny chephynt obrwy. megys pai os gwnelynt drwy gymelh. Ac wrth hynny Duw a rodhes udhunt rydh ewyllhys megys y gellhynt. ac y mynnynt dewissaw y da mwyaf. Ac os hynny a etholant oe bodh ehun. iawn oedh udhunt caphel tal a gobrwy. megys na elhynt bechu vyth.

XIII.—D. paham y creawdh Duw hwynt. ac ef yn gwybot y bydhai udhunt val y bu. M. o achos adhurn y weithret. Canys megys y dyt y lhiwydh lhiw du val y bo gwerthuawrussach y lhiw gwyn neu 'r coch ger y law. velhy o gyphelybrwydh y rhai drwg y bydhant eglurach y rhai cyfiawn. D. Paham na chreawdh ef angylion erailh yn lle y rhai hynny. M. Nys dlyai ony bai rai cyfryw ar rai hynny pai triccynt. yr hyn ny alhai vot. Canys yr awr y pechassant. hwynt a dhigwydhassant. D. A wybydh y Cythraul pob peth. M. o natur

angel ef a wybydh lawer. Ny wybydh ef hagen bob peth. Ac meggys y mae manwedheidhach natur angel noc un dyn. velly y mae cyfarwydhach noc ef y petheu a dhelont rhac lhaw. ny wydhont wy dhim o honunt. eithyr a gynnulhant or petheu a aethant heybiaw. a chymaint ac a gannattao Duw udhunt y wybot. Medhylieu dynion nae ewyllus. nys gwyr neb. namyn Duw ehun. ar neb y mynno Duw y vanegu ydhaw. D. a alhant wyntau pob peth ar a vynnont. M. ai dywedaf. nys mynnant. ac nys galhant. Ar y drwg hagen y maent graph arnaw. Ac ny alhant hagen wneuthur cymmaint ac a vynnont. eithyr cymaint ac a atto yr angylion da udhunt y wneuthur.

XIV.—D. Beth a dhywedi di am yr angylion da. M. Gwedy cwympaw y rhai erailh y cadarnhawyt hwynt. hyt na elhynt vyth na dygwydhaw na phechu wedi hynny. D. Paham nas gellhynt. M. Am nas mynnynt. D. Paham na chadarnhawyt y lhailh velhy. M. Am nat arhoassant yno cyhyt a hynny. D. Ae cwympau y lheilh a vu achos y cadarnhau wyntau. M. Nag ef. namyn y obryn ohonunt. Canys pann welsant wy y rai drwg yn dewis y drwg drwy syberwyt. sorri a orugant. a glynu wrth y da mwyaf yn gadarn. Ac ympwyth hynny y cadarnhawyt hwynt. A rhai a oedh anhyspys cynno hynny oe gwynuydedigrwydh o hynny alhan yspys dhiau oedhynt. D. Pa ryw lun yssydh ar yr Angylion. M. un agwedh a duw o ryw vodh. canys megys y trig lhun yr insail ar y cwyr. velhy y mae eulun Duw arnunt wyntau ae gyphelybrwydh. D. Pa gyphelybrwydh cyphelyb ynt. M. herwydh eu bot yn oleuni. ac yn angcorphorawl. ac yn gyflawn o bob tegwch. D. A wydhant wy neu a alhant bob peth. M. Nyt oes dim o vewn natur y defnydhiau anwybot udhunt. Canys yn Duw y gwelant wy bop peth. a phob peth or a vynnont wy y wneuthur. hwynt ae galhant.

XV.—D. A vu lai rif y rhai da er dygwydhaw y rhai drwg. M. Na vu namyn er cyflenwi rif y rai yr etholedigion. y crewyt dyn yn dhecuet. D. o ba beth

y crewyt dyn. M. o gadernyt corphorawl ac un yspryt-awl. y corphorawl or pedwar defnydh megys y byt. ac am hynny y gelwir ef y byt bychan. Canys or dhaear y mae y gic. or dwfr y waet. or awyr y anhatl. or tan y wres. Ae benn yn grwnn ar lun cwmpas y nef. ae dheu lygat yndhaw megys dau lugorn haul a lhoer yn echdywynnu yn y nef. Y vronn yn y lhe y mae y chwthiat ae bessychu yn cyphelybu yr awyr. yn y lhe y cyffroir y gwynt ar taranau. Y croth yn cymryt yr holh wlybwr. megys y mor yn cymryt yr holh auonydh. y draet yn cynnal holh bwys y corph. megys y dhaear yn cynnal pob peth. or tan nefawl y olwg. or awyr uchaf y glywet. or issaf y ymafuacliat. or dwfr y vlas. or dhaear y gerdhetiat. y galedi mewn y esgyrn or cerric. irder y gwydh mewn y ewinedh. Tegwch y gwelht mewn y walht. Ae synnwyr gyt ar aniueilieit. A lhyna y galhu corphorawl. Y gadernyt ae ansawdh ysprytawl a gredir y vot or tan ysprytawl. yn yr hwnn y dangosir delw ac eilun Duw.

XVI.—D. paryw dhelw. a pha ryw eilun yw un Duw. M. delw a gymerir yn eilun phuruedigaeth o ryw amnait a drych y duwyolder yssydh yn y drin-dawt. y dhelw honno yssydh yn yr enait. a thrwy honno y mae gwybot a vu. ac. a vydh. dealh y petheu cyndhrychawl. ar hynn ny weler. ac ewyllhus y dhewis y da. ac y wrthot y drwg. Ac yn yr un Duw y maent yr holl nerthoedh. A megys nat ymordhiwedh un creatur a duw. ac ef yn ymordhiwes a phob peth. velhy nyt oes un creatur ar a weler a alho ymordhiwes ar enait. Canys ef a ymordhiwes a phob creatur gweledic. Cany dhichawn y nef gwrthwynebu ydhaw val na medhylio am uffern. A lhyna y substans ysprytawl ef.

XVII.—D. A wnaeth Duw dhyn ae dhwylaw ehun. M. o erchi trwy eiriau o honaw ehun y gwnaeth ef. ac o hynny y dangossir bot yn vrauawl y annian ef. D. paham y gwnaeth ef dhyn o dhefnydh mor dhielw a hwnnw. M. er gwaradwydh yr cythraul. ac er cyth-rudh ydhaw. vot peth pridhlut tomlut llychawl megys hwnnw. yn medhu y gogoniant y dygwydhawdh ef

ohonaw. D. o pa beth y cafas ef y enw. Canys ef oedh y byt bychan. M. o bedair rann y byt y cafas y enw. y dhangos y cyflownai y genedyl ef y dhaear. a megys y rhagorai dhyn rhac pob peth ar y dhaear. D. paham y gwnaeth Duw yr aniueileit. ac nat oedh ar dhyn yna y heisiau. M. Ef a wydhiat Duw y pechai dhyn. ac y bydhai rait ydhaw ef wrth pob ohonunt. ac wrth hynny y gwnaeth hwynt olh. D. Ai Duw a wnaeth yr ednot ar gwybet. ar pryvet erailh olh. a argywedhant y dyn. M. Cymaint vu craphter Duw yn creu yr ednot ar chwain ar bywion ac yn creu yr angylion. D. y pa beth. M. Er moliant ydhaw ehun y goruc ef pob peth. y pryvet hagen a ry wnaeth ef rac balchyaw o dhyn y vedhyliau. pan vratho un o rai hynny dhyn. Na dhichawn ef wrthwynebu yr pryf lheiaf. cyt darostyngo duw pob peth dan vedhiant ydhaw ef. Canys nyt yr eirth ar lhewot a dhestrywassant Pharao gynt a oedh vrenhin. Namyn lhau a chwain a cyniphes. sef ydynt y Titieit. Y bywion hagen ar adrcop ar pryvet erailh a ymrodhant y waith a lhauur a orug Duw yr cymryt ohonam ninau angreifft y ganthunt wy y astudiaw ac y lauuriaw ar y da.

XVIII.—D. pa le y crewyt dyn. M. yn Ebron. yn y lhe y bu varw. ac y cladhwyt wedy. Ac odhyna y gossoted ef ymparadwys. D. pa ryw beth yw paradwys. neu pa le y mae. M. y lhe teccaf yn y dwyrain. yn yr hwnn y gossoted amrauaelion adiffygiau. megys pai bwytai dhyn o ffrwyth y rhyw brenn yn y amser na bydhai newyn arnaw o hynny alhan vyth. Ac o aralh o bwytai ohonaw. ny bydhai sychet arnaw. o aralh ny flinhai vyth. o aralh ny henhai vyth. Ac yn y diwedh yr hwnn a vwytai o brenn y vuchedh. ny chleuychai vyth. ac ny bydhai varw vyth. D. pa le y crewyt gwraic. M. ymharadwys. o ystlys gwr ac ef yn cysgu. D. paham or gwr. M. megys y bydhynt un gnawt ac un vedhwl drwy gariat. D. pa ryw gysgu oedh hwnnw. M. Lhewic ysprytawl. canys Duw ai duc ef o baradwys nefawl. yn y lhe y dangosset ydhaw y genit Christ. ar ecclwys ohonaw yntau. Ac yn y lhe pann dhephroes y prophwytawdh ef o honunt wy.

XIX.—D. paham na chreawdh Duw yr holh etholedicion ygyt. megys y crewyt yr angylion olh. M. a vynnawdh vot dyn yn gyphelyb ydhaw ehun. a hynny er geni yr holh dhynion ygann Adha. megys y ganet pob peth y gann Dduw. D. Paham y creawdh Duw wyntau megys y gellhynt bechu. M. Er bot yn vwy y gobrwyau. Canys Duw a roes rydtit udhunt y dhethol y da mawr. a thal am wrthot y drwg. D. Pa dhelw yd hilynt wy. pai trigyssynt ymparadwys. M. megys y gwesgir y lhaw wrth y lhalh. velhy ydh ymwesgynt wyntau heb dhim chwant wrth hiliaw. A megys y drychaif y lhygat y edrych. velhy y gwnai yr aelawt synnyedic hwnnw y wasanaeth. D. Pa wedh ydh esgorai hi. M. heb dholur arnai. D. a vydhai y mab hep alhu dywedut pann enit. megys yr awr honn. M. yr awr y genit ef a dhywedai. ac a gerdhai. ac ebrwydh hagen y defiycyai. ac o ffrwythau y gwydh a oedhynt yno. ydh ymborthai ac y bwytai. Ac yn yr amser gossotedic y gann Dhuw. y bwytai ef o bren y vuchedh. ac yn yr ansawdh honno y bydhai wedy hynny vyth.

XX.—D. Pa hyt y dylynt wy vot ymparadwys. M. yny gyflenwit rif yr etholedicionn ar angylion a dhygwydhassant o dhyno. D. Pa dhelw y galhai paradwys gynnal amser cymaint a hwnnw olh. megys ydh ant ymaith y genetl yr awr honn drwy anghau. ac y doant y rai erailh byw yn y hol. velhy y credit mynet y rieni gynt yn ansawdh a vai welh. ae hetiuedh hwynteu gwedy y bwyteynt o brenn y vuchedh. ynghylch degmlwydh a deugeint yn eu hol hwyntau. ac yn y diwedh y gwnaeth pawb yn gyphelyb yr angylion. D. A oedhynt noethion wy yna. M. oedhynt. ac nyt oedh vwy eu cywylydh oe haelodeu cudhiedic noc oe lhygait. D. paham y dywedir hwynt a welsant eu bot yn noethion wedy eu pechawt. yr hynn nys gwelsynt cynno hynny. M. Gwedy pechu onadhunt wy ydh ymlosgasant pob un o chwant y gilydh. ac yn yr aelawt hwnnw y dechreuawdh. ac wedy hynny y teruyse hwnnw a gerdhawdh ymysg y dynawl ettiuedh.

XXI.—D. Paham y bu yn yr aelawt hwnnw mwy

nac yn un o rai erailh. M. y wybot oe holl etiuedh eu bot yn argywedhus or un ryw garydh. D. a welsant wy dhuw ymparadwys. M. Gwelsant hwy ymrithiaw ohonaw yn ffurf aralh. megys y gwelas Eureham a Loth ar prophwyti erailh. D. Paham y twyllawdh y cythraul hynt. M. o achaws cenuigen. Canys cynghoruynt vu gandhaw dhyuot dyn yr anrydedh y dygwydhawdh ef ohonaw trwy valchder. D. Trwy ba phordh y cauas ef y broui. M. drwy syberwyt. Canys dyn a vynnawdh ef y vot yn y briawt vedhiant ehun. a dywedut yn y amlder e hun valhynn. nym cyphroir i vyth. D. Paham y gadawdh Duw y broui ef. ac ef yn gwybot y goruodhyt arnaw. M. Am wybot vaint o dha a wnai oi bechawt ef. D a dhywat y Cythraul dhim. M. Na dhywat. Diawl hagen a dhywat wrth y Sarph. megys y dywait hedhyw drwy dhyn a gapho arnaw graph. Ac val y dywat yr angel drwy 'r Asen. megys y gwypit beth a synniai y geiriau hynny drwydhynt wy.

XXII.—D. Paham drwy y sarph y twylhwyt y dyn. M. Am ei vot yn aniuail troedic llithredic. A diawl a wna y neb a dwylho ef yn droedic o dwylh. ac yn llithredic o odineb. D. a vu wybot drwc a da yn un aval. M. Na vu yn yr aual. namyn yn yr angyfraith. Canys cynn pechu y gwybu y dyn a da a drwc. Da drwy y broui. drwc drwy y wybot. D. a enit dynion drwc ymparadwys. M. Na enit. onit yr etholedicion ehunain. D. Paham yntau y genir y rai drwc yr awrhonn. M. o achos yr etholedicion lauuriaw. a phroui drwydhynt wy megys y prouir yr aur yn y ffurnais. D. Pa hyt buant wynt ymparadwys. M. Saith awr. D. Paham na buant wy yno hwy no hynny. M. Canys yn y lhe gwedy gwneuthur gwraic y troes hi ar gam.

XXIII.—D. Pa awr y gwnaethpwyt dyn. M. Yn y drydedh awr y gwnaethpwyt ef. ar ydh enwis yr holh aniueilieit. Ac yn y chwechet awr y gwnaethpwyt gwraic. ac yn y lhe y cymerth hi yr aual gwahardhedic. ac y hystynnodh ef yn anghau yw gwr. ac yr anghau ydhaw y bwytawdh ef. Ac yn y saithuet awr y

gyrrawdh yr arglwydh wynt o baradwys yndhiannot. D. Pa beth uu cherubim ar cledhyf tan yn y law. M. y Cledhyf yw mur tan yssydh ynghylch paradwys. er pann bechwyt yndhi hyt hedhiw. Cherubim yw angylawl gatwataeth megys tan. D. pa le ydh aeth Adha odhyna. M. y Ebron. yr lhe y gwnaethpwyt. Ac yno y creawdh ef vaibion. Ac yno y lhadhawdh Cain Abel. Ac yno Adha a vu cann mlynedh hep achaws ydhaw ac Eua. Ac y ganet Seth yna yn lhe Abel. ac o ettiuedh hwnnw y ganet Christ. A mi a vynnagaf ytt hynn yn wir. na bu o amser Adhaf hyt ar Noe dhafn glaw. ac na bu envys. ac na bwytai neb gic. ac nat yfynt win. a phob amser oedh megys gwannhwynn. ac amlder o bob ryw dha. Ac wedy hynny y symutwyt pob ryw beth o achos pechotau y dynion.

XXIV.—D. Pa bechawt a wnaeth Adha. pan yrrwyt o Baradwys. M. Chwenychu a wnaeth bot megys Duw. ac wrth hynny yn erbyn y gorchymynn y bwytawdh ef or prenn gwahardhedic. D. Pa dhrwc vu vwyta 'r aual. M. Cyndhrwc vu hynny ac na alhai 'r holh vyt gwneuthur iawn drostaw. Canys dyn a dylyai vot yn uuydh y vedhiant Duw ac oe ewyllus. a mwy yw no 'r holh vyt ewyllys Duw. Canys pai savut ti gerbron Duw. a dywedut o dhyn wrthyt y diflannai y byt olh onit edrychit drachefn. a dywedyt yna o Dhuw wrthyt. ny mynnaf i edrych o honotti drachefn. namyn edrych arnafi. Ny dylyt ti tremygu Duw. yr hwnn yssydh lawenydh y dynion ac yr Angylion. er rydtit y byt trangedic. A hynny a wnaeth Adhaf. sewyll gyrbronn Duw. ar cythraul yn galw arnaw. edrych a oruc ef drachefn at y cythraul. ac wrth hynny mwy vu y pechawt hwnnw a wnaeth ef. nac y galhai yr holh vyt y dhiwygu. Canys a wneuthur ohonaw ef y chwech pechawt marwawl yn yr un. am hynny y treiglawdh ef y chwech oes yn y ol y anghau.

XXV.—D. Pa rai vu y pechotau hynny. M. Cyntaf vu syberwyt. pann dhamunawdh vot yn gyphelyp y dhuw. Am hynny y gwnaethpwyt ef yn issaf o bob peth. Ac ef cynno hynny yn arglwydh ar bob peth.

Ac am hynny y dywedir. phiaidh yw gyrbronn Duw. pawb ar a ymdhrychauo y galon. Yr ail peth yw. anuvudh vu pann aeth dros y gorchymmyn. Ac am hynny anuvudh yw pob peth ydhaw yntau. or a oedhynt dharostyngedic ydhaw gynt. Ac am hynny y dywedir. tebyg yw pechawt cyfarwydhon y anufylltawt. Trydydh yw cypydhiaeth. am chwennychu ohonaw mwy noc a genhattaessit ydhaw. Ac am hynny yawn idhaw golli yr hyn a gynnhatwyt iddaw. Am hynny y dywedir. gwasanaeth gaudhuwiau yw cypydhiaeth. Pedwerydh pechawt yw lhetrat. Canys megys lhedrat oedh cymryt da dros wahardh yn lhe cysecredic. Ac wrth hynny y haedhawdh yntau y vwrw ymaes or Cysecr. ac am hynny y dywedir. a ysgymmuno y kyssegr. ef a vwrir odhieithyr y kyssegyr. Pumet yw torri priodas yn ysprytawl. Canys y enait ef oedh gyssylhtedic a Duw. A phann aeth ef ynghytymdheithas y Diawl gann dremygu Duw. y colhes yntau gytymdheithas Duw. am dhunaw ohonaw ac estrawn. Ac am hynny y dywedir. Ti a vwrru bawb yngcyuyrgolh or a dorro y priodas a thi. Chwechwet yw lhadh Celain. Canys ef ai byrryawdh ehun. ae holh ettiuedhion bendramynwgyl yn anghau. Ac am hynny y dywedir. a ladho ef a vydh marw. nyt amgen o anghau tragywydh. Odhyna pann oruc ef y pechawt y bu varw yr enait. ac y cladhwyt yn y corph.

XXVI.—D. Paham na bai lai y gerydh ef am y dwylhaw or yspryt enwir celwydhawc. M. Na vu herwydh Duw. Canys pwybynnac a orchymynnai oe was wneuthur yr ryw waith or a archo ydhaw. ac erchy ydhaw ymoglyt y ffoss. ag yna tremygu o honaw ynteu orchymmyn y arglwydh. a dygwydhaw oe vodh yn y ffos. ac adaw y gwaith yn anorphen. Pony bydhai ef gamgylus yna. Bydhai o dhwy ffordh. un am dremygu y arglwydh. ar lhalh am adu y gwaith yn anorphenn. Velhy y goruc Adha tremygu Duw. a gadaw y gwaith uvulhtawt y dhygwydhaw yn ffos anghau. D. Pa wedh y bu rait ydhaw ef ymchoelut. M. Ef a dlyawdh talu drachefn yr anrhydedh a dhuc gan Dhuw. a

gwneuthur iawn ydhaw heuyt dros y pechawt ry wnaethoedh. Canys cyfiawn yw yr neb a dhycco dha aralh. y dheturyt ydhaw drachefn. a gwneuthur iawn ydhaut heuyt dros y sarhaad.

XXVII.—D. Beth a dhuc ef y gann Dhuw. M. Cwbl or a vynnassai ef y wneuthur am y genedl ef. D. pa wedh y talawdh ef yr anrhydedh a dhuc. M. Gorchuygu y cythraul. megys y gorchyuygawdh y cythraul yntau. ae dhwyn ef. ae ettiuedh yr vuchedh. yn un phunut a phai trigyssynt yn y hansawdh. D. Pa wedh y gwnaeth ef iawn. M. Am wneuthur o honaw pechawt mwy no 'r byt. yntau a dhylyai talu drostaw y dhuw mwy nor holh vyt. Ny alhai ef wneuthur yr un or rai hynny. Ac am hynny y dywedir y vynet ef y anghau. D. Paham na dhivawyt yntau o gwbl yna. M. Ny alhwyt sumudaw gossodedigaethau Duw. Canys o genedl Adhaf ydh aruaethawdh ef gwplau rrif yr etholedigion. D. Beth a wnaeth ynteu. M. Am dhwyn o honaw y gann Dhuw y anrhydedh. a heb y dalu. yna y byrriwyt yntau ympoenau. D. Ac anrhydedh gann Dhuw poeni dyn. neu pa wedh y mae. M. am dremygu ohonaw melyster y dat yn y gogoniant. am hynny y symudawdh yntau megys gwas gwrthgas y vot ef yn dhuw pann boener. D. Paham na madheuai Dhuw ydhaw yntau. ac ef yn drugarawc. yr hyn ny alhai y dalu. A phan cymerai ef bechatur o dhyn yn dhiboen yr gogoniant. a bwrw o honaw Angel o achos un medhwl yngcyuyrgolh. M. A chyfiawn vydhai yr hynn ny alhai vot. Ac nit edewit dim yn teyrnas nef heb y luniaithaw. Ac wrth hynny dlyedus vu boeni pechatur. Canny dhodai neb tresor gemm wedy dygwydhaw yn y dom yn y gist. yny lanhai yn gyntaf.

XXVIII.—D. Beth a dharuu yn y diwedh ydhaw ef. M. Ciliaw a oruc megys gwas ffoawdur a da y arglwydh gantaw yn lhetrat hyt at vrenhin creulawn. Ac yna y danuoned mab y brenhin or lhys anrhydedhus ynol y gwas alhtut. ac y ostwng y brenhin creulawn hwnnw. ac y dhwyn dracheuyn y gwas ffoadur a da yn ewyllys y

brenhin. D. Paham na alhawdh dyn ymchwelut y gwympau. M. Megys y dygwydhawdh ef drwy aralh. ac nyt drwydhaw ehun. velhy y bu teilwng ydhaw yntau. pryt na alhai gyuodi ac ef yn y vynnu drwy ganhorthwy aralh. D. Paham nat anuones Duw Angel y brynnu dyn. M. Pai Angel a brynnai dhyn. ef a vydhai was dyn ydhaw. A dlyedus vu etrut dyn megys y bai gyphelyb y angylion. A gwann heuyt oedh annian Angel y brynnu dyn. Ac o chymerai heuyt gnawt dyn gwannach vydhai.

XXIX.—D. Paham na wnaeth dyn aralh or dhaear onyt Adhaf. M. Pai gwnelai Duw dhyn aralh or dhaear. ac rodhi yn y lhe ny pherthynai arnaw ef prynnu ettiuedh Adhaf. A heuyt dlyet oedh vot oe genedl ehun a wnelai iawn drostaw. D. Paham nat anuones ef patriarch neu prophwyt y brynnu. M. Y patrieirch ar prophwyti a gahat ac a anet ympechotau. ac wrth hynny ny elhynt wy prynnu cenetl dyn. Ac nyt rait eu prynnu hwyntau. Ac na dlyawdh Angel prynnu dyn. ac na alhai dhyn ehun wneuthur iawn y Dhuw. y cymerth mab Duw gwbyl o dhyn megys ydhoedh dhau anian ydhaw o gwbyl. Ac yno goruot ar gythraul herwydh y vot yn Dhuw. ac egori pyrth nef yr etholedicion. ae gwneuthur yn gyphelyp yr Angylion. Ac o annian dyn godhef anghau yn andlyedus. yr hynn oedh yn vwy no'r byt. ac oedh yn dlyet or dhyn ehun y wneuthur. D. Pa ham yntau y mynnawdh Duw y eni or wyry. M. o bedwar modh y mynnodh Duw wneuthur dynion. Un yw heb dat. heb vam. megys Adhaf or dhaear. Yr ail yw o dat a heb vam. megys Eua o Adhaf. y trydydh yw o vam a that. megys pob dyn o honom ni yr awr honn. Y pedwerydh yw o vam ehun megys Christ o'r wyryf. A megys y dauth anghau yr byt trwy Eua. velhy y dauth iechyt yr byt drwy y wyryf Vair. D. Paham o Vair mwy noc o vorwyn aralh. M. Am rodhi o honai godhunet yn gyntaf erioet y Dhuw. y gynnal gwyryfdawt yn y byt hwnn.

XXX.—D. Paham na dhaeth ef yngcnawt cynn

diliw. M. ai dywedaf. pai doethawdh ef cynn diliw. ef a dhywedit. mae y mae y gann y rieni a oedh newydh dhyuot o paradwys y dyscyssynt wy dhigon o dha. nai pan daethoedh ef yn y lhe wedy diliw. wynt a dhywedynt mae wrth Noe ac Eureham y dyscassei Dhuw bob peth or a dhywedessyt yna. D. Paham na dhoeth yntau yn amser y dhedhyf. M. Pai daethoedh ef yna. ef a dhywedai yr Idheuon mae y dhedhyf ai dyscyssai hwynt yn dogyn. Ar sarasiniait a dhywedai mae y doethion ae dyscyssai hwynt. D. Paham nat oedes yntau dhyuot hyt yn diwedh yr oes. M. o achos rhy uychan yna y discyplynt wrthaw. ac na chyflenwit rif yr etholedicion. Ac wrth hynny y bu rait ydhaw dhyuot ynghyflownder yr amser. D. Pa amser vu hwnnw. M. Ymperuedh y byt.

XXXI.—D. Pa ffurf y ganet ef or wyryf. M. Heb vudredh a heb dholur. D. Paham y bu ef naw mis ymru yr wyryf. M. Y dhangos y dygai ef bawb or a yttoedhynt yngwarchae trueni y byt hwnn ynghymdheithas yr angylion. D. Pa awr y ganet ef. M. Megys y dywait y prophwyt. hanner nos y daeth ef oe eistedhuau brenhinawl. D. Paham yn y nos. M. Y dhwyn y rhai a oedhynt yn tywyllwch cyfeilorn yr goleuni gwirionedh. D. A oedh synnwyr gan Christ. ac yntau yn vychan. M. Ef a wydhat pob peth megys Duw. yn yr hwnn ydhoedhynt holh tresor gwybot. a doethineb cudhiedic. D. A alhai ef dhywedyt pann anet. a cherdhet. M. Gallai pai as mynnai. ny mynnawdh ef hagen symutaw dynawl anian. D. A dhamweiniawdh neb ryw anryuedhawt. pann anet Christ. M. Damweiniawdh saith gwahanredawl. D. Pa rai oedh y rhai hynny. M. Y cyntaf. seren dhiruawr y goleuni a ymdhangosses. Yr ail. Cylch eurait a ymdywynnygawdh ynghylch yr haul. Y trydydh ffynnawn o olew a dardhawdh or dhaear. Y pedwerydh. Tangnedhyf a vu yn yr holh vyt. Pumhet yw. yscriuennu a wnaethpwyt yr holh vyt y dalu swlht y Ruuain. Chwechet yw. deng mil ar hugain orhai a ymorthodes a Duw. a las

yn yr un dydh. Seithuet yw. yr aniueiliait mut a dhywat.

XXXII.—D. A vynnwn wybot ystyr y rhai hynny ae rhinwedhau. M. Y ser a arwydhocaant y Saint. Ar Seren raceglur yw y pennaf or saint. sef yw hwnnw Christ. Y Cylch aur. yr hwnn a dhyscleiriawdh ynghylch yr haul. a arwydhocaa ecclwys Duw a oleuhaa o haul y gwirionedh. ac a goronawdh o borphor y dhiodhefaint ef. Y ffynnawn o olew a dardhawdh or dhaear yw ffynnawn y drugaredh a lythrawdh or wyryf Vair. ysgriuennu y byt a wnaethpwyt y ardhangos bot yr holl vyt yn dharostyngedic yr gwir vrawtwr. Tangnedhyf a vu yn y byt pann dhaeth gwir dangnedhyf yr dhaear. Y rhai a las a dhengys ydh ant yngcyuyrgolh. y niuer a ymwrthotto a duw. ac ae orchymynnau. Yr aniuail mut a dhywait. o achos ymchwelut pobul y Sarasiniait y voli Duw.

XXXIII.—D. Paham y doeth y tri brenhin ar tair anrhec y adholi Christ. M. Y dhangos mynnu o honaw tynnu attaw tair rann y byt. nyt amgen. yr Asia. Aphrica. ac Europa. D. Paham y ffoes ef yr Aipht. mwy noc y wlat aralh. M. y dhangos bot y wir Voesen yn dwyn o honi plant Adhaf o gaethiwet y cythraul. megys y duc Moesen gynt pobul yr Israel o gaethiwet Pharao vrenhin yr Aipht. Ac odhyna ympen y saith mlynedh ydh ymchwelawdh drachefn y Caerussalem nefawl drwy saith doniau yr Yspryt Glan. D. Paham na mynnawdh ef. na dyscu na gwneuthur gwrthiau yn y vu degmlwydh ar hugaint. M. Er rodhi agcraifft y bawb yn y byt hwnn. na dhysco ony dhel yr oedran dedhfawl.

XXXIV.—D. Paham y cymerth vedydh. ac ef yn gyflawn o rat a duwolder. M. Er cysecru y dwfyr y ni. D. Paham y bedydhiwyt ef yn y dwfyr. M. Am vot y dwfyr yn wrthwyneb yr tan. a megys y diphydh y dwfyr y tan. velhy y diphydh y bedydh y pechawt. A pheth aralh yw. y dwfyr ef a wlych pob peth budyr. ac ef a dhiphydh sychet. ac a welir gwascawt yndhaw. Velhy y gwlych rat yr Yspryt Glan budredh y pechodau

trwy y Betydh. a dileu sychet yr enait a wna o ciriau Duw. Ac o gysgawt Duw yw. ae dhelw a welir yndhaw. pan ymadawer ar pechotau.

XXXV.—D. A oedh dec Iesu herwydh anian. M. Cynn deccet oedh ac ymdhangosses yn y mynydh. D. Paham y bu varw Christ. M. o achos uvulhtawt. megys y dywedir. Ef a vu uvudh hyt yn anghau. D. A erchis y tat ydhaw ef varw. M. Nac erchis. D. Paham y lhadhawdh yr Iudheon Iesu. M. Am vuchedhoccau o honaw trwy wirionedh. a chynnal y wirionedh gann dhyscu cyfiawnder. yr hynn a gais Duw gan bob creatur dosparthus. D. Paham y gadai y tat lhadh y un mab. ag yn galhu y ludhias. M. Pann welas Duw y uab medhaf. yn mynnu perpheithiaw gweithret mor ardherchawc. ac ymladh ar brenhin creulawn. a rydhau y caeth oe vedhiant. Duw a gytsynniawdh ac ef ar y gweithret moliannus hwnnw. ac a adawdh ydhaw varw. D. Pa dhelw y bu gvfiawn gann Dhuw rodhi gwirion dros enwir. M. Am dwylhaw or gwaethaf y dyn mul. iawn vu yna rodhi y gwystl gorau drostaw y warchae y gelyn. ac y eturyt yn dhiargywedh yr hen rydhtit. Ac velhy y dangoses Duw y gariat ef yr byt. megys y dywedir. ti a rodhaist dy uab y brynnu dy was. D. Os ef ehun a rodhes ei uab oe vodh. beth a bechawdh Judas yr y rodhi ynteu. M. Y tat a rodhes y uab. ar mab ehun a ymrodhes er cariat. Judas hagen ae rodhes ef er chwant da.

XXXVI.—D. Paham y mynnawdh ef y varw ar y prenn. paham ar y Croc. M. Er prynnu pedwar bann y byt. D. Pa sawl awr y bu Christ yn varw. M. Deugeinawr. D. Paham er prynnu pedeir bann y byt y rhai a vuessynt veirw yn y decair dedhyf. D. Pa hyt y gorwedhawdh ef yn y bedh. M. Dwy nos a diwarnawt. D. Paham. M. Y dhwynos a arwydhoccaant y dhau ryw anghau yssydh. Un yr corff. ag un yr eneit. ar dydh a dhengys yr anghau. yr hwnn yssydh oleuni yn hanghau ninhau. ac un ohonunt. nyt amgen anghau yr enait a dhestrywiawdh ef. Ar lhalh a edewis er tralhawt yr etholedicion. a honno hefyt yn y diwedh.

pan dhel ef ai destrywia. D. Pa duy ydhaeth y enait ef wedy y varw. M. Y baradwys nefawl. megys y dywat wrth y lheitr. hedhiw y bydhi di y gyt a mi ymparadwys.

XXXVII.—D. Pa bryt y descynnawdh ef y uffern. M. Hanner nos. y nos y cyfodes. yn yr awr y destrywiawdh yr Angel yr Aipht yn yr un awr honno. sef oedh hynny hanner nos. yr yspeiliawdh Christ uffern. sef y cyfleodh er etholedicion ymparadwys. ac y golauhaodh ef y nos megys y dydh. val y dywedir. Y nos a olauhair megys y dydh. A gwedy hynny y gogwydhawdh y corph yn y bedh. a dephroi o veirw. Rhai ohonunt hagen a synniawdh mae er pann vu varw ef ony gyuodes y bu y gyt ar etholedicion yn uffern. Ac odhyna mynet ygyt ac hwynt y gyuodi. ac nyt velhy y bu. Cyhyt y bu ef yn uffern ac y bu yn y yspeiliaw. ac y bydh yn barnu dydhbrawt. sef yw hynny cyhyt y trewit yr amrant ar y lhalh. D. Paham na chyuodes ef yr awr y bu varw. neu nat ymarhoes yntau a vai hwy am gyuodi. M. Rac dywedut na buassai varw. neu pai cyuodai yntau ympenn lhawer o amser. petrus vydhai ai ef oedh. D. Paham y cyuodes ef mor ebrwydh a hynny. M. Er didhanu y rhai eidhaw a oedh drist am ei varw.

XXXVIII.—D. Paham y cyuodes y dydh cyntaf or wythnos. M. Er atnewydhu y byt o lawenydh y gyuodedigaeth ef yn yr unrhyw dhydh ac y gwnathoedh. D. Paham y trydydh dydh oe dhiodhefaint ef. M. er drychauel y vynydh y rhai a oedhynt veirw yn y poeneu yn y tri amser Dedhyf. ac amser cynn Dedhyf. ac amser y rat. ac yn cyuodi drwy ffydh y drindawt. o achaws ein dygwydhaw ni o eiriau a medhyliau a gweithredoedh. D. Paham na dhywedi di y mi pa le y bu ef yn y deugain niau. M. Gwedy y gyuodi ef o veirw y dhaeth y baradwys dhaearawl ygyt ac Eli ac Enoc. a rhai a gyuodyssant ygyt ac ef. D. Pa ffurf a vu arnaw ef. gwedy y gyuodi. M. Gloewach oedh ef saithwaith no'r haul. D. Pa ffurf y gwelsant wy y rhai a oedh eidhaw ef. M. Yn y ffurf y gnottayyssynt wy

cynno hynny y welet. D. A oedh dilhat amdanaw ef yna. M. Ef a gymerassoed gwisc or awyr. a phann escynnawdh ef ar y nef y divlannawdh y wisc yn yr awyr.

XXXIX.—D. Pa sawl gwaith ydh ymdhangosses ef. M. Deudhecwaith. wythweith yn y dydh cyntaf y Joseph o Arimathia a oedh yngharchar o achos y gladhu. megys y dengys ysgriuenn Nicodemus. Yr ail waith oe Vam ehun. val y dengys Sedulius. y drydedh waith y Vair Vagdalen. val y cadarnha Marcus. Y bedwaredh waith yr dhwy gwragedh yn ymchwelut ywrth y bedh. val y dywait Mattheus. Y pumhet waith y Iaco. val y testa Paul. Canys efe a rodhassai godhunet na vwytai ef byth yn y welai ef Christ yn vyw. Y chwechet waith y Betr megys y tystia Lucas. a dharoedh ydhaw ymwahanu ar Ebystyl erailh. Ac yntau yn wylaw yn wastat am y wadu ef. Y seithuet yr dhau dhiscipl ar y ffordh yn mynet y Emaus. val y tysta Lucas heuyt. Yr wythuet udhunt olh gan gwrthucher ar drysau yn gaead megys ydh escriuennawdh Ieuan Apostol. Y nawuet waith yn yr unuet dydh ar dhec udhunt olh pann deimlawdh Thomas y archolheu. Y decuet waith ar vor Tiberiadis. Yr unued ar dhec ym mynydh Galilea. Y deudhecuet vu yr un discipl ar dhec. ac wynt yn gwedhiaw pann aeth ef yr nef.

XL.—D. Paham y dywait yr Euangel mae y Vair Vagdalen ydh ymdhangosses ef yn gyntaf. M. Drwy awturtawt mawr y gwnaethpwyt yr euangelau. Ac nyt yscriuennwyt yndhynt onyt yr hynn a oedh hyspys gann bawb. Ac wrth hynny y dywedir. lhawer a wnaeth Iesu ar nyt yscriuennwyt yn y lhyver hwnnw. sef yw hynny yn yr euangel. Yn y lhyureu erailh pethau a yscriuenwyt yndhunt. petheu oedhunt yndhunt. petheu erailh ny dhodet. D. Ae ef ehunan a escynnawdh yr nef. M. Y rhai a gyuodassant. y gyt ac ef ydh escynnassant. D. Pa ffurf ydh escynnwys ef. M. Yn y modh ydhoedh cynn diodhef yny dhauth yr wybr. Ac wedy y gymryt or wybr ef yn y ffurf

hwnnw. ydh ymdhangoses yn y mynydh oe vynediat ar y nef. D. Paham nat escynnawdh ef yn y lhe wedy y gyuodi. M. O dri achaws. cynntaf yw. y alhu orhai eidhaw ef ehun dhywedyt yn wir drwy brawf y gyuodi. yr ail yw ympenn y deugeinuet dydh ydh escynnawdh ef y dhangos galhu o bawb ar a gyflawnhao y dengair dedhyf drwy y pedwar euangel escynnu yr nef ar y ol yntau. Trydydh yw yr eglwys yma yssydh Corph Crist. Ac wedy y tralhawt a odhefo hi yma dann yr Antichrist. ef a gredir y daw dydhbrawt hyt ympenn deugain niau. ac yna ydh yscynn pawb yr nef.

XLI.—D. Pa vodh ydh eiriawl drosom ni ar y dat ef. M. Gann dhangos y dhiodhefaint yn wastat. D. Paham nat anuones ef yr Yspryt Glan heb ohir o vewn y deugain niau. M. O dri achaws. Cyntaf yw. y ymgyweiriaw or ebystyl o wedhiau a dyrwest erbyn y dhyuot ef. Yr ail yw. y dhangos y mae y neb a gwplau gorchymmynau Christ a gymerynt yr Yspryt Glan. Trydydh megys y dhodhet dedhyf cariat y bobul Dhuw ympenn y dengniau a deugaint. gwedy eu rydhau or Aipht. velhy cymaint a hynny o amser y bobul Cret y rhodhet y rydit a golhessynt ar dref eu tat ymparadwys.

XLII.—D. Gwedy cyuodi Christ. a ydyw y gyflawn lawenydh yn awr ynghrist. M. O beth y mae. o beth aralh nyt ydyw. herwydh y berson ehun y mae ydhaw yn gyflawn. herwydh yr ecclwys yr honn yssydh corph ydhaw nyt ydyw. Canys nyt yttynt gwbwl gwedy darestwng dann y draet ef etto. y maent yr Iudheon yn gwatwar amdanaw. ar Sarasiniait yn y gelhweiriaw. a rhai heuyt yssydh a chamgret ganthunt yn y dwylhaw. a rhai drwc yssydh yn ymladh ac ef. Ac velhy yn y aelodeu ehunan y mae beunydh yn godhef gantunt. Pann gynnulhaw ef hynny olh attaw. y caiph ef y gyflawn lawenydh. D. Pa dhelw y mae'r ecclwys yn gorph ydhaw ef. M. Megys y mae corph ynglyn wrth y penn. ar penn yn lhywiaw arnaw. velhy y mae yr ecclwys drwy lendit corph Christ. gwedy ry gyssylhtu wrthaw. ac yn un ac ef. A phawb o rhai

cyfiawn yn y urdhas megys y aelodau. ar penn hwnnw yn y lywiaw. Lhygait y penn hwnnw yw y prophwyti. a dhywedassant y petheu a dhelai rhaclhaw. Ar ebystyl y rhai a dhygant lawer o gyfeilorni y oleuni gwirionedh. y clustiau ynt y rhai a wrandawont y da. y phroenau ynt y doethion dosparthus. y gwlybwr yw a vwrir ymaith or phroenau yw dynion a chamgret gantunt. a vwrir drwy varn y doethion o benn Christ y maes. y dannedh ynt esponwyr yr yscrythur lan. y dwylaw ynt amdhiffynwyr yr ecclwys. y dracl ynt y lhauurwyr yssydhyn porthi ecclwys Duw. y deint ynt y treiswyr yssydh yn gorthrymu dynion gwirion. ac a vwrir allan o groth yr ecclwys oe lhyncu or dieul hwynt drwy eisiwet ac anghau. megys y lhwnc y moch y soec ar budredh. Ar corph hwnnw a gyssylhtir ygyt yn un dyscrawling cariat am gorph Christ.

XLIII.—D. Paham y gwnair y gorph ef or bara. ae waet or gwin. M. Y gorph ef a wnair or bara. am dhywedyt o honaw. Bara byw wyfi. y waet yntau or gwin. am dhywedut ohonaw. gwir winwydhen wyfi. A megys y porthir y corph or bara. velhy y megir yr enait o vwyt nefawl. A megys y gwnair y bara or grawn lhawer. velhy y cynnulhir corph Christ o lawer or etholedicion. A megys y berwir y bara o nerth y tan. velhy y pobet Christ ymewn tanlhwyth y dhiodhefaint. Ar bara hwnnw a dhywedir ei vot yn gic. o achaws y aberthu drosom ni megys oen. A megys yd hitler y gwin or soec. ac or grawn. velhy y cyssylhtir corph Christ o lawer o rai cyfiawn. ac y gwasgwyt ymewn trauel y Groc. mal y gwescir y gwin yn trauel y gwin. Ac am vot bywyt ein henait ni yn y gwaet. am hynny y troir y gwin yn waet. Ac yn gwelet gosgedh y bara ar gwin yn eu heilun ehunain.

XLIV.—D. Pa dhelw y dywedir ei vot ef yn gic ac yn waet. M. Medh y Saint. diogel yw y mae ef yw y corph a anet o Vair wyryf. ac a diuynnawdh yn y Groc. ac a escynnawdh yr nef. A lhyna paham y trigiawdh ef yn rhith y bara ar gwin. rac bot yn aruthr gennyt gymryt yn dy enau y gwaet a welut yn defni

oe ystlys ef. neu vwyta cic y gorph ef. a thi yn y welet yntau. D. Pa iechyt yssydh ydhaw ef. M. Yndhaw y mae mwyaf. Megys y troir y bwyt yn gic yr neb ae bwytao. velhy y trossir pob ffydhlawn yn Gorph y Christ trwy y bwytaedigaeth hwnnw. wrth hynny cyt diodhef a Christ a wnawn ni trwy ymadaw a chwant y byt hwnn ac ae wytieu. ac yn cytgladhu a wnair ac ef. pann yn sodher yn y dwfyr Betydh. Ac wrth hynny y sodhir teirgwaith wrth gyfraith y Tair Person. A thrwy vwytaedigaeth y gorph ef. in gwnair ni yn un gorph ac ef. ac am hynny rait yw ein dwyn ni yr lhe y mae Christ.

XLV.—D. A vydhai vwy glendit yr neb vwyaf a gymerai ohonaw. megis y dywedir am y Manna. Na bydhai lai yr neb a gynnulhai ychydic ohonaw na lhawer. Velhy y mae pawb yn cymrut cymaint ae gilydh ohonaw yntau. Canys pawb a vwyta oen Duw yn gwbyl. sef yw hwnnw Christ. ac yntau val cynt yn y nef yn gyfann. D. Pa dal a gaiph y neb ae traetho ef yn gyfiawn ac yn deilwng. M. Dwy goron a gaiph. un am ei anrhydedhu ef. ac aralh am vot dedhfau teilwng ganthaw yn y gymryt.

XLVI.—Am yr offeiriait. D. Beth a dhywedi di am y rhai a wnel ei gymerut yn anteilwng. y rhai a dhycco eu buchedh yn erbyn cyfraith Dhuw a chyfiawnder. drwy odineb a phuteinrwydh a gwytyeu erailh. Neu a werthont. neu a brynnont ecclwyseu neu anrhydedh ecclwysic. ac a ladho pobul Dhuw yn y modh hwnnw o dhybryt dhisciplaeth. cynhebyc ydynt yr neb a uratawS Duw neu ae croges. prawf. Pony dhyly offeiriat canu offerenneu o achaws Duw ehun. ac yr iechyt udhunt wyntau. ac yr holh ecclwys canu offerennau. Hwyntau hagen er ennilh udhunt ehunain. ac er eu anrhydedhu wyntau o dhynion aberthasant. ac er eu cyuoethogi o dhaoedh amserawl. A phwy bynnac a wertho rinwedhae diodhefaint Christ er canmawl dynawl. neu er ennilh amserawl beth amgen. y maent yn gwneuthur yn waeth no gwerthu'r Arglwydh. A phann draethont o dhwylaw budyr a chytwybot halawg y maent yn y groci ef.

XLVII.—D. A vydh cerydh ar y bobul o achaws y rhai hynny. M. Am halogi o veibion Eli gynt Aberthau yr Arglwydh. wynt a las olh. ar bobul y gyt ac wynt haeach. Ac wrth hynny. os deilhion a dywysa y deilhion erailh. wynt a dhygwydhant y gyt yn y clawdh. Ac wrth hynny a gytsynnio ac wynt a vydhant gyfrannawc ar y poenau. D. A wnant y rhai hynny corph Christ. M. Cyt boet amperffeithiach y gantunt. eisioes trwy y geiriau a dhatcanont wy y bydh corph yr Arglwydh. Canys Christ ehun ae gwna ef ac nyt wyntwy. A thrwy y elynion y gwna ef iechyt yw veibion. Ac ny bydh gwelh o law y rhai goreu. corph yr arglwydh. na gwaeth o law y rhai gwaethaf. Megys na helyc pelydr yr haul gann domm yr ysteuylh bychain. ac na loewha ir y tywynu ar y Crairau.

XLVIII.—D. Paham y bydh drwc da cymaint a hwnnw yr neb ai cymero. M. Am y gymryt ef dros wahardh. Canys gwahardhedic yw y gymryt ef yn anteilwng. Nyt oes un aual drwc ymparadwys. ac eisoes ef a droses yn dhrwc yr dyn oe gymryt gann y cythraul. D. A alhant wy tangneuedhu y dhuw dros y bobul. M. Ysmwy y codhant ef. Canys halogi y Cysecr a wnant pann y sathront. a halogi y gwiscoedh ar lhestri cysecredic pann y teimlont. Aruthr a ffiaidh vydhant gann yr Angylion. ar Arglwydh yn ffo racdhunt. D. A wna Duw megys y dywedir. M. Y veibion a heuyt nyt y veibion ai lhidiant ef am eu budredhi. wrth hynny medh yr Arglwydh. mi a gudhiaf vy wyneb ywrthunt a rracdhunt y veibion y geilw ef hwynt o achos y offeiriadaeth hwynt. ac am y budredh y dywait yntau nat ynt veibion ydhaw. Ac ny chymer Duw eu haberth wynt namyn y ffieidhiaw. Ac am hynny y dywedir. vy enait a gasaa ych Aberth chwi. medh yr Arglwydh. Canys bara halawc a offrymassoch ymi. A channy alher halogi corph yr Arglwydh. herwydh y gallant wy. ef a halogir yn andosparthus. a megys bara aralh y cymerant. Ny chymerir hagen eu gwedhi hwy. namyn yn bechawt y bydh udhunt. Cany wrrendy Duw wynt. Ae bendith a drosir udhunt yn

emelhtith. Megys y dywedir. Mi a drosaf ych bendith chwi yn emelhtith ywch. medh yr Arglwydh.

XLIX.—D. A gymerant wy gorph yr Arglwydh. M. Meibion Duw ehun ai cymerant. a rhai nyt ydyw Duw y gyt ac hwy. cyt gweler eu bot wy yn y dhodi ef yn eu geneuau. nys cymerant val cynt. namyn Angylion ai duc ef yr nef. a chythraul a vwrw maroryn uffernawl yn eu geneu wyntau ae cymero. megys bara aralh. neu megys gwin aralh. y gwenwyn dreicieu a vwrw yn eu geneueu. megys y dywait Cyprianus. D. Ponyt un ryw a gymerth Judas a Phetr. M. Nac ef. Petr a garawdh yr Arglwydh. ac wrth hynny y cymerth y rinwedh ae nerth. A Judas ae casaawdh. ac wrth hynny yn ol y tamait hwnnw ydhaeth y cythraul yndhaw ef. D. A dlyir uvudhau y ryw offeiriait hynny. M. Lhe y gorchymynnont wy dha. ef a dhlyir bot yn uvudh udhunt ar eiriau Duw. ac nyt ar eu hewylhus hwy. yn y lhe y dyscont wyntau dhrwc. ef a dhlyir eu tremygu. canys rhaid uvudhau i Dhuw yn vwy nag y dhynion.

L.—D. A alhant wy elhwng. neu dilhwng. M. Galhant. ony bydhant wahardhedic o varn yr ecclwys. Canys Christ ehun drwy eu gwasanaeth hwy yssydh yn rhwymaw ac yn gellhwng. or bydhant wy hagen wahardhedic nys galhant. Canys tra vu Judas y gyt ar ebystyl. ef a brecethawdh ac a vatydhiawdh. ac a wnaeth wrthae. Ac wedy y giliaw y wrthunt. ef a ymdhangoses megys gelyn cyhoedhawc. Velhy tra vont wy yngcyphredinrwydh yr ecclwys. ef a vydh cadarn pob rhinwedh a wnelant. pryt na bont wyntau. diffrwyth vydh eu gweithredoedh. ac wrth hynny bleidhiae ynt. a phawb a dhyly eu goglyt. megys y dywedir. vympobul i ewch oc eu plith wy. rac eich bot yn gyfrannawc ac eu poenae. eu gochel wynt a dhlyeir o vedhwl ac ewylhus. rac cytsynniaw ae drycweithredoedh. D. Pa ryw gytsynniaw. M. Or molir drwcweithredoedh. neu o nerthir hwynt. ae o dha. ae o gyngor. Nyt y rhai yssydh yn gwneuthur y drwc ysydh deilwng o anghau. namyn a gytsynnio ac wynt ef a dhlyir eu gochel rac eu bot yn gwymp yr bobul.

LI.—D. A dlyir dywedut geiriae Duw y rhai drwc. M. Or gwybydhir eu bot yn honneit elynion y Dhuw ny dlyir eu dywedut udhunt. Canys twyllhwyr ynt. y neb a adhefo cyfrinach Arglwydh yr neb a wyppo y vot yn elyn ydhaw. odhyna y gorchymynnir val hynn. Na rodhwch y bara bendicedic yr cwn. ac na vwriwch y gemmae aur yr moch. rac eu sathru dann eu traet. a gwatwar amdanawch. Lhe ny wyper hagen eu bot wy velhy. ef a dlyir brecethu udhunt ae trossi yr iawn. Ar Arglwydh a brecethawdh gynt y Petr ar cbystyl erailh. am wybot bot Judas ar pharisdywysocion yn teruyscu. D. A dlyir eu godhef wynt val y godhefawdh Christ Judas. M. Ef a dlyir ymgyphelybu ac wynt yn y dhel Duw ehun ar nithlen gantaw y dethol y grawn o blith y peiswynn. ac y vwrw y gwyc yn y tan. ac y dhwyn y gwenith oe ysguboriau. D. Gwrthodtit Duw bob drwc ywrthyt gann dy gyflehau yn y nef. Ac yn y modh hwnnw y teruyna y lhyver cyntaf o ansawdh yr ecclwys. Bit lawen vy enait i yn yr Arglwydh. am ry waret ohonaw nywlenn anwybot yarnaf. ac am vyngoleuhau o baladr y doethineb. wrth hynny tegwch yr ecclwys mi a eruynnaf yt gennatau ymi gouyn yt bethau erailh etto. M. Gouyn ym yr hynn a vynnych. a thi a glywy y peth a chwennych.

LII.—D. Ef a dhywedir am dhrwc nat dim. A rhyuedh yr Arglwydh gyuyrgolhi angylion a dynion. er gwneuthur peth heb dhim o honaw. M. Os y ryw beth yw drwc. ef a welir y mae y gann Dhuw y bydh. Canys Duw a oruc pob peth. Ac yna y prouir y mae Duw yssydh awdur y drwc. Ac wrth hynny cam yw bwrw yngcyuyrgolh y rhai a wnel drwc. M. Gwir yw y mae Duw a wnaeth pob peth. Ac wrth hynny y prouir nat dim drwc herwydh galhu. Canys pob galhu yssydh dha. Ar drwc nyt oes alhu ydhaw. ac wrth hynny nyt dim. A megys y dywedir. Delhi y lhe ny bo golwc. a thywylhwch yn y lhe ny bo goleuni. Velhy y bydh drwc yn y lhe ny bo da. Cannyt ydynt un alhu. Canys tri pheth yssydh. Creatur. a natur. a gweithret. Creadur. megys y defnydhiau. Natur

yw megys yr hynn a dhel gantunt wyntau. Gweithret yw yr hynn a wnel dyn. neu a odhefo dyn neu angel. wynt a wnant bechotau. ac odhefant boenæ pechotæ. yr hynn nys gwnaeth Duw. yntau hagen ai gadawdh udhunt y wneuthur. megys y dywedir. Ny wnaeth Duw anghau. ac nyt oedh dim o bechawt amgen. onyt na wneler y gorchymyn. sef yw y drwc na chapher y da. Sef yw hynny lhawenydh. a theilwng oedh gyuyrgolhi y neb ny wnel a orchymynner udhunt.

LIII.—D. Pwy yntau yssydh awdur yr pechawt. M. Y dyn ehun. a diawl yn annogwr ydhaw. D. Ae gorthrwm pechawt. M. Pechawt dann wybot y vot yn bechawt. ystrymach nor holh vyt. A pha beth bynac o dhrwc neu o bechawt a wneler. ef a drossir o gwbyl yn voliant y Dhuw. D. Ponyt drwc lhadh celain. neu odineb. M. Da yw lhadh celain lawer gwaith. megys y bu dha lhadh o Dhauydh y cawr. neu ladh o Judith Olophernes. D. Paham y mae drwc yntau pann ladher. M. O dhryc anian y mae drwc y lhadh. priodas gyfiawn da yw. Godineb hagen yn erbyn cannyat. drwc yw. Ac am y dial wynt trwy gyfiawnder y trossir wynt ar voliant y Dhuw. A megys y molir Arglwydh a dalo yn dha eu lhauur oe vachogion. mwy no hynny ympelh y molir o dhiua yr herwyr ar lhatron. wrth hynny gogonedhus yw Dhuw o iachau y rai gwirion. a moliannus yw o gyuyrgolhi y rhai enwir.

LIV.—D. Yscriuennedic yw. na chassawdh Duw dhim ar a wnaeth. pa dhelw yntau y gelhir dywedut. Caru o Dhuw y rhai da. a chassau y rhai drwc. M. Ef a gar Duw pob peth ar a greawdh. ac ny dhodes ef pob peth yn un. A megys y car y lhiwydh pob lhiw. a rhai o honunt a vydh hagen hophach gantaw noc erailh. velhy y rhyd ef pob un o honunt yn y lhe eu gwedho. Ac wrth hynny y dywedir caru o Dhuw y neb a erbynno ef y lys nef. a chashau o honaw y sawl a sodho yn uffernawl garchar. D. Beth yw rhydh ewylhus. M. Rydhtit y dhewisaw y da neu y drwg. a hynny a gauas dyn cyntaf ymparadwys. Ac yn yr

amser hwnn ny dhychawn neb wneuthur da neu dhewisaw. heb gaphael rat y gann Dhuw.

LV.—D. Beth a dhywedi di am y neb a gymero abit credhyf. a chwedy eu proffes ymchwelut yr byt dracheuyn. M. Y rhai a dhechreuo wneuthur da. ac odhyna ymchwelut ar enwiredh. y rhai hynny y lhitia Duw wrthynt. A mynych y menyc y gwas ffordh yr mab a vo ar gyfeilorn y dhyuot at y dat. Ac odhyna ydh ymchwel ef at y dat. oe waith drachefn. Velhy y tynn y rhai drwc yr etholedicion y Christ at Dhuw. ac ydh ymchwelant wyntau ar y dryc lauuriau. A megys y dwc ofn cariat yr deyrnas. ac nyt a ef ehun. Velhy wyntau. A megys y gwasanaetha diawl y Dhuw. velhy y gwasanaetha y aelodau yntau yr etholedicion.

LVI.—D. Pa dhelw y gwasanaetha diawl y Dhuw. M. Am dremygu ohono ef Dhuw. ac ef yn dywysawc gogonedhus. Ponyt ymplas y nef y gwnaeth Duw yntau. megys gof lhauurus yn y byt hwnn. ac gymelh ef yn gaeth oc wasanaethu oe holl nerthoedh. megys y dywedir. Mi ath wnaf yn was caeth y mi yn dragywydhawl. Einon y gof hwnn yw poen a thralhawt. y veginau ae yrdh yw prouedigaethæ. y lifiau yw tafodae y goganwyr ar ymgeinaw a wnant. Ac ar y peiriannau hynny y purhaa ef eurait lestri y nefawl vrenhin. sef yw y rhai hynny etholedicion. y rhai a atnewydhaa ef trwy y purdan ar eilun Duw ehun. y rhai drwc a boena yntau. mal y poena y gelyn y lhalh. Ac velhy y gwasanaetha diawl y Dhuw. D. Pa dhelw y gwasanaetha y aelodau ef y rhai etholedicion. M. Pann dhyccont yr teyrnas trwy anhyedh neu wrthwynebedh. drwy anhyedh gann geissaw eu bwrw ynghyueilorn yn rhith lhes. a hynny drwy dwylh. Ac yna y bydh cadarnach y rhai da yn seuylh yn eu ffydh. odhyna drwy wrthwynebedh gann dhwyn y gantunt yr hynn y maent yn y garu yn vwy no iawnder. A chann eu gostwng hyt na wnelont damunet y cnawt o gwbyl. Ac velhy ydhant y nef drwy odhef gouut y gann y rhai drwc.

LVII.—D. Paham y bydh cyuoethawc y rhai drwc yman. a iach a chadarn. ac yngwrthwyneb y hynny y rhai da yn eisiwedic. a rhai drwc yn eu gostwng. M. Y rhai drwc y bydh amlder o achaws yr etholedicion. megys y tremyccont y rhai hynn. a welont y rhai gwaethaf ohonunt yn blodeuaw yndhaw. yn gyntaf cyuoethawc vydhant. megys y galhont o varn gyfiawn Dhuw gwrthladh drwy eu golut y drwc y maent yn y chwennychu. Yr eil yw. o gwnant dha wynt a gaphant dal amdanaw. Canys er y petheu daearawl y gwnant bob peth or a wnelont. Ac o dhyna y cymerant yma eu cyflog a thal am danaw. Cadarn vydhant yn gyntaf oe hachos ehunain. megys y galhont gwplau y drygau y maent yn eu garu. Yr ail waith o achaws y rhai camwedhawc. oe hamdhiffin wyntau yn eu drwc. Y trydydh achaws yw y gospi yr etholedicion onadhunt. ac oe emendau oe drycweithredoedh. Odhyna iach vydhant megys na synniant yma boen y gyt a dynion. y rhai ai lhysc wynt yn y gorthrymaf dholur raclhaw. y rhai da a vydh eisiau ac amarch a haint arnunt yma. rhac eu digrifhau hwynt ymewn petheu drwc. Ac y dhileu o gwnelynt yn erbyn Duw. Ac onys gwnelynt y gaphael tal gan Dhuw am y hammynedh.

LVIII.—D. Paham yngwrthwyneb y hynny y bydh cyuoethawc y rhai da a chedyrn a iachus. a rhai drwc yn dlodion ac yn wann ac yn heinus. M. Y rhai or etholedicion y rhodhir udhunt oludoedh y alhu oe da cwplau eu gweithredoedh da a vynnont y wneuthur. ac y dhangos udhunt wy. os esmwyth yma gantunt eu da amserawl. y mae esmwythach raclhaw o lawer y da tragywydhawl. Cedyrn vydhant. ynghyntaf oe hachos ehun. y alhu cwplau yr hynn a vedhyliont. Yr ail peth o achos yr etholedicion. y alhu rhodhi amdhiffin udhunt ar y da. Ar trydydh peth o achos y rhai drwc. y alhu y gostwng. rhac gwneuthur ohonunt cymaint ac a vynnont. Iach vydhant rhac tristau y rhai gwirion ac oe cleuyt wynt. ac oe lhawenhau wynt oe yechyt. yngwrthwyneb y hynny. y rhai drwc a boenir yman o eisiau a thralhawt a dolur. y dhyscu udhunt chwer-

wedh y poenæ y maent yn dyvryssiaw udhunt drwy eu camweithredoedh.

LIX.—D. Paham y bydh byw rai or rhai drwc. a rhai orhai da yn marw yn ehegyr. ag yngwrthwyneb y hynny rai or rai da a vu byw yn hir. a rai or rai drwc. yn marw yn ehegyr. M. Y rhai drwc a edir yn vyw yn hir y ofudiaw y rhai gwir. ac y burhau eu pechodeu drwydhunt. ac oe poeni wyntau yn vyw raclhaw. y rhai da yntau a dhygir yn ehegyr. er dwyn gwrthwynebedh y byt hwnn ywrthunt ac yw gossot yn lhewenydh tragywydhawl. yngwrthwyneb y hynny hoedl hir a rodhir y rhai gwirion y chwaneccau y gobrwyau. ac y ymchwelut lhawer o honunt ar dha drwy angcraifftiau. A rhai drwc a dhygir oe poeni. y vot aryneic ar yr etholedicion yssydh ar gyfeilorn. ac oe dwyn yr iawn.

LX.—D. A vydh detwydh y neb ny chyuarpho gwrthwyneb ac ef yma. M. Dyreittiaf dynion ynt y rhain a gapho y byt hwnn wrth eu cyngor ae hewyllhus o bob peth heb wrthwyneb udhunt. un ffunud ydh ydys yn meithrin y rhai hynny. A sych vydh yn y dodhi ar y tan. yngwrthwyneb y hynny dedwydhaf dynion yw y rhai a wahardher eu hewyllhus yma. ac a gyfarffo gouyt lawer ac wynt yma. Canys y rhai hynny megys meibion yn ol y gwarauffonnau a dhygir yr deyrnas. megys y dywedir. Duw a gospa pob mab ar a gymero. A gwybydhi cyt capho y rhai drwc goron brenhiniaeth yn y byt hwnn yma. anghenocion vydhont o gwbyl rhaclhaw. ac ny bydhant vyth heb poenæ arnunt. Ar etholedicion cyt boent ynghaethiwet ac yngharchar yma. cyuoethawc vydhant raclhaw. ac ny bydhant heb poenæ arnunt yn wastat yn y byt hwnn.

LXI.—D. Er cariat Duw par ymy glywet hynny yn amlygach. M. Y rhai drwc yssydh dlodion yn wastat. am vot bar Duw arnunt. ac na vynnant y du. ac wrth hynny nys galhant. Drwc hagen a wnant ac a alhant. Ac ef a brouet uchot am dhrwc nat dim. wrth hynny diogel yw nat oes dim ar y helw. Ny bydhant wyntau byth heb boen arnadunt. canys eu cydwybot greulawn

sydh yn eu lhosgi. penydiawl ofuyn sydh yn eu govalu. rac eu dala. ny bydhant heb obrwy. Canys diofn vydhant. a lhawen o hyspysrwydh rydhtit raclhaw. Odhyna y dywedir. gwirion a vydh heb ofn. a heb dychryn arnaw. A mi a vynnaf peth aralh yt. Ny dhamweinia dim o dha yrrai drwc. ac ny dhaw dim o dhrwc y rhai da. Ny bydhant wyntau byth heb poen arnunt. Canys eu cytwybot creulawn yssydh yn y lhosgi. a pheunydhiawl ofn yssydh yn eu govalu. rhac eu dala. a rhac eu lhadh. a rhac dwyn eu da. odhyma y dywedir. nyt oes tangneuedh. medh yr Arglwydh. y rhai enwir. yggwrthwyneb y hynny yr etholedigion sydh gyfoethawc. canys rhad Duw sydh arnunt wynt. a da vynnant ac a alhant.

LXII.—D. Yn enw Duw manac ym yrhynn ydhwyt ti yn y dhywedyt. M. Ponyt y rhai drwc a gaphant yma drythylhwch a gwledhau a digrifheir o edrych ac o'mgyssgu a gwragedh tec. ac a valchi'r or gwiscoed mawrwerthiawc. ac a ymdhrychafant o oludoedh. ac o adeiladau mawrydhic. yngwrthwyneb y hynny. y rhai da yma a garcherir. ac a vaidhir. ac a boenir o newyn a sychet. a gouytieu erailh. M. Pann vo rhwydh y dynghetuenn rhac y rhai drwc. a chaphel amlder onadhunt or daoedh. yna y tebyg ef rylyncu yr enwir o lawenydh. a phann dynner ef or dwfyr y cylh ei enait. a thebyc yw heuyt y dhyn y rhodher ydhaw dhiawt vechan o vel. odhyna heb dranc heb orphen cymelh arnaw y yfet y weilgi chwerw. Canys yn lhe y gwledhau y lhenwir hwynt or wermot chwerw. a chwerwedh megys Berthal gynt a gladhwyt yn y tan uffernawl. gwedy y wledhau. yn lhe cariat y gwragedh. y lhenwir wynt o vrwmstan drewaint. yn lhe gwiscoedh tec y gwiscir wynt o gythrudh. yn lhe y goludoedh ae hadeiliau. pryuet ae goresgyn hwynt yngogofau uffernawl. odhyna y dywedir. wynt a dhygant eu dydhiau yn dha ac a dhescynnant y uffern. ac ar ennyt pwynt bychan y dygwydhant.

LXIII.—D. Y rhai a dhywedi di eu bot yn dha. a chyuerfydh ac wynt y rhyw angcymmwynasau ar rai

hynny. tebyc ynt yr neb a archwaedhant pryuet. neu lyseu chwerw. Ag wedy hynny gwelh vydh blas y gwin. M. Ac yn lhe eu carchar wy yma. eu derbynir wyntau y bebylhau tragywydhawl. a thros eu hamarch wynt yma y caphant wyntau gogoniant raclhaw. a mawr lawenydh dros eu heisiau hwynt yma. ny bydh arnunt na newyn na sychet gwedy hynny vyth. Ac am govut y dolur wy yma. ny bydh arnunt na dolur na chwynuan. Ac y modh hwnnw y prouir bot y rhai gwirion yn gyuoethocion. ac yn wynuydedic vyth. a rhai enwir yssydh truain ac eisywedic.

LXIV.—D. O pa le y bydh teilyngtawt. M. Y gann Dhuw y mae pob teilyngtawt. a phob medhiant. ef a venyc hagen uchot paham y caiph rhai drwc vedhiant weithiau. a rhai da weithiau erailh. Beth a verny di yr neb a wertho neu a brynno teilyngtawt. M. Y neb ai prynno a aa ygyt a Simon Magus yngcyuyrgolh uffernawl. ac ae gwertho. ef a dhaw clauri ar ei enait y gyt a Giezi. D. A vydh mwy gan Dhuw gobrwy y prelatieit nac erailh. M. Y rhai a vo rhagor arnunt o deilyngtawt ecclwysic yma. megys Escop neu offeiriat. os wy a dhyscant y bobul o air ac angcraift. y gyfniuer enait a iachaer drwydhuntwy. y vaint honno o obrwy a gaphant wyntau yn ragor rhac erailh. Megys y dywedir. ef a gynnwysir hwynt yr holh da. os wyntau a tynn gair iechyt y gann y rhai yssydh y dann y medhiant. ac ae tywysant wyntau y ogof anghau drwy angcreifftiau dybryt. wyntau a gaphant y gyfniuer poen yn rragor rhac erailh. Ar gyfniuer enait a golhet oe hachaws gann eisiau pregethu udhunt. odhyna y dywedir. mwy a holir yr neb mwyaf or a orchymynner ydhaw. noc yr neb lheiaf. Ac eilwaith y dywedir. Y Cedyrn a odhefant boenæ yn gadarn. y pechadurieit bytawl megys brenhinedh ar brawtwyr. or barnant hagen yn gyfiawn. a thraethu y gweinieit yn drugarawc. mwy vydh eu gobrwy wyntau noc erailh y gann Dhuw. y gwr yssydh gyfiawn vrawdwr. Canys a wasanaetho yn dha. tal da a gaiph. os wyntau a vydh angcyfiawn. a gostwng y bobul drwy

greulonder. mwy vydh eu poenæ noc erailh. Canys calettaf y bernir ar y pennadurieit. a barn heb drugaredh a vydh ar y neb ny wnel trugaredh.

LXV.—D. Paham y godhef yr etholedicion gwrthwynebedh y byt hwnn ygyt ar rhai drwc. ae bot yn eu plith. M. Achos ymdreidhiaw ohonunt mewn petheu bydawl. ac am hynny y poenir hwynt o aflonydhwch y byt hwnn. a Duw yn holhgyuoethawc. val y dywedir. Ef a wnaeth pob peth ar a vynnawdh. ac eilwaith val y dywedir. Ti a elhy pob peth ar a vynnych. D. Paham y dywedir am danaw yntau vot rhyw betheu ny dhichawn ef eu gwneuthur. megys dywedut celwydh. neu gwneuthur yr hynn ny mynnawdh gynt eu gwneuthur. M. Nyt analhu yw hwnnw. namyn goruchel alhu. canyt oes neb ryw greatur a alho y drossi ef y symudaw yr hynn a ossodes. D. Beth yw rhacweledicaeth Duw. M. Adnabot y wybot y peth a dhel rhaclhaw. ac na elhir ei dwylhaw ef yn y wydh. ac ae heturyt megys y petheu cyndrychawl. D. A wybu Duw pob peth ar a dhel rhaclhaw. ac na elhir ei dwyllaw ef yn y wydh. a chynt heuyt y deruydh y nef ar dhaear noc y deruydh y eiriau ef. na symudaw dim o eiriau Duw. ef a welir bot yn dhir dyuot pob peth. ar ny dhamweiniassant erioet. Am anghenrhait. M. Dau ryw anghenrhait yssydh. un annyanawl. megys cyuodir haul yn y dwyrain neu dhyuot y nos yn ol y dydh. Aralh yw ewylhyssiawl. megys cerdhet o dhyn neu eistedh. Ar hynny a vynno Duw ei vot megys nef a daear. ny elhir gochel na dhel hynny. namyn anghenrhait yw bot hynny.

LXVI.—D. Pa beth yw o dhamweinia velhy bot pethau erailh a aat Duw udhunt wy vot. megys ewylhus dyn y wneuthur da neu dhrwc. a hynny y dhyuot pob peth or a wnel dyn rhaclhaw. M. Duw ae gwyr. ac a dhywat drwy y prophwyti y gwnair. Ac ny ossodes Duw anghenrait yn y byt. namyn dynion ehunain a ossodassant udhunt ehunain angenrait. pan wnaethant eu hewylhus o gwbl. D. A dhaw dim o dhamwain. M. Na dhaw. namyn pob peth o lunyaeth

Duw. D. Pa dhelw yntau y lhosgassant yr ecclwysae neu adeiliadæ o dhamwain. M. Nit dim damwain. Ac yscriuennedic yw na bydh dim ar y dhaear heb achaws ydhaw. Ac wrth hynny amlwg yw na losgir nac ecclwys na thuy yn y byt hwnn. ac na dhestrywir. onyt trwy y varnu o Dhuw yn gyntaf. ef a dhamweinia hynny heuyt o dri achaws. Cyntaf yw. ot adeilir drwy dha a geissier ac a ymlyner ar gam. Ail yw os y neb ae cyuanhedha ai helyc drwy aflan waithredoedh ac escymmundot. Trydydh yw os y perchennocion ae carant yn vwy na phebylhau tragywydhawl. A hyspys yw hynn. na bydh marw y lhwdn lheiaf y dhyn. ac na bydh claf. onyt y beri o Dhuw.

LXVII.—D. Os angau neu gleuyt yssydh boenæ y pechawt. paham y godhef yr ysgrybyl y poenæ hynny. pryt na wypont synnwyr y bechu. M. Drwy y rhai hynny y poenir dyn pann dristaer a dholur neu angenn. D. Ef a dhychawn hynny vot yn wir am yr aniueiliait dof. Beth a dhywedi dithau am y rhai gwylht. Yr haint a vo arnunt a dhamweina udhunt or awyr lhygredic. neu o achos pethau erailh gwrthwyneb a dhamweinont o bechawt. D. Beth yw Racanvonedigaeth Duw. Lhuniaeth a wnaeth Duw ehun. Gwneuthur y byt y drossi rhai oe deyrnas ef. ac ny dhychonn neb onadhunt mynet yngcyuyrgolh. ac yssydh reit eu gwneuthur olh yn iach. D. Ony dhychawn neb onyt y rhai da vot yn iach. paham y crewyt y rhai drwc. neu paham y cyuyrgolhir y rhai camwedhawc. M. Beth bynac a wnel y rhai da. ny alhant wy vynet yngcyuyrgolh. canys pob peth a lauuriant wy yn dha hyt yn oct eu pechawt. Canys gwedy y pechoteu gorthrymaf y bydhant ufudhach gann dhiolch y Dhuw eu hiechyt yn ffrwythlonach ynaa wnant nochynt. A rhai drwc a grewyt o achaws yr etholedicion. ac y wneuthur da o honunt o achos y rhai drwc. ac oe emendaw oe gwytieu. megys y beynt gogonedhussach o welet y rhai drwc. A phann welont y rhai hynny yn y poenæ mwyaf. mwy vydh eu lhawenydh hwyntau yna oc dianc. a chyfiawn yw yr rhai drwc oe hachos ehunain mynet yngcyuyrgolh.

Canys oe bodh ehunain y dewissasant y drwc ac y caryssant. Ac wy a vynnent eu bwy yn dragywydh.

LXVIII.—D. Paham y gat Duw yr etholedicion bechu. M. Y dhangos maint y drugaredh ef udhunt wy. D. A vydhant iach hwynt yr etholedicion ony lauuriant. M. Wynt a gaphant y deyrnas drwy wedhieu. neu drwy lavuriæ. megys y dywedir. drwy lawer o drallodeu y mae rhaid y ni dhyuot y deyrnas Dhuw. Canys y rhai bychain drwy chwerwedh angau a dheuant yr nef. Ar rhai oediawc a dheuant drwy eu lhauur. Canys yscriuennedic yw. yn tuy vyn tat inau y mae lhawer o gyuanhedhæ. a phawb a gaiph eu breswyluot herwydh ei briawt lauur. Ar mwyaf o honunt ei lauur. uchaf uydh ei le. Ar lheiaf. issaf vydh ei le. ac ny dhychawn neb lauuriaw mwy noc a dhangoso dwywawl rat ydhaw. Ac ny chaiph neb amgen breswyluot. noc a racwelas Duw ydhaw cynn dechrau y byt. Cannyt eidhaw neb onit a vynno Duw oe drugaredh. Velhy ny dhychawn y rhai drwc wneuthur mwy noc a atto Duw ydhaw ae dhwywawl rat. Ac ny bydh mwy eu poenæ noc a wyr Duw er dechrau byt hyt diliw. y dylyw onadhunt na da na drwc megys y dywedir. cynn gwneuthur onadhunt na da na drwc. Mi a gerais Jacob ac a gaseis Esau. A megys gwelir bot yn gamgylus yr neb a glywho lhawer ywrth Dhuw. ac nyt ufudhao ydhaw. velhy y gwelir bot yn dhiargywedh yr neb ny chigleu dhim ywrth Dhuw. ac or achaws hwnnw ny wnaethant ydhaw dhim gwasanaeth. a dynion a wnaethpwyt yr gwasaneuthu onadhunt eu Creawtyr drwy garu eu cyfnessaf herwydh annian. megys y dywedir. na wna dhim y aralh. onyt a vynny y ti dy hun. ny mynn neb letrata yarnaw nae ladh. na dwyn ei gymar racdhaw. wrth hynny na wnaet yntau hynny y aralh. A phann dremycco dynion eu cyfnessafiait yn y rhyw betheu hynny. y maent yn gwrthwynebu yr gwr yssydh wir gariat. A chyt nat oes yn y byt gongl nat atnaper Duw yndhi. Am hynny nyt oes esgus amdanaw.

LXIX.—D. A dhychawn y neb ny wypo dhim

ywrth Dhuw. ac a wnelont a da a drwc esgusodi di. M. Y neb nyt atnapo. nyt atnabydhir. ar neb nyt atnapont Dhuw o ffydh a gweithret. val y Sarasiniet. Duw ai cyuyrgolho hwynt megys y elynion. Ar neb a gretont y Dhuw. ac ny wypont y ewylhus. megys milanieit. ot ant yngcyuyrgolh. ny phoenir wynt yn orthrwm. val y dywedir. Gwas ny wnel ewylhus ei Arglwydh ac ef heb y wybot. gwareffon vechann a gaiph. pwybynac hagen drwy ethrylyth a wypo ewylhus Duw. ac nys gwnelont. megys yscolheicion. drudach y poenir y rhai hynny. megys y dywedir. A wypo ewylhus yr Arglwydh. ac nys gwnel. gwareffynn llawer a gaiph hwnnw. A phwybynac ny mynno gwrandaw da. ac a dremycco gwneuthur yr hynn a dhyly y wneuthur. dwy boen a gaphant. un dros y tremyc am y bechu ohonunt dann y wybot. Yr ail yw am dremygu dyscu da. megys y dywedir. y nefoedh a dhangossant eu hanwiredh. ar dhaear a gyuyt yn eu herbyn yn dydh cyndharedh yr Arglwydh. am dhywedut ohonunt wrth yr Arglwydh. Cilya ywrthum. ny mynnwn i wybot dy ffordh di.

LXX.—D. Ae yn dechreu byt y crewyt yr eneidyeu. ae ynteu beunydh o newydh. M. Duw a oruc pob peth ar unwaith y gyt. megys y dywedir. or a vydh y gyt wedy hynny. ef a neillduawdh pob peth. ef a grewyt yr eneitiau or dechrau o anweledic dhefnydh. ac wynt a ffurfhir beunydh ac a anvonir y eilun y corphoroedh. megys y dywedir. vyntat i a lavuriawdh. yr hwnn a ossodes eu calonnau yn inseiliedic. sef yw hynny y heneitiau pryt na chreo Duw namyn enait glan da. Ac wyntau yn uvudh ydhaw ef yn mynet yn y corphoroedh. D. Rhyuedh yw eu mynet wy y uffern. Pann vo marw y corph hwnnw. M. Gann Dhuw y mae pob daioni. a phob glendyt gantaw. Ny chreawdh ef namyn yr eneitiau glan da. a rhai hynny herwydh anniann a dhamunant mynet yn y corphoroedh. megys y damunwn inau ein byw herwydh anian. Eisoes pann elont wy y mewn y lhestr budr halawc hwnnw. cymaint y gwnant wy y ewylhus ef ac y carant ef yn vwy no Duw. wrth hynny

pann vo trech gantunt wy y lhestr budr hwnnw. y maent yngharchar yndhaw. no chariat Duw. iawn yw y Dhuw y gwrthladh hwyntau oe getymdheithas ef.

LXXI.—D. A wybydh yr eneitieu a vuont yngcorphoroedh y dynion bychain dim. M. Ef a dharlheir am Ieuan Vatydhiwr resymiaw oe enait ef. ac ef ynghroth y vam. Ac ef a rywybu dhyuot Christ attaw. wrth hynny amlwg yw nat oes eisiau synnwyr ar y rhai bychain. cyt boet eisiau gweithret. D. Paham y gelwir y corph a aner o Christionawl hat yn vudyr. M. Am y gaphael o hat aflan. megys y dywedir. Pwy a dhichawn gwneuthur yn lan y peth a gapher o hat aflan. ac yn lhe aralh y dywedir. yn enwiredh ym caphat i. D. Pann lanhaer dyn yn gwbyl drwy vetydh. ac yn wir bot priodas yn lan ac yn dha. paham y dywedir vot yn vudyr yr hat hwnnw. M. Dyn a lanheir o vewn ac odhieithyr drwy y Betydh. ac eilwaith ydh halocir y hat ef drwy chwant y cnawt. D. Pryt na alho y cymmysc hwnnw bot heb rwndwal digrifwch. ac ni dhichawn y rhith ny ffrwythawdh etto gwrthwynebu y rieni. pa dhelw y bydhai aflan hwnnw a cherydhus. M. O bechawt Adhaf y daw y bawb y cerydh hwnnw yn creu y plant megys o dreftadawl dlyet. Ac am hynny y bydh marw pawb yn Adhaf.

LXXII.—D. Pa dhelw y genir hwyntau yn vyw. M. Megys ot ymdhengys dyn drwy ffenestr ac yn awr honno kilyaw drachefn. velhy dyn a aner megys ymdhangos yr byt y mae. ac ymchwelut drachefn y angau yn y lhe. D. O madheuir y pechotau drwy y betydh y rieni. paham y betydhir y rhai a aner yn vyw o honunt hwyntau. M. O gwenwynir pastai ef a vydh gwenwynawl y bara. a phob peth or a dhel ohonei. velhy y bu Adhaf yn belhen lygredic. a phawb or a anet ohonaw a lygrwyt o bechawt. pai na wnelit yn vyw drwy vedydh yn angau y prynnawdyr. A megys y glanheir y rhieni drostunt ehunain yn y betydh. velhy y mae yn rhait atnewydhu y plant drostunt ehunain yn y dhedhyf drwy angau Christ. megys y dywedir. pawb a wnair yn vyw ynghrist. D. Paham

wedy ganer wynt y dwc Duw or byt wy cynn eu betydhiaw. M. Brodiæ Duw dirgeledic ynt. o achos yr etholedicionn hagen yw hynny. O welet y rhai hynny ympoenæ heb eu haedhu. ac wyntau yngogoniant heb y haedhu. yna y bydh mwy eu diolch wyntau y Dhuw am eu dianc oe rat ef or poenæ a obrynynt. D. Pa boen a vydh ar y rhai bychain. M. Tywyllhwch ehun. D. A argywedh dim y rhai bychain oc geni o gam welyeu. megys o buteinrwydh. neu o garessau neu o dhynion creuydh. M. Nac argywedha dhim o chaphant vetydh. mwy noc yr gwenith a dhyccit yn lhetrat. ae hau or lheitr ef. D. A argywedha pechotæ y rhieni yr meibion. neu bechotæ y meibion yr rhieni. M. Yscriuenedic yw. nat argywedha yr tat enwiredh y mab. nac yr mab euwiredh y tat. ony chytsynniant pawb o honunt ae gilydh. megys nat argywedhawdh Josue bot ei dat gynt yn dhrwc cynnoc ef. nae vab yn dha gwedy ef. Canny chytsynniasant. Canys o chytsynnia y rhieni ar plant. ar meibion ar rieni am eu drwc ehunain. yna ydhant ynghyuyrgolh.

LXXIII. — D. Am priodas anghennatedic. Ai gorthrwm priodi cares. M. Nac ef. herwydh annian. herwydh hagen gossot yr ecclwys mawr yw. D. Pa dhelw y proui di hynny. M. Nyt bwyta yr aual a vu dhrwc a phechawt. namyn y vwyta yn erbyn gorchymyn Duw. a vu vwyaf pechawt. D. Paham y cymerth y tatau gynt eu caressæ. M. Ny charai y gwyr gynt namyn eu cytymdheithionn. megys y dywedir. Car dy gytymdheith. a chasaa dy elyn. Ac wrth hynny y ducant merchet y eu ceraint. megys y gellhynt y eu caru. A nyni a dlywn caru ein gelynion. megys y dywedir. Cerwch ych gelynion. A chanys y gwaet a gymelh garu y ceraint. y gossodes yr ecclwys drwy yr Yspryt Glan cymryt merchet yr estronion. val y bo gwragedh rhom ni ar estronion yn rhwym cariat. ac odhyna y lhetaa drwy yr holh dhynawl genedl gariat y rhyngtunt. D. Pa dhelw y proui di hynny. nat pechawt priodi caressæ. Ponyt cennat y dhau vrodaur priodi y dhwy chwioredh. Canyat chwaer vyngwraic

i a vydh cares y mi oe gwaet hei. Eilchwyl vy mrawt inau a vydh car ym gwraic inau. drwy vyngwaet inau. os pechawt hynny weithiann herwydh anniann. paham y cymerth vy mrawt i vynghares i. ae gares yntau wrth hynny herwydh anian nyt oes yno bechawt. M. Herwydh gwahardh hagen y mae yn orthrwm. ac nys dlya.

LXXIV.—D. Pa dhelw y gwaherdhir cymerut y mamau betydh, neu y merchet betydh. M. Megys y mae dy wraig di yn vab yth vab herwydh cnawt. velhy y mae yr honn ae cymerth ef or dwfyr Bedydh a vydh ydhaw vam herwydh yspryt. ac velhy y mae honno chwaer yth wraic di. ath verch vetydh a vydh chwaer yth verch dithau. Ac velhy or dechreuy dithau verch y aralh ti a vydhi vrawt oe that. Ac velhy nyt canyat y neb gymryt y dhwy chwiorydh. nac y wraic gymryt y dhau vroder. Ac yn y modh hwnnw trwy rinwedh ecclwysic y gwaherdhir y cyfryw priodas honno yn gwbyl ac yn hollawl. O dydi vy enait i. lhawenhaa di. Canys damweiniawdh yt clybot a dhamuneist. a phelhach. dhysgawdyr bonhedhic dyro ym wir ratæ yr yspryt glan yssydh ynot yn amyl. A chann dywedaisti ymi uchot am brelatieit. dangos di y mi beth a synny di am wasanaethwyr erailh yr ecclwys. ac yn gyntaf am yr offeiriait. Or bydh da eu buchedh o angcraipht goleuni y byt ydynt. o dhyscant yn dha o air. halen y dhaear ynt. Ar gwasanaethwyr erailh megys ffenestri yn tuy Dhuw ynt. a thrwydhunt y tywynna lheuuer y gwybot. yr rhai a vo yn tywylhwch anwybot. O bydh da eu buchedh. ac na dhyscont yn dha tebyc ynt y varwarr yn lhosci heb oleuhau. o dyscant yn dha. ac yn dhrwc eu buchedh. tebyc ynt y ganwylh yn goleuhau y erailh. ac yn todhi ei chwyr ydhy hun oe losci. neu y gloch yn seiniaw yn dha y erailh. ac yn velys. ac yn y ffustaw ehun o vynych dhyrnodiæ. Ony buchedhocaant wyntau yn dha. ac ony dhyscant yn dha. mwc ydynt yn tywylhu y tan. ac yn lhygru drem y lhygait. Ac am y rhai hynny y dywedir. Y Ser ny oleuhassant. ac am hynny y dygwydhasant or nef.

LXXV.—D. Beth a dhywedi am y rhai a dremygassant y byt. megys y myneich. a rhai a gymerassant abit creuydh amdanunt. M. Or cwplaant hagen eu creuydh au haruedhyt gan vuchedhockau yn dha. wynt a vydhant vrawtwyr ar erailh y gyt a Duw. Onyt ef a wnant. truanach vydhant no dynion erailh. Canys ny chaphant na'r byt na Duw. Am y rhai hynny y dywedir. y uffern yn vyw ydhant. D. Beth a dhywedy di am y marchogion ar cedyrn. M. Ychydic o dha. canys o drais ydh ymborthant. ac ydh ymwiscant. ac y prynant y swydheu. ar tir ar adeiliadau. Ac am y rhai hynny y dywedir. eu dydhiæ a dheffyciawdh yngorwagedh. ac am hynny y mae arnunt bar Duw. D. Pa obaith yssydh yr Gler. M. Nyt oes yr un. Canys oe holh ynni y maent yn gwasaneuthu diawl. Ac wrth hynny Duw au tremygawdh. achos nat atnabuant wy Dhuw. A Duw a watwar amdanunt wyntau. Canys a watwaro. ef a watwerir.

LXXVI.—D. Pa obaith yssydh yr porthmynn. M. Ychydic. canys o dwylh. ac anudonau ac usur ac occyr y ceyssynt bob peth haeach oe cynnulh. D. Ponyt ant y bererindotæ. ponyt offrymant wy. pony rodhant wy elusenæ lawer. M. Er chwaneccau da udhunt. ac er cadw eu da. y gwnant wy hynny olh. ac am hynny y cymerant wy eu kyfloc yma. am y rhei hynny y dywedir. a ymdhirietto y olut. megys deveit y gossotir yn uffern wynt. ac angau ae pyrth. D. Beth a vydh yr rhai cywraint. M. Mynet haeach ynghyuyrgolh. Canys pob peth or a wnelont wy. drwy dwylh y gwnant. ac am y rhai hynny y dywedir. nyt oes tywylhwch na gwascawt hagen a gudhio y neb a wnel enwiredh. D. Beth a dhywedy di am y pererinion. M. Ar gyhoedh na alw di hwynt yn bererinion. namyn yn watwarwyr ar Dhuw. Canys celhweiriaw Duw a wnant. pan wnelont y drwc. a hynny yn y peth gwaethaf. pann ladhont dhynion. y canant. pann dyngont anudonæ. neu pann latrataont. y chwardhant. pan vont yn eu penyt y ceissiant amrauaelion anrhegion. ac y medhwant o amrauaelion wirodæ. a chymryt yn vwy noc

erailh gormodhion a wnant. ac am y rhai hynny y dywedir. yr Arglwydh a dhyry eu cic yr pryuet ac yr tan yr hwnn ny dhiphydh.

LXXVII.—D. Beth a dhywedy di am yr ynvydion. M. Y gyt ar dynion bychain y cyfrifir wynt. Canny wydhant gwneuthur gwelh noc a wnant. ac am hynny ydh iacheir wynt. D. Peth am lavurwyr y dhaear. M. Rhann vawr onadhunt a iacheir. Canys yn vul wirion y buchedhant. a phorthi y bobul a wnant oe chwys. megys y dywedir. Gwynn ei vyt a vwytao o lavur ei dhwylaw. D. Beth a dhywedi am y rhai bychein. M. Rhai onadhunt heb dhywedyt hyt ar tairblwydh. a hynny drwy gaphel betydh a vydhant iach. megys y dywedir. y rhyw rai a hynny biau teyrnas nef. y rhai pumlwydh. y rhai hynny mwy a aa onadhunt yngcyvyrgolh. noc y obrwy. Erailh a dhianc. megys y gwelir. ychydic a dhieng o vrwyder. a chyuyng yw y ffordh a dywys y vuchedh. ychydic a gerdha ydhi. Ac eissoes megys y dethol y golomen y grawn pur or us. velly y dethol Christ y etholedigion ai saint dirgeledic o blith yr holh genedloedh. A rhai cyuei a gymero genedyl y lhatron. Canys Duw a wybu drwy gariat pwy y galhawdh ef golhwng ei waet drostunt. yscriuennedic yw. Christ a vu varw dros y rhai anwir.

LXXVIII.—D. Paham. a pha dhelw gann hynny y bu ef varw dros bawb. Christ dros ei etholedicion ehun. y rhai a oedh enwir yna. a vu varw yna dros bawb hagen y dywait ef o bob cenedloedh ac o bob iaith. ac nyt yn yr amser hwnnw ehun namyn dros bawb rhaclhaw. a thros y rhai a oedhunt yn uffern. megys y dywedir. nym anvonet i namyn ar y deuait a golles tuy yr Israel. Cystal yw hynny a theyrnas y rhai a welont Dhuw. sef yw y rhai hynny yr angylion. y deuait a golhes yw yr etholedigion. a dhaeth Christ oe prynnu ae angau ef. megys y dywedir. Mi a ossotaf vy enait i dros vyn deuait. dros y rhai eidhaw ef y dywawt ef hynny. ac nyt am y rhai y dywawt ef y gair hwnn amdanunt. nyt ydychi om deuait i. odhyna ti a gephy yn yscriuenedic. dros y rhai hynn ydh archafi. ac nyt

dros y byt. Ar ailwaith y dywait. Ti ai ceraist hwynt cyn gossot y byt. Am y rhai hynny y dywedir. hwnn yw y gwaet a dhiuerir dros lawer. ny dhywawt ef dros bawb. Ni wnaeth angau Christ o les yrhai drwc. namyn cyfiawn gyuyrgolhedicaeth. yn y modh hwnn y bu varw ef drostunt hwy. Canys pob enwir er dechreu byt a gytsynniawdh ac angau Christ. ac am hynny y dywedir. ef a dhaw hynn olh o dhrygedh ar y genedyl honn.

LXXIX.—D. Os Christ yssydh wir trugaredh. ac trugaredh ef dros y holh weithredoedh. ac yntau gwedy y dhyuot y alw y pechaturieit. ac nyt y rhai gwirionn. paham na thrugarhaodh ef wrthunt wy. M. Trugarawc yw Duw wrth y rhai a adnapo ef eu bot yn druain. y rhai enwir a debygant eu bot yn wirion. ac wrth hynny ny eilw yr arglwydh hwynt. megys y dywedir. ny thrugarhei wrth bawb a wnel yr enwir. A chanys yntau yssydh drugarawc a chyfiawn. os ef a drugarhay wrth aelodau diawl. anghyfiawn vydhai wrth hynny trugaredh a vydh yr rhai gwirion. a chyfiawnder yr rhai enwir. a thrugarawc yw wrth yr holh weithredoedh. yr hwnn a dywnna yr haul ar wirion ac enwir. Ef a dhyry glaw udhunt ac ae pyrth hwy.

LXXX.—D. A oes arwydhion y galher atnabot y rhwng y da ar drwc. M. Oes. y rhai gwirion a vydh da eu cytwybot au gobaith. Ac wynebau hygar udhunt. ae lhygait yn echdywynnygu udhunt o dhawn. a cherdhetiat araf cyuartal gantunt. a melus eiriau o rybuchedh eu calonnau. y rhai drwc hagen a vydh eu cytwybot yn dhrwc o chwerwedh eu calonnau. ac yn wynebtrist. ac yn anwadal oe geiriæ ae gweithredoedh. ac yn angcyuartal eu chwerthinat. ac yn dhideimlawdyr eu tristit. ac yn anwadal eu cerdhetiat. y naill wers yn rhyhwyr ar lhalh yn rhy ebrwydh. Ar gwenwyn a vo yn eu calonnau a dywalhtunt o honunt. gan dhywedut o honunt geiriæ amlwg a chwerwedh. D. O madheuir y pechotæ yn angau Christ. paham ein betydhir ninau gwedy hynny. M. Medh Sant Awstin. pechodæ a vadheuir yn angæ Christ. o chymerir penyt yn ffydh ei angau ef.

LXXXI.—D. O besawl modh y madheuir y bechotæ y dhyn. M. O saith. D. Pa rai ynt y saith hynny. M. Cyntaf yw drwy y Betydh. yr ail yw drwy verthyroliaeth. Trydydh yw drwy benyt a chyphes. megys y dywedir. Mi a gyffessaf yt vy anghyfiawnder. a thithau a vadheuaist y mi vy anwiredh. Pedwerydh yw y madheuir drwy dhacræ. megys y dywedir. Gwynn eu byt y rhai a gwynant. Canys wynt a dhidhenir. Y pumet drwy elusen. megys y dywedir. val y diphydh y dwfyr y tan. velhy y diphydh yr elusen y pechawt. Chwechet yw drwy vadhau ohonam ni yr neb a wnaeth cam ynn. megys y dywedir. or madheuwchwi yr dynion eu camwedhæ. ych tat ae madhau y chwithau. Seithuet yw drwy weithredoedh cariat. megys y dywedir. Cariat a gudh lhuosogrwydh pechotæ. D. Beth a dal cyffes. M. Cymeint ac a dal Betydh. canys megys y madheuir y pechotæ dechreuawl yn y betydh. velhy y madheuir y pechotæ gweithredawl yn y gyffes.

LXXXII.—D. A oes varnn. M. Dwy varn yssydh y Dhuw. un yma drwy gyffes. ar lhalh y dydh diwedhaf drwy vrawtyr. ar diawl yn gyhudhwr. ar dyn yn gamgylus. yna yntau y bydh yr offeiriat Vicar Christ yn vrawtwr. ar dyn yn gyhudhwr. ae gytwybot yn ei vrathu y adhef ei veiau. A phwybynac a varner arnaw yma. ny chyhudhir yno. megys y dywedir. Ny varn Duw Arglwydh deuwaith yr un peth. Ac yn lhe aralh y dywait. o barnwn ni arnam. ny bernir yr ail waith arnam. D. A rymhaa penyt neu elusen. onyt ymadewir ar pechawt. M. Megys na rymhaa neb ryw vedheciniaeth y iachau y weli. ar hayarn y mewn yny dynner yr hayarn allan. Velhy ny rymhaant yr holh weithredoedh da. onyt ymadewir ar pechawt. Canys pwy bynac a wnel y pechawt. y mae yn gaeth y bechawt. ac ny dhychawn neb caeth rydhau caeth aralh. D. A dal dim yr rhai drwc wneuthur da. M. Ef a gaiph pob dyn dal am a wnelont. ae yma ae yn lhe aralh. wynt ae caphant yn y byt hwnn. megys y dywedir am y cyuoethawc gynt. Ti a gymeraist da yn dy vywyt. a

heuyt hwynt rraclhaw ae caphant. megys y dywedir. Chwi ae cephwch ar ei gannvet. Velhy yngwrthwyneb y hynny. am bob drwc ar a wnel dyn. ef a dhielir arnaw. ae yma. ae rhaclhaw yn lhe aralh. megys y dywedir. Ni bydh dim didal or drwc gyrbronn Duw. wrth hynny gwnaed dyn un o dhau. ae boeni ehun yma gann benytiæ ar ei gorph. ae yntau godhef barnnu gann Dhuw gann boeni rhaclhaw.

LXXXIII.—D. Paham y cennatawdh Duw yr Iudheon aberth cyfreithawl. pryt nat ymwaredynt oe pechotæ. M. Rhac aberthu o honunt yr gau dhuwiau. ar dheuot honno a dhyscyssynt wy gynt yn yr Aipht. pann yttoedhynt yno. Ac y hebyrgoui y deuot honno onadhunt y duc yr Arglwydh hwynt drwy y diphaith yn hir o amser. Achos aralh vu. Pobul yr Iudheon oedh gyscawt ac eilun pobul gristionawl arnunt. Ac velhy y rhacvlaenawdh Cysgawt y gwir Aberth yn yr Oen Pasch. neu yn y lho coch. neu yn y bwch. Pann dhaeth Christ hagen. y gwr yssydh wirionedh y rodhi y vendith a dedhyf. y teruynawdh ar y cyscawt hwnnw. ac a ymrodhes ehun yn Aberth gwahanredawl y dhwyn ac y dhestryw y pechotæ. D. Pryt nat anrhydedhai y gwyr gynt onyt yr un Duw yn y dechrau. paham y dechreuassant wy adholi yr gaudhuwiæ. M. Ef a dhywedir. y mae ym mabel. twr y Ceuri. y dechreuwyt hynny o waith gyntaf. Ef a dhywedir bot yn ei uchder pedair milltir ar hugaint. Ac yno bu y brenhin cyntaf or byt hwnn. Nembroth oedh y enw. ac a wnaeth delw Belu ei dat. a chymelh pawb or a oedhynt dharostyngedicion ydhaw. oe adholi. Ac erailh o ymgyphelybu ac wyntau. a wnaethant gaudhuwiæ yr brenhinedh a vai geraint udhunt. a chymmelh y bobul y hadholi. megys y gwnaeth gwyr Creta y Juppiter. gwyr Athenas y Cecrops. ar Lhatineit y Janus. ar Ruueinieit y Romulus. Y gaudhuwiæ gyntaf a beris ofn. medh Horas. a chythreulieit a eint yn y delwæ hynny gynt. ac a dwylhynt y bobul. gann rodhi attebion udhunt a gwatwar amdanunt.

LXXXIV.—D. Pa le y bu Babel. M. Yn y lhe y mae

Babilon vawr yr awr honn. ac a aadeilawdh Semiramis Vrenhines o diglist a phridhcist. val y gwrthnebai y diglist yr tan. ar pridhcist yr dwfyr. deudhec milhtir a deugaint yn y hyt. ae lhet a dhywedir ei vot. a dec cuuydh a deugaint yn tewdwr y mur. a dwy wryt a deugaint a chant yn y uchder. yn y dinas hwnnw gyntaf y dywedir aberthu yr gaudhuwiæ. ac yno y genir yr Antichrist. megys y dywedir. O Babilon ydhaa sarph a lynco yr holh vyt. D. Ai da mynet y Caerusalem. neu y bererindawt aralh. M. Ys oedh gwelh treulaw y da a elit ac ef wrth dlodion. pwybynac hagen a elai er cariat Christ. gwedi cyffessai y holh bechodæ. a da ganthaw o dref y dat ehun. neu dha a ennilhai oi chwys ae lauur. ac a vydhai ar yr hynt honno ymplith saint yn cymryt rhann oe gwedhiæ hwy. ac yn cyfrannu y dha ac wynt. neu a thlodion erailh.. y rhai hynny a volir ac a hophir. Ac am wneuthur cyfryw a hynny y molet Elen Luydhawc ac Eudoxia. pwybynac hagen a el y ryw le a hwnnw er balchder. neu er ceissaw clot orwac. lhyma y gyfloc a gaiph ef am hynny. nyt amgen gwelet y lheoedh teccaf. a chlybot y hophi. pwy bynnac hagen a el y pererintawt a da ganthaw a enilho o dwylh a thrais ac ocer. un ffunud ynt y gan Dhuw a dyn a ladhai un mab Arglwydh yngwydh ei dat. ac a dhelai ai dhwylaw yn waetlyt attaw.

LXXXV.—D. Paham na chennattawdh Duw y dhyn. gwedy y bwytai unwaith. galhu bot heb vwyt wythnos wedy hynny. M. Newyn yw un o boenæ pechawt. A dyn a grewyt val y gallyssai vot yn wynuydedic vyth. bai as mynnassai ehun. ae wedy dygwydhaw ohonaw. ny alhawdh ymchwelyt dracheuyn onyt trwy lauur. a phai na odhefai yntau newyn arnaw ac anwyt. ac angcymmwynasau erailh. ny lauuriai. ac velhy ny dheuai vyth yr deyrnas. Ac wrth hynny Duw a odhefawdh newyn arnaw. megys y bai dhir ydhaw lauuriaw. a galhu ohonaw or achos hwnnw dyuot dracheuyn. a dealh di hynny am yr etholedicion ehunain. Canys pawb a uydh er poen y rhai drwc.

LXXXVI.—D. A oes teruyn am hoedl dyn. megys na allo vyw dros hynny. na marw cynn no hynny. M. Ef a ossodes Duw y bob dyn pa hyt y dylys vyw yn y byt hwnn. ac ny dhichawn dyn vyw un voment yn hwy no hynny. Megys y dywedir. Ti a ossodaist teruynau. y rhai ny alhant vynet heybyaw. Ef a dhichawn dyn hagen varw o lawer modh. ac o lawer o ffyrdh. cynn noe teruyn y gann Dhuw. ae o ladh ac aruæ. ac oe ladh o vwystuiledh. ac oe wenwynaw. ae oe groci. ae oe losci. ae oe vodhi. megys y dychawn cyflogwas drwc oe dhrwc dheuodeu haedhu dwyn ei gyfloc ae yrru ymaith cynn yr oet. D. Prawf. M. Duw a dhuc meibion yr Israel or Aipht y rodhi udhunt y tir adhawedic. ac o achos eu pechotæ nys cawsant. namyn cynn eu dyuot yno y dygwydhassant olh yn y diffaith. D. Ai pechawt yr brawtwyr poeni y dynion camgylus. M. Pechawt onys poenant. canys wynt a ossoded yn dhialwyr enwiredh Duw yn y lhe hwnnw. D. Ai pechawt yr gwasanaethwyr dihenydhiaw y rhai camgylus. gwedy archo y brawtwyr udhunt. M. Nac ef. namyn ymolchi y maent yngwaet y pechaturieit.

LXXXVII.—D. Beth am y rhai a dhalier yna yn gwneuthur y drwc. ac a varner y dhihenydh. ac yn pwnc hwnnw dyuot ediueirwch yndhunt. a oes obaith udhynt y rhai hynny. M. Oes un mawr. canys drwy y boen honno y purheir. megys y lheitr yn y groc. erailh a iecheir o honunt drwy wedhiæ Saint. D. Pa achos y dysc y meibion yn welh no 'r hen dhynion. M. Am vot eu henait yn newydh yna yndhunt. ac yn lhym ympob peth. y rhai hen o dra penydiau. o welet a chlybot a vydh pwl eu synnwyr. a theneu. a hynny drwy vedhyliæ lhawer. D. O ba le y dauth yr Archystauen. M. Pann yttoedh gwyr Babilon yn ryuelu ar Caerusalem. o orchymmyn yr Arglwydh y cudhiawdh Jeremias ar prophwyti erailh hei ymewn bedh Moesen. ac yn diwedh y byt Eli ac Enoc drwy y vanegi or Arglwydh ae dwc hei odhyno.

LXXXVIII.—D. A dheualhawdh y prophwyti yr hyn

a yscriuenassant. M. Deualhasant. D. Paham mor tywylh mor anamlwc y gwnaethant hwy hynny. M. Ny dylyynt amgen. Canys y seiri main a adeiliant y mur. ar lhiwydh ae yscythra. Velhy y mesurawdh y patrieirch gynt magys lhe ecclwys Duw. ar prophwyti or Yscrythur lan a gladhassant y syluaen. ar Ebystyl oe pregethæ a dhrychafassant y pharwytydh. a rhai a dhaeth yn eu hol hwyntau oe hesponiat ae hyscythrassant. Nyt oedh hagen or yscrythur lan namyn yr hynn a yscriuennwyt y veibion Duw. ac y mae yr ecclwys yn agori udhunt bob peth caeedic o egoriat Dauydh prophwyt. Ny dhychawn y meibion hynny welet hagen. na deualh dim or hynn a dheualhant. canys carant. a chann ny chredant yndhunt. D. A oes Angylion yn cadw dynion o bob cenedl. M. Y mae angylion yn benaturieit yn lhunyeithiaw eu cyfreithiæ ae deuodæ o bob peth yn gyfiawn. ac angel a vydh yngcytymdeithas pob enait or pann anuoner yr corph. yn annoc ydhaw wneuthur da yn wastat. ac yn manegi y Dhuw ac yr angylion yn y nef i holh weithredoedh ef. a Duw yn gwybot pob peth. ar angylion yn gwelet yndhaw yntau pob peth.

LXXXIX.—D. Pa beth a elhir ei vanegi udhunt ar nys gwypont. M. Nyt oes dim amgen o venegi or angylion ein gweithredoedh ni y Dhuw. ac yr angylion erailh. onyt cytlawenhau onadhunt yn Duw o achaws ein lhes ni. Megys y dywedir. lhawenydh a vydh gann angylion Duw am un pechatur a wnel ei benyt yn y byt hwnn. yngwrthwyneb y hynny tristau a sorri a wnant wrthym am ein drwc weithredoedh ni. D. A vydhant wy ar y dhaear yn wastat y gyt arhai y maent yn eu cadw. M. Pann vo rhait wrthynt. hwynt a vydhant ac a dheuant oe nerthu. ac yn bennaf pann wedhier hwynt. ny bydh mwy eu godric yn dyuot or nef yr lhawr. ac odhyno dracheuyn. noc enhyt un voment. neu un pwnc. ac ar eu dyuot hwy attam ni velhy. ny thwylhir hwynt oc oe gogoniant evewn yr nef er hynny o dhim. Canys wynt a welant wyneb eu tat o ba du bynac y hanuoner hwynt. D. Pa ffurf ydh

ymdhangosant wy hr dynion. M. Yn ffurf dyn. Canys am vot dyn yn gorphorawl. ny dhichawn ef welet yspryt. wrth hynny y cymerassant wynt corphoroedh amdanunt or awyr. val y galho dyn eu gwelet au clybot.

XC.—D. A vydh y dieuyl yn pregethu y dhynion yn wastat. M. Bydh anneirif onadhunt ynghyuair pob pechawt a vo arnaw yn tynnu yr eneitiæ yn wastat ar eiriæ angcennatedic. ac yn manegu oc tywysawc drygiau y dynion dan chwerthin a gwatwar amdanunt. a phwybynac onadhunt wyntau a orpho gwirion arnaw. Angel y gwirion hwnnw ae bwrw ef yngwaelot uffern yngharchar. ac ny edir ef o hynny alhan vyth y amryson a neb or Saint. Ae tywyssawc hwy a dhyry un aralh or dieuyl yn lhe hwnnw. a megys y bwriwyt dyn o baradwys am oruot or diawl arnaw. velhy y bwrir y diawl yngharchar uffernawl pann orpho un or Saint arnaw. D. A alhant wy wneuthur aflonydhwch yr neb y mynnont. M. Na alhant wy vynet ymplith y genuaint voch. ony bydh y gadu o Dhuw udhunt. hwyrach hagen ympelh udhunt dyuot ymplith y dynion. Corph dyn drwy vedydh yssydh demyl yr Yspryt Glan. gwedy ry gysecru o olew cysecredic a Chrysma. megys y dywedir. Temyl Duw glan yw yr hynn a ywchwi. wrth hynny ef a vydh yn cyuanhedhu y demyl honno yn wastat ae yspryt glan. ae un aflan.

XCI.—D. Beth a rymhaa olew y dhynion gweinion. M. Peth mawr. pechotæ a gyffesser. ac ny wneler yr eilwaith. neu y rhai penytiawl a vadheuir drwy yr irait hwnnw. megys y dywedir. ot ydiw y mewn pechotæ. ac yn ediuar hagen gantaw a wnaeth. wynt a vadheuir ydhaw. onyt ediuar hagen gantaw ny rydhaa dim ydhaw nac y neb. D. A rymhaa ediueirwch yn y diwedhglwm. M. Pwybynac a ymarho. ac a annottao cymryt ediueirwch am y bechotæ. nyt ef yssydh yn ymadaw ar pechotau. namyn y pechawt yn y adaw ef. Cann ny mynn y pechawt ef yn was ydhaw hwy no hynny. pwy bynac yntau a vo ediuar gantaw o wir galon yn awr angau. ef a gaiph trugaredh

heuyt. megys y cauas y lheitr ar y groc. Ac am hynny y dywedir. pa bryt bynac y dotto pechatur uchennait. ef a vydh iach oe holh bechotæ. D. Y gann ba beth y dywedir angau. M. Y gann chwerwedh. neu y gann damait yr aual gwahardhedic. or hwnn y daeth angae ohonaw. Tri ryw angau yssydh. angæ anamserawl. megys un y dynnion bychain. Ac angæ chwerw. megys un y dynion ieuainc. ac angæ anianawl. megys un yr hen dhynion.

XCII.—D. O madheuir y pechotæ yn y Betydh. ac angau yn boen am bechawt. paham y daw angau yr etholedicion. wedy caphont vetydh. M. Val y bo mwy eu gobrwy o odhef angau yr Duw. Peth aralh yw. ony dhelai angau y bop dyn or a vetydhwyt. pawb a vryssiai y gymryt betydh or achos honno. ac nyt yr Duw. ac nyt ymchwelai neb velhy yr teyrnas. a Duw ehun a vadheuawdh pechotau yn y betydh. ac ny madheuawdh ef poen y pechawt. megys y cerdhynt y rhai gwirionn drwy ffydh a lhauur da. yn y lyncynt Angau y gann y vuchedh. D. A vadheuir y pechotæ yr rhai anuoledic yn y betydh. M. Madheuir. namyn gwedy hynny y syrthiant. wynt a ymchwelant yn y rhai a vadheuit udhunt gynt. megys y dywedir. Pob pechawt ar nys adhefaist ti. ac yn ol hynny y dywait. ef ai rhodhes ef yr poenæ yny dalai yr holh dlyet. D. Paham y gat Duw udhunt wy gaphel betydh a rhinwedhæ erailh. ac ef yn gwybot y deffyciynt o honaw. M. O achos yr etholedicion. mal y dywetpwyt uchot. y gymryt angcraift ywrthynt.

XCIII.—D. Pa ryw watwar yssydh am yr Yspryt Glan. ny madheuir nac yma na rhaclhaw. M. Anobaith y mewn penyt. canys yn yr Yspryt glan y rhodhir madheuaint or pechotæ. ac wrth hynny pwybynac a anobeitho o rat yr Yspryt Glan. ac ny phenytio. hwnnw yssydh yn gwatwar am yr Yspryt Glan. a lhyna y pechawt ny madheuir nac yma na rhaclhaw. D. Ae argywedh mawr y rhai da. eu lhadh neu eu marw o angau deisyuyt. M. Nac ef o dhim. Canny bydh marw o angau deisyuyt y neb a vedhylio yn wastat am

y varw. wrth hynny nac yr marthyru a heyrn. nac yr drylhiaw o vwystuilieit. nac oe losgi o fflammae tan. nac oe sodhi o donnau. nac oe marw o dhryc dynghetuen aralh. mawrweirthiawc vydh gyrbronn Duw angau y saint ef megys y dywedir. o ba angae bynac y bo marw gwirionn. ny dhygir ei wirionedh y gantaw. A rhyw angæ honno ny wna dhrwc yr enait namyn da. Canys beth bynac a bechawdh drwy dhynawl vreuoliaeth. ef a vadheuir ydhaw drwy chwerwedh ei angau.

XCIV.—D. Ai lhes yr rhai drwc orwedh yn hir yn eu gwelyeu cynn marw. M. Na les. canys o ba angau bynac y boent veirw yn deysyuyt yn dhrwc y teruyna y rhai drwc. Canny medhyliant am eu marw. ac wrth hynny gwaethaf angau yw un pechatur. D. Ae drwc yr rhai gwirion na chaphont eu cladhu y mewn cysecr. M. Na dhrwc. canys yr holh vyt yssydh demyl y Dhuw. herwydh y chysecru o wact Christ. wrth hynny beth bynac a wneler. nac ynghoet nac ymaes y cladher hwynt. nac yngwern. nac yn unlhe aralh y bwrier hwynt. nae hyssu o vwystuilieit wynt. nac o bryuet. wynt achlesir yn arphet yr ecclwys yn wastat. yr honn yssydh dros wyneb yr holh vyt. D. Ae da udhunt wyntau eu cladhu ymewn cysecr. M. Lhawer lhe a gysecrir o gyrph y rhai gwirion a gladher yndhunt. D. Ae lhes yr rhai da a vo yn y poenæ amserawl eu cladhu yn y cysecr. M. Lhes y wedhiaw drostunt o ecclwys Duw. Ac y dhyuot eu ceraint ae cytymdheithion yno y wedhiaw drostunt. ac uch eu penn yn yr ecclwysae. ac yn y monwennoedh. D. Ae da yr rhai drwc eu cladhu yn y cysecr. M. Ysmwy y mae drwc udhunt. gann eu gwascu drwy gladhedicaeth yr rhai y gwahenir hwynt ympelh ywrthunt. ae haedhu ohonunt. Ef a dharlheir. datcladhu or cythreulieit lhawer or rhai hynny. ac eu bwrw wynt or Cysecr ympelh y maes.

XCV.—D. Pelh yth wnel Duw oreuhaf athro ywrth bob drwc. a Christ ath wnel yn gytymdeith oe angylion ef. canys torret anneirifedicion bennæ y sarph. ac y mae erailh gwedy ry dadeni yn y lhe. Ageiniat oleuni yr eglwys. cymer gledhyf dy vonhedhic dauawt.

a thrycha coet y gouynnau ydhwyfi yngcyueilyorn yndhunt. megys y galhwyfi dhyuot y rwydhuaes y gwybotau drwydhot ti. Dywet ym pa dhelw y gwnair ynghylch y rhai a vo marw. M. Megys y daw gwr pwys ac aneirif lhuosogrwydh o varchogion gantaw. yn erbyn y wraic pwys ae dwyn gantaw gann ganneu a lhawenydh mawr. Velhy y daw yr Angel wrth dhiwedh gwirion a vo ceitwat arnaw. a lhawer o angylion y gyt ac ef y dhwyn enait gwraic pwys Christ o garchar y corph. gann ganu cywydholiaethau a cherdhae a diruawr oleuni ac aroglau hynaws melys y lys nef. neu yr ysprytawl paradwys. D. Ae lhe corphorawl yw paradwys. ai pa le y mae euo. M. Nyt lhe corphorawl yw euo. Can ny chyfanhedha ysprytoedh yn lheoedh corphorawl. lhe y mae preswyluot y rhai ysprytawl gwynuydedic a wnaeth doethineb tragywydhawl or dechreu yn y nef deualhus. yn y lhe y mae dwywolder a chariat. yno ydh ymchwelant wyneb yn wyneb. D. A dhycir yno eneitiau y rhai gwirion. M. Eneitiau y rhai perffeith pann elont oe corphoroedh a dhycir yno yn y lhe.

XCVI.—D. Pwy yw y rhai perffeith. M. Y rhai perffeith nyt digawn gantunt wneuthur a orchymynner udhunt. namyn gweuthur a wnant mwy noc a orchymynner udhunt. megys y mae y Merthyri ar creuydhwyr ar gweryfon. Canys merthyroliaeth gwyryudawt ac ymwrthot ar byt. can ny orchymynnwyt hynny. namyn y uot yn dhwywawl gyngor. am wneuthur hynny o honunt. y maent yn eidhynt wy teyrnas nef megys o treftatawl dlyet. megys y dywedir. pann rodho ef un oe garedicion. lhyna tref tat yr Arglwydh. Rhai or rhai gwirion yntau a anuonir oe dwyn yr lhe hwnnw. ac erailh a vydh y mewn preswyluae erailh tec. val y bo lhes ac anrhydedh udhunt wy. a iechyt i ninhau. D. Pwy yssydh gyfiawn. M. Y rhai a gwplant orchymynnæ Duw yn dhigwyn. Pann el eneitiau y rhai hynny oe corphoroedh. wynt a dhycir y baradwys dhaearawl. neu y ryw lewenydh ysprytawl drwy yr angylion. can ny chredir cyfanhedhu o

ysprytoedh yn lheoedh corphorawl. A heuyt y mae rhyw dhynion gwirion a dhywedir eu bot yn amperffeith. a phawb onadhunt eissyoes a gaphant Dhuw megys dynion priawt. wy a gaffant gwedy bont veirw herwydh y gobrwyont y lheoedh teccaf. A lhawer ohonunt cynn dydhbrawt drwy wedhiau saint ac elusenau y rhai byw a gymerir y ogoniant a vo mwy. A phawb hagen gwedy dydhbrawt a gytymdheithoceir ar angylion. Ac y mae lhawer or etholedicion heb perffeithiaw lhawer arnunt. sef yw y rhai hynny. y rhai a oetassant am benytiaw eu pechotau. A megys y rhodhir mab afreolus at y gwas oe vaedhu. velhy y cennathaa angylion da yr cythreulieit eu purhau wyntau. Ac ny alhant wy argywedhu udhunt dim mwy noc a haedhassant. neu a genniatho y saint udhunt y wneuthur.

XCVII.—D. Beth a dhychawn eu rhydhau hwy or purdan. M. Offerennae ac elusenae a gwedhiæ saint. a gweithredoedh erailh gwar. ac ynn bennaf y grymhaa udhunt. or gwasanaethant wyntau. ac wynt yn vyw gynt dros erailh yn y byt hwnn. y rhai hynny ae nerthant wyntau oe tynnu or poenæ. A rhai onadhunt a rydheir yn y seithuet dydh. erailh yn y decuet ar hugein. erailh ympenn y vlwydhyn. erailh ympenn lhawer o amser. pawb hagen dydhbrawt a vydh cyphelyb yr angylion. D. Paham y rhydheir hwy yn y dydhiæ hynny. mwy noc yn dydhiæ erailh. M. Tri a phedwar vydh yn y saith. drwy y tri y deuelhir ffydh y Drindawt. a thrwy y pedwar y deuelhir dyn a gyfansodhir or pedwar defnydh. ar enait or tair galhu. nyt amgen. dosparth a lhit a chwant. Ar holh amseroedh a dreiglir or saith niwarnawt. Ac wrth hynny y gwnair yn y seithuet dydh eu purhau wynt or purdan. mal y galher beth bynac a bechawdh yr enait or tair nerth drwy y pedwar defnydh yn erbyn saith rinwedh yr Yspryt Glan eu dileu. yn dhec ar hugein heuyt y rhydheir. a lhyma'r achaws. drwy y tri dec y cyuyt dec ar hugain. drwy y tri y dyelhir newydh dedhyf o achos ffydh y Drindawt. a thrwy dec y dyelhir hen dedhyf o achos y decair dedhf. a rhedec y mis yn

degniwarnawt ar hugain. ac velhy y dyelhir beth bynac a bechawdh dyn yn y misoedh hynny yn erbyn yr hen dedhf ar newydh y pechawdh. odhyna y vlwydhyn yw Christ. a megys y dywedir. Yr Arglwydh yw y vlwydhyn dangnefedhus. y misoedh yw yr ebystyl. Cwrs yr haul yw y vlwydhyn. Megys y dywedir. Cwrs y lhoer yw y mis. wrth hynny y gwnair purdan y vlwydhyn. Megys y madheuir ydhaw yn hynny o ennyt beth bynac a bechawdh yn erbyn Christ haul y wirionedh yr ecclwys yr honn yssydh leuat y deudhec mis. sef yw hynny dysc y deudhec Ebystyl.

XCVIII.—D. Pa beth yw y purdan. M. y rhai y bydh y purdan udhunt yn y byt. megys govytieu a cholhedeu a wnel dynion drwc udhunt. erailh drwy boeni ohonunt eu hun eu cyrph drwy wiliau ac amprytiau. a lhauuriau ar eu cyrph oe bodh. y erailh y bydh y purdan udhunt o golhi eu plant ae cenetl. ae da. ac y erailh o haint a dolur. y erailh o eisiæ bwyt a dilhat. y erailh o odhef angau chwerw arnunt. Gwedy angau y bydh purdan yr enait. ac o ormodh gwres y tan. ac o ormodh crynachedigaeth yr oeruel. ac o ryw genedloedh boenæ erailh. A mwy yw'r boen leiaf ohonunt nor boen vwyaf yn y byt hwnn ac a alhai dhyn ei vedhyliaw. A thra vont wynt yn y boenæ hynny. gweithieu ef amdhengys angylion neu saint erailh udhunt y gwnaethant wyntau anrhydedh udhunt. ac wyntau yn vyw yn y byt hwnn. ac a vwriant awel nefawl ac aroglæ hynaws arnunt. neu ryw solas a chysur. ony vont rydh y vynet yr neuadh ny chymer un mann yndhi drwc vyth. D. Ympa ryw ffurf y gossodir wynt yno. M. Yn ffurf eu corpheroedh y buont yndhunt yma. Ac ef a dhywedir am y dieuyl y rhodhir udhunt corphoroedh or awyr oe poeni yndhunt.

XCIX.—D. Pryt na synnio y corph dhim. ac na alho wneuthur dim drwydhaw ehun. onyt a wnel yr enait drwydhaw ef megys drwy beiriant. pa wedh y poenir y corph marw a phaham. M. Pann ryuelo dynion ar eu gelynion. wynt a dhestrywiant eu hadeilatæ yn gyntaf. neu au lhoscant. ac odhyno y diuair y perchennocion.

megys eu doluriaw o golhi eu da. ac o boeni eu cyrph. y corph weithion yssydh breswyluot yr enait. Ac am dremygu ohonaw y gwir greawtyr. y destrywir ef. ac y lhoscir ygyt ac ef. ac un ynt. Canys beth bynac a wnel yr enait. ef a dhywedir ei wneuthur or corph. ac wrth hynny iawn yw ei boeni y gyt ac ef. D. Pa sawl enait a dhoant yr nef. M. Y sawl a drigiassant yno o angylion.

C.—D. Da dhigawn ydh attebaist ym am hynny. Dywet ymi ympa dhelw y gwnair am vynetiat y rhai drwc. M. Pann drangont wy. y daw y cythreulieit yn heitiæ a phrystelhach vawr ganthunt yn aruthr eu gwelet. ac yn dhechrynnedic eu gweithret. ac yna y cympelhant yr enait or rac cadarn boen y vynet alhan or corph. ae dynnu gantunt yn greulawn y byrth uffern. D. Pa beth yw uffern. neu pa le y mae. M. Dwy uffern yssydh. yr uchaf ar issaf. yr uchaf yssydh yn y vann issaf or byt hwnn. ac yssydh yn gyflawn o boenæ. Canys yno ydh amlhaa diruawr wres ac oeruel mawr. a newyn a sychet ac amrauaelion doluriau corph. neu aflonydhwch medhwl. megys ofn a chywilydh. ac am hwnnw y dywedir. Dwc Arglwydh vy eneit i or carchar hwnn. sef yw hynny vy mywyt. uffern issaf. lhe ysprytawl yw. yn y lhe y mae tan andiffodhedic. Ac am hynny y dywedir. Ti a dhucost vy enait i o uffern issaf. ac y dann y dhaear y mae. A megys y cledhir corphoroedh pechaturieit yn y dhaear. velhy y cledhir eneitiæ y rhai drwc yn uffern y dann y dhaear. megys y dywedir am y cyfoethawc. ef a gladhwyt yn uffern.

CI.—D. Ef a dharlheir bot yn uffern naw poen gwahanredawl. pa rai yw y rhai hynny. M. Cyntaf yw tan. a gwedy yr ennynnai unwaith. ny dhiphodhai yr bwrw yn gwbyl arnaw. a chymaint yw rhagor ei wres rhac ein tan ni. a gwres ein tan ni rhac lhun tan ar y paret. Ar tan hwnnw a lysc. ac ny oleuhaa dim. Yr ail boen yw oeruel aniodhefedic. ac a dhywedir amdanaw. pai bwrit mynydh o tan yndhaw. ydhaei yn un iaen. Am y dhwy boen hynny y dywedir. yno y bydh wylaw a chrynnu dannedh. canys y mwc a gyphry y

lhygait y wylaw. ar oeruel a bair yr dannedh grynnu. Y drydedh boen yw pryuet anuarwawl o seirph a dreicieu aruthr o olwc a chwibanat. ac eu bywyt yn y fflam megys pyscawt yn nofiaw yn y dwfyr. Y bedwaredh boen yw drewiant anniodhefedic. ac nyt oes boen a alher ei chyphelybu y honno o drueni. Y bumet boen yw dyrnotieu y dieuyl yn curaw. megys gyrdh yn curaw haearnn. Y chwechet boen yw tywylhwch a gephir lhonaid lhaw o honaw. megys y dywedir. daear y tywyllhwch yw hei. yn y lhe nyt oes un urdhas. namyn aruthredh tragywydhawl yn y gyfanhedhu. Seithuet yw cywilydh rhac poenæ. Canys yno y bydh amlwc y bawb y holh weithret. ac ny elhir yna y cudhiaw. Yr wythuet boen yw aruthret gwelet y dieuyl ar seirph ar dreicieu. A chann wreichionn y tan y gwelant wy. wyntau hagen ar germain truanaf gantunt. ac yn udaw ac yn wylaw ac yn ymffust. Y nawuet boen yw catwynæ tan yn rhwymaw holh aelodæ yn un.

CII.—D. Paham y godhefant wy y sawl boen ar trueni hynny. M. Am walhygiaw ohonunt cytymdheithas nowradh yr angelion. cyfiawn oedh eu poeni wyntau or cyfryw naw boenæ ar rhai hynny. Canys y rhai a ymlosges yma o dan camchwant. iawn yw eu lhosci wyntau yn y tan hwnnw. Ar neb a sychawdh yma o oeruel drygioni. iawn yw eu crynachu yno o boenedic oeruel Canys ef a dhywedir odhieithr y tan ei vot yn gynwnnet ar haearn yn yr aelwyt. ac yn rhew o vewn olh megys pibonwy. neu y iaen y gauaf. val y dywedir. wynt a gerdhant o dhyfredh gormodh y wres gormodh. Ar neb y bu gynghoruynt a chas yma gantunt. megys pryuet yn ymgnoi. dlyedus yw bot pryuet yn eu hyssu wyntau yno. Ac am dhigrifhau ohonunt yma o dhrewiant godinneb. cyfiawn yw bot drewiant yn eu poeni hwyntau yno yn arw. Ac am na mynnassant cymryt cosp na phoen arnunt y gyt a dynion yma. wrth hynny y ffustir wyntau a phrewylhau yno heb orphowys. megys y dywedir. parawt yw y brotiau yr gwatwarwyr y guraw a gyrdh corph yr ynvydion.

pawb onadhunt yno. Ar rhai drwc atwaenant y rhai drwc ac y wydhant enwæ y rhai gwynwydedic. val y gwybu y cyuoethawc enwau Eurcam a Lazar. D. A wedhiant wy yr eneitiæ dros eu ceraint. M. Y rhai gwirion a wedhiant dros y rhai a garassant wy yn yr Arglwydh. neu dros y rhai a alwai arnunt oc diphryt rhac drwc. ac ae rhydhau o brouedigaeth y byt hwnn. ac oe emendau wynt ot ytynt yngcyfeilorn. megys y delynt ar hynt oe cytymdheithas hwy or cyfeilorn hwnnw. D. Pa dhelw y gwedhiant wy drostynt. M. Y damunet wy yw eu gwedhi. Canys beth bynac a dhamunant. wy au caphant y gann Dhuw yn dhiannot. Ae gwedhi wy yw presentiaw y Christ poenæ y corph. neu y da a wnaethont yrdhaw. ac eissioes ny wedhiant wy dhim onyt a gennatao Duw udhunt. ac o gwedhiynt yn amgen over vydhai udhunt eu gwedhi.

CVII.—D. A ydynt wy yn y cyflawn lawenydh. M. Namyn megys dynion a wahodhit y wledh a vydhant lawen pan dhelont am eu herbyn. goualus vydhant am eu cytcytymdheithionn a oedhynt yn ol yn trigiaw. pan dhelont wy hagen ygyt y bydh yna mwy eu lhawenydh o lawer. Velly y mae eneitiæ y Saint yr awr honn yn lhawenhau yn y gogoniant. ac yn hir gantunt amdanam ninneu. a phann gymeront eu corphoroedh a dyuot pawb y gyt. yna y cymerant eu cyflawn lawenydh. D. Pa un yw tuy Dhuw. ae preswyluae lhawer. M. Tuy Dhuw yw gwelet Duw dat holhgyuoethawc. ac yn y gwelet hwnnw y lhawenha y saint megys y mewn tuy. y breswyluae ae gyfanhedhae ynt amrauaelion bwythau a thalau dros y gobrwyau. D. A wybydh yr eneitiæ yr hynn a wneler udhunt yma neu y eraillh. M. Yr eneitiæ cyfiawn a wybydhant bob peth or a wneler. y rhai hagen yssydh yn y purdan nys gwdhont onys manac angylion. neu saint udhunt. y rhai hagen yssydh yn uffern. nyt mwy y gwydhant beth a wneler yma noc y gwdhom ninhau beth a wneler yno. Megys y bu gynt am y prophwyti. rhai onadhunt a wybu lawer o betheu ar nys gwybu eraillh. yn y modh hwnnw ymplith y rhai drwc rhai ohonunt

yn gwybot lhawer o bethau. ac erailh nys gwydhant dhim ohonunt. canny wydhant wy bob peth. A hynny a vanecir udhunt yn y duwolder. neu yn amgen a veneic dynion a vo meirw udhunt. ac a dhelont yno.

CVIII.—D. A alhant wyntau ymdhangos pann y mynnont. neu yr neb y mynnont nac yn gwiliaw y bont. nac yn cysgu. M. Llyma ytt. y rhai yssydh yn y purdan hagen. nyt ymdhangossant wy onys cennattaa angylion udhunt y geissiaw eu rhydhau. neu y vanegi y lhawenydh oe cytymdeithon am eu rydhtit. y rhai hagen yssydh yn uffern ny alhant wy ymdhangos y neb. ac o gwelir hwynt yn ymdhangos weithiau. nac yn hun nac ymaes o hun. nyt hwyntwy vydhant. namyn dieuyl yn eu rhith. ac wynt heuyt a rithiant yngosgedh angylion da y dwylhaw dynion. Os wyntau hagen a dhamweinia y ymdhangos o honunt yn wir. o obrwy un or saint vydh hynny. megys ydh ymdhangoses y lheitr y Vartin. yn y lhe y destrywiawdh yr alhawr. neu yr dysc. megys ydh ymdhangosawdh y enait y saint Benet yn rhith angcynuil. a phenn a lhosgwrn asen ydhaw. ac ganawl yn arth. A dywedut vot yn ei lusgaw nos a dydh ar draws lheoedh anyfrwys a drysswch. ac yn y diwedh y lhyncit yngcrothau uffern. D. Ym pa ffurf ydh ymdhangossant wy. M. Yn ffurf dyn gann gymryt ei gorph or awyr.

CIX.—D. O ba le y daw y breudhwydion. M. Wynt a dheuant weithiau y gann Dhuw. pann vanaccer peth a dhel rhaclhaw yn wir. megys y manegis y Joseph drwy y ser ar sygnae. y bydhai arglwydh ar y vrodur. neu heuyt pann dhyscer peth angenrhait y dhyn. megys y dyscwyt y Joseph aralh ffo yr Aipht ar mab Iesu gantaw rhac Herod. Gweithiau erailh y gann gythraul pann wneler peth dybryt y geisiaw lhesteiriaw da megys y darlheuir yn diodhefaint yr Arglwydh. val ydh ymdhangoses y diawl y wraic Pilatus. y erchi ydhi na dhihenydhiyt Iesu Christ. canys ef a wydhiat y colhai ef y vedhiant o hynny alhann. Gweithiau erailh y gann dhyn ehun. megys ydh ymdhengys ydhaw drwy y hun yr hynn a welo. neu a glywho. neu a vedhylio odhieithr y hun.

CX.—D. Bendicedic a vo gair Duw a vanegis y mi y sawl gyfrinach oedh. a hynny drwy dy enau dithau. Bai beidhiwn i yr awr honn y ofynn yt. mi a vynnwn glybot peth am Antichrist. M. Yn llawen ti ai cephy. Yr Antichrist ym Babilon vawr y genir o butein o genedl dan. ac a gyflenwir o gythreuliaeth yngcroth ei vam. a hudolion ae magant y aghor organ. ac ef a vydh arglwydh ar yr holh vyt. ac ef a ostwng holh dynawl berson o bedwar modh. nyt amgen yn gyntaf y gostwng y bonedhicion. gan rodhi udhunt oludoedh yr rhai a vydh aml ydhaw. canys pob swlht cudhiedic a vydh amlwc ydhaw. Yr ail modh yd ystwng y tlodion ydhaw rac y ofuyn. canys y creulonder mwyhaf a wna ef yr neb a gretto y Dhuw. Or trydydh modh ef a dwylh ac a dharestwng yr yscolheicion oe dhoethineb ef ae hudolder. canys ef a wybydh yr holh geluydhae ar Yscrythur Lan yn vyvyr. Or pedwerydh modh ef a dwylh y creuydhwyr o arwydhion a gwyrthiæ. canys ef a wna anryuedhodau aryneigus. megys peri tan or nef y losci rac y uron ef y neb a uo yn ei erbyn. ac ef a gyfyt y meirw y rodhi testiolaeth ydhaw.

CXI.—D. Ae cyuyt yntau wynt yn wir. M. Na chyuyt. namyn cythraul oe dhrycweithredoedh ef a gyrch y mewn corph dyn melhticedic. ac arwain hwnnw amdanaw a dywedut drwydhaw megys y gwelit y vot yn wir drwy hwnnw ac yn vyw. herwydh dywedut geuawc vydh ei holh weithredoedh ef. yn ei holh wyrthiau ae arwydhion. ac a adeilia o newydh yr hen Caerusalem. Ac yno ydh eirch y adholi ef yn wir dhuw. ac yna y doant yr Iudhewon o bob mann or byt. ae erbyn ef yn anrhydedhus. ac o bregeth Eli ac Enoc a ymchwelant wy y Christionocawl greuydh. a phawb o honunt hayach a odhef greulawn vyrthyrolaeth y gantaw. D. Ympa oet y daw Eli ac Enoc. M. Yn yr oet y cymerwyt wynt or byt hwnn. ar Antichrist ac lhadh wynt. ac ef a uydh medhiant yr holh vyt dair blynedh a hanner yn y eidhaw ef. odhyno ef a dynn y bebylh y vynet y vynydh oliuet y ymladh ar rhai gwirionn. Ac ef a dhywedir y byrrheir y dhydhiæ ef

yna o achos yr etholedicion. D. A vydh y dydhiæ yna hwy noc yr awr honn. M. Cyhyt vydh y dydh yna ac yw yr awr honn. megys y dywedir. ef a wastetty y dydh mal y lhunyeithaisti. namyn ef a dhywedir y byrhaa y dydh yna am vot yn vyrrach yr amser. canys tair blynedh a hanner y gwladycha ef. ac ef heuyt a dhywedir ac a gredir bot yn lhai cyrph y dynion yna noc yn awr. megys y mae lhai yr awr honn no yrhai gynt. D. Beth a vydh gwedy hynny. M. Ef a dhywedir y gadewir deugain niau y benytiaw y drwc ae angeret yr rhai a dhygwydhawdh noc o vygythau. nac o dwyllhouain yr Antichrist. odhyna ny wyr neb pa dhydh y bo dydhbrawt.

CXII.—D. Beth yw y corn diwedhaf. M. Pann rodhes yr Arglwydh y dedhyf ymmynydh oliuet. ef a glywit lhef y corn. Velhy y cymer yr angylion y corphoroedh or awyr a chyrn y gyhoedhi y vrawt gyhoedh. megys y dywedir. Ef a gan y gorn ac eilwaith y dywedir. Ef a dhiflanha y cof wy y gann sain y corn. ac yn uchel y dywedant. Cyuodwch y meirw. Megis y dywedir. hanner nos y daw y lhef. ac ar awr honno ennyt y trewit yr amrant ar lhalh y cyuyt yr holh veirw a da a drwc y vynydh. D. Pa un yw y gyuodedicaeth gyntaf. M. Megys y mae dwy anghau. velhy y mae dwy gyuodedicaeth. nyt amgen un yr corph. ac aralh yr eneitiæ. Pann becho dyn yna y bydh marw yr enait. ac am heuyt ymataw a Duw yn y vywyt. yn y corph megys yn y bedh y cledhir. pann ymhoelo yntau hagen drwy y benyt at Dhuw. y cyuyt megys o angau. A chyuodedicaeth aralh yssydh yr corphoroedh. D. Pa dhydh. M. Yn dydh pasch ehun. yn yr un awr ac y cyuodes Christ o veirw. D. A uydh neb yna. M. Bydh. cyn cyflawnet o dhynion ac y mae hedhyw. ac yn lhauuriaw megys y maent yr awr honn. Rhai yn aredic. erailh yn mordwyaw. erailh yn ateilat. erailh yn gwneuthur gweithiæ erailh.

CXIII.—D. Beth a uydh y rhai hynny. M. Pann gyuotto y rhai gwirion o veirw. Angylion ae tynn wynt yr awyr. yn erbyn Christ ae etholedicion.

ac a uo vyw heuyt a dynnir y gyt yno. ac yn y tynnedicaeth hwnnw y bydhant veirw ac y daw eu beneitiæ yndhunt dracheuyn. yr awr honno yna. ac velhy y daruu y Vair ac Ieuan apostol. megys gwedy y marw hei y cymerth ei chorph dracheuyn ac ydhaeth y nef. ac Ieuan a dherchafwyt yn y gorph ae enait y vynydh. ac yn hynny y credir y varw. ac yn y lhe y vyw dracheuyn. Y rhai drwc hagen yn y cynnwrf hwnnw a vydhant veirw. ac yn y lhe y hatvywhaant. a honno yw barn byw a meirw. D. A gyuyt y rhai a vuant veirw yn y mamau yna y vynydh yn vyw. M. Y sawl a gymerth yspryt buchedhawl a gyuodant. D. Pa oet. pa vesur uydh y hynny. M. Yn oet degmlwydh ar hugeint. na chynt na chwedy y hynny y buant veirw.

CXIV.—D. Ef a dhamweinia weithau y vleidhiau yssu dyn. a throssi y gic yn gic yr blaidh. ac yssu or arth y blaidh. ac yssu or lhew yr arth. pa dhelw yna y cyuodai y rhai hynny y dyn. M. Yr hyn a vu yn gic yr dyn a gyuyt. ac a berthyn ar y bwystuil a dric yn y lhawr. canys Duw a wyr wahanu yr hwnn a wybu y wneuthur pob peth o dhim. wrth hynny na bwystuilieit ae hysso. na physcot. nac adar. pawb a ffurfheir yn y gyuodedicaeth honno. mal na cholho un blewyn oe walht. D. A ymchwel y gwalht ar ewinedh yn eu lhe ehunain dracheuyn. neu a vydhant wy dhybryt or rhai hynny. M. Nyt oes alhu deualh a ymhoelant wy yn y hen lhe gynt. namyn megys y gwna crochenydh a dorro lhestr newydh gantaw. ac a wnel or un pridh hwnnw lhestr aralh heb ystyriaw py le ydhaw a vu glust neu waelawt. velhy y ffurfhaa Duw or un defnydh gorph anhebyc iawn yr lhalh. canys pelh vydh ywrthaw pob peth dybryt gwann. ac agos vydh attaw pob peth cyfiawn tec. canys Duw a dhichawn atgyweiriaw pob aelawt. a phob peth yn y le.

CXV.—D. Beth a vydh am y rhai y bu dau benn arnunt yma. neu vwy no dlyet o aelodau erailh. neu yn vreision. neu yn gulion. ae val hynny y cyuodant wy. M. Pwy bynac y bu dau benn ydhaw. deu corph

a gyuyt ydhaw. ac enait ymhob corph. ac ny bydh dim anwedheidh na dybryt arnaw. Canys holh iach a chyfan vydhant. a chyflawn o bob tegwch. D. Beth a dhywedy di am y rhai erthyl. M. A berthyno yr vam. yn y vam y cyuyt. ac a berthyno ar hat y tat. yn y tat y cyuyt ar ny bo enait yndhunt. D. Pa ryw gorphoroedh a vydh yndhunt wy. M. Rhai anuarwawl dilwgyr. a gloewach no gwytr. a gwynn vydh cyrph y saint. y rhai drwc y bydh cyrph anuarwawl heuyt a dolurus o angau heb teruynu vyth arnunt. a lhyggredic vydh. a hynny o bob rhyw boen arnunt ny elhir eu treulaw. a thywylh angae udhunt. D. Pa awr y bydh y vrawt honno. M. Hanner nos. yr awr y destrywiodh yr angel yr Aipht. ac ydh yspeiliawdh yr Arglwydh uffern. yn yr awr honno y rhydhaa yntau yr etholedicion or byt hwnn.

CXVI.—D. Pa dhelw y daw yr Arglwydh yr vrawt. M. Megys pann gyrcho amherawdyr oe dhinas ehun. y dycir ei goron oe vlaen ac arwydhonæ erailh. megys ydh adnaper drwy y rhai hynny y dhyuotiat ef. Velhy y daw Christ yr varn yn y flurf ydh escynnawdh yr nef. a holh radhau yr angylion ygyt ac ef. ar angelion yn dwyn ei groc oe vlaen. ac yn deffroy y meirw o lef ac o gorn y vynet yn ei erbyn. Ar holh dhefnydhiæ a gyphroant o demestyl gyndheiriawc o dan ac oeruel o bob mann. megys y dywedir. yr holh vyt a ymladh drostaw yn erbyn yr ynvydion. ac ynglynn Josaphat y bydh y vrawt yn ymyl mynydh yn wastat y bydh y glyn. Y glyn yw y byt hwnn. y mynydh yw y nef. wrth hynny yn y glyn. sef yw hynny yn y byt hwnn y bydh y vrawt. sef nyt amgen noc yn yr awyr. yn y lhe y gossotir y rhai gwirion. megys deueit ar dhehau Christ. ar rhai enwir megys mynnau ar y lhaw aswy ydhaw. or tu dehau ydhaw y vynydh yw ac yn y ogoniant. ac or tu assau yw y waeret yn y dhaear. A rhai gwirion a dhrycheuir y vynydh yn goruchelder o dhwy asgelh cariat. megys y dywedir. y saint a gymerant adanedh megys eryrot. y rhai enwir a estyngir y waeret yr lhawr o bwys y pechotæ y glynnassant wrthynt oe holh galon.

CXVII.—D. Ympa ffurf yr ymdhengys yr Arglwydh yna yr etholedicion. M. Yn y ffurf y bu y mewn y mynydh. y rhai enwir yr ymdhengys yn y ffurf y dibynnawdh ar y groc. D. A uydh y groc yno. nyt amgen no'r prenn y dibynnawdh yr Arglwydh arnaw. M. Na uydh. namyn goleuni ar uodh y Groc gloewach no'r haul. D. Paham y barna y mab. M. Am vot yn gyfiawn yr neb y gwnaethpwyt y sarhaet ydhaw cymryt iawn. cyt boet y tat ar Yspryt Glan yn cytlauuriaw ac ef. D. A oes yno eistedhua y dhau yntau y eistedh yndhi. M. Oes. megys y dywedir. ef a eistedh ar eistedhuae ei vedhiant. Christ a saif y ymladh dros ei wraic bwys. ac wedy gorchuycco ef y elynion. a chymryt ei wraic bwys attaw. ac eistedh yn y vedhiant. sef yw hynny dynoliaeth ynn gorphwys y mewn duwuolder. Ac eissyoes ar yr eistedhua y mae yn peri oe ecclwys orphowys oe holh lauur. a channys ymdhengys dyn yno. ef a gretir eistedh o honaw val brawtwr ar eistedhua a gymero or awyr. D. A uydh eistedhuæ yr ebystyl. M. Bydh. megys y dywedir. chwi a eistedhwch ar y deudhec eistedhua. eu cytwybot wynt yw heistedhuæ. yn y rhai gwedy gorchuygu y byt ae wytieu. megys budhugolion y gorphwyssant yn eu heistedhuae. ac ef a welir eistedh o honunt ar eistedhuæ or awyr. megys y dywedir. wynt a eistedhant yn y vrawt ar yr eistedhuæ.

CXVIII.—D. Pa ffurf y bydh y vrawt. M. Cymmyscedic ynt yr awr honn a drwc a da. Ef a debycir bot yn dha y rhai drwc. a bot yn dhrwc lhawer o rhai yssydh da. yna hagen y gwahana yr angelion y rhai da ywrth rhai drwc. A megys y gwahenir y grawn ywrth y peiswyn. ac yna y gwahenir yn bedeir gradh un or rhai perffeith y varnu y gyt a Duw ar y rhai erailh. Aralh or rhai gwirion a wnair yn iach trwy varnu. Y trydydh or rhai enwir a ant yngcyuyrgolh heb varnu. Pedwerydh o rhai drwc ant yngcyuyrgolh drwy varnu. D. Pwy ynt y rhai a varnant. M. Yr ebystyl ar merthyri ar meneich ar gwyryfon. D. Pa dhelw y barnant wy rhai gwirion. M. Dangos a wnant bot

ohonunt wrth eu dysc ae hangcreifft. ac wrth hynny teilwng ynt yr teyrnas. D. Pwy ynt y rhai a vernir. M. Y rhai a wnaethant weithredoedh y drugaredh yn y dhedhfolaf priodas. neu a brynnassant eu pechotæ o benyt. ac elusenæ. wrth y rhai hynny y dywedir. Dowchwi y teyrnas vendicedic vynhat i. canys pan vu newyn arnaf. chwi a rodhassawch ym vwyt. ac velhy rif ef holh weithredoedh y drugaredh.

CXIX.—D. A dhywedir hynny o sain geiriæ. M. Pann vo Christ yno yn ymdhangos yn dhyn. ac wyntau yn y cyrph yn seuylh. ef a elhir credu mae geiriæ a vydh yno a chyt bo amlwc y bawb drwy ba obrwy y cyuyrgolhir. neu y iacheir. drwy y geiriæ hynny yn vwyaf y dangosir ynn. D. Paham ydh iacheir hwynt. neu pa dhelw y bernir. M. Yn y lhys y dyry ef y gwyr tec hynny. D. Pwy ant yngcyuyrgolh heb varnn arnunt. M. Y rhai a bechawdh heb varnn. megys y paganieit ac Iudheon a vuant gwedy diodhef Christ. canys angcraifft a vu geitwataeth eu dedhyf wynt gwedy geni Christ ae dhiodhefaint. D. A wyl y rhai hynny Christ. M. Gwelant yr drwc udhunt. megys y dywedir. wynt a welant yr hwnn a vrathaassant. canys yr holh rai enwir a gytsynniassant am anghau yr Arglwydh. D. Paham y dywedir am danunt wy. na chyuyt y rhai enwir yn y varnn. M. Ny dhamweinia udhunt wy eu barnu yno. megys y gwnaethpwyt yma. ac am danunt y dywedir. Ti ai gossoti wynt megys cynneu dan gyrbron dy wyneb di.

CXX.—D. Pwy a vernir ac a ant yngcyuyrgolh. M. Yr Iudheuon a bechassant yn erbyn y dhedhyf cynn dyuot Christ yngcnawt. a dryc Christnocion a walhygiant Christ oe drycweithredoedh. wrth y rhai y dywedir. Ciliwch ywrthyf y rhai melhticedic. canny rodhassoch ym vwyt pann vu newyn arnaf. na diawt. pan vu sychet arnaf. Ac velhy y dywedir am holh weithredoedh y drugaredh y rhai erailh. or geiriæ hynny y dangosir y ni paham y cyuyrgolhir wy. panyw am dremygu ohonunt prynnu eu pechotæ oe helusenæ. A gwybydh di na dhywait ef. dowchwi y rhai bendicedic.

ac ewchwithau a mi ach melhtigaf. namyn dowchwi y rhai bendicedic. ac ewchwithau y rhai melhticedic. D. Pwy yntau a vendicawdh y rhai hynny neu ae emelhticawdh y rhai erailh. M. Yr Yspryt glan beunydh drwy enau eu cytymdheithion. ac angelion a vendica yr etholedicion. megys y dywedir. bendicedic ywch y gann yr Arglwydh. ac eilwaith y dywait. Bendith yr Arglwydh arnawch. Ar rhai drwc a ymelhtica drwy enau pawb. megys y dywedir. emelhticedic yw y rhai a gilia ywrth dy gymmynediwau di. D. Pa dhelw y barn y saint wynt. M. Dangos a wnaethant oe gobrwyau na vynnassant ganlyn eu gweithredoedh wynt nae geiriau. ac wrth hynny bot yn deilwng udhunt eu poeni. a rhai hynny a gynnyrfa yr Arglwydh ar lit. a than ae lhysc.

CXXI.—D. A uydh yn yr Arglwydh ae lhit ae cyndharedh. M. Nyt oes ymewn Duw y rhyw gyphro hwnnw. megys y dywedir. ef a varnn bob peth mewn gwastatrwylh. namyn pan varner. yna y rhai camgylus drwy gyfiawnder a gyfrgolhir. ac ef a welir y rhai yssydh yn diodhef hynny y vot yn lhitiawc. D. A uydh amdhiffynwyr y rhai gwirion. neu gyhudhwyr ar y rhai drwc. M. Y cytwybot y bawb y dangosir o oleuni' yngcroc megys yr ymdhengys yr haul yr awr honn y bawb. D. Pa beth a dhywedir y lhyuræ a egoret. a lhyuer y vuchedh. a meirw a varnwyt drwy y petheu a oedhunt yscriuenedic. M. Y lhyureu ynt y prophwyti ar ebystyl ar saint perffeith erailh. ar lhyurau hynny a egorir yna. canys eu dysc ac eu angcreifftiau a vydh amlwc yna y bawb. Ac yna megys yn y llyurau y gwyl pawb y petheu a dylyassynt eu gwneuthur. ae ochel. Lhyuer y vuchedh yw buchedh Iesu. ac yn hwnnw megys y mywn lhyuer y darlhea pawb pob peth or hynn a welhyggyassant. neu a wnaethant o orchymynau. Lhyuer y vuchedh yw grym dwywawl ac yno y gwyl pawb eu cytwybot megys yn yscriuenedic.

CXXII.—D. Beth a uydh yna yn ol hynny. M. Gwedy darpho y vrawt. diawl yna ae holh gorph. sef yw hynny y rhai enwir olh a vwrir yngcarchar. nyt

amgen y mewn tan a brwmstan bendramwnwgl. A Christ ae wraic bwys. sef yw hynny ae etholedicion y vudhugawl ogoniant. a ymchwel yr nefawl Caerusalem. y dinas y dat ef. D. Pa beth a dhywedir. ef a wasanaeth udhunt yn mynet heybiaw. M. Bwrw ymaith ffurf y was yw hwnnw. a dangos yw etholedicion pa ryw un yw ef yn y ogoniant. megys y dywedir. Mi a ymdhangosaf vy hun. D. Pa ryw beth a dhywedir Duw a vydh pob peth ymhob peth. M. Dyniolaeth Christ yw hynny. ar holl ecclwys a vydh. ac a wladychant yn y dwywolder ef. a Duw a uydh lhawenydh y bawb y gyt. ac y bawb or neilhtu. A phawb or neulhtu a gaphant lawenydh o edrych arnaw. D. Beth a vydh am y byt wedy hynny. M. Y dorri. canys megys y bu drech gynt dwfyr diliw nor byt. velhy y bydh uch y tan pymthec cuuhyt yna nor mynydh uchaf.

CXXIII.—D. A balha y byt yna o gwbyl. M. Symut y defnydhiæ a wnair yno o gwbyl. a phoenæ y pechawt nyt amgen noc oeruel a gwres. a chenlhysc a chynhyruæ. a mellt a fflammæ ac anghymmwynasse erailh. a ballant o gwbyl. y defnydhiæ pur hagen a drigiant yn y lhe megys y dywedir. Ti au symuti wynt. ac eu symutir. Canys megys y bydh angcyphelyb ansawdh a lhun ein cyrph ni yna noc yn awr. velhy y diffanna yr ansawdh yssydh yr awr honn. ac y bydh angcyphelyb y ffurf rhaclhaw herwydh gogoniant. megys y dywedir. ef a wna Duw nef newydh a daear newydh. Odhyna y nef ar haul ar lhoer. ar syr. ar dyfredh yssydh yr awr honn yn dyvryssaw ar vuan redec. megys damunaw eu symutaw y ansawdh a vai welh. yna y safant ac y gorphwyssant ac y symutir wynt yn anrhydedhus ogoniant. canys y nef a wisgir o ogoniant. yr haul a gaiph lheuuer saith niwarnawt. ar lheuat ar syr a wisgir o annywededic echtywynnedigrwydh. Y dwfyr a obrynnawdh gwlychu corph Christ yndhaw. ac a olches yndhaw y Saint o vetydh. a vydh rhagorus yna o wynnder a thegwch pob crystial. Ar dhaear a achlessawdh gorph yr Arglwydh

Dhuw yn y harphet. a vydh yn gwbyl megys paradwys. A chanys gwerynwyt hei gynt o waet y Saint. hei a vydh tec yn dragywydhawl o vlodeu arogleuvawr. heb grinaw vyth. a hynny yw symut y goruchaf Dhuw. Ar dhacar a oedh emelhticedic gynt yn dwyn yspydat a drysswch. yr Arglwydh ae bendicca. ac ny bydh na lhauur na dolur ar neb o hynny alhan.

CXXIV.—D. Ti am cyflenwaist i o dhaoedh dy symwyr di Arglwydh. a dhywedy dithau y mi weithonn pa ryw gyrph a vydh yr Saint. M. Gloewach vydhant yna saithwaith nor haul. ac ymysgafnach o vuander vydhant no medhwl. D. Ympa oet neu ympa vesur vydhant wy. M. Ef a dhywedir mae yn yr oet ar amser y cyuodes Christ o veirw. eissoes val y mae digrif yma gwelet y gwyr ar gwragedh a dynion byrion. a rhai hirion. ef a gredir bot yn dhigrifach o lawer gwelet pob gosgedh. ac yn wyr ac yn wragedh yn eu hoedran ar yn eu mesur ehunain. megys y mae digrif gwrandaw amrauaelion leisiau yn yr organau. neu yn y tannau. Ac am hynny mwyaf y credir cyuodi pawb ac ymdhangos yno yn yr oet. ac yn y mesur y damweiniawdh udhunt mynet o dhyna. D. Ae yn noethion. ae yn wisgawc y bydhant wy. M. Noethion vydhant. a discleiriaw a wnant o bob tegwch. ac ny bydh mwy eu cywilydh wy o un aelawt udhunt noc oe lhygeit. namyn iechyt vydh eu gwiscoedh wy. Canys yr Arglwydh a gudh eu cyrph wy o wisgoedh iechyt. au hainiau a vydh o wisg lhawenydh. a megys y bydh yma amrauael gras yr blodau. megys gwnnder y lili. a chochder yr rosis. velhy y credir bot amrauaelion vlodau neu liwiæ y gyrph y saint. megys amgen liw yr Merthyri. ac amgen yr gwyryfon. a hynny a gyfrifir yn lhe gwisgoedh udhunt.

CXXV.—D. A alhant wy wneuthur yr hynn a vynnont. M. Ny mynnant wy wneuthur dim namyn da. ac wrth hynny yr hynn a vynnont. wynt a alhant eu wneuthur. ac wynt a alhant vot. yn y lhe y mynnont heb oludh. D. Pa beth a wnant wy. M. Galw ar Dhuw a wnant. ac odrych arnaw. ae voli yn yr oes oesoedh

amen. D. Pa voliant yw yr eudhunt wy. M. Moliant Duw y gann y Saint yw lhawenhau o edrych arnaw. D. A gophant wy y drygoedh a dhiodhefassant gynt ar eu cyrph yn y byt. M. Ef a dhaw cof udhunt pob peth. D. A dholuriant wy am hynny. M. Ysmwy y lhawenhaant am orvot o honunt ar bob peth megys dyn a dhianghai gynt o bericl brwydr. ac a dhatcanai yn lhawen hynny oe gytgytymdheithion.

CXXVI.—D. Dy dauot eurait ti am duc i y oruchelder y dhaear. a dywait ym yr awr honn eu lhawenydh wy. M. Cymaint yw lhawenydh y Saint. ac nas gweles lhygat. ac nas clybu clust. ac nas medhylia calon dyn yr hynn a baratoes Duw yr neb ai caro ef. D. Beth yw hynny. M. Buchedh tragywydhawl. gwynuydedic dogyn o bob rhyw dha heb ryw eissiau. D. Dywait ym hynny yn amlygach. M. Lhyma yt. saith gogoniant gwahanredawl a vydh yr corph. ar gymaint aralh yr enait. Yn y corph y bydh tegwch a buanrwydh. a chadernyt a rhydhtit. ac iechyt. ar ewylhys a hirhoedl. yn yr enait ynteu y bydh doethineb ac adhurndeb. a chytymdeithas. a medhiant ac anrhydedh a diogelrwydh o lawenydh.

CXXVII.—D. Ti am drycheueist yn uwch no myhun orhyn y chwennychawdh vy enait y wrandaw. a mi a archaf y ti dhangos y mi o ryw vodh am bryt Absalom. M. A ryngai vodh y ti bettuti cynn deccet ac Absalom. Yr hwnn nyt oedh vann ar ei gorph. mwy noc ar yr eiry newydh odi. ac walht oedh cyn deccet ac y rhodhai wragedh yr Israel naw dalen o eur yr a dorrynt bob blwydhyn o ormodhion y walht. D. O wi or gogoniant hwnnw. M. Beth oedh gennyt ti y gyt a thegwch hwnnw. bai bydhut cynn vuaned ac Assael. y gwr a droai y jyrch y ffordh y mynnai o redec. D. O wi o diruawr anrhydedh hwnnw ar clot. M. Beth y gyt ar dhau hynny bai bydhyt cynn gadarnet a Sampson. y gwr a ladhawdh mil o wyr aruawc ac asgwrn gên asen. D. O wi or diruawr anrhydedh hwnnw. M. Beth y gyt a hynny ylh tri pai baut cynn rhydhet ac y bu Cesar Augustus. y gwr y bu gaeth yr holh vyt

ydhaw. D. O wi or eglurder hwnnw. M. Beth y gyt a hynny ylh petwar pai caphut pob peth wrth dewylhus. megys y caphai Selyf y gwr a gaphai bob peth a dhamunai ewylhus y galon. D. O wi or melyster hwnnw. M. Beth y gyt ar pum peth hynny bai bydhut dy hun cynn iachet a Moesen. y gwr ny siglawdh un dant ydhaw yn y oes. ac ny thywylhawdh un lhygat ydhaw. D. O wi or hynawster hwnnw. M. Beth y gyt a hynny pai bydhut cyhyt dy hoedl ac y bu Vathusalem. Y gwr a vu vyw mil o vlynydhoedh.

CXXVIII.—D. O wi or mawredicrwydh. ef a welit y mi pai rhodhit dewis y dhyn ar hynny olh. ef a dhewisai pob un o honunt ymlaen brenhiniaeth. Pwy bynac hagen a vai arnaw hynny olh o gampau dewisach oedh nor holh vyt. M. Rhait yw yti dewi etto tra vych yn gwrandaw pethau a vo gwelh. a pha beth y gyt ac a enwyt uchot. pai bydhut cynn dhoethet a Selyf. y gwr a oedh amlwc ydhaw pob peth cudhiedic. D. O wi o Dhuw o hynny. M. Beth y gyt a hynny olh pai bydhai pob rhyw dhyn cynn gytymdeithaset yt ac y bu Dauydh a Jonathas. yr hwnn a garawdh yn gymaint ae enait. D. O wi or gwynuydedicrwydh hwnnw. M. Beth y gyt a hynny pai bydhai bawb mor dyun a thi. ac y bu Lelius a Scipio. y gwyr ny mynnawdh yr un o honunt onyt a vynnawdh y lhalh. D. O wi or dundeb. M. Beth y gyt a hynny pai bydhai cynn gyuoethoccet ac a vu Alexander Mawr. y gwr a orescynnawdh yr Asia. ar Aphrica. ac Europa.

CXXIX.—D. O wi or goruchelder hwnnw. M. Beth y gyt a hynny olh pai cymaint dy anrhydedh di y gann bawb ar a bu Joseph y gann yr Aipht. y gwr a adholassant ydhaw megys pai Duw vai. D. O wi or parch. M. Beth y gyt a hynny olh pai bydhyt mor dhioual ac Eli ac Enoc. y gwyr yssydh yn eu cyrph ymparadwys ae heneidiæ yndhunt. D. O wi a duw or mawredicrwydh hwnnw. M. Beth y gyt a hynny olh bai caphut cyfryw lawenydh ac un dyn a dhyccit oc dhihenydhiaw. ac ar yr hynt honno ymafael ac ef ae wneuthur yn vrenhin. D. O wi or medhiant hwnnw.

M. Beth y gyt a hynny pai bydhai yt gytymdeith a garut yn gymaint a thi dyhun. ac ynteu yth garu dithau velhy. ac yn gyuoethawc o bob parth. ony bydhai dhaublyg y cariat hwnnw. D. O wi or diruawr lawenydh. M. Beth bettai yti lawer o cytymdheithion yn un ffunut ac y dywetpwyt uchot. pony bydhai yti y gyfniuer lawenydh. D. O wi or digrifwch. Cyn dhigrifet gennyfi dy ymadrawdh di a phob ryw olut. ef a welir y mi. pai eidhaw y dyn vai rai o honunt. ny dhywedaf inhau am gwbyl o honunt y bydhai deilyngach ef nor holh vyt. or bydhai yntau eidhaw ef hynny o gwbyl. ef a welit yntau ydhaw ei vot yn dhrwc. Iawn y berni di hynny.

CXXX.—O degwch y Saint. mwy lawer yw eu rhagor wy no hynny. Tegwch Absalon. dybrydwch vydhei hynny yno. canys eu tegwch wy a vydh megys eglurder yr haul. val y dywedir. y rhai gwirion a dhiscleiriant megys haul. Ar haul yna a vydh tegach seithwaith noc yn awr. megys y dywedir udhunt. Duw medh ef a atnewydhaa corph ein ufudhawt ni yn gyphelyb y eglurder ef. ac nac amheuet neb vot yn degach corph Christ no'r haul. canys tegach yw corph y creawtyr nor creatur. a dynion a dhywedir eu bot yn temyl y dhuw. ac ny dhywedir vot yr haul velhy. ac wrth hynny y bydh cyrph y Saint yngcorph eglurder Christ. yr hwnn yssydh loewach no'r haul. A Duw yn preswyliaw yndhunt megys ymewn temloedh. A rhait yw bot temloedh Duw yn vwy eu tegwch ae gogoniant no'r haul. a lhyna pa ryw degwch yw un y Saint.

CXXXI.—O vuander y Saint. Buander Asael lhesc ehwyrdra yw hynny yno. canys cynn vuanet vydhant wy yna. ac y tywynna paladyr yr haul or dwyrain. neu or gorlhewin yr dwyrain dracheuyn. neu y galho lhygat edrych yr awyr y vynydh. Cynn ebrwydhet a hynny y dichawn y Saint vynet or dhaear y oruchelder y nef. ac or nef dracheuyn hyt y dhaear. A hynny a dhichawn yr Angelion y wneuthur. ac wyntau a vydhant gyphelyb yr angelion. A lhyna y rhyw vuander yw un y Saint. O gadernyt y Saint. Cadernyt Sampson a vydhai

wenndit yno. canys cynn gadarnet vydhant ac y galhant ymchwelut y dhaear a blaen eu troet peis mynnynt. ac yn gynhawset udhunt wneuthur hynny a phob peth y gyt a hynny. ac edrych yr awr honn. ac nat amheuet neb gallhu or engylion hynny. ac wynteu a fydhant yna gyffelyb yr angylyon. a lhyna y ryw gadernyt yw un y Saint.

CXXXII.—O rydhtit y Saint. Rhydhtit Cæsar Augustus a vydhai gaethiwet y gantunt wy. canys ef a alhwyt dala hwnnw ae rwymaw ae glophi. Cymaint yw eu rhydhtit wy ac y gallhant mynet drwy pob peth. ac nat oes creatur a alho eu hattal megys na alhawdh y bedh attal corph yr Arglwydh yndhaw. hyt na chyuotai y vynydh. ac na alhwyt ei ludhias y mewn ar drysae yngaeat. a chynnhebyc vydhant wy ydhaw ef. a lhyma rydhtit y Saint.

CXXXIII.—O ewyllhus y Saint. Drythylhwch Selyf a vydhai druan gantunt wy. Owi or ewylhus a gaphant wy pann vo Duw. ffynnawn yr holh dhoedh yn peri udhunt eu dogyn. A dwy wynuydedicaeth yssydh. un yssydh lai ymparadwys. ac aralh yssydh vwy ynteyrnas nef. a channy phrouassam ni yr un o honunt wy etto. ny alhwnn ni cyphelybrwydh am danunt wy. namyn dau ryw drueni yssydh. un yssydh lai yn y byt hwnn. ac aralh yssydh vwy yn uffern. A chanys beunydh y prouwn ni y nailh onadhunt. ny a wydham hagen rodhi cyphelybrwydh am yr hwnn a brouet. megys pai dottut haearnn tanlhyt gwynias ar benn rhyw dhyn. Ef a dhoai yna dholur drwy bob aelawt ydhaw. Velhy yngwrthwyneb y hynny y caphant wy eu lhwyr ewyllhus ymbob aelawt udhunt y mewn. ac o vaes. Ewyllhus dyn yma yw gwelet lhawer o wyr a gwragedh tec. ac edrych adeiladeu rhaceglur. a gwiscoedh mawrweirthiawc. gwrandaw ceinhiadaeth melys. ac ymadrodhion cyson a thelynæ a sawtrinæ a phibæ. a cherdhau erailh cysson. ac aroglau ystor a lhyseuoedh ac amrauaelion ireidiæ gwerthuawr. a digrifhau o amryw wledhau. Teimlaw pethau claer medhal. medhu y gyt a hynny ar lawer o olut. ac

amrauaelion dhodrefnau a thlysau. A hynny olh a vydh udhunt wy heb deruyn vyth arnunt. O wi or ewylhus a gaiph y golwc yna. A chystal y gwyl y lhygait yn gaeat ac yn egoret yna. Ac wynt a welant brenhin y gogoniant yna yn ei degwch ai anrhydedh. ac wynt a welant yr olh angelion ar holh Saint o vywn ac o vaes a gogoniant Duw. a gogoniant yr Angelion. ar patrieirch ar prophwyti ar ebystyl. ar Marthyri. ar conffessorieit. ar gwyrydhon. ar holh saint. Ac wynt a welant eu lhygeit ehunain ae hwynebau. ae holh aelodau o vywn ac o vaes. a medhyliæ pawb yn wahanredawl. ac wynt a welant pob peth ar yssydh yn y nef newydh. ac yn y dhaear newydh. ac wynt a welant eu gelynion ae poenes wy gynt yn uffern yn wastat. ac o hynny olh mwy y lhawenhaant. megys na alher ei dhywedut.

CXXXIV.—O aroglau y Saint. ewylhus echtywynnedicaeth a gaphant. canys wynt a gymerant ac a gaphant yr oraglæ bonnedhiceidhaf o ffynawn hynawster. ac or Angelion. ac organæ y Saint. O vlas y Saint ewylhus eu blas a gaphant. canys gwledhau a lhawenydh a gymerant yngwydh Duw. a phann ymdhangoso gogoniant yr Arglwydh udhunt. y caphant eu dogyn. ac o ffrwythlonnder tuy dhuw y medhwir wynt. megys y dywait y prophwyti. ewylhus teimledicaeth a gaphant yn y modh hwnn. yn y lhe y cyuarfu ac wynt pob peth garw calet. ef a gyueruydh ac wynt pob peth yn claer ac yn hynaws. O olut y Saint. pob rhyw gyuoeth a golut a gaphant. canys yno y gossotir hwynt yn lhawenydh yr Arglwydh yn vairi ydhaw. ac yn vedhianussieit ar yr holh dha. a lhyna drythylhwch y Saint.

CXXXV.—O Jechyt y Saint. Jechyt Moesen. nychdawt a vydhai hynny yno. canys eu hiechyt hwy a vydhai y gann yr Arglwydh. A phai prouit eu taraw hwy neu eu brathu a heyrn lhifait. ny bydhai vwy y argywedhai udhunt hynny. no phaladyr yr haul yn tywynnu yn awr ar dhyn. A lhyna y rhyw iechyt yw un y Saint. O hoedl y Saint. Hirhoedl Mathusalem a

vydhai yno mal hir nychdawt angau. canys angau a phy rhacdhunt wy. a lhyna yr hoedl a gaphant wy yn medhu treftadawl hoedl o annificiedic vuchedh. a lhyna dhaoedh y gorph ef. D. Megys ffynnawn o dhwfr melys yn dadebru lhauurwyr sychedic. velhy y mae geiriæ dy enau bendicedic yn lhonydhu vy enait i.

CXXXVI.—Am dhoethineb y Saint. Doethineb Selyf. ynvydrwydh vydhai hynny gantunt wy. yn dhiogel. canys wyntwy a wydhant pob peth o wybot a phob cymmendawt o Dhuw. y gwr yssydh ffynnawn y bob doethineb. A hwy a wybydhant bob peth or a vu. ac yssydh. ac a vydh rhaclhaw. ac wynt a wybydhant. ac a atwaenant pob dyn ar a vo yn y nef. ac yn y dhaear. ac yn uffern. ae henwæ. ae cenedloedh. ai gweithredoedh. nac yn dha nac yn dhrwc y gwnaethant. Nyt oes dim a alh ymgelu racdhunt. canys wynt a welant bob peth yn haul y wirionedh. D. Och maint o daccreuoedh truain y mae ffynnawn dy huolder di yn cymhelh arnafi en gellhwng. a wybydh yr holh Saint a wneuthum i yma. M. Nyt cymaint ac a wnaethost ti dy hun a wybydhant wy. namyn a vedhyliaist ac a dhywedaist a thi ac aralh. nac yn dha nac yn dhrwc y bo. hwynt ai gwybydhant yn dhealhus. D. Beth yna a dal cyphes ac ediueirwch. oni dhileir ein pechawt. neu os y Saint a wybydh ein gweithredoedh dybryt ni. rhai a vydhai wrthrwm gennyfi eu medhyliaw. M. Beth a aryneigi di. Beth a ofynhei di. ae ofn y sydh arnat ti dy gythrudhiaw am dy weithredoedh. Or pechotæ dybryttaf a thruanhaf ar a wnaethost erioet. ac a gyffesaist. ac a olchet trwy benyt. ny bydh mwy dy gywilydh o honaw yno. no phai caphut welioedh gynt y mewn brwydyr. a daruot dy wneuthur yn iach o honunt. A lhyna y ti beth yw madhau pechotæ neu dileu hyt na phoener am danunt. canys wy a vadheuir trwy benyt a chyffes. ac a dhileuir o gytwybot Duw ar Saint.

CXXXVII.—D. Mi a vynnwn proui hynny drwy angcraifft. M. Ponny wdhosti ry ladh o Dauydh gelanedh. ae vot yn anniwair. D. Gwnn. M. Ponny

wydhost ti vot Mair Vagdalen yn bechatures. a gwadu o Betr Christ trwy y anudon. ac ymladh o Bawl ac ecclwys Duw yn greulawn. D. Gwnn. M. A gredi di eu bot wynt yn y nef. D. Credaf. M. Wrth hynny os tydi yn lhygredic etwa a wyr hynny. mwy y gwydhannt wy. ac wyntau yn rhydh o lygredicaeth a breuolder dy weithredoedh dithau. noc y gwydhost ti. Ac ny bydh cywilydh ar neb er hynny namyn bocsach yw gantunt eu dianc. D. A uydh gwrthunn gann yr angelion. neu y gann y Saint y rhai a wnaeth pechotæ dybryt val hynn. neu a vydh ffieidhiach gantunt y rhai no chynt. M. Na vydh. namyn lhawenach vydhant wrthynt.megys cytymdheithion a dhiengynt o vrwydrau. ac o bericlau erailh. Velhy y cytlawenhaa yr angelion ar Saint am eu diainc wyntau. A phob peth ar a wnaethosti o bechotæ. wynt ar da olh a drossir yt. a megys y bydh hoph gann vedhic iachau y claf anobeithus. velhy y bydh gogoniant gann Dhuw ar Saint ar angelion. eu gwneuthur wyntau yn iach. D. O wi or diruawr lawenydh.

CXXXVIII.—O gytymdeithas y Saint. M. Cytymdeithas Dauydh a Jonathas. gelyniaeth vydhai hynny gantunt wy. O wi or velus gytymdheithas yssydh yn eu plith wyntwy. Duw ae car wynt megys ei veibion. ac wyntau a garant Dhuw yn vwy noc wynt ehunain. O dundeb y Saint. Dundeb Lelius a Scipio angcyssondeb vydhai hynny gantunt wy. canys cynn dunet vydhant wy ar dhau lygat. canys y lhe ydh edrycho un. ef a drossa y lhalh yno yn dhiannot. beth bynac a vynno un o honunt. ef ai mynn Duw ar holh angelion ar holh Saint. D. Os Duw ar holh Saint a vynnant bob peth ar a vynnwyfi. minau yna a vynnaf vy mod yn gyphelyb y Betr. M. Diogel yw os mynni y bydhi yn dhiannot dioer. ny wedhiaf i dy vot ti yn Betr. namyn yngyphelyb ydhaw. Canys pai eudhunut ti dy vot yn Betr. ti a eudhunut na bydhut dy hun. ac ony bydhut dyhun. ac ony bydhut dy hun ny alhut dim. canny chwennych neb dhim mwy noc a obrynno. megys na chwennych y troet vot yn lhygat. nar

lhaw vot yn glust. neu y gwr vot yn wraic. canys pei chwennychynt wy mwy noe dlyet. ny chephynt moe cyflawn lawenydh. a phawb a gaiph yno gyflawn lawenydh: wrth hynny nyt eudhunant wy mwy no hynny. ac nyt oes neb dim a alho achwenycau eu lhawenydh wy yn vwy noc y bydh. Ar gogoniant ny bo yndhaw ehun. ef ai caiph yn y lhalh o gytymdhaith ydhaw. Megys y caiph Petr gogoniant gwyryudawt yn Ieuan Apostol: a Ieuan a gaiph gogoniant dyodhefaint ympetr. Ac velhy y caiph pob un gogoniant y gyt ac ar nailhtu. Ac wrth hynny beth a alhant ei dhamunaw mwy noe bot yn gyphelyb yr Angelion. Cymaint ac a dhywedais y ti olh. a mwy heuyt no hynny lhwy ae caphant.

CXXXIX.—O alhu y Saint. Amlet cyuoeth a galhu Alexander a vydhai gyfyngdwr a gofal gantunt wy. canys cymaint vydh eu medhiant wy. ac a galhant wneuthur nef newydh a daear newydh os mynnant. Canys meibion Duw ynt wy. a chytetivedhion y Christ. ac wrth hynny dwywau ynt. megys y dywait y prophwyt. Mi a dhywedais dwywau ychwi. A chanys dwywau ynt. wynt a alhant pob peth or a vynnont. D. Paham na wnant wyntau nef aralh. M. Nyt adewis Duw dim yn angcwbyl. pan oruc pob peth yn perffeith o vesur. rhif. a phwys. A phai gwnclynt wyntau nef aralh gormodh vydhai hynny. a lhawer peth a alhwn i eu gwneuthur ac nys gwnawn. megys lhamu neu redec. a hynny a gredir ei alhu or ebystyl. ac or saint uchaf. a ninhau heuyt o chanhietir y ni vuchedhoccau yn eu gwasanaeth wy. Am y rhai gwirion olh y dywedir wynt a vydhant gyphelyb yr angylion. Megys weithon pei delei vrenhin heybiaw a gwelet o honaw dyn gwann yn gorwedh yn y dom. a pheri o honaw y drychafael y vynydh ae olchi. ae wisgaw oe dhilhat ehun. ae gymryt yn vab ydhaw. a rhodhi brenhiniaeth yn tref tad idhaw. Velhy pann welas Duw ninau yn lhwch pechawt. yn drycheuis y vynydh trwy ffydh. ac in golches o dhwfyr y Betydh. a dodi enw ei teilyngtawt ehun arnam. an gwneuthur yn etivedhion ar ei

deyrnas cf. megys y dywedir. y sawl ae cymerth ef. ei a rodhes vedhiant udhunt y vot yn veibion y Duw. a hynny yr neb a greto yn y enw ef. A chyt gapho un ogoniant yn rhagorawl rhac aralh herwydh eu gobrwyau. Eissioes pawb a gaiph un tuy y Tat o nef cyt bo amravaelion gyfanhedhau yndhaw. yr un cyfloc hagen a gaphant. nyt amgen o edrych ar Dhuw a chytymdheithas yr Angelion.

CXL.—O anrhydedh y Saint. Anrhydedh Joseph a vydhai amarch gantunt wy. D. O wi or anrhydedh a gaphant wy pann vo Duw chun yn eu hanrhydedhu megys ei veibion. ar angelion yn eu perchi megys tywysocion. ar holh Saint yn eu hanrhydedhu megys dwywau. M. Dlyet yw hynny ar Dhuw peri hynny udhunt. canys lhunyaethawdh gwneuthur hynny o honunt. ac wyntau a obeithiawdh ef oe holh lauur. Dlyet yw hynny heuyt ar yr holh Saint. canys cymerassant y dhwy wisg. a hynny ar y canuet. y nef ar dhaear heuyt ae dyly a phob creadur. canys wy a ysmutir yn ansawdh ardherchawc. a hynny er gobrwyau udhunt.

CXLI.—O dhiogelrwydh y Saint. M. Diogelrwydh Eli ac Enoc goual ac ofn vydhai hynny ganthunt wy. canys cynn dhiogeled yw arnunt wy. ac nat oes arnunt wy ofn angau na. dryc tynghetuen. ac nyt aryneicant vyth colhi yr hynn a dhywetpwyt uchot olh. Canny dhwc Duw y gantunt hynny. ac wyntau yn garueidhia veibion ydhaw ef. ac ny allhant wyntau vyth ei golhi ef. ac wrth hynny nys colhant. O cyflawn llawenydh y Saint. M. Llawenydh dyn a dhyccit oe grogwydh. ai wneuthur yna yn vrenhin. tristit vydhai hynny y gantunt wy. D. Pa ryw lawenydh a gogoniant a gaphant wy. ac wynt yn caphel mynet y lawenydh yr arglwydh. M. O wi a Dhuw or lhawenydh a gaphant wy pann welont y Tat yn y Mab. ar Gair yn y Tat. ar Cariat yn yr Yspryt Glan. ymhob un o honunt wyneb yn wyneb yn dhibryder vyth. Lhawenydh a gaphant o gytymdheithas ar holh Saint. ac o dhaioni yr Arglwydh o vewn ac o vaes y arnunt ac y danunt. ac

yn y cylch. ac o bob parth udhunt. a gwelet eu cytymdeithion yn amyl udhunt pob rhyw dhigrifwch a drythylhwch. A hwnnw yw eu cyflawn lawenydh wy. a hynny yw. dogyn o bob rhyw dha heb neb ryw eisiau.

CXLII.—D. Ti am lhenweist i o lawenydh yny ym tynnwyt i hayach y arffet y nef. a gwelet wyneb yr Arglwydh yn yr wybr. ac wrth hynny lhawen wyf am dy ymadrodhion. megys y neb a gaphai yspail vawr. ac wrth hynny manac ym y poenæ. M. Megys y caiph y rhai yssydh gyfeilhion yn detwydh y Dhuw tragywydhawl ogoniant yn yr Arglwydh. velhy yngwrthwyneb y hynny y caiph y rhai diricit. ar truein elynion ef y poenæ tragywydhawl. A megys y goleuheuir y rhai hynny or tegwch mwyaf. velhy y bydh dybryt y rhai erailh or aruthredh mwyaf. a megys y bydh ysgawn y rhai hynn or weithret oruchaf. velhy y bydh orthrwm y rei ereilh or lhesgedh mwyaf. a megys y bydh cadarn y rhai da hynny or nerth pennaf. y bydh gorthrwm y rhai enwir or llesgedh mwyaf ac y bydh eidhyl y rhai enwir or gwendit mwyaf. A megys y caiph y rhai da drythyllwch o dhiruawr lawenydh ac ewyllus da. velhy y caiph y lhailh chwerwedh a diruawr trueni. Ac val y caiph y rhai da yr ehang rydhtit. Y caiph yr enwir cyfyng gaethiwet. A megys y grymhaa y rhai da yr hynn o ardherchawc iechyt. velhy y defycia y rhai enwir o gleuyt a gwander. A megys y bydh budhugawl a lhawen y rhai hynn o wynuydedic vywyt. velhy y cwynant y rhai enwir oc oe dolurus hirhoedl. A megys y bydh eglur y rhai da hynn o echtywynnedicrwydh doethineb. velhy y bydh tywylh y rhai drwc o aruthredh ynvytrwydh. a dolur a thrueni a wybydhant. A megys y cyssylhta melys cytymdeithas y rhai hynny. velhy y chwerwa ac y poena chwerwa elyniaeth y lhailh.

CXLIII.—A megys y mae Cyttundeb rhwng y rhai hynn ehunain. ac y rhyngtunt a phob creatur. velhy y bydh anysgymot y rhwng y rhai hynny ehunain. ac angcytundeb y rhyngtunt a phob creatur. A megys y drycheuir y rhai hynny o oruchaf alhu. velhy y gostyn-

gir y rhai drwc or analhu mwyaf. A megys y drycheuir y rhai hynny or anrhydedh mwyaf. velhy y gostyngir y rhai drwc or amarch mwyaf. A megys y lhawenhaa y rhai hynny o ardherchawc dhibryderwch. velhy ydh ergrynna y lhailh or mwyaf arynaic. A megys y bydh y rhai hynn yn canu or dywededic lawenydh. velhy ydh uta y lhailh or tristwch truanaf heb dranc a heb orphenn. Cas Duw a gaphant am geisiaw lhesteiriaw y adeilat ei dhinas ef hyt y gellhynt a chas yr angelion am geisiaw lhesteiriaw cwplau eu rhif hyt y galhassant. a chas y nef newydh ar dhaear newydh. a phob creatur am geisiaw lhesteiriaw gwelhau eu hansawdh hytra y galhassant. a chas yr holh Saint am lesteiriaw udhunt eu lhawenydh hytra y galhassant. Rhyuedh yw eu gwrthwyneb. Megys na elhir medhyliaw na chredu maint lhawenydh y rhai uchot. velhy ny elhir cyphelybu na thraethu maint poenæ y rhai erailh. ac am hynny y gelwir hwy yn gyuyrgolhedicion. am eu dygwydhaw ywrth vachedh Dhuw.

CXLIV.—D. Ny dheualhaf i hynny. M. Pann adeilawdh Duw vrenhinawl neuadh ydhaw. Y lhithrawdh y paret pann dhygwydhawdh yr angelion ohonei. A phann vynnawdh Duw eu gyweiriaw dracheuyn. ydh anuones y vab y gynnulhaw y main byw yr adeilat hwnnw. ac yscynnu yn y gerbyt ef a oruc ef. a dwyn attaw lawer o vain. ac adaw y rhai a dhygwydhawdh heb ei dwyn. Y cerbyt yw y petwar eu angelystor. ar main yw yr Ebystyl a dynnassant yndhaw ynghrist ac eu pregethau ar hyt y byt. ac a gynnulhassant lawer y mewn y adeilat Duw. y rhai a dhygwydawdh or cerbyt hwnnw yw yr dynion ny chreto yn iawn y Dhuw. megys y dywedir wynt a aethant ywrthym ni. canys hannoedhunt o honam ni y rhai a dhucpwyt yno. a gyflehawyt yn adeilat y lhys nef megys main pedrogyl trwy y goruchaf syr. sef yw hynny yr etholedicion. a lawenhaant or petwar nerth pennaf. nyt amgen prudhder a chadernit. a chyfiawnder a chymetrolter. or rhai hynny y cyweirir muroedh

Caerusalem. Y main erailh garw heb gaboli a vu anaf arnunt gann y penn saer. nyt amgen no rhai enwir a vwrriwyt yn tan uffern. y rhai gwirion a dhiengis odhyno a vydh mur cadarn ynghrist. drwy lawenydh tragywydhawl. Amen.

Duw ath gyflawnho dithau oruchaf athro o, ogoniant y Saint. y gann welet o honot brenhin nef yn y nef yn y anrhydedh. a daoedh Caerusalem yn holh dydhiau dy vuchedh. Amen.

Ac yn y modh hwnnw y teruyna Lucidarius. neu Egluryn. yn yr hwnn y cynnwysir lhaweroedh o bynciau arbennic gorchestol y mewn Dewiniaeth. y Copi ydh escriuennais o honaw oedh ar vemrwn o hen lhaw wastat rwym yscriuenn. wedy 'r orgraphu yn geluydhlawn ardherchogwaith. yn gogwydho ychydicyn tuar iaith dheauperthic Cymru. ac etto or buriaith dhiletiaithuloesc Cymraec. er serch ar yr honn. ac ar vyngcyt Gymru y cymerais y lhudhedicboen honn ar ei hailyscriuennu val hynn. A chyt bai 'r lhaw yn arw ac yn drwscyl genyf. etto y mae 'r edhyl ar ewyllhus yn dha er lheshau vyngwlat. a chatwriaeth iaith vy mam. Onyt yn bennaf er gogoniant Duw a Christ vympryn-wr. y'r hwnn y gyt ar Tat ar Yspryt Glan y bo mawl ac anrhydedh ac olh vawredicrwydh ac Imperotraeth yr awr honn ac yn oes oesoedh. Amen. Oetran Christ herwydh y Cnawt. 1594. Tho. Wiliem.

YMBORTH YR ENAIT.

I.—Y Lhyfyr hwnn yw y trydydh or Lhyver a elwir Cysecrlan Vuchedh, a enwir Ymborth yr enait, ac yndhaw y mae Tair rhann gwahanredawl. Y rhann gyntaf a draetha am y gwytiæ gocheladwy, ar Campau arueradwy. Yr ail rhan am dwywawl gariat, drwy yr hwnn y cyssylhtir Duw a dyn. Y drydedh rann a draetha am ber lewyguae a dhelon or Cariat hwnnw. Ac am weledicaeth a rodho yr yspryt yn y per lewyguae hynny. Ac am nawradh yr Angelion. Ac o hynny cyntaf y traethir am y gwytiæ, val y galher eu gochel ar vyrder. Canys anteilwng yw gwytus y gaphael dwywawl gariat. Ar Campus ai caiph megys y dywedir rhaclhaw.

II.—Saith Brif wyt yssydh y rhai a elwir ynn Bechotæ marwolion. Canys angau a barant yr enait, ac am hynny y gelwir wynt yn varwolion. Sef yw angæ yr enait gwahanu Duw ywrthaw, yr hwnn yssydh vywyt yr enait. Canys megys y bywhaa yr enait y corph, a hebdhaw y marwheir. Velhy y bywhaa Duw yr enait, a hebdhaw y bydh marw. Ac velhy angau yr enait yw gwahanu Duw ywrthaw drwy bechawt marwawl. Saith brifwyt bechawt marwawl yssydh ac a elhir eu deualh drwy un gair saith lythyrawc. Gann gymryt gair cyfan o bob lhythyren or Gair : sef yw y Gair : Bakagilh : or B. Cymer Balchder : or A. cymer Anghawrdeb : or K. cymer cynghoruynt. or A aralh cymer Anniweirdeb. or G. cymer Glythineb. Or J. cymer Irlhonedh : or lh. cymer lhesgedh. Ac velhy or un Gair y cynnulhir y Saith Brifwyt, sef yw hwnnw Bakagilh.

III.—Traether belhach am bob un onadhunt or neulhtu drwy dhangos yspysrwydh am bob un ona-

dhunt, ac eu Canghau. Ac yngyntaf am Valchder yr hwnn yssydh dhechreu y bob drwc. Balchder yw gormodh cariat chwant trahaus wrth vawrhau briawt bersonn drwy wydyus uchelder medhwl y dremygu a vo is. Ac am a vo uch no thi, eu gostwng yn gyuywch, a bot yn Arglwydh arnaw.

IV.—Un gaing ar bymthec yssydh y Valchder, nyt amgen, ymwychaw, Bocsachu, ymdrychauael, Anostwng, drudaniaeth, ymchwydhaw, Cynhennu, Anodhef, Anufudhdawt, Tremyc, Rhacymgymryt, Cellhwair, Gaugreuydh, Tralhafariaith. Traachup, Clot orwac.

V.—Ymwychiaw yw na odhefer yn uch nag yn gyfradh. Bocsachu yw ymwneuthur o dhyn y vot yn eidhaw, y peth nyt y diyw. Ymdrychauel neu wiwder, yw ymragori ar eiriæ neu ar weithredoedh, neu wisgoedh rhag erailh gann eu tremygu. Anostwng yw anymchwel medhwl o drudaniaeth y dharostwng y welh neu y bennach noc ef. Drudaniaeth yw hirdrigiat medhwl ar y drwc. Ymchwydhaw yw ymwrthladh yn dremygus awdurdawt neu orchymynnæ prelatieit, neu hynafion. Cynhennu neu ymserthu, yw lhefawr a bloedhgar gyngheussedh yn erbyn y wirionedh. Anodhef yw anwahardh teruysgus gyphro gwylltineb medhwl heb ei ffrwynaw. Anufudhtawt yw anostwng y prelatieit neu uchafion ar eu cymmynnediwau. Tremyc yw gwellygiaw neu walhus ebryfygu gwneuthur yr hynn a dlyer y wneuthur yn rhwymedic. Racymgymryt yw gomedh dlyedus anrhydedh y prelatieit neu y hynafion. Cellhwair yw afreolus ymgeiniaw cywilydhyus (watwar) drwy ytharus watwar, ac yn bennaf pann ei gwneler yn erbyn y Creawtyr. Geu greuydh yw cudhiaw gwarchedicion wytiæ, drwy gam ardhangos nerthussion gampau heb eu bot, Tralhafariæth, neu Tralhafarder yw ardhangos ysgafnrwydh medhwl trwy ormodh golhwng tra gorvagion ac ynvydion barablau. Traachup yw trachwant y gael anrhydedh er clot tranghedic. Gorwacrwydh neu glot orwac, yw gwytyus oruoledh am gampau ny bont arnaw, neu am y rhai a vont gann y ganmawl ehun, heb rodhi moliant y Dhuw amdanunt.

VI.—Traether belhach am Angawrder ai gainghau. Angawrdeb yw tra gormodh chwant o drachypydhiaeth y gynnulhaw da bydawl heb dharbot pa wedh y capher, ae gynnal yn amperffeith heb rodhi y gormodhion yr tlodion. un gaing ar bymthec yssydh y anghawrdeb, nyt amgenn: Simoniaeth, usur, herwydh, Anudon, lhetrat, Celwydh, Trais, Angcyuarch, Annorphwys, Camvarn. Drudaniaeth. Twylh, Brat. ffalster, ymolhwng, Camwedh. Simoniæth, yw prynnu neu werthu peth ysprytawl, neu berthynas ydhaw. Usur yw cymryt da aralh mwy no dlyet gann werthu'r amser. Lhetrat yw cymryt da aralh heb wybot yr perchennawc. Herwriaeth yw cribdhail da aralh yn dhirgel o anuodh y perchennawc. Anudon yw cadarnhau celwydh drwy lw. Celwydh yw dywedyt ffalsedh drwy ynni twylhaw aralh. Trais yw yspeiliaw aralh oe anuodh am ei dha yn angcyuarchus. Angcyuarch neu anuodh yw cymelh aralh yn angcyureithiawl y wneuthur y peth nys dlyo. Anorphwys, neu aflonydhwch, yw cyphroi aralh yn enwir heb achaws. Camvarn yw rhodhi barn angcyfreithiawl er cariat, neu er ofn, neu er chwant. Drudaniaeth yw cynnal yn ormodh y gyt ar drwc. Brat yw siomi aralh yn dwylhodrus, neu galhter chwedleu. Twylh yw dirgeledic vawr dynget drwy wenyeithgar gyfeilhach y siomi aralh. Ffalsedh neu dhichelh yw cudhiaw dryc vuchedh drwy dwylhodrus ymdhangos cyphelybrwydh sancteidhrwydh. Ymolhwng yw ymrodhi yn wahanredawl y gynnulhaw da bydawl heb oledyf na chywilydh na darbot pa wedh y capher. Camwedh yw gyrru ar aralh gwytieu, neu dryceu, neu veiau ny bont arnaw; drwy wybot na bont.

VII.—Traether belhach am Cynghoruynt ai gainghau. Cynghoruynt yw gwenngas a lhidiawgvar dhygasedh ar aralh drwy lawenhau am ei afles a thristau am ei les. Pymthec Caing yssydh y Cynghoruynt neu y Cynuigenn: nyt amgen, Gogan, Anglot, Absennat, clust hustingas, dybrytrwydh, emelhtigaw, Cyhudhaw, drycdhychymyc, Dygasedh, Anghywirdeb, Cas, Chwerwder, Anundeb, Gwatwar, Cuhudh. Gogan yw angclot-

uori aralh yn y absen, drwy vynnu lheihau ei glot a mwyhau y anglot. Anglot yw goganu aralh yn dwylhodrus yn ei absen. Absenair yw cyfartgar ogan hustungus am barablæ neu weithredoedh erailh yn y absenn. Clust hustungas yw cas hystyng dychymyc drwc, wrth vedhiannieit neu Swydhogion y golhedu aralh o dhygasedh arnaw. Dybrytruydh yw gwrthwynebu clot aralh am y weithredoedh da. Ymelhtigaw yw bwrw dryctyb yn erbyn gweithred dha ai chamystyriaw. Cyfarsangu a chudhiaw clot yw celu ar aralh y dha pann dlyit y vanegi. Dryedhychymyc yw gyrru neu dhychymygu ar araih newydh ogan yn gelwydhawc. Dygasedh yw anuynnu lhes neu dhamwain da y aralh: Angcywirdeb yw aniolwch y dha y aralh. Chwerwder yw gwenwynuar diphaith vedhwl diram o lawenydh. Gwatwar yw cellhweirus lawenydh drwy dhygasawc dhigrifwch angcymetrawl y dremygu aralh. Cyhudh yw manegi gwyt neu drwc ar aralh gerbron brautwyr wrth y golhedu. Cas yw angharu aralh drwy rybuchaw drwc ydhaw. Anundeb yw casau aralh hyt na mynnai bot yn un ac ef er neb ryw beth.

VIII.—Traether belhach am Anniweirdeb ai gainghau. Anniweirdeb yw lhithredic wylhtineb syrthedicaeth medhwl y mewn budron a halogion gnawdolion eudhunedæ. Saith gaing yssydh y anniweirdeb: nyt amgen ffornicrwydh, godineb. tralhosgrach, angcywilydh, pechawt yn erbyn anian, drycchwant, pechawt lhwdngar. Ffyrnicrwydh yw pob cyt cnawtawl y maes or gwely priawt. Godineb yw cytiaw o wr priawt a gwraic aralh, neu o wraic priawt a gwr aralh. Tralhosgrach yw pechu wrth gâr neu gares, neu gyfathrachdhyn o gyfathrach gnawdawl neu ysprytawl. Pechawt yn erbyn annian yw gellhwng dynawl hat yn amgen le aralh no'r lhe teruynedic y hynny. Drycchwant yw lhithredic ostyngedigaeth medhwl ar y wahardhedic vedhalrwydh eydhunet. Anghywilydh yw ardhangos anniweirdeb medhwl ar Arwydhion odhi eithr. Pechawt lhwdngar yw pechu wrth ansynnhwyrolion aniueilieit. Wyth peth yn achwysawl a

ennynnant odineb neu anniweirdeb nyt amgen: Seguryt, bwyt blyssic, diodydh gwerthuawrussion. Gware, Cusanu, Geiriæ sercholion, Rhudhion dirgeledicion, ymdhidhanæ cyfrinachus; nawuet yw golygon yn mynych edrych ar vorynnyon a rhianedh.

IX.—Traether belhach am lythineb ae Gaingæ. Glythineb yw anueitrawl trachwant y vwyta neu y yfet yn angcymhesur. Deudhec Caing yssydh y lythineb, nyt amgen Rythni a medhtawt ffolhaelder, anymgynnal, Angcymmetrolter, Angcywilydh. Gorwac ymadrawdh, Anniweirdeb, Anadhvwyndra, Anhynawster, Tordynn. Chwyt. Rythni yw cymryt gormodh bwyt. Medhtawt yw cymryt gormodh o dhiodydh, megys y dywait Cynnedhfæ medhwtawt yn y lhyfr aralh. Ffolhaelder yw diwalhtrein a dlyer ac ar ny dlyer ei rodhi. Anymgynnal yw rhagvlaenu teruyn gosodetic y gymryt bwyt neu dhiot gann dorri unprytieu a ossotto yr ecclwys Gatholic. Angcymmetrolter yw trachwennychu gormodh o vwyt neu dhiot. Angcywilydh yw dywedyt Croesan eiriæ angcreuydhus. Gorwac ymadrawdh yw dywedut geiriæ gwagmalion diystyr drwy orwagrwydh segyryt. Aniweirdeb glythineb yw ardhangos arwydhion odhieithr trachwant y medhwl o vewn y lythineb. Anadhvwynder yw ceissiaw gormodh anrhegion o vwyt blyssic, neu ormodh o dhiodydh gwerthuawrussion. Anhynawster yw arver o dra gormodh gwerthuawrussion wisgoedh am y gnawdawl gorph. Tordyn yw tra gorthrymder y galon gann ormodh destlusrwydh. Chwyt yw cymryt gormodh bwyt neu dhiawt ony orpho y atuer dracheuyn a hynny trwy chwydu.

X.—Traether belhach am Irlhonedh ae Gaingæ. Irlhonedh yn lhidiawcfar gwenwynuar wrth aralh, drwy ewyllyschwant y gael deisyuyt dhial am ei lit. Pedair Caing or dhec yssydh y Irlhonedh, nyt amgen, Cas, Anundeb, Cynnhennu, ymwychiaw, Anodhef, ymserthu, mawrdrycedh, enwiredh, dryc ewylhus, Cyndharedh, Teruysc, dryc anian, lhofrudhiaeth. Cas yw blinder medhwl am aralh o hen drycanian. Anundeb

yw ymwahanu orhai a nottaunt ymgaru. Cynhennu yw sarhaet ar eiriæ megys ymchwrnu. Sarhaet yw gwneuthur cam ac aralh ar air ac ar weithret yn angcyfreithiawl. Ymwychyaw yw ymsarhau drwy ymserthu ar eiriæ cođedicion. Anodhef yw anwahardh teruyscus wylhtineb medhwl heb ei doui. Ymserthu yw ymdorri drwy deisyfyt gyphro medhwl mewn anadhwynion ymadrodhion serthion. Mawrđrygedh yw dichelhus ystryw y golhedu aralh. Enwiredh yw beidhiaw drwy đrudaniæth gwneuthur drwc y aralh cyn nys galher. Dryc ewylhus yw rhybucho drwc y aralh cyn nys galher ar weithret. Cyndharedh yw colhi synhwyr o dra lhit. Teruysc neu gynnurf yw anwastatrwydh lhithredic gnawtoliaeth, a dhel o vreuoliaeth medhwl. Dryc annian yw ardhangos ar wyneb ac ymdhygiat gwarthaedic, chwerwder marwoliaeth medhwl. Lhofrudhiaeth yw Caing o Irlhonedh a wnair drwy weithret, megys pann ladho dyn aralh yn weithredawl. Chwechaing yssydh y lofrudhiaeth, un yw yr honn a dhywetpwyt lhadh dyn yn weithredawl. Eil yw casau aralh yn varwawl. Trydydh yw dryc ewylhus drwy eydhunaw angau y aralh, hyt na bo arnaw ef nas lhedhit oc vodh. Petwerydh yw anidharbot megys pai gwypai đyn vot aralh yn mynnu lhadh Celain, ac na rybudhiai y lhadhedic, namyn gelhwng heybiaw heb đarbot ei ladh. Punet yw rhodhi cyngor y ladh aralh. Chwechet yw dwyn y ymborth y gann eisywedic, megys pai gwelai đyn aralh yn marw o eisiau, ac nas nerthai ac ef yn ei alhu ar hynny.

XI.—Dywetter belhach am lesgedh ai gaingæ. Lhesgedh yw mwyglder medhwl yn gwalhygyaw gwneuthur da, neu yn blinaw rhac gorphenn y da dechreuedic, neu vlinder yn ymwrthladh ar drwc. Naw Caing yssydh y lesgedh nyt amgen Ergrynn, Mewyt, lheduryt, Gwelhyc, Ampruđder, anghalhder, Trumluawgrwydh, Anwybot, Gorwacrwydh. Ergryn yn ofynhau dechreu gwneuthur da. Mewyt yw blinder wrth orphenn y da dechreuedic. Lheturyt yw ofynhau dechreu peth mawr adhwyn. Gwelhyc yw gwalh am

wneuthur y peth a dlyer y wneuthur yn rhwymedic. Ampruđder yw na racweler am bethau a dhelont rhaclhaw or a alher y rhacwelet. Angcalhder yw gochel y rhy bechawt yny syrthyer yn aralh. Trymlyawcrwydh yw lhesgu o dhyn y orphen y peth a dlyho y wneuthur yn rhwymedic. Anwybot yw na rodho dyn ei weithret y gwplau dim or gwaith a dlyo ei wneuthur yn rhwymedic. Gorwacrwydh yw parablau securion eiriæ yn orwac.

XII.—O dair ffordh y pechir drwy bob un or saith brifwyt hynn, nyt amgen o vedhwl, a gair, a gweithret. A thrwy hynny oe holh gorph. Cyphelybrwydh a hynny a elhir y gymryt am valchder, yr hwnn yssydh gyph yr holh wytiæ. A hwnnw a vegyr o dair ffordh. nyt amgen am y tri rhyw dha a rodhes Duw y dhyn, sef yw y rhai hynny, da Anianawl, a da damweiniawl, a da ysprydawl. Am dha anianawl y megyr balchder, megys am gryfder, neu degwch, neu đewrder, neu huolder ymadrawdh, neu lef, neu ethrylithyr. Sef yw da anianawl Campæ a rodho anian y dhyn. Am dha damweiniawl y megys am geluydhyt neu wybodeu, neu anrhydedh neu gyuoeth neu teilyngtawt, neu vonedh, neu gariat gwyr mawr, neu ganmawl (gwisgoedh) gwyrda, neu amlder gwisgoedh gwerthuawrussion. Canys damweiniawl yw pob un o hynny. A da damweiniawl yw yr hynn a dhel o dhamwain. Am dha ysprytawl ratlawn heuyt y megyr balchder, megys am ufudhdawt neu Anmynedh, neu warder, neu vonedhigeidhrwydh, neu arafwch. Sef yw da ysprydawl, ratlawn, nertholion gampau ysprytolion a rodho yr yspryt glan y dhyn. A megys y megir balchder o bob un o hynn o air a medhwl a gweithret: velhy y megir pob un or gwytiæ erailh. A megys y mae pob un or gwytieu yn gyph y eu Caingae: velhy y mae Balchder yn gyph yr saith brifwyt.

XIII.—Traether belhach am y Campæ ysprydolion yssydh yn wrthwyneb yr gwytiæ. Saith y sydh or Campau hynny yn erbyn y saith Brifwyt. Ac ef a elhir eu deyalh ar un gair saith lythyrawc megys y

saith brifwyt, sef yw y gair hwnnw Cuchade. Or K. cymer Cariat yssydh wrthwyneb y gynghoruynt ae Caingæ, y gaingæ Cynghoruynt drwy wrthwynebu pob un y gilydh. Ac velhy am bob un or Saith Camp yn erbyn y Saith wyt. Or, U. cymer ufudhdawt yssydh wrthwyneb y Valchder. Or C. Cymetrolter yssydh wrthwyneb y Lythineb. Or H. cymer Haelioni yssydh wrthwyneb y Angawrdeb. Or A. cymer Anmynedh, a hwnnw yssydh wrthwyneb y Irlhonedh. Or D. cymer diweirdeb yssydh wrthwyneb y anniweirdeb. Or E. cymer ehudruydh (neu esgudrwydh), yssydh wrthwyneb y Lesgedh. Y prifwytieu brathau angeuolion ynt y ladh yr enait, ony bydh medhiciniaeth ae gwareto. Tri rhyw vedhiciniaeth yssydh yn eu herbyn, nyt amgen, Ediveirwch medhwl, Cyffess Tauawt, a heuyt gweithret: megys y megir y gwytieu o vedhwl, a gair, a gweithret. Ac velhy y teruyna y rhann honno or lhyfr hwnn or gwytieu gocheladwy ar Campau arueradwy.

XIV.—Traether belhach am dhwywawl gariat, drwy yr hwnn y Cyssylhtir y Creawtyr Duw, ai greatur dyn. Ac yn gyntaf rhait yw gwybot beth yw Cariat, ac o ba ffordh y daw cyfiawn gariat. Saint Awstin a dhywait val hynn: Beth yw Cariat. Cariat yw nebun vywyt yn cyssylhtu deubeth ynghyt, neu yn eudhunaw eu cyssylhtu. Dauryw Cariat yssydh, nyt amgen, Cariat serchawl trygiedic tragywydhawl: a Chariat alhylhadh diflannedic amserawl. Y Cyntaf a rodhir ar beth parhaus tragywydhawl, ac a gyssylhtir ac ef yn tragywydhawl. Yr eil a dhodir ar beth amserawl tranghedic ac y gyt ac ef y traing ac y diflanna. Y Cyntaf Cariat perffeith yw. Canys peth perffeithgwbl tragywydhawl a gar, sef yw hwnnw Duw. Yr eil Cariat amperfeith yw. Canys y vot yn caru y peth y galher ei gasau ac ymwahanu ac ef. Ac angau yw ymwahanu a pheth daruodedic. Y Cyntaf a elwir Cuedhserch, neu anwylserch. Canys eu y dyly vot serch a gyssylhto y serchawl ai gariat yn dragywydh. yr eil a elwir ynuytserch: Canys ynuyt yw y serch a dhiflanno y gyt ai

serchawl. Am hynny trancedic yw y Cariat hwnnw, ar dwylh gariat. Y Cyntaf yssydh berffeithgwbl eidhunserch anrhydedhus. Canys hwnnw dwywawl yw, gwrthyneb yr cariat aralh cnawtawl. A lhyma y ffordh y daw yr anwylserch gwynuydedic hwnnw.

XV.—Y drindawt vendicedic o nef creawdyr pob peth or a weler ac ar ny weler, yndhaw ehun y mae pob peth. Canys y dann dripheth y cynlhelhir pob peth, nyt amgen, Galhu, a gwybot, neu dhoethineb, a daeoni. Ar tri pheth hynny a briodolir a thair person y Drindawt, nyt amgen, yr Tat y priodolir y galhu, Canys ef yssydh holhalhuawc, a holh gyuoethawc. Yr Mab y priodolir doethineb a gwybot: Canys ef yw y gwir doethineb, a gymerth dynawl gnawt ac a wyr pob (peth) ryw beth. Yr yspryt glan y priodolir daeoni a thrugaredh. Canys ef yssydh holh drugarawc. Canys drwy y drugaredh y cymerth y mab y dynawl gorph a anet o Vair wyry. Y Tair person hynny cyt boet pob un onadhunt yn berffeithgwbl duw: Eissioes un duw ynt yn un duwolder tragywydhawl: heb vot yn vwy nac yn lhai y duwolder yn un or person noe gilydh, nac yn y tair person ygyt noc yn un onadhunt, nac un onadhunt yngynt noe gilydh, nac un yn ol y gilydh. Namyn y tair person yn gymharieit gyfoetion, gytragywydholion, ac a elwir o dhirgeledic enw Alpha a Omega. Sef yn hynny. A. ac Ω. dechreu a diwedh. A. lhythyren tair ronglawc yw, ac a arwydhocaa tair person y drintawt. Yn y gongl uchaf, y tat, yn y gongl issaf or tu deheu y mab: Canys ef a gyfeistedh ar dhehau Duw tat. Yn y gongl aralh issaf or tu asswy yr yspryt glan. Canys ef yssydh yn cymryt cariat anwylserch y rwng y tat ar mab. O. lhythyren gronn yw, heb dhechreu, a heb dhiwedh yndhi. Canys ympob lhe o beth crwnn y cair diwedh a dechreu. Ac er hynny nyt oes na diwedh na dechreu arnaw. Ac er hynny diwedh a dechrau yw yn ei chylch, a honno a arwydhoccaa un Duwolder y tair person yssyd dechreu a diwedh y bob peth, cynny bo dechrau na diwedh arnaw ef. A lhyna y Cylch tri ac un yssydh bob peth. Canys o honaw y mae pob

peth yn dyuot, a thrwydhaw ef y daw pob peth ac yndhaw y tric pob peth ; megys y dywait pawl ebostol. (Δ) Cyphelybrwydh y hynn a elhit y gymryt ar gylch crwnn petwar ronglawc a elhyt y scythru val hynn : nyt amgen gwneuthur y Cylch crwnn ar waith □ ac yn y cylch hwnnw yscythru A yn dri chonglawc, ac yn y gongl uchaf or A yscythru Duw tat, yn y gongl issaf ar y deheu yscythru mab Duw, sef yw hwnnw Iesu Ghrist, yn y gongl aralh or tu assau yscythru yr yspryt glan ar ffurf colomen yn lhawn o dân, yr hwnn a arwydhoccaa cariat anwylserch y sydh yn cymryt y rhwng y Tat ar Mab ar Yspryt Glan, sef yw hwnnw serchawl gariat y tat ar y mab, ar y Tat. O. lhythyren gronn yw heb na diwedh na dechreu arnei. Canys ymhob lhe arnei y cephir dechreu a diwedh. Honno a arwydhoccaa un duwolder y tair person. Yn y vann uchaf or Cylch hwnnw yn y lhe y mae y dwyrain, lhunier y Tat : yn y gogledh or tu dehau yr Tat, lhunier y mab : yn y dehau or tu asswy yr Tat. lhunier yr Yspryt Glân, yn anuon neu yn cymryt gwreichion o dân y cariat anwylserch y rhwng y Tat ar Mab yn y Gorlhewin y waeret, lhunier yr ecclwys lân Gatholic, yr honn yssydh wraic bwys briawt y un mab Duw dat : Sef yw honno yr ecclwys vudhugawl gynnulhedic o gyphredin luosydh ffydhlonion Christ o dhynion yr ecclwys ryuelus yma, ac Angylion yr ecclwys vudhugawl vry. Belhach o dan yr anwylserch yssydh yn cymret y rhwng y Tat ar Mab, yr hwnn y cyphelybir yr Yspryt Glân ydhaw. Ac yn wir efo a dhygwydh gwreichion yr ecclwys vudhugawl odhyno, ynghalonnau yr ecclwys ryuelus yma. Ac er bychanet vo gwreichion hynny ny alhant vot yn lhai namyn yn vwy nor holh vydyssiawt. Canys cyt ys galwer wynt yn wreichion (wynt), nyt ynt lai nor cwbyl dân yr hanwynt o honaw sef yw hwnnw yr Yspryt Glan y gyt, ac nyt lhai hwnnw noc unolder y Tair person, yr anwylserch gariat hwnnw a wahenir yn dhwy gaing. Un yw caru Duw yn vwy no phob peth, a charu dy gyfnessaf yn gymaint a thi dy hun.

XVI.—Caru Duw yn vwy no phob rhyw beth a dlyir o betair ffordh, nyt amgen, o holh galon, o holh vedhwl, o holh enait, o holh nerth: sef yw hynny yn dhoeth, hyt na bo neb ryw beth yn y galon a wrthwynepo oe gariat ef namyn rhodhi ydhaw ef yr holh galon. Canys ef ehun yssydh yn ei herchi: pann dhywait: vy mab moes y mi dy galon, sef yw hynny holh ewylhus dy galon hyt na gwaet yn y galon nas golhynger oe gariat ef or bydh rait. Or holh enait, sef yw hynny yn ber uelus, neu yn veluster hyt na bo digrifwch na pher velyster yr enait namyn Duw ehun. Ac na charer neb o gyfiawn gariat namyn ef, neu a dlyer y garu er ei gariat ef o holh nerth, sef yw hynny yn gadarn, hyt na bo neb ryw beth a alho dy wahanu ywrth gariat Duw. O holh vedhwl, sef yw hynny yn gofawdyr, hyt nat el dros gof gennyt vyth y gariat ef. Namyn cynnal yn dy gof na cherych neb ryw beth yn vwy noc ef.

XVII.—Caru dy gyfnessaf a dlyy yn gymaint a thi dy hun, sef yw hynny na rybuchych ydhaw drwc, ac nas mynnych mwy noc yt dyhun; ac a vynnyt y rybuchaw yt dyhun, y vynnu ydhaw yntau. Ac na ettych arnaw ormodh gwalh nac eisiau mwy noc arnat dy hun hyt y gellhych yn gyfiawn y amdhiffin, megys nat ymlycrych dy hun yn ormodh, oe garu ef yn vwy no thydi dyhun, hyt na ettych dim ar dy helw y achub dy angau dy hun, heb y rodhi y achup ei angau ef. Canys ny dlyy di garu neb yn vwy no thi dyhun. Eithr Duw, cyt ys cerych yn gymaint a thi dy hun. Dy gyfnessaf yw pob un o ffydhlonion Christ, sef yw hynny pob Christiawn ffydhlawn. Ac yn bennaf pawb or a oruc da yt. Cyt bych mwy vwymedic yth rieni ac yth geraint noc y estronion, ac yn vwy yth vwymir y garu dy rieni ath geraint ysprytolion, megys ecclwyswyr a chreuydhwyr, noth rieni ath geraint cnawtolion, megys y mae pennach yr yspryt no 'r cnawt, ac yn bennaf o hynny od wyt greuydhwr, dy gytgreuydhwyr ath tatae ysprytolion. pob ryw gariat aralh or a dhotter ar greadur aralh eithyr a garer er duw, ynvytserch yw,

